# ENOC HUWS

57

Mat. 13

NATIONAL LIBRARY OF

Angus Matheson.

# PROFEDIGAETHAU

# ENOC HUWS:

GAN

DANIEL OWEN,

*(Awdwr "Y DREFLAN," "RHYS LEWIS," &c., &c.)*

WREXHAM:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN HUGHES & SON, 56, HOPE STREET.

*[ALL RIGHTS RESERVED.]*

NATIONAL LIBRARY OF SCOTLAND
B
12 JA
1931

# RHAGYMADRODD.

Nid cymhwys, yn ddiau, yr ymddengys ysgrifenu "Rhagymadrodd" i lyfryn o natur *Profedigaethau Enoc Huws.* Ac eto, prin yr ystyrir llyfr Cymraeg yn gyflawn hebddo, mwy nag yr ystyrid pregeth Gymraeg amser yn ol, heb fod ynddi *yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, ac yn olaf.*

Y mae i'r llyfr hwn ei amcan; ac os nad ydyw yn ddigon eglur heb i mi ei enwi, ni wna hyny ond dangos fy mod wedi methu yn fy nghais. Bydd yn syn genyf, hefyd, os na wêl rhai rhanau o'n gwlad, yn enwedig Sir Fflint, pa beth oedd yn fy mryd wrth ei ysgrifenu. Pa fodd bynag, mi adawaf i'r hanes lefaru drosto ei hun.

Goddefer i mi wneud un sylw, gan fod hwn yn gyfleustra rhagorol i'w wneud, ac na welais, hyd yr wyf yn cofio, neb yn galw ein hystyriaeth ato: yn ystod yr haner can' mlynedd diweddaf, mi gredaf, na wâd neb, sydd yn gwybod rhywbeth am danom, fod llenyddiaeth Gymraeg wedi adfywio nid ychydig, ac wedi cyrhaedd safon uwch nag mewn unrhyw gyfnod blaenorol—o leiaf y mae yn fwy ëang a thoreithiog. Gyda'n holl fisolion, deufisolion, a'n chwarterolion, a'r holl lyfrau a ddygir yn feunyddiol drwy y wasg, heb sôn dim am ein newyddiaduron, ni faidd y philistiad mwyaf dienwaededig a gwyneb galed, tybed, ddyweyd nad oes genym, erbyn hyn, lenyddiaeth. Ystyrir ni, os nad ydwyf yn camgymeryd, yn genedl o deimladau naturiol bywiog, ac o ddychymyg gref. Ond rhyfedd! nid oes yn ddiweddar ddim neillduol a hynod o dda wedi ymddangos mewn chwedloniaeth wir Gymreig. Rhaid i ni fyn'd yn mhell yn ol i gael hyny. Mae yn wir fod genym ugeiniau o ffugchwedlau wedi ymddangos yn ein

gwasg; ond, hyd y gwelais i, gydag ychydig eithriadau, nid ydynt ond adlewyrchiadau ac efelychiadau o nofelau Saesonig. Mewn gwledydd eraill, megis Lloegr, Ffrainc, ac America, ceir y dynion mwyaf eu dysg a'u hathrylith yn mhlith y chwedleuwyr. Ond yn Nghymru gadawyd y gangen hon o lenyddiaeth, hyd yn hyn, i ysgrifenwyr israddol, fel fy hunan.

Pa fodd y rhoddwn gyfrif am hyn? Nid oes, ar y funyd, pan wyf yn ysgrifenu hyn o eiriau, ond un rheswm yn cynyg ei hun i fy meddwl. Mae Cymru oddiar y Diwygiad Methodistaidd—ac ni a ddylem ddiolch am hyny—yn wlad grefyddol, ac wedi ei thrwytho â'r elfen Biwritanaidd. Ein harwres ydyw Ann Griffiths ac nid George Eliot. A gallaf yn hawdd ddychymygu am hen flaenor ymneillduol cywir, crefyddol, a duwiol, gyda Phererin Bunyan yn agored ar ei lin, â'r dagrau yn ei lygaid wrth ei ddarllen, ac, ar yr un pryd yn edrych—a hyny yn eithaf gonest—a'r nofelydd Cymreig fel dyn yn dyweyd celwydd i foddio ynfydion!

Mi gredaf fod y cyfnod hwnw ar fyn'd heibio. Mae mwy nag un ffordd i addysgu a difyru ein gilydd. Y chwedl fwyaf effeithiol, poblogaidd, ac anfarwol yn Nghymru, ydyw Y Mab Afradlon! A rheswm da paham! Amen, felly y byddo byth!

Mae hanes, ac arferion Cymru, yn wir, y bywyd Cymreig, hyd yn hyn, yn *virgin soil*, ac, yn y man, mi hyderaf, y gwelir blaenion ein cenedl yn corphori yn y gangen hon o lenyddiaeth ein neillduolion a'n defodau. Hyd hyny, gwasanaethed Enoc Huws a'r cyffelyb.

DANIEL OWEN.

WYDDGRUG,
*Hydref 20fed*, 1891.

# CYNNWYSIAD.


| PEN. | | TUDAL. |
|---|---|---|
| | RHAGARWEINIAD | 7 |
| I. | CYMRU LAN | 14 |
| II. | GWEITHDY'R UNDEB | 19 |
| III. | 'DOES DIM YN LLWYDDO FEL LLWYDDIANT | 23 |
| IV. | CAPTEN TREFOR | 27 |
| V. | "SUS" | 31 |
| VI. | CYFFES FFYDD MISS TREFOR | 34 |
| VII. | DEDWYDDWCH TEULUAIDD | 37 |
| VIII. | CAPTEN TREFOR YN YSGAFNHAU EI GYDWYBOD | 41 |
| IX. | CYFRINACHOL | 46 |
| X. | MARGED | 52 |
| XI. | O BOBTU'R GWRYCH | 58 |
| XII. | ENOC HUWS YN DECHREU AMGYFFRED Y SEFYLLFA | 66 |
| XIII. | CARWR TRWSTAN | 71 |
| XIV. | PEDAIR YSTAFELL WELY | 74 |
| XV. | EGLURHAD | 83 |
| XVI. | GWR A GWRAIG | 90 |
| XVII. | Y FAM A'R FERCH | 93 |
| XVIII. | CURO'R TWMPATH | 100 |
| XIX. | PWLLYGWYNT | 105 |
| XX. | DOETHINEB SEM LLWYD | 116 |
| XXI. | "VITAL SPARK" | 126 |
| XXII. | Y BUGAIL | 132 |
| XXIII. | DIDYMUS | 137 |
| XXIV. | DAFYDD DAFIS AR Y SEIAT BROFIAD | 148 |
| XXV. | ENOC A MARGED | 158 |
| XXVI. | TORI AMOD | 165 |

| PEN. | | TUDAL. |
| --- | --- | --- |
| XXVII. | PENBLETH | 172 |
| XXVIII. | JONES Y PLISMON | 179 |
| XXIX. | MARGED O FLAEN EI GWELL | 188 |
| XXX. | AMODAU HEDDWCH | 195 |
| XXXI. | BREUDDWYD ENOC HUWS | 200 |
| XXXII. | DARGANFYDDIAD SEM LLWYD | 205 |
| XXXIII. | Y SWPER | 210 |
| XXXIV. | YSTAFELL Y CLAF | 221 |
| XXXV. | DATGUDDIAD | 227 |
| XXXVI. | CAPTEN TREFOR | 231 |
| XXXVII. | ADEILADU CASTELLI | 239 |
| XXXVIII. | CARIAD NEWYDD | 244 |
| XXXIX. | O'R DIWEDD | 255 |
| XL. | LLW ENOC HUWS | 264 |
| XLI. | PRIODI A FYNANT | 271 |
| XLII. | WEDI MYN'D | 278 |
| XLIII. | YMSON CAPTEN TREFOR | 287 |
| XLIV. | Y PARCH. OBEDIAH SIMON | 293 |
| XLV. | Y GOHEBYDD | 299 |
| XLVI. | AMRYWIOL | 307 |
| XLVII. | Y "BROWN COW" | 311 |
| XLVIII. | CYDWYBOD EUOG | 319 |
| XLIX. | Y CAPTEN AC ENOC | 325 |
| L. | Y "FENTAR" OLAF | 332 |
| LI. | YR AMERICANWR | 338 |
| LII. | YR OLWG OLAF | 343 |

# PROFEDIGAETHAU ENOC HUWS.

## *RHAGARWEINIAD.*

Bwriedid i'r hanes hwn fod yn rhyw fath o attodiad i *Hunangofiant Rhys Lewis.* Pan yn cyhoeddi y gwaith hwnw mi a gymerais—pa un ai yn gam ai yn gymwys, nid yw o fawr bwys erbyn hyn—y darllenydd i fy nghyfrinach, am y modd y daethai yr ysgrif hono i fy nwylaw, ac am yr hyn a'm cymhellodd i'w hargraffu. Yr oedd genyf, ar y pryd, resymau digonol, i mi fy hun, dros fabwysiadu y cwrs a gymerais—rhesymau, rhaid i mi gydnabod, nad ydynt o wasanaeth yn yr amgylchiad hwn. Wrth gyhoeddi yr hanes hwn yr wyf yn ymwybodol fy mod yn gwneud antur lawer pwysicach. Gyda'r *Hunangofiant*, Rhys Lewis ei hun oedd gyfrifol am deilyngdod y gwaith ac am fanylion ffeithiau ei einioes fèr. A phe digwyddasai iddo fod yn annghymeradwy gan y Cymry, yr unig gŵyn, o bwys, a allesid ei dwyn yn fy erbyn am anturio ei argraffu a fuasai fy mod wedi dangos diffyg barn. Yn ffortunus, hyd y gwn i, ni ddygwyd cŵyn o'r fath yn fy erbyn. Derbyniwyd y llyfr yn galonog gan ieuainc a hen, a chyfiawnhawyd fy ngobeithion na fyddai yr amgylchiadau a'r cymeriadau a ddesgrifid gan Rhys Lewis—yn ol y ddawn a rodded iddo ef—yn annerbyniol nac annyddorol.

Ond wrth ddwyn yr hanes hwn drwy y wasg yr wyf yn teimlo yn bur wahanol. Rhaid i mi sefyll ar fy ngwadnau fy hun, fel y dywedir. Yr wyf yn gosod fy hun mewn sefyllfa i gael fy nghyhuddo—nid yn unig o fod yn ddiffygiol o farn ond hefyd o *fedr*. Myfi fy hun raid fod yn gyfrifol am ffeithiau, arddull, a phobpeth yn nglŷn â'r hanes yr wyf ar fin ei adrodd, ac nid yw fy ngobeithion o lawer mor ddisglaer am y derbyniad a roddir iddo gan fy nghydwladwyr. Gwenieithwn oll i ni ein hunain ein bod yn meddu *barn*—y gwyddom beth sydd yn werth ei argraffu a beth sydd heb fod felly. Pawb ydynt

*feirniaid*, ond nid yw pawb gynyrchwyr. A dyna y rheswm, fe ddichon, y gwna unrhyw un y tro yn feirniad mewn Eisteddfod. Gall pob un o honom weiddi "Bw," neu "*Encore*," yn ol fel y byddom yn barnu, ond ffigiwr gwael a dorai y nifer mwyaf o honom ar y llwyfan. Dengys hyn nad ydyw y ddawn i gynyrchu yn gyfled a'r ddawn i farnu. Nid oes, yr wyf yn meddwl, angen awdurdod uwch i benderfynu y pwnc hwn am byth na'r eiddo Wil Bryan. Yr wyf yn cofio yn dda sylw o'i eiddo (yr oedd hyn cyn iddo fyned oddi-cartref) i'r perwyl canlynol: "Wyddost di? er nad ydw i ond *youngster*, yr ydw i wedi dablo, i radde mwy neu lai, fel y byddan nhw'n deyd, efo agos i bob *art an' science*—i fynu o'r *noble art of self-defence* hyd at ysgrifenu i'r wasg, ond dydw i'n gwbod am ddim y tores i fwy o *sorry figure* efo fo na dawnsio, er fod gen i dipyn o *predilection* at hyny. Er i mi dreio ngore—ar y mhen fy hun, wrth gwrs, achos mi fase'n *degrading* myn'd at *dancing master*—er i mi dreio ngore fedres i neyd na rhych na gwellt o hono. Erbyn hyn dydw i ddim yn fecsio, achos os ydi dyn yn edrach yn *soft* mewn rhywbeth, pan fydd o yn dawnsio mae hyny. Fuost di rioed ar ddiwrnod y *Ladies' Club*, pan fydd yno ganodd yn dawnsio ar y *green*, yn rhoi dy fysedd yn dy glustie rhag clywed y *band*, er mwyn i ti gael gwel'd pa argraff a neiff yr olwg arnyn nhw ar dy feddwl di? Treia di, a mi ffeindi y bydd raid i ti dynu dy fysedd o dy glustie'n syth, neu fyn'd i gredu fod *universal insanity* wedi setio i fewn. Mi gymra fy llw os bu Dafydd yn edrach yn *soft* rw dro mai pan oedd o'n dawnsio o flaen yr arch oedd hyny, a fod gyno fo g'wilydd o'i galon cofio am y peth pan sobrodd o i lawr. Ond dene oeddwn i'n myn'd i ddeyd—er na fedres i rioed neyd dim byd o honi efo'r dawnsio 'ma, ro i ddim i fynu i neb fel *critic* ar yr *art*. Mi wn mewn mynud os bydd rhwfun yn gneyd *mistake* ne yn ddiffygiol o *grace*. Does dim isio, wyddost, i ddyn fod yn medryd gneyd y peth ei hun i allu barnu a ydi erill yn'i neyd o'n iawn, ne mi fydde raid i ti fyn'd yn brentis o grydd cyn y medret ti wbod ydi dy sgidie di yn dy ffitio, ac a ydyn nhw *up to dick*."

Gorchwyl hawdd, mewn cymhariaeth, oedd i mi farnu a oedd *Hunangofiant Rhys Lewis* yn werth ei argraffu, ond pwnc arall hollol ydyw a allaf fi afael yn mhen edef yr hanes hwnw a'i ddilyn mewn cysondeb. Bydd genyf fi rai anfanteision nad

oedd raid i Rhys Lewis deimlo dim oddiwrthynt na'u cyffelyb. Yn un peth, yr oedd Rhys Lewis wedi marw cyn i'r *Hunangofiant* ddyfod yn eiddo i'r cyhoedd, ac y mae y natur ddynol yn dringar iawn wrth y marw. Ond yr ydwyf fi yn fyw, hyd yn hyn, fodd bynag, ac nis gall y byw ddisgwyl am lawer o dynerwch. A dyma un o'r pethau sydd yn gwahaniaethu dyn oddiwrth yr anifail—ni ddychymygir am flingo anifail nes iddo farw; ond gyda dyn (fel awdwr) y cwestiwn cyntaf a ofynir, "A ydio'n fyw?" ac os ceir atebiad cadarnhäol, y cwrs nesaf a fydd, "Wel, gadewch i ni ei flingo, a gwerthu ei groen i dalu i'r adolygydd." Yr oeddwn ar fedr enwi amryw anfanteision eraill, "Ond ni chwanegaf," ys dywedai yr hen John Jones, Rhyl, wrth orphen pob pregeth.

Mae yn rhaid i mi ofyn un ffafr gan fy narllenwyr, os anrhydeddir fi â'r cyfryw; ac yr wyf yn ymwybodol ei fod yn gryn beth i'w ofyn. Hyny ydyw—fod iddynt dderbyn pob peth a adroddaf fel ffeithiau diamheuol—hyny ydyw, eto, pob peth nad ydyw yn dyfod o fewn terfynau eu gallu a'u profiad hwy i'w wrthddywedyd, ac, yn wir, llawer o bethau ereill ag y bydd yn naturiol iddynt ymofyn pa fodd yr oedd yn bosibl i mi ddyfod yn wybyddus o honynt. Er engraifft—os byddaf fel y mae yn ddiamheu y byddaf yn adrodd meddyliau hwn neu arall pan ar ei ben ei hun—meddyliau na hysbysodd efe i neb byw, naturiol a fydd i'r darllenydd ymofyn, pa fodd y daethym i yn hysbys o honynt? Anwyl ddarllenydd, y dirgelwch hwn sydd fawr; na flina, ymarfer ychydig ffydd, a rhoddaf finau fy ngair na adroddaf ddim nad allaf sefyll ato, os bydd raid.

Pobl Bethel a ddygir i sylw yn yr hanes hwn, ac er nad wyf yn bwriadu myn'd dros yr un tir ag a gerddodd Rhys Lewis, bydd raid i mi yn achlysurol gyfeirio yn gynil at rai o'r cymeriadau sydd eisoes yn adnabyddus i'r darllenydd,—megis Tomos Bartley, Wil Bryan, &c. Ni bydd y gwaith hwn yn dwyn gwedd mor grefyddol a'r *Hunangofiant*, bydd a wnelo â chymeriadau, gan mwyaf, nad oeddynt yn hynod am eu crefyddolder. Rhaid i mi roddi credyd i Rhys Lewis am gywirdeb ei hanes can belled ag y mae yn myned, ac hefyd i onestrwydd yr awdwr, yn enwedig yn y rhanau hyny sydd yn dadguddio rhyw bethau ynglŷn â'i deulu nad ydynt, a dweyd y lleiaf, yn adlewyrchu dim anrhydedd arno—pethau na fuasai ei gyfeillion

yn dychymygu sôn am danynt. A gadael heibio ei waith yn manylu ar ddrygioni ei dad a'i ewythr, a ddarfu i'r darllenydd sylweddoli y gwroldeb oedd yn angenrheidiol i sôn am ddygn dlodi ei fam? Edryched y darllenydd o'i gwmpas ac ymofyned pa nifer o'i gydnabod ag sydd wedi codi dipyn yn y byd, a soniant o'u gwirfodd am dlodi eu rhien. ? am yr adeg yr oeddynt yn byw ar botes maip? Onid yr ymdrech feunyddiol ydyw annghofio'r pethau sydd o'r tu ol? Pa swm o arian a roddai Mr. Daldygŵd—yr hwn sydd wedi llwyddo yn y byd, a nel llawer o gyfoeth, a thrwy ddiwydrwydd a thalent sydd yn llenwi swyddau uchel, ac yn troi mewn cylchoedd parchus—pe gallai ddileu hanes ei febyd o gôf ei gymydogion, a phe gallai fod yn sicr nad ydyw yr hen ŵr sydd yn rhoi ei law wrth ei het iddo yn cofio mai crydd oedd ei dad, ac mai gwerthu *pop* oedd ei wraig cyn iddo ef, Mr. Daldygŵd, ei phriodi? Fel y mae yn cael ei boeni wrth gyfarfod yr hen wreigan,—yr hon, erbyn hyn, sydd yn plygu yn ei gàrau iddo—wrth gofio am ambell frechdan a gafodd efe ganddi pan oedd golwg eisieu bwyd ar ei wyneb? Pa ryfedd ei fod yn llawenhau wrth glywed am hen bobl yn marw! Mae Mr. Daldygŵd yn awr yn cymdeithasu â phobl barchedig, a bydd rhai o honynt weithiau, yn hoffi sôn am eu "teulu"—pwnc nad ydyw byth yn colli ei ddyddordeb gyda rhyw bobl—a bydd yntau, Mr. Daldygŵd, druan, yn poethi ac yn chwysu ac yn gorfod defnyddio hyny o dalent a fedd i droi y stori at rywbeth arall; oblegid nis gall ef sôn am ei "deulu," oddieithr iddo wneud hyny mewn ffurf o ymosodiad ar annghyfiawnder Bwrdd y Gwarcheidwaid pan y darfu iddynt dori "pau" ei fam o haner coron i ddeunaw ceiniog yr wythnos! Ond nis gall efe wneud hyd y nod hyny gyda chysondeb, canys y mae yntau, erbyn hyn, yn *guardian* ac yn euog o ymddygiad cyffelyb at wrageddos tlodion. Ond ped ymddygai pob *guardian* fel Mr. Daldygŵd byddai llai o faich ar y trethdalwyr, oblegid y mae wedi rhoi gorchymyn i'w frawd, yr hwn sydd yn byw mewn tref arall, er dim i beidio pwyso ar y plwyf. A phan enfyn y brawd ei fod yn bwriadu dyfod i ymweled âg ef, y mae yntau, Mr. Daldygŵd yn anfon iddo *post-office order* am ddeg swllt, gyda rhybudd iddo aros gartref. Mae Mrs. Daldygŵd a'r merched yn cytuno âg ef yn hyn, ac y mae arnynt arswyd gweled yr *horrid uncle!* Gardd-wr, wrth ei gelfyddyd, ydyw yr *uncle*, ac yn ei gartref perchir

ef fel gŵr da a duwiol, ond o herwydd ei fod wedi dioddef yn dost gan y crydcymalau y mae yn analluog i weithio, ac y mae yn dlawd, ac o herwydd ei dlodi y mae gan ei frawd a'i chwaer-yn-nghyfraith a'i nîthoedd gywilydd o hono! Y ffyliaid! Onid ydynt yn cofio mai garddwr oedd ein "tad ni oll?" ac nad oedd ganddo ef na'i wraig, y dyddiau goreu fu dros eu penau, gerpyn am eu cefnau?—yr hyn, yn ddiamheu, a ddygodd ar eu hiliogaeth y gymalwst, ac oddiwrth yr hwn anhwyldeb y mae brawd Mr. Daldygŵd yn dioddef mor enbyd! Ond dyna fel y mae y byd yn myn'd—mae arnom gywilydd o'r graig y naddwyd ni allan o honi, a'r ffôs y cloddiwyd ni o honi. Mae yn ffaith mai mwy dewisol gan rywrai ydyw i'w tad enwog fod heb yr un bywgraffiad yn hytrach nag i dlodi eu hynafiaid gael ei roi ar gôf a chadw. Er y gwyddant yn burion na ddynocthai y bywgraffydd fwy nag a fyddai wir angenrheidiol, ac y byddai iddo dyneru ei frawddegau—megys, yn lle dyweyd fel hyn—"Yr oedd rhieni ein gwrthddrych y pryd hwn yn cadw siop fincec a bara gwyn, a mynych y byddai raid iddo yntau, pan na byddai yn cario bara gwyn hyd y wlad, fyn'd i'r mynydd i dori mawn, a gwneud ei ran mewn amryw ffyrdd i gael y ddeupen yn nghyd"—yn lle dweyd fel yna, y byddai i'r bywgraffydd ddweyd—"Er nad oedd rhieni ein gwron, yr adeg yr ydym yn cyfeirio ati, mewn sefyllfa uchel na chyfoethog *iawn*, eto yr oeddynt yn bobl barchus, onest, ac yn talu eu ffordd, ac yn feddianol ar nodweddion daionus eraill, y rhai a amlygwyd i raddau helaeth yn eu mab enwog, yr hwn yr ydym yn awr yn ceisio ysgrifenu ei hanes." Gwyddant o'r goreu mai yn y dull yna y cyfeirid at yr amgylchiadau anhyfryd, ond ni wna y tro. Tybiant mai ychydig o bobl a wyddant am dlodi eu hynafiaid, a'u bod yn myn'd leilai bob dydd. Maent yn byw yn mharadwys ffyliaid, ac o'm rhan i, mawr fwyniant iddynt!

Amlwg yw na pherthynai Rhys Lewis i'r dosbarth ffol-falch yna. Mae'n wir na ddarfu iddo ef ymgyfoethogi, ac na feddai erw o'i eiddo ei hun. Ond gwnaeth rywbeth gwell—drwy ei ddiwydrwydd, dyrchafodd ei hun i sefyllfa barchus gweinidog cymwys y Testament Newydd. Ac ni phetrusai efe, pan fyddai hyny o wasanaeth iddo, gyfeirio at ddinodedd a thlodi ei febyd. Cofus genyf ei fod un tro, yn y Seiat, yn ymddyddan â'r hen Feti Williams—gwreigan dlawd anghenus—yr hon a

gwynai ei bod yn anniolchgar iawn, a'i bod yn ei gael yn beth anhawdd bod yn foddlawn a diolchgar pan yn amddifad o bethau gwir angenrheidiol. Ac ebe Rhys—"Digon gwir, Beti Williams, anhawdd iawn ydyw bod yn ddiolchgar pan fydd y cwpwrdd yn wâg. Ac yr ydach chi'n gneyd i mi gofio am sylw o eiddo fy mam, pan oeddym heb damaid o fwyd yn tŷ na golwg am ddim i ddyfod," ebe hi—"Wel, fy machgen, dydio gamp yn y byd bod yn ddiolchgar mewn llawnder, ar ben ein digon; y gamp ydi gallu diolch ein bod yn rhoi mwy o bris ar fara'r bywyd nag ar y bara naturiol, ac *un* peth sydd *angenrheidiol* ac mor werthfawr i mi ydi dirgel obeithio fod Mari Lewis wedi dewis y rhan dda, yr hon *ni ddygir oddiarni*." Ni cheisiai Rhys Lewis gelu dim o aml gyfyngderau ei ieuenctyd, o herwydd, chwedl Wil Bryan, "nad oedd dim *humbug* ynddo."

Mae Rhys Lewis yn gwneud y sylw hwn yn rhywlo—mai da iddo ef a fuasai pe nas cwrddasai erioed â Wil Bryan. Gyda phob dyledus barch, ni wnaeth Rhys Lewis fwy o gamgymeriad yn ei fywyd. Bendith fawr iddo a fu ei gyssylltiad â Wil. Os oedd rhyw nodwedd mwy amlwg na'i gilydd yn Rhys Lewis fel pregethwr, ei *naturioldeb* oedd hwnw, ac yr wyf yn credu mai i Wil Bryan yr oedd efe yn ddyledus am dano. Pa fath un a fuasai Rhys Lewis pe na buasai erioed wedi cyfarfod Wil? Wel, bachgen mawr, da, diniwed a fuasai—bachgen ei fam. Dichon y buasai yn ei gyfansoddiad fwy o siwgr, ond yn sicr buasai ynddo lai o haiarn—mwy o *starch*, ond llai o nerth; mwy o hygoeledd, ond llai o ffydd a chraffder. Ond fel yr oedd yr oedd yn naturiol a chymeradwy, ac i Wil yr oedd yn ddyledus am y nodwedd annghyffredin hon. "Annghyffredin" a ddywedais? Ië, nid wyf yn galw y gair yn ol. Nid wyf philistiad; ac ni roddaf y goreu i un dyn byw am barch i bregethwyr Cymreig, ond ni all hyn fy atal rhag dweyd mai hwy, fel dosbarth—mae eithriadau lawer, mi wn—ydynt y llefarwyr mwyaf annaturiol y gwn am danynt. Pa reswm neu ysgrythyr sydd dros i bregethwr, mwy na rhyw siaradwr cyhoeddus arall, lefaru am y chwarter awr cyntaf o'r bregeth yn annghlywedig, yna dechreu canu, ac yn y man rafio, a chyn y diwedd beri i un ofni iddo dori *blood vessel*. Prin y gallaf gredu mai cymdeithas gwastadol y pregethwr â'r *goruwch* naturiol a barodd iddo fabwysiadu arddull mor *an*naturiol. Gan nad pa

mor ddigrifol a fyddai yr arddull hwn mewn cylchoedd eraill, mae'n rhyfedd y gall cynulleidfa Gymreig nid yn unig beidio chwerthin ond cadw gwyneb sobr tra bydd y pregethwr yn ymresymu, yn adrodd hanes. neu yn perswadio ei wrandawyr i gredu yr efengyl, a'r cwbl i gyd ar gân! Yn ffortunus yn y dyddiau hyn y mae canu pregethu yn prysur fyned allan o'r ffasiwn, a buan yr elo. Ond y mae yn ddiau mai i'r hen ddull o lefaru y syrthiasai Rhys Lewis oni bai i Wil Bryan ddangos gwrthuni y peth iddo, a'i "warnio" y byddai iddo ei "hymbygio" os caffai efe ef yn euog o'r fath annaturioldeb.

Un sylw arall, ac yna dechreuaf ar fy stori. Temtasiwn pregethwr sydd wedi troi yn mhlith pobl dda a chrefyddol yn unig ydyw edrych ar gymeriadau cyffelyb i Wil Bryan fel drwg digymysg—fel pobl â'r gwahanglwyf arnynt, ac felly i'w hysgoi a'u gadael i ofal Duw. Nid oes syniad mwy cyfeiliornus yn bod, ac wrth ddweyd fel hyn nid oes angen i mi hysbysu y darllenydd nad yn yr ystyr dduwinyddol yr wyf yn sôn am ddynion. Ar arwynebedd calon cymeriadau diofal, cellweirus a rhyfygus fel Wil Bryan y mae rhyw lecyn tyner nad ydyw yn ganfyddadwy o'r pellder, ac o arfer doethineb, a than fendith Duw y gellir ei droi i *good account*. Drwg yn wir ydyw telyn natur y dyn hwnw nad oes ynddi un tant a ddyry sain hyfryd. Buasai hyn yn enllib ar ei Gwneuthurwr, ac yn gredyd i'r diafol, nad ydyw, mi obeithiaf, yn ei haeddu. Mae anrhydedd yn mhlith lladron. Yn aml iawn, wrth wregys y rhai a fuont yn troi gyda'r dosbarthiadau annuwiolaf y croga y nifer mwyaf o allweddau i ystafelloedd y galon. Ond dyna ddigon ar hynyna. Gadawodd Rhys Lewis amryw gymeriadau hynod yn mhlith pobl Bethel heb sôn dim am danynt, a fy ngorchwyl i yn benaf yn yr hanes hwn fydd chwedleua tipyn yn nghylch y rhai hyny, ac y mae'n bryd i mi ddechreu.

## PENNOD I.

### CYMRU LAN.

Mab llwyn a pherth oedd Enoc Huws, ond nid yn Sir Fôn y ganwyd ef. Yr oedd mangre ei enedigaeth yn agosach i Loegr, a'r trigolion yn siarad meinach Cymraeg, ac yn fwy diwylliedig a chaboledig yn eu tyb eu hunain, er nad oeddynt yn fwy crefyddol. Ni chanwyd y clychau ar ei enedigaeth, ac ni welid ac ni chlywid dim arwyddion o lawenydd o unrhyw natur. Ni ddarfu i hyd yn nod y ffaith mai bachgen ac nid geneth ydoedd enyn gymaint a gwên ar wyneb un o'r perthynasau pan hysbyswyd hwynt am ei ddyfodiad i'r byd. Yn wir, myntumiai rhai o'r cymydogion fod can lleied o ddyddordeb yn cael ei deimlo ynddo, fel na wyddid, am rai dyddiau, i ba ryw y perthynai, ac mai yn ddamweiniol hollol y daeth y peth i'r golwg, a hyny drwy ddiofalwch Enoc ei hun. Y rheswm am yr holl ddifrawder hwn yn nghylch y newydd-ddyfodiad oedd—nad oedd neb yn ei ddisgwyl, nac eisieu ei weled. Mi a ddywedais ormod: yr oedd *un* yn ei ddisgwyl. Pa nifer o nosweithiau digwsg—pa faint o ofid, o gyni ac arteithiau meddwl—pa faint o edifeirwch chwerw a gwirioneddol, ac o hunanffieiddiad, a ymylai ar wallgofrwydd, a gostiodd y disgwyliad hwnw, Duw yn unig a ŵyr! Mi a wn ei fod yn bwnc tyner a llednais i'w grybwyll—mi a wn mai mwy hyfryd i'r teimlad yw gwrando ar leisiwr da yn canu, "Cymru Lân, gwlad y gân," a rhoi *encore* iddo, ac iddo yntau drachefn roddi i ni "Hen wlad y menyg gwynion." Ond ynfytyn a fyddai y dyn a dybiai ei fod wedi cael holl hanes Cymru yn y ddwy gân. Mae yn gofus genyf, pan oeddwn hogyn, y byddai y gŵr duwiol hwnw, Abel Huws, pan fyddai yn yr hwyl yn y capel, yn cau ei lygaid, yn enwedig pan fyddai yn canu, ac i mi fyn'd i gredu fod cau y llygaid yn arwydd sicr o dduwioldeb. Yr wyf wedi newid fy meddwl. Nid ydyw cau y llygaid yn un arwydd o sancteiddrwydd. A rhoi chwareu teg i Abel Huws, ni fyddai yntau yn cau ei lygaid ond pan fyddai yn yr hwyl. Yr oedd efe mor lygadog a neb, ac yn galw pethau wrth eu

henwau priodol. A phe buasai efe fyw yn awr diau y buasai yn cael ei ystyried yn ddyn bras. Sicr yw fod Abel Huws, fel yr hen dadau yn gyffredin, dipyn yn rhy blaen yn ei siarad; ond y mae yn ofnus mai ein perygl ni, yn y dyddiau hyn, ydyw mursendod a gor-ledneisrwydd—peidio galw pethau wrth eu henwau Cymreig, os nad peidio eu henwi o gwbl. A ydyw y pethau wedi peidio a bod? Neu a ydym wedi cael rhyw oleuni newydd arnynt? A oes y fath le ag uffern yn bod yn y dyddiau hyn? Arferid sôn am le felly er's talwm, ond anfynych y clywir crybwylliad am y fath le yrwan, oddigerth gan ambell un go hen ffasiwn. A oes y fath beth ag anniweirdeb? Byddwn yn clywed weithiau am "achos anhyfryd." Ond diau fod y byd yn dyfod yn foneddigeiddiach, ac fod eisieu cymeryd gofal sut i siarad âg ef.

Nid oedd, fel y dywedwyd, ond un yn disgwyl am Enoc i'r byd, ac nid oedd ar neb ei eisieu yn y byd. Edrychid arno fel *intruder*. Ni wyddai Enoc, druan, mo hyny, a phe gwybuasai y buasai ei ymddangosiad yn creu y fath gynwrf, yn achosi y fath anghysuron a theimladau chwerw, mae yn amheus ai ni fuasai efe yn cyflawni hunanladdiad yn hytrach na gwynebu y fath fyd anughroesawgar! Ond ei wynebu wnaeth Enoc yn hollol ddiniwed a diamddiffyn. Tystiai y meddyg fod Enoc yn un o'r bechgyn brafiaf a welodd efe erioed, ac nad oedd ond un anmherffeithrwydd ynddo, sef oedd hwnw—fod tri o fysedd ei droed chwith yn glynu yn eu gilydd, fel troed hwyaden. A oedd hyn yn rhagarwyddo y byddai Enoc yn nofiwr da, ni cheisiai y meddyg benderfynu. Ond nid oedd hyny nac yma nac acw. Cyn bod Enoc yn fis oed—pe buasai yn ddigon synwyrol, a phe na buasai yn cysgu yn hapus wrth ochr ei fam—gallasai fod yn llygad-dyst o olygfa na buasai byth yn ei annghofio. Yr oedd yr ystafellwely yn eang a chomfforddus, yr hyn a ddynodai fod ei pherchenog mewn amgylchiadau uwch na chyffredin. Nos Sadwrn ydoedd, o ran amser, neu yn hytrach bore Sul, oblegid yr oedd y cloc newydd daro haner y nos. Yr oedd y meddyg newydd adael yr ystafell gan fwriadu dychwelyd yn fuan gyda rhyw feddyglyn i gynorthwyo mam Enoc i groesi yr afon, neu mewn geiriau ereill, i farw. Cyn gadael y tŷ dywedasai y meddyg wrth ei thad, yr hwn oedd ŵr uchelfalch—"Mi ddof yn ol yn mheu ychydig fynudau, Mr. Davies, ond y mae arnaf ofn na

wel Elin, druan, mo'r bore. Gwell i chwi fyn'd i'w golwg. Ewch, Mr. Davies, ewch, neu byddwch yn edifarhau ar ol hyn."

Nid oedd Mr. Davies wedi gweled Elin er y dydd y ganwyd Enoc. Elin oedd ei uniganedig, ei gysur, a'i eilun. Ond y diwrnod y ganwyd Enoc, gwnaeth Mr. Davies lŵ na siaradai efe â'i ferch yn dragywydd. Pa fodd bynag, pan ddywedodd y meddyg wrtho na welai Elin mo'r bore, teimlodd ei du mewn yn rhoi tro, a'i waed fel pe buasai yn fferu ynddo. Cerddodd yn ol a blaen hyd y parlwr haner dwsin o weithiau, a dywedai cip-dyniadau ei wyneb arteithiau dwfn ei galon falch. Cychwynodd i fynu'r grisiau, a throdd yn ol. Cychwynodd eilwaith, a throdd yn ol. Oedd, yr oedd wedi gwneud llŵ na siaradai efe â hi byth. Ond cofiai—ac yr oedd yn dda ganddo gofio—na ddywedodd efe nad edrychai arni. Cychwynodd drachefn i fynu'r grisiau, ac ni throdd yn ol y waith hon. Yr oedd Mr. Davies yn ŵr lluniaidd, hardd, a chadarn, ac ni theimlodd efe erioed cyn hyn un anhawsder i ddringo'r grisiau; ond, y tro hwn, teimlai ei goesau yn mron yn ymollwng. Yr oedd dwy *nurse* yn yr ystafell yn ymgomio yn ddistaw, a brawychwyd hwy gan ymddangosiad annisgwyliadwy Mr. Davies, ond ni ynganodd un o honynt air. Yr oedd Elin â'i llygaid yn gauedig, a'i hwyneb càn wyned a'r gobenydd oedd dan ei phen, a'i gwallt hir, yr hwn oedd càn ddued a'i phechod, yn llanast gwasgaredig a diofal o'i chwmpas. Gafaelodd Mr. Davies, megys o angenrheidrwydd, yn mhost y gwely, ac edrychodd yn ddyfal ar wyneb ei anwyl ferch. Y fath gyfnewidiad a welai! Ai Elin, ei anwyl Elin oedd hon? Anhygoel! Nid oedd hi ond megys cysgod o'r hyn a fuasai. Eto, tybiai Mr. Davies, er yr holl gyfnewidiad, nad oedd hi wedi colli dim o'r prydferthwch y teimlai efe bob amser mor falch o hono, ac, yn wir, yr oedd Elin yn debycach nag y gwelsai efe hi erioed i'w mam, yr hon a gladdasai efe rhyw flwyddyn cyn hyny. Edrychodd yn ddyfal ar ei hwyneb gwelw, a dechreuodd ei galon feddalhau. Ond trodd ei lygaid a chanfu Enoc, gyda'i wyneb pinc, ei drwyn fflat, a'i ben moel, a dychwelodd digofaint a balchder clwyfedig Mr. Davies, ac ocheneidiodd yn drwm. Agorodd Elin ei hamrantau, gan ddadguddio pâr o lygaid yr edrychasai ei thad arnynt fil o weithiau gydag edmygedd. Nid ei thad oedd yr unig un oedd wedi edmygu y

llygaid hyny. O herwydd gwynder ei hwyneb, ymddangosai llygaid Elin i'w thad yn dduach, disgleiriach, a phrydferthach nag erioed. Ond yr oedd Elin, ei anwyl Elin, yr hon a olygai efe yn gynllun o berffeithrwydd, heb arni na brycheuyn na chrychni, fel y goleuni ei hun, yr oedd Elin wedi pechu. A chwareu teg i'w thad, ei phechod, ac nid y gwarth—er y teimlai efe hwnw yn dost—oedd fel cancr yn ysu ei galon, oblegid yr oedd Mr. Davies yn ŵr manwl, crefyddol, a duwiol yn ei ffordd ei hun. Agorodd Elin ei hamrantau, fel y dywedwyd, ac edrychodd yn ymbilgar, er yn dawel, yn llygaid ei thad. Wedi munyd o ddistawrwydd, ebe hi yn floesg—

"Nhad, newch chi ddim siarad â fi?"

Ni atebodd Mr. Davies air, ond dangosai gweithiadau ei wyneb a'i wddf mai efe oedd y dyoddefydd penaf.

"Nhad," ychwanegai Elin, "yr ydw i wedi gofyn filoedd o weithiau i Iesu Grist fadde i mi, ydach chi'n meddwl y gneiff o, nhad?"

Edrychodd Mr. Davies ar Enoc, a gafaelodd yn dynach yn mhost y gwely, ond ni thorodd ei lŵ. Dywedodd Elin eilwaith—

"Bydase mam yn fyw—a mae hi'n fyw, mi gweles hi neithiwr—a mae *hi* wedi madde i mi. Newch *chi* fadde i mi, nhad bach? Yr ydw i wedi bod yn eneth ddrwg, ddrwg, ddrwg; ond newch chi fadde i mi, nhad bach?"

Gollyngodd Mr. Davies ei afael yn mhost y gwely, gwegiodd fel meddwyn, aeth gam yn mlaen, gwyrodd, a chusanodd ei ferch unwaith ac eilwaith, a chiliodd yn ol i'w hen scfyllfa heb dynu ei lygaid oddiar ei ferch, ond ni ddywedodd efe air. Gwenodd Elin yn hapus, ac yna trodd ei llygaid at Enoc. Megys yn cael ei chyfarwyddo gan reddf, deallodd un o'r *nurses*, yr hon oedd fam, ei dymuniad, a gosododd wyneb y plentyn wrth wefusau oer ei fam. Ni wnaeth Enoc ond rhwchian yn gysgadlyd pan gusenid ef am y tro olaf gan ei fam. Wedi gwneud hyn ymddangosai Elin fel pe buasai wedi darfod efo phawb a phobpeth, ac edrychai i fynu yn ddidor. Ni thynodd Mr. Davies ei olwg oddiarni, ac hyd yn nod pan ddaeth y meddyg i mewn nid ymddangosai ei fod yn ymwybodol o'i ddyfodiad. Deallodd y meddyg ar unwaith fod Elin, druan, ar ymadael, ac ni cheisiodd ganddi gymeryd y meddyg-

lyn. Am rai munydau parhaodd Elin i edrych i fynu, yna dywedodd yn hyglyw—

"Yr ydw i'n dwad yrwan, mam, yrwan."

Ar ol un dirdyniad, un ochenaid hir, ehedodd ei hysbryd ymaith.

"Mae hi wedi myn'd," ebe'r meddyg yn ddystaw, ac ar yr un pryd gafaelodd yn mraich Mr. Davies ac arweiniodd ef i lawr y grisiau. Da gan y meddyg oedd cael cyrhaedd y gwaelod yn ddiogel, oblegid pwysai Mr. Davies arno yn drwm. Yr oedd gofid y tad yn arteithiol, a phan syrthiodd yn swrth i'r gadair, gwasgodd ei ben rhwng ei ddwylaw, a dolefodd yn uchel—

"O Elin! Elin! fy anwyl Elin!"

Yn ebrwydd neidiodd ar ei draed yn gynhyrfus, a tharawodd y bwrdd amryw weithiau, nes oedd y gwaed yn pistyllio o'i ddwrn; ac, fel pe buasai yn anerch y bwrdd, dywedodd yn ffyrnig—

"Enoc Huws! os nad wyt eisoes yn uffern, bydded i felldith Duw dy ddilyn bob cam o dy fywyd!"

Ail-adroddodd y geiriau ffol amryw weithiau. Arhosodd y meddyg gydag ef nes iddo ymdawelu. Nid oedd Mr. Davies, o ran oedran, ond cydmarol ieuanc—prin ddeugain mlwydd oed. Edrychid arno yn y dref lle y trigai fel un mewn amgylchiadau cysurus, a pherchid ef yn fawr. Yr oedd ei ferch Elin, cyn yr amgylchiad a grybwyllwyd, yn ffafryn hyd yn nod gan ei chydryw, yr hyn sydd yn "ddweyd mawr." Bu ei chwymp yn ergyd i ugeiniau o'i chyfeillesau a'i chydnabod, ac ni arwyddodd neb, hyd y gwyddis, foddhad yn ei gwarth. Nid felly, ysywaeth, y digwydda bob amser; ac o bob peth dirmygus, dyna y peth mwyaf dirmygus, fod neb yn ymfalchïo yn aflwydd ei gydnabod. Yr oedd y cydymdeimlad â Mr. Davies yn ei brofedigaeth chwerw, yn ddwfn a chywir, a'r amlygiad o hono yn ddibrin. Ond ni chododd efe byth mo'i ben. Yr oedd y saeth wedi myned yn syth i'w galon, ac nid allai neb ei thynu oddiyno. Gwerthodd ei holl feddianau a'i dda; a'r gŵr olaf o'i hen gymydogion y bu Mr. Davies yn siarad âg ef oedd Dafydd Jones, y dyn a fyddai yn arfer tori llythyrenau ar geryg beddau.

"Dafydd Jones," ebe fe, "rhowch y geiriau yma ar y gareg sydd uwchben fy ngwraig—na hidiwch am yr oed a'r *date*—

*Hefyd*
ELIN DAVIES,
'*Piser a dorwyd gerllaw y ffynon.*'"

Ac heb gymaint a chanu'n iach â'i gyfeillion, gadawodd Mr. Davies y wlad.

---

## PENNOD II.

### GWEITHDY'R UNDEB.

AR farwolaeth ei fam gosodwyd Enoc dan ofal Mrs. Amos, un o'r maethwragedd y cyfeiriwyd atynt yn barod, a dywedid i Mr. Davies roddi swm mawr o arian i'r wreigan hon am gymeryd Enoc "allan o'i olwg ac edrych ar ei ol." Am rai dyddiau ofnid am fywyd Enoc, a churiodd ei gnawd yn dost. Yr oedd yn ymddangos nad oedd yfed llefrith gwahanol wartheg trwy beipen *India Rubber* yn cyfarfod â chwaeth nac yn dygymod â chyfansoddiad ystumog Enoc. Ac er na phryderai neb am hyny, meddyliwyd fod y plentyn ar fedr cychwyn i'r un wlad ag yr aethai ei fam iddi. Yr unig beth a achosai dipyn o flinder i Mrs. Amos am y tebygolrwydd y byddai i Enoc farw, oedd y ffaith ei fod heb ei fedyddio. Buasai iddo farw heb ei fedyddio yn drychineb ofnadwy yn ngolwg Mrs. Amos. Ac yn fawr ei ffwdan hi a aeth at weinidog y Methodistiaid, yn eglwys yr hwn y buasai mam Enoc yn aelod. Yr oedd y gŵr hwnw newydd orphen ei swper, a newydd roi tân ar ei bibell. Derbyniad oer a garw a roddodd efe i Mrs. Amos. Gwrthododd yn bendant symud o'i dŷ, ac ymgroesodd wrth feddwl am gyffwrdd â'r fath lwmp o lygredigaeth ag Enoc. Yna dychwelodd at ei bibell, yr hon oedd *agos* can ddued ag Enoc, ac aeth Mrs. Amos ymaith gan sibrwd, "Bydase Mr. Davies heb fyn'd i ffwrdd, fase fo fawr o wrthod, mi gwaranta fo," a rhoddodd iddo ei bendith, yn ol ei dull hi o fendithio. Ond ni wyddai Mrs. Amos ddim am y *Cyffes Ffydd*

a'r rheolau dysgyblaethol. Wedi hyn, prysurodd y famaeth i dŷ y gweinidog Wesleyaidd gyda'r un apêl. Yr oedd John Wesley Thomas yntau yn berffaith hysbys o'r holl amgylchiadau, ac yn garedig iawn, ac heb wneud dim "*bones*" yn nghylch y peth, aeth ar unwaith gyda Mrs. Amos a gweinyddodd y sacrament ar y plentyn, gan ei alw ar enw ei dad—yn ol cyfarwyddyd Mrs. Amos—sef Enoc Huws. Teimlai y famaeth yn rhwymedig iawn i Mr. Thomas am y gymwynas hon, ac i ddangos ei theimlad cynygiodd iddo wydriad o chwisgi fel cydnabyddiaeth fechan am ei drafferth. Gwrthododd Mr. Thomas y moesgarwch gan roddi gair o gynghor iddi—sef anogaeth iddi ddilyn esiampl y baban Enoc—gadael llonydd i'r botel. Diolchodd Mrs. Amos yn gynhes i'r gweinidog am ei garedigrwydd ac am ei gynghor, a phrotestiodd "os byth y bydd angen arna i fyn'd i'r capel, i'ch capel chi, Mr. Thomas, y dof fi, ond am y gydwff arall ene, ŵn i ddim sut y mae neb yn myn'd ar i gyfyl o." Aeth Mr. Thomas ymaith dan chwerthin, ac ni fu "angen" ar Mrs. Amos byth i fyn'd i gapel nac eglwys nes y cariwyd hi i'r lle olaf gan bedwar o ddynion.

Er dirfawr siomedigaeth i Mrs. Amos, darfu i'r bedydd, neu rywbeth arall, ddwyn oddi amgylch gyfnewidiad rhyfedd yn ystad iechyd Enoc. Pe buasai yn "fedydd esgob" ni allasai ei effeithiau fod yn fwy gwyrthiol. Dechreuodd Enoc yn uniongyrchol edrych o'i gwmpas yn ddigon hen ffasiwn, a phan osododd Mrs. Amos ffroen y beipen *India Ruber* yn ei safn, sugnodd mor aiddgar a hoew ag oen bach, a phe buasai ganddo gynffon, buasai yn ei hysgwyd, ond gwnaeth y diffyg i fyny drwy ysgwyd ei draed, a chodi ei ysgwyddau i ddangos ei ddirfawr foddhad. Yn ngwyneb yr amlygiadau digamsyniol hyn o fywyd yn Enoc yr oedd Mrs. Amos wedi mòni drwyddi, a mynych y galwodd hi ef yn "hen *chap* drwg, twyllodrus." Ond gan mai byw a fynai yr "hen *chap* drwg," nid oedd mo'r help.

Aeth amser heibio; ac o herwydd nad oedd Enoc yn gwneud dim—dim, o leiaf, gwerth sôn am dano—ond sugno y botel lefrith, a Mrs. Amos, hithau, heb fod yn ddiystyr o gwbl o'r botel chwisgi, buan y diflanodd y "swm mawr o arian" a roddodd Mr. Davies i Mrs. Amos am gymeryd Enoc "allan o'i olwg." Ffaith ydyw, cyn bod Enoc yn llawn ddeuddeng mis oed, fod ei famaeth mewn dygn dlodi. Mewn canlyniad, hi a

aeth at y *relieving officer*, a rhoddodd ar ddeall i'r swyddog hwnw mewn eithaf Cymraeg, nad oedd hi am gadw plant pobl eraill ddim yn hwy—nad allai fforddio gwneud hyny, ac er ei fod yn ddrwg ganddi ymadael â'r plentyn, oblegid, meddai, yr oedd efe erbyn hyn, yn ddigon cocsin, eto nid oedd dim arall i'w wneud. Yr oedd hi wedi disgwyl a disgwyl clywed rhywbeth oddiwrth Mr. Davies, ac nid allai aros i ddisgwyl dim yn hwy. Os elai hi allan am haner diwrnod i olchi, yr oedd yn rhaid rhoi hyn a hyn o lodom i Enoc i wneud iddo gysgu, ac yr oedd hyny yn costio prês. Ac am dad y plentyn, wel, yr oedd hwnw wedi rhedeg y wlad cyn i Enoc gael ei eni, y syrffed. Wedi llawer o siarad a llawer o oedi, a myn'd o flaen y *Board of Guardians*, a chant o bethau, llwyddodd Mrs. Amos o'r diwedd i gael Enoc oddiar ei dwylaw, a'i drosglwyddo yn ddyogel i ofal y *workhouse*.

Pallai amynedd y darllenydd, mae arnaf ofn, pe dilynid hanes Enoc tra bu efe yn y tlotty, ac nid ydyw hyny yn angenrheidiol i'r hanes hwn. Sicr yw iddo fod yno nes cyrhaedd tair ar ddeg oed, pryd y bu raid iddo droi allan i enill ei damaid, ac y dodwyd ef dan ofal *grocer* mewn tref gyfagos. Yr oedd yn ymddangos, pan ddaeth Enoc Huws o'r tlotty, ei fod wedi cael addysg led dda mewn darllen, ysgrifenu a "chowntio;" a phe coeliasid ei fochau, ei fod wedi cael ymborth iachus hefyd. Yr oedd ei gorph yn fain a theneu, a'i wyneb yn fawr a glasgoch, y tebycaf dim a welwyd erioed i wnionyn â'i wraidd i fynu. Pa ddyfais sydd gan awdurdodau y tlotty i fagu bochgernau? Mi glywais mai y cynllun a arferir ganddynt ydyw hwn: Wedi i'r bechgyn fwyta eu powliad sgili—yr hwn ydyw uwd mewn darfodedigaeth—arweinir hwynt i'r buarth, a gosodir hwynt yn rhes â'u gwynebau at y mûr. Yna, gorchymynir iddynt sefyll ar eu penau am yr hwyaf, a'r hwn a enilla fwyaf o farciau yn ystod y flwyddyn, a gaiff blatied *extra* o blwm pwdin ddydd Nadolig—yr unig ddiwrnod y gwneir pwdin yn y tlotty—hyny ydyw i'r tlodion. Fe welir ar unwaith mai effaith naturiol yr ymarferiad hwn ydyw peri i faeth y sgili (yr hwn faeth, medd meddygon, ydyw y nesaf o ran ansawdd i ddwfr glân) redeg i'r bochau a'u chwyddo allan, gan adael i ranau ereill y corph gymeryd eu siawns. Os bydd rhai o'r bechgyn yn digwydd bod dipyn yn afrosgo, neu ynte fod ganddynt gûr yn eu penau, ac o herwydd hyny yn methu

myn'd drwy yr ymarferiad hwn, rhoddir iddynt glewten ar y foch yma heddyw, ac ar y foch arall yfory, a thrwy barhau yr oruchwyliaeth, dygir oddiamgylch yr un canlyniad dymunol, sef bochgernau chwyddedig, yr hyn a argyhoedda bob *guardian* rhesymol fod y bechgyn yn cael digon o fwyd maethlon. Gan nad ydyw y cynllun hwn—o herwydd rhesymau penodol—yn ymarferadwy gyda'r genethod, mabwysiadir un arall, dipyn fwy costus, a'r hwn a gedwir yn *secret*.

Pa fodd bynag, dyna oedd yr olwg oedd ar Enoc pan ddaeth efe allan o'r tlotty. Yr oedd ei wyneb yn fawr a chrwn, fel llawn lloned, neu yn ol cynllun cais cyntaf hogyn i dynu llun dyn ar ei lechan. Yr oedd yr olwg arno yn peri i un feddwl am uwd—gwyneb uwd—pen i ddal uwd—edrychiad syndrwm uwd, mewn gair deallai plant y dref ar unwaith mai "bachgen y *workhouse*" oedd Enoc. Llwyddasai y tlotty i berffeithrwydd i osod ei nôd a'i argraff ar ben a gwyneb Enoc, ond methodd yn lân a newid natur ei feddwl. Yr oedd Enoc yn perthyn i ystoc rhy dda i'r tlotty allu gwneud niwed i'w ymenydd.

Yn ffortunus iddo ef, yr oedd ei feistr newydd yn ŵr synwyrol a charedig, a thoc y gwelodd yn Enoc ddefnydd bachgen medrus. Gydag ymborth sylweddol, caredigrwydd, ac hyfforddiant, dechreuodd Enoc yn fuan golli ei fochau chwyddedig a magu corph a choesau. Pan ymdeimlodd fod ganddo ryddid i adael i'w wallt dyfu yn ddigon o hyd i allu rhoi crib ynddo, dechreuodd ymdwtio, a gwisgodd ei lygaid fwy o fywiogrwydd a sylwgarwch. Mor gyflym oedd y cyfnewidiad ynddo, fel, yn mhen chwe' mis, pan ddaeth un o'r *guardians* i ymorol a oedd Enoc yn cael chware teg, mai prin yr oedd efe yn ei adnabod. Yr oedd y bochgernau chwyddedig wedi curio cymaint, a'u glesni wedi eu gadael mor llwyr, nes peri i'r *guardian* feddwl nad oedd Enoc yn cael digon o fwyd, a gofynodd yn ffrom i'w feistr—

"Mr. Bithel, lle mae bochau y bachgen wedi myn'd?"

"I'w goesau, syr, a rhanau ereill ei gorph. Er pan welsoch chwi Enoc o'r blaen, y mae yma *redistribution of seats* wedi cymeryd lle, a mi af fi i'r tŷ, syr, tra byddwch chwi yn holi Enoc a ydyw yn cael chwareu teg," ebe Mr. Bithel.

Wedi holi a stilio cafodd y gwarcheidwad ei lwyr foddloni nad oedd Enoc yn cael cam, ond prin y gallai efe gredu nad oedd ganddo fymryn o hiraeth am y *workhouse*, yr hwn oedd y lle dedwyddaf ar y ddaear, yn nhŷb y gwarcheidwad.

## PENNOD III.

### 'DOES DIM YN LLWYDDO FEL LLWYDDIANT.

Fel yr oedd Mr. Bithel wedi rhagweled, trodd Enoc allan yn fachgen rhagorol—pigodd ei fusnes i fynu yn gyflymach nag y gwna bechgyn yn gyffredin. Ond mynych y dywedodd Mr. Bithel wrtho, yn ystod y blynyddoedd olaf y bu Enoc yn ei wasanaeth, ei fod yn ofni na wnai efe byth *feistr*, am ei fod yn rhy yswil, anwrol, a hygoelus. Yr oedd gormod o wir yn hyn, fel y ceir gweled eto. Nid oedd Enoc ei hun yn anymwybodol o hyn, a pharai lawer o boen iddo. Teimlai anhawsder i wrthddweyd neb, ac o wyleidd-dra, ymddangosai, lawer pryd, fel yn cydsynio â'r hyn oedd mewn gwirionedd yn gwbl groes i'w feddwl. Cofiai bob amser, ac weithiau adgofid ef gan ereill, mai "bachgen y *workhouse*" ydoedd, a dichon fod a wnelai hyny gryn lawer â'i ledneisrwydd. Yr oedd efe, yn naturiol, o dymherau tyner, ac wrth iddo feddwl am ei ddechreuad, manylion yr hwn a adroddwyd iddo fwy nag unwaith, pan yn y tlotty, rhag iddo ymfalchïo—mynych y gwlychodd efe ei obenydd â dagrau. Fel y cynyddai efe mewn gwybodaeth a diwylliant, mwyaf poenus iddo ef oedd cofio yr hyn a adroddwyd wrtho, ac yn enwedig cofio nad oedd ei hanes yn ddieithr i'w gyfeillion. Yn y cwmni ac yn y capel, lawer pryd, y tybiai Enoc fod pobl yn meddwl am ei ddechreuad, tra mewn gwirionedd nad oedd dim pellach o'u meddyliau. Hoffid ef gan bawb, a gwerthfawrogid ei wasanaeth gan ei feistr. Pa fodd bynag, pan enillodd ei ryddid—wedi gwasanaethu ei chwe' mlynedd gyda Mr. Bithel, penderfynodd Enoc fyned ymaith i dref ddieithr, lle y gallai efe gadw ei hanes iddo ef ei hun. Ac felly bu; ac i dref enedigol Rhys Lewis a Wil Bryan yr arweiniwyd Enoc gan ragluniaeth.

Digwyddodd fod angen am gynorthwywr yn Siop y Groes. Ceisiodd Enoc am y lle a chafodd ef. Cedwid a pherchenogid Siop y Groes y pryd hyny gan wraig weddw, yr hon, er pan fu farw ei gŵr a fuasai yn hynod anffortunus yn ei chynorthwywyr. Cawsai mai cynorthwyo eu hunain, fel rheol, y byddai

y nifer mwyaf o honynt, ac nid ei chynorthwyo hi. Ond yn Enoc Huws daeth o hyd i lanc gonest, medrus ac ymdrechgar. Toc y rhoddodd Enoc wedd newydd ar y siop, a bywyd newydd yn y fasnach. Digwyddodd hyn yn yr adeg pan oedd Hugh Bryan yn dechreu myn'd i lawr yr allt. Er nad ydyw Rhys Lewis yn sôn dim am hyny yn ei Hunan-gofiant, yr wyf yn lled siwr fod a wnelo dyfodiad Enoc Huws i Siop y Groes gryn lawer â chyflymu methiant "yr hen Hugh," fel y galwai ei fab ef. Gan ddisgwyl cael "y plwm mawr" oedd o hyd mewn addewid, yr oedd Hugh Bryan, er's blynyddoedd, wedi bod yn cario ei arian i waith mŵn Pwllygwynt, neu, fel y dywedai Wil, "yn specilatio." Wedi gwario cymaint o arian, a thra yr oedd Capten Trefor yn dal i ddweyd eu bod yn mron d'od o hyd i'r plwm, yr oedd Hugh Bryan yn anfoddlawn iawn i roddi ei gyfran yn y gwaith i fynu, yn gymaint felly, fel ar ol cario ei arian ei hun yno, y dechreuodd efe gario arian pobl ereill. Dan yr amgylchiadau, yr oedd ei siop yn dioddef yn enbyd, a'r diwedd fu, fel y proffwydasai Wil Bryan cyn myn'd oddicartref, iddi fyn'd yn "U. P." ar yr hen Hugh. Tra yr oedd Hugh Bryan yn myn'd ar i waered, yr oedd Enoc Huws yn gwthio yn mlaen, ac eisoes wedi cael y gair ei fod yn un garw am fusnes. Erbyn hyn, cenfigenid wrth y weddw am ei bod mor ffortunus yn ei chynorthwywr. Gwyddai Wil Bryan er's amser fod Enoc yn gwneud stori ar fasnach ei dad, hyny ydyw tad Wil, yn gystal ag yr eiddo ereill. a chydnabyddai hyny yn rhwydd, ond yr oedd ef yn mhell o edmygu Enoc. Yr oedd Wil yn rhy gyfrwys i adael i neb wybod ei fod yn cenfigenu at lwyddiant Enoc Huws, a'r unig sylw angharedig a glywais o'i enau, hyd yr wyf yn cofio, oedd hwn:—

"'Does dim isio *genius*, wyddost, i wneud *grocer* llwyddianus —*second* a *third rate men* ydyw nhw i gyd. Yn wir, mae pob *genius* o siopwr a weles i rioed yn tori i fynu yn y diwedd; a rydw i'n mawr gredu mai rhw *successful provision dealer* oedd y *confounded* Demas hwnw y mae Paul ne Ioan, dwy i ddim yn cofio prun, yn sôn am dano yn y Testament."

Aeth Wil oddicartref, ac aeth ei dad "*up the spout*," a Wil fuasai yr olaf i ddweyd fod ei dad yn "*genius*," ac ni fuasai yn fyr o ddangos nad hyny oedd "*point* ei *argument*." Yr oedd pob peth fel pe buasai yn gweithio i ddwylaw Enoc Huws, ac yr oedd y weddw ac yntau cyn bo hir yn chwip ac yn dop. Yr

oedd ar y weddw y fath arswyd i Enoc anesmwytho drwy i rywun gynyg iddo gyflog mawr, fel y darfu iddi heb ei gofyn, roddi iddo gyfran yn y fasnach, yr hyn a barodd i Enoc ddyblu ei ymdrechion. Drwy hyn heliodd Enoc, nid yn unig dipyn o arian iddo ef ei hun, ond ychwanegodd gryn lawer at ffortun y weddw. Aeth misoedd lawer heibio, a bwriodd y weddw arwyddion ei gweddwdod ymaith, a digwyddodd iddi—nid yr hyn a ddigwydd yn gyffredin i wragedd gweddwon, sef ail briodi—ond marw. Ond cyn marw gwnaeth y weddw ddarpariaeth yn ei hewyllys olaf a'i thestament, fod i Enoc Huws gael y cynyg cyntaf ar y siop a'r fasnach, a chael amser rhesymol i dalu i'r ysgutoryddion am y stoc. Neidiodd Enoc i'r cynygiad; ac ymddangosai pob awel fel pe buasai yn chwythu o'i du. Yn fuan iawn yr oedd ei lwyddiant masnachol yn destyn ymddiddan llaweroedd. Nid oedd Enoc Huws yn chwanog i lenwi swyddau cyhoeddus, ac nid oedd natur wedi ei ddonio â'r cymhwysderau at hyny. Yr oedd efe, fel y crybwyllwyd yn barod, dipyn yn anhyf. Ond y mae rhyw reddf yn y natur ddynol yn ei gorfodi i gredu os bydd dyn yn llwyddianus yn y byd y dylai dori ffigiwr yn y capel, gan nad pa gymwysder fydd yn y dyn at hyny, a chan nad pa mor awyddus a fydd efe. Fel y mae y *Lord Lieutenant of the County* yn cael ei dueddu—yn anymwybodol hwyrach—i benodi un yn Ynad Heddwch am ei fod yn fab i foneddwr, ac heb feddwl am foment am ei gymhwysder i eistedd ar y fainc farnol, felly y mae rhyw lais yn mynwesau crefyddwyr—pan gyfyd dyn dipyn yn y byd, yn dywedyd wrthynt—"Mae'n bryd i'r dyn yma gael swydd." Ac felly y bu gydag Enoc Huws. Nid oes dim, mewn byd nac eglwys, yn llwyddo fel llwyddiant. Cynyddodd masnach Enoc yn ddirfawr. Mae pobl, fel defaid, yn hoff o dyru i'r unfan. Ar ddiwrnod marchnad yr oedd siop Enoc Huws yn orlawn, tra yr oedd ambell fasnachwr, oedd cystal dyn ag yntau, ac heb fod yn byw yn mhell oddiwrtho, yn ddiolchgar am gael cwsmer yrwan ac yn y man. Taener y gair fod hwn-a-hwn "yn gwneyd yn dda," a thyra pobl i'w gynorthwyo i wneud yn well; sibryder fod un arall yn cael trafferth i gael y ddeupen yn nghyd, a gadewir ef gan y lluaws, ac weithiau gan ei gyfeillion, er mwyn gyru y ddeupen yn mhellach oddiwrth eu gilydd. *Dyna'r gwir, yn dy wyneb, am danat ti, yr hen natur ddynol!* Ond yr oedd

Enoc Huws yn haeddu llwyddo—yr oedd yn ddyn gonest, yr hyn sydd yn beth mawr i ddweyd am dano, ac ni byddai byth yn taenu celwyddau mewn hysbysleni ar y paradwydydd, ac yn y newyddiaduron. Ond, fel y dywedwyd, yr oedd yn byw yn ei ymyl ddynion càn onested ag yntau, yn yr un fasnach ag yntau, yn methu talu eu ffordd. Nid oedd y dw'r wedi dechreu rhedeg at eu melinau hwy—yr oedd agos i gyd yn myned i droi olwyn fawr Siop y Groes, a gwnaent hwythau druain, eu goreu i ddal y trochion oddiwrth yr olwyn fawr pan droai gyflymaf. Fel y cynyddai ei fasnach, cynyddai dylanwad Enoc yn y capel. Cyfranai yn haelionus. Nid oedd ynddo, fel yr awgrymwyd, lawer o elfenau dyn cyhoeddus, ond toc y gwnaed ef yn arolygwr yr Ysgol Sabbothol, ac ychydig a fu yn fwy llwyddianus nag ef i gael athrawon ar ddosbarthiadau. Yr oedd rhywbeth mor ddymunol yn ei wyneb fel na feiddiai neb ei wrthod. Credid fod Enoc Huws yn gyfoethog, a dyweder a fyner, y mae i gyfoeth lawer o fanteision, ac nid y lleiaf ydyw fod yn anhawddach i'w berchenog gyfarfod âg anufudd-dod. Byddai Pitar Jones, y crydd, yr arolygwr arall, er ei fod yn alluocach dyn, ac yn un o farn addfetach, yn methu'n glir yn fynych a chael athraw ar ddosbarth, ond nid oedd gan bobl nerf i wrthod Enoc Huws. Mynych y teimlodd Pitar i'r byw y gwahaniaeth yn ymddygiad pobl ato ef rhagor at ei gyd-arolygwr. Ond yr oedd Pitar yn annghofio y gwahaniaeth oedd yn ei sefyllfa fydol; ac hefyd yr ymwybyddiaeth oedd yn meddyliau pobl, sef, na wyddent pa mor fuan y byddai arnynt angen am gynorthwy Enoc Huws.

Gallesid meddwl nad oedd dim yn amgylchiadau Enoc Huws yn fyr i'w wneud yn ddyn dedwydd. Yr oedd wedi, ac yn ol pob golwg, yn llwyddo yn y byd—perchid ef gan ei gymydogion, a mawrheid ef yn y capel, ac os oedd iddo elynion a chenfigenwyr, nid oeddynt o'i wneuthuriad ef ei hun. Ond càn lleied a wyddom am ddirgel ddyn calon ein gilydd? Yr oedd syniad Enoc Huws am dano ei hun mor wylaidd, a'i duedd mor anuchelgeisiol, fel nad oedd swydd na pharch yn cyfranu ond ychydig, os dim, at ei ddedwyddwch. Dyn sengl oedd efe; ac yn y ffaith yna yn unig, yr oedd llu o ofidiau a phrofedigaethau na chyfaddefir gan hen lanciau ond yn unig wrth eu gilydd, pan fyddont yn adrodd eu profiad y naill i'r llall. Ond ni ddarfu i Enoc, hyd yn nod yn y wedd yna,

ysgafnhau dim ar ei fynwes. Cadwodd ei holl gyfrinach iddo ef ei hun. Yn ngwaelod ei galon diystyrai y drychfeddwl ei fod yn perthyn o gwbl i'r clwb henlancyddol, ac nid oedd ganddo y gwroldeb—y dynoldeb—i ddiaelodi ei hunan. Paham? O herwydd, tybiai ef, ei fod wedi gosod ei serch yn rhy uchel—ar wrthddrych anghyrhaeddadwy. Unig ferch ydoedd hi i Capten Trefor, Tynyrardd, ac hwyrach mai yn y fan hon y dylwn ddwyn teulu Tynyradd i sylw y darllenydd.

---

## PENNOD IV.

### CAPTEN TREFOR.

Yr oedd Capten Richard Trefor wedi bod yn troi yn ein mysg er's amryw flynyddoedd, ond nid oedd efe, mwy nag Enoc Huws, yn frodor o'r dreflan. Pan ddaeth efe gyntaf atom, yr oedd yn mron ar ei ben ei hun fel un ag oedd yn gadael i'w farf dyfu ac heb eillio dim, yr hyn, nes i'r peth ddyfod yn ffasiynol, a greodd ragfarn gref yn ei erbyn yn mynwesau rhai pobl dda a duwiol. Edrychai hyd yn nod y gŵr call hwnw, Abel Huws, braidd yn gilwgus arno. Yr oedd yn eithaf amlwg, meddai y rhai oeddynt yn cofio ei ddyfodiad cyntaf atom, nad oedd ganddo, y pryd hwnw, "fawr o ddim o'i gwmpas," ac mai dyn "yn *juglo* bywiolaeth" ydoedd. Troai o gwmpas y gweithfeydd mŵn, ac yn fuan iawn, er na wyddai neb pa sut, yr oedd ganddo law yn y peth yma a llaw yn y peth arall. Credid yn gyffredinol mai dyn yn byw ar ei *wits* oedd Richard Trefor, ac yn sicr, nid oedd efe yn brin o honynt. Meddai allu neillduol i introdiwsio ei hun i bawb, ac yn fuan iawn gwelid ef yn ymddyddan â phersonau nad oedd llawer o'r hen drigolion erioed wedi tori Cymraeg â hwynt. Siaradai Richard Trefor Gymraeg a Saesneg yn llyfn a llithrig, a chordeddai eiriau yn ddiddiwedd os byddai raid. Yr wyf yn cofio clywed Wil Bryan yn cymeryd ei lŵ fod Richard Trefor, rywdro, wedi llyncu Johnson, Webster, a Geiriadur Charles fel dyn yn llyncu

tair pilsen. Gan nad beth am gywirdeb llŵ Wil gyda golwg ar Johnson a Webster, nid ydyw yn beth anhygoel i Trefor lyncu Geiriadur Charles yn ei grynswth, oblegid yr oedd efe yn hynod gyfarwydd yn athrawiaethau crefydd, ac yr oedd yr Ysgrythyrau ar benau ei fysedd. Yn y dyddiau hyny yr oedd cryn ddadleu ar bynciau crefyddol — "Etholedigaeth" a "pharhad mewn gras" a'r cyffelyb, ac ystyrid Richard Trefor yn un o'r rhai "trymaf" mewn dadl, a medrus yn y gwaith o hollti blewyn. Nid oedd efe y pryd hwnw yn aelod eglwysig, nac ychwaith yn neillduol o fanwl yn nghylch ei fuchedd, oblegid dywedid gan rai ei fod ef weithiau yn cymeryd "dropyn gormod." Nid rhyw uchel iawn y safai Richard Trefor yn meddwl mam Rhys Lewis, canys y mae'n gofus genyf ei chlywed yn dweyd—

"Yr ydw i yn i wel'd o yn debyg arw, wel di, i Ifans, y syfêr, mae hwnw yn byticular iawn am gadw y ffordd fawr yn i lle ac yn daclus, ond anaml y bydd o'i hun yn'i thrafeilio hi. Ac felly mae Trefor; mi ddyliet fod o'n ofalus iawn na fydd na chareg na phwll ar y ffordd i'r bywyd, ond mae gen i ofn nad ydi o'i hun byth yn ei cherdded. Mi glywes Bob yma'n deyd fod y Beibl ar bene'i fysedd o, ond mi fase'n well gen i glywed fod tipyn o hono yn'i galon o."

Ond nid hir y bu Richard Trefor heb ddyfod i'r Seiat, ac yr oedd yn hawdd deall ar waith Abel Huws yn ei holi mai syniad cyffelyb i'r eiddo Mari Lewis oedd ganddo yntau am dano. Nid oeddwn y pryd hwnw ond hogyn, ond yr wyf yn cofio y noswaith yn burion, ac o hyny hyd yn awr ni welais neb, wrth gael ei dderbyn i'r seiat, yn cael ei holi mor galed, ac yr wyf yn sicr pe'd holid rhai yn gyffelyb yn y dyddiau hyn, ac iddynt wybod hyny yn mlaen llaw, na ddeuai neb byth yn aelod eglwysig. Pan oedd Abel yn trin Richard Trefor, ni welais fam Rhys Lewis, cynt nac wedi hyny, yn arddangos y fath fwynhad. Daliai ei phen yn gam, a chadwai gîl ei llygaid yn sefydlog ar Abel, fel pe buasai hi yn ceisio dweyd wrtho, "Hene, Abel, gwasgwch arno fo!" Ond pa gwrs bynag a gymerai Abel Huws nid oedd ball ar Richard Trefor—atebai bob cwestiwn yn llithrig a llathraidd. Mae'n gofus genyf fy mod i a Bob Lewis yn cydgerdded gyda'i fam ac Abel o'r capel y noswaith hono, ac ebe Mari Lewis—

"Abel, ddaru chi 'rioed y mhlesio i'n well na heno."

"Aië, yn mha beth, Mari?" ebe Abel.

"Wel, ond wrth wasgu'r fêg ar y dyn ene," ebe Mari. "Yr ydw i'n ofni, Abel, nad ydi'r gŵr ene ddim wedi tori asgwrn 'i gefn, a bod cryn waith cwaliffeïo arno eto, er mor llithrig ydi' dafod o."

"Nid yr un amcan sydd gan bawb o honom, Mari, wrth ddod i'r seiat," ebe Abel.

"Wel, on 'doeddwn i'n dallt yn burion ar ych siarad chi, Abel, fod chi'n nelu at rwbeth felly, a fyddwch chi byth yn siarad dan ych dwylo. 'Doedd ene lwchyn o dinc yr enedigaeth newydd yno fo, a odd rwan?" ebe Mari.

Rhyfedd y fath *insight* i gymeriadau oedd gan yr hen bobl, ac mor graff yr oeddynt i wahaniaethu y lleidr a'r ysbeiliwr oddiwrth yr hwn a ddeuai drwy y drws i gorlan y defaid. A oedd *concert pitch* crefydd yr hen bobl yn uwch na'r eiddom ni, ac, felly, fod yn hawddach pigo allan yr ysgrechiwr yn y côr? Pa fodd bynag, nid oedd Richard Trefor yn llawn mis oed fel crefyddwr cyn i'r gair fyned allan ei fod ef a Miss Prydderch—yr hon oedd ferch ieuanc grefyddol a diniwed, ac yn cael y gair fod ganddi lawer o arian—yn myn'd i'w priodi. Gwiriwyd y gair yn fuan—hyny ydyw, gyda golwg ar y priodi, ond gyda golwg ar yr arian ni wiriwyd mo hwnw byth, oblegid yr oedd Miss Prydderch can dloted a rhywun arall, ond ei bod yn digwydd gwisgo yn dda. Nid oedd Richard Trefor uwchlaw meddwl am arian, ond os priododd efe er mwyn arian cafodd gam gwâg. Yn wir, clywais ef ei hun, yn mhen blynyddoedd ar ol priodi, pan oedd wedi cyrhaedd sefyllfa uchel yn y byd, yn dweyd nad oedd efe yn ddyledus i neb am ei sefyllfa anrhydeddus ond i'w dalent a'i ymdrechion personol, ac mai'r cyfan a gafodd efe fel cynysgaeth efo'i wraig oedd—gwyneb prydferth, calon lawn o edmygedd o hono ef ei hun, a llon'd bocs o ddillad costus. Ac nid oedd genyf le i amheu ei eirwiredd, oblegid clywais fwy nag un o'i hen weithwyr yn dweyd mai golwg ddigon tlodaidd oedd arno ef a'i wraig am blwc ar ol priodi. Ond yr oedd llwyddiant a phoblogrwydd mewn ystôr i Richard Trefor. Nid oedd yn bosibl, yn ol natur pethau, i oleuni mor ddisglaer gael ei gadw yn hir o dan lestr. Fel teigr yn gwneud llam ar ei ysglyfaeth, felly Richard Trefor, un diwrnod, a roddodd naid ar wddf ffawd—cydiodd ynddi, a daliodd ei afael ynddi am flynyddoedd lawer.

Mae Cymru benbaladr wedi clywed am waith mŵn Pwllygwynt. Ond hwyrach na ŵyr pawb mai Richard Trefor oedd ei gychwynydd—mai efe ydoedd darganfyddwr y "plwm mawr." O'r dydd cyntaf y gwnaed y darganfyddiad yr oedd dyrchafiad Richard Trefor yn eglur i bawb. Nid Richard Trefor oedd efe mwyach, ond Capten Trefor, os gwelwch yn dda. Dechreuwyd edrych ar Capten Trefor fel rhyw Joseph oedd wedi ei anfon gan ragluniaeth i gadw yn fyw bobl lawer. Cymerodd cyfnewidiad sydyn le yn syniadau pobl am dano. Buan y gwelodd y rhai a arferent edrych yn gilwgus arno mai tipyn o guldra oedd hyny o'u hochr hwy, ac ni chollasant amser i ad-drefnu eu meddyliau am dano. Yr hyn a elwid o'r blaen yn bechodau yn Richard, nid oeddynt ond gwendidau yn Capten Trefor. Yr oedd rhyw fai ar bawb, ac ni allesid disgwyl i hyd yn nod Capten Trefor fod yn berffaith. Nid oedd gwendidau Capten Trefor ond gwendidau naturiol, gwendidau hawdd iawn, erbyn hyn, rhoddi cyfrif am danynt, a'u hesgusodi mewn gŵr *yn ei sefyllfa ef.* Yr oedd Capten Trefor yn well dyn o lawer nag yr oeddid wedi arfer syniad am dano, ac, yn sicr, yr oedd efe yn fendith i'r gymydogaeth. Mewn gair yr oedd Capten Trefor yn engraifft deg mor dueddol ydyw y natur ddynol i ffurfio syniad anghywir am ddyn pan fyddo yn dlawd, ac mor anobeithiol ydyw i un gael ei iawn brisio nes iddo gyrhaedd rhyw raddau o lwyddiant bydol. Pe prophwydasai rhywun am Capten Trefor, fel y gwnaethai Mr. Bithel am Enoc Huws, sef na wnai efe byth *feistr*, buasai yn rhwym o gael ei ystyried yn aubrophwyd. Ar ysgwyddau Capten Trefor gorweddai swydd ac awdurdod yn rasol a gweddeiddlwys ddigon. Amlwg ydoedd ei fod wedi ei eni i fod yn *feistr.* Nid am ei fod yn arddangos unrhyw dra-awdurdod arglwyddiaethus a gorthrymus. Na, yr oedd efe yn rhy dirion a chyweithas i hyny. Meddai ffordd fwy rhagorol, a dull o ddweyd drwy ei ymddygiad wrth bawb oedd dan ei awdurdod. "Gwelwch mor fwyn ydwyf, ac mor frwnt y gallwn fod pe bawn yn dewis. Gwyliwch gamarfer fy mwyneiddra. 'Dydw i ddim yn gofyn i chwi dynu eich het i mi, ond chwi wyddoch mai diogelaf i chwi ydyw gwneud hyny."

Yn y capel ni chymerai efe un amser ran gyhoeddus yn y gwasanaeth, ond yr oedd rhywbeth yn ei ymddangos-

iad—ar fore Sul, er engraifft—a dynai alian o bob aelod o'r gynulleidfa "*good morning*, Capten Trefor" (dystaw.)

---

## PENNOD V.

### "SUS."

FEL y sylwyd yn barod, yr oedd Mrs. Trefor yn ddynes ddiniwed; ac yn eithaf naturiol a phriodol, hyhi o bawb a edmygai ei gŵr fwyaf. Ni byddai hi byth yn croesi y Capten; ac yr oedd yntau mewn canlyniad yn hynod o fwyn tuag ati. Credai Mrs. Trefor fod dedwyddwch haner yr hil ddynol yn dybynu ar ei gŵr, ac ni ddarfu iddo yntau erioed ei didwyllo, na'i blino mewn modd yn y byd gyda manylion ei amgylchiadau a'i amrywiol ofalon. Yn wir, yr oedd ar Mrs. Trefor arswyd i'r Capten ddadguddio iddi gyfrinach a phwysigrwydd ei safle gymdeithasol, rhag y buasai hyny yn peri iddi ei edmygu yn ormodol a pheri iddi anghofio Duw. Gwyddai Mrs. Trefor fod y Capten yn ŵr digyffelyb, a bod bywoliaeth ardal o bobl yn dibynu ar ei air, a chredai hefyd fod yn y Capten ogoniant tuhwnt i hyny na wyddai hi ddim am dano, ac na fuasai yn llesol i'w henaid ei wybod am y rheswm a roddwyd uchod. Nid oedd ganddi hi, er engraifft, un drychfeddwl am faint ei gyfoeth—ond yn unig y gallai hi dynu oddiarno yn ddiderfyn.

> "Ac er maint y tynu oedd arno
> Nad oedd ei holl eiddo ddim llai."

Digon gan Mrs. Trefor oedd fod enw y Capten yn dda yn mhob siop yn y dref. Yr hyn a barai nid ychydig o bryder i Mrs. Trefor ar hyd y blynyddoedd oedd ei hofn i amrywiol ofalon y Capten, a'i waith yn astudio *geology* mor galed, beri i'w synwyr, yn y man, ddyrysu, oblegid nid oedd y Capten, wedi'r cwbl, ond dyn. Yr unig ffordd, neu o leiaf, y ffordd fwyaf hwylus, tebygai Mrs. Trefor, y gallai hi fod yn wraig

deilwng o Capten Trefor, a chadw i fynu urddas ei gŵr, oedd drwy ymwisgo oreu fyth y gallai. Yn wir, yr oedd hi wedi arfer gwneud hyny pryd nad oedd ganddi foddion cyfartal i'w dymuniadau, ond yn awr nid oedd cythlwng ar ddeisyfiad ei llygaid. Eto i gyd yr oedd Mrs. Trefor yn grefyddol, a gadewch i ni obeithio, yn dduwiol hefyd. Nid oedd neb ffyddlonach na hi yn moddion gras. Yr oedd hi yn un o'r rhai hyny ag sydd yn gwneud i fynu *aristocracy* Ymneillduaeth, y rhai sydd yn creu edmygedd ynom eu bod wedi cael nerth i lynu efo chrefydd a pheidio myn'd i'r Eglwys neu annghofio eu Cymraeg a myn'd at yr achos Sasneg.

Yr oedd i Capten a Mrs. Trefor ferch—eu hunig-anedig. Susan Trefor oedd eilun ei thad a chanwyll-llygaid ei mam. Dygwyd hi i fynu yn nghanol moethau llwyddiant ei thad, a chafodd holl fanteision yr addysg a ellesid ei gael yn yr ardal y dyddiau hyny. Nid wyf yn cymeryd arnaf, ar hyn o bryd, ddweyd pa ddefnydd a wnaeth hi o'r manteision. Ond yr wyf yn cofio yn burion, pan oeddwn i yn hogyn, y golygid Susan Trefor y ferch ieuanc fwyaf brydweddol, ffasiynol, ddysgedig, a'r fwyaf *unapproachable* a berthynai i'n capel ni. Miss Trefor oedd safon ein holl ferched ieuainc. Hi (ar ol marw Abel Huws) oedd y gyntaf i gael ei smyglo yn gyflawn aelod heb ei holi. Ac y mae yn ffaith fod gwisg Miss Trefor wedi tynu mwy o ddagrau o lygaid merched ieuanc y capel nag a dynwyd gan yr holl bregethau a draddodwyd yn eu clywedigaeth yn y cyfnod hwnw. Ychydig o bobl gyfrifol—hyny ydyw *respectable*—a berthynai i'n cynulleidfa—rhai ar eu goreu oeddynt agos i gyd. Oblegid hyny prin y golygai Miss Trefor fod neb o "bobl y capel" yn gymwys gymdeithion iddi hi, ac nid oedd un o'n merched ieuainc mor uchelgeisiol ag i ymgyraedd at hyny. Ond yr oeddynt yn cael y fraint o'i gweled ar y Sabboth ac yn mawrhau y fraint. Yn ddigon naturiol, yr oedd yr ychydig a gawsent y fraint o siarad â Miss Trefor yn edrych yn ol at y troion hyny fel y llygadau mwyaf heulog yn hanes eu bywyd. Ni fynychai Miss Trefor yr Ysgol Sabbothol, ond gwnai i fynu am hyny drwy roddi tê rhad i blant bach tlodion, ac ar y cyfryw achlysuron yr oedd hi ei hun hyd yn nod yn tywallt tê i'r cwpanau, a dywedid ddarfod iddi fwy nag unwaith roddi ei llaw wen dan ên ambell hogyn bach pengrych yn garuaidd ods. Dywedai rhai, oeddynt dipyn yn genfigenus,

mai merch ieuanc benwâg a ffolfalch oedd Miss Trefor—ymwybodol o'i phrydferthwch ac anymwybodol o'i diffygion. Ond prin y gallasai hyny fod yn wir, a phrin y mae eisieu gwell rheswm am ddweyd fel yna na bod Wil Bryan yn edmygydd mawr o honi. Nid un oedd Wil i edmygu hoeden ddisynwyr, ac ni byddai ef byth yn blino sôn am "Sus," chwedl yntau. Gallai Wil oddef i ni yr hogiau ddweyd y peth a fynem am Capten Trefor, ac weithiau, ni phetrusai ef ei hun siarad yn frwnt am dano, am ei fod wedi perswadio ei dad i "speciletio" nes myn'd yn dlawd. Ond ni feiddiai un o honom sibrwd casair am "Sus" heb osod ei hunan yn agored i ddangos mai llwfryn ydoedd, neu ynte ddangos pa berffeithrwydd a gyrhaeddasai yn y *noble art of self-defence.* Ac y mae gwir arall a ddylid ei ddweyd yn y fan hon, sef nad oedd Miss Trefor hithau yn diystyru Wil. Dywedodd Wil ei hun wrthyf yn gyfrinachol un tro—"yr wyf yn dallt y natur ddynol yn ddigon da i dy sicrhau nad *small beer* ydw i yn ngholwg Sus." Er, fel y mae Rhys Lewis yn yr Hunan-gofiant yn adrodd geiriau Wil, "nad oedd dim byd *definite* rhyngddo ef â Sus," eto, yr oedd y peth yn eithaf hysbys i ni, bechgyn y capel, fod gan Wil ddylanwad mawr arni. Gwyddem hefyd fod y Capten, gyda'i lygad barcut, wedi canfod nad annerbyniol oedd Wil gan ei ferch, a'i fod wedi dangos ei anfoddlonrwydd hollol i hyny. Pan soniais un tro am hyn wrth Wil, ebe fe, gyda'i rwyddineb arferol—

"Fel hyn y mae hi, wyddost, mae'r Capten, ar ol i nhad gario'i holl brês i Bwllygwynt, yn gwbod yn go lew be ydi'r gloch yn ein tŷ ni—fe ŵyr o'r gore nad oes acw fawr o obeth am *five hundred a year.* Mae o'n meddwl, wyddost, y meder o neyd well *match*, ac mewn ffordd, fedra i mo'i feio fo. Ond bydae hi yn dwad i *pitch battle* rhyngo i a'r Capten am Sus, mae gen i *idea* go lew sut y troe pethe."

## PENNOD VI.

### CYFFES FFYDD MISS TREFOR.

PAN aeth Wil Bryan oddicartref, wedi rhagweled mai "U. P. a *liquidation by arrangement*" a fyddai hi ar ei dad, Hugh Bryan, llawenhaodd calon un dyn gonest yn ei ymadawiad, sef yr eiddo Enoc Huws. Yr oedd Enoc, druan, yn un o'r dynion diniweitiaf a mwyaf difalais ar wyneb daear, ond nid allai efe aros Wil Bryan. Ni wnaethai Wil erioed ddim niwed iddo, ond yn unig ei anwybyddu. Ac eto, pe clywsai Enoc fod Wil wedi cael ei ladd, neu ei fod wedi ymgrogi, prin, yr wyf yn credu, y gallasai efe ymatal rhag gwenu, os nad llawenhau. Yr oedd cael gwared o Wil, heb i'r naill amgylchiad na'r llall a grybwyllwyd ddigwydd, yn rhoi modd i Enoc Huws lawenhau yn ddirfawr, heb anesmwythyd cydwybod. Yn ystod y blynyddoedd yr oedd Enoc wedi bod yn myn'd a dyfod yn ein plith, nid oedd ugain gair wedi pasio rhyngddo ef a Miss Trefor. Ac eto, am dani hi y meddyliai efe y dydd, ac y breuddwydiai efe y nos. Er na olygai Enoc—yn ngwyleidddra ei ysbryd, ei hun yn gydmar teilwng i Miss Trefor, ac er na chleddai efe y gobaith gwanaf y byddai i ddyheadau ei galon byth gael eu sylweddoli—yn wir yn ei fynudau synwyrol, canfyddai mai ffansi wyllt wirion oedd y cwbl—eto carai adael i'w ddychymyg fel gwenynen droi o gwmpas a hofran uwchben gwrthddrych ei ddymuniad yn ddinag, ac yr oedd gwybod fod rhywun arall yn mwynhau cymundeb agosach, yn ei lenwi âg eiddigedd, ac yn ei wneud yn druenus dros ben. Weithiai teimlai yn enbyd o ddig wrtho ei hun, a phryd arall chwarddai am ben ei ffolineb, ond, fel y dywedodd wrtho ei hun ugeiniau o weithiau, nid oedd ei feddyliau yn niweidio neb, ac ni wyddai neb am danynt. Yr oedd Enoc, fel y dywedwyd, yn llawen iawn am i Wil Bryan fyn'd oddicartref; ond ni chymerasai efe gan' punt am hysbysu ei lawenydd hyd yn nod i'w gyfaill penaf. Bellach nid oedd yr un gacynen i fyned rhwng y wenynen a'r blodyn, a phe cawsai Enoc sicrrwydd na ddeuai yr un gacynen arall, o'r braidd na fuasai yn

ddyn dedwydd. A'r dedwyddwch cymharol hwn a fwynhaodd efe am dymhor lled faith, drwy roddi ffrwyn i'w ddychymyg i adeiladu castelli yn awyr Siop y Groes. Ond pe gwybuasai Enoc am "gastelli" Miss Trefor, prin y buasai ei gastelli ef nemawr uwch na phridd y wâdd.

Llanwai Wil Bryan le mawr yn nghalon Miss Trefor. Hoffai ei gwmni tuhwnt i bobpeth. Yr oedd gan Wil bob amser rywbeth i'w ddweyd, a'r rhywbeth hwnw yn wastad i'r pwrpas. Ni fyddai hi byth yn blino arno, ac ni fyddai byth, gydag ef, yn cael ei hun yn y sefyllfa anghysurus hono o ddyfeisio am beth i sôn nesaf, fel y byddai gyda'r "*baboons* erill." Ac hyd yn nod pan ddeallodd hi fod ei thad, Capten Trefor, wedi cyrhaedd gwaelod "shwmp" poced Hugh Bryan, ni pharodd hyny unrhyw ddiflasdod ar gwmni Wil, nac unrhyw leihad yn ei hedmygedd o hono. Yr oedd y Capten, fwy nag unwaith, wedi rhoi ar ddeall iddi ei anghymeradwyaeth o'i hoffder hi o Wil, ond ni wnaeth gwahardd yr afal i ferch Efa ond peri iddi ei ddymuno yn fwy. Teimlodd Miss Trefor oddiwrth ymadawiad Wil fwy nag y dymunasai hi i neb ei wybod, fwy nag a gyfaddefai hi wrthi hi ei hun. Am amser, collodd hyfrydwch yn mhobpeth, ac yr oedd meddwl am fyn'd i'r capel yn gâs ganddi. Ond am amser yn unig y bu hyn. Er yr holl sylw a dalodd efe iddi, a'r holl garedigrwydd a ddangosodd, a'r difyrwch diderfyn a hyfforddiodd efe iddi am gyhyd o amser, nid oedd yn bosibl, ymresymai Miss Trefor, fod Wil, wedi'r cwbl, yn hidio rhyw lawer ynddi, onide ni buasai efe yn myned ymaith heb gymaint a sôn gair wrthi, na gyru llinell ati. Ac fel geneth gall a synwyrol, eisteddodd Miss Trefor i lawr i ail-gynllunio program ei bywyd, ac ail-ffurfio ei hegwyddorion, yn ol y rhai y byddai iddi hi weithredu yn y dyfodol. Ni chymerodd iddi hi lawer o amser i ffurfio ei chredo a chyffes ei ffydd. Yr hyn a arferai gyniwair drwy ei meddwl a'i chalon yn afluniaidd, anmhenodol a gwâg, a ddygodd hi yn ebrwydd i drefn a dosbarth, a phe buasai rhywun yn gofyn i Miss Trefor wrth ba enw y galwasai hi y pethau hyn, gŵn yn sicr mai ei hatebiad a fuasai "*Fy ideas.*" Ac, i nodi ychydig o'r *ideas*, gellir enwi y rhai canlynol—mae hi oedd y ferch brydferthaf yn y wlad (yr oedd Wil Bryan wedi ei sicrhau o hyny, ac yr oedd Wil cystal *judge* a neb y gwyddai hi am dano). Fod prydferthwch yn dalent, ac y dylai enill deg

talent ati wrth ei gosod yn y farchnad oreu. Fod yn well i ferch ieuanc brydweddol fyw ar un pryd yn y dydd am dri mis, na gwisgo bonet allan o'r ffasiwn. Hyd yr oedd yn bosibl, na chymerai hi sylw o neb, yn wryw nac yn fenyw, islaw iddi hi ei hun, oddigerth mewn amgylchiadau ag y gwyddai hi yr edrychid ar hyny fel ymostyngiad rhinweddol a christionogol. Na fyddai iddi hi byth, hyd y gallai, ddifwyno ei dwylaw gydag unrhyw orchwyl isel a dirmygedig, megis cynneu tân, golchi'r llestri, glanhau y ffenestri, cyweirio'r gwely, a'r cyffelyb, ac os byddai *raid* iddi wneud rhywbeth yn y ffordd yna, na cha'i llygad un estron ei gweled. Y byddai iddi aros yn amyneddgar a phenderfynol heb briodi hyd yn bump ar hugain oed, os na ddeuai rhyw foneddwr cyfoethog i gynyg ei hun iddi, ond os na ddeuai y boneddwr yn mlaen erbyn yr oed hwnw, nad arhosai hi yn hwy yn sengl, ond yr ymostyngai i gymeryd y masnachwr goreu y gallai hi gael gafael arno, os byddai efe yn arianog. Nad edrychai hi ar bregethwr ond fel un i dosturio wrtho, fel dyn prudd a thlawd, ond os caffai hi gynygiad gan giwrad, yr hwn a fyddai o deulu da, ac yn un tebyg o gael bywioliaeth dda, y byddai iddi hi gymeryd hyny i ystyriaeth—hyny ydyw, y teulu a'r fywioliaeth, ac hefyd, os byddai y ciwrad yn *good-looking*, na wnai wahaniaeth yn y byd pa mor lymrig a dienaid a fyddai efe—po fwyaf felly, goreu yn y byd, gallai ei drin fel y mynai. Pwy bynag briodai hi, a phriodi a wnai yn sicr ddigon, ac nid gwaeth a fyddai ganddi fod yn *Hottentot* nag yn hen ferch—pwy bynag a briodai hi, yr oedd yn benderfynol y mynai gael ei ffordd ei hun—neu, ac i mi ddefnyddio ymadrodd isel—yr oedd wedi gwneud diofryd y mynai gael "gwisgo'r clôs."

Dyna ychydig o "*ideas*" Miss Susan Trefor. Yr oedd ganddi ddrychfeddyliau ereill, y rhai, pe buasid yn eu henwi, a fuasent yn gosod Miss Trefor mewn gwêdd fwy dymunol o flaen y darllenydd. Ac nid ydyw ond cyfiawnder â hi i mi ddweyd fod gan Miss Trefor un "*idea*" ag oedd i raddau helaeth yn rhoi lliw a llun ar ei holl "*ideas*," a hwnw oedd ei chrediniaeth ddiysgog a pharhaus fod ei thad yn gyfoethog. Cafodd Miss Trefor amser maith—amryw flynyddoedd—i anwesu a magu yr "*ideas*" a grybwyllwyd. Tybiais mai priodol a doeth oedd i mi draethu cymaint a hyn am deulu Tynyrardd, cyn myned yn mlaen at y bennod nesaf.

## PENNOD VII.

### DEDWYDDWCH TEULUAIDD.

NOSWAITH yn mis Tachwedd ydoedd—noswaith ddigon oer a niwliog, ac yr oedd pobl y frest gaeth â'u trwynau wrth y pentan yn ymladd am eu hanadl, ac, yn ddigon naturiol, yn meddwl mai hwynthwy yn unig oedd mewn trueni y noswaith hòno. Ond y mae y fath beth weithiau ag *asthma* ar feddwl ag amgylchiadau dyn pryd nad ŵyr i ba le i droi ei ben i gael gwynt. Wrth fyned heibio Tynyrardd, preswylfod Capten Trefor, cenfigenai ambell fŵnwr tlawd, byr ei anadl, at ei glydwch, a dedwyddwch ei breswylydd. Dywedai ynddo ei hun, "Mae'r Capten yn bwyta ei swper, neu wedi gorphen ei swper, yn ysmocio ei bibell, ac yn estyn ei draed mewn slipars cochion at ei dân gwresog, a minau, druan gŵr, yn gorfod gadael fy nheulu a myn'd i weithio stem-y nos yn Mhwllygwynt, bydae yno wynt hefyd. Gwyn fyd y Capten! Ond 'does dim posib i bawb fod yn Gapten, a'r neb a aned i rôt ddaw o byth i bum' ceiniog." Ond pe gwybuasai y mŵnwr y cwbl, mae yn amheus a newidiasai efe ddwy sefyllfa â'r Capten. Y ffaith oedd, nad oedd y Capten yn bwyta ei swper, nac yn ysmocio, nac yn estyn ei draed at y tân, ond yn hytrach, yr oedd efe yn eistedd wrth ben y bwrdd ac yn ceisio ysgrifenu. Gorphwysai ei ben ar ei law chwith, â'i benelin ar y bwrdd, a daliai ei bin yn segur yn ei law ddeheu, ac ymddangosai mewn myfyrdod dwfn a phoenus. Yn ei ymyl, ar y bwrdd, yr oedd llestr yn cynwys *Scotch Whiskey*, ac yr oedd y Capten, mewn ystod haner awr, wedi apelio at y llestr hwn amryw weithiau, am help a swcwr. Wrth ben arall y bwrdd yr oedd Mrs. Trefor yn brysur gyda rhyw wnïadwaith, ac mewn cadair esmwyth wrth ei hochr, ac yn ymyl y tân, eisteddai Miss Trefor, yn ddiwyd weithio rhyw gywreinwaith gyda darn o *ivory* tebyg i bysgodyn bychan, ac edafedd wên. Yr oeddynt ill trioedd can ddistawed a llygod eglwys, oblegid ni chaniateid i'r fam a'r ferch siarad tra byddai y Capten yn ysgrifenu ei lythyrau. Taflai y ddwy er's meityn edrychiad

dan eu cuwch ar y Capten am yr amen ar y llythyrau, ac yr oedd ei waith yn dal ei bin yn segur am ddeng munyd yn boenus iawn i'r fam a'r ferch, ac yr oeddynt ill dwyoedd yn mron hollti eisieu cael siarad. Rhoddai y ferch edrychiad ar y fam, ystyr yr hwn ydoedd, "On'd ydi o'n hir?" Rhoddai y fam edrychiad ar y ferch, "Treia ddal dipyn bach eto." A thipyn bach y bu raid iddi ddal, oblegid yn mhen dau funyd, taflodd y Capten y pin ar y bwrdd, cyfododd ar ei draed, a cherddodd yn ol a blaen yn ddiamynedd hyd yr ystafell. Edrychodd y fam a'r ferch braidd yn frawychus, oblegid ni welsant yn mron erioed olwg mor gynhyrfus arno, ac ebai'r Capten—

"*Fedra* i ddim ysgrifenu, a threia i ddim chwaith, 'rwyf wedi blino a glân ddiflasu ar y gwaith, byth na smudo i!"

"Tada," ebe Miss Trefor, "ga' i ysgrifenu yn ych lle chi?"

"Cei," ebe fe ("Cewch" a ddywedasai efe onibai ei fod wedi colli ei dymher, ac felly ei fod yn fwy naturiol). "Cei," ebe fe, "os medri di ddweyd mwy o gelwyddau na fi."

"*The idea*, dada!" ebe Miss Trefor.

"*The idea*, faw!" ebe'r Capten, "be wyddoch chi eich dwy am yr helynt yr ydw i ynddo o hyd yn ceisio cadw pethau i fyn'd yn mlaen? Be sy gynoch chi eich dwy i feddwl am dano heblaw sut i rifflo arian i ffwrdd, a sut i wisgo am y crandia, heb fawr feddwl am yfory? Ond, y mae hi wedi dwad i'r pen, ac mi fydd diwedd buan arna i ac ar y'ch holl ffylal chithe, byth na smudo i, a mi fydd!"

"O, Richard bach!" ebe Mrs. Trefor, oblegid yr oedd clywed y Capten yn siarad fel hyn yn newyddbeth hollol iddi. "O, Richard bach! roeddwn i'n disgwyl o hyd iddi ddwad i hyn. Mi wyddwn o'r goreu y bydde i chi ddrysu yn y'ch synwyre wrth stydio cimint ar *geology*. Susi, ewch i nol y doctor ar unweth!"

"Doctor y felldith!" ebe'r Capten, yn wyllt, "be sy arnoch chi, wraig? Ydach chi'n meddwl mai ffwl ydw i? Drysu yn fy synwyre yn wir! fe ddrysodd ambell un ar lai o achos."

"Ac yr ydach chi *wedi* drysu, ynte, Richard bach? Wel, wel, be nawn ni rwan! Susi, ewch i nol y doctor yn y munyd!" ebe Mrs. Trefor yn wylofus.

Ac i nol y doctor yr aethai Miss Trefor y foment hono,

oni bai i'r Capten droi pâr o lygaid arni, a barodd iddi arswydo symud, ac a'i hoeliodd wrth y gadair. Ebe'r Capten eilwaith, gan gyfarch ei haner oreu—

"Wyddoch chi be, wraig? mi wyddwn eich bod wedi cysgu'n hwyr pan oeddan nhw'n rhanu ymenydd, ond feddyliais i rioed fod gynoch chi càn lleied o hono. 'Does fawr beryg i chi ddrysu yn eich synwyr, oblegid byd a'i gŵyr, 'does gynoch chi ddim o hono."

"Nag oes, siwr, nag oes, 'does gen i ddim synwyr, dydw i neb, dydw i ddim byd! 'Dydw i'n dallt dim *geology*, a mi faswn yn leicio gwel'd y wraig *sydd* yn dallt *geology*. 'Rydw i yn cofio amser pan oedd rhwfun, oedd yn cyfri' hun yn glyfar iawn, yn meddwl fod gen *i* synwyr, a chawn i ddim llonydd ganddo. Ond rhaid nad oedd gen i ddim synwyr yr adeg hono, ne faswn i ddim yn gwrando arno fo. A 'does gen i ddim synwyr yrwan, dim, nag oes ddim!" ebe Mrs. Trefor, a dechreuodd wylo, a chuddiodd ei hwyneb yn ei ffedog.

Rhaid fod calon dyn mor galed a maen isaf y felin, os na effeithia dagrau ei wraig arno. Ac y mae pob gwraig yn ymwybodol o nerth ei dagrau, a gofalodd rhagluniaeth am roddi ystôr helaeth iddi o honynt. Pa nifer o ymresymiadau anatebadwy a wnaed yn chwilfriw gan ddagrau gwraig! Ac nid oedd hyd yn nod Capten Trefor yn anorchfygol o flaen dagrau ei wraig, yn enwedig pan ddaeth Miss Trefor hithau gyda'i dagrau i ymosod ar y gelyn. Gyda'r arfogaeth ddeigrol gorchfygwyd y Capten mewn byr amser, ceisiodd amodau heddwch drwy eistedd i lawr wrth y pentan, a dechreu ysmygu. Wedi gwneud hyn, ebe'r Capten, yn llawer mwyneiddiach—

"Sarah, maddeuwch i mi; mi ŵn mai ffwl ydw i, a mod i wedi annghofio fy hun. Mi ddylaswn wybod na wyddech chi na Susi ddim am fusnes. Ond bydae chwi'n gwybod am yr helynt yr ydw i ynddo o hyd, hwyrach y gwnaech chwi faddeu i mi. Sarah, peidiwch a chrïo, dyna ddigon, dyna ddigon, gwrandewch arna i."

"Tada," ebe Susi, "gobeithio nad ydach chi ddim yn myn'd i sôn am fusnes, am *syndicate*, a *Board of Directors*, a *geology*, a phethe felly, achos mi wyddoch na dda gan y mam a fine mo bethe felly."

"Efo'ch mam yr ydw i'n siarad, Susi, Sarah, wnewch chi wrando arna' i?" ebe'r Capten.

"Os gwnewch chi siarad fel rhw ddyn arall, a pheidio colli'ch tempar," ebe Mrs. Trefor, gan sychu ei llygaid, ac ail afael yn ei gwnïadwaith.

"Wel, mi dreiaf," ebe'r Capten, ac erbyn hyn yr oedd efe wedi oeri digon i siarad yn lled fanwl a gramadegol. "Chwi wyddoch, Sarah, fy mod mewn cysylltiad â Gwaith Pwllygwynt er's llawer iawn o flynyddoedd. Y fi fu yn offeryn i gychwyn y Gwaith—y fi, gydag un arall, a ffurfiodd y cwmpeini. Ac y mae'n rhaid i bawb gyfaddef fod ugeiniau o deuluoedd wedi cael bywioliaeth oddiwrth y Gwaith, ac fod y Gwaith wedi bod yn help mawr i gario achos crefydd yn ei flaen yn y gymydogaeth. Yn wir, ŵn i ddim beth a ddaethai o'r achos oni bai am Waith Pwllygwynt. Rhaid i chwithau, Sarah, gydnabod na fuoch yn ystod yr holl amser yn brin o gysuron bywyd nac o foddion gras. Yr ydym fel teulu, yn y tymhor hwnw, wedi codi ein hunain yn ngolwg ein cymydogion, ac yn cael edrych arnom yn lled barchus. Mi wnewch gydnabod hyny, Sarah? 'Does dim eisieu i mi eich adgofio am ein sefyllfa cyn i mi dd'od i'r cysylltiad yr wyf yn sôn am dano. Mi wyddoch pa fath dŷ oedd genym y pryd hwnw. Nid tŷ a stabal a *coach-house* oedd o, aie? 'Doedd genym yr un ceffyl a thrap, na gwas na morwyn. Nid yn y sêt oreu yn y capel yr oeddym yn eistedd y pryd hwnw, aie? Nid yr un un oeddwn inau yr adeg hòno ag ydw i heddyw. Nid yr un un oedd Richard Trefor, *Williams' Court*, a Capten Trefor, Tynyrardd. Yr oedd gan Richard Trefor, pan yn eistedd ar y fainc yn y capel, dipyn o gydwybod—yr oedd yn cael tipyn o flas ar foddion gràs. Faint o flas sydd gan Capten Trefor, ar yr Efengyl yn y sêt â'r glustog arni? Ddaeth o 'rioed i'ch meddwl chwi, Sarah, faint a gostiodd i Richard Trefor ddyfod yn Gapten Trefor! Mi ŵn fy mod wedi cadw y cwbl oddi wrthoch chwi ar hyd y blynyddoedd, rhag eich blino. Yr oeddwn ar fai. Ond fedra' i mo'i gadw ddim yn hwy. 'Does dim ond dinystr yn ein haros," a dechreuodd y Capten ysgafnhau ei gydwybod. Ond cyn gwneud hyny cymerodd ddogn cryf o'r *Scotch Whiskey.*

## PENNOD VIII.

### CAPTEN TREFOR YN YSGAFNHAU EI GYDWYBOD.

"PAN gychwynais Bwllygwynt," ebe'r Capten, "mae'r nefoedd yn gwybod fy mod yn *gobeithio* iddo droi allan yn dda, ac yr oedd y *miners* mwyaf profiadol yn credu y gwnai. Yr oedd yn y Gwaith 'olwg' ragorol. Ni chefais, fel y gwyddoch, unrhyw anhawsder i hêl cwmpeini. Gyda chymhorth Mr. Fox, o Lunden, fe ddarfu i ni berswadio llawer o bobl arianog i ymuno â'r cwmpeini, a chwi wyddoch, Sarah, fel y darfu i amryw o'n cymydogion, megis Hugh Bryan ac ereill, dlodi eu hunain er mwyn cael *shares* yn y Gwaith, ac yr oeddwn inau yn rhoi ar ddeall iddynt fy mod yn gwneud ffafr fawr â hwynt drwy adael iddynt gael *shares* am unrhyw bris. Mor lwcus oeddwn yn ngolwg pobl, ac yn fy ngolwg fy hun! Mor fuan y dechreuodd y rhai a arferent fy ngalw yn Richard fy syrio a fy ngalw yn gapten! Mewn ffordd o siarad, mi eis i'r gwely un noswaith yn feinar cyffredin, ac a gysgais, a deffroais yn y bore yn Gapten Trefor!—yn ŵr o barch a dylanwad—yn un yr oedd pobl yn ceisio dyfod i fy ffafr—yn un â llawer o ffafrau yn fy llaw i'w cyfranu i'r neb a fynwn—yn un ag yr oedd pobl yn cymeryd yn garedig arnaf dderbyn anrhegion gwerthfawr ganddynt! Nid oedd prin un dyn yn y dref a wrthodai unrhyw beth a ofynwn ganddo. Yr ydych yn cofio, Sarah, i mi ddim ond dweyd wrth Mr. Nott, yr *Ironmonger*, fy mod yn hoffi ei geffyl, a thranoeth gwnaeth anrheg i mi o hono, oblegid gwyddai Mr. Nott yn burion y gallwn roddi ambell geffyl yn ei ffordd ef os dymunwn. Talodd yr anrheg hòno yn dda i Mr. Nott. Nid oedd eisieu i mi ddim ond edrych ar ŵn neu dêbot arian yn *shop* Mr. Nott, a byddai yma dranoeth *with Mr. Nott's compliments!* a llawer ereill yr un modd. Pan aeth Tynyrardd yn wâg, yr oedd amryw yn ceisio am dano; ond Capten Trefor a'i cafodd. Sarah, fedrwch chwi ddweyd faint o'r *furniture* yma a gafwyd fel anrhegion? a phaham? Am mai fi a ddusgyfrodd y plwm mawr yn Mhwllygwynt, ac am i mi, drwy fy nghyfrwysdra gymeryd *takenote* yn ddistaw bach a gwneud fy

hun yn gapten ar y gwaith. Meddyliai pawb ei fod yn ddarganfyddiad ardderchog. Ond ofnwn i o'r dechreu mai troi allan yn dwyllodrus a wnai, ond cedwais hyny i mi fy hun, a gobeithiwn y goreu. Yr oeddwn yn adnabod Mr. Fox, o Lunden, er's blynyddoedd—mi wyddwn hyd ei gydwybod—a'i fod yn gwybod yn dda sut i weithio'r oracl. Mi ddropies lein iddo dd'od i lawr. Yr oedd Mr. Fox yma yn union, heb golli amser, fel dyn am fusnes. Cymerais ef i wel'd Pwyllygwynt. Bu agos iddo ffeintio pan welodd yr 'olwg,' ac oni bae fod ei galon fel maen isaf y felin, buasai yn crïo fel plentyn. Yr oedd o wedi darn wirioni, ac yn gwaeddi ac yn neidio fel ffwl. Mor falch a llawen oedd o, fel y gallasai, mi gymra fy llŵ, fy ngharío ar ei gefn am ddeng milldir! Gwyddwn i o'r goreu pa fath ddyn oedd gen i i ymwneud âg ef, ond ni wyddai ef ddim am danaf fi. Yr oedd wedi cael allan yn yr *hotel* cyn i ni gychwyn i wel'd Pwllygwynt fy mod yn Fethodist, ac ni wyddai yn iawn sut i siarad â fi. Ar y dechreu yr oedd yn wyliadwrus ryfeddol pa beth a ddywedai. Mr. Fox oedd ei enw, ac yr oedd yn ateb i'w enw i'r dim. Yr oedd yn grefyddwr mawr yn ei ffordd ei hun y diwrnod hwnw, ac ar ol bod yn gwel'd Pwllygwynt, pan oeddym yn cael cinio, ar ol iddo ofyn bendith, holodd gryn lawer am hanes crefydd yn Nghymru, a chymerodd gryn lawer o drafferth i ddangos mai yr un pethau oedd y *Scotch Presbyterians* a'r Methodistiaid Calfinaidd. Gwyddwn o'r goreu mai yr un peth oedd o a minau, ac ebe fi wrtho, 'Mr. Fox, nid dyna'r pwnc heddyw. Yr wyf yn gwybod am danoch chwi er's blynyddoedd, ond ni wyddoch chwi ddim am danaf fi. Mi wn pan fydd gwaith mŵn yn y cwestiwn na chaiff crefydd, gyda chwi, fod ar y ffordd i'w rwystro i'w wneud yn llwyddianus. Mae eich profiad—nid eich profiad crefyddol yr wyf yn feddwl—yn fawr. Ein pwnc ni heddyw ydyw sut i wneud sôn a siarad am Bwllygwynt, i ffurfio cwmni cryf a chael digon o arian i'n dwylaw. Chwi wyddoch fod yn y Gwaith 'olwg' ardderchog, a chwi ydyw y dyn yn Llunden, a minau ydyw y dyn yma—beth bynag fydd hyd eich cydwybod chwi yn Llunden, yr un hyd yn union fydd hyd fy un inau yma!' Wedi i mi siarad fel yna ysgydwodd Mr. Fox ddwylaw efo fi, a galwodd am botel o *champagne*, ac o'r dydd hwnw hyd heddyw ni fu gair o sôn am grefydd rhyngom. Yr ydach chwi'n adwaen Mr. Fox, onid ydach

chwi, Sarah? Mae o wedi bod yma fwy nag unwaith yn cael cinio, ac am grefydd y soniai bob amser gyda chwi, onide? a byddai yn crïo gyda'r llygad agosaf atoch chwi, ac yn wincio gyda'r llall arnaf finau. *Scotchman* ydyw Mr. Fox, a'r rhagrithiwr mwyaf melldigedig a adwaenais erioed—oddigerth fi fy hun! Sarah, bydawn i yn myn'd dros yr holl hanes yn fanwl, fe fyddai ei haner yn Latin i chwi, a'r unig beth a welech yn eglur a fyddai y fath ŵr cydwybodol sydd genych! Ond 'doedd dim Latin rhwng Mr. Fox a minau—yr oeddym yn dallt ein gilydd i'r dim. Yr oeddym ein dau yn gobeithio, o waelod ein calonau, i waith Pwllygwynt droi allan yn dda, ac yn credu o waelod ein calonau mai fel arall y troai, ond, fel gwir feinars, ni ddarfu i ni sibrwd ein crediniaeth i neb byw bedyddiol.

"Ydach chwi yn y nghanlyn i, Sarah? Fe ddarfu i ni, fel y gwyddoch, ffurfio cwmpeini cryf, a thalwyd i lawr filoedd o bunau. Fe ddarfu i ni ei wneud yn *point* i beidio agor ond can lleied ag a fedrem ar y Gwaith, rhag i'w dlodi o ddod i'r golwg, a chymeryd gofal i wario cymaint o arian ag a fedrem ar y lân mewn *buildings a machinery* ac yn y blaen. Achos pan fydd pobl wedi gwario llawer o arian gyda gwaith mŵn, mae yn fwy anhawdd ganddynt ei roddi i fynu. Ac fe ddaeth y dŵr i'n helpio i gadw y Gwaith i fyn'd yn mlaen, ac i fod yn esgus am bob rhwystr ac oediad. Cyfaill mawr a fu y dŵr i Mr. Fox a minau. Fe foddwyd ambell fil o bunau yn y dŵr. Fe ddarfu i ni newid y *machinery* deirgwaith, er mwyn cyfarfod a dymuniadau ein cyfaill ffyddlon Mr. Dŵr. Bob tro y ceid *machinery* newydd yr oedd hyny yn gwaghau cryn lawer ar bocedau y cwmpeini, ac yn rhoi tipyn bach yn mhocedau Mr. Fox a minau, oblegyd yr oedd y cwmpeini yn ymddiried i farn Mr. Fox a minau fel prynwyr, ac nid oedd ond peth iawn a phriodol i ni gael tâl am ein barn. Ond nid y cwmpeini, dalltwch, oedd yn talu i ni, ond y bobl oedd yn gwneud y *machinery*, achos yr oedd yn rhaid i'r llyfrau ddangos fod popeth yn cael ei gario yn mlaen yn *straightforward* ac nad oedd dim twyll yn cael ei arfer. *Commission*, wyddoch, a fyddai y *makers* yn ei alw, gair a ddyfeiswyd i dawelu cydwybodau capteniaid gweithydd mŵn. Ond erbyn hyn y mae y gair yn nicsionari y Canwyllwr, yr *Ironmonger*, y *Timber Merchant*, y dyn sydd yn gwerthu powdwr, a chant a mil eraill." Yn y fan hon, eto, apeliodd y Capten am swcwr at y botel.

"Ydach chwi yn nallt i, Sarah? Mi wn na wnewch chwi mo fy nghrogi i. Wel, fel yr oeddwn yn dweyd, yr oeddem yn cymeryd gofal i beidio agor y gwaith ond mor araf ag y medrem. Pan gaem bob sicrwydd fod tipyn o blwm mewn rhan neillduol o'r gwaith fe fyddem yn gadael llonydd iddo fel arian yn y banc, ac yn ei gadw nes byddai y cwmpeini yn mron tori ei galon, a phan ddeallem eu bod ar fedr rhoi y Gwaith i fynu, fe fyddem ninau yn myn'd i'r banc ac yn codi digon o blwm i roi ysbryd newydd yn y cwmpeini i fyn'd yn mlaen am spel wed'yn. Wedi cael y cwmpeini i ysbryd reit dda, fe fyddem yn ail ddechreu cynilo, ac felly o hyd, ac felly o hyd ar hyd y blynyddoedd a minau yn gorfod reportio fel hyn a reportio fel arall—dyfeisio y celwydd yma un wythnos a'r celwydd arall yr wythnos wed'yn, er mwyn cadw pethau i fyn'd yn mlaen, nes yr ydw i wedi myn'd heb yr un celwydd newydd i'w ddweyd, a thâl i mi ddim fyn'd dros yr hen rai, achos y mae y cwmpeini yn eu cofio yn rhy dda. Mae y *shareholders* trymaf wedi glan ddiflasu a chynddeiriogi ac wedi penderfynu nad ânt gam yn mhellach. Ond fe all Mr. Fox a minau ddweyd ein bod wedi gwneud ein dyledswydd, a'n bod wedi gwneud ein goreu i gadw'r Gwaith i fyn'd yn mlaen."

"Wel, Richard," ebe Mrs. Trefor wedi ei syfrdanu yn hollol, ac yn methu penderfynu pa un ai wedi dyrysu yn ei synwyrau yr oedd y Capten ai wedi cymeryd dropyn gormod yr oedd efe, "Wel, Richard, ydach chi ddim yn deud nad oes yna blwm yn Mhwllygwynt? Mi'ch clywes chi'n deud gantodd o weithiau wrth Mr. Denman fod yno wlad o blwm ac y byddech chi'n siwr o ddwad ato rw ddiwrnod."

"Rhyngoch chwi a fi, Sarah," ebe'r Capten, "mi gymraf fy llw nad oes yn Mhwllygwynt ddim llon'd fy het i o blwm. Ond wnaiff hi mo'r tro, wyddoch, i bawb gael gwybod hyny. Dydio ddim llawer o bwys am bobl Llunden, ond y mae'n ddrwg gen i dros Denman. Mae o'n gymydog, ac wedi tlodi ei hun yn dost. Yn wir, mae gen i ofn y bydd Denman can dloted a finau rai o'r dyddiau nesaf yma."

"Can dloted a chithe, Richard? ydach chi ddim yn deud y'ch bod *chi* yn dlawd?" ebe Mrs. Trefor mewn dychryn mawr.

"Can dloted, Sarah, a llygoden Eglwys, ond *just* yn unig y pethau a welwch o'ch cwmpas. Yr oeddwn yn ofni eich bod

chwi a Susi—Susi! sut y medrwch chwi gysgu tra mae'ch mam a minau yn sôn am ein hamgylchiadau?" ebe'r Capten yn wyllt.

"Mi wyddoch, tada," ebe Susi, dan rwbio ei llygaid, "na dda gen i ddim clywed sôn am fusnes."

"Fe fydd raid i chwi, fy ngeneth," ebe'r Capten, "ymorol am fusnes i chwi eich hun rai o'r dyddiau nesaf. Ië, Sarah, yr oeddwn yn ofni eich bod chwi a Susi yn byw mewn *fool's paradise*. Yr ydym yn dlawd, dalltwch y ffact yna. Mae dialedd o arian wedi myn'd trwy fy nwylaw; ond 'does dim bendith wedi bod arnynt—maent wedi myn'd i rywle, a chwi wyddoch eich dwy lle mae llawer o honynt wedi myn'd. Waeth i ni edrych ar y ffaith yn ei gwyneb—*yr ydym yn dlawd*, ac fe fydd Pwllygwynt a'i ben ynddo cyn pen y mis."

"O mam!" gwaeddai Miss Trefor.

"Mamiwch chwi fel y mynoch," ebe'r Capten, "a rhyngoch chwi a fi, *miss*, fe ddylasech chwi fod yn fam eich hun cyn hyn, yn lle rhoi y fath *airs* i chwi eich hunan. Rhaid i chwi ddyfod i lawr beg neu ddau a chymeryd rhywun y gellwch gael gafael arno, pe na byddai ond *miner* cyffredin."

"*The idea*, Tada!" ebe Miss Trefor.

"*The idea'r* felldith! ydach chwi ddim yn rialeisio eich sefyllfa? ocs dim posib pwnio dim yn y byd i'ch pen chwiban chwi?" ebe'r Capten, wedi colli ei dymher eilwaith.

"Richard," ebe Mrs. Trefor yn bwyllog, "cedwch eich tempar. Os dyna ydi ein sefyllfa—os tlawd yden ni, ar ol yr holl flynyddoedd o gario mlaen, be *ydach* chi'n feddwl neud?"

"Dyna chwi, yrwan, Sarah," ebe'r Capten, yn siarad fel gwraig synwyrol. Dyna ydyw y cwestiwn, Sarah. Wel, dyma ydyw fy mwriad—cadw yr *appearance* cyd ag y medraf, a dechreu gwaith newydd gynted ag y gallaf."

Ar hyn curodd rhywun y drws, ac yn ddilynol gwnaeth Mr. Denman ei ymddangosiad.

## PENNOD IX.

### CYFRINACHOL.

"WEL, dyma Mr. Denman!" ebe'r Capten, "Soniwch am —— ac y mae o'n siwr o ymddangos. Yr oeddym *just* yn siarad am danoch yrwan."

"Beth wnaeth i chi siarad am dana' i?" gofynai Mr. Denman.

"Wel," ebe'r Capten, "deud yr oeddwn i—ond dyma chwi, Mr. Denman, fe awn ni i'r *smoke room*, fe fydd yn dda gan y merched yma gael gwared o honom."

Wedi i'r ddau fyned i'r *smoke room*, ychwanegai y Capten—

"Ië, dyna oeddwn i yn ddeud, Mr. Denman, cyn i chwi ddyfod i mewn, mai campus o beth a fyddai eich gweled chwi —sef yr unig un o'n cymydogion sydd wedi dal i gredu yn Mhwllygwynt—mai campus o beth fydd eich gweled ryw ddiwrnod yn ŵr boneddig. Yr ydych yn haeddu hyny, Mr. Denmam, mi gymraf fy llŵ, os haeddodd neb erioed."

"Os na ddaw hyny i mi yn fuan," ebe Mr. Denman, "yr wyf yn debycach o lawer o ddiweddu fy oes yn y *workhouse*. A oes genych chi ryw newydd am Bwllygwynt? fath olwg sydd acw yrwan?"

"Wel," ebe'r Capten, "'does gen i ond yr hen stori i'w hadrodd wrthych, Mr. Denman, ac nid yr hen stori chwaith. Mae acw well golwg yrwan nag a welais i er's tro. Ac eto, mae gen i ofn deud gormod, rhag y cawn ein siomi. Mae yn well gen i bob amser ddeud rhy fychan na deud gormod. Ond, fel y gwyddoch, yr ydym yn gorfod ymladd â'r dŵr yn barhaus — mae'r elfenau yn ein herbyn—a phe buasai y *directors* wedi cymeryd fy nghynghor i, sef cael *machinery* digon cryf yn y dechreu, fe fuasem wedi cael y goreu arno er's talwm. Ond nid bob amser y medr dyn gael ei ffordd ei hun, yn enwedig pan na fydd efe ond gwâs. Mi ddywedaf hyn, ac wrth gwrs, nid wyf yn cymeryd arnaf fod yn anffaeledig, ond can belled ag y mae gwybodaeth ddynol yn myn'd—ac y mae genyf dipyn o brofiad erbyn hyn—can belled, meddaf, ac y

mae gwybodaeth ddynol yn myn'd, mae acw well golwg yrwan nag a welais i o'r blaen. Hwyrach—ond 'dydw i ddim yn meddwl y bydd—ond hwyrach y bydd raid i ni fod dipyn yn amyneddgar. Chwi wyddoch eich hun fod y plwm a gawsom —'doedd o ddim llawer o beth mi wnaf addef—ond chwi wyddoch fod y plwm a gawsom yn dangos yn eglur fod yno ychwaneg o hono. Y cwestiwn ydyw—a'r unig gwestiwn—a fydd gan y cwmpeini amynedd, ffydd, a dyfalbarhâd, i ddal nes d'od o hyd i'r cyfoeth. Pe buasai pawb o'r cwmpeini fel chwi, Mr. Denman, sef yn ddynion a wyddant rywbeth am natur gwaith mŵn, fe fuasai rhyw obaith iddynt ddal ati. Ond pa fath ddynion ydynt? Mi ddywedaf i chwi: dynion wedi gwneud eu harian mewn byr amser, megis *merchants*, ac felly yn dysgwyl i waith *mine* dalu proffit mawr mewn ychydig amser—pobl ddiamynedd, os na thaliff rhywbeth ar ei union. Ond nid peth felly ydyw gwaith mŵn. Mae'n rhaid aros weithiau flynyddoedd, ac y mae llawer, fel y gwyddoch, ar ol gwario miloedd, yn rhoi gwaith i fynu am nad oes ganddynt amynedd i aros. Ac yna y mae ereill yn dyfod yn mlaen, ac heb ond y nesaf peth i ddim o gôst, yn cymeryd y cyfoeth a adawyd. Yr ydym wedi bod dipyn yn anlwcus yn Mhwllygwynt, a mi wn ei fod yn beth profoclyd dysgwyl a dysgwyl a chael ein siomi, yn enwedig pan y mae cymaint o arian caled yn cael eu talu i lawr o hyd. Yr wyf yn gobeithio yn fawr y gwel y cwmpeini ei ffordd yn glir i gario y gwaith yn mlaen am dipyn bach o leiaf, pe na byddai ond er mwyn fy ngharitor i, ac er mwyn profi fy mod wedi dweyd y gwir. Ond, rhyngoch chwi a fi, fyddai ddim yn rhyfedd genyf bydae y Saeson yna yn rhoi'r gwaith i fynu, a hyny pan ydym o fewn dim i gyrhaedd y plwm, ac fe fyddai hyny yn bechod o beth. Pe digwyddai peth felly i Bwllygwynt, mi wnawn lŵ nad awn byth wed'yn dan *Board of Directors* na dim arall, ond y mynwn gael fy ffordd fy hun o drin y gwaith."

"Wyddoch chi be', Capten," ebe Mr. Denman, "bydae'r Saeson yna. fel yr ydach chi'n 'u galw nhw, yn rhoi'r gwaith i fynu fory, fydde hyny ddim yn ddrwg gen i, mewn ffordd o siarad. Nid am nad ydw i'n credu fod yno blwm—na, mae gen i ffydd o'r dechre yn Mhwllygwynt. Ond bydaswn i'n gwybod y buasai raid i mi wario cymaint o arian faswn i 'rioed wedi ymuno â'r cwmpeini. Feddyliais i 'rioed y buasai

raid i mi wario mwy na rhyw gant neu ddau, ond erbyn hyn y mae agos y cwbl sy' gen i wedi myn'd, a mi fydd raid i *mi*, beth bynag wnaiff y Saeson, roi'r lle i fynu—fedr y mhoced i ddim dal."

"Yr wyf yn gobeithio," ebe'r Capten, "nad ydych yn meddwl y gwnawn i eich camarwain yn fwriadol, fodd bynag? Ac am eich poced, wel, yr ydym yn gwybod yn go lew am hono. Pe buasai gan Capten Trefor boced Mr. Denman, fe fuasai yn cysgu yn llawer tawelach heno. Mae genych dai a thiroedd, Mr. Denman, ac os rhowch i fynu eich *interest* yn y Gwaith, chwi a edifarhewch am bob blewyn sydd ar eich pen. Nid ydyw ond ynfydrwydd sôn am roi i fynu yrwan, pan ydym ymron cael y goreu ar yr holl anhawsderau. Chwi wyddoch fod gen inau *shares* yn y Gwaith; ond cyn y rhown i fynu yrwan, mi werthwn fy nghrŷs oddiam fy nghefn."

"Mae gen i bob ffydd ynoch *chi*, Capten," ebe Mr. Denman. "Yn wir, faswn i 'rioed wedi meddwl am gymeryd *shares* yn y Gwaith oni bae mod i yn eich adnabod *chi*, a'n bod ni'n dau yn aelodau yn yr un capel. Na, beth bynag a ddaw o Bwllygwynt, mi ddywedaf eich bod *chi* yn onest. Ond mater rhaid fydd arna' i roi fynu. Waeth i mi ddeud y gwir, yr wyf wedi *mortgagio* y tai a'r tiroedd agos i'w llawn werth, oddigerth y tŷ yr ydw i'n byw ynddo, a ŵyr y wraig acw mo hyny. Bydae hi *yn* gwybod, fe dore 'i chalon. Fe ŵyr ar y prinder arian sydd acw y mod i wedi cario dialedd i Bwllygwynt, a mae hi yn rhincian, rhincian, o hyd, ond bydae hi'n gwybod y cwbl, mi fydde raid i mi hel y mhac."

"Mae'n ddrwg genyf eich clywed yn deud fel yna," ebe'r Capten, "ac hwyrach y bydd yn anodd genych gredu, ond yr wyf wedi colli ambell noswaith o gysgu, mae Sarah 'n gwybod, wrth feddwl am yr aberth mawr yr ydych yn ei wneud. Ond yr wyf yn gobeithio, *ac yn credu*, y gwelaf y dydd pan fyddwch yn deud y cwbl i Mrs. Denman, ac y bydd hithau yn eich canmol. Ond y mae'r cwbl yn dibynu ar a fydd gan y cwmpeini ffydd ac amynedd i fyned yn mlaen."

"Bydae'r cwmpeini yn rhoi'r Gwaith i fynu, be naech *chi*, Capten, ai myn'd i fyw ar eich arian?" gofynai Mr. Denman.

"Nid yn hollol felly, Mr. Denman, ond yn hytrach ailgychwyn," ebe'r Capten.

"Pwllygwynt?" gofynai Mr. Denman.

"Iё, Pwllygwynt," ebe'r Capten, "pe buasai gen i ddigon o arian. Pe buasai gen i foddion mi fuaswn yn prynu Pwllygwynt. Ond gan nad oes gen i ddim *quite* ddigon i hyny—yn wir, ddim yn agos ddigon—mi fuaswn yn cychwyn mewn lle arall. Mae fy llygad ar y lle er's tro, rhag ofn i rywbeth ddigwydd i Bwllygwynt. Eithaf peth, Mr. Denman, ydyw bod yn barod ar gyfer y gwaethaf. A Ngwaith i y ca'i o fod. gydag ychydig ffrindiau, ac ni chai pobl Llunden ro'i eu bŷs yn y brywes hwnw. Gwaith a *fydd* o ar *scale* fechan, heb lawer o gôst, ac i dd'od i dalu yn fuan. Ond fe fydd raid i mi gael ychydig ffriudiau o gwmpas cartre' i gymeryd *shares*. *Un* o'r ffrindiau hyny fydd Mr. Denman. Rhyngoch chwi a fi, yr wŷf wedi cymeryd y *takenote* yn barod, ac, yn wir, yr oedd eich llês chwi yn fy ngolwg yn gymaint a fy llês fy hun. Yr ydych wedi gwario cymaint, Mr. Denman, fel yr wyf wedi bod yn pendroni pa fodd y gallwn ro'i rhywbeth yn eich ffordd."

"Lle mae eich llygad arno, Capten? mod i mor hy' a gofyn," ebe Mr. Denman yn llawn dyddordeb.

"Wel," ebe'r Capten, "yr ydych chwi a minau yn hen ffrindiau, a mi wn na wnewch chwi ddim gadael i'r peth fyn'd ddim pellach, ar hyn o bryd, beth bynag. Cofiwch nad yrwan y mae y lle wedi dyfod i fy meddwl i gyntaf; na, mae o yn fy meddwl i er's blynyddoedd—yr wyf wedi breuddwydio llawer yn ei gylch. O rân y *meddwl* y mae'r peth yn hen—mae'r bydle'n fywiog—mae'r *engine* yn chwyrnu—mae'r troliau yn cario'r plwm i Laneichymôr—ac eto y mae y borfa yn lâs ar wyneb y tir! Yr ydych yn deall fy meddwl, Mr. Denman? —Yn y *meddwl* y mae'r Gwaith yn hen, ond mewn *reality* y mae y dywarchen heb ei thori. Yn fy *meddwl* (a chauodd y Capten ei lygaid am funyd), yr wyf yn gweled y cwbl ar lawn waith—mae yn hen, hen, yn fy meddwl i, ond yn newydd i'r byd—yn wir, yn anwybyddus—yn ddirgelwch hollol!"

"Hwyrach," ebe Mr. Denman, "fy mod yn rhy hy', ond dydach chi ddim wedi deud eto—"

"Mr. Denman," ebe'r Capten, gan dori ar ei draws, "peidiwch âg arfer geiriau fel yna. 'Does dim posib i chwi fod yn rhy hyf arnaf. Fel y dywedais, yr ydym yn hen ffrindiau, a 'does gen i ddim eisieu cadw dim oddiwrthych—dim, dim. Ni fuaswn yn siarad fel hyn efo neb arall. Os oes

D

rhywun mwy na'i gilydd yn gwybod fy *secrets*, Mr. Denman ydyw hwnw. Mi ddywedaf beth arall, ddarfu i mi erioed feddwl am y Gwaith y crybwyllais am dano—yr wyf yn ei alw yn 'Waith' er nad ydyw wedi ei ddechreu, am nad ydyw ond pwnc o amser yn unig—ddarfu i mi erioed feddwl am y fentar mae fy llygaid arni heb eich bod chwithau yr un pryd yn fy meddwl. Mi fyddwn yn dweud fel hyn—'Richard Trefor, ŵyr neb arall, ond fe wyddost di, fod yna blwm ddialedd yn y fan ar fan. Pwy sydd i gael bod yn gyfranog â thi yn y cyfoeth? Wel, os oes rhywun, Mr. Denman,' meddwn."

"Yr wyf yn bur ddiolchgar, Capten," ebe Mr. Denman, "ond y mae arnaf ofn nad allaf fi fentro dim chwaneg. Nid oes genyf ddegpunt arall i'w gwario heb wneud cam â fy nheulu."

"Yr ystyriaeth yna yn benaf, er nad yn hollol," ebe'r Capten, "sydd yn fy ngorfodi i'ch gosod ar yr un tir a mi fy hun gyda'r fentar newydd. Cofiwch, fydd yno ddim Saeson i'n rheoli. Yr ydych chwi a minau hyd yn hyn wedi gwario ein harian i blesio Saeson anwybodus, ac, fel y dywedais, fyddai ddim yn rhyfedd bydae nhw yn taflu y Gwaith a'r gôst i gyd i fynu yn y diwedd, ac y mae'n bryd i chwi a minau droi ein llygaid i rywle lle y gwyddom y cawn ein harian yn eu holau. Gwaith fydd—arhoswch, ddarfu i mi ddim dweud eto wrthych enw y lle y mae fy llygad arno?—Naddo? Wel, dyna ydyw'r lle—daiff o ddim pellach, ar hyn o bryd, Mr. Denman? Wel, dyna'r lle—*Coed Madog! Coed Madog! ! Coed Madog! ! !* (ebe'r Capten, gan ail-adrodd yr enw yn ddystaw a chyfrinachol, pan welodd ar wyneb Mr. Denman arwyddion fod pob llythyren yn yr enw fel pe buasent yn treiglo i lawr ei gefn rhwng ei gîg a'i groen). Ië, Gwaith fydd Coed Madog i enill arian ac nid i'w taflu i ffwrdd ar bob anialwch. Yr ydych chwi a minau, Mr. Denman, wedi *gwario* digon, ac y mae'n bryd i ni ddechreu *enill*. Rhyngoch chwi a fi, 'does gen inau yr un deg punt i'w taflu i ffwrdd, ond 'does dim eisieu i bawb wybod hyny. Wrth gwrs, fe fydd raid gwario rhyw gymaint cyn y daw y Gwaith i dalu, a dyna p'am yr oeddwn yn dweud y byddai raid i ni gael ychydig ffryndiau gyda ni. Yn awr, Mr. Denman, ni a edrychwn ar y mater fel hyn: Y chwi a minau, mewn ffordd o siarad, a biau Waith Coed Madog—yr ydym ar yr un *footing*. Nid oes gan un o

honom arian i'w taflu i ffwrdd. Mae'n rhaid gwario rhyw gymaint. Felly y mae'n rhaid i ni gael rhywun neu rywrai i gymeryd *shares*. Yr ydych chwi yn adnabod pobl yn well na mi, ac yn gwybod am eu hamgylchiadau. Os gallwn wneud daioni i gyfeillion y capel, goreu oll, ond os bydd raid myn'd at enwadau ereill, fydd mo'r help. Pwy fyddant, Mr. Denman?"

"Wel, Capten," ebe Mr. Denman, "o'n pobol ni fedra i feddwl am neb tebycach na Mr. Enoc Huws, Siop y Groes, a Mr. Lloyd, y twrne."

"Rhyfedd!" ebe'r Capten, "fel y mae ein meddyliau yn cydredeg. Am Mr. Huws y meddyliais inau gyntaf. Wn i beth am Mr. Lloyd, ond y mae Mr. Huws, fe ddywedir, yn ddyn sydd wedi gwneud llawer o arian. Mae'n ŵr ieuanc parchus ac o safle uchel fel masnachwr, ac yn ddiameu yn grefyddol, ac os gallwn roi rhywbeth yn ei ffordd gyda'r Gwaith, fe fyddwn ar yr un pryd yn gwneud daioni i'r achos, oblegid yr wyf fi fy hun yn cyfrif mai Mr. Huws ydyw y dyn goreu a feddwn yn y capel—hyny ydyw, fel gŵr ieuanc. Y pwnc ydyw a allwn ni ei gael i weled lygad yn llygad â ni. Mae *mining*, yn ddiau, yn beth dieithr iddo, a chyda rhai felly nid gwaith hawdd ydyw dangos pethau yn eu lliwiau priodol. A wnewch chwi ei weled, Mr. Denman?"

"Yr wyf yn meddwl," ebe Mr. Denman, "mae y cynllun goreu a fyddai i chwi anfon am dano yma yrwan."

"Mae y dalent o daro'r hoel yn ei phen genych, Mr. Denman," ebe'r Capten, a chan eistedd i lawr wrth y bwrdd, ysgrifenodd y Capten nodyn boneddigaidd at Enoc Huws yn gofyn iddo ddyfod can belled a Thynyrardd. Tra mae y Capten yn ysgrifenu y nodyn, a'r forwyn yn ddilynol yn ei gymeryd i Siop y Groes, hwyrach mai goreu i mi fyddai rhoi i'r darllenydd gipolwg ar amgylchiadau a sefyllfa meddwl Enoc, druan.

## PENNOD X

### MARGED.

NID oedd Enoc Huws ond naw-ar-hugain oed, ond yr oedd efe eisoes yn teimlo ei fod yn hen lanc, ac yn etifeddu holl annghysuron y sefyllfa ddiwarafun hòno. Yr oedd efe yn llanc o deimladau tyner a gwyliadwrus iawn o'i gymeriad. Wrth ddewis ei *housekeeper*, gofalodd am gael un lawer hŷn nag ef o ran dyddiau. Ei henw oedd Marged Parri. Yr oedd Marged wedi gweled goleuni dydd ugain mlynedd, o leiaf, o flaen ei meistr—ffaith y rhoddai hi gryn bwys arni pan ddeuai cwestiwn dyrus ac anhawdd ei benderfynu rhyngddynt, megys, Pa un ai nos Sadwrn ai bore Sul y dylid pilio tatws? Pa un ai berwi ai rhostio nec o fytyn a fyddai oreu? a chwestiynau dyrus ereill cyffelyb. Gwir dieithriad ydoedd na soniai Marged un amser am ei hoedran oddi eithr pan amheuid cywirdeb ei barn. Ar adegau felly dywedai, "Mistar, yr ydw' i yn hŷn na chi, a fi ddylai wbod ore." Ni fuasai Marged erioed yn briod—nid am na chafodd gynygion gwerthfawr lawer gwaith, *meddai hi*, ond am fod yn well ganddi fywyd sengl. Ond tybiai ei meistr, Enoc Huws, ei fod yn canfod rheswm arall am sefyllfa ddibriod Marged, a'r rheswm hwnw oedd ei chymhwysder penaf yn ei olwg fel *housekeeper*—sef anserchawgrwydd ei hwynebpryd. Yr oedd un golwg ar wyneb Marged yn ddigon i argyhoeddi pob dyn rhesymol na chusanwyd mohoni erioed oddigerth iddi daraw ryw dro ar ddyn dall o'i enedigaeth. Ac nid ei hwyneb oedd yr unig reswm tybiedig am ei sefyllfa ddibriod; oblegyd nid oedd ffurf ei chorph yn un o'r rhai mwyaf gweddeiddlwys, nac yn debyg i un a fuasai yn enyn edmygedd unrhyw ŵr ieuanc o chwaeth uchel, neu aflonyddu dim ar ei gwsg. Yr oedd yn fèr a llydan, ac yn peri i un feddwl fod Marged, ar un adeg, wedi gorfod cario pwysau anferth ar ei phen, yr hyn a achosodd iddi suddo gryn lawer iddi hi ei hun, a byrhau ei gwddf a'i choesau, a lledu allan ei hysgwyddau, ei gwasg, a'i hipiau. Ni fuasai llawer o waith cŷn a morthwyl yn angenrheidiol ar Marged i'w gwneud

yn gron, a phe digwyddasai iddi syrthio ar ymyl crib y Foel Famau, ar y cŵr deheuol, ni pheidiasai a throelli nes cyrhaedd Rhuthyn.

Fu erioed gamp na fyddai rhemp, ac hwyrach na fu erioed remp na fyddai camp. Yn ei ffordd ei hun yr oedd Marged yn ddiguro. Buasai yn well ganddi gael tori ei bŷs nag i rywun awgrymu fod unrhyw aflerwch yn y tŷ. Yr oedd pob peth oedd dan ei gofal yn hynod o lanwedd, a phe buasai rhywun yn awgrymu yn wahanol buasai yn drosedd anfaddeuol yn erbyn Marged. Anffaeledigrwydd oedd rhinwedd penaf Marged, a'r hwn a amheuai hyny oedd y pechadur penaf. Nid ar unwaith y darganfyddodd Enoc Huws yr anffaeledigrwydd hwn. Mae yn wir ei fod wedi cael cymeriad rhagorol i Marged cyn ei chyflogi, ond, fel yr awgrymwyd, ei rhinwedd penaf yn ei olwg y pryd hwnw oedd ei bod yn annaearol o hyll—mor hyll fel na feiddiai y tafod mwyaf enllibgar lunio ystori ei fod ef a'i *housekeeper* ar delerau rhy gyfeillgar. Nid oedd ganddo ddrychfeddwl yr adeg hòno am anffaeledigrwydd Marged. Yn ystod yr wythnosau cyntaf y bu hi yn ei wasanaeth nis gallai Enoc Huws wneud na phen na chynffon o honi. Os cwynai efe am unrhyw ran o'i gwasanaeth, elai Marged i'w mwgwd, ac ni siaradai âg ef am ddyddiau. Fel cais olaf cyn ei throi ymaith, meddyliodd Enoc am ei chanmol, i edrych pa effaith a gaffai hyny ar ei gwasanaeth. Ac un diwrnod, pan oedd Marged wedi parotoi cinio iddo nad allai un Cristion o chwaeth ei fwyta, ebe fe—

"Marged, mae'n biti o beth fod fy stymog mor ddrwg heddyw, achos yr ydach chi wedi gneud cinio *splendid*—fase dim posib iddo fod yn well. Bydaswn i yn gwbod y basech chi'n gneud cinio mor dda mi faswn wedi gwadd rhwfun yma, ond y mae gen i ofn y bydd raid i mi fyn'd at y doctor i gael rhwbeth at fy stymog."

"Ydi," ebe Marged, "mae'r cinio yn suffisiant i undyn byw, a mi na dipyn o dê wermod i chi, mistar, achos i be 'rewch chi at y doctor pan fedra i neud cystal ffisig ag yntau a gwell."

Ni fu 'raid i Enoc byth ond hyny gwyno rhyw lawer yn erbyn yr ymborth. Ac felly gyda phob rhan o wasanaeth Marged: pan fyddai yn ddiffygiol nid oedd eisieu ond ei ganmol, a byddai yn lled agos i fod yn iawn y tro nesaf. Yr

oedd canmoliaeth beunyddiol ei meistr wedi peri i Marged ffurfio syniad uwch o lawer—os oedd hyny yn bosibl—am ei rhinweddau nag a feddai hi yn wreiddiol, a gwneud iddi reoli a rhoi ei bŷs yn mhob brywes o'i eiddo, oddigerth y siop. Y siop oedd yr unig ran o ymerodraeth Enoc Huws nad oedd Marged wedi ei goresgyn. Mor llwyr y rheolai hi ei dŷ, fel yr ofnai Enoc, ar adegau, gael mis o notis ganddi—hyny ydyw, mis o notis iddo ef fyned ymaith. Ond pa help oedd ganddo? Os cwynai efe at rywbeth, neu os ceisiai efe osod ei gynlluniau ei hun yn mlaenaf, elai Marged i'w chidwm, ac ni wnai na rhych na gwellt; tra, o'r ochr arall, os gadawai efe iddi gael ei ffordd ei hun, ond odid na fyddai pethau yn lled agos i'w lle. Yr oedd cadw Marged mewn hwyl a thymer dda mor bwysig yn ngolwg Enoc, ac yn cymeryd cymaint o'i feddwl, yn mron, a'i holl oruchwylion eraill gyda'u gilydd. Pan fyddai angen arno ddwyn rhywbeth yn mlaen i dori ar unrhywiaeth ei fywyd henlancyddol, byddai raid iddo fyfyrio yn hir pa fodd y gallai efe wneud hyny heb roi Marged allan o gywair. Fel y dywedwyd o'r blaen, nid oedd yr olwg ar Marged ar y goreu yn serch-hudol, ac arswydai Enoc ei gweled wedi cythruddo a mòni. Pan fyddai hi yn y dymher hòno rhoddai yr olwg a fyddai arni yr *horrors* iddo, ac aflonyddai ei gwsg am nosweithiau. Er ei fod, erbyn hyn, yn deall ffordd Marged yn lled dda, nid allai efe lai na theimlo ei sefyllfa yn dra darostyngol wrth ystyried ei fod ef, oedd yn fasnachwr llwyddianus, yn un oedd yn cael edrych i fynu ato gan lawer o'i gymydogion, ac yn cael ei barchu gan ei gyd-aelodau yn y capel am ei ddefnyddioldeb a'i haelfrydedd—ei fod, er y cwbl, dan ryw fath o raid yn nglŷn â'i holl amgylchiadau a'i gynlluniau i gymeryd Marged i ystyriaeth ac i fanwl chwilio pa fodd y gallai efe gadw y ddysgl yn wastad gyda hi. Oni buasai fod calon Enoc Huws—pob ystafell o honi—wedi ei meddianu yn hollol gan Miss Trefor—er na choleddai efe obaith am i'w serch gael ei ddychwelyd—buasai ar lawer pryd yn troi allan i chwilio am gydmar bywyd heb ofalu pa beth a fuasai sefyllfa fydol yr un hòno, gan mor ddigysur y teimlai ei hun. Yr oedd ei ofalon yn fawr; ac fel un oedd wedi ymroddi i fasnach, nid oedd ganddo amser i wneud cyfeillion. Yr adeg hapusaf ar Enoc oedd pan fyddai yn berffaith sicr fod Marged yn cysgu. Yr oedd ganddo ystafell fechan mewn cysylltiad â'r siop yr hon a droesai efe yn

fath o *office*, a'r hon oedd wedi ei llenwi yn bwrpasol â chistiau a phethau ereill fel nad oedd lle ynddi ond i un gadair. I'r ystafell hon yr elai Enoc ar ol swper, er mwyn cael bod ar ei ben ei hun, a chael llonydd. Os elai efe i'r parlwr deuai Marged i gadw cwmpeini iddo, ac mewn cadair esmwyth syrthiai i gysgu mewn dau funyd, a chwyrnai fel mochyn tew hyd adeg myn'd i'r gwely, ac os gwarafunai Enoc iddi wneud hyny, elai Marged allan o hwyl am dridiau. I arbed y trychineb hwn, âi Enoc i'r *office* yn gyson dan yr esgus fod ganddo "fusness" i'w wneud. "Busnes" oedd yr unig beth a gyfaddefai Marged nad oedd yn ei ddeall. Tra y byddai Enoc yn yr *office* byddai Marged wrth y tân yn y gegin yn chwyrnu fel *engine* am ddwy, ac weithiau dair awr, oblegid nid äi hi byth i'r gwely yn gyntaf am nas gallai "drystio" ei meistr i gloi'r drysau a rhoi'r *gas* allan. Mewn gwirionedd, yr oedd sefyllfa Enoc yn un druenus iawn, ac yr oedd arno arswyd i neb wybod gymaint yr oedd efe dan awdurdod Marged, ac o herwydd hyny ychydig o gyfeillion a wahoddai efe i'w dŷ, gan nad pa mor dda a fuasai hyny ganddo.

Y noswaith y cyfeiriwyd ati yr oedd Enoc wedi myned i'r *office* ar ol cael ei swper. Yr oedd yn noswaith oer a niwliog, fel y dywedwyd. Buasai Enoc yn fwy prysur nag arferol y diwrnod hwnw, a theimlai yn hynod flinedig. Yr oedd efe yn rhy ddifater i fyned i'r llofft i ymolchi ac ymdrwsio; ac eisteddodd o flaen tân yn ei ddillad blodiog—nid i gyfrif y broffit fawr a wnaethai efe y diwrnod hwnw, ond i synfyfyrio ar ei sefyllfa unig a digysur. A phe gwelsai merched ieuainc y capel ef y noson hòno, a gwybod am ei feddyliau prudd-glwyfus, mae yn ddiamheu y buasai ambell un yn barod i gymeryd trugaredd arno. Nid wyf yn sicr na fuasai calon hyd yn nod Miss Trefor yn meddalhau ychydig. Yr oedd ei gynorthwywyr yn y siop yn llettya allan am na fynasai Enoc iddynt wybod gymaint yr oedd efe dan lywodraeth Marged. Mwynhaent hwy eu hunain yma ac acw, ond Enoc, druan, fel y dywedwyd, a eisteddodd o flaen tân—tynodd ei esgidiau a gwisgodd ei slipars. Yr oedd efe yn rhy ddiysbryd i ddarllen, er fod y *Liverpool Mercury* yn ei boced. Pe dygasai efe y *Mercury* yn ei law neu dan ei gesail o'r gegin i'r *office*, buasai Marged yn deall ei fod yn bwriadu darllen, ac yn y man yn ei ddilyn i holi beth oedd y newydd. Yr oedd hi

wedi gwneud hyny lawer gwaith, ac yntau er mwyn cadw cymydogaeth dda, yn gorfod adrodd rhywbeth iddi gyda gwyneb siriol, er, os rhaid dweyd y gwir, mai ei ddymuniad fuasai ei hanerch—"Ewch i'r —— a gadewch lonydd i mi." Wedi eistedd yn llonydd am ryw bum' munyd, ymddangosai Enoc yn fwy cynhyrfus nag arferol—crychai ei dalcen a gwthiai ei ddwylaw i waelodion pocedau ei drywsers. Yna cododd ar ei draed, estynodd ei bibell, gan ei llenwi yn dŷn, a mygodd yn galed nes pardduo nenfwd yr *office*. Yna poerodd yn *sarcastic* i lygad y tân. Pwysleisiodd yn bendant gyda'i ben, a phoerodd eilwaith gan ei *underlinio*, fel pe buasai yn gwneud rhyw benderfyniad cadarn yn ei feddwl, ac yn rhoi y diffoddyr yn dragwyddol ar rywun neu gilydd. Buasai yr olwg arno yn peri i estron gredu ei fod yn ŵr penderfynol a meistrolgar iawn. Ond ar unwaith, fel pe buasai yn cofio pwy ydoedd, cyfododd Enoc ar ei draed yn wyliadwrus—agorodd gîl y drws yn ddystaw, a gosododd ei glust ar y rhigol i wrando a oedd Marged yn cysgu, ac, wedi sicrhau ei hun mai dyna oedd y ffaith, gwenodd, a chauodd y drws drachefn yn esmwyth, ac, wrth ail eistedd, ebe fe wrtho ei hun, ond yn ddigon hyglyw i'r llygod glywed—"*All right*, Jezebel! Ond mae byw fel hyn yn *humbug* perffaith. Dyma fi wedi bod wrthi fel *black* drwy'r dydd, ac i beth? Mae pob gwas sy' gen i yn fwy hapus na fi. Diolch na ŵyr neb sut fyd sy arna i. Bydae pobl yn digwydd dod i wybod, fedrwn i byth ddangos y ngwyneb—mi awn i'r 'Merica, mi gymra fy llŵ. A pham y rhaid iddi fod fel hyn? 'Dydw i ddim yn dlawd—yr ydw i'n gneud yn well nag ambell un; a rydw i'n meddwl bydawn i'n cynyg fy hun—wel, rydw i agos yn siwr y medrwn i gael—ond waeth heb siarad! Ai nid ffwl o'r sort waetha ydw i? Ai nid y ffaith y mod i yn pendroni bob nos, ac yn adeiladu castelli yn'r awyr ynghylch Miss Trefor ydi'r achos o fy holl anghysuron? Digon gwir! Ond yr wyf am roi pen ar hyny heno—pen am byth bythoedd. I be y pendrona i? ddaw byth ddim byd o hyny, am—wn—i. Mi faswn yn leicio bydase gen i dipyn mwy o wroldeb a gwynebg'ledwch—ond waeth—tewi—'does gen i 'run o'r ddau. Mi fase ambell un wedi mynu gwybod cyn hyn, rywfodd neu gilydd, a fase rhyw obeth iddo, ac os na fase, yn rhoi clec ar ei fawd ac yn troi *to other fields and pastures new*. Ond sut mae Enoc wedi gneud? Caru yn ei ddychymyg, ar ei

ben ei hun, heb symud bŷs na bawd i ddod â hyny i boint. Yr hen het gen i! Y fath drugaredd na ŵyr neb am feddyliau dyn! Ond y mae rhywbeth i'w ddeud o ochr Enoc,—mae hi'n uchel—ïe, waeth rhoi'r enw iawn arno—mae hi'n falch. Dydi hi ddim yn siarad efo rhai mwy ymhongar na fi, a mwy *respectable*, yn yr ystyr fydol o'r gair. Er ein bod yn myn'd i'r un capel, ac yn 'nabod ein gilydd er's blynyddoedd, neiff hi brin edrach arna i. Bydawn i ddim ond yn sôn am y peth wrthi,—wel, mi gwela hi! fydde fychan ganddi roi slap i mi yn y ngwyneb! Mae'n siwr ei bod—er nad oes dim sôn am hyny—yn edrach am rywun llawer uwch na *grocer* yn ŵr. Fe ŵyr pawb—ac fe ŵyr hithau—ei bod yn brydferth, ac fod hyd yn nod ei balchder yn gweddu iddi. Piti na faswn i yn ŵr boneddig? Mae'i thad, fe ddywedir, yn gyfoethog, ac yn meddwl llawer o honi. Digon naturiol. Feily 'rydw ine. Capten Trefor, faint o bris yr ydach chi'n roi ar Miss Susi? Felly. Enoc Huws ydi'r *highest bidder!* Ond golygwn, *for the sake of argument*, fod hyny yn bosibl, ac hyd yn nôd yn debygol, ac hyd yn nôd yn ffaith, be fydde y canlyniad? *Revolution* yn fy holl amgylchiadau! Yn y lle cyntaf, fe fyddai raid troi Marged i ffwrdd, ac fe fydde raid cael dau blismon i neud hyny. Yn y lle nesa fe fydde raid ail-ffyrnishio'r tŷ o'r top i'r gwaelod, os nad cael darn newydd ato. Yn nesa at hyny, fe âi'r tipyn arian sy gen i, a holl broffit y busnes, i gadw *style* i fynu! Am ba hyd y medrwn i ddal? am flwyddyn, hwyrach. Ond, ïe, dyna ffaith sobr i'w deud,—pe byddai hyny yn bosibl, fe gai pob ffyrling fyn'd am fyw gyda hi a'i galw yn Mrs. Huws ddim ond am flwyddyn, ac os bu ffwl erioed, Enoc Huws ydyw hwnw! Ond aros di, Enoc, chei di ddim bod yn ffwl ddim yn hwy—mi rown ben ar y meddyliau gwâg yna ar ol heno. Ni awn i feddwl am rywun arall mwy tebyg a chyfaddas i neud gwraig i siopwr—rhwfun na neiff hi ddim creu *revolution*, ac na fydd ganddi gywilydd myn'd tu ol i'r *counter*, a rhwfun a fydd yn ymgeledd ac yn gysur i mi. Ond yr wyt wedi *deud* fel yna lawer gwaith o'r blaen; do; ac yr ydw i am *neud* ar ol heno, deued a ddelo! Holo! pwy sydd yna rwan? Ydi'r siop ddim wedi bod yn agored trwy'r dydd, tybed? Ond mae'n rhaid i ryw bobol gael blino dyn ar ol adeg cau. A'r un rhai ydyn' nhw bob amser. Yr hen Fusus Bennett, neu'r hen Murphy, mi gymra fy llŵ."

Fel yna y siaradai Enoc âg ef ei hun pryd y curodd rhywun ddrws y tŷ yn galed.

---

## PENNOD XI

### O BOBTU'R GWRYCH.

FEL y dywedwyd, curodd rhywun ddrws tŷ Siop y Groes, yr hyn a roddodd ben ar ymson Enoc Huws. Yn y funyd clywai Enoc Marged yn llusgo ei hun ar hyd y lobi, gan rwgnach yn ei gwddf. Gwrandawai Enoc yn astud gan ddysgwyl clywed Marged yn cyhoeddi'r ddeddf uwch ben Mrs. Bennet neu yr hen Murphy am aflonyddu ar ol adeg cau. Yn lle hyny clywai hi yn dweyd "Dowch i mewn," ac yn ebrwydd agorodd Marged ddrws yr *office*, yn ol ei harfer, heb guro, ac ebe hi—

"Dowch i mewn y ngeneth i. Mistar—O! 'r anwyl dirion! rydach chi wedi bod yn smocio yn ddigydwybod—rydach chi'n siwr o ladd ych hun rw ddiwrnod! Dyma lythyr oddiwrth Capten Trefor, a ma'r eneth yma isio ateb."

Da i Enoc oedd fod haen o flawd ar ei wyneb, oblegyd oni bai am hyny buasai Marged a'r eneth yn rhwym o sylwi ei fod wedi gwelwi y foment y crybwyllwyd enw Capten Trefor. Gyda dwylaw crynedig agorodd Enoc y llythyr, a darllenodd ef. Ni chynwysai ond ychydig eiriau—

"Ty'nyrardd.

"Anwyl Syr,—Os nad ydyw yn ormod o'r nos, ac os nad ydych yn rhy flinedig ar ol eich amrywiol orchwylion, ac os nad oes genych gwmni nas gellwch yn gyfleus eu gadael, teimlwn yn dra rhwymedig i chwi pe cerddech can belled ag yma, gan fod genyf eisiau ymddyddan â chwi ar fater pwysig i chwi ac i minau. Disgwyliaf air gyda'r genad.

Yr eiddoch yn gywir,

RICHARD TREFOR."

Gyda chryn anhawsder y gallodd Enoc ysgrifenu gair iw afon gyda'r eneth y deuai i Dy'nyrardd yn mhen haner awr. Cafodd ddigon o bresenoldeb meddwl i enwi "haner awr" er mwyn cael amser i ymolchi ac ymwisgo. Gofynodd Enoc i Marged am ganwyll.

"Be sy gan y Capten isio gynoch chi, Mistar?" gofynai Marged gyda'i hyfdra arferol.

"Busnes," ebe Enoc yn frysiog, yr hwn air a arferai actio ar Marged fel *talisman*. Ond nid oedd ei effeithiau, y tro hwn, lawn mor foddhaol, ac ebe hi—

"Busnes, yr adeg yma o'r nos? pa fusnes sy gynoch chi i neud rwan?"

"Mae'r *Fly Wheel Company* wedi myn'd allan o'i *latitude*, a mae rhywbeth y mater efo'r *bramoke*," ebe Enoc yn sobr.

Nid oedd gan Marged, wrth gwrs, ddim i'w ddweyd yn erbyn hyn, a chyrchwyd y ganwyll ar unwaith. Ond yr oedd meddwl Enoc yn gynhyrfus iawn, a'i galon yn curo yn gyflym, a'i *nerves* fel ffactri. Wedi iddo ymolchi gorchwyl mawr oedd gwisgo ei ddillad goreu, a phan geisiai roi coler lân am ei wddf tybiodd nad allai byth ddod i ben, gan mor dost y crynai ei ddwylaw. Meddyliodd, fwy nag unwaith, y buasai raid iddo alw ar Marged i'w helpio. Llwyddodd o'r diwedd, ond nid cyn bod y chwys yn berwi allan fel pys o'i dalcen. Wedi twtio ei hun oreu y gallai prysurodd i lawr y grisiau, ac er ei syndod y peth cyntaf a welai oedd Marged gyda nodyn Capten Trefor yn ei llaw ac yn ei simio fel pe buasai yn ceisio ei ddarllen, er na fedrai hi lythyren ar lyfr. Pleser Enoc a fuasai rhoi bonclust iddi, ond ffrwynodd ei hun fel y gwnaethai ganoedd o weithiau yn flaenorol.

"Mi faswn ine yn leicio bod yn sgolor, Mistar, gael i mi ddallt busnes," ebe Marged yn ddigyffro wrth roi'r nodyn ar y bwrdd a gadael yr ystafell.

"Yr ydych chi'n ddigon o sgolor gen i, yr hen gwdsach," ebe Enoc rhyngddo âg ef ei hun wrth wisgo ei esgidiau.

Cyn cychwyn allan darllenodd Enoc lythyr Capten Trefor eilwaith, a phan ddaeth at y geiriau—y rhai nad oedd efe wedi sylwi yn fanwl arnynt o'r blaen—"Mae genyf eisiau ymddyddan â chwi ar fater pwysig i chwi ac i minau," gwridodd at ei geseiliau. Beth allai fod ystyr y geiriau hyn? gofynai Enoc. A oedd yn bosibl fod ei feddyliau am Miss Trefor, drwy ryw

ffordd nas gwyddai efe, wedi dyfod yn hysbys i'r Capten? Teimlai Enoc yn sicr nad ynganasai air am hyn wrth neb byw bedyddiol. Ac eto rhaid, meddyliai, fod y Capten wedi dyfod i wybod y cwbl. A oedd ei wyneb neu ei ymddygiad wedi ei fradychu? neu a oedd rhywun wedi darllen ei dumewn ac wedi hysbysu y Capten o hyny? Yr oedd y Capten ei hun yn ŵr craff iawn, ac, efallai, yn dipyn o *thought reader*. Ai tybed ei fod wedi ei gael allan, ac yn ei wahodd i Dy'nyrardd i'w geryddu am ei ryfyg? A oedd efe ei hun wedi bod yn siarad yn ei gwsg, a Marged wedi ei glywed, a hithau wedi bod yn clebar? A chant a mwy o gwestiynau ffolach na'u gilydd a ofynodd Enoc iddo ei hun, ac edifarhaodd yn ei galon addaw myn'd i Dy'nyrardd. Meddyliodd am lunio esgus dros dori ei addewid, ac anfon nodyn gyda Marged i'r perwyl hwnw. Ond cofiodd yn y funyd nad allai hi wisgo ei hesgidiau o herwydd fod ei thraed yn arfer a chwyddo tua'r nos, ac na ddeuent i'w maint naturiol hyd y bore. Yr oedd yr haner awr i fynu, ac yr oedd yn rhaid iddo fyned neu beidio. Edrychodd yn y drych bychan oedd ganddo yn yr *office*, a sylwodd fod ei wyneb yn ymddangos yn gul a llwyd, ac yn debyg o wneud argraph ar y neb a'i gwelai na byddai ei berchenog fyw yn hir. Rhwbiodd ei fochau, a chrynhôdd hyny o wroldeb ag a feddai, a chychwynodd am Dy'nyrardd. Gobeithiai Enoc, pa beth bynag arall a ddigwyddai, na welid ef gan Miss Trefor y noson hono. Teimlai mai hon oedd yr ymdrech fwyaf a wnaethai efe erioed, ac fod ei ddedwyddwch dyfodiol yn dibynu yn hollol ar ei ymweliad hwn a Thy'nyrardd. Rhyngddo âg ef ei hun, arferai alw ei hun yn "hen gath," ond ni ddychymygodd ei fod y fath hen gath hyd y noswaith hon, oblegid pan gurai efe ddrws Ty'nyrardd teimlai ei goesau yn ymollwng dano, a bu raid iddo bwyso ar y mur rhag syrthio, tra yr oedd yn aros i rywun agor iddo. Arweiniwyd ef i'r ystafell a elwid gan y Capten Trefor yn *smoke room;* ac nid anhyfryd gan Enoc oedd canfod nad oedd neb ynddi ond y Capten a Mr. Denman yn unig. Yr oedd Mr. Denman wedi ei ddwyn yno yn ddiamheu, meddyliai Enoc, fel tyst, a theimlai fod y mater wedi cymeryd gwedd bwysig yn meddwl y Capten, ac ni fu yn well ganddo erioed gael cadair i eistedd arni, yr hon a estynwyd iddo gan y Capten ei hun yn siriol a chroesawus.

"Rhaid," ymsyniai Enoc, "fod y Capten yn edrych yn

ffafriol ar y peth, neu ynte y mae yn rhagrithio er mwyn cael allan y gwir."

"Yr wyf yn gobeithio, Mr. Huws," ebe'r Capten, "eich bod yn iach, er, mae'n rhaid i mi ddweyd—dydi hyny ddim yn *gompliment*, mi wn—fy mod wedi eich gweled yn edrych yn well. Gweithio yn rhy galed yr ydych, mi wn. Yr ydych chwi, y bobl yma sydd yn gwneud yn dda, mae arnaf ofn, yn gosod gormod ar yr hen gorphyn. Mae'n rhaid i'r corph gael gorphwys, neu mae'n rhaid talu'r dreth yn rhywle, chwi wyddoch. Rhaid edrych, fel y byddant yn dweyd, ar ol *number one.* Mae eich busnes yn fawr, mi wn, ac mae'n rhaid i rywun edrych ar ei ol. Ond byddwch yn ofalus, Mr. Huws. Mi fyddaf bob amser yn dweyd mai nid gwneud arian ydyw pobpeth yn yr hen fyd yma; ac er fod yn rhaid eu cael ('Mae o isio gwbod faint ydw i werth,' ebe Enoc ynddo ei hun), mae eisiau i ni gofio bob amser fod byd ar ol hwn, onid oes, Mr. Denman? Tra mai'n dyledswydd yw gwneud y goreu o'r ddau fyd, mae eisiau i ni gymeryd gofal o'r corphyn, fel y dywedais, a pheidio, pan mae'r haul yn gwenu arnom, syrthio i fedd anamserol. Yr wyf yn meddwl, Mr. Huws—maddeuwch fy hyfdra—mai dyna ydyw eich perygl chwi. Mae'r byd yn gwenu arnoch ('Mae o'n treio pympio,' meddyliai Enoc), ond cofiwch na wneiff eich natur ddal ond hyn a hyn o bwysau, ac os rhowch ormod o *power* ar y *machinery* mae o'n siwr o dori."

"Yr wyf—yr wyf—wedi hyrio—tipyn—achos 'doeddwn i ddim—isio'ch—cadw chi, Capten Trefor—yn aros am danaf. Yn wir—'rwyf—wedi colli 'ngwynt—allan o bwff—fel y byddan nhw'n deyd—a minau ddim—yn rhw Samson o ddyn," ebe Enoc gydag anhawsder.

"Chwi a fuoch yn ffol, Mr. Huws," ebe'r Capten, "achos nid ydyw haner awr nac yma nac acw yr adeg yma ar y nos. Nid oedd eisiau i chwi brysuro o gwbl; yn wir, y fi ddylasai ddyfod atoch chwi, Mr. Huws, oblegid y mae à fyno y peth yr wyf eisiau cael ymddyddan â chwi yn ei gylch fwy â mi—yn yr oed yr ydw i ynddo—nag â chwi. Yn y gwanwyn nesaf, os Duw a'i myn, mi fyddaf yn—wel, yn fy oed i fe ddylai dyn wybod rhywbeth—mae ei feddwl wedi ei wneud i fynu, ac nid ychydig wnaiff ei droi" ("Mae hi'n edrach yn ddu arna' i," sibrydai Enoc yn ei galon).

"Mae y mater, Mr. Huws," ychwanegai y Capten, "yr wyf

eisiau cael ymddyddan difrifol â chwi yn ei gylch yn agos iawn at fy nghalon, fel y gŵyr Mr. Denman. Mewn ffordd o siarad, dyma fy unig blentyn, a pha beth bynag a fydd eich penderfyniad chwi nid wyf am ollwng fy nghafael o hono. ('Mae hi yn y pen arna' i,' meddyliai Enoc). Mae Mr. Denman, fel y gwyddoch, Mr. Huws, yn dad i blant, a rhaid iddo ef, fel fy hunan, gymeryd y dyfodol a chysur ei deulu i ystyriaeth, ac y mae ef o'r un meddwl â fi yn hollol ar y pwnc yma. 'Dydi'r mater yr wyf eisiau cael siarad â chwi yn ei gylch, Mr. Huws, ddim yn beth newydd *i mi*—nid rhywbeth er doe neu echdoe ydyw. ('Digon gwir,' meddyliai Enoc, 'ond sut yn y byd y daeth o i wybod?') Na, yr wyf wedi colli llawer noswaith o gysgu o'i herwydd, er na chrybwyllais i air am y peth hyd yn nod wrth Mrs. Trefor, i'r hon y dylaswn fod wedi ei hysbysu gyntaf, gan ei fod yn dwyn cysylltiad â hi lawn cymaint a mi fy hun, can' belled ag y mae cysur teuluaidd yn y cwestiwn. Ond chwi wyddoch, Mr. Huws, er mai hen lanc ydych—begio'ch pardwn, 'dydach chi ddim yn hen lanc eto, nac yn meddwl bod yn un, gallwn dybied—ond er mai dyn dibriod ydych, chwi wyddoch nad ydyw merched yn edrych ar bethau fel mae dynion yn edrych. Edrych y mae merched trwy eu calonau—*sentiment* ydyw'r cwbl—ond y mae yn rhaid i ni, y dynion, edrych ar bethau trwy lygad rheswm. Sut yr wyf yn teimlo ydyw gofyniad merch, ond sut y dylai pethau fod ydyw gofyniad dyn. ('Mi leiciwn bydae o yn dwad at y *point*, a darfod â fo,' meddai Enoc yn ei frest). Ond dyna oeddwn yn ei ddweyd, 'dydi'r mater yr wyf eisiau cael ymddyddan â chwi yn ei gylch ddim yn beth newydd i mi, a Mr. Denman ydyw yr unig un y soniais i air erioed wrtho am dano, onide, Mr. Denman?"

"Ië," ebe Mr. Denman, "ac y mae'n rhaid i mi ddweyd fod y Capten yn ddyn llygadog iawn. Prin yr oeddwn yn credu y peth yn y dechreu; ond y mae'r Capten o ddifrif, ac yn benderfynol gyda golwg ar y peth, a fi ddaru ei anog i anfon am danoch yma heno. Yr oeddwn yn meddwl mai gwell oedd iddo eich gweled, Mr. Huws, ar y mater, nag ysgrifenu llythyr atoch."

"Yn hollol felly," ebe'r Capten. "Yr oeddym ein dau yn cydfeddwl mai gwell oedd i ni ddyfod i wynebau ein gilydd er mwyn cael dealldwriaeth briodol ar y pwnc. Hwyrach,

Mr. Huws, yn wir, mae yn ddiamheu, y bydd raid i ni yn y drafodaeth hon—hyd yn nod os byddwch yn cydymffurfio â'm cais—gael rhywun arall i mewn, megis Mr. Lloyd, y twrne, er y dymunwn ei gyfyngu i'r cylch lleiaf sydd yn bosibl. ('*Marriage Settlement* mae o'n feddwl, ddyliwn,' ebe Enoc yn ei frest, a churai ei galon yn gyflymach). Yr wyf, gyda thipyn o gyfrwystra, Mr. Huws," ychwanegai y Capten, "wedi sicrhau y *virgin ground*, fel y dywedir. ('Diolch! os ydi hi yn foddlon, ond yr wyf *just* a ffeintio,' ebe Enoc ynddo'i hun). Ond y cwestiwn ydyw a fyddwch chwi, Mr. Huws, yn foddlon i ymgymeryd â'r anturiaeth, hyny ydyw, os llwyddaf i ddangos i chwi y fantais o hyny?" Yr oedd Enoc ar fedr dweyd, "Twbi shŵar y byddaf yn foddlon," pryd yr ychwanegodd y Capten, "Mae arnaf ofn, Mr. Huws, nad ydych yn teimlo yn iach—mae eich gwêdd yn dangos hyny yn eglur—dowch yn mlaen yma, syr, a gorweddwch ar y soffa am funyd—yr ydych wedi gorwneud eich hun, a'r ystumog, hwyrach, allan o *order*. Gorweddwch, Mr. Huws, mi geisiaf rywbeth i'ch dadebru."

Teimlai Enoc ei hun yn hollol ddiymadferth, ac ufuddhaodd i anogaeth y Capten. Er ei fod yn ddig enbyd wrtho ei hun am ei fod y fath "hen gath," teimlai yn sicr ei fod yn llesmeirio. Agorodd y Captain ddrws yr ystafell a gwaeddodd yn uchel—

"Susi, dowch â thipyn o frandi yma ar unwaith."

"Na, na," ebe Enoc, oblegid nid oedd yn llesmeirio, "mi fyddaf yn *all right* yn union deg."

"Mae'n rhaid i chwi, Mr. Huws, gymeryd rhywbeth i'ch dadebru—yr ydych wedi gorwneud eich hun," ebe'r Capten.

Gan dybied mai ar ei thad yr oedd angen am y brandi, daeth Susi yn frysiog i'r ystafell gyda'r *quantum* arferol, yr hwn, a dweyd y lleiaf, oedd yn *stiff*. Synodd Susi yn fawr pan welodd hi Enoc Huws yn gorwedd ar y soffa, a'i wyneb càn wyned a'r galchen, a chynhyrfwyd ei chalon, oblegid yr oedd gan hyd yn nod Miss Trefor galon, ac ebe hi yn dyner—

"O, Mr. Huws bach! 'rydach chi'n sâl. O! mae'n ddrwg gen i—ydi'n wir! Cymerwch hwn, Mr. Huws bach, dowch," a rhoddodd ei braich am ei wddf i'w gynorthwyo i godi ei ben.

Yr oedd Enoc yn Nazaread o'r groth; ond sut y gallai ef wrthod? Crynai ei law yn gymaint fel nad allai ddal y gwydryn yn wastad, a chymerodd Susi y llestr yn ei llaw ei hun, gan ei osod wrth ei enau. Mor boeth oedd y gwirod, ac

Enoc yntau heb erioed o'r blaen brofi y fath beth, fel y neidiodd y dagrau i'w lygaid wrth iddo ei lyncu.

"Peidiwch a chrio, Mr. Huws bach, mi ddowch yn well tcc; dowch, cymerwch o i gyd," ebe Susi yn garedig neu yn ystrywgar.

A'i gymeryd a wnaeth; a phe buasai cynwysiad y gwydryn yn wenwyn marwol, ac yntau yn gwybod hyny, nis gallai efe ei wrthod o'r llaw wèn, dyner hono.

"Gorweddwch yrwan, Mr. Huws bach, a mi ddowch yn well yn y munyd," ebai Miss Trefor.

"*Thank you*," ebe Enoc yn floesg. Yn y man, teimlai ei hun yn hapus dros ben. Yn mhen ychydig funydau, teimlai yn awyddus i roi cân, a lled-ddisgwyliai i rywun ofyn iddo ganu, a dechreuodd sugno ei gôf pa gân a fedrai efe oreu, a phenderfynodd ar "Y Deryn Du Bigfelen," os gofynid iddo. Gan nad oedd neb yn gofyn iddo ganu, ni thybiai yn weddus gynyg o hono ei hun. Wedi hir-ddisgwyl, daeth drosto deimlad o syrthni, ond ofnai gau ei lygaid rhag y buasai yn cysgu, oblegid cofiai ei fod yn chwyrnwr, ac ni fynasai am fil o bunau i Susi wybod ei fod yn perthyn i'r rhyw hwnw o greaduriaid. Tybiai, weithiau, ei fod mewn clefyd, a phryd arall, mai breuddwydio yr oedd efe. Ond ni allai fod yn breuddwydio, canys yr oedd yn sicr fod Susi, Capten Trefor, a Mr. Denman, yn edrych arno. Weithiau ymddangosent yn mhell iawn oddiwrtho, ac yn fychain iawn; bryd arall, yn ei ymyl—yn boenus o agos—yn enwedig y Capten a Mr. Denman. Teimlai yn awyddus i siarad â Susi, a dweyd ei holl feddwl wrthi, a gwyddai y gallai wneud hyny yn hollol ddiofn a hyderus, oni bae ei fod yn gweled ei thad a Mr. Denman o flaen ei lygaid. Yr oedd efe yn berffaith sicr yn ei feddwl ei fod ar delerau da efo phob dyn ar wyneb y ddaear, ac y gallai wneud araith ar unrhyw bwnc yn hollol ddifyfyr! Am ba hyd y bu efe yn y cyflwr hwn ni fedrodd byth gael allan, ac nid ymhoffai adgofio yr amgylchiad. Gwylid ef yn fanwl gan y Capten, Susi, a Mr. Denman, a phan welsant arwyddion ei fod yn dyfod ato ei hun, ebe'r Capten—

"Sut yr ydych yn teimlo erbyn hyn, Mr. Huws?"

"*All right*," ebe Enoc.

"Mi wyddwn," ebe'r Capten, "y gwnaethai dropyn ddaioni i chwi; a chan ei fod wedi gwneud daioni i Mr. Huws, paham,

Susi, na wnaiff o ddaioni i minau? ac wedi i chwi ei estyn i mi, chwi ellwch chwi, Susi, fyn'd, gael i ni orphen y busnes, hyny ydyw, os ydyw Mr. Huws yn teimlo yn barod i fyn'd yn mlaen."

"*Certainly*," ebe Enoc yn fywiog, "yr ydw i yn barod i entro i unrhyw *arrangement* rhesymol; ac yr ydw i yn addo i chi, Capten Trefor, pan ddown i berthynas agosach, os byth y down i hyny, na chewch y drafferth a gawsoch gyda fi heno. Fum i 'rioed yn teimlo 'run fath o'r blaen. Yn gyffredin, yr ydw i'n ddyn lled gryf, ac yn gweithio can gleted ag odid i neb, ond fedrwn i rywfodd mo'i——"

"Dyna ydyw eich bai, Mr. Huws," ebe'r Capten, cyn i Enoc gael gorphen y frawddeg—"gweithio yn *rhy* galed yr ydych, a dyna pa'm y dylai gŵr fel chwi—(*thank you*, Susi, chwi ellwch chwi fyn'd yrwan)—ïe, dyna pa'm y dylai gŵr fel chwi gael rhywun i gymeryd rhan o'ch baich a'ch gofal, ac i edrych ar ol eich cysuron. Dyma ydyw eich angen mawr, Mr. Huws, ac ond i chwi wneud yr angen yna i fynu, chwi a fyddech yn ddyn dedwydd. Beth a ddaethai o hono i, syr, oni bae am Mrs. Trefor? Buaswn yn fy medd er's llawer dydd. Maddeuwch y sylw, Mr. Huws, ond, fe ddylai dyn sydd wedi cyrhaedd ei—wel, dyweder fy oed i, fod yn dipyn o *philosopher*. 'Dydw i fy hun yn gweled dim dyben nac amcan teilwng o ddyn mewn bywyd sengl. Chwi wyddoch, Mr. Huws—oblegid yr ydych chwi, fel fy hunan, yn un sydd wedi darllen llawer—pan mae dyn yn ymdroi ynddo ei hun, mewn ymchwiliad am ddedwyddwch, ei fod bob amser yn methu ei gael; ond pan gyfeiria ei ymdrechion i wneud rhai eraill yn ddedwydd, mai dyma'r pryd yr enilla efe hunan-ddedwyddwch. Er engraifft—oblegid nid oes dim yn well nag engraifft—pe buaswn i wedi gwneud hunan-ddedwyddwch yn brif amcan fy mywyd, a phe buasai Mrs. Trefor wedi gwneud yr un modd, buasem ein dau yn rhwym o fod wedi aflwyddo. Ond gan mai amcan mawr bywyd Mrs. Trefor a minau ydyw gwneud y naill y llall yn hapus, yr ydym wedi enill ein dedwyddwch yn ein gilydd. Ac y mae hyn yn hollol gyson â dysgeidiaeth ein Harglwydd am hunanymwadiad, gan nad pa mor hwyrfrydig ydyw y byd i gredu yr athrawiaeth hono. Ai nid felly mae pethau'n bod, Mr. Denman?"

"Chlywes i neb yn gosod y peth yn fwy teidi. Un garw

ydach chi, Capten," ebe Mr. Denman, er ei fod yn meddwl er's meityn am y derbyniad a gaffai gan Mrs. Denman pan elai adref.

"Na," ebe'r Capten, "'does dim eisiau i ddyn fod yn un garw i ddarganfod y gwirionedd yna, ac yr wyf yn mawr hyderu y bydd Mr. Huws ei hun yn brofiadol o'r peth cyn nemawr o fisoedd. ('Mae o am hyrio y briodas, ond waeth gen' i pa mor fuan,' ebe Enoc ynddo'i hun). Ond y mae yn bryd i mi ddyfod at y pwnc," ychwanegai y Capten.

"Ydi," ebe Enoc, "ac yr ydw i'n berffaith barod, a gore po gyntaf y down ni i *understanding* efo'n gilydd."

"Wel," ebe'r Capten, "yr wyf wedi ymdroi yn lled hir cyn dyfod at y pwnc ('Gynddeiriog,' ebe Enoc yn ei frest), ond buaswn wedi dyfod ato yn gynt onibae—wel, 'does dim eisiau sôn am hyny eto. Ond dyma ydyw y pwnc, Mr. Huws (daliai Enoc ei anadl). Chwi a wyddoch—nid oes neb a ŵyr yn well —ac eithrio Mr. Denman, a fy hunan, hwyrach—fod Gwaith Pwllygwynt wedi, ac yn bod, yn brif gynhaliaeth y gymydogaeth y gwelodd rhagluniaeth yn dda i'ch llinynau chwi a minau ddisgyn ynddi. Ac efallai"—ac yn y fan hon yr ymollyngodd y Capten i lefaru.

## PENNOD XII.

### ENOC HUWS YN DECHREU AMGYFFRED Y SEFYLLFA.

YMOLLYNGODD y Capten i lefaru, fel y dywedwyd, ac ebe fe—

"Efallai, Mr. Huws, a chymeryd pobpeth i ystyriaeth, y gellwch chwi a minau ddweud fod ein llinynau wedi disgyn mewn lleoedd tra hyfryd, a dichon y gall Mr. Denman fyn'd lawn can belled a ni yn y ffordd yna. Er fod genyf lawer o destynau diolch, hwyrach fwy na'r cyffredin o ddynion, nid y lleiaf, Mr. Huws, ydyw fy mod, fel offeryn gwael yn llaw Rhagluniaeth, wedi cael y fraint o fod mewn cysylltiad, a'r cysylltiad hwnw heb fod yn un dirmygus, â gwaith a fu yn foddion—os nad yn uniongyrchol, yn sicr, yn anuniongyrchol

—i roddi tamaid o fara i rai canoedd o'n cydgenedl, ac i helpu ereill i ddarparu ar gyfer diwrnod gwlawog—yn mhlith y rhai olaf yr wyf yn eich ystyried chwi, Mr. Huws,—ac hefyd cysylltiad a fu yn foddion, nid yn unig i ddarparu ar gyfer y corph, ond, mewn ffordd o siarad, ac yn wir, fel mater o ffaith, a fu yn gefn ac yn swcwr i anghenion ysbrydol y gymydogaeth, drwy ein galluogi mewn gweinidogaeth gyson a difwlch —gan nad beth a ddywedwn am ei hansawdd, i ddiwallu, neu o leiaf, i roddi cyfleustra i ddiwallu, anghenion yr enaid, yr hyn, mae'n rhaid i ni oll gydnabod, ydyw y peth penaf, pa un a ystyriwn ni bersonau unigol neu gymdeithas fel cymdeithas." ("I b'le yn y byd mawr mae o'n dreifio rwan?" gofynai Enoc iddo ei hun.) "Hwyrach," ychwanegai y Capten, "na fyddwn yn mhell o fy lle pe dywedwn mai Pwllygwynt ydyw asgwrn cefn y gymydogaeth hon mewn ystyr fasnachol, ac hwyrach na chyfeiliornwn pe dywedwn hefyd eich bod chwi, yn mysg ereill, wedi manteisio nid ychydig oddiwrth y Gwaith. Wel, syr, ffordd hir ydyw hono nad oes tro ynddi, fel y dywed y Sais, ac, fel yr wyf eisoes wedi egluro i Mr. Denman, oreu y gallwn i, cyn i chwi ddyfod i mewn, nid peth anmhosibl, nac, yn wir, annhebygol, y gwelwch chwi a minau y dydd, er ein bod yn gobeithio'r goreu, pan fydd Pwllygwynt, mewn ffordd o siarad, â'i ben ynddo—nid am nad oes yno blwm, ac nid—er mai fi sydd yn dweyd hyny—am nad ydyw y Gwaith yn cael edrych ar ei ol—can belled ag y mae yn bosibl edrych ar ei ol pan mae dyn dan reolaeth estroniaid, nid yn unig o ran iaith, ond o ran profiad a gwybodaeth ymarferol, fel y gŵyr Mr. Denman. Mi welaf ar eich gwêdd, Mr. Huws, eich bod wedi eich cymeryd *by surprise*, fel y dywedir, a hyny yn ddigon naturiol. Ond cofiwch nad ydwyf yn hysbysu hyn i chwi fel mater o ffaith; yn wir, yr wyf yn gobeithio na chymer hyny le yn eich oes chwi a minau. Ond, fel y dywedais cyn i chwi ddyfod i mewn, fyddai ddim yn rhyfedd genyf—yn wir, mae genyf sail i ofni mai i hyny y daw hi—fyddai ddim yn rhyfedd genyf bydae'r Saeson yna—a chwi wyddoch, Mr. Huws, mai Saeson ydyw'r oll o'r cwmpeini, oddigerth Mr. Denman a fy hunan, fel mae'r gwaethaf, ac fe ŵyr Mr. Denman pa'm yr wyf yn dweyd 'fel mae'r gwaethaf,'—fyddai ddim yn rhyfedd genyf, meddaf, bydae'r Saeson yna yn rhoi'r Gwaith i fynu cyn pen mis, er y byddai

hyny yn un o'r pethau ffolaf ar wyneb daear, ac yn groes iawn i fy meddwl i—nid yn unig am y dygai hyny deuluoedd lawer i dlodi, ac y teimlai y gymydogaeth oddiwrtho yn dost, ond am y byddai yn sarhâd, i raddau mwy neu lai, ar fy ngharitor i yn bersonol, o herwydd fy mod ar hyd y blynyddoedd, fel y gwyddoch, yn dal i ddweyd, ac mi ddaliaf eto i ddweyd, fod yn Mhwllygwynt blwm, a phlwm mawr, pe cymerid y ffordd iawn i fyn'd ato. ('Beth sydd a wnelo hyn i gyd â Susi a finau?' gofynai Enoc iddo ei hun). Nid oes amser heno, Mr. Huws, i fyn'd i mewn i fanylion, ac nid oes eisieu i mi ddweyd fod hyn i gyd *in confidence*, ar hyn o bryd, beth bynag. Ond y tebygolrwydd ydyw y bydd diwedd buan ar Bwllygwynt, a phryd bynag y cymer hyny le—hwyrach y cymer le yn mhen y mis, neu yn mhen y flwyddyn—ond pa bryd bynag y cymer le, fe ellir crynhoi y rheswm am dano i hyn—fel y gŵyr Mr. Denman—*am nad allaf gael fy ffordd fy hun*, ac fod y Saeson sydd yn byw yn Llunden yn meddwl y gwyddant sut i weithio Pwllygwynt yn well nag un sydd wedi treulio haner ei oes dan y ddaear. I mi, Mr. Huws, ei roi i chwi mewn cneuen, mae y cwbl yn d'od i hyn—*nad allaf gael fy ffordd fy hun o drin y Gwaith*. Fy ffordd *i* a fuasai cario y Gwaith yn mlaen, a hyny ar ddull hollol wahanol i'r ffordd y cerir ef yn mlaen yn awr, nes d'od o hyd i'r plwm, yr hwn sydd yno mor sicr a'ch bod chwi a minau yma yn awr. Ond ffordd pobl Llunden fydd, mae arnaf ofn, rhoi'r Gwaith i fynu, am nad oes ganddynt amynedd i aros. Mi welaf, Mr. Huws, y bydd raid i mi brysuro, er y buasai yn dda genyf fyned i fewn yn fanylach i'r pethau. Y pwnc ydyw hwn: 'does dim yn well na bod yn barod ar gyfer y gwaethaf." (Yr oedd Enoc yn dechreu canfod i ba gyfeiriad yr oedd y gwynt yn chwythu, ac yr oedd efe wedi oeri gryn raddau.) "Rhag ofn mai y gwaethaf a ddaw—rhag ofn mai â'i ben ynddo y cawn Bwyllygwynt, a hyny ar fyrder, ac er mwyn, os cymer hyny le, gwneud rhyw ddarparpariaeth ar gyfer y degau o deuluoedd sydd yn dibynu yn hollol ar y Gwaith, ac, yn wir, er mwyn masnachwyr ac ereill, yr wyf wedi sicrhau—nid gyda golwg ar hunan-les, cofiwch, oblegid mi gaf fi damaid, tybed, am yr ychydig sydd yn ngweddill o fy oes i, ac fe ddylai pob dyn yn fy oed i fod uwchlaw angen—nid er mwyn fy hun, meddaf, yr wyf wedi sicrhau y *virgin ground*—neu, mewn geiriau ereill, lle y gallwn, gydag

ychydig gynorthwy, agor Gwaith newydd—nid ar yr un *scale*, mae'n wir, a Phwllygwynt—ond Gwaith, gydag ychydig ganoedd o bunau o gôst, a ddeuai i dalu am dano ei hun mewn byr amser, ac, yn y man, a roddai foddion cynhaliaeth i rai ugeiniau o weithwyr, a gwell na'r cwbl, yn fy ngolwg i, Gwaith na fyddai gan Saeson na phobl Llundon ddim i ddweyd wrtho, a lle gallwn gael fy ffordd fy hun o'i ddwyn yn mlaen; ac fe ŵyr Mr. Denman pe cawswn i fy ffordd fy hun gyda Phwllygwynt yn mha le y buasem erbyn hyn. Yn awr, Mr. Huws, fe ddarfu i Mr. Denman a minau benderfynu rhoddi y cynygiad cyntaf i chwi oddiar yr egwyddor nes penelin nag arddwrn!' Os gallwn wneud lles i rywrai yr oeddem yn ystyried y dylem roddi y cynyg cyntaf i'n pobl ni ein hunain. Beth meddwch chwi, Mr. Huws? A ydych yn barod—oblegid mi wn fod y moddion genych—a ydych yn barod er eich mwyn eich hun—er mwyn y gymydogaeth—ac yn benaf oll er mwyn achos crefydd—i ymuno â Mr. Denman a minau i gymeryd *shares* yn y Gwaith newydd? Yr ydych—os na ddarfu i mi eich camddeall—eisoes wedi dadgan eich parodrwydd, os gallwn lwyddo i ddangos y byddai hyny er eich lles personol a lles y gymydogaeth yn gyffredinol. Ond peidiwch ag addaw yn rhy fyrbwyll—cymerwch noswaith i gysgu dros y mater, oblegid ni ddymunwn am ddim ar a welais arfer dylanwad anmhriodol arnoch—yn wir, byddai yn well genyf i chwi wrthod, os na fedrwch ymuno â ni yn yr anturiaeth hon o wirfodd eich calon."

Tra yr oedd y Capten yn llefaru y rhan olaf o'i araith yr oedd Enoc Huws mewn tipyn o benbleth yn ceisio galw i'w gôf bob gair a ddywedasai efe ei hun yn ystod yr ymddyddan, ac a oedd efe wedi bradychu ei hun, a rhoddi ar ddeall mai am rywbeth arall y meddyliai efe tra yr oedd y Capten yn sôn am waith mŵn. Teimlai Enoc yn sicr ei fod wedi dweud rhyw-beth am fod yn "barod i entro i *arrangement* â chynygion y Capten" cyn gwybod pa beth oeddynt, a phan ddeallodd ei fod ef a'r Capten un o bobtu'r gwrych, teimlai anhawsder mawr i esbonio ei hun a dyfod allan o'r dyryswch. Yr oedd anrhaethol wahaniaeth, meddyliai Enoc, rhwng cymeryd *shares* mewn gwaith mŵn, a chymeryd merch y Capten yn wraig. A theimlai yn enbyd o ddig wrtho ei hun am na ddeallasai rediad ysgwrs y Capten yn gynt. Arbedasai hyny iddo haner lles-

meirio, ac, yn sicr, ni fuasai wedi dweyd ei fod yn barod "i entro i unrhyw *arrangement* rhesymol," nac wedi sôn am "berthynas agosach," a phethau ffôl felly, pe gwybuasai am ba beth y siaradai y Capten. Pan ofynodd y Capten y cwestiwn yn syth iddo, nid oedd Enoc yn gweled ei ffordd yn glir i ddyfod allan o'r dyryswch, ac er mwyn cael amser i fyfyrio, efe a anogodd y Capten i egluro ei hun yn fanylach, yr hyn a wnaeth y gŵr hwnw mewn brawddegau hirion, baglog a chwmpasog am ystod chwarter awr arall. Yna ebe Enoc—a theimlai ei fod yn tori ar ei arferiad gyffredin, oblegid ei arfer a fyddai dweud y gwir yn syth a gonest—

"Yr oeddwn yn dyfalu o'r dechreu, Capten Trefor, mai Gwaith *mine* oedd genych mewn golwg, ac, fel y dywedais, pan fydd pwnc o fusnes ar y bwrdd, yr wyf bob amser yn barod i entro i unrhyw *arrangement* rhesymol—hyny ydyw, os bydd rhywbeth yn ymddangos yn rhesymol, ac yn debyg o droi allan yn llwyddianus—ni byddaf yn ol o'i daclo. Ond y mae yn rhaid i'r peth ymddangos i mi yn rhesymol cyn yr ymyraf âg ef. Hyd yn hyn, gyda busnes, nid ydwyf wedi gwneud llawer o gamgymeriadau, ac ni fûm erioed yn euog o roi naid i'r tywyllwch. Ar y llaw arall, y mae rhyw gymaint o dywyllwch yn nglŷn â phob anturiaeth (cofiai Enoc o hyd am Susi), oblegid heb hyny ni fyddai yn anturiaeth o gwbl; ac weithiau, mae y tywyllwch yn meddwl yr anturiaethwr ac nid yn yr anturiaeth ei hun. Gall y 'fentar' yr ydych yn sôn am dani fod yn dywyll iawn i mi, nid, hwyrach, am ei bod felly ynddi ei hun, ond am nad wyf fi yn meddu llygaid Capten Trefor i'w gweled yn ei holl ranau. Hwyrach, pan y down i berthynas agosach, os byth y daw hi i hyny, fel y dywedais o'r blaen, y bydd y 'fentar' yn ymddangos yn oleu i minau. Wrth gwrs, y mae gwaith mŵn yn beth hollol ddieithr i mi, ac felly y bu i ugeiniau o fy mlaen, mi wn, cyn iddynt ymgydnabyddu â'r peth. Mi gymeraf eich cynghor, Capten Trefor, mi gysgaf dros y mater, a chawn siarad am hyn eto. Mae yn ddrwg iawn genyf glywed am sefyllfa Pwllygwynt, ac y mae yn bwysig i mi, ac i ereill, fod rhywbeth yn cael ei ddarparu ar gyfer y gwaethaf, fel y dywedasoch."

"Mae yn dda genyf eich clywed yn siarad fel yna, Mr. Huws," ebe'r Capten. "Mae yn well genyf eich clywed yn dweyd yr ystyriwch y mater na phe buasech yn datgan eich

parodrwydd i gymeryd *shares* cyn deall pa beth yr oeddych yn ei wneud. Pan welaf ddyn anmharod i roi naid i'r tywyllwch, fel yr ydych yn eich ffordd hapus eich hun yn ei eirio, ond sydd â'i glust yn agored i wrando ar reswm, mi fyddaf yn teimlo mai *dyn* sydd genyf i ymwneud âg ef, ac nid hyn a hyn o bwysau o gnawd, ac mi wn, y pryd hwnw, sut i fyn'd o gwmpas fy ngwaith. Pa beth a roeswn i heno, syr, pe buasai pobl Llunden, neu, mewn geiriau ereill, pe buasai Cwmpeini Pwllygwynt o'r un ysbryd ac ansawdd meddwl a chwi, Mr. Huws? hyny ydyw, yn agored i wrando ar reswm? Mi roddwn fy holl eiddo, syr, ffrwyth fy llafur caled am lawer o flynyddoedd, pe byddai yn bosibl eu cael i'r un dymher meddwl a chwi, Mr. Huws. Ond ni a adawn y mater yn y fan yna heno."

Ac felly y gwnaethpwyd, er i'r Capten lefaru cryn lawer tra yr oedd Enoc yn rhoi ei het am ei ben ac yn parotoi i fyned ymaith. Galwodd y Capten ar Susi "i ddangos Mr. Huws allan," a phan wnaeth hi ei hymddangosiad, ysgydwodd y Capten ddwylaw gydag Enoc, a chiliodd yn ol i orphen y busnes gyda Mr. Denman.

---

## PENNOD XIII.

### CARWR TRWSTAN.

Yr oedd yn noswaith oer a niwliog, fel y dywedwyd ddwywaith o'r blaen, a phan agorodd Miss Trefor ddrws y ffrynt i ollwng Enoc allan, teimlai yr olaf yr awel fel pe buasai yn cymeryd croen ei wyneb ymaith.

"Cymerwch ofal rhag cael anwyd, Mr. Huws, a 'rydw i'n gobeithio eich bod, erbyn hyn, wedi d'od atoch eich hun yn reit dda," ebe Miss Trefor.

"Cystal ag y bûm erioed," ebe Enoc, a meddyliai fod y cyfleusdra wedi dyfod iddo ddweyd tipyn o'i feddwl iddi. "Mi wn, o hyn allan, lle i ymorol am y doctor os digwydd i mi

fyn'd yn sâl. Wn i ddim be ddaeth drosto i—hwyrach mai hyrio gormod ddaru mi. Cymerwch chwithe ofal, Miss Trefor, a pheidiwch dyfod allan i'r awyr oer—mi fedraf ffeindio'r *gate* yn burion."

"O," ebe Miss Trefor, gan gerdded o flaen Enoc ar hyd llwybr yr ardd—"'dydw i ddim yn *delicate*."

Teimlodd Enoc y colyn, ac ebe fe yn gyflym—

"'Dydw inau ddim chwaith, fel rheol, ond faddeuwn i byth i mi fy hun pe cymerech chwi, Miss Trefor, anwyd wrth ddyfod i agor y *gate* i mi."

"Gobeithio," ebe Susi, "na chewch chwi byth achos i fod mor annhrugarog atoch eich hun. Os ydw i heb yr un fonet, mae gen' i ben caled, wyddoch, Mr. Huws."

"Gobeithio nad ellir dweyd yr un peth am eich calon, Miss Trefor," ebe Enoc, gan geisio tori'r rhew.

"Fydd 'y nghalon i, Mr. Huws, byth yn gwisgo bonet—achos dydi hyny ddim wedi d'od i'r ffasiwn eto," ebe Susi.

"Nid y fonet oedd yn fy meddwl, Miss Trefor, ond y c'ledwch," ebe Enoc.

"Mae hyny yn bur resymol, Mr. Huws, achos y mae'n hawddach dych'mygu am g'ledwch yn y meddwl nag am fonet yn y meddwl," ebe Susi.

"Un arw ydach chi, Miss Trefor," ebe Enoc, heb atebiad arall yn cynyg ei hun i'w feddwl.

"*Thank you*, Mr. Huws, 'un arw' fyddwn ni, yn Sir Fflint, yn galw un fydd yn nodedig o hyll—neu wedi ei marcio yn drom gan y frech wen—tebyg i Marged, eich *housekeeper* chwi," ebe Susi.

"Digon gwir, Miss Trefor," ebe Enoc, "ond chwi wyddoch fod i rai geiriau ddau ystyr, ac nid yr ystyr ——"

"Dau ystyr, Mr. Huws?" ebe Susi, cyn i Enoc gael gorphen y frawddeg—"dywedwch fod i bob gair haner dwsin o ystyron genych chwi, y dynion, achos 'dydach chwi byth yn meddwl y peth ydach chwi'n ddeyd, nac yn deyd y peth ydach chwi'n feddwl, pan ddaw'ch geiriau a chwithau i wynebau eich gilydd."

"Mi ddywedaf hyn," ebe Enoc, gan alw hyny o alantri oedd yn ei natur i weithrediad, "mai angel ydach chi, Miss Trefor."

"Hyh!" ebe Susi, "angel syrthiedig, wrth gwrs, ydach chi'n feddwl, achos y mae dau ystyr i'r gair. Wel, bydaswn i

yn gwybod y b'asech chwi, Mr. Huws, mor gàs wrtho i, chawsech chwi ddyferyn o frandi—a mi gawsech farw ar y soffa, y dyn brwnt gynoch chwi. Nos dawch, Mr. Huws," a rhedodd Susi i'r tŷ.

"Wel, yr hen jaden glyfar! A bydase hi heb i gloewi hi, wn i ddim be faswn i'n fedryd ddweyd mewn atebiad iddi," ebe Enoc wrtho ei hun, fel y cerddai yn brysur tua chartref, a'i syniadau yn uwch am Miss Trefor nag y buont erioed. Ni feddyliodd efe am neb na dim ond am dani hi nes ei fod o fewn degllath i'w dŷ, pryd y croesodd Marged ei ddychymyg. Fel bachgen drwg wedi aros allan yn hwyr heb ganiatad ei fam, teimlodd Enoc yn anghyfforddus wrth feddwl am wynebu Marged, a dechreuodd ddychymygu am ryw air melus i'w rhoi mewn tymher dda.

Diangenrhaid ydyw dweyd nad oedd dwy awr o gysgu wrth y tân wedi lliniaru na phrydferthu dim ar Marged. Pan fyddai hi wedi cael awr neu ddwy o gyntun wrth y pentan, glynai ei hamrantau wrth eu gilydd fel pe buasent wedi eu sicrhau gan gŵyr crydd, a byddai raid iddi ddefnyddio ei migyrnau yn egnïol am enyd cyn y gallai agor ei llygaid. Wedi myn'd trwy yr oruchwyliaeth, a ffroenochi yn anwydog am amser, meinhaodd Marged ei llygaid, crychodd ei thalcen, ac edrychodd ar y cloc, ac ebe hi—

"Wel, yn eno'r rheswm anwyl, mistar, lle buoch chi tan 'rwan? Be bydaswn i ddim wedi rhoi digon ar tân, on fase ma le cynes i chi! A wn i ddim be naeth i mi feddwl am neyd tân da, achos feddylies 'rioed y basech chi allan dan berfedd y nos fel hyn."

"Yr ydach chi bob amser yn feddylgar iawn, Marged," ebe Enoc. "Yn wir, mae'n biti mawr, Marged, na fasech chi wedi priodi—mi neuthech wraig dda, ofalus."

Edrychodd Marged yn foddhaus, a thybiodd Enoc ei fod wedi gwneud *good hit*, ond buasai yn well iddo dori ei fys a dyoddef ei thafod drwg na siarad fel y darfu. Teimlai Enoc yn y dymher oreu y buasai ynddi er's llawer blwyddyn. Yr oedd, o'r diwedd, wedi llwyddo i gael rhoi ei bîg i mewn yn Nhy'n-yrardd, a chredai na byddai dim dyeithrwch rhyngddo ef â Miss Trefor mwyach, ac yr oedd mwyneidd-dra Marged yn dwyshau ei ddedwyddwch nid ychydig. Awyddai yn fawr am i Marged fyn'd i'w gwely er mwyn iddo gael mwynhau a

gloddesta ar ei feddyliau mewn unigrwydd, ac adeiladu castell newydd spon. Ond nid oedd Marged landeg yn troi cymaint a chil ei llygaid at y grisiau. Yn hytrach, eisteddodd fymryn yn nes at ei meistr nag a wnaethai hi erioed o'r blaen, a dangosodd duedd digamsyniol i ymgomio yn garuaidd. Nis gallai Enoc amgyffred y cyfnewidiad sydyn a dymunol a ddaethai dros ysbryd Marged. Meddyliodd fod ffawd yn dechreu gwenu arno, ac fod dyddiau dedwydd eto yn ei aros. Parod iawn a fuasai efe i wneud heb gwmni Marged, ond nid oedd hi yn gwneud osgo at fyn'd i glwydo. Yn union deg aeth Enoc i'w wely, er y dywedai Marged "nad oedd hi ddim yn rhyw hwyr iawn, wedi'r cwbl, a bod y cloc dipyn o flaen y dre'."

## PENNOD XIV.

### PEDAIR YSTAFELL WELY.

Rhif I.—"Na, 'dydi hi ddim mor *unapproachable* ag oeddwn i'n meddwl. 'Dydio ddim ond rhyw ffordd sydd ganddi. Yn wir, y mae hi'n garedig—mi weles ddigon heno i brofi hyny. A mae hi'n glyfar hefyd—yn *sharp*. Wel, on fum i'n ffwlcyn! Tybed ddaru'r Capten ddallt mai am Miss Susi yr oeddwn i'n meddwl tra'r oedd o'n siarad am waith *mine?* Mi fu *just* i mi henwi hi fwy nag unweth. Y fath lwc na ddaru mi ddim! Y fath *joke* fase'r peth! Y fath *joke ydi'r* peth! Bebydae rhai o'r *chaps* yma ddim ond yn cael gwynt ar y 'stori! Y fath wledd fydde hi! Ac eto 'dydw i ddim yn hollol dawel fy meddwl—fedra i ddim peidio ofni fod yr hen dderyn wedi spotio mod *i* yn meddwl am Miss Trefor, tra 'roedd *o* yn sòn am waith *mine.* Ac mor debyg! Ond pwy, tu yma i'r haul, fase'n dallt at be 'roedd o'n dreifio—efo'i 'yn wir,' ac 'mewn geiriau ereill,' ac 'fel mater o ffaith?' Mae pob brawddeg ganddo cyd a blwyddyn, ac yn cym'ryd gwynt dyn yn lân. Mae un peth yn y mlino i'n sobor.—'Peidiwch a chrïo, Mr. Huws bach,' medde hi. Yn mhell y bo nyna! Crïo! dyn yn f'oed i yn

crïo! am 'i fod o'n sàl! Dyna ddaru hi feddwl, mi wn. Dario nyna! Ond y felldith brandi hwnw 'naeth i'r dagrau dd'od i fy llygaid i! Bydaswn i'n marw fedrwn i mo'u stopio nhw. Wel, ond oedd o càn boethed a lwmp o dân uff——, mi gymra fy llŵ! a hithe yn meddwl mai rhyw fabi yn crïo am 'i fam oeddwn i. Os lladdiff rhywbeth fi yn 'i golwg hi—y crïo neiff. Rhaid i mi gael egluro nyna iddi eto. Yn mhell y bo! mi fase'n well gen i na chan' punt dase'r crïo yna heb hapno. Mi gymra fy llŵ y bod hi'n edrach arna' i fel rhw lwbi-labi! Ond aros di, Enoc, yr wyt ti 'rwan ar delerau efo'r teulu i fyn'd yno yn ol a blaen, a mae o fel breuddwyd gen' i. Ond fe fydd raid i mi gymeryd *shares* yn y fentar newydd, neu mi fyddaf yn yr un fan ag o'r blaen. Bydase'r fentar yn Jericho mi fase'n dda gen' i! I be yr ä i i daflu mhres i ffwrdd ar rywbeth na wn i ddim am dano? *Swindle* ydi'r rhan fwya' o'r gweithydd *mines* yma. Ac eto, mae'r Capten yn dad i Susi, ac yn ddyn gonest ac anrhydeddus—am—wn—i. Bydae o'n deyd mai yn y lleuad y mae o am fentro—fe fydd raid i mi gymeryd rhyw ychydig o *shares*. Ond mi dreiaf fod yn wyliadwrus yn dechre', nes cael gwel'd a fydd rhyw obaith i mi am Susi. Heb Susi—dim mentro; Susi—a mi fentraf yn *Jupiter*—byth o'r fan yma."

---

Rhif II.—"'Rydw i'n bump-ar-hugain oed—a dydi'r gŵr boneddig ddim wedi dwad eto! Ddaw o ddim bellach, ne mi fase wedi dwad cyn hyn. Hwyrach fod nhw wedi dalit, o mlaen i, fod y nhad yn dlawd. O'r brenin anwyl! y fath syc! Sobor! P'am na fase fo'n deyd yn gynt, yn lle cadw mam a fine yn t'w'llwch? A gadael i ni gario 'mlaen ar hyd y blynyddoedd! Ond y mae nhad bob amser mor glòs. Be ddeidiff pobol? a be nawn nine? Wel, fe gewch *chi* fyn'd i gadw 'rwan—wisga i monoch *chi* eto, gan mai tlawd yden ni. '*Humbug*,' fel y bydde Wil, druan, yn deyd, ydi *ymddangos* heb ddim byd ond ymddangos. A 'dydw i ddim am neud hyny, waeth gen' i be ddeidiff 'y mam. Os tlawd yden ni—tlawd y dyle ni ymddangos. Mi wisga ffroc gotyn—neiff pobol ddim ffeindio cymin o fai pan ddaw'n tlodi ni i'r golwg. Mae gen' i flys luchio'r *watch* aur yma allan drwy'r ffenest. Dim chwaneg o honoch *chi*, *bracelets* a *gold brooch!* 'Dydach chi

ddim yn gweddu i bobol dlawd. Ac eto, 'rydach chi yn bur bropor! a dyma i chi gusan o ffarwel! Gorweddwch yn eich *wadding* nes y bydd raid eich gwerthu i gael bwyd! Y pethe bach tlws! un gusan eto, a dyna y cauad dros—eich—gwyneb! Oh!—yr ydw i—fel 'roedd y nhad yn deyd, wedi rhoi *airs* i mi fy hun. Ond dim chwaneg. Yr ydw i am fod yn eneth gall—heb ddim *humbug*, chwedl Wil. Ond faswn i ddim wedi cario mlaen bydase nhad wedi deyd yn gynt mai tlawd oedden ni. Sut y drycha i, tybed, mewn ffroc gotyn? Mae 'ma un i fod yn rhywle. Mae hi dipyn allan o'r ffasiwn erbyn hyn, ddyliwn, ond mi fedraf ei haltro. Lle mae hi? Weles i moni er's gwn i pryd. Mi treiaf hi i weled tebyg i be fydda'i'n edrach. *Sealskin?* Wel, rhaid dy droi dithau yn brês rhw ddiwrnod, ddyliwn. Lle mae'r hen ffroc yma? Ddylies i 'rioed fod gen' i gymin o ddillad! Mi fydda'r cwsmer gore a gafodd Mr. Lefiticus, y *pawnbroker*, er's blynyddoedd! Yn eno'r anwyl, ddaru mi rhoi hi i rwfun? Na, dyma hi! Wel, yr hen ffroc, *should old acquaintance be forgot?* Mae nhad yn leicio 'nghlywed i yn canu honyna—ond dim chwaneg o ganu i mi! Wyt ti'n 'y 'nghofio i, yr hen ffroc? 'Rwyt ti'n edrach yn go rinclyd, ond yforu mi dy rown di ar gefn cader o flaen tân, i dynu y rhincyls o honot. Be ddyliet, yr hen ffroc, o gael myn'd i'r capel unweth eto? 'Rwyt ti wedi dy amddifadu o foddion gras er's talwm, on'd wyt ti? Rheswm anwyl! p'run ai fi sy'n dewach ai ti sy' wedi rhedeg i fewn? Wel, erbyn i mi fyw ar frywes, ac i tithe gael dy ollwng allan, mi ddown at ein gilydd eto. Rheswm! mae 'ma le i mi fyw yn dy lewys di, a mae dy wasg di tua milldir rhy hir? Ond sut na fotymet ti? On'd oes golwg sobr arna' i! Ond na hidia, Susi, os ydi'r *glass* yna'n deyd y gwir, 'dwyt ti ddim yn *perfect fright* eto! Ond dyna, yr hen ffroc, lle'r wyt ti'n y nghuro i —pan ä i yn hen, fydd o ddim dyben fy rhoi i ar gefn cader o flaen tân i dynu'r rhincyls o 'ngwyneb i! Yr *idea!* Ië, y nhad yn sôn am i mi gymeryd *miner* cyffredin. Na na byth! na na'n dragywydd! bydawn dloted a Job. Be oedd y *baboon* gan Enoc yn feddwl wrth ddeyd mai angel oeddwn i? Oedd o'n meddwl rhywbeth? Ond dda gen i mo'r sant—mae o'n rhy dduwiol—yn rhy lonydd. Bydase fo'n haner dyn, mi fase'n trio cael cusan gen' i wrth y *gate;* ond bydase fo'n gneud hyny, mi faswn yn rhoi *slap* iddo yn 'i wyneb. On' rois i dôs

iawn i'r hen *Rechabite!* Mi fu agos iddo dagu! Y *baboon!* A fine'n deyd—'peidiwch a chrïo, Mr. Huws, bach.' Hwyrach mod i'n ddrwg; ond mi fyddaf yn leicio deyd rhwbeth i flino hen lanciau—rhwbeth—bydawn i'n medrud a dyne waed o'u calon nhw. Ond mae Enoc yn well na '*miner* cyffredin.' *Poverty has no choice,* bydae hi'n dwad i hyny. Mae gyno fo brês, lot, mae nhw'n deyd. Dyna un *good point.* Ond mae o mor hen ffash! A mae hi wedi dwad i hyn, Susi? Wel! wel! Fy *idea* i wastad oedd—os na phriodwn i er mwyn arian—oedd bod dros y mhen a nghlustie mewn cariad efo rhwfun, a thaflu fy hun drwy'r ffenest i'w freichiau dri o'r gloch y bore, a rhedeg i ffwrdd i briodi efo *special licence!* 'Does gen i ddim 'mynedd efo rhai sy'n priodi'n sad yn y capel —mae'n gas gen' i gwel'd nhw. Ac eto, hwyrach mai felly y bydd hi hefo fine. Efo '*miner* cyffredin?' Byth bythoedd! bydae raid i mi foddi fy hun! Be' oedd y nhad isio, tybed, efo Enoc? 'I sycio fo i fewn, ddyliwn, 'run fath a Hugh Bryan, druan! a Mr. Denman. Ond mae'n rhaid gwneud rhywbeth rhag llwgu. 'Dydw i ddim yn cofio'r munyd yma a ddeudes i mhader? Pa ods—y pader gore i mi heno ydi *good cry* yn 'y ngwely!"

---

Rhif III.—"Ydach chi'n effro, Sarah? neu, mewn geiriau eraill, ddaru chi gysgu?"

"Yh?"

"Sarah, deffrowch, deffrowch. Mae gen' i eisiau cael siarad â chwi."

"Be ydi 'r gloch, Richard?"

"Wel, mae hi tua haner nos, neu, efallai, dipyn gwell. Fel mae'r amser yn myn'd! Ydach chi'n effro, Sarah? Mae gen' i—ydach chi'n effro? Ho. Wel. Mae gen' i ofn 'y mod i wedi'ch synu a'ch brifo heno, Sarah. Ond y mae gen' i gymaint wedi bod ar 'y meddwl yn ddiweddar—mae y *pressure* wedi bod mor fawr, mewn ffordd o siarad, nes oddwn i yn ofni i'r *boiler* fyrstio, ac yr oedd yn rhaid agor y falf yn rhywle, a pha le y gallwn i wneud hyny ond yn fy nheulu? Wrth bwy y gallwn ddeyd fy helynt ond wrthoch chwi a Susi? Ond erbyn i mi ail ystyried pethau—peidiwch a chrïo, Sarah, peidiwch, 'rwyf yn crefu arnoch—erbyn i mi ail ystyried pethau, fel y dywedais,

hwyrach fy mod—yn wir, yr wyf yn sicr fy mod—wedi gorliwio ein sefyllfa, a'i gosod allan, dan gynhyrfiad y foment, yn waeth nag ydyw. Fase raid i chwi ddim, Sarah, redeg i'ch gwely mewn digalondid. Na, gyda bendith y Brenin Mawr ni a gawn damaid eto. Yn wir, efallai y bydd hi'n well arnom nag y bu hi erioed. Hyd yn nod bydae pethau yn dyfod i'r gwaethaf, mae gen' i olwg ar rywbeth, ac y mae gen' i eisiau i chwi, Sarah, roi Susi dan ei warnin i beidio sôn gair wrth neb am ddim a ddywedais i heno mewn tipyn o fyrbwylldra. Wedi i chwi fyn'd i'r gwely fe fu Mr. Huws, Siop y Groes, yma. Gŵr ieuanc rhagorol iawn ydyw Mr. Huws—wedi gwneud yn dda—ac yr wyf yn meddwl, yn wir, yr wyf yn siwr, y bydd ef yn foddlon i ymuno efo ni yn y fentar newydd. Un neu ddau eraill fel Mr. Huws, a ni fyddwn yn *all right*. Mae o'n wan—yn wan iawn—wedi gorweithio ei hun yn ddiamheu.—— Wnewch chwi ddim siarad, Sarah?"

"I be y gna i siarad? 'does gen' i 'ddim synwyr.'"

"Dyna ddigon, dyna ddigon, Sarah, peidiwch a sôn am hynyna eto. Yr oeddwn yn ofni fy mod wedi eich brifo, Sarah, a mae'n ddrwg gen' i am hyny, neu, mewn geiriau eraill, yr wyf yn edifarhau, ac mae'r Gair yn dweyd, 'Na fachluded yr haul ar eich digofaint,' ac fe ddylem, yn wir, yr wyf yn gostyngedig feddwl eich bod chwi a minau, hyd yn hyn, wedi ceisio, hyd yr oedd ynom, gadw at reolau y Gair, ac hyd yn nod yn yr amgylchiad hwn, er mor anhyfryd ydyw, i mi yn neillduol, yr wyf yn meddwl y gellwch gadw at y rheol a grybwyllwyd, yn gymaint a bod yr haul *wedi* machludo cyn i chwi ddigio, ac na chaiff, mi obeithiaf, fachludo *ar* eich digofaint. A ydach chwi wedi maddeu i mi, Sarah, yn ol fel y mae y Gair yn anog?"

"'Dydw i ddim wedi madde i chi, Richard, am y nghadw i yn t'w'llwch sut yr oedden ni'n sefyll yn y byd. A be ddeidiff pobol pan ddon nhw i wybod am ein tlodi ni, a nine wedi cario 'mlaen fel ryden ni?"

"Wel, chwi wyddoch, Sarah, mai dyna ydyw fy natur i—'dallai i ddim wrtho. Mae o ynof erioed er yn blentyn—sef gordynerwch—*gor*-dynerwch. Fedrais i erioed ladd hyd yn nod wibedyn, ac yr ydw i yn cofio'n burion pan—welsoch chwi mo nghap nos i, Sarah? O, dyma, fo!—yr ydwyf yn cofio yn dda, meddaf, pan fyddai nhad yn lladd cyw iâr, neu, yr hyn oedd waeth, yn lladd mochyn, y byddwn yn gorfod myn'd

oddicartref nes i'r creulondeb fyn'd trosodd, ac er nad oedd a fynof fi, yn uniongyrchol, ddim â lladd y mochyn, mi fyddwn yn teimlo rhyw fath o euogrwydd am wythnosau, ac nid heb lawer o gymhell o ochr fy mam y gallwn gymeryd dim o'r *bacon* pan ddeuai yn gymhwys i'w fwyta. Chwi wyddoch eich hun, Sarah, fel y crugais pan laddwyd Job Jones, druan! yn Mhwllygwynt. Fe ddywedid y pryd hwnw fod tipyn o esgeulustra, ond 'dallwn i ddim wrth hyny, er mai dan fy ngofal i yr oedd yr holl waith, a fy mod, yn ngwyneb y gyfraith, yn gyfrifol, mewn ffordd o siarad, am farwolaeth Job, druan! Chwi wyddoch, Sarah, fel y darfu i mi grugo, meddaf, a mi ddeudaf i chwi beth na ddeudais erioed o'r blaen, sef i mi fod fwy nag unwaith ar fin cyflawni hunan-laddiad, neu, mewn geiriau eraill, *comittio suicide*, a hyny yn cael ei gynyrchu gan ordristwch am farwolaeth y llanc. Ac, mewn rhan, mi roddais y bwriad hwnw mewn gweithrediad, oblegid, chwi wyddoch i mi, yn yr amgylchiad hwnw, golli mwy na deugain pwys yn fy mhwysau. I ba le yr aeth y deugain pwys hyny, yr hyn oedd yn rhan wirioneddol o honof fi fy hun? Wel, mewn ffordd o siarad, fe ellir dweyd fy mod wedi *comittio suicide* arno, neu, mewn geiriau eraill, wedi ei offrymu ar allor calon drist neu *or*-dynerwch. Ac, hwyrach, y bydd yn anhawdd genych fy nghredu, Sarah, ond y gwir yw—ni fyddaf byth yn cyfarfod â mam Job heb ddweyd ynof fy hun—'Dyma fam y bachgen ddarfu i mi ei ladd!' Yr ydych cyn hyn, Sarah, wedi bod yn fy ngheryddu am nad ydwyf yn myn'd i'r seiat ond anfynych, gan awgrymu fy mod yn dirywio yn fy nghrefydd; ond, a wyddoch chwi mai y prif reswm am hyny ydyw tynerwch fy nghalon, ac am nad allaf edrych ar fam Job heb deimlo rhyw fath o euogrwydd, er fod y peth yn afresymol i'r eithaf. A ydych yn gweled erbyn hyn, Sarah, paham y darfu i mi gadw oddiwrthych ein gwir sefyllfa? *Gor*-dynerwch ydyw y rheswm am y cwbl. Yn hytrach na'ch gwneud chwi yn anhapus, yr oedd yn well genyf gadw yr holl bryder a'r helynt i mi fy hun —hyd yr oedd yn bosibl. Nid am nad oedd genyf ymddiried ynoch chwi, Sarah, y buasech yn ei gadw i chwi eich hun, ac nid am fy mod yn anghofio y cyfarwyddyd ysbrydoledig y dylem ddwyn beichiau ein gilydd, ond er mwyn arbed eich teimladau a pheidio tori ar eich dedwyddwch. Ond y mae genyf hyn i'w ddweyd—fod genyf gydwybod dawel, a fy mod wedi gwneud fy nyledswydd."

"Sut yr ydach chi wedi gneud eich dyledswydd, Richard, a chithe'n gwybod nad oedd ene ddim llon'd eich het o blwm yn Mhwllygwynt?"

"Y mae dyledswydd a dyledswydd, Sarah. Fy nyledswydd i, fel Capten, oedd gweithio dros y Cwmpeini, a rhoi prawf teg a gonest ar y gwaith a oedd yno blwm ai peidio. *Yrwan* yr wyf yn gallu dweyd nad oes llon'd fy het o blwm yn Mhwllygwynt, ond, o drugaredd, ni wyddwn hyny flynyddau yn ol. Mae busnes, Sarah, yn beth dyeithr i chwi, ac ofer a fyddai i mi geisio ei egluro. Ni a adawn y peth yn y fan yna heno. Ond y mae genyf eisiau sôn gair wrthych am beth arall, er fy mod yn teimlo yn bur gysgadlyd. Chwi wyddoch fod Susi yn dechreu myn'd i oed, ac fe ddylasai yr eneth fod wedi priodi cyn hyn. Ydych chwi ddim yn meddwl, Sarah, y buasai Mr. Enoc Huws yn gwneud purion gŵr iddi?——Sarah?"

"Peidiwch a boddro, da chi!"

"Wel, fe ddylai yr eneth feddwl am rywun erbyn hyn, ac y mae perygl iddi aros yn rhy hir. Os nad ydyw fy ngolwg i yn dechreu pylu, yr wyf yn meddwl na fyddai gan Mr. Huws—hyny ydyw, Sarah, fe ddylech chwi grybwyll y peth wrth yr eneth—lle'r fam ydyw gwneud hyny. Beth meddwch chwi. Sarah?——Sarah?"

"Cysgwch, a pheidiwch a chodlo, da chi."

"Wel, mae'n ddrwg genyf eich blino, ac mae'n bryd i ni feddwl—hwyrach am orph—a chysgu—ŷch—chŷ—ŷch—chŷ."

"Hene, chwyrnwch, 'rwan fel mochyn tew. Ond fe geir taw bellach arnoch chi, tybed. O diar mi! mae rhw gath yn nghwpwrdd pawb, fel y clywes i mam yn deyd. Ond ddylies i 'rioed y base hi'n dwad i hyn. Mi fase'n dda gan 'y nghalon i daswn i 'roed wedi priodi."

---

RHIF IV.—"Wel, Denman! Denman! sut mae gynoch chi wymed i ddwad i'r tŷ 'radeg yma ar y nos?"

"Oeddech chi'n disgwyl i mi ddwad heb yr un gwyneb?"

"Oes gynoch chi ddim c'wilydd, mewn difri', Denman, fod yn colma hyd dai pobol dan berfedd y nos? Fyddwch chwi'n gwel'd rhwfun arall yn gwneud hyny?"

"Lot."

"Lot? pwy ydyn' nhw, ys gwn i? Ydyn' nhw yn rhwfun â rhyw gownt o honyn 'u hunen?"

"Ydyn'."

"Ydyn', ddyliwn, rhwfun 'run fath a chi'ch hun. Ydyn' nhw yn rhwfun yn hidio rhwbeth am 'u gwragedd a'u teulu?"

"Ddaru mi ddim gofyn iddyn' nhw."

"Naddo, ddyliwn, mi wn hyny heb i chi ddeyd i mi. Ydach chi'n meddwl 'y mod i'n myn'd i aros dan berfeddion arnach chi ddwad i'r tŷ?"

"Ddaru mi 'rioed ofyn i chi neud hyny."

"Naddo, a bydae chi'n gofyn, dydw i ddim am neud."

"Purion."

"Symol purion. Oes gynoch chi 'run tŷ'ch hun i fod ynddo'r nos?"

"Eighty-two, High Street."

"Diar mi! mor dda 'rydach chi'n cofio'r *number!* Fyddwch chi ddim yn misio'r tŷ weithie?"

"Fu mi 'roed mor lwcus."

"'Lwcus?' ydach chi'n ddeyd yn 'y ngwymed i, Denman, fod chi wedi blino arna i?

"Blino ar un mor ffeind a chi?"

"Ië, deudwch yn blaen, Denman, achos mi wn mai dyna ydi'ch meddwl chi—deudwch yn blaen nad ydach chi'n hidio dim am dana i. 'Dydw i dda i ddim ond i slafio, fel 'rydw i wiriona. Welsoch chi *fi* rw dro yn myn'd i dai'r cym'dogion i golma?"

"Erioed; fuoch chi 'roed yn nhŷ Mrs. Price dan un-ar-ddeg o'r gloch y nos! Diar mi, naddo!"

"Am unweth—unweth yn y pedwar amser—yr eis i dŷ Mrs. Price i gael paned o dê, ydach chi'n edliw hyny i mi, Denman? Ydach chi am i mi fod a'm mhen wrth y post ar hyd y blynydde?"

"Dim o gwbl; mi faswn yn leicio i chi fyn'd i edrach am Mrs. Jones, y Siop, haner dwsin o weithiau yn y mis, ond fyddwch chi byth yn myn'd."

"Ydach chi'n edliw hyny i mi hefyd, Denman? Mi gymra fy llw na fum i ddim ond dwywaith yn nhŷ Mrs. Jones er's pythefnos. Os ä i i rywle, mi ga hyny ar draws fy nanedd yn sŷth!"

"Draws y'ch danedd?"

F

"Llai o'ch speit chi, Denman, 'roedd gen i gystal danedd a chithe hyd yn ddiweddar. A be ddisgwyliech chi i fam i bump o blant? Ydach chi'n disgwyl i mi fod yn ferch ifanc o hyd? Ond 'does gynoch chi ddim parch i *mi*—mae hyny'n ddigon plaen. A lle 'rydach chi wedi bod heno, Denman? Lle—y—buoch—chi?"

"Efo niod, wrth gwrs, ydech chi ddim yn 'y ngwel'd i wedi meddwi?"

"Na, mi wn na fuoch chi ddim efo'ch dïod, ond fase waeth i chi fod efo'ch dïod na bod efo'r hen Gapten y felldith ene, achos mi wn o'r gore mai yno y buoch chi. Ai nid yno buoch chwi, Denman?"

"I be 'rydach chi'n gofyn, a chithe'n gwbod?"

"Mi gymra fy llw mai yno buoch chi. Deudwch y gwir, Denman, ai nid yno y buoch chi?"

"Twbi shwar, ddaru chi 'roed gymeryd llŵ drwg."

"On wyddwn i gystal a daswn i efo chi mai efo'r hen felldith Gwaith mein ene 'roeddach chi. 'Rydw i wedi deyd a deyd, nes mae nhafod i'n dwll——"

"Be? eich tafod yn dwll?"

"Beiwch chi fel y mynoch chi, yr ydw i wedi deyd digon, os digon ydi llawer, am i chi roi pen ar yr hen fentro felldith ene. Os ydi pobl erill sydd yn 'u sidane yn medrud rifflo'u prês ar fentro 'does dim isio i chi—dyn ar 'i ore—hel pob ceiniog a'u taflu nhw i Bwllygwynt na welwch chi byth wymed y delyn o honyn' nhw. A 'rydach chi wedi'n gneud ni cyn dloted nad oes gynon geiniog i ymgrogi. Be *ydach* chi'n feddwl, Denman? Pryd ydach chi'n meddwl stopio hel pob ceiniog i'r hen Gapten y felldith ene? A dyma chi 'rwan yn dwad i'ch gwely heb fyn'd ar y'ch glinie! Crefyddwr braf yn wir!"

"Hwdiwch, ddynes, os gwnewch chwi addaw cadw y tafod yna yn llonydd am ddau funyd mi äf yn ol i ddeyd 'y mhader?"

"O, 'dydw i, ddyliwn, i gael deyd dim! Rhaid i *mi* fod yn ddistaw a dyodde'r cwbwl, fel bydawn i gareg. Wel, mae hi wedi dwad i rwbeth! ydi; 'dydw *i* neb, nag ydw, neb, er 'y mod i'n fam i bump o blant. Ië'r plant, druen! 'Does neb yn hidio dim am danyn' nhw. Mae'n dda fod gynyn nhw fam, ne be ddeuthe o honyn' nhw? Mae rhw bobol yn gallu bod yn ddigon diofal, fel bydae nhw'n perthyn dim byd iddyn'

nhw! Wel, fe ddaw rhwbeth ar ol hyn, daw, daw, ond mi wn hyn, na fydda *i* ddim yma yn hir. Wrth hir guro ar y gareg mae hi'n siwr o dori, bydae rhwfun yn hidio am hyny! Ond hwyrach y gwela nhw ngholli i, er saled ydw i! Mae Rhwfun yn gwbod y cwbl, a mi geiff pawb gyfiawnder yn y diwedd. Caiff, caiff! Mae rhw rai yn gallu cysgu gynted y gorweddan' nhw fel bydae ddim byd yn 'u blino nhw. Mi fase'n dda gen' *i* fedrud gneud hyny. Ond y Brenin Mawr â ŵyr—ïe, y Fo sy'n gwbod—uff, uff."

---

## PENNOD XV.

### EGLURHAD.

NID oedd Capten Trefor yn perthyn i'r dosbarth hwnw o ddynion na wyddant yn y bore beth a ddigwyddodd y noson gynt. Y mae dynion felly; y rhai, dan ddylanwad y foment, neu rywbeth cryfach na'r foment, a faldorddant ac a raffant yr hyn a fu yn croni am amser yn eu meddyliau, ac erbyn y bore na wyddant tu nesa' i lidiart y mynydd pa beth a ddywedasant na pha beth a ddigwyddodd. Yr unig beth a feddant i sicrwydd ydyw rhyw ymwybyddiaeth gymysglyd, anmhenodol, eu bod wedi dweyd rhywbeth na ddylasent, a bod rhywbeth wedi digwydd na ddylasai ddigwydd. A phan adroddir wrthynt hanes y noson gynt ni fydd ganddynt ddim i'w wneud ond ysgwyd eu penau, cyfaddef eu hanwybodaeth, eu galar, a chydnabod eu bod fel ar fel, ac felly, mewn ystyr, nad oeddynt yn gyfrifol. Na, ni pherthynai Capten Trefor i'r dosbarth yna. Er ei fod, ar adegau, yn caniatau i'w gêg a'i fola ymgyfathrachu gryn lawer â'r gwirodydd, yr oedd ei feddwl, mewn dull o ddweyd, yn llwyrymwrthodwr ac yn cadw *at a respectable distance* oddiwrth Syr John. Nid peth anadnabyddus ydyw fod llwyrymwrthodwr ac aelod eglwysig yn cadw tafarndy—mae yn talu y rhent, yn gwerthu y nwydd, ond nid yw ef ei hun yn cyffwrdd âg ef. Yr oedd rhyw berthynas gyffelyb rhwng corph a meddwl Capten Trefor. Yr oedd ei gorph,

"mewn ffordd o siarad," chwedl yntau, yn gwneud defnydd helaeth o *Scotch Whiskey*, ond yr oedd ei feddwl yn llwyrymwrthodwr, os nad yn areithio ar ddirwest. Gorchwyl anhawdd a fuasai d'od o hyd i'r ochr ddall iddo ef. Ac hyd yn nod yn ei funydau mwyaf llawen, yn nghwmni cymdeithion a dueddent weithiau i yfed mwy nag oedd lesol iddynt, yr oedd meddwl y Capten yn cadw *sentry*, megis, ac yn abl, dranoeth ar ol y gyfeddach, i roddi cyfrif manwl am bobpeth a ddigwyddodd.

Y bore, ar ol y noson a grybwyllwyd, deffrodd y Capten yn lled blygeiniol, a'i ben, nid yn unig yn rhydd oddiwrth gur, ond yn berffaith glir. Yn wir, buasai y Capten yn galw ei ben i gyfrif, ac yn ystyried ei hun yn *highly insulted*, pe buasai yn dyoddef oddiwrth eiliw o gur fel canlyniad i yfed dim ond rhyw ddwsin o lasieidiau o chwisgi. Nid oedd cur yn y pen, yn ol syniad y Capten, ond rhywbeth a flinai y rhai a etifeddent *organic disease*, ac y dylai y cyfryw ymgadw yn hollol oddiwrth y gwirodydd, oblegid clywsai fod y clefyd hwnw—sef cur yn y pen—yn beth ddigon annymunol. Ac yn hyn yr anghytunai y Capten â'r meddygon, y rhai a ddywedent fod *alcohol* yn hollol ddiangenrheidiol i bobl gryfion, ond y gallai wneud peth daioni i'r gweiniaid. Credai y Capten yn hollol wahanol. I bobl gryfion yn unig, meddai ef, y bwriadwyd diod gadarn, ond am y rhai yr oedd cyfranogi o honi yn effeithio ar eu coesau a'u penau—mai eu dyledswydd oedd ymgadw yn mhell oddiwrthi. Fel darpariaeth ar gyfer y dosbarth hwn, ystyriai y Capten y Gymdeithas Ddirwestol yn sefydliad rhagorol iawn, ac edmygai tuhwnt sêl ei hyrwyddwyr. Yn sicr ni buasai ef yn petruso, pe gofynasid iddo, gymeryd y gadair mewn cyfarfod dirwestol, a chredai na buasai ef ar ei ben ei hun mewn sefyllfa felly, a meddyliai y gallai enwi mwy nag un o ddynion cyfrifol oeddynt wedi bod mewn sefyllfa felly ac heb ystyried eu hunain yn euog o unrhyw annghysondeb.

Yr oedd y Capten ar ei draed yn blygeiniol, fel y dywedwyd, ac adolygai yn ei feddwl ddatguddiedigaethau y noson flaenorol gyda llawer o foddhad, oblegid yr oedd efe, er's llawer o amser, yn canfod ei bod yn tywyllu ar ei amgylchiadau, ac wedi bod ar fedr fwy nag unwaith i ragbarotoi meddwl ei wraig a'i ferch gogyfer â hyny. Yr oedd y gorchwyl hwnw bellach drosodd, ac nid oedd efe mwyach yn gwisgo mwgwd yn ei deulu. Yr oedd wedi penderfynu, pa bryd bynag y gwnai efe y datgudd-

iad i'w deulu, gosod allan ei sefyllfa yn y wedd dduaf oedd yn bosibl. Tybiai mai hon oedd y ffordd ddoethaf, yn hytrach na'i dadlenu yn raddol. Wrth bortreadu ei sefyllfa fydol i'w wraig a'i ferch yn y wedd fwyaf anobeithiol, credai y Capten y gallai ail ddechreu ei ddedwyddwch teuluol, ac mai gwella a wnai pethau yn hytrach na gwaethygu. Yr oedd efe hefyd yn argyhoeddedig er's tro fod y rhyddid a'r gefnogaeth ddistaw a roisai efe i'w wraig a'i ferch i "gario 'mlaen" wedi creu ynddynt syniadau uchel a thwyllodrus—syniadau a ymylent ar fod yn aristocrataidd. Canfyddai yn eglur mai efe ei hun oedd wedi eu harwain i goleddu y syniadau hyn, a chredai, erbyn hyn, mai ei ddyledswydd oedd eu didwyllo, a hyny, nid yn raddol, ond ar unwaith—nid trwy dori brigau y pren, ond trwy gymhwyso y fwyell yn syth at ei fôn. Gwyddai o'r goreu yr achosai hyn gryn gynhwrf a thrwst yn Nhy'nyrardd—y byddai yno dipyn o synedigaeth, o grïo ac o foni, ond wed'yn, byddai y cwbl drosodd mewn un noswaith. "Mewn ffordd o siarad," chwedl yntau, yr oedd y Capten wedi torchi ei lewys at y gorchwyl amryw weithiau: ond wrth feddwl am ei effeithiau pallai ei wroldeb. Ond yn awr, yr oedd yr ystorm drosodd, a'i wraig a'i ferch yn gwybod am ei sefyllfa cystal ag yntau. Serch hyny, meddyliai y Capten ei fod, wrth roi y datguddiad, wedi gwneud un camgymeriad; a hwnw oedd y darluniad cywir a roddasai efe o'i fywyd twyllodrus. Nid oedd wedi rhagfwriadu gwneud y fath beth, ac nid oedd yr amcan ganddo mewn golwg yn gwneud hyny yn angenrheidiol. Gwyddai y Capten yn burion yr edrychai Mrs. Trefor arno fel cynllun o ddyn da, anrhydeddus, a phe digwyddasai iddo farw yn sydyn, heb adael tystiolaeth ar ei ol, na buasai hi yn petruso, nid yn unig ei roi yn y Nefoedd, ond yr edrychasai ar y lle gogoneddus a hyfryd hwnw wedi ei freintio âg addurn ychwanegol. Pa ŵr, yn meddu ymwybyddiaeth gyffelyb, nad ymfalchïai yn ei wraig? Ond, erbyn hyn, teimlai y Capten ei fod wedi andwyo y gyfaredd hono, ac nid oedd y fath gamgymeriad, cyfaddefai wrtho ei hun, yn deilwng o Capten Trefor. Ni addefai am eiliad fod a wnelai y chwisgi ddim â'r camgymeriad, er ei fod wedi ei gael o le newydd. "Na," ebe'r Capten wrtho ei hun, "mae'n rhaid mai cael blâs a ddaru mi ar wneud *clean breast.* Y oedd y peth mor anmheuthyn i mi! A pheth garw ydyw dechreu *splitio.* Yr un fath a gwraig

wedi dechreu glanhau y tŷ, a chael blâs—rhaid iddi gael gorphen. Ond mi wnes *mistake.*"

Pan ddaeth y Capten, y bore hwnw, at y bwrdd i gael brecwest, yr oedd ynddo ymwybyddiaeth boenus ei fod yn greadur newydd yn ngolwg Mrs. Trefor; a phe na buasai yn ymwybodol o hyny, yr oedd y ffaith yn rhy amlwg yn ei gwyneb, yr hwn a ordoid gan dristwch anobeithiol, yn lle bod, fel yr arferai, yn tywynu gan serch ac edmygedd. Nid cysurus oedd hyn gan y Capten; ac o herwydd hyny gwisgodd y wên fwyaf dymunol a fuasai ar ei wyneb er's blynyddoedd, fel rhagbarotoad priodol i iawn-ddealltwriaeth rhyngddo ef â Mrs. Trefor. Tra yr oedd Mrs. Trefor yn tywallt y coffi i'r cwpanau mewn distawrwydd prudd, a'i hwyneb fel cwmwl ar fin gwlawio, gorphwysai y Capten ei ddau benelin ar y bwrdd, a'i ddwylaw yn mhleth, yn lefel efo'i drwyn, gan wylio am gyfleusdra i ofyn bendith—yr hyn na wnaethai efe o'r blaen er's tro byd. Ac, ebe fe, gan anerch y forwyn—

"Chwi ellwch chwi, Kitty, fyn'd yrwan, mi wnawn y tro yn burion." Yna, wedi ychydig ddistawrwydd, gan droi gwyneb hawddgar at Mrs. Trefor, ychwanegodd—"Sarah, mi wn ar eich gwedd eich bod wedi cymeryd yr hyn a ddywedais neithiwr yn ormodol at eich calon. Ni a ddylem gofio fod y teuluoedd goreu a'r Cristionogion mwyaf gloew, weithiau, yn cyfarfod â phethau chwerwon yn eu hamgylchiadau. Yn wir, y mae genym enghreifftiau o hyny yn yr Ysgrythyr Lân—yn enwedig yn yr Hen Destament—a hyny mewn cyfnod pryd y golygid fod Rhagluniaeth yn ffafrio duwiolion—megys Jacob, Job, a Dafydd. Ac yr wyf wedi bod yn meddwl, Sarah, y gall fod rhywbeth ynom ni yn galw am yr oruchwyliaeth hon, ac y bydd, yn y diwedd, er ein lles ysbrydol. 'Dydw i fy hun, mi wn, ddim wedi bod haner digon diolchgar am y daioni a'r llwyddiant y gwelodd Rhagluniaeth yn dda ei gyfranu i mi am gynifer o flynyddoedd, ac yr wyf yn tueddu i feddwl mai cerydd oddiwrth yr Arglwydd ydyw hyn i'm dwyn i roi mwy o bris ar bethau ysbrydol nac ar bethau daearol. Beth meddwch chwi, Sarah?"

Torodd Mrs. Trefor allan i grïo, ac yn y cyfamser helpiodd y Capten ei hun gydag ychydig ychwaneg o *bacon.* Wedi gwneud hyn, ebe fe—

"Sarah, Sarah, peidiwch, peidiwch ag ymollwng yn eich

ysbryd. Mi wn fod y peth yn gryn *shock* i chwi, ac, erbyn hyn, mae'n ddrwg genyf i mi eich acwaintio mor sydyn am ein hamgylchiadau, yn lle gadael i chwi eu gwybod yn raddol, fel yr oeddwn i fy hun yn dyfod i'w gwybod; ond buasech felly wedi eich gwneud yn druenus er's llawer o amser, a'r trueni hwnw heb fod yn gwella dim ar yr amgylchiadau, ond yn hytrach yn eu gwaethygu. 'Dydw i yn beio dim arnoch, Sarah, am grïo —mi fyddwch yn well ac ysgafnach. Nid ydyw natur, ysywaeth, wedi fy nghynysgaeddu i â'r *outlet* hwnw i fy nheimladau—yr wyf yn gorfod cadw fy ngofid i gyd oddimewn, yr hwn sydd yn fy mwyta yn raddol, ond yn sicr. Pa fodd bynag, Sarah, rhaid i chwi wneud ymdrech i ymgynal, a rhoi eich hyder ar Dduw, a minau gyda chwi."

"'Rydach chi wedi 'nhwyllo i Richard," ebe Mrs. Trefor, gan sychu ei llygaid.

"Sut felly, Sarah? Yr wyf wedi eich arbed, mi wnaf addef, ond y mae twyllo yn air cryf," ebe'r Capten.

"Fel hyn," ebe Mrs. Trefor, gan wneud ymdrech i feddianu ei hun—"yr ydach chi wedi peri i Susi a fine i gredu eich bod yn dda arnoch—'rydach chi wedi gadel i ni gael pobpeth oeddan ni'n ddymuno—'rydach chi wedi'n dysgu ni—nid mewn geiriau, mi wn, ond yn y'ch ymddygiad—i edrach i lawr gyda thosturi ar dlodion, ac hyd yn nod ar bobol well na ni'n hunen, a gneud i ni feddwl yn bod ni yn rhwbeth mwy na chyffredin —'rydach chi wedi'n *encouragio* ni i gymdeithasu â phobol uchel 'u sefyllfa, ac i gadw oddiwrth bobol erill, a dyma chi, yn y diwedd, heb i ni feddwl dim byd, yn deyd y'n bod ni'n dlawd, a bod y cwbwl drosodd. 'Rydach chi wedi bod yn greulon efo ni, Richard."

"Yr oeddwn yn meddwl, Sarah," ebe'r Capten, "fy mod, neithiwr, wedi rhoddi i chwi reswm digonol am fy ymddygiad —a hwnw oedd tynerwch fy nghalon, a'r awydd oedd ynof i beidio anmharu dim ar eich dedwyddwch. Ac eto dyma chwi yn galw hyny yn greulondeb! Mae hyn yn wendid ynof, mi wn, sef gorawydd am wneud eraill yn hapus, serch i hyny gostio yn ddrud i mi fy hun. Mae o ynof erioed. Ond y mae hyn o gysur genyf, sef nad ydwyf ar fy mhen fy hun yn hyn o beth. Oni chlywais i chwi eich hun, Sarah, yn dweyd, a hyny yn eithaf priodol, mor ddoeth a da ydyw y Brenin Mawr yn ei waith yn cadw oddiwrthym ragwybodaeth am ddyddiau tywyll,

ac amgylchiadau annghysurus? Mae 'n rhyfedd, Sarah, fod yr hyn a ystyriwch yn ddoethineb yn y Llywodraethwr Mawr, yn greulondeb yn ei greadur gwael. Mae y pethau sydd o'n blaen, megis dydd ein marwolaeth, yn anhysbys i ni. Ai trugaredd ai creulondeb fu yn trefnu hyny?"

"Mi wyddoch o'r gore, Richard, nad ydi'r Brenin Mawr yn twyllo neb, ac os ydi O'n ein cadw yn t'w'llwch am bethe sydd i ddwad, mae O wedi ein rhybuddio i fod yn barod ar 'u cyfer. 'Ddaru *chi* ddim gneud hyny."

"Naddo, Sarah, naddo; am y rheswm da nad ydwyf fi, mwy na rhyw greadur meidrol arall, yn gwybod dim am y dyfodol. Pe buaswn yn sicr, dyweder flwyddyn yn ol, mai fel hyn y diweddai pethau, a ydych yn meddwl, Sarah, na fuaswn yn eich rhybuddio? Mae yn wir fy mod yn ofni iddi ddyfod i hyn er's talwm; ond yn ystod fy nghysylltiad â Phwllygwynt, pa sawl gwaith y bum yn ofni i bethau dd'od i'r pen, ac, wedi'r cwbl, fy holl ofnau yn troi allan yn ddisail a diachos? Pe buaswn, ar hyd y blynyddau, wedi hysbysu fy ofnau i chwi, Sarah, buasech—gan mor wahanol i fy ofnau yr oedd pethau yn troi allan—wedi myn'd i gredu mai *nervous character* oeddwn, ac ni fuasech yn credu fod y peth sydd, erbyn hyn, yn ffaith, sef ein bod yn dlawd, a bod Pwllygwynt ar ddarfod am dano."

"Wyddoch chi, Richard," ebe Mrs. Trefor, "nid y meddwl y'n bod ni'n dlawd sy'n mlino fwya', er y bydd hyny yn *change* mawr i ni ar ol yr holl gario 'mlaen; na, mae'n gwell ni wedi dwad i dlodi cyn hyn. Trefn Rhagluniaeth ydi peth felly. Yr hyn sy'n tori 'nghalon i ydi'r peth ddaru chi ddeyd am danoch y'ch hun. Mi wyddwn y'ch bod chi'n cymyd diod—ond rhaid i mi ddeyd na weles i 'rioed arwydd diod arnoch chi—mi wyddwn y'ch bod chi'n dwad i gysylltiad â phob math o ddynion; ond 'roeddwn i bob amser yn credu y'ch bod chi yn ddyn gonest, geirwir, a duwiol, a dene oedd cysur pena' mywyd i. Ond ar ol y pethe ddaru chi ddeyd neithiwr, fedra' i ddim meddwl felly am danoch 'rwan."

"Rhaid i mi gydnabod, Sarah," ebe'r Capten, "mai chwi, o bawb, ag eithrio'r Hollwybodol, sydd yn fy adnabod i oreu, a phe na bawn yn adnabod fy hun, mi wn at bwy yr awn i gael syniad cywir pa fath un ydwyf. Yr ydych, am haner oes, wedi cael y cyfleusdra goreu i fy adnabod, allan ac allan, fel y

dywedir, ac o dan bob amgylchiadau. Ac mae'n rhyfedd meddwl, Sarah, fod y syniad oedd genych am danaf—syniad a gymerodd haner oes, fel y dywedais, i'w ffurfio a'i gadarnhau, wedi ei ddymchwelyd mewn un awr—yn wir, mewn haner awr, os nad llai na hyny. Yr wyf yn dueddol, mi wn—mae o ynof erioed er yn blentyn—i ddibrisio fy hun, ac i osod allan fy meiau—neu, os mynwch, fy mhechodau—mewn gwedd, a dweyd y lleiaf, dipyn yn eithafol. Mewn geiriau eraill, y mae mwy o'r *publican* ynof nag o'r Pharisead. Ac eto, Sarah, yr wyf yn credu y gwnewch *admitio*, a hyny yn rhwydd, nad ydyw cyfaddefiad o feiau yn beth dyeithr i dduwiolion. Yn wir, yr wyf yn meddwl y gellir dweyd—a chadw fy hun allan o'r cwestiwn yn y wedd yma—y gellir dweyd fod cyfaddefiad bai yn arwydd ac yn nôd o dduwioldeb. Heb i mi nodi mwy nag un—mi gymeraf dipyn ychwaneg o fara, Sarah—*thank you*—heb i mi nodi mwy nag un engraifft Ysgrythyrol—er fod amryw yn dyfod i fy meddwl—pe meddyliem am Dafydd, pêr-ganiedydd Israel. Pa syniad a ffurfiai ambell ddyn annuwiol—neu, fel y dywedir weithiau—ddyn heb feddu y ddirnadaeth ysbrydol—am ŵr fel Dafydd pan y darllenir rhai—*rhai*, meddaf, o'i Salmau? Fe gredai mai y dyhiryn gwaethaf yn y byd ydoedd, pryd, mewn gwirionedd, mai gŵr wrth fodd calon Duw ydoedd Dafydd. Fel y dywedais neithiwr, Sarah, wrth edrych yn ol ar fy mywyd, tra, ar y cyfan, yn ceisio cadw cyd-wybod ddirwystr, mae'n rhaid i mi gyfaddef nad ydwyf wedi bod yn berffaith. Ac eto, wrth ystyried nifer crochanau y byd drwg presenol, yr wyf, o angenrheidrwydd—nid o ddewisiad—wedi troi yn eu mysg, mae yn syndod can lleied o'u parddu sydd wedi glynu ynof. Wyddoch *chwi*, Sarah, y nesaf peth i ddim am demtasiynau y byd, y cnawd, a'r diafol. Yr ydych chwi yma megis mewn *private life* yn gallu myfyrio ar y pethau, ac heb lychwino dim ar eich ysbryd, tra yr wyf fi yn gorfod troi yn mhlith pob math o ddynion, ac, fel yr Apostol, yn gorfod gwneud fy hun yn bobpeth i bawb, nes y byddaf, weithiau, yn teimlo, fel yr oeddwn neithiwr, wrth gymharu fy mywyd â'ch bywyd chwi, yn edrych arnaf fy hun fel rhag-rithiwr twyllodrus, er nad wyf yn un felly. Ond pwy ŵyr na chedwir finau! Wnaed mohonom i gyd i fyw bywyd *private*, a mi fyddaf yn meddwl fod yn yr Efengyl ddarpariaeth ar gyfer pob dosbarth o honom, a bod ei Hawdwr yn cymeryd i ystyriaeth ein gwahanol amgylchiadau."

"Mae'n dda gan 'y nghalon i 'ch clywed chi'n siarad fel ene, Richard," ebe Mrs. Trefor, wedi iachau gryn lawer. "'Doeddwn i prin yn credu mai chi oeddach chi neithiwr. Mi ddaru chi nychrynu i yn arw, Richard, a mi feddylies yn siwr mai dyn digrefydd oeddech chi, a bod chi wedi 'nhwyllo i ar hyd y blynydde."

## PENNOD XVI.

### GWR A GWRAIG.

TEIMLAI y Capten yn llawen iawn ei fod unwaith eto wedi enill ymddiried trylwyr ei wraig, ac ebe efe—

"Nid oeddwn heb ofni, Sarah, eich bod wedi ffurfio syniad anghywir am danaf—a hyny mewn tipyn o frys. Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro. Ond er fod dyn yn aml, fel y mae genym amryw o engreifftiau, yn *cael* crefydd mewn noswaith, nid oes genym, hyd yr wyf yn cofio, sôn am neb yn ei *cholli* mewn noswaith. Mae *pressure* amgylchiadau, weithiau, yn peri i ddyn siarad am dano ei hun mewn gwedd na fynai ei harddel yn ei funydau mwyaf tawel. Yn wir, y mae genym engreifftiau o ddynion goreu'r byd—dan bwys gofalon mawr, gofidiau, a themtasiynau y byd drwg presenol—yn siarad am danynt eu hunain fel dyhirod, er na fynai neb o'u cydnabod eu hystyried felly. Mi wn fy hun, Sarah, am fwy nag un dyn da, wrth roi ffordd yn ormodol i beth fel hyn, a gyflawnodd hunanladdiad mewn hunanffieiddiad. Perygl pob dyn meddylgar, fel fy hunan, ac ymwybodol o'i ddiffygion ydyw, fel y dywed y Sais, bod yn *morbid*. Ond dyna oeddwn yn myn'd i'w ddweyd, Sarah, mi wn fy mod neithiwr wedi siarad am danaf fy hun dipyn yn eithafol, er nad yn anysgrythyrol, oblegid y mae y galon yn fwy ei thwyll na dim—yn ddrwg diobaith. Ond yr wyf yn hyderu, Sarah, ein bod, erbyn hyn, yn deall ein gilydd; ac er eich bod chwi, am foment, megis, wedi fy ngholli yn y fintai, yr wyf yn hyderu, meddaf, eich bod yn argyhoeddedig, erbyn hyn, mai yr un ffordd yr ydym

ein dau yn ei cherdded. Ond, fel y mae yn digwydd yn rhy fynych, yn y fuchedd hon, rhai l i ni adael y pethau gwir bwysig—hyny ydyw pethau yr ysbryd, a dyfod i lawr i ystyried ein hamgylchiadau bydol. Mae gorthrwm y presenol, fel y dywed y Sais, yn beth digon anhyfryd, ond nid allwn ymysgwyd oddiwrtho. Y ffaith ydyw, Sarah, fel y dywedais neithiwr, fe fydd diwedd buan ar Bwllygwynt; ac felly, o angenrheidrwydd, ar fy incwm inau. Mi ddywedais wrth Kitty am beidio galw ar Susi i godi er mwyn i mi gael hamdden i siarad gair â chwi, Sarah. Nid ydyw pobl ifainc dibrofiad bob amser yn gall, ac er nad oes fawr berygl iddi wneud, yr wyf eisieu i chwi, Sarah, roi Susi ar ei siars i beidio sôn gair am ddim a ddywedais neithiwr, a'i chyfarwyddo, yn eich ffordd eich hun, yn yr eglurhad yr wyf wedi ei roi i chwi, Sarah, hyny ydyw, am yr amgylchiadau a fu ymddygiad inau neithiwr. Yr adeg yma ddoe yr oedd y dyfodol yn ymddangos i mi yn dywyllwch perffaith; ond erbyn boreu heddyw yr wyf yn credu, Sarah, fy mod yn gweled cwmwl megis cledr llaw gŵr, er nad ydyw y gymhariaeth, hwyrach, yn briodol, ond yr ydych yn deall fy meddwl, Sarah. Mae y posibilrwydd i mi allu cadw cartref cysurus yn dibynu yn hollol ar a allaf fi ddechreu gwaith *mine* newydd, ac mae'r posibilrwydd hwnw yn dibynu i raddau mawr ar Mr. Enoc Huws, Siop y Groes. Os ymuna Mr. Huws â ni, ac yr wyf yn mawr gredu y gwna, mae genyf obaith am fywoliaeth gysurus eto; ond os gwrthoda Mr. Huws, nid oes genyf, ar hyn o bryd, neb arall mewn golwg. Mae genyf bob lle i gredu fod gan Mr. Huws lawer o arian, ac y mae cael un o'i fath ef i gychwyn gwaith yn well na chael cant o dlodion. Mewn gair, mae fy ngobaith am gael dyfod allan o fy nyryswch presenol yn dibynu yn hollol ar Mr. Huws. Os try ef ei gefn arnaf, Rhagluniaeth fawr y Nef a ŵyr beth ddaw o honom. Yn awr, Sarah, mi ddaru mi grybwyll wrthoch neithiwr, mewn byr eiriau, am beth arall. Mae'r cwestiwn yn *delicate*, mi wn, ond, fel y gwyddoch, mae Susi yn dechreu myn'd i oed, a fe ddylasai yr eneth fod wedi priodi cyn hyn, a gwneud cartref iddi hi ei hun, oblegid 'does neb ŵyr beth all ddigwydd i mi, yn enwedig gan nad ydyw fy rhagolygon—er nad ydynt yn ddiobaith—mor ddisglaer ag y buont. Wel, yr wyf yn meddwl, Sarah, fy mod yn adnabod dynion yn weddol—hyny ydyw 'does dim eisiau i neb eu sillebu

i mi—mi fedraf eu darllen. Os nad wyf yn camgymeryd—ac yr wyf yn meddwl y cewch fy mod yn iawn, amser a ddengys,—yr wyf yn credu fod gan Mr. Huws feddwl am Susi. Hwyrach nad ydyw Mr. Huws ddim y peth y darfu i ni un tro feddwl i Susi ei gael—hwyrach nad ydyw y peth y buasai hi ei hun—heb ei chyfarwyddo—yn gosod ei bryd arno. Ond y mae'r amgylchiadau wedi newid, ac hyd yn oed pe na buasent wedi newid, yr wyf, o'm rhan fy hun, yn methu gwel'd pa'm na wneuthai Mr. Huws burion gŵr i'r eneth. Beth ydych yn ddweyd am hyn, Sarah? Yr ydych yn dallt fy meddwl?"

"Ydw, Richard," ebe Mrs. Trefor, "yr ydw i'n dallt y'ch meddwl chi'n burion; ond ddymunwn i ddim *fforsio*'r eneth i gym'yd neb. A pheth arall, hwyrach, pan ddoiff Mr. Huws i ddallt y'n bod ni'n dlawd na feddyliff o ddim chwaneg am Susi.

"Yr ydych yn dallt calon *merch*, Sarah," ebe'r Capten—"'does neb, hyd y gwn i, yn ei dallt yn well, ond 'dydach chi ddim yn dallt calon *dyn*. Yr ydych yn cofio yn burion, Sarah, pan ymserchais i ynoch chwi, i minau fod dan yr argraph eich bod yn meddu tipyn o arian—yn wir, eich bod yn gyfoethog; ond—maddeuwch y crybwylliad—'ddaru mi ddim sôn am y peth o'r blaen, hyd yr wyf yn cofio, ond unwaith, a hyny yn gynil—chwi wyddoch, meddaf, faint o eiddo a gefais i hefo chwi, ond a ddarfu i hyny leihau un *iota*, fel y dywedir, ar fy serch i atoch? Dim, Sarah, dim. Yn wir, erbyn hyn, mae yn dda genyf gofio na chefais i ddim gyda chwi, ond yr hyn oedd ynoch chwi eich hun—ac yr oedd hyny yn ddigon. Cofiwch, Sârah, fy mod yn crybwyll hyn gyda'r unig amcan o ddangos i chwi pan fydd gŵr ieuanc wedi gosod ei fryd ar ferch ieuanc, na wnaiff dyfod i wybod nad ydyw gwrthrych ei serch yn meddu ar gyfoeth, beri iddo newid ei fwriadau tuag ati, na lleihau dim ar ei serch, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. O leiaf, dyna ydyw fy mhrofiad i, ac yr wyf finau wedi fy ngwneud o'r un defnydd a'r hil ddynol yn gyffredin. Heblaw hyny, yr wyf yn methu gwel'd paham y rhaid i Mr. Huws, na neb arall, gael gwybod ein bod yn dlawd, ar hyn o bryd, fodd bynag."

"Mae gen' i ofn, Richard," ebe Mrs. Trefor, "na fydd gan Susi feddwl yn y byd o Mr. Huws. 'Does gen' i fy hun ddim yn y byd i'w ddweyd am y dyn—mae o'n riol, am wn i—ond mi fydd yn od gen' i os leiciff Susi o."

"Dyledswydd rhieni, Sarah, fel y gwyddoch," ebe'r Capten, "ydyw cyfarwyddo eu plant, a dyledswydd plant ydyw ufuddhau, heb ofyn cwestiynau. A sôn am 'leicio'—a leiciff hi, tybed, fyn'd i wasanaeth? A leiciff hi olchi'r lloriau efe pob math o Mary Ann a Mary Jane, ac ymgymysgu hefo pob *sort* o strwt? Mae'n rhaid i chwi, Sarah, egluro iddi, mewn iaith nad all ei chamgymeryd, nad oes dim ond *menial work* o'i blaen, os na bydd hi yn gall a synwyrol yn yr amgylchiad hwn. Pa fodd bynag, mae yn rhaid i mi ofyn hyn genych chwi a chan Susi, sef rhoddi pob parch a chroeso a sylw dyladwy i Mr. Huws pan ddaw o yma. Mae ein bywoliaeth, fel teulu, yn dibynu ar ei ïe neu ei nage ef. Ydach chwi'n dallt fy meddwl, Sarah? Ond dyma Susi yn d'od i lawr y grisiau, a dyma finau yn myn'd i'r Gwaith. Cofiwch, Sarah, fy mod yn disgwyl y byddwch wedi gwneud pethau'n *straight* cyn i mi dd'od yn ol."

"Mi 'na ngore, Richard," ebe Mrs. Trefor.

"*Very good*," ebe'r Capten, ac ymaith âg ef cyn i Susi gyrhaedd gwaelod y grisiau.

---

## PENNOD XVII.

### Y FAM A'R FERCH.

WEDI treulio blynyddoedd mewn llwyddiant a llawnder—wedi haner oes o fwynhau cysuron bywyd yn ddibrin ac yn ddibryder, peth digon annymunol ydyw fod yr amgylchiadau yn dechreu cyfyngu—y cysuron yn graddol leihau, ac hyd yn nod dlodi—er nad yn ymyl—eto yn ein haros acw yn y fan draw. Ond mwy gofidus, gallwn feddwl, ydyw tybied ein bod mewn clydwch a digonedd, fod i ni etifeddiaeth dêg, ac y byddwn farw yn ein nyth, ac ar unwaith ddyfod i ddeall ein bod yn dlawd a llwm. Y mae fel crwydryn a fai yn breuddwydio ei fod mewn gwledd ddanteithiol, ac yn mwynhau rhialtwch ac ysbleddach, ac yn deffro yn sydyn i gael ei hun ar ei gythlwng ac yn annyddos.

Druan oedd Susan Trefor! Gyda'r eithriad o'r tipyn helynt a fu rhyngddi hi a'i thad yn nghylch Wil Bryan, ni wyddai hi, hyd yn hyn, ddim am brofedigaeth a chroeswynt gwerth sôn am dano. Yr oedd wedi byw gan mwyaf ar "*ideas*" a gogoniant dyfodol, heb arni na phryder na phoen. Pa beth bynag oedd ddiffygiol yn ei chymeriad, yr oedd ei rhiaint mor gyfrifol am dano, os nad yn fwy felly, na hi ei hun. Nid oedd hi, yn naturiol, yn amddifad o dalent, a phe cawsai well magwraeth, diau y buasai hi yn eneth bur wahanol i'r hyn ydoedd yr adeg yr ydwyf yn sôn am dani. Yr wyf yn meddwl fy mod wedi dweyd o'r blaen yr ystyrid Susan Trefor yn ferch ieuanc hynod o brydferth. Trwy eu trwynau cydnabyddid hi felly gan y rhai nad oeddynt yn ei hoffi. Yr hyn a anmharai fwyaf ar ei phrydferthwch oedd y ffaith amlwg ei bod hi ei hun yn rhy ymwybodol o hono. Ni byddai Susan byth yn esgeuluso gwneud defnydd o bobpeth i ymharddu. Fel y rhôs, yr oedd Susan can dwtied a dymunol yr olwg yn y bore cyntaf ag yn yr hwyr, a chan nad pa mor gynar yr elid i Dy'nyrardd ni ellid dal Susan yn ei *dishabille*. Yr oedd bob amser yn barod i gael tynu ei llun, ac yr wyf yn mawr gredu, pe na buasai llygaid i edrych arni, mai ychydig fuasai y gwahaniaeth yn ei hymddangosiad, oblegid gwisgai, debygid, yn fwy i foddhau ei hun nag i foddhau neb arall.

Ond y boreu y cyfeiriwyd ato yr oedd cyfnewidiad yn ymddangosiad Susan Trefor—cyfnewidiad mor amlwg nes tynu sylw ei mam y foment yr edrychodd arni. Ymwisgasai yn nodedig o blaen, a'r "hen ffroc gotyn" yn hongian ar ei braich. Amlwg ydoedd fod hyny o gysgu a gawsai wedi ei wasgu i'r ychydig oriau cyn codi, yr hyn a barai i'w llygaid ymddangos yn chwyddedig a chlwyfus. Can gynted ag y daeth Susi i'r ystafell, cymerodd yr ymgom ganlynol le rhyngddi hi a'i mam:—

"Be ydi nene sy gynat ti dywed? Wyt ti'n myn'd i'w rhoi hi i rwfun?"

"Nag ydw, mam; 'rwyf am ei haltro i mi fy hun."

"Hon ene! Be sy arnat ti, dywed, wyt ti'n gwirioni?"

"Hwyrach y mod i, wir, mam. Mi wn y mod i wedi bod yn ddigon gwirion am lawer o flynyddoedd, ond dydi hi ddim yn rhy hwyr i mi dreio gwella."

"Am bewt ti'n sôn? Dydw i ddim yn dy ddallt di."

"Daim yn y nallt i? ar ol y peth ddeudodd y nhad neithiwr? 'Rydw i, erbyn hyn, yn dallt fy hun yn burion—mai *humbug* ydw i wedi bod ar hyd y blynyddoedd, yn rhoi *airs* i mi fy hun, fel y deudodd y nhad. Ond dydw i ddim am fod yn *humbug* ddim chwaneg. Os geneth dlawd ydw i, fel geneth dlawd 'rydw i am wisgo."

"Paid a moidro, ngeneth bach i. 'Doedd dy dad ddim yn meddwl haner y pethe oedd o'n ddeud neithiwr. 'Roedd o wedi cynhyrfu, wyddost, achos ma gyno fo gimin o bethe ar i feddwl."

"Bydase fo wedi deud tipyn o'i feddwl i ni yn gynt, mi fase ganddo lai ar ei feddwl. Dydw i ddim yn ystyried fod nhad wedi bod yn onest efo ni—os bu o'n onest efo rhwfun."

"Susi! rhaid i mi ofyn i ti beidio siarad fel ene am dy dad —wyddost di ddim byd am fusnes nac am y profedigaethe y mae dy dad wedi bod ynddynt. Yn wir, erbyn i mi gysidro pethe, mae'n syn gen i sut mae wedi gallu cadw 'i grefydd. Mae'n rhaid fod o wedi cael help oddi uchod. Ac mor geind yno fo! yn cadw'r helynt i gyd iddo fo'i hun rhag y'n gwneud ni yn annghyfforddus."

"Sut bynag, mi wyddom yrwan, mam, am ein gwir sefyllfa —mi wyddom ein bod wedi twyllo ein hunain a thwyllo ein cym'dogion—mi wyddom ein bod yn dlawd, ac y byddwn yn dlotach yn y man, a dydio ddim ond *humbug* i ni ymddangos fel arall. Mae'n well gen i gael deud fy hun wrth bobol ein bod yn dlawd nag iddyn nhw ddeud wrtho i."

"Dim ffasiwn beth! paid a gwirioni, eneth! On' ddeudes i nad oedd dy dad ddim yn meddwl haner y pethe oedd o'n ddeud neithiwr. Wedi cynhyrfu 'rodd o, a 'does dim isio i ti sôn gair am y peth wrth neb. Mi wyddost mor glyfar ydi dy dad, yn wir, rhy glyfar ydio, a dene sut mae pobol ddim yn i ddallt o. A bydae Pwllygwynt yn darfod, mi fedr dy dad ddechre gwaith arall ar unwaith. Yn wir, y mae o'n *myn'd* i ddechre un rai o'r dyddie nesa 'ma, fel y cei di wel'd, a mi fydd cystal arnom ni ag y bu hi 'roed."

"Wyddoch chi, mam? 'rydw i'n teimlo'n rhyfedd—fedra i ddim deud mor rhyfedd 'rydw i'n teimlo. 'Rydw fel bydawn i wedi bod yn breuddwydio ar hyd f' oes, ac newydd ddeffro i realeisio sut y mae pethe. Wrth feddwl sut yr ydw i wedi byw, sut yr ydw i wedi ymddwyn at bobol gan' mil gwell na

fi fy hun, ac am fy *airs*, chwedl fy nhad, wn i ddim sut i ddangos y ngwyneb i neb, a mae gen i y fath g'wilydd nes ydw bron a marw! Meddyliwch be ddeidiff pobol! y fath *sport* wna nhw o honom ni! A fedra i byth 'u beio nhw am hyny. Chysges i winc dan saith o'r gloch y bore, a 'rydw i'n credu y mod wedi meddwl mwy neithiwr am bethe y dylaswn i fod wedi meddwl am danyn nhw o'r blaen nag a feddylies drwy fy holl oes, a 'rydw i'n gobeithio y mod i yn dipyn callach nag y bum i 'rioed."

"Mae'n dda gen i dy glywed di'n siarad fel ene, Susi. 'Roedd gen i ofn mai rhyw ymollwng a thori dy galon a faset ti. Yn wir, mae dyn yn cael help yn rhyfedd, ond 'rydw i'n ofni dy fod di wedi cymyd atat yn ormod o lawer y peth a ddeudodd dy dad neithiwr. Mi ddeidiff dyn yn 'i ffrwst bethe na ddyle fo ddim, ac mae'r calla'n colli weithie. Erbyn i dy dad 'sbonio i mi neithiwr a bore heddyw, dydw i ddim yn gwel'd y bydd raid i ni—yn ol fel mae pethe'n edrach—newid dim ar y'n ffordd o fyw, achos mae isio i ni gofio pwy yden ni o hyd, a bydae ni'n altro mi naen ddrwg i dy dad ac i ni'n hunen, a mi äi pobol i siarad yn bethma am danon ni. 'Does ene *harm* yn y byd bod yn gall, fel 'roeddet ti'n sôn, ac hwyrach y dylen ni dreio peidio bod cweit mor strafigant, ond, hyd y gwela i, 'does dim isio i ni altro yn ein ffordd o fyw, eto, beth bynag."

"Pa ole ydach chi wedi gael, mam, ar y pethe ddeudodd y nhad neithiwr? A sut 'roedd o'n 'sbonio am fod mor gâs hefo chi? Ai swp o glwydde oedd y cwbl ddeudodd o?"

"Nage; nid dyn i ddweyd celwydd ydi dy dad, a phaid a gadel i mi dy glywed di'n siarad fel ene eto. Mi wyddost o'r gore mod ine wedi cael y nychrynu a mrifo efo'r peth ddeudodd o. A mae amgylchiade, weithie, yn newid mewn 'chydig oriau. Pan oedd dy dad yn siarad neithiwr 'roedd bron wedi d'rysu efo cymin ar i feddwl. A mi fum yn synu lawer gwaith fod o heb dd'rysu, a rhaid fod ganddo synwyr mwy na dyn i fedru dal y cwbwl. Ië, fel 'roeddwn i'n deud, 'roedd hi'n edrach yn ddu iawn arno fe. Ond mi ddôth Mr. Huws, Siop y Groes, yma, a mae Mr. Huws am *joinio* dy dad i gael gwaith mein newydd, a mae gen' i barch calon iddo, a mi dreia ddangos hyny hefyd. 'Rydw i bob amser yn deud mai dyn clên iawn ydi Mr. Huws, ac erbyn i mi feddwl, 'rydw i'n synu bod

ni wedi gwneud can lleied o hono fo. Ddaru mi fawr feddwl mai Mr. Huws fase ffrynd pena' dy dad. Er i mi glywed mai fo ydi'r siopwr gonesta'r dre,' ddaru mi rywsut 'rioed ddelio efo fo, ond yno 'rydw i am ddelio'r cwbwl o hyn allan, wired a mod i'n y fan yma. Erbyn meddwl, mae'n rhyfedd fod Mr. Huws heb briodi, achos 'roedd dy dad yn deyd fod o'n gefnog iawn. Ond ddyliwn na ddaru'r dyn ddim meddwl am briodi, ne, mi wn, y base'n dda gan ambell un i gael o'n ŵr."

"'Rydw i'n methu gwel'd, mam, os bydd gan ddyn lawer ar i feddwl p'am y dyle hyny neud iddo siarad yn gâs ac *insulting* efo neb. 'Roedd y nhad yn ffiedd o gâs efo chi a fine neithiwr, a 'roeddwn i'n credu y fod o'n feddw ne'n d'rysu yn i synwyre. Ond 'doedd o ddim yn feddw, ne fase fo ddim yn gallu myn'd dros hanes i fywyd mor fanwl."

"'Rydw i'n cyfadde, Susi, na chlywes 'rioed mo dy dad yn siarad 'run fath, ac ar y pryd mi ddaru mrifo i'n arw. Ond 'rydw i'n madde'r cwbwl iddo ar ol i glywed o'n 'sbonio 'i hun. Yn wir, mi fase'n werth i ti glywed o bore heddyw 'n deyd i deimlad—*rodd* yn ddrwg gyno fo. Wydde fo ddim be i neud iddo fo'i hun. Chlywes i neb erioed—hyd yn oed yn seiat—yn deyd ei brofiad yn fwy rhydd a melus. Wrth sôn am y seiat, mi fase'n dda gen' i bydase dy dad yn fwy rhydd yn seiat, fel 'rydw i wedi deyd wrtho lawer gwaith. Mae ganddo ddawn at hyny, a mi fydde'n drêt i glywed o, a mae isio mwy o hyny yn y dyddie yma, yn sicir ddigon."

"Mi fydde gan y nhad brofiad rhyfedd."

"Bydde, wel di, a mi fydde. Mae o wedi gwel'd cymin, ac wedi cymysgu cymin efo pobol annuwiol, ac wedi cael ei demtio gymin gan y byd, y cnawd, a'r diafol, fel 'roedd o'n deyd, ac eto wedi cael nerth i ddal trwy'r cwbwl."

"Be bydae o'n digwydd deyd y profiad a gawson ni ganddo neithiwr, mam?"

"Paid a siarad yn wirion, da ti. Mi wyddost o'r gore nad oedd dy dad ddim fel y fo'i hun neithiwr, a 'rydw i'n fecsio nghalon na faset ti'n i glywed o'n rhoi rheswm am bobpeth. 'Roedd yn biti gen i glywed o mor edifeiriol, a 'roedd ganddo 'Sgrythyr ar bobpeth. Ond dene oeddwn i yn myn'd i ddeyd —rhaid i ni neud yn fawr o Mr. Huws, achos 'roedd dy dad yn deyd y bydde'r cwbwl yn dibynu arno fo wrth gychwyn y gwaith newydd, gan fod Mr. Huws mor gefnog. Ond mi

ofaliff dy dad, mi wn, i Mr. Huws gael 'i arian yn 'u hol gydag *interest*."

"Os oes gan Enoc Huws arian, fel y mae'n ddiame fod, mi faswn i yn ei gynghori i gymeryd gofal o honynt, mam."

"Llawer wyddost di am fusnes. Be ddoe o'r byd, fel y clywes i dy dad yn deyd, bydae pawb yn cadw 'u harian a neb yn mentro. Ac wyt ti'n meddwl fod dy dad a Mr. Huws mor wirion a dechre gwaith newydd a gwario'u harian, oni bae bod nhw'n siwr y can' nhw'u harian yn ol a llawer chwaneg?"

"Mi wn hyn, mam, nad oes gan y nhad, yn ol ei eiriau ei hun, ddim arian i'w gwario na'u colli, ac os bydd Enoc Huws yn ddigon dwl i godlo efo gwaith mein y bydd yntau yn fuan yr un fath, neu mae'n rhyfedd gen i."

"Be sy arnat ti, dywed? on'd oes ene lawer wedi 'u gneud yn fyddigions wrth fentro?"

"Oes, dyna Hugh Bryan a William Denman!"

"Nage, nid Hugh Bryan a William Denman, er mor sharp yr wyt ti! Rhaid i rwfun golli, ne mi fydde pawb yn fyddigions. A mi glywes dy dad yn deyd nad oedd gan Hugh Bryan ddim busnes i fentro."

"Ië, ar ol iddo wario'r cwbwl."

"Arno fo 'roedd y bai am hyny; a be wydde dy dad faint oedd i gwbwl o."

"Gwydde o'r gore."

"Dyma ti, Susi; bydae dy dad yn dy glywed di'n siarad fel ene, mi gnocie dy ben di yn y pared!"

"Mi gnocie beth digon gwâg yn y pared, byd a'i gwyr."

"Wyddost di be, Susi, 'rwyt ti'n siarad fel ffwl!"

"*Thank you*, mam," (Susan yn crïo'n hidl).

"Susi, mae'n ddrwg gen i mi arfer y gair ene. Paid a chrïo a bod yn wirion. Ond yn wirionedd mae rhw gyfnewidiad rhyfedd wedi dod drostot ti: Chlywes i 'rioed monot ti o'r blaen yn siarad yn anmharchus am dy dad. Mi wyddost na fu rioed glyfrach tad na gwell tad, a mae o'n y mrifo i fwy nag a fedra i ddeyd dy glywed di'n siarad fel ene. Gweddïa am ras i wel'd dy ffolineb, y ngeneth bach i. Mi wn fod gynot ti flys wastad, bydae ti'n gwbod sut, rhoi Hugh Bryan ar draws danedd dy dad, a 'rydw i'n meddwl y gwn i'r rheswm am hyny, ond 'roeddwn i'n credu fod ti bron annghofio y gwiriondeb hwnw."

"Annghofia i byth mono, mam. Ac erbyn hyn 'rydw i wedi cael gole newydd ar y cwbwl. Mi wn na ddaru mi 'rioed gymeryd *interest* yn Mhwllygwynt—wyddwn i ddim am dano ond fel 'roeddwn i'n digwydd gwrando ar ambell air a ddywedai nhad wrth bobol eraill. Ond 'roedd y nghalon bron tori pan dorodd Hugh Bryan i fynu ar ol colli i arian i gyd yn y Gwaith. Ond 'roeddwn i'n credu nad oedd dim bai ar fy nhad. Ond be ddeydodd o neithiwr? ddeydodd o ddim fod o'n gwybod o'r dechreu nad oedd ene ddim plwm yn Mhwllygwynt? Ac eto 'roedd o'n gallu edrach ar Hugh Bryan yn taflu ei arian i ffwrdd nes iddo golli y cwbwl, a mae o'n dal i adael i Mr. Denman neud yr un peth o hyd. Ydi peth fel hyn yn onest, mam?"

"Mi wela, fy ngeneth, fod tithe fel fine wedi camddallt dy dad, a mi wn mai ni ddaru gamddallt, ac nid y fo gamddeyd. *Rwan* y mae o'n gallu deyd nad oes ene ddim plwm yn Mhwllygwynt, ond wydde fo mo hyny hyd yn ddiweddar Sut y galle fo wybod? rho dy reswm ar waith. Er mor glyfar ydio 'does dim rheswm i neb ddisgwyl i hyd yn oed dy dad wybod be sydd yn mherfedd y ddaear nes iddo fyn'd yno i chwilio a chwilio'n fanwl. Ac er fod gyno fo *idea* go lew—gwell na neb arall mi wn—lle mae plwm i'w gael, mae dyn fel fo yn misio weithie."

"Peth rhyfedd iawn, mam, i ni'n dwy gamddallt y nhad. Ond mae'n dda gen' i glywed mai fel yna 'roedd hi—*os* fel yna 'roedd hi hefyd."

"'Does dim *os* am dani, Susi, on' 'doedd dy dad yn deyd â'i dafod ei hun mai fel yna *yr* oedd, a sut y medri di feddwl fel arall? Bydae pawb yn y byd 'ma mor onest a dy dad, fe fydde golwg arall ar bethe yn bur fuan, a mi fydde. 'Does gynon ni, mwy na neb arall, wyddost, ddim lle i ddisgwyl cael pobpeth fel yden ni isio. Ac yn y *long run* fydde fo ddim er ein lles. Cheir mo'r melus heb y chwerw, medde'r hen air, ac mae'r cwbwl er ein lles ysbrydol, fel 'roedd dy dad yn deyd. Os cei di fyw i f'oed i ———."

Ar hyn daeth y forwyn i mewn.

## PENNOD XVIII.

### CURO'R TWMPATH.

"IE," ebe Mrs. Trefor, wedi i'r forwyn fyn'd allan, "os cei di fyw i f'oed i—a 'rydw i'n gobeithio y cei di, ac yn llawer hŷn—mi gei lawer o bethe na leici di monyn' nhw."

"Yr ydw i wedi cael llawer o rheiny heb ddwad i'ch oed chi, mam."

"Wyddost di mo d'eni eto, wel di, yn enwedig er byn y doi di i ddechre byw, hyny ydi, pan ddaw gofal tŷ a theulu arnat ti. Ac yn wir, Susi, mi leiciwn dy wel'd di wedi setlo i lawr—wedi priodi a gneud cartre i ti dy hun, achos, yn ol trefn natur, fydd dy dad a fine ddim efo ti am byth, wyddost. 'Rydw i wedi meddwl llawer am hyn yn ddiweddar."

"Dydi'r *prospect* ydach chi wedi 'i dynu ddim yn ddymunol iawn, mam, ac os peth fel yna ydi 'setlo i lawr,' mae'n well gen' i beidio gwybod 'y ngeni. A ddaru chi 'rioed o'r blaen, mi wyddoch, mam, siarad yn y dôn yna am setlo i lawr. Ddaru chi 'rioed sôn am ofal tŷ a theulu ac am wybod 'y geni, a phethe felly. Ai nid am beidio taflu fy hun i ffwrdd—am beidio edrach ar neb ond rhai gwell na fi fy hun—am gofio pwy oeddwn—am ddal 'y mhen i fynu—ac aros fy amser, ai nid am bethe felly y byddech chi byth a hefyd yn siarad?"

"Mae tipyn o wir yn y peth wyt ti'n ddeyd, Susi, ond mi wyddost mai dy les di oedd gen' i mewn golwg bob amser, a 'does gen' i ond deyd 'run fath a dy dad—nad ydw ine ddim wedi bod yn berffaith efo pobpeth. A mi rof eto yr un cynghor i ti—'*does* dim isio i ti dywlu dy hun i ffwrdd, fel y byddan nhw'n deyd. Mi 'na addef nad ydi pethe ddim yn edrach cweit mor bethma efo ni ag y buon nhw, ac hwyrach na chei di ddim gŵr mor *respectable* ag y b'aswn i'n dymuno i ti gael. Ond bydae ti'n rhoi dy feddwl ar hyny, a bod yn gall, a pheidio, hwyrach, cadw cweit mor ddustant efo rhai tebyg i ti dy hun, a bod yn ffri, mae digon eto, wel di, o ddynion da i'w cael."

"Ymhle, mam? Wn i am neb mor wirion. A be wnawn *i*

yn wraig i 'ddyn da?' rhyw ddòl fel fi! heb erioed arfer gwneud dim ond segura, gwisgo, a dangos fy hun? Pe cawn i'r cynyg fydde gen' i mo'r gydwybod i dwyllo un dyn da. 'Rydw i wedi newid 'y meddwl am bobpeth, mam, er neithiwr."

"Ddyliwn i wir! Mae gen' i ofn fod gormod o natur dy dad ynot ti—meddwl rhy fach o honot dy hun. Felly mae dy dad; fel y deydes i wrtho lawer gwaith, a ddyliwn fod tithe'n myn'd ar 'i ol o. A be ydi dy feddwl di'n galw dy hun yn ddòl? Mi fase'n o arw gynot ti glywed neb arall yn deyd hyny, mi dy wranta."

"Dim o gwbwl, mam. Be ydw i ond dòl? Mi wyddoch o'r gore na ddaru mi 'rioed bobi, na golchi, cwcio, na smwddio, cyneu'r tàn na golchi'r llestri. Ches i 'rioed 'y nysgu i neud pethe felly, ond codlo efo miwsig—gwneud *slipper tops*—*antimacassars*, a rhw faw felly, a chael rhoi ar ddeall i mi o hyd fod rhywun mawr i ddwad i neud *lady* o hono i, ac yn y diwedd 'y nhad yn deyd y bydde raid i mi ddwad i lawr beg neu ddau, a chym'yd rhwfun y medrwn i gael gafael arno—*miner* cyffredin ne rwfun! O mam, mae gen' i g'wilydd o honof fy hun—'rydw i'n *libel* ar yr enw merch!"

"Wyddost ti be? 'roeddat ti'n deyd gyne fod ti'n ofni fod dy dad yn d'rysu'n 'i synwyre, ond yr ydw i agos yn siwr fod *ti*'n d'rysu. On'd oes ene ganoedd o ferched sy wedi'u magu yn *respectable* na wyddan nhw ddim am y pethe wyt ti'n sôn am danyn' nhw. Gwaith morwyn ydi'r pethe ene, er nad oes dim *harm* fod pawb yn 'u medryd nhw *in case* y bydd *raid* 'u gneud nhw. A siwr ddigon pwy bynag briodi di na chei di forwyn?"

"'Dydi *miners* ddim yn cadw morwynion, mam."

"Paid a chyboli, da ti, a phaid a harpio ar y gair ene ddeydodd dy dad yn 'i wylltineb neithiwr. Mi fydde'n o arw gen' i dy wel'd di'n priodi meinar, a mi fydde hefyd. On'd oes ene ddigon o ddynion mewn busnes y bydde yn dda gynyn nhw dy gael di—geneth fel ti, sydd wedi cael ediwceshyn. Ac, yn wir, bydawn i'n myn'd yn ferch ifanc yn f'ol, mi fydde'n well gen' i gael dyn mewn busnes yn ŵr na'r peth mae nhw'n alw yn ŵr bonheddig. Mwya' ydw i'n 'i weled o honyn' nhw sala yn y byd ydyn' nhw yn 'y ngolwg i. Ond y mae dyn o fusnes *yn* ddyn o fusnes a llai o lol o'i gwmpas o. Er engraifft 'rwan, dene rwfun fel Mr. Huws, Siop y Groes, mi fase'n well o lawer

NATIONAL LIBRARY

gen' i briodi rhwfun fel fo na lot o'r rhai sy'n galw 'u hunen yn fyddigions."

"At be 'rydach chi'n dreifio, mam? I beth 'rydach chi'n sôn am Enoc Huws wrtho i? Ydach chi'n meddwl gneud *match* rhyngo i âg Enoc Huws? Be ydi'r dyn i mi? Be waeth gen' i am Enoc Huws, bydae o gan' mil mwy cefnog? Mae'r dyn yn eitha, am wn ni, ond dda gen' *i* mono, a dyna ben ar hyn yna."

"Be haru ti, dywed; be naeth i ti feddwl mod i'n treio gneud *match* rhyngot ti a Mr. Huws? 'Doeddwn i ddim ond yn 'i enwi o fel engraifft. A phaid a bod mor binco! mae'n debyg arw na dryche Mr. Huws ddim arnat ti? Mi feder dyn fel fo sy'n dda arno gael y neb a fyno. Paid a meddwl! dydi gwragedd ddim mor brin a hyny, wyr dyn! Mae'n arw o beth na feder un sôn am rwfun fel Mr. Huws heb i ti fyn'd i feddwl fod un isio gwneud *match*. Dim ffashiwn beth, 'y ngeneth i! ymgroesa! Mae cne ddigon o ferched cystal a tithe y bydde'n dda gynyn nhw gym'yd Mr. Huws, heb i ti roi pont dy ysgwydd o'i lle! Oes yn eno'r anwyl! Mi fase rhwfun yn meddwl ar dy siarad di 'rwan *just* fod ti am wisgo sachlïan a lludw. Ond sefwch o'r gole! pwy ond y ni!"

"'Dydw i'n deyd dim, mam, am Enoc Huws. Mae'r dyn yn eitha—yn ganwaith gwell na fi. Deyd yr ydw i na dda gen' *i* mo'no."

"Pwy sy'n hidio pwy sy'n dda gynot ti a phwy sy' ddim? A rhaid i mi gael gynot ti beidio galw y dyn yn Enoc ac yn Enoc o hyd. Mae'i sefyllfa, tybed, yn haeddu iddo gael ei barchu a'i alw'n Mistar cystal ag wyt tithe'n haeddu cael dy alw 'n Miss."

"Yn llawer mwy, mam. 'Dydach chi ddim yn 'y nallt i. Mae Enoc Huws—neu Mistar Huws, fel yr ydach chi'n dymuno 'i alw—yn annhraethol well na fi, ond dda gen' *i* mo'r dyn. A be ydach chi'n sôn am i *mi* briodi? 'Does gen' i ddim eisieu priodi; a 'dydw i ddim *am* briodi, pe cawn i'r cynyg, nes bydda i'n ffit i briodi. Chaiff yr un 'meinar cyffredin' na 'dyn o fusnes' achos i edifarhau yno i byth, mam."

"O, felly! Be bydae Mr. Huws yn newid 'i feddwl ac yn gwrthod *joinio* dy dad gyda'r fentar newydd? A leiciet ti fyn'd i wasanaeth?"

"Leiciwn, mam, os cawn i felly ddysgu *gneud* rhywbeth, a

pheidio bod yn *humbug.* A dydw'n hidio dim pa un ai newid ei feddwl ai peidio a wneiff En——Mr. Huws. Er ei fwyn ei hun, mi fydde'n well iddo newid 'i feddwl, mi gymra fy llw."

"Be sy'n dy gorddi di, dywed? Wyt ti wedi glân hurtio? Os nad oes gynat ti barch i ti dy hun, oes gynat ti ddim parch i dy dad a mine? Susi, weles i 'rioed monot ti'n dangos yr ysbryd ene o'r blaen. Mae gen' i ofn, 'y ngeneth i, nad wyt ti ddim wedi d'ail eni. Gweddïa am ras, 'y ngeneth bach i, a *chymer* ofal na chlyw dy dad monot ti yn dangos yr ysbryd ene, ne' mi fydd yn y pen arnat ti. A chofia—gwrando be dwy i'n ddeyd 'rwan—cofia ddangos pob parch i Mr. Huws pan ddaw o yma, a bod yn suful efo fo, ne' fydd yn fychan gan dy dad dy roi di ar tân."

"Bydae o'n gneud hyny, fydde ene fawr o *fat* nac o golled i neb. Ond peidiwch a phryderu, mam. O hyn allan, yr ydw i am barchu pawb, a 'rwyf yn gobeithio na chewch chi na nhad le i gwyno 'y mod i'n anmharchus o un creadur byw. 'Rydw i am lyfu'r llwch."

"'Rwyt ti am fod yn rhwbeth digon gwirion, mi dy wranta. Ond ddaru mi 'rioed ddisgwyl dy glywed di'n siarad fel hyn, Susi. 'Rwyt ti wedi fy ypsetio i'n arw, a 'rwyt ti bron gneud i mi gredu na wyddost di ddim am ddylanwad crefydd ar dy galon. Yr ydw i wedi deyd lawer gwaith wrth dy dad y dylase fo fod wedi cym'yd mwy o drafferth efot ti i dy ddysgu di mewn egwyddorion crefydd, a mae hyny yn ddigon amlwg erbyn hyn. A beth i feddwl o honot ti nid wn i ddim. Ond y mae hyn yn ddigon plaen: er cymin o siamplau da wyt ti wedi wel'd, fod dy ysbryd di yn ddiarth iawn i bethau crefydd, ne faset ti byth yn siarad fel 'rwyt ti wedi gneud."

"Yr ydach chi *quite right,* mam. Wn i ddim am ddylanwad crefydd y Beibl. Os ydw i'n dallt y Beibl—hunanymwadiad, cariad at Dduw, gostyngeiddrwydd, a gweithredoedd da ydi crefydd, a mae mywyd i, hyd yn hyn, wedi bod mor ddieithr i bethe felly a bywyd *Lucifer* ei hun. A deyd fy meddwl yn onest wrthoch chi, mam, 'does dim mwy o debygrwydd rhwng y grefydd a ddysgwyd i mi â chrefydd y Beibl, nag sydd rhwng Beelzebub a Gabriel."

"Susi, be sy arnat ti, dywed? Wyt ti mewn sterics, dywed? i fod yn tyngu ac yn rhegi ac yn enwi'r pethe hyll ene? ydi'r ysbryd drwg *wedi* dy feddianu di, dywed?"

"Dydw i ddim yn tyngu nac yn rhegi, ac am storics, wn i ddim beth ydi hwnw."

"Wel, be ydi—dy—feddwl—di—dywed?"

"Fy meddwl i ydi hyn—os gwel yr Arglwydd yn dda i mi gael byw, na fydda i byth eto yn *humbug*. Er neithiwr, mam, yr ydw i wedi cael gole newydd ar bobpeth, a mae gen' i g'wilydd o honof fy hun."

"Felly gelli di, os gwn i be ydi be. Er clyfred ydi dy dad, naeth o 'rioed fwy o fistêc na sôn am 'i helyntion yn dy glyw di neithiwr, achos wyddost di ddim byd am fusnes, a 'does dim posib rhoi dim yn dy ben di, a feder neb dy droi di os byddi di wedi cym'yd at rwbeth. Mae gystal gen' i ag wn i ddim be nad ydi dy dad yn dy glywed di. A 'rwyt ti wedi fypsetio i gymin fel nad wn i yn y byd mawr sut i fyn'd can belled â'r London House, ac eto mae'n rhaid i mi fyn'd, achos 'roeddan nhw'n deyd y bydde'r ddres yn barod i'w ffitio bore heddyw. A bydase tithe yn rhwbeth tebyg i ti dy hun faswn i'n hidio dim ag ordro dres newydd i tithe, er nad oes yr un mis er pan gêst un o'r blaen. Ond ni gawn wel'd tebyg i be fyddi di pan ddo'i 'n ôl. Gobeithio y byddi di wedi d'od o dy stymps, ac y ca' i wel'd tipyn o edifeirwch ynot ti. 'Rydw i'n myn'd 'rwan, Susi——Susi, 'rydw i'n myn'd?"

"Purion, mam."

*Exit* Mrs. Trefor.

"Rheswm anwyl! be ydan ni fel teulu? Mae mam neu fi wedi glân dd'rysu. Wela i yn y myw ddim ond tlodi a gwarth o'n blaene ni. Mae'n rhaid 'y mod i wedi bod yn breuddwydio hyd heddyw. 'Roedd yn gâs gen' i bob amser glywed sôn am 'fusnes,' y 'farchnad,' y 'cwmpeini,' a phethe felly. 'Roedd yn boen i mi feddwl am danynt. Pethe i ddynion oeddan nhw, yn ol 'y meddwl i. 'Y mhwnc i bob amser oedd byw, mwynhau fy hun, a gwisgo a chodlo. Mi wyddwn fod y 'nhad yn glyfar, a 'roeddwn i'n wastad yn credu ei fod yn gyfoethog. 'Rydw i wedi byw mewn *balloon*, ac wedi dwad i lawr fel careg. Ddaru mi 'rioed feddwl—ïe, dyna lle 'roedd y drwg—ddaru mi 'rioed *feddwl* am bethe felly, na meddwl fod isio i mi feddwl. Ddaru meddwl i erioed ddeffro dan bore heddyw. Ond diolch i Dduw, yr ydw i'n credu fod gen' i *feddwl* eto, fel rhw eneth arall. A rhyfedd na faswn i wedi golli o, a fine heb ei ddefnyddio am g'yd o amser! Ydi nhad yn ddyn gonest? Ddaeth

y cwestiwn erioed i'm meddwl i o'r blaen, a dydio ddim wedi dwad i feddwl 'y mam eto. Tybed ai fi sy ddim yn dallt? Ai'r peth oeddwn i'n arfer alw anonestrwydd ydi'r peth y mae eraill yn alw yn fusnes? Wn i ddim beth ydi busnes. 'Roedd gen' i *idea* mai rhywbeth syth, *above board*—rhywbeth na fedrai neb ei edliw oedd gonestrwydd. A dene be ydio hefyd, neu 'rydw i'n *idiot*. 'Roeddwn i'n meddwl fod 'y nhad yn berffaith onest, a mi fydde'n well gen' i farw na ffeindio nad ydio ddim. Ond y mae rhywbeth yn 'y nghorddi i, chwedl 'y mam—mae meddyliau drwg lon'd 'y nghalon i. Gobeithio 'y mod i'n methu. Ddaru mi gamddallt? Gobeithio. Ond mi wnes un *mistake*—mi feddylies fod 'y nhad a mam wedi bod yn planio gneud *match* rhyngo i ac Enoc. Wn i ddim o b'le daeth 'y meddwl i mi os nad o fy *vanity*. O, *vanity* felldith! os ca' i fyw, mi dy groga di gerfydd corn dy wddw, mi gymra fy llŵ! Beth bynag ddaw ar ol hyn—beth bynag fydd ein hamgylchiadau ni—fydd ene ddim chwaneg o *humbug* yn Susan Trefor. Na, dim *humbug*, chwedl Wil, druan."

---

## PENNOD XIX.

### PWLLYGWYNT.

YN mhlith amrywiol ragoriaethau Capten Trefor, nid y lleiaf, yn ddiamheu, oedd ei allu i ragweled digwyddiadau pwysig. Ac ni tharawodd efe yr hoel yn ei phen yn fwy cywir nag yn ei brophwydoliaeth am Bwllygwynt. Oblegid cyn nemawr o wythnosau yr oedd yr hen Waith yn sefyll yn llonydd, neu, yn ngeiriau desgrifiadol prophwydoliaeth y Capten—yr oedd "Pwllygwynt â'i ben ynddo." Nid yn unig nid oedd y "bydle yn fywiog," "a'r troliau yn cario'r plwm i Lanerchymor" (yr hyn na ddigwyddodd erioed yn Mhwllygwynt), oud nid oedd hyd yn nod yr "*engine* yn chwyrnu." Yn nghymydogaeth Pwllygwynt yr oedd distawrwydd yr *engine* yn boenus i'r trigolion. Yn sŵn *engine* Pwllygwynt yr oedd llawer o'r

plant wedi eu geni a'i magu—wedi bod yn chwareu—yn myn'd i'r ysgol ddyddiol ac i'r capel, yn sŵn yr *engine* yr oedd rhieni a phlant wedi arfer gwaeddi wrth siarad er mwyn gwneud eu hunain yn glywadwy. Yr oedd Bob Mathews, y *bird catcher*, yn cael chwe' cheiniog y pen ychwaneg am bob nico a ddaliai yn nghymydogaeth yr *engine*, am ei bod yn ffaith sicr fod yr adar yn canu yn uwch a chliriach nag adar o gymydogaethau eraill. Sul, gwyl a gwaith, yr oedd trwst yr *engine* wedi bod yn rhan mor wirioneddol o fywyd yr ardal ag ydyw trwst yr afon neu y rhaiadr gwyllt lle digwyddo natur fod wedi eu cyfleu. Wedi i'r Gwaith sefyll, ymdeimlai y bobl oedd wedi arfer byw yn ei ymyl fel pe buasent wedi newid eu trigfod; am amser, nes iddynt gynefino, teimlent yn rhyfedd, gan ymholi o hyd am yr achos o'r teimlad. Edrychai y gwragedd ar y cloc—a oedd wedi sefyll? Am ysbaid, teimlai'r trigolion anhawsder i gysgu'r nos. Yr oedd *engine* y Gwaith wedi gwasanaethu fel cryd iddynt, a phan beidiodd y cryd a rhoncian, agorodd pawb ei lygaid yn effro iawn. Ond nid oedd hyn ond peth bychan a dibwys mewn cymhariaeth. Buan y sylweddolodd y trigolion wir ystyr y distawrwydd. Ystyriai fod ugeiniau o ddynion oeddynt yn benau teuluoedd allan o waith—ugeiniau oeddynt wedi arfer byw o'r llaw i'r genau, heb ddim ganddynt iddynt hwy a'u teuluoedd ar gyfer y dyfodol, ac nid yn unig hyny, ond nad oedd y gorphenol yn lân a dialw arnynt, fel y gallasai ambell lyfr siop dystiolaethu. Tu allan i gylch y gymydogaeth, peth bychan oedd fod Pwllygwynt wedi sefyll. Prin y cyrhaeddodd y newydd i gyrion y sir. Dichon, ar ddamwain, i'r newydd ddisgyn ar glyboedd rhywrai a drigent ddeng milltir oddiyno, a dichon iddynt ddweyd, "Piti mawr!" ond ni ddarfu iddynt byth feddwl am y peth wed'yn. Ond i'r mwnwyr truain oeddynt wedi arfer dibynu yn hollol ar Bwllygwynt am eu cynhaliaeth, yr oedd i'r Gwaith sefyll yn amgylchiad prudd a chwerw iawn. Yr oedd eu cyflogau, ŵyr dyn, ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn druenus o fychain, prin yn bedwar swllt ar ddeg yr wythnos, ond yr oedd y goreu y gallai Capten Trefor, dan yr amgylchiadau, ei fforddio iddynt. Wrth lunio'r gwadn fel bo'r troed, yr oeddynt hwythau wedi gallu byw ar hyny. Trigent tu allan i gylch y bwrdd lleol, ac felly, er fod y cut yn fynych o fewn llai na phum' llath i'r tŷ, yr oeddynt yn gallu cadw

mochyn, yr hwn, pan ddeuai yn barod i'r gyllell, a dalai y rhent. Yr oedd Thomas Bartley wedi pregethu iddynt am lawer o flynyddoedd—yn enwedig ar ddiwrnodau ffair, ar y buddioldeb i ddyn tlawd gadw mochyn, ac yr oedd ffrwyth amlwg i'w weinidogaeth yn mhlith mŵnwyr Pwllygwynt. Er mai rhyw ddau, neu dri fan bellaf, o foch a brynai Thomas yn ystod y flwyddyn, yr oedd ei bresenoldeb yn mhob ffair yn anhebgorol. Anfynych y rhyfygai neb o'r cymydogion brynu porchell neu 'storyn mewn ffair heb ymgynghori â Thomas Bartley, ac os gwnaent, ond odid na chanfyddent yn fuan eu bod wedi gwneud bargen ddrwg. Yr oedd Thomas fel hyn yn colli chwe' diwrnod clir mewn blwyddyn i wasanaethu ei gymydogion heb un geiniog o dâl. Paham y grwgnacha beirniaid Eisteddfodol eu bod yn beirniadu am y nesaf peth i ddim *unwaith* yn y flwyddyn? Rhaid i mi gydnabod y byddai Thomas, ar adegau, yn sylweddoli gymaint o amser yr oedd efe yn ei golli i wasanaethu pobl eraill, ac yn penderfynu weithiau nad elai byth i ffair ond pan fyddai gwir angen arno am brynu mochyn iddo ef ei hun. Ond pan ddeuai diwrnod ffair dechreuai ei gydwybod ei gyhuddo, ac yn y rhagolwg am y posibilrwydd i rai o'i gymydogion wneud bargen ddrwg, dywedai—" Barbra, fedrai yn 'y myw las fod yn gyfforddus heb fyn'd i'r ffair," ac i'r ffair yr elai yn sionc ddigon.

Tra yn sôn wrth Thomas un diwrnod am y buddioldeb o gadw mochyn ebe fe—

" Mi glŵi rw bobol yn deyd mae'r peth gwriona ar chwyneb y ddaar ydi cadw mochyn. A rydw i wedi notishio wastad ma pobol ddiog, ddi-sut at fyw, ydi rheini sy'n deyd felly. Doe dywaetha'n y byd rodd yr hen Feti William yn gofyn i mi —'Tomos Bartle,' medde hi, 'ydach chi'n meddwl fod cadw mochyn yn talu i chi?' a be finne—'Bydae pawb yn talu cystal â'r mochyn mi naen y tro, Beti. Weles i yriuod fochyn na thale fo, ond mi weles ambell wraig na thale hi byth.' Rodd arni ddeuswllt i mi am drwsio pâr o sgidie es gwn i bryd, wyddost, a mi ges *chance* i roi pwyth i'r hen feuden, a welest ti yrioud mor chwim y trodd hi'r stori. Ond rhyngot ti a fi—a siarad yn byticilar, dydw i ddim yn meddwl *fod* cadw mochyn *yn* talu, os ei di gyfri pobpeth a rhoi pris ar bob peth wyt ti'n neud. I ddechre, dydio ddim yn talu i ddyn sy'n rhy falch—no ffens, cofia,—i nol bauch o wellt ac i garthu'r cut. A dydio

ddim yn talu i ddyn heb gydwybod i roi bwyd priodol iddo fo; achos ma'n rhaid i'r mochyn, wyddost, fel rhw ddyn arall gâl bwyd priodol cyn y daw o byth yn i flaen. On' dyma ydw i'n ddeyd—a mi deyda fo tra bydd chwythod yno i—i ddyn tlawd—dyn wrth i ddiwrnod gwaith—na neiff o byth ddim byd gwell na chadw mochyn, yn enwedig os bydd tipyn o foron y maes a dalan poethion yn tyfu yn agos i'w dŷ o—*champion* o bethe i fochyn. Fel hyn yr ydw i'n edrach ar y peth—ma cadw mochyn yn debyg anwêdd i'r sefins banc. Ddeydet ti byth—a siarad yn byticilar—fod y sefins banc yn talu—achos be ydi tw an a hâff, ddyn glân? dydio ddim gwerth i ddyn hel i dipyn prês yno—hyny ydi er mwyn yr interest. Ac eto ddeyde run dyn yn ei sens nad ydio'n beth da rhoi arian yn y sefins banc. Yn ol y meddwl i,—a rydw i, o ddyn cyffredin, wedi magu cymin o foch a neb yn y wlad ma—ma cadw mochyn yn talu'n well o lawer na'r sefins banc. Achos fel hyn rwan, dyma ti'n meddwl am ddyn yn pendrafynu byw yn gynil a rhoi ei arian yn y sefins banc. *Very good.* Dwed fod o'n safio swllt yr wsnos. Or gore. Ond ambell wsnos mi fydd yn *binch* ar y dyn—mi fydd wedi colli diwrnod—ne mi geiff i demtio i brynu rhwbeth na fydd o moi isio, a mi geiff y sefins banc gymyd i siawns, a weles di yrioud lai fydd yn y banc erbyn diwedd y flwyddyn. Ond, bydase gan y dyn fochyn a chydwybod i'w ffidio'n dda, mi fase'n bownd o morol am fwyd iddo dros iddo fod ar lai hun. Mi ddeyda ti beth arall—dydi dyn ddim yn leicio mynd a rhw dreifflach i'r banc, ac os treiff o'u cadw nhw yn tŷ nes iddyn nhw ddwad yn dipyn o swm, mae rhw aflwydd o hyd yn dwad i'w cymyd nhw 'i ffwrdd. Glywest di am Ned Jones es talwm yn trïo cadw arian yn tŷ? Naddo? Wel, i ti, mi bendrafynodd Ned, un tro, roi'r bacco heibio a hel tipyn o brês heb yn wbod i'r wraig fel tase. Deuddeg swllt odd i gyflog o, a than bost y gwely rodd Ned yn cadw'i gelc. Rodd o wedi bod wrthi am bymtheg wsnos, ac wedi casglu—bygse fo—saith a chŵech—haner coron dan dri phost y gwely. Ond un diwrnod, rol dwad o'i waith, fe syspectiodd Ned fod y wraig wedi bod yn gnau y llofft—rhw unweth yn y flwyddyn y bydde hi yn gneud hyny, wyddost—a phan gafodd o gefn y wraig fe bywdrodd Ned i'r llofft i edrach odd i gelc o'n sâff. Wel, i ti, fe rôth i ysgwydd dan y gwely—y fo'i hun glywes i'n deyd y stori—a mi gododd un post, 'Ho,' ebe Ned, 'ma'r

haner coron ene wedi myn'd,' a mi â'th at y post arall, a rodd hwnw wedi gloewi hi, a felly rodd y tri, a welodd Ned byth'u lliw na'u llun nhw. Rodd yn dda gan y wraig gâl gafel ynyn nhw, mi wranta. Ond mi fu no dipyn o row, fel y gelli di feddwl, a ma nhw'n deyd i mi na fuon nhw byth run fath fel gŵr a gwraig, a bod Ned yn smocio mwy nag yrioud. Anodd iawn ydi i ddyn tlawd gadw arian yn tŷ. Aros di, lle roeddwn i arni? O ïe,—dydi dyn, rwsut, ddim yn leicio mynd hefo rhw dreifflach i'r banc, achos wrth i weld o'n mynd yno yn amal mi ciff pobol i ddeyd fod o'n werth i filoedd, a mi fydd pawb yn mynd ato i ofyn benthyg, ac os daw hi'n *binch* ar y dyn i hun fydd ene ddim cydymdeimlad â fo. Ond dyma ddyn yn cadw mochyn mae o'n hel rhw dipyn i'w fol o deirgweth yn dydd o leie, a dydio'n gwbod fawr odd wrtho, ac o dipyn i beth mae o'n dwad yn rhwbeth yn y diwedd, wyddost. Ma nhw'n deyd i mi ma dene sut y mae'r Gwyddelod ene'n haccio byw, ag y bydde'n well gynyn nhw fod heb hôm riwl nag heb gut mochyn, a mi greda hyny'n hawdd. Ond yr ydw i wedi notishio fod llai o fagu moch gan bobol dlawd nag a fydde, yn enwedig yn y trefydd. A'r rheswm am hyny, meddan nhw, ydi—nid fod pobol yn fwy respectol, ond am fod y Locol Bord yn'u stopio nhw, ac am fod bacyn y Merice mor rhad. Dene'r felldith fwya ddâth yrioud i'n gwlad ni ydi'r Locol Bord a bacyn y Merice—yn ol y meddwl i. Ma'r Locol Bord yn trefydd yn stopio'r tlodion i gadw mochyn, ac o herwydd hyny dydi'r tlodion, rwan, byth yn meddwl am blanu tatws yn y cae. Achos i be y planan nhw datws os na chan nhw gadw mochyn? A dyne lle ma nhw yn sychglemio ar hyd y flwyddyn, ac yn rhedeg i'r siop i nol cnegwaeth o facyn y Merice a chnegwaeth o datws—yn lle bod, fel y bydde pobol es talwm, a dwy hog o datws yn'r ardd a mochyn yn nhop y tŷ. Wn i ar chwyneb y dduar sut ma'r tlodion yn câl tamed yn trefydd ene. A llun garw sydd arnyn nhw meddan nhw. A'r cwbwl o achos y Locol Bord. Dwn am ddim sydd yn porthi diogi gymin a'r Locol Bord. Achos, es talwm, mi fydde dyn, ar ol dod o'i waith, a molchi, a châl i dê, yn mynd i'r cae tatws i roi *twtch* o chwynu ne fforchio, ne ynte yn mynd i nau tan y mochyn. Ond i'r tafarne y ma'r bobol yn mynd rwan. A chlwi di byth sôn y dyddie yma am 'swper tir tatws.' A'r cwbwl i gyd o achos y Locol Bord. Fu yrioud shwn beth! Be ddeudest di?

clemio to starve, be destitute

—er mwyn cadw y ffefars i ffwrdd? Lol i gyd! Ma nhw'n deyd os bydd cut y mochyn o fewn pum' llath i'r tŷ y bydd y ffefar yn bownd o ddwad, ond os bydd y cut bum' llath a dwy fodfedd odd wrth y tŷ y bydd pawb yn saff! Glwest di erioed siarad gwirionach yn dy fywyd? Mi na i gyfadde fod llai o'r frech wèn yrwan nag a fydde es talwm; ond nid i'r Locol Bord yr yden i ddiolch am hyny, ond i'r Brenin Mawr a'r nocylashon. Wyst di be, nawn i ddim sefyll yn sgidie y Locol Bord ene am y byd ma. Mi fydd gynyn nhw gownt mawr i'w roi rhw ddiwrnod. Ond diolch y mod i allau o'u bache nhw."

Ond yr wyf yn crwydro. Y ffaith oedd fod agos bob un o weithwyr Pwllygwynt yn magu mochyn ac yn planu tatws yn y cae. Mae yn syndod meddwl ar càn lleied o arian y mae llawer o weithwyr Cymru wedi gallu byw a magu teuluoedd lluosog. Mewn llawer amgylchiad yr oedd nifer y geneuau yn mron yn gyfartal i nifer y sylltau a enillid yn wythnosol gan y penteulu. Nid oeddynt yn llwgu, nid oeddynt yn noethion. Yn wir, yr oeddynt *fel teulu* yn gallu dyfod yn daclus i'r capel; ac nid hyny yn unig, ond yr oeddynt yn gallu *rhoi* ychydig at yr achos. Pa fodd yr oeddynt yn gallu gwneud hyny—y nefoedd fawr a ŵyr! Mae yn rhaid dyfod i'r penderfyniad fod eu hanghenion anhebgorol yn fychain iawn, a'n bod ni y dyddiau hyn yn gwario llawer o arian am bethau y gellir gwneud hebddynt. Gyda chyflogau truenus o fychan, yr oedd mŵnwyr Pwllygwynt wedi gallu byw, magu plant, a rhoi ychydig o ysgol iddynt—ond pa sut—wel, nis gallaf ddychymygu. Eglur yw nas gallai y rhai mwyaf darbodus o honynt roddi dim o'r neilldu ar gyfer diwrnod gwlawog. Fel yr aderyn sydd yn byw o ddydd i ddydd heb ganddo ddim darpariaeth ar gyfer yfory, felly yr oeddynt hwythau yn byw o *sist* i *sist*, a phan safodd Pwllygwynt yr oedd eu tlodi a'u trueni yn fawr arnynt. Pe buasai Pwllygwynt yn arfer talu deg punt y mis i bob un o'r gweithwyr, prin y gallasai eu gofid a'u galar fod yn fwy dwys pan safodd y Gwaith. Er fod y cyfyngder wedi dyfod ar y nifer mwyaf o'r gweithwyr yn hollol ddiddisgwyl, nid oedd rhai o'r hen ddwylaw yn anmharod o ran eu meddyliau i gyfarfod yr amgylchiad. Gwelent yn eglur nas gallai unrhyw Gwmni ddal i wario arian yn barhaus heb dderbyn ond y nesaf peth i ddim yn ol. Heblaw hyny, yr oedd gan Capten Trefor ei gymeriad a'i enw da i'w gadw, ac yr oedd efe wedi cymeryd

rhai o'r gweithwyr mwyaf profiadol i'w gyfrinach er's tro. Perthynai i Bwllygwynt ŵr o'r enw Sem Llwyd, yr hwn, heblaw ei fod yn grefyddwr ac o gymeriad dichlynaidd, a ystyrid yn oracl ar y dull goreu o weithio gweithfeydd mŵn. Cyndyn iawn a fyddai Sem i ddweyd ei farn ar unrhyw beth os na fyddai yn siwr o'i fater. Pan benderfynid gyru mewn cyfeiriad newydd yn y Gwaith, cadwai Sem ei farn am lwyddiant tebygol yr anturiaeth hyd nes y ceid prawf teg, ac yna datganai ei syniad yn ddifloesgni, yr hwn, wrth gwrs, a fyddai bob amser yn gywir. Ni wybuwyd erioed i Sem wneud camgymeriad yn ei farn. Pan wasgid arno gan Capten Trefor, am ei syniad yn mlaen llaw ar unrhyw anturiaeth, gofalai Sem am roi digon o *os* o'i gwmpas, a byddai y *qualifications* mor helaeth fel, pa fodd bynag y troai yr anturiaeth allan, y byddai barn Sem yn iawn! O herwydd hyny, fel y dywedwyd, ni wybuwyd erioed i Sem fethu yn ei farn. Yn nglyn â gweithiad Pwllygwynt ni phetrusai Sem ddweyd ei farn yn groew a diammwys ar un peth, a da y gwyddai Sem nad oedd y peth hwnw o fewn terfynau posibilrwydd i'r Cwmni byth ei gario allan. Pan gyfarfyddai y gweithwyr yn dŵr i gael mygyn—yr hyn a wnaent yn fynych—oblegid nid oeddynt yn credu mewn gorweithio, ac yr oeddynt oll yn gydnabyddus â'r penill—

"Y mae chwech o oriau 'n ddigon
I bob un o'r *miners* mwynion,
I fod rhwng y dyrus greigiau
Mewn lle myglyd yn llawn maglau"—

pan gyfarfyddent felly, meddaf, mynych y rhoddai Sem y wedd fwyaf doeth ar ei wyneb, ac y datganai ei farn yn glir i wrandawyr llawn edmygedd ar yr hyn y *dylasai* Cwmni Pwllygwynt fod wedi ei wneud os oeddynt wedi breuddwydio i'r Gwaith fod yn llwyddianus. Yr oedd Sem Llwyd yn un o'r rhai a gymerasai y Capten i'w gyfrinach, ac nid oedd efe yn anhysbys o ddrychfeddyliau gwyllt Sem. Pan gaffai y Capten Sem ar ei ben ei hun, rhedai yr ymddyddan rywbeth yn debyg i hyn—

"Wel, Sem, beth ydyw eich barn am yr hen Waith yma, erbyn hyn?"

"Yn wir, Capten, mae'n anodd deyd, a bod yn siwr."

"Yr wyf yn credu, Sem, eich bod chwi a minau yn synio yn lled debyg am Bwllygwynt. Pe cawswn i fy ffordd fy hun, mi fuaswn wedi gwneud fel hyn ac fel hyn." Ac yna awgrymai y Capten ryw gynlluniau cyffelyb i'r rhai y clywsai fod Sem yn eu gwyntio. "Ond waeth tewi, Sem, mae gen' inau fy meistar, ac os fel hyn y mae'r Cwmni yn dewis gwneud, eu *look out nhw* ydyw hyny. Ond mi ddywedaf hyn, nad oes dim posib cario mlaen fel hyn yn hir."

"Ddaru chwi 'rioed, Capten, ddeyd mwy o wir, a 'rydw i wedi deyd 'run peth laweroedd o weithiau, mae'r dynion yn gwybod. A mae o'n andros o beth, Capten, na chai dyn fel chwi, sy'n gwybod sut i weithio mein, ei ffordd ei hun."

"Sut bynag, Sem, felly mae pethau'n bod."

Ar achlysuron penodol, prophwydai Sem yn ddoeth am ddiwedd buan Pwllygwynt, ac eglurai y rheswm am hyny—sef nad allai y Capten gael ei ffordd ei hun. Pan safodd Pwllygwynt nid oedd neb yn rhoi'r bai am hyny wrth ddrws Capten Trefor. Dywedai Sem Llwyd, ac eraill, erbyn hyn, fod y Capten wedi eu rhybuddio, a phe cawsai y Capten ei ffordd ei hun o drin y Gwaith y buasai yr "*engine* yn chwyrnu, y bydle yn fywiog, a'r troliau yn cario'r plwm i Lanerchymor." Y Cwmni yn Llunden oedd yr achos o'r holl ddrwg. Ac fel hyn yr oedd y Capten, er ei fod wedi colli ei gyflog, wedi llwyddo i gadw ei enw da yn mhlith ei gymydogion. Credai yr ardalwyr yn lled gyffredinol pe cawsai y Capten ei ffordd ei hun y buasai Pwllygwynt yn fforddio gwaith cyson i'r mŵnwyr am oes neu ddwy o leiaf. Awgrymai y Capten wrth y rhai y digwyddai ymddyddan â hwy ar y pwnc fod "dialedd o gyfoeth" wedi ei adael yn yr hen Waith, ac o dipyn i beth yr oedd y mŵnwyr eu hunain, y rhai oedd wedi bod yn chwilio am flynyddau am y plwm ac wedi methu ei gael, wedi dyfod i gredu yr un peth, ac yn mhen ychydig amser tystiai ambell un o'r hen weithwyr fod yn Mhwllygwynt "blwm fel gwal," yn gorwedd, erbyn hyn, dan y dŵr! Edrychid ar Capten Trefor fel merthyr Cwmni Pwllygwynt, ac oni bai fod y mŵnwyr mor dlawd buasent yn gwneud tysteb iddo. Gan nad allent roi mynegiad o'u teimlad yn y ffordd o dysteb, bu raid iddynt foddloni ar felldigo Cwmni Llunden, a rhoi eu goglyd a'u gobaith am y dyfodol yn nhiriondeb, gallu, a dyfeisgarwch Capten Trefor. Chware têg i'r Capten, nid oedd yntau yn fyr

o drwsio lampau eu gobaith. Prin y gallai fyned o'i dŷ na chyfarfyddai efe ryw weithiwr neu gilydd, yr hwn a droai lygad pryderus ato, gan ddisgwyl rhyw air y gallai hongian ei obaith arno. Edrychai y Capten arno gyda llygad tosturiol—cymerai afael yn gartrefol yn lapel ei gôt a dywedai yn fwyn—

"Wel, Benjamin bach, mae pethau yn ddifrifol on'd ydynt? Ond mi wyddwn er's tro mai i hyn y doe hi. Beth arall oedd i'w ddisgwyl, gan na chawn fy ffordd fy hun o drin y Gwaith yn y modd goreu? Ond peidiwch rhoi'ch calon i lawr, Benjamin, mi droiff rhywbeth i fynu rai o'r dyddiau nesaf yma. Gawsoch chwi fwyd, Benjamin, heddyw? Wel, wel,—rhoswch—cymerwch y *note* yma ac ewch at Miss Trefor," a thynai y Capten ddarn o bapyr o'i boced ac ysgrifenai arno mewn *lead pencil*—"*Dear Susi—give this poor devil a bite of something to eat.*" Digwyddai peth fel hyn yn mron yn ddyddiol. Ymdrechai y Capten yn feunyddiol godi ysbryd cystuddiedig y gweithwyr, ac anfynych y methai loewi gobaith ambell un oedd ar ddarfod am dano. Sicrhâi y Capten y byddai i rywbeth droi fynu yn fuan i roddi gwaith i'r mŵnwyr, er nad oedd efe yn pwyntio at ddim pendant. Mynych y cyferchid ef gan y masnachwyr oeddynt wedi ac yn "trystio" y gweithwyr am ymborth—"Capten Trefor, ydach chi'n meddwl fod gobaith i Bwllygwynt ail gychwyn?" "Syr," atebai y Capten, "ni fynwn er dim a welais greu gobeithion gau. Nid peth anmhosibl ydyw i Bwllygwynt ail gychwyn, ond y mae hyny yn bur annhebygol. Os ail gychwynir y Gwaith ni fydd a wnelwyf fi ddim âg ef ond ar un telerau—sef y caniateir i mi gael fy ffordd fy hun, a chwi wyddoch, Mr. Jones, mor anodd ydyw i ddyn—pan na fydd ond gwas i'r Cwmpeini—gael ei ffordd ei hun er i'r ffordd hono fod yr un oreu. Fel mater o ffaith, syr, pe cawswn i fy ffordd fy hun, fe fuasai Pwllygwynt heddyw nid yn unig yn myn'd, ond hefyd yn talu yn dda i'r Cwmpeini. Ond rhyngoch chwi a fi—daiff o ddim pellach *just* yrwan, Mr. Jones?—rhyngoch chwi a fi, mae fy llygad nid ar Bwllygwynt, ond ar rywle arall. Cewch glywed rhywbeth rai o'r dyddiau nesaf. Mewn cymydogaeth fel hon, sydd mor gyfoethog mewn mŵnau, fe egyr Rhagluniaeth rhyw ddrws o ymwared yn fuan. Mewn ffordd o siarad, nid ydyw hyny, i mi yn bersonol, nac yma nac acw. Ar ol yr oll helynt, y pryder a'r siomedigaethau, mae'n bryd i mi gael gorphwys.

Ond sut y medraf orphwyso tra nad allaf fyned allan o'm tŷ heb gyfarfod degau o ddynion truain yn segura, ac nid hyny yn unig ond yn dyoddef angen. Na, syr, er fy mod wedi cyraedd yr oedran hwnw pryd, mewn ffordd o siarad, yn ol trefn natur, y dylai dyn gael gorphwys a chael hamdden i feddwl am bethau pwysicach ac ymbarotoi ar gyfer y siwrnai fawr sydd yn ein haros oll—pa fodd y medraf orphwyso? Nid wyf yn annghofio, syr, eich bod chwi, ac eraill sydd yn y cyffelyb amgylchiadau, sydd, o'ch caredigrwydd, wedi coelio y gweithwyr, druain, â digon o ymborth i gadw corph ac enaid wrth eu gilydd—nid wyf yn annghofio, meddaf, fod arnoch eisiau eich arian—hyny ydyw, nid am nad ellwch wneud hebddynt—ond am fod yn iawn i chwi eu cael. Na, syr, gyda thipyn o ysbryd anturiaethus ar ran y rhai sydd wedi llwyddo tipyn yn y gymydogaeth, a bendith Rhagluniaeth, fe fydd golwg arall ar bethau yn mhen ychydig wythnosau, Mr. Jones."

Fel hyn, yn ngwyneb yr amgylchiadau cyfyng a'r tlodi mawr oedd yn yr ardal, yr oedd y Capten yn cadw y mŵnwyr ac eraill ar flaenau eu traed mewn disgwyliadau am rywbeth i droi i fynu. Yn y cyfamser, ymwelai Enoc Huws yn fynych â Thy'nyrardd, ac ni chauodd y cymydogion eu llygaid rhag gweled hyn. Sylwyd fod Enoc mewn bỳr amser wedi ymdwtio ac ymloewi gryn lawer. Yr oedd y gŵr difrifol, y masnachwr cefnog, ond diofal yn ngylch ei wisgiad, wedi sythu, ymhoewi, ac ymdecâu nid ychydig. A rhyfeddach fyth, gwelwyd fod Miss Trefor, hithau wedi dofeiddio, sobreiddio, ac wedi taflu ymaith ei holl addurniadau. Pa gasgliad arall y gallai y cymydogion dd'od iddo heblaw fod Enoc Huws a Miss Trefor yn cymhwyso eu hunain i'w gilydd? Am ddyddiau rai ni fu y fath fyn'd a dyfod i yfed tê yn mhlith y cymydogesau er mwyn cael cyfleusdra i drin yr achos. Dechreuid pob ymdrafodaeth a fu ar achos Enoc drwy gymeryd yn ganiatäol ei fod ef a Miss Trefor wedi eu dyweddïo. Cydolygid yn gyffredinol fod Miss Trefor yn llawer mwy ffortunus yn ei dewisiad nag Enoc. Cyfaddefid gydag unfrydedd fod Enoc yn gefnog, ac yn un tebyg o wneud gŵr da, tra na feddai Miss Trefor ddim i'w ganmol ond prydferthwch canolig, yr hyn, wedi'r cwbl, nad oedd o un gwerth tuag at *fyw*, ac hefyd "*ideas*" ffol —neu mewn geiriau eraill—falchder penwan. Pryderai y boneddigesau hyn—ac nid ydyw o un dyben, un amser, dweyd

wrth y rhyw hwn am edrych ar ol eu busnes eu hunain—pryderai y boneddigesau hyn a allai diwydrwydd ac ymroad a llwyddiant masnachol Enoc gadw i fynu—am gadw ar y blaen yr oedd hyny yn anmhosibl—â drychfeddyliau Miss Trefor. Ysgydwai ambell i hen ferch anobeithiol ei phen yn arwyddocäol a phrophwydoliaethol, "er nad oedd *hi* yn dweyd dim, nac yn hidio dim pwy a gymerai Enoc Huws yn wraig iddo." Ni phetrusai ambell fam, gyda thŷaid o ferched anfarchnadol, ddatgan ei meddwl yn groew "ei bod wedi ei siomi yn fawr yn Enoc Huws—ei bod wedi arfer edrych arno fel dyn o farn, ac yn sicr fel dyn oedd yn grefyddol. Ond mai felly y digwydda yn aml—y rhai oeddid yn meddwl mwyaf o honynt oeddynt yn ein siomi fwyaf." Dywedid fod rhai o'r mamau hyn hyd yn nod wedi newid eu barn am y tê a werthid gan Enoc, ac yn protestio y byddai raid iddynt "dreio rhyw siop arall." Ond *tê* a werthid gan Enoc, serch hyny, ac nid deiliach wedi eu hel o din y gwrychoedd yn China! Yr oedd Enoc wedi gwneud enw iddo ei hun am dê da, ac wedi i'r mamau "dreio rhyw siop arall" a chael allan nad oedd effeithiau y tê lawn mor ddawn gynyrchol, dychwelasant o un i un i Siop y Groes gyda'u ffyddlondeb arferol, er fod eu trwynau fymryn yn fyrach. Gan nad pa faint o wir oedd yn yr ystori fod Enoc a Miss Trefor yn "*engaged*," tramwyodd y newydd trwy y gymydogaeth gyda'r fath gyflymdra a ddygasai wrid cywilydd i wyneb y gwefrhysbysydd, a chan nad pa faint o gywreingarwch sydd yn y darllenydd am wybodaeth gywir am wir ragolygon Enoc, rhaid i mi am ychydig droi at faterion eraill.

## PENNOD XX.

### DOETHINEB SEM LLWYD.

Mi gredaf fod Sem Llwyd cystal teip o'r mŵnwr ag a gyfarfum i erioed. Yr oedd yn fŷr ac eiddil o gorpholaeth—ei wyneb yn felyn-lwyd a theneu—ei gefn yn crymu tipyn—ei frest yn bantiog, a'i anadl yn brin ac afrwydd—yn pesychu'n dost—yn ysmocio o getyn bŷr—yn bwysig, gwybodus, a hunan-ddoeth, ac yn hen ŵr, o ran yr olwg, cyn cyrhaedd ei driugain mlwydd oed! Yr oedd gan Sem doraeth o wallt llwydgoch, yr hwn, er nad oedd yn llaes, na phrofodd, gellid tybio, erioed fin y siswrn, ond a ddeifid bob gauaf gan y gwynt a'r rhew, yr un fath a'r gwrychoedd. Yr oedd ei lais yn gras-gryf, annghymesur, fel pe na buasai yn perthyn iddo ef ei hun, neu fel pe buasai wedi ei etifeddu yn ol ewyllys rhyw berthynas ymadawedig, yr un fath a'r gôt a wisgai ar y Sabboth, yr hon oedd yn rhy fawr iddo o lawer. Oni bae y gwyddid i sicrwydd beth oedd oedran Sem, buasid yn tybied mai rhywun ydoedd o'r oynoesoedd a adawyd gan angau fel un rhy ddiwerth i'w gynhauafu. Cofus genyf fod rhyw syniad ffol yn fy meddwl mewn perthynas i Sem—sef na fyddai efe farw, ac mai adfaelio o dipyn i beth a wnai nes cyrhaedd diddymdra. Yr oedd Sem yn hoff iawn o gymdeithas—nid yn gymaint er mwyn derbyn ag er mwyn cyfranu addysg, ac, fel pawb o'r hil ddynol, hoffai ymweled â'r teuluoedd a chymdeithasu â'r bobl a edmygent fwyaf ei ddoethineb. Tra yr oedd Pwllygwynt "yn myn'd," nid oedd Sem yn brin o gyfleusderau dyddiol i ysgafnhau ei fynwes, er, fel y dywedwyd yn y benod o'r blaen, y byddai efe, yn mhlith ei gydweithwyr, yn wyliadwrus iawn pa beth a pha fodd y llefarai, ac yn rhoi ar ddeall bob amser ei fod yn gwybod mwy o lawer nag a adroddai. A pho fwyaf a fyddai y newyn am wybodaeth, dyfnaf yn y byd y ceisiai Sem wneud yr argraff fod digon o ŷd yn ei Aifft ef ei hun. Byddai hyn, weithiau, yn brofoclyd iawn, oblegid pan amlygid cywreingarwch mwy na chyffredin am wybod rhywbeth, rhoddai Sem

awgrymiad digamsyniol y gallai efe pe buasai yn dewis roddi yr holl wybodaeth a ddymunid, ac yna syrthiai i ddistawrwydd doeth, gan dynu mwy o fŵg o'i getyn a throi clust fyddar at bob cais a chwestiwn. Wedi i Bwllygwynt sefyll, deuai ambell i fŵnwr o eithafion y gymydogaeth—fel y daeth brenines Sheba gynt at Solomon—i wrando doethineb Sem, ac er na ddychwelai y mŵnwr gyda yr un argraff ag a adawyd ar feddwl yr hen chwaer o Sheba, gwn nad oedd ymwybyddiaeth Sem Llwyd o ddiderfynolrwydd adnoddau ei wybodaeth a'i ddoethineb fymryn yn llai na'r eiddo Selyf.

Yr anedd nesaf i dŷ Sem Llwyd oedd y Twmpath, preswylfod hen gydnabod y darllenydd, sef Thomas Bartley, ac nid wyf yn sicr na theimlai Thomos yn y ffaith hon raddau o'r un peth ag a welais yn chwyddo brest ambell un ddigon diddim yn y Bala, yn yr ymsyniad ei fod yn byw yn yr un dref a chawr y genedl Gymreig. Drwy fod Sem, erbyn hyn, yn segur, nid anfynych yr anrhydeddai efe y Twmpath â'i bresenoldeb. Gallasai gŵr heb fod mor syml a Thomas Bartley briodoli amcanion hunanol i ymweliadau Sem. Yr oedd Thomas, fel y cofia y darllenydd, yn ŵr diddysg, difeddwl-ddrwg, ond hynod gydwybodol a darbodus. Ar yr olwg gyntaf gadawsai argraff ar y dyeithr nad oedd efe "yno i gyd." Ond yr oedd yn Thomas Bartley rhyw fath o graffder anymwybodol a diffuantrwydd eglur i bawb a'i hadwaenai. Yr wyf yn meddwl mai ei nodweddion mwyaf arbenig oeddynt cariad at yr hyn oedd syth, union, a theg, a charedigrwydd dibendraw. Mewn gair bŷr, yr oedd yn Thomas anhebgorion "cymydog." Dichon y buasai penglogydd yn dweyd ar ol ei chwilio mai yr ermig fwyaf amlwg ynddo oedd yr "*organ of wonder*." Yr hyn oedd yn Thomas a ddeuai allan, ac nid oedd ganddo ddim stoc wrth gefn, fel y *tybid* fod gan Sem Llwyd. Yn wir, anfynych y gallesid cael dau ŵr mor wahanol, fel y gwelir oddiwrth yr ymddyddan canlynol, yr hwn gymerodd le yn ystod un o'r ymweliadau y cyfeiriwyd atynt. Yr oedd Thomas, pan ddaeth Sem i mewn, newydd orphen rhoi clem ar esgid, ac yn prysur roddi *black ball* arni, gan wasgu sawdl yr esgid yn erbyn ei gylla, ac yn rhwbio yn egnïol nes oedd gwythienau ei dalcen can dewed a bŷs. Gan godi ei ben a chau un llygad, a dal ymyl yr esgid rhyngddo â'r ganwyll, ebe Thomas—

"Wel, Sem, lle buoch chi'n cadw, ddyn? 'Rydw i wedi bod

yn y'ch disgwyl chi drw'r dydd. A chithe ddim yn gweithio, fase waeth i chi roi'ch clun i lawr yma na phendwmpian gartre. Ewch at y tân, Sem, mi fydda wedi gorphen yr esgid yma mewn dau funyd, ag ono mi gawn smogen a mygòm."

"Raid i ddyn sy'n medru darllen, er i fod o allan o waith, ddim pendwmpian, Thomas," ebe Sem.

"Twbi shwar," ebe Thomas, "'rydw i'n rhy at o feddwl fod pawb 'run fath a fi fy hun. Os na fydda i'n gweithio, ne'n smocio, ne'n byta, mi fydda'n cysgu; dyna *just* y pedwar peth ydw i'n neud yn yr hen fyd yma."

"Rhw fyd go sâl fydde fo bydae pawb 'run fath a chi, Thomas," ebe Sem.

"Siampal!" ebe Thomas, "ac eto, 'rydw i reit cyfforddus, a dydw i ddim yn gweld y rheini sy'n sgolars yn rhw helynt o bethe—'rydw i lawn gystal fy off a rhan fwya o honyn nhw—diolch i'r Brenin mawr am hyny. Achos os ceiff dyn fwyd a diod ac iechyd, be chwaneg sy gyno fo isio?"

"Rydach chi'n anghofio, Thomas," ebe Sem, "fod gan ddyn feddwl ac enaid, ac y mae isio porthi'r enaid cystal a'r corph."

"Twbi shwar, ydach ddim yn meddwl y mod i mor ddwl a hyny, Sem? Achos i be yr yden ni'n myn'd i'r capel, blaw i gael *profigwns* i'r ened? Deyd yr ydw i, Sem, na feder dyn ddim byw ar ddoethineb. Achos dyma chi a fine, 'rwan, y fi yn ddyn dwl a chithe'n sgolor, ac er y mod i'n blwc hŷn na chi, mi gymra fy llw y pwysa i ddau o honoch chi, Sem, er y'ch holl ddoethineb, achos 'rydach chi'n edrach mor dila, ddyn, a bydaech chi'n byw ar bot pâst," ebe Thomas.

Yn y fan hon goddiweddwyd Sem gan bangfa ofnadwy o besychu, a chyn i'r bangfa fyned drosodd yr oedd Thomas wedi rhoi ei waith o'r neilldu ac wedi eistedd gyferbyn a Sem yr ochr arall i'r tân ac yn edrych arno yn sỳn, ac ebe fo—"Wyddoch chi be', Sem? 'daswn i ddim yn y'ch nabod chi, a gwbod bod chi 'run fath ddeng mlynedd yn ol ag ydach chi 'rwan, faswn i'n rhoi'r un ffyrling am y'ch bywyd chi? Wel, ond ydach chi'n pesychu, ddyn, fel bydae chi'n myn'd i farw! Cym'rwch smogen, Sem, gael i'r pẁl fyn'd drosodd. Barbra, gwna paned o goffi i ni, a thipyn o facyn i iro tipyn ar du mewn Sem yma, ne' chawn ni ddim byd o hono fo, gei di wel'd. Sem, wyddoch chi pwy rôth y blwch baco ene i mi? 'llenwch y peth sydd ar y ccuad."

"Mi wela," ebe Sem, gan ddarllen yr argraff ar y cauad:—

*Presented*
*to*
*Thomas Bartley, Esq.,*
*By his humble admirer,*
*W. Bryan.*

"Pry garw oedd y bachgen hwnw," ebe Thomas, "ys gwn i lle mae o 'rwan? Sem, 'rydw i wedi meddwl gofyn i chi gantodd o weithie, ond y mod i'n anghofio—pwy ddusgyfrodd baco? Ddyliwn fod *chi*'n gwbod, Sem?"

"Indigo Jones," ebe Sem.

"Ai e!" ebe Thomas. "Rhw enw go od hefyd, mae fel bydae 'i haner o'n Gymro. Ai Cymro oedd o, Sem?"

"Ië, debyg," ebe Sem.

"Wel, bendith ar ei ben o, medda' i! Oes gynoch chi rhw aidi', Sem, faint o amser sy er hyny?" gofynai Thomas.

"Rhw aidi'?—ddyliwn fod gen i—tua phymtheg cant o flynyddoedd yn ol," ebe Sem.

"Dyn fo'n gwarchod!" ebe Thomas, "a mae cymin a hyny, Sem? Wyddoch chi be, mae ambell i smogen wedi i chael er hyny!"

"Oes, Thomas, i mae. Ië, tuag amser batel Waterlŵ y dusgyfrwyd y baco," ebe Sem.

"Hoswch chi, Sem, ydach chi'n peidio i phonsio ni 'rwan? Ond oedd brawd i nhad ym matel Waterlŵ pan oeddan nhw'n ymladd yn erbyn Boni?"

"Hwyrach hyny," ebe Sem, "sôn yr ydw i am y fatel yn erbyn Polion, bymtheg cant o flynyddoedd yn ol."

"Ho, deudwch chi hyny," ebe Thomas, "chlywes i 'rioed sôn am y fatel hono. Pwy aeth â hi, Sem?"

"Y ni, debyg," ebe Sem.

"Ië, ddyliwn," ebe Thomas. "Ond gan ein bod ni efo'r pwnc, ai gwir ydi'r stori, Sem, fod gwas Indigo Jones 'ma, pan welodd o'i fistar yn smocio'r tro cynta', wedi tywlu bwceded o ddŵr am i ben o?"

"Mae traddodiad felly'n bod, Thomas," ebe Sem, "ond welis i 'run hanesydd o ymddiried yn sôn am hyny."

"Mi greda hyny'n hawdd," ebe Thomas, "achos pwy fase'n ffasiwn ffŵl? Peth arall ydw i isio ofyn i chi, Sem, yn mhw wlad y daru'r Indigo Jones 'ma ddusgyfro'r baco?—ddyliwn mai yn rhai o'r gwledydd tramor ene?"

"Ië, Thomas, yn Bristol," ebe Sem.

"Ho, felly," ebe Thomas, "dene sut mae cymin o sôn am faco Bristol, ond dydw i'n hidio fawr am dano fo—well gen' i fy hun faco Caer, ond pawb at i ffansi, fel y deydodd y dyn wrth roi cusan i'r gaseg. Ond dene ddigon ar nene. Y gwaetha arna i ydi ar ol i mi gael gwybodaeth i sicrwydd ar bethe fel hyn, y mod i'n 'u anghofio nhw'n union. Ond deydwch i mi, —mae o'n taro i meddwl i—oedd ene ddim rhw saer maen go glyfar es talwm o'r enw Indigo Jones, ddaru neud tŵr Llunden, Pont Llanrwst, Castell Rhuddlan, Castell Carnarvon, a lot o bethe fel ene, mae rhw aco gen' i glywed am ddyn tebyg arw i'r Indigo Jones 'ma?"

"Mae'r pethe ydach chi'n sôn am danyn nhw, Thomas," ebe Sem, "wedi 'u gneud cyn y cyfnod Cristionogol—o dan yr hen oruchwyliaeth—rai miloedd o flynyddoedd cyn i Indigo Jones gael ei eni, ac felly 'does dim sail i gredu yr hanes."

"Gwarchod pawb!" ebe Thomas, "ac fel y clywch chi bobol yn siarad sy' ddim yn sgolors, nac yn gwbod dim am hanesyddiaeth! Ond dowch i ni ddwad yn nês gartre, Sem, achos yr ydw i wedi sylwi pan aiff pobol i sôn am bethe sy cyn co' dyn nad ydyn nhw ddim yn byticlar yt ôl am rhw fil neu ddwy o flynyddoedd. Deydwch i mi oes ene rw sein i Bwllygwynt ene ailgychwyn?"

"Dim, Thomas, cyn belled ag y gwn i, ac yr ydw i'n gwbod cymin a neb ar y pen ene," ebe Sem.

"Nag oes, ddyliwn," ebe Thomas, "y syndod ydi fod o wedi dal cyd. Wyddoch chi be, Sem, mae'n rhaid fod yr hen Waith ene wedi costio dialedd o arian i rwfun, a mi wranta fod lot o honyn nhw, erbyn hyn, yn rhegi 'u manars yn braf ac yn barod i dywlu'r hen Drefor i lawr y *shafft*, achos mi gymra fy llŵ mai fo sy wedi 'u boddro nhw."

"I boddro nhw, Thomas? be 'dach chi'n feddwl? Bydase'r Capten wedi cael i ffordd ei hun—a fy ffordd ine hefyd, o ran hyny—mi fase Pwllygwynt yn talu'n iawn, achos y mae yno wlad o blwm, bydase nhw'n myn'd ato yn y ffordd iawn," ebe Sem.

"Gwlad o blwm, Sem? Peidiwch a siarad nonsens, ddyn glàn. Os oes yno wlad o blwm, p'am na fasech chi'n dod a thipyn o hono fo i'r lan? Wyddoch chi be, Sem, dydw i ddim yn meddwl fod lot o bobol mwy twyllodrus na meinars ar chwyneb y ddaear. Weles i 'rioed waith mein na ddeydo'r meinars fod yno wlad o blwm, ond fod nhw heb fyn'd ato, ne' fod y dŵ'r yn 'u rhwstro nhw, ne' rhw godyl fel ene. Ac os bydd Gwaith wedi stopio, mi fydd y bai ar bawb blaw nhw 'u hunen, fforsŵth. Wyddoch chi be, Sem, mi fydd gynoch chi'r meinars 'ma aped mawr i'w roi rhw ddiwrnod. A 'rydw i'n credu yn y nghalon fod yr hen Drefor ene, er i fod o'n aelod efo ni, waethed sort a 'run a welis i, ond i fod dipyn yn respectol. Creuddwch at y bwyd, Sem."

"Pob parch i chi yn y'ch tŷ'ch hun, Thomas," ebe Sem, "ond wyddoch chi fawr am waith mein. Hwyrach y synwch chi, Thomas, pan ddeyda i fod meinars yn amal yn gwbod i sicrwydd fod digon o blwm yn y fan a'r fan, ond na fedra nhw ddim myn'd ato, ac yn amal er y gwyddan nhw y *gallan* nhw fyn'd ato, na chan nhw mo'u ffordd eu hunen i fyn'd ato gan rwrai eraill sy'n 'u rheoli nhw, a'r rhai hyny yn amal na wyddan nhw ddim mwy na chithe am waith mein. A chyda golwg ar Capten Trefor mi ddeyda hyn: na welis i neb erioed—a 'rydw *i* wedi gwel'd llawer—y sydd gystal meistr ar i waith. Fe ŵyr i'r dim sut i weithio gwaith mein, pe cai o'i ffordd ei hun, a mae'r Capten a fine bob amser o'r un meddwl."

"Mae'n well gen' i," ebe Thomas, "i *chi* fod o'r un meddwl a fo, na fi. Rhyngoch chi a fi, leicies i 'rioed mo'r dyn. Nâth o 'rioed ddim byd *i* mi, ond edrach dipyn yn sgoiwedd arna i, ond dda gen' i mo'no, waeth gen' i bydae 'i ddwy glust o'n clywed. Rhw ŵr boneddig heb 'run stâd ydw i'n i wel'd o. Mi weles ambell un o'i sort yn f'oes—dynion yn myn'd ar gefn'u ceffylau ar gôst y cwmpeini, ac yn dwad i'w *clogs* yn y diwedd. Peth arall, leicies i 'rioed mo'r dyn yn y capel; mae o'n dwad yno fel bydae o'n gneud ffafar i'r Brenin mawr, ac, fel bydae, y tore'r Brenin mawr i fynu bydae *o*'n cadw oddno. Dda gen' i mo'r sort, Sem. Mae isio i ni gyd fod 'run fath yn y capel, a phawb i'w le ar ol myn'd allan. A pha'm na weddïe'r dyn? dyn gwbodus a thafodog fel fo? Ond welis i 'rioed mo'r dyn ar 'i linie, a mae hyny yn ddigon o brŵff gen' i fod rhwbeth y mater efo cydwybod y dyn, achos dydio ddim yn nerfws, mi ŵyr pawb

hyny. Gewch chi wel'd, Sem, os byddwn ni byw ac iach, y cawn ni wel'd y dyn ene wedi colli 'i blu."

"Thomas," ebe Sem, "'rydw i'n synu atoch chi'n siarad fel ene am ddyn parchus fel y Capten—dyn sy wedi gwneud cymin i'r ardal yma. Be ddeuthe o honom ni blaw am ddynion fel Capten Trefor? Mi fasen wedi llwgu."

"Llwgu ne' beidio, Sem," ebe Thomas, "'rydw i'n mawr gredu y base'n gwlad ni yn well *off* o'r haner heb rhw wâg ladron fel ene sy'n byw ar foddro a thwyllo poblach ddiniwed ar hyd y blynyddoedd. Ond mi rown *stop* arni yn fan ene, Sem, ne' mi awn i ffraeo. Deydwch i mi, oes ene rw wir yn y stori fod merch y Capten ag Enoc Huws yn codlo rhwbeth?"

"Wel," ebe Sem, "hwyrach y medrwn i roi tipyn o oleuni ar hyny bydawn i'n dewis, ond y mae pobol yn amal yn siarad dan 'u dwylo, Thomas."

"A mae rhwbeth yn y peth ynte?" ebe Thomas.

"Ddeydes i mo hyny," ebe Sem.

"A chelwydd ydi'r cwbwl ynte?" gofynai Thomas.

"Ddeudes i mo hyny chwaith," ebe Sem.

"Wel, be *ydach* chi'n ddeyd, ddyn? Wyddoch chi be, Sem, 'rydach chi'r meinars ma wrth siarad am y pethe mwya sumpyl yn trio 'u gneud nhw can dwlled a bol y fuwch ddu, na ŵyr neb ar chwyneb y ddaear lle 'rydach chi o'i chwmpas hi."

"Dydi'r pethe sy'n ymddangos yn sumpyl i rai pobol ddim yn sumpyl i bawb, Thomas," ebe Sem. "A dydi dyn ddim yn sypôsd i ddeyd pobpeth a ŵyr o, ne' mi fydde pawb galled a'u gilydd. Ac heblaw hyny, Thomas, y mae i bethe eu hamser ac i amser ei bethe."

"Wel, wyddoch chi be, Sem, yr *ydach* chi'n un doeth hefyd! Mi fydda ine, fel ffwlcyn, yn deyd pobpeth wn i'n ffrwt, a mi fum yn synu lawer gwaith na faswn i wedi dwad i scrâp cyn hyn," ebe Thomas.

"Thale hi ddim i *bawb* fod felly, Thomas," ebe Sem. "Pe baswn i'n un felly mi fase ambell i gynllun wedi 'i andwyo cyn iddo addfedu. Mi fydd ambell un yn trio tynu oddiarna i, ond mi fydda'n cymyd pwyll, ac yn cadw'r cwbwl i mi fy hun nes daw'r amser priodol."

"'Rydach chi felly, Sem," ebe Thomas, "yn meddwl fod rhwbeth yn y stori am ferch y Capten ag Enoc Huws, ond fod yr amser heb ddwad i ddeyd hyny?"

"Ddeydes i ddim ffashwn beth, Thomas," ebe Sem, "ond mi ddeyda hyn, fod o'n biti o beth pan ddeidiff rhwfun rwbeth wrthoch chi *in confidence*, na fasech chi wedi dysgu 'i gadw fo i chi'ch hun. Ond mae hyny i'w briodoli, yn ddiame, i ddiffyg addysg yn more'ch hoes."

"Digon tebyg, wir, Sem, achos pan ddeydiff rhwfun rwbeth wrtha i, ac yn enwedig os deyda nhw wrtha i am beidio deyd hyny wrth neb arall, mae o'n dechre llosgi yn y mrest y munyd hwnw."

"Piti mawr ydi hyny, Thomas," ebe Sem. "A chyda golwg ar y peth yr yden ni wedi hintio ato, mi ddeyda hyn: mai y rhai sy'n gwbod leiaf am y peth sydd yn siarad yn fwya ffri yn 'i gylch, a'r rhai sy'n gwbod y cwbwl sy'n deyd dim."

"Ho!" ebe Thomas.

"Be bydae ni'n deyd fel hyn, 'rwan," ebe Sem, "mae Enoc Huws yn un sydd wedi gwneud llawer o arian, a mae arno angen am wraig. Mae Miss Trefor yn ferch ifanc sydd wedi cael addysg dda, a fydde raid i neb fod gwilydd o honi. Purion. Be bydae y ddau yn priodi, be fydde gan neb i ddeyd am hyny? Ne' be bydae ni'n deyd fel hyn: na ddaru Enoc Huws erioed feddwl am Miss Trefor na hithe am dano yntau. Be fydde hyny i neb arall? Ydach chi'n nallt i, Thomas?"

"Digon prin yr ydw' i'n y'ch canlyn chi, Sem. Ai deyd yr ydach chi nad oes dim byd yn y peth?" gofynai Thomas.

"Ddeydes i ddim ffashwn beth, Thomas," ebe Sem.

"Ho," ebe Thomas, "deyd yr ydach chi, ynte, fod rhwbeth yn y stori?"

"Ddeydes i ddim o'r fath, Thomas, a pheidiwch a deyd wrth neb y mod i wedi deyd ffashwn beth," ebe Sem.

"*Give it up*, ynte," ebe Thomas. "Ond deyd y gwir yn y'ch gwyneb chi, Sem, yr ydw' i'n leicio'ch sgwrs chi yn anwêdd bob amser, ond yr ydw i'n medru dallt pawb, 'rwsut, yn well nag ydw i'n y'ch dall chi, Sem. Wn i ddim be ydi'r achos o hyny, ond dene'r gwir am dani. Mi wn mod i'n ddwl, siampal."

"Wel," ebe Sem, "be bydae ni'n edrach ar y peth fel hyn, ynte: mae gan Enoc Huws arian—'does neb yn ame hyny. Mae gan Capten Trefor wybodaeth a phrofiad; a be os ydi'r ddau yn consyltio â'u gilydd gyda golwg ar ryw fentar newydd."

"Ai gesio 'rydach chi, Sem?" gofynai Thomas yn wyliadwrus.

"Gesio? nage, fydda i byth yn gesio, Thomas, a dda gen' i mo'r bobol sydd yn gesio heb sail yn y byd am y pethe mae nhw'n ddeyd," ebe Sem.

"A mae hi'n ffact, ynte, fod y Capten ac Enoc ar gychwyn mentar newydd?" ebe Thomas.

"Ddeydes i ddim fod o'n ffact, Thomas," ebe Sem, "pan mae rhywbeth yn ffact 'does dim isio 'i ddeyd o—mae o'n eglur i bawb. Ond y mae rhw bethe nad oes neb ond y rhai sy'n gallu gweled yn mhellach na'u trwynau yn 'u gwybod nhw. Mi wyddoch hyn, Thomas, nad oes neb yn gwybod cymin o feddwl y Capten a fi? Ydach chi'n y nallt i, Thomas?"

"Wel ydw', os ydw' i hefyd," ebe Thomas. "Y'ch meddwl chi ydi hyn, Sem—fod y Capten o'i chwmpas hi yn trio sycio Enoc Huws i mewn i gychwyn rhw fentar newydd?"

"Dim ffashwn beth, Thomas, a chymerwch ofal na ddeydwch chi wrth neb mod i'n deyd hyny," ebe Sem.

"Mae'n dda gen' i glywed hyny, Sem," ebe Thomas, "achos y mae gen' i barch calon i Enoc Huws. 'Rydw i'n credu bob amser mai dyn syth a gonest ydi Enoc Huws. Mae o'n fachgen sy wedi dwad yn i flaen yn ods, a hyny mewn ffordd gyfiawn. Wyddoch chi be? yr ydw' i wedi prynu dialedd o fwyd moch gan Enoc, a weles i 'rioed ddim o'i le arno. Mae nhw'n deyd i mi, Sem, y medre Enoc Huws fyw ar i arian pan fyne fo. A dene sy'n od—mae o'n un o'r rhai gore yn y capel. Wn i ddim sut mae hi efo chi, y Sentars acw, ond efo ni, os bydd dyn yn dwad yn 'i flaen dipyn efo'r byd 'ma, welwch chi gip arno yn y capel, ond tipyn ar y Sul. Ond am Enoc, anamal mae o'n colli moddion. Gobeithio'r anwyl nad ydi o ddim yn myn'd i ddechre mentro, achos er mor dda mae o wedi gwneud, fydde'r hen Drefor fawr o dro yn lluchio 'i bres o i gyd i lawr shafft gwaith mein, na wele fo byth 'u lliw na'u llun nhw, 'run fath ag y gnath o efo pres Hugh Bryan, druan. Wyddoch chi be, Sem, 'rydw i'n cofio Hugh cystal *off* a neb yn y fan yma, cyn iddo fyn'd i grafangc yr hen Drefor."

"Peth garw iawn, Thomas," ebe Sem, "ydi i ddyn siarad am rwbeth allan o'i lein. 'Dydw i'n ame dim, Thomas, nad y chi ydi'r crydd gore yn y wlad yma, ac fel *judge* ar fochyn, mi

wn na churiff neb monoch chi. Ond y mae gwaith mein allan o'ch lein chwi, mi newch adde' hyny, Thomas?"

"Be haru chi ddyn?" ebe Thomas, gan godi tipyn ar ei lais. "Ond oedd gen' i chwarter owns o waith y Top, ag on waries i bump punt ar hugen yno na welis i byth wymeb y delyn o honyn nhw, heblaw be waries i am ddiod! On fedde gynon ni gyfarfod yn y *Brown Cow* bob nos Lun cynta o'r mis i edrach dros bethe ac i dalu'r arian, ac hyd i'r noswaith ddwaetha yr oedd y meinars yn dweyd ar 'u gwir fod yno well 'golwg' ar y Gwaith nag a fu 'rioed, ag y bydde ni gyd yn fyddigions, a fine fel ffwl yn talu am lasus rownd wrth feddwl mor gyfoethog fyddwn i. Yr hen geriach!"

"Thomas," ebe Sem, gan godi ar ei draed i ymadael, "ddeydes i ddim gantodd o weithie na chaech chi ddim plwm yn Ngwaith y Top?"

"'Doeddach *chi*, Sem," ebe Thomas, "ddim yn gweithio yn y Top nac yn cyfarfod yn y *Brown Cow*. Bydase chi yn un o honyn nhw, 'does neb ŵyr be fasech chi'n ddeyd. Ond 'dawn ni ddim i ffraeo. Ydach chi ddim am i chychwyn hi mor gynar, ydach chi, Sem?"

"Ydw, Thomas, mae hi'n dechre myn'd yn hwyr," ebe Sem.

"Wel, brysiwch yma eto," ebe Thomas, gan agor y drws, ac wedi edrych allan, ychwanegodd, "Be neiff hi heno, ddyliech chi, Sem, ai rhewi?"

"Nage, os na throiff y gwynt yn fwy i'r gogledd, ac eto, hwyrach mai rhewi neiff hi," ebe Sem.

"Thomas," ebe Barbara, wedi i Sem fyned ymaith—a hwn oedd y gair cyntaf iddi yngan er pan ddaeth Sem i'r tŷ—"Thomas," ebe hi, "be ddeydodd Sem am y siarad sy am ferch y Capten ac Enoc Huws?"

"Y nefoedd fawr a ŵyr," ebe Thomas. "Mi ddeydodd barsel o bethe y ddwy ochor fel dase, ac eto wn i ddim ar chwyneb y ddaear *be* ddeydodd o. Mi ddyffeiwn Eutun y twrne i wbod be fydd Sem wedi ddeyd a bod yn siwr. Ond y mae gan Sem, wel di, lawer yn 'i gropa."

"Mae gynofo lawer o facyn yn 'i gropa heno beth bynag. A waeth gen' i heb ddyn na wyddoch chi ddim be fydd o wedi ddeyd," ebe Barbara.

"Waeth i ti befo," ebe Thomas, "mi fydda i'n cael llawer o ddifyrwch wrth drio gesio beth fydd o'n ddeyd. Mae Sem yn

ddyn gwbodus iawn. Welest di mor handi 'roedd o'n rhoi hanes y baco i ni. Ond yr ydw' i wedi annghofio'n barod sut deydodd o. Be oedd enw'r dyn ddusgyfrodd y baco dywed?"

"Wn i ddim, na waeth gen' i chwaith," ebe Barbara.

"Rydw i'n meddwl yn siwr mai Bendigo Jones y galwodd Sem o, dae fater am hyny. Y peth gore i ni 'rwan ydi nhuddo 'r tân a myn'd i gadw," ebe Thomas.

---

## PENNOD XXI.

### "VITAL SPARK."

MAE cariad neu gâs pobl at bob sefydliad yn cael ei enyn fynychaf gan ei hyrwyddwyr, a'r rhai a fyddont yn dal y cysylltiad agosaf âg ef. Gorchwyl anhawdd i'r lliaws ydyw edrych ar sefydliad neu drefn ar wahan i bersonau. Bydded y peth mor dda ag y bo, rhaid i'w fodolaeth a'i lwyddiant ddibynu i raddau mawr ar gymeriad y bobl fydd yn nglyn âg ef. Ac y mae yn hyn gyfaddefiad, gan nad pa mor bwysig y gall egwyddor fod ynddi ei hun, fod mwy o bwys yn yr ymarferiad o honi. Gellir myned yn mhellach, a dweyd yr edrychir gyda goddefiad—ac weithiau gyda chymeradwyaeth—ar ambell sefydliad sydd ynddo ei hun yn annghyfiawn a chamwrus, a hyny o herwydd cymeriad rhinweddol y rhai fyddont yn nglŷn âg ef. Yn ngwyneb yr Ysgrythyr y mae cysylltiad yr Eglwys â'r Wladwriaeth yn gamwri dybryd. Ond pe buasai holl Offeiriaid, Esgobion, ac Archesgobion y Sefydliad, yn ddieithriad, yn ddynion bucheddol, gweithgar a duwiolfrydig, mae yn amheus a fuasai yn Nghymru heddyw Ymneillduaeth gwerth sôn am dani. Ychydig o bobl sydd, mewn cymhariaeth, mi debygaf, ag sydd wedi ymgydnabyddu â'r Beibl, a llwyddiant crefydd ysbrydol yn agos at eu calon, nad ydynt yn cymeradwyo bugeiliaeth eglwysig o ran yr egwyddor. A pha beth sydd yn fwy naturiol a rhesymol? Tra pery dynion mewn

angen am eu haddysgu, eu hyfforddi, a'u porthi âg ymborth crefyddol, rhoddir pris ar y neb a all gyflenwi yr angen—gan nad pwy a wnelo y gwaith—ai blaenor ai pregethwr. A pha beth sydd yn fwy rhesymol nag ymddiried y gwaith i'r mwyaf ei dalentau, ei addysg, a'i ymgyflwyniad? A pha beth sydd yn fwy rhesymol, os bydd dyn wedi ymgysegru i'r gwaith, na thalu iddo am ei waith? Mae deddfau cymdeithas yn penu tâl am wasanaeth, ac, yn sicr, nid ydyw yr Efengyl yn fwy dianrhydeddus na chymdeithas. Mae rhywrai, ysywaeth, yn ystyried eu hunain yn rhy dduwiol i dalu am wasanaeth crefyddol. Talu i ddyn am wneud ei ddyledswydd? meddant. Ië, debyg, ai nid am wneud ei ddyledswydd y telir, neu y dylid talu, yn mhob amgylchiad?

Ond at hyn yr oeddwn yn cyfeirio: mae y gwrthwynebiad a ddengys rhyw ddosbarth o grefyddwyr i fugeiliaeth eglwysig i'w briodoli gan amlaf i un o ddau beth—naill ai i gybydd-dod neu i ragfarn a grewyd gan fugeiliaid clerigol ac annheilwng. Gadawodd bugeiliaeth Rhys Lewis argraph dda ar feddwl yr eglwys a'i galwodd i'w gwasanaethu. Ac nid allai lai; oblegid heblaw ei fod yn ŵr ieuanc galluog ei feddwl a grasol ei galon, meddai ystôr helaeth o synwyr cyffredin—nwydd anhebgorol i fugail, ac, yn wir, i bob un y bydd a wnelo â thrin dynion o wahanol fathau. Ni fu ei wendid corphorol o nemor, os bu o ddim, anfantais i'w ddylanwad. Hwyrach i'w wendid maith ddiarfogi treisni y rhai oeddynt wrth naturiaeth dipyn yn bigog, ac enyn cydymdeimlad cywir a chynes eraill. Beichiodd ei hun â chymaint o waith ag a allai ei ysgwyddau ddal, a rhyfeddai llawer, wrth ystyried nad oedd efe yn esgeuluso ymweled â'r cleifion a'r anffyddloniaid, a myned ar ol y crwydriaid, heblaw bod yn gyson yn yr holl gyfarfodydd, a chyflawni amryw oruchwyliaethau eraill—pa fodd yr oedd efe yn gallu parotoi pregethau mor ragorol. Yr oedd peiriant ei feddwl—os goddefir i mi ddweyd felly, yn ysgogi mor nerthol a phenderfynol fel na pheidiodd fyn'd yn ei flaen pan ballodd ei iechyd. Fel y bydd y môr yn ymrolio ac yn tòni am amser wedi i'r gwynt gilio, neu fel y gwelir y trên yn myned yn ei flaen wedi i'r ager gael ei droi ymaith, felly yr oedd Rhys Lewis, am amser, wedi i'w nerth gael ei ostwng ar y ffordd, yn myned yn mlaen yr un fath gyda'i waith. Parodd hyn i'w farwolaeth ymddangos yn sydyn i laweroedd, er nad oedd felly,

ac er ei fod, iddo ef ei hun, fel peth wedi digwydd yn y gorphenol—cyn iddo gymeryd lle. Ond daeth y diwedd; a phan sibrydwyd y gair fod Rhys Lewis wedi marw, aeth tòn ddistaw o brudd-der dros galon ei gydnabyddion, ac, fel rhai wedi bod yn dyfal wylio machludiad haul ar hwyr-ddydd hâf ac yn aros yn fyfyrgar i syllu ar ei belydrau ymadawol, ysgydwent eu penau mewn trist-ddedwyddwch.

Wedi marw Rhys Lewis ymgysurai yr eglwys fod ganddi un dyn synwyrol a chrefyddol, ac abl i'w harwain yn mherson Dafydd Dafis. Hyny ydyw, yr oedd Dafydd Dafis yn un a allai "gadw seiat" cystal a nemawr bregethwr. Dilys fod y darllenydd yn cofio fath ŵr oedd Dafydd Dafis. Dyn yr un llyfr, yn mron, oedd ef. Anfynych y byddai yn gweled newyddiadur, ac ni fyddai yn ceisio dilyn yr amseroedd; ond yr oedd efe yn dilyn y Cyfarfodydd Misol a'r Cymanfäoedd gyda chysondeb. Ni welid Dafydd byth mewn cyngherdd nac Eisteddfod, ond, hyd y gallai, byddai yn mhob cyfarfod gweddi a seiat. Nid ymyrai â gwleidyddiaeth, ac ar adeg etholiad rhoddai ei bleidlais, mewn ffydd, i'r un a gefnogid yn fwyaf cyffredinol gan grefyddwyr. Yn ei olwg ef nid oedd bywyd yn dda i ddim ond i fod yn grefyddol, ac yn grefyddol yn yr ystyr a roddai ef i grefydd. Yr oedd efe yn gul ryfeddol, ac ar yr un pryd yr oedd rhyw fath o ddyfnder ynddo. Ffarmwr digon gweddol oedd efe, ac os nad oedd Dafydd yn grefyddol, nid oedd yn ddim yn y byd, y truanaf o'r holl greaduriaid ydoedd. Y ffarm, y ffair, y Cyfarfod Misol, y Sasiwn, y dyddiadur, yr almanac, y *Drysorfa*, Esboniad James Hughes, y Beibl, a'r capel, yn enwedig y ddau olaf—dyna oedd ei holl fyd a'i fywyd. Yr oedd efe yn gul, fel y dywedwyd, ond nid yn sarug. Yr oedd ei grefydd wedi ei wneud yn *sad* mewn mwyneidd-dra. Ni welais mo'hono erioed yn chwerthin ond gyda deigryn yn ei lygaid, a hyny o dan y pwlpud. Nid wyf yn meddwl y gallasai holl ddigrifwch y byd beri iddo chwerthin, ond mi wn y gwyddai Dafydd Dafis yn dda, fel y gwyddai mab Jesse, am ddigrifwch y ddeheulaw. Nid oedd efe i'w gydmaru o ran gallu ac amaethiad meddyliol âg Abel Hughes, ond yr oedd wedi yfed yn helaeth o grefyddolder y gŵr hybarch hwnw, ac nid am ddim y treuliodd flynyddau yn ei gwmni. Yr oedd ei lwyrfrydedd yn y peth yr oedd efe yn hynod ynddo, wedi

sicrhau iddo fwy o barch nac o edmygedd, yn enwedig yn mhlith y bobol ieuainc. Galarai yr aelodau oedranus a berthynont i eglwys Bethel, y rhai oeddynt yn mron gorphen ymladd â'r byd, ac wedi blino ar ei brofedigaethau, galarent na fuasent wedi byw yn debycach i Dafydd Dafis, a gwaredai yr ieuainc, er eu bod yn parchu ei dduwioldeb, rhag edrych arno fel patrwm i'w ddilyn. Fel yr wyf yn heneiddio, ac yn fy oriau mwyaf prudd, byddaf yn mron meddwl mai bywyd fel yr eiddo Dafydd Dafis ydyw yr unig fywyd gwerth ei fyw. Pan mae tenyn dyn wedi myn'd mor gwta fel nad ydyw yn *rhoi* dim wrth ei dynu, a phan deimla mai yr unig beth *mawr* sydd o'i flaen yn y byd hwn ydyw marw, nid all dim ei demtio i chwerthin yn debyg i'w ffolineb ef ei hun yn yr amser aeth heibio—y pris *a fu* yn ei roi ar sefyllfa, ar barch, ar dipyn o swydd, ar wleidyddiaeth, neu arian. Pan mae nos einioes wedi dal dyn, y fath wegi yr ymddengys yr holl fustachu sydd yn y byd! Pa bwys, erbyn hyn, ai bwthyn ai palas fydd ein trigfod? Pa bwys pwy fydd y Prif Weinidog? Ffaith heb ei chyffelyb ydyw hono yn nghylch y Parch. John Hughes, Pontrobert. Pan aeth brawd i ymweled âg ef pan oedd ar ei wely angeu gan ddisgwyl cael gair o'i brofiad, a phan ofynodd, "Wel, John Hughes bach, sut mae hi arnoch chi heddyw?" ei ateb oedd, "Symol; be mae nhw yn neud tua'r *Parliament* ene, y dyddiau yma, deydwch?"

Yn fy oriau *prudd*, meddaf, byddaf yn edrych ar fywyd Dafydd Dafis gydag eiddigedd, ond i'r dyn a'r meddwl iach, effro, dichon mai bywyd hunanol yr ymddangosai un fel yr eiddo Dafydd Dafis. Hen lanc oedd efe, ac efallai fod yr elfen hunanol yn ymddadblygu yn ddiarwybod i'w pherchenog yn mywyd dyn sengl. Ran hyny, onid hunan sydd yn llywodraethu pob dyn, ond ei fod yn gwisgo gwahanol weddau. Mae yn wir, mai un o anhebgorion crefydd ydyw hunanymwadiad, ond y mae yr un mor wir, nad oes dim fel crefydd am ddadblygu hunan a rhoi gwerth ar bobpeth sydd yn nglyn â hunan. Beth fel crefydd a all ddwyn dyn i deimlo ei unigolrwydd, ei gyfrifoldeb, ei ddyfodol? Nid yw y pethau hyn ond gweddau ar hunan. Mae y dyn gostyngedig yn arbenig yn dangos yn eglur fod hunan wedi cael rhan helaeth o'i fyfyrdodau.

Ond yr wyf yn crwydro. Cysurus gan Eglwys Bethel oedd cofio na chai y cyfarfodydd wythnosol, megis y seiat a'r cyfar-

fod gweddi, ddyoddef rhyw lawer tra byddai Dafydd Dafis yn fyw. Nid oedd y blaenor arall, sef Alexander Phillips *(Eos Prydain)*, ond anfynych yn rhoi ei bresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn. Yn ei gylch ei hun fel dechreuwr canu, ac fel un oedd yn gofalu am lyfrau yr eglwys, yr oedd yr Eos yn gampus. Ond prin y gwelid ef unwaith yn y chwarter yn y seiat a'r cyfarfod gweddi. Pan ddeuai y Sabboth yr oedd fel un yn lladd nadrodd, neu yn bwrw pridd ar gorph, fel y dywedir. O'r braidd y byddai yn cymeryd hamdden i fwyta, ac yr oedd y *pitch-fork* yn amlach rhwng ei ddanedd na'r llwy a'r fforc gîg. Byddai ganddo gyfarfod canu am un o'r gloch y prydnawn, ac am bump o'r gloch, ac un wed'yn ar ol oedfa'r nos, ac yr oedd mwy o *sŵn* yn ei dŷ nag oedd yno o lestri gweigion. Un o'r pethau a roddai fwyaf o foddlonrwydd meddwl a thawelwch cydwybod i'r Eos wrth edrych yn ol, oedd y ffaith ddarfod i gôr Bethel o dan ei arweiniad ef ganu *Vital Spark* yn effeithiol ar ol marw Rhys Lewis. Os rhaid dweyd y gwir, yr oedd yr Eos Prydain a'i gôr, gyda rhagwelediad canmoladwy, wedi bod yn ymarfer *Vital Spark* rai misoedd cyn marwolaeth y gweinidog. Nid yn y capel, wrth gwrs, y cymerai y *practices* le—buasai hyny yn rhy awgrymiadol, ond yn nhŷ ardrethol yr Eos ei hun. O ganlyniad, pan gymerodd y digwyddiad galarus le, yr oedd yr Eos a'i gôr yn barod gyda *Vital Spark*. Byth wedi hyn yr oedd yr Eos—yn ymwybodol o'i fod ef ei hun a'i gôr yn barod i ganu dernyn rhagorol o gerddoriaeth, ond yr hwn ddernyn nad allent gyda phriodoldeb ei ganu ond ar achlysuron neillduol—yr oedd yr Eos, meddaf, nid yn anfynych pan fyddai y pregethwr yn llefaru, yn cymeryd *stock* o'r gynulleidfa i edrych a oedd rhyw arwyddion yn ngwedd rhywun fod y gelyn diweddaf wedi ei farcio. Os byddai pawb yn edrych yn iach a hoew, troai yr Eos ei fyfyrdod at y dôn oedd i'w chanu ar ddiwedd yr oedfa, a hawdd oedd gweled ar ei gêg ei fod yn ei chwibanu yn ei frest. Ni waeth i mi wneud y cyfaddefiad—bûm am amser yn aelod o gôr detholedig yr Eos, a dyna sut yr wyf yn gwybod yr holl fanylion. Yr oedd yn ddealledig yn ein plith ni ein hunain, ac yn mhlith neb arall, os byddai rhywun o aelodau cynulleidfa Bethel yn gwaelu o ran ei iechyd, fod *private practice* i'w gynal yn nhŷ Eos Prydain bob nos Sabboth, ond os byddai pawb yn iach c'ai *Vital Spark* lonydd am dymhor. Yr oedd genym rai mân

reolau dealledig, y rhai ni wnaf eu henwi yma. Ein pwnc mawr oedd bod yn barod ar ddiwrnod o rybudd gyda *Vital Spark*. Weithiau byddem yn cael *practice* pan fyddai rhyw bosibilrwydd—megis yn nglyn â gwragedd priod, er na sonid am y peth fel y cyfryw. Os cymerid rhywun yn wael yn yr oedfa, ac yn enwedig os byddai raid ei gario allan, byddem yn tyru i dŷ yr Eos i gael *practice*. Yr wyf yn cofio yr Eos mewn penbleth mawr un tro. Perthynai i gynulleidfa—nid i eglwys Bethel—ŵr hynaws, call, a chlyfar yn ei ffordd ei hun, o'r enw Tom Jones. Byddai Tom yn gyson iawn fel gwrandawr, ond yr oedd yn herwheliwr enbyd. Buasai Tom "o flaen ei well" fwy nag unwaith. Un noson daliwyd Tom gan gipars y Plas yn herwhela ar yr ystâd. Nid oedd Tom yn foddlon colli ei ysglyfaeth, ac aeth yn ysgyffyl rhyngddynt. Llwyddodd i ddyfod yn rhydd o'u gafaelion; ond o herwydd ei fod wedi gorfod ymladd yn erbyn dau, dyoddefodd ysigiad tost, o'r hwn ysigiad y bu Tom druan farw. Yn awr, y cwestiwn a flinai yr Eos oedd a oddefid—nid a ddylid—canu *Vital Spark*. Fodd bynag, cawsom *practice*, a rhoddwyd y cwestiwn o flaen Dafydd Dafis. Penderfynodd Dafydd y cwestiwn mewn eiliad, a gofidiai yr Eos na fuasai Tom farw dan amgylchiadau gwahanol. Tra yr oeddwn yn aelod o gôr yr Eos, llawenhawn nad oedd Wil Bryan gartref, oblegid gwyddwn na fuasai ef fawr o dro yn d'od o hyd i'n *practices* ni, ac na buasai yn arbed dadlenu ein hymbygoliaeth.

Gwrthgiliais o gôr yr Eos, ac fel hyn y bu. Cymerwyd fi yn wael gan y *slow fever*. Trigai yr Eos yn y tŷ nesaf ond un i'n tŷ ni. Oddeutu deg o'r gloch, y nos Sabboth cyntaf o fy afiechyd, yr oeddwn yn wael iawn, a neb ond fy mam yn fy ngwylio. Yr oedd yn noswaith dawel, ac, erbyn hyn, nid oedd neb yn tramwy yr heol. Darllenai fy mam ei Beibl iddi hi ei hun. Yn y man clywn sŵn canu, ac er nad allwn glywed y geiriau, gwyddwn ar y gerddoriaeth mai

> "Lend, lend your wing,
> I mount, I fly;
> O grave! where is thy victory?
> O death! where is thy sting?"

oedd y geiriau a genid.

"Oes rhywun o bobl y capel yn sâl heblaw fi?" gofynais i fy mam.

"Nag oes, ngwas i, p'am 'rwyt ti'n gofyn?" atebai fy mam.

"O, dim," ebe fi. Ond truenus iawn a fu hi arnaf y noswaith hono, oblegid gwelwn fod yr Eos a'i gôr am fy nghladdu ar unwaith. Yr oedd arwyddion gwellhad arnaf cyn y Sabboth dilynol, ac er i mi wrando'n ddyfal, ni chlywn ddim o *Vital Spark*. Pan ddeuais o gwmpas dychymygwn fod yr Eos yn edrych yn siomedig am na fuaswn wedi marw, ac nid aethum byth wed'yn yn agos i'w gôr.

---

## PENNOD XXII.

### Y BUGAIL.

At hyn yr wyf yn cyfeirio er's meityn, ond fy mod fel ci Gwilym Hiraethog yn rhedeg ar ol pob pry' ac aderyn a ddaw ar draws fy llwybr. Gadawodd bugeiliaeth Rhys Lewis argraph mor dda ar feddyliau aelodau eglwys Bethel, fel, yn fuan iawn ar ol ei farwolaeth, y dechreuasant anesmwytho am gael bugail arall. Ac nid hir y buont cyn syrthio ar y gŵr. Cymerodd y peth le yn hynod naturiol. Digwyddodd ddyfod pregethwr ar gyhoeddiad Sabboth i lenwi pwlpud Bethel, yr hwn—sef y pregethwr, nid y pwlpud—na fuasai yno erioed o'r blaen, a'r hwn hefyd oedd newydd-ddyfodiad i'r sir. "Pasiodd" y gŵr yn rhagorol iawn. Yr oedd ganddo ddawn ymadrodd rhwydd a thinc dymunol yn ei lais. Gydag Eos Prydain y digwyddai y pregethwr dyeithr letya—ei "fis" ef oedd o i dderbyn y llefarwyr. Cyn myned i'r gwely y nos Sabboth hwnw, ar ol bod maith ymgom, gwnaeth yr Eos yn hyf ar y gŵr dyeithr, a gofynodd iddo a oedd efe yn barod i dderbyn "galwad" pe buasai un o eglwysi y sir yn meddwl am dano fel bugail? Wedi petruso ychydig, a hymio a haio enyd, atebodd y gŵr ei fod ef yn hollol yn llaw Rhagluniaeth, os yn y cymeriad o fugail y dymunai hi iddo weithio dros ei

Arglwydd, ei fod yn eithaf parod i ymgyflwyno yn hollol i'r gwaith; mewn gwirionedd, mai dyna oedd dymuniad penaf ei fywyd. Dywedodd yr Eos wrth y gŵr dyeithr fod gwir angen ar eglwys Bethel am fugail, a bod yr eglwys, dybiai ef, yn lled addfed i chwilio am olynydd teilwng i Rhys Lewis, ond ei fod yn rhoddi y cwestiwn i'r gŵr dyeithr, wrth gwrs, yn hollol ar ei gyfrifoldeb ei hun. Ar yr un pryd, rhoddai yr Eos ar ddeall i'r pregethwr ei fod yn tybied fod ganddo farn, ac y gwyddai beth oedd barn yr eglwys, ac mai purion peth oedd gwybod pwy oedd yn agored i dderbyn galwad a phwy oedd heb fod felly erbyn yr elid at y gwaith o ddewis.

Rhag i neb feddwl fod yr Eos wedi arfer prysurdeb annoeth drwy grybwyll cwestiwn o'r fath wrth ŵr nad oedd erioed wedi ei weled o'r blaen, nac yn gwybod dim am dano, priodol ydyw hysbysu y darllenydd fod y gŵr dyeithr wedi gwneud sylwadau hynod o ffafriol ar ganu cynulleidfaol Bethel, ac wedi dangos yn eglur, yn nhyb yr Eos, y gwyddai efe y gwahaniaeth rhwng *crotchet* a *demi-semi-quaver*. Yn awr, yr oedd hyn, yn mryd yr Eos, yn *acquirement*, na cheid ond yn anfynych mewn pregethwr, ac nid allai lai na meddwl y fath gaffaeliad fuasai i eglwys Bethel gael gweinidog, nid yn unig yn gwerthfawrogi cerddoriaeth, ond yn gerddor hefyd. A chyda y rhagolwg hwn yn llosgi yn ei fynwes, ni fu yr Eos yn brin yr wythnos ganlynol i grybwyll y mater wrth nifer luosog o aelodau Bethel, yn enwedig y dosbarth ieuanc o honynt. Cyn y Sabboth dilynol yr oedd Obediah Simon—canys dyna oedd enw y gŵr—wedi ei bwyso a'i fesur ar aelwydydd yr aelodau, ac nid yn anffafriol. Cydnabyddid yn lled gyffredinol ei fod yn bregethwr rhagorol, a derbynid tystiolaeth yr Eos yn grediniol fod yn Mr. Simon ogoniant mwy nag a amlygwyd eto. A mwyaf y meddylid am dano, goreu oll a chymwysaf oll yr ymddangosai Mr. Simon i fod yn olynydd teilwng i Rhys Lewis. Yr oedd Mr. Simon yn ddibriod, ac heb fod yn ddirmygus o ran ymddangosiad, ac erbyn clustfeinio siaredid yn hynod ffafriol am dano gan ferched ieuainc Bethel a chan amryw o'r mamau (nid yn Israel). Bu oedran Mr. Simon yn destyn cryn drafodaeth yn mhlith y dosbarth a enwyd, a chytunid yn lled unfrydol ei fod dan ddeg ar hugain oed. Tueddai y gwŷr ieuainc mwyaf meddylgar a chraff i gredu ei fod yn nes i ddeugain oed, ond addefent yn rhwydd y

gallai mai y merched ieuainc oedd yn eu lle, yn gymaint a bod astudiaeth galed yn peri i ddyn edrych yn hŷn nag ydyw mewn gwirionedd, ac amlwg ydoedd fod Mr. Obediah Simon wedi bod yn fyfyriwr ymroddgar, canys gwisgai yspectol.

Ond yr oedd yn eu plith un o'r enw Thomas, yr hwn a arferai ysgrifenu i'r wasg, ac a adnabyddid wrth y ffugenw "Didymus;" hwn ni chredai y buasai Mr. Simon yn fyfyriwr caled, a phrotestiai mai bochau tatws laeth oedd ganddo, ac na welodd efe erioed fyfyriwr caled gyda bochgernau mor wridog. Ond rhoddwyd y diffoddydd ar Didymus gan un o'r frawdoliaeth, gyda'r sylw pert canlynol, sef fod yn y bochau dynol wmbreth o *recuperative power*, ond unwaith y rhoddai Lladin a Groeg eu bŷs yn llygad dyn, mai caffael o honof fy ngolwg a fyddai gwaedd y dyn hwnw byth wed'yn? Ffaith hynod ydoedd fod enw y Parchedig Obediah Simon wedi ei droi a'i drafod yn nheuluoedd naw o bob deg o aelodau eglwys Bethel, fel gŵr tebygol o wneud bugail rhagorol, cyn i Dafydd Dafis glywed na siw na miw am y peth. Ac mewn Cyfarfod Misol y clywodd Dafydd gyntaf am y sôn.

"Ai gwir ydi'r stori, Dafydd Dafis," ebe brawd o flaenor wrtho, "y'ch bod chi'n debyg o alw Mr. Obediah Simon yn fugel acw?

"Chlywes i neb yn sôn am y fath beth," ebe Dafydd.

"Peidiwch a bod mor slei, Dafydd Dafis," ebe ei gyfaill, "achos yr oedd Mr. Simon ei hun yn deyd wrtho i ddoe dwaetha'n y byd fod ei achos o'n debyg o dd'od o flaen eglwys Bethel yn fuan."

Tarawyd Dafydd â mudandod a phoenwyd ef yn fawr. Pan ddaeth Dafydd adref, pwy oedd yn ei dŷ yn ei ddisgwyl ond y Didymus y cyfeiriwyd ato yn barod, yr hwn a gyfrifid gan rai o'r brodyr fel gŵr o ymadroddion celyd. Pan ddeallodd Didymus fod y sôn oedd yn mhlith yr aelodau am y Parch. Obediah Simon yn ddyeithr i Dafydd Dafis, adroddodd iddo yr oll a wyddai am yr helynt. Cafodd Dafydd waith peidio llesmeirio. Yr oedd yn mron yn anhygoel ganddo y gallasai y siarad fod mor gyffredinol ar bwnc mor bwysig, a'r cyfan, megis, tu ol i'w gefn ef. Arferai dybied fod ei wasanaeth fel blaenor yn cael ei werthfawrogi gan yr eglwys, ac er na choleddai syniadau uchel am ei alluoedd, yr oedd ganddo ymwybyddiaeth nad oedd yn ol i neb am ffyddlondeb ac o wneud

ei oreu yn ol y ddawn a rodded iddo. Pruddhaodd, ar y pryd, wrth wrando ystori Didymus, a dechreuodd feddwl nad oedd iddo le yn marn na serch ei gydswyddog, nac yn eiddo yr eglwys.

"Beth a ddywed y cyfeillion sydd yn meddu barn ar y mater?" gofynai Dafydd i Didymus.

"Chwi wyddoch," ebe'r anghredadyn, "y gellwch gyfrif y rhei'ny ar fysedd un o'ch dwylaw, a chwi ydyw y cyntaf o honynt i mi gael siarad âg ef ar y mater."

"Bydae'r achos yn dod o flaen yr eglwys, be ydi eich barn chi, Thomas, am y gŵr?" gofynai Dafydd.

"Fŷ marn i ydyw," ebe Didymus, "fel y byddan nhw'n dweyd mewn 'Steddfod, nad ydi o ddim yn deilwng o'r wobr, ac mai gwell ydyw gadael y pwnc i ymgeisio arno eto, os ydach chi'n dallt fy meddwl i. Beth ydyw eich barn chwi, Dafydd Dafis?"

"Tueddu yr ydw i i synio 'run fath a chi," ebe Dafydd. "Ond hwyrach ein bod ein dau yn gwneud cam â'r gŵr. Nid ydyw yn iawn barnu dyn wedi ei glywed ddim ond unwaith. Dichon fod Mr. Simon yn ŵr rhagorol, ac nad allwn gael ei well, ond, a dweyd y lleiaf, yr wyf yn meddwl fod Phillips wedi bod yn rhy brysur—yn rhy brysur o lawer. Nid chwarae plant ydi galw dyn i fugeilio eglwys. Mae isio cymeryd pwyll mawr, a gweddïo mwy na mwy am gyfarwyddyd. Gwell ydi'r drwg a wyddom na'r drwg nas gwyddom. Ddaru'r dyn ddim gneud argraph neillduol ar fy meddwl i, ond hwyrach mai arna' i 'roedd y bai. Mi wn y mod i'n rhy dueddol i sylwi ar bethe bychain, ddaru mi ddim leicio i wel'd o'n gwisgo modrwy am ei law. Ddaru chi sylwi ar hyny?"

"Do, debyg," ebe Didymus. "Yr oedd y wisg oreu wedi ei dwyn allan, ac yr oedd y fodrwy am ei law, ac oni bae i mi ddarganfod fod y llo pasgedig yn fyw ac heb ei ladd, mi f'aswn wedi dod i'r casgliad mai Mr. Simon oedd y Mab Afradlon, y clywsom ni gymaint o sôn am dano."

"Wn i ddim a ydw i'n y'ch dallt chi," ebe Dafydd yn ei ddiniweidrwydd, "ai'ch meddwl chi ydi wrth ddeyd fod y llo pasgedig heb ei ladd, mai pregethu'n sâl yr oedd Mr. Simon?"

"Nid hyny yn unig," ebe Didymus, "ond eglur ydyw na allasai fo bregethu bydase fo wedi ei ladd, oblegid, mi gymra

fy llw, nad ydyw Mr. Simon yn *awr*, ac na fydd o *byth*, yn un o'r rhai hyny y dywedir am danynt eu bod wedi marw yn llefaru eto."

"'Rydach chi'n rhy at o fod yn llawdrom, Thomas," ebe Dafydd. "Mae'n bur amlwg fod y dyn wedi pasio'n dda yma gyda'r bobol, os ydi'r siarad am dano mor ffafriol ag yr ydach chi'n deyd. A mae o wedi 'i ordeinio hefyd—rhaid fod rhwbeth ynddo, ne' chawse fo mo'i ordeinio.

"Chwi wyddoch, Dafydd Dafis," ebe Didymus, "fod llawer sgil i gael Wil i'w wely. Nid ydyw'r ffaith fod Mr. Simon wedi ei ordeinio yn profi ei fod na Phôl na Pholos. Mi wn am ambell un digon dienaid a gysegrodd flynyddoedd, ac a aberthodd bob peth, o'r aderyn tô at y bustach, i enill y corn olew, ac wedi ei gael, na wnaeth ddim ond dibynu ar gorn gwddw; ac un o'r rhei'ny ydyw Obediah Simon—dyn yn dibynu ar nerth corn gwddw. Ond, wrth gwrs, mae'r dyn yn dibynu ar y peth goreu sydd ganddo. Ac am gael ei ddwyn o flaen yr eglwys, y mae hyny cystal ag wedi cymeryd lle, oblegid y mae yr Eos wedi seinio ei glodydd yn nghlust pob aelod o'r eglwys, ac wedi glân ddyrysu arno, a'r rheswm am yr holl zel ydyw fod Obediah Simon yn gerddor. Os dyna'r *sort* o ddyn yr ydym eisiau yn Bethel, wel, pa'm nad aiff y creadur i fewn am gael Sims Reeves i fugeilio'n heglwys. Dafydd Dafis, os na rowch chi'ch gwyneb yn benderfynol yn erbyn y symudiad yma, mi âf i i berthyn i Seintiau'r Dyddiau Diweddaf."

Prin yr oedd y gair olaf allan o enau Didymus, pan y gwnaeth Eos Prydain ei ymddangosiad. Ni byddai efe un amser yn mynychu y Cyfarfodydd Misol, ond, fel Methodist teyrngarol ac ymwybodol o'i rwymedigaethau fel diacon, byddai yn arferiad dieithriad ganddo dalu ymweliad â Dafydd Dafis bob mis, er mwyn cael hanes y Cyfarfod Misol. A diamheu mai gyda'r amcan hwn y daethai efe i dŷ Dafydd Dafis y noson hon. Ni wyddai efe, wrth gwrs, fod Didymus yno o'i flaen, onide, hwyrach, y buasai yn aros hyd nos dranoeth. Cafwyd ymgom mor ddyddorol, hyny ydyw, yn nghyfrif yr ysgrifenydd, gan nad beth ddywed y darllenydd, fel y mae yn rhaid i mi gymeryd penod gyfan i'w chroniclo, a phenod led faith hefyd, mae arnaf ofn.

## PENNOD XXIII.

### DIDYMUS.

GWEDDUS ydyw hysbysu nad oedd llawer o gariad brawdol yn cael ei wastraffu rhwng Eos Prydain a Didymus. Nid oedd Didymus yn orfanwl yn ei foesgarwch tuag at ei uwchafiaid mewn swyddi. Tybid yn lled gyffredinol fod ei ddeall yn gryfach na'i deimlad, a'i dalentau o radd uwch na'i ledneisrwydd. Pan ymddangosai llythyr pigog, cyrhaeddgar, ond dienw, yn y newyddiadur lleol, tadogid ef yn mron yn wastad ar Didymus. Yn wir, yr oedd cryn lawer o'r ysbryd "waeth gen' i befo neb" yn nodweddu Didymus. Ar yr un pryd yr oedd yn arwr-addolwr o'i goryn i'w sawdl, ac nid oedd neb mor fawr yn ei olwg a phregethwr mawr. Edmygai hefyd "yr annghyffredin," serch na byddai yn fawr. Nid oedd neb yn edmygu mwy ar Thomas a Barbara Bartley na Didymus. Yn ei dumewn chwarddai yn fynych ar ambell sylw o eiddo Dafydd Dafis; ond pe buasai raid, gwn y rhoisai efe ei fywyd i lawr dros Dafydd, am y credai fod Dafydd, yn yr hyn ydoedd, yn *real*. Yr oedd Didymus yn elyn annghymodlawn i'r hyn a olygai ef yn "hymbygoliaeth," ond nid bob amser yr oedd efo yn gywir gyda golwg ar y pethau y dylid eu rhestru dan y penawd hwnw. Fel yr awgrymwyd yn barod, ni roddai Didymus bris uchel ar alluoedd yr Eos. Yr oedd yr Eos yn ymwybodol o hyny, a bu raid iddo ar fwy nag un achlysur ddyoddef yn ddistaw ambell i grafiad, a rhoi ambell air cîs yn ei logell. Buasai yn well gan yr Eos le Didymus na'i bresenoldeb yn nhŷ Dafydd Dafis y noswaith yr wyf yn sôn am dani; ac eto ysgydwodd ddwylaw yn garedig âg ef oddiar yr egwyddor—"Dawch, mistar, rhag eich ofn." Ceisiai yr Eos, druan, fod ar delerau da â phob dyn, ac yr oedd efe yn naturiol o dymer hynaws. Nid ymddangosai Dafydd Dafis mor gyfeillgar ag arferol y noson hon, a rhwng pobpeth, nid oedd yr Eos mor gysurus ei feddwl ag y dymunasai fod. Pa fodd bynag,

ceisiai ymddangos ac ymddwyn fel pe buasai yn y dymer oreu, ac ebe fe—

"Fath Gyfarfod Misol gawsoch chwi, Dafydd Dafis?"

"Rhagorol iawn," ebe Dafydd yn sychlyd.

"Felly 'n wir; oedd yno rwbeth neillduol?" gofynai yr Eos.

"Oedd," ebe Dafydd, "'roedd ysbryd doethineb a phwyll yn nodweddu pob ymdrafodaeth, a gwedd wyneb yr Arglwydd ar y weinidogaeth."

"Felly'n siwr," ebe'r Eos. "Hyfryd ydi clywed hyny. Fu yno rw sylw ar y gymanfa ganu?"

"Naddo," ebe Dafydd, "hyd yr ydw i'n cofio, ac os bu, ddaru mi ddim sylwi."

"Felly," ebe'r Eos. "Mae'n rhyfedd fod y naill Gyfarfod Misol ar ol y llall yn myn'd heibio heb sylw yn y byd yn cael ei wneud ar beth mor bwysig a'r gymanfa ganu. Pa bryd, tybed, y daw cerddoriaeth i gael y sylw a ddylai gan y Cyfarfod Misol?"

"Yr wyf wedi bod yn meddwl lawer gwaith, Dafydd Dafis," ebai Didymus, "nad *idea* ddwl a fyddai cael côr heb neb yn perthyn iddo ond aelodau Cyfarfod Misol—*male voices*, wrth gwrs. Nid peth anmhosibl fyddai hyny. Peth hawdd a fyddai gwneud rheol na dderbynid neb yn aelod o'r Cyfarfod Misol os na fyddai wedi enill y *certificate* uchaf yn y Sol-ffa. Yr wyf yn siwr na roddai dim fwy o bleser i mi na gwel'd rhês o hen gonos fel chi, Dafydd Dafis, yn canu *alto*, ac 'rwyf yn siwr, pe ffurfid côr felly, y cae chwi wel'd *lot* o flaenoriaid cerddorol nad ânt byth yrwan i Gyfarfod Misol, yn cyrchu i'r cyfarfodydd gyda chysondeb. Ac hwyrach y gallai y côr gipio ambell wobr mewn 'Steddfod, a drychwch chwi fel y codai hyny yr achos yn y sir?"

Bu agos i Dafydd Dafis chwerthin wrth feddwl am rês o rai tebyg iddo ef ei hun yn canu *alto*, ac ebe'r Eos braidd yn sur—

"Rhaid i chi, Thomas, gael gneud gwawd o bobpeth yn wastad. Ond waeth i chi heb siarad, 'does dim posib cael gan bregethwyr gymeryd dyddordeb mewn canu cynulleidfaol, ac o'u rhan nhw mi fase'r canu wedi myn'd i'r cŵn er's talwm."

"Mae'n rhaid i mi gyfaddef," ebe Didymus, "fod pregethwyr y Methodistiaid yn y blynyddoedd diweddaf wedi dirywio yn fawr yn eu canu. 'Rwyf yn cofio'r amser y gallai yn mron

bob un o honynt ganu, ac nad allai y cynulleidfaoedd oddef pregethwr, os na fyddai yn gantwr. Ond erbyn hyn y mae ein gweinidogion fel rheol yn ymfoddloni ar draethu i ni wirioneddau mawr yr Efengyl heb fod ar gân. Wrth gwrs, y mae genym rai *honourable exceptions*. Dyna wythnos i'r Sabboth diweddaf, yr oedd genym bregethwr oedd hyd yn nod yn canu'r bennod."

Ni wnaeth yr Eos sylw o eiriau Didymus, a chan gyfeirio at Dafydd Dafis, ebe fe eilwaith—

"Ddyliwn fod sylw wedi bod ar y fugeiliaeth, achos y mae'r pwnc hwnw mewn blas gan y pregethwyr bob amser?"

"Wel, naddo; fu yno yr un gair o sôn am y fugeiliaeth yn *gyhoeddus*," ebe Dafydd.

"Pa'm yr ydych yn pwysleisio'r gair 'cyhoeddus'?" ebe Didymus.

"Mi ddeydaf i chi'r rheswm," ebe Dafydd. "Fe ofynwyd cwestiwn i mi yno ddaru fy synu a fy mrifo. Fe ofynodd brawd i mi, ai gwir oedd yr hanes fod Mr. Obediah Simon yn debyg o gael ei alw yn fugail ar eglwys Bethel? ac ni chredai y brawd pan ddwedes na chlywais i air o sôn am hyny. Ond erbyn d'od gartre', a holi tipyn, 'rwyf yn dallt fod cryn siarad wedi bod am y gŵr heb yn wybod i mi."

"Yr ydych, fel fine, dipyn ar ol eich hoes," ebe Didymus. "Ond efo hyn yr wyf dipyn o'ch blaen chwi, ac wedi clywed er's dyddiau fod amryw o aelodau eglwys Bethel wedi syrthio mewn cariad â Mr. Simon. Chwi wyddoch, Dafydd Dafis, fod cariad yn ddall, ac yn yr achos hwn, yn ddallach nag erioed, a phe buasai eich golwg chwithau dipyn byrach, hwyrach y buasech chwithau wedi syrthio mewn cariad â'r gŵr. Sut bynag, er mai hen lanc ydych, mi fuaswn yn disgwyl i chwi, fel hen gyfaill Bethel, wybod yn un o'r rhai cyntaf pwy oedd hi'n garu a phwy oedd hi ddim yn garu."

"'Does neb, tybed, a faidd wadu," ebe'r Eos, "nad ydym mewn gwir angen am fugail? Mae'n bryd i rywun symud yn y mater. Yr ydym wedi sôn a siarad digon, ac mae'n bryd i ni weithredu bellach. Ac fel 'rydach chi wedi hintio, y mae yma lawer o sôn wedi bod am Mr. Simon er pan fu o yma'n pregethu—mae pawb wedi ei leicio. Yn wir yr oeddwn i'n hoffi'r dyn yn fawr fy hun, a welais i 'run dyn cleniach na fo yn tŷ erioed. Ddyliwn i y gallen ni ystyried ein hunen yn

lwcus iawn bydae ni'n llwyddo i gael Mr. Simon yma fel gweinidog. Dyna fy meddwl *i*."

"Ddymunwn i," ebe Dafydd, "ddweyd dim am y gŵr i awgrymu nad ydi o'n bobpeth sydd arnom eisiau. Ac am fod yma angen am weinidog, 'does dim yn fwy amlwg. Yr wyf wedi blino ar fy sŵn fy hun yn seiat, a dydach chithe, Phillips, ddim yno ond rhyw unwaith bob deufis i r'oi help llaw. Mae'n bryd gwneud rhywbeth. Ar yr un pryd y mae eisiau cymeryd pwyll mawr, a gweddïo llawer am gyfarwyddyd ysbryd Duw. Dydi dewis bugail ddim yn rhywbeth i ruthro iddo fel buwch i gogwrn."

"'Does neb yn meddwl rhuthro, Dafydd Dafis," ebe'r Eos. "'Does neb yn meddwl setlo'r cwestiwn yfory na threnydd. Ond y mae'n bryd d'od â'r peth o flaen yr eglwys. Tybed nad ydym, er yr amser y bu Rhys Lewis farw, wedi cael digon o amser i gymeryd pwyll ac i ofyn am gyfarwyddyd? Os na ofalwn, fe aiff un oes heibio tra yr ydym ni yn sôn am gymeryd pwyll."

"Phillips," ebe Dafydd, "os da 'rwyf yn cofio, gyda chi yr oedd Mr. Simon yn aros pan fu yma. A ddaru i chi ro'i rhyw le i'r gŵr feddwl y byddai i'w enw gael ei ddwyn o flaen yr eglwys, ac a wyddoch chi rywbeth o hanes y gŵr?"

"Y cwbwl a wnes i," ebe'r Eos, "oedd siarad yn gyffredinol am ein sefyllfa fel eglwys, ac am yr angen yr oeddym ynddo am rywun i'n bugeilio. A mi ddigwyddais hefyd ofyn i Mr. Simon a oedd efe yn agored i dderbyn galwad pe buasai un o eglwysi y sir yn meddwl am dano."

"Ddaru chi ddim comitie'ch hun, na rhoi un math o addewid ynte, Phillips?" gofynai Dafydd.

"Dim o'r fath beth," ebe'r Eos.

"Mae'n dda gen' i glywed hyny," ebe Dafydd.

"Mae'n dda gen' inau," ebe Didymus, "achos ddyliwn mai'r rheol ydyw, os bydd blaenor wedi rhoi ei air i bregethwr, y dewisir ef yn fugail, fod yr eglwys, fel mater o anrhydedd, yn rhwym o gynal i fynu air y blaenor, ac nid oes dim *harm* yn cael ei wneud wrth roi'r peth i lais yr eglwys, er mwyn dangos unfrydedd yr alwad. Ac y mae hyny yn eithaf rhesymol; oblegid os ymddiriedir i'r blaenor ddewis pregethwr ar gyfer pob Sabboth, ac os ydyw yr eglwys a'r gynulleidfa, wrth ddyfod i wrando'r pregethwr, megis yn codi eu llaw i ddangos

eu cymeradwyaeth o'i ddewisiad, paham hefyd nad ellir ymddiried i'r blaenor ddewis y bugail? Y blaenor ydyw cynrychiolydd yr eglwys, ac os na saif yr eglwys yn gadarn dros air y blaenor, nid ydyw yn deilwng o'r enw eglwys. Ar yr un pryd yr wyf yn credu y dylai y blaenor, wrth ddewis bugail, fod *in touch* efo pob chwaeth yn yr eglwys. Fy mhwnc i fy hun ydyw i'r bugail fod yn *bregethwr* da—pwnc un arall ydyw, iddo fedru cadw seiat. Ond nid dyna bwnc pawb. Er nad wyf yn gerddor fy hun, nac yn hidio rhyw lawer am gerddoriaeth, nid allaf gau fy llygaid, ac yn enwedig fy nghlustiau, fod cerddoriaeth yn bwnc swnfawr gan ddosbarth helaeth o'n heglwys. Yn awr, a chaniatâu fod Mr. Simon yn ŵr ymadroddus, ac yn fedrus ar gadw seiat, nid wyf yn meddwl y rhown i fy *vote* iddo, os nad ydyw yn gerddor gweddol."

Edrychodd yr Eos am foment yn ngwyneb Didymus, i sicrhau ei hun a oedd efe yn peidio cellwair, a chan nad oedd gewyn yn symud i arwyddo dim amgen na'r difrifwch mwyaf, atebodd yr Eos yn hoew—

"Cerddor gweddol!—gallaf eich sicrhau fod Mr. Simon yn gerddor campus. Cefais ymgom hir efo fo ar gerddoriaeth gysegredig, ac ni welais *bregethwr* erioed mor gyfarwydd yn y pwnc. Yr oedd canu Bethel wedi ei foddhau yn fawr, ac yr oedd yn dweyd ei fod wedi bod yn help iddo bregethu, a ches ambell awgrym ganddo sut i'w wella eto. Pe buasai *pob* pregethwr yn cymeryd cymaint o ddyddordeb mewn cerddoriaeth a Mr. Simon, fe fuasai gwedd wahanol ar ganu cynulleidfaol ein gwlad."

"Siwr iawn," ebe Didymus. "Gresyn na fuasai y pregethwyr a phawb o honom yn gerddorion. Yr oeddwn yn edmygwr mawr o Rhys Lewis, ond yn ol ei gyfaddefiad ef ei hun, ni wyddai fwy am gerddoriaeth na brân. Ac er fod ei weinidogaeth ef wedi bod yn hynod lwyddianus, nid allwn beidio gwel'd y buasai yn fwy felly o lawer pe buasai yn gerddor. (Siriolai gwyneb yr Eos, ac ni chlywsai efe Didymus erioed yn siarad mor gall). Y gŵr goreu,-yn ddiau, fel bugail, ydyw yr un y byddai y nifer fwyaf o ragoriaethau yn cydgyfarfod ynddo. Gwell ydyw i fugail fod yn dipyn o bobpeth nag yn un peth mawr. Mae yn perthyn i eglwys Bethel nifer bychan—a gresyn na fuasai yn fwy—o wŷr ieuainc â thipyn o chwaeth ynddynt at lenyddiaeth, a da a fyddai i'r bugail fod

yn dipyn o lenor. Tybed oes tuedd yn Mr. Simon at lenyddiaeth?"

"'Rwyf yn siwr ei fod yn llenor," ebe'r Eos, "er na ddaru o ddim dweyd hyny wrthyf. Yn ddamweiniol fe ddywedodd ei fod eisiau myn'd adre' yn gynar, am fod ganddo waith beirniadu rhyw draethawd mewn tipyn o 'Steddfod oedd i'w chynal yr wythnos hono."

"Ddaru Mr. Simon, mae'n debyg," ebe Didymus, "ddim digwydd dyweyd wrthych beth oedd testyn y traethawd? Fe fuasai hyny yn fantais i ni ddeall yn mha gangen o lenyddiaeth yr ystyrir Mr. Simon yn feirniad."

"Do, neno dyn, os medra 'i gofio fo," ebe'r Eos. "Rhwbeth am y Diluw, ac ar y cwestiwn a oedd yr Eliphant yn yr arch ai nad oedd—rhwbeth fel ene."

"Testyn rhagorol, a dyrus hefyd," ebe Didymus, "'rwyf wedi pondro llawer ar y pwnc yna fy hun. Ond gresyn na fuasent wedi ychwanegu—pa un a oedd y *whale* yn yr arch ai nad oedd. Mae cryn ddyryswch yn nghylch y cwestiwn yna hyd yn hyn, a pho gellid ei benderfynu, taflai lawer o oleuni ar faint yr arch, a'r hyn a feddylir wrth 'gyfudd.' Ond hyn sydd eglur—yr ystyrir Mr. Simon yn ei gartre' yn naturiaethwr ac yn hanesyddwr, os nad yn ddaearegwr hefyd. Faint oedd y wobr gynygid ar destyn fel yna, tybed? Ddaru Mr. Simon ddim digwydd sôn hwyrach?"

"Fe ddangosodd i mi'r program, ac os ydw i'n cofio'n dda, pum' swllt oedd y wobr," ebe'r Eos.

"Dyna *mistake* eto," ebe Didymus, "ar destyn o'r natur yna, fe ddylase'r wobr fod yn saith a chwech. Sut y gellir disgwyl i'n llenorion goreu gystadlu ar destyn o'r fath, pan na chynygir ond pum' swllt o wobr? Ond mae'n amlwg fod pethau yn gwella. Mae'n dda gen' i ddeall fod Mr. Simon yn llenor, ond fasen ni ddim yn gwybod hyny oni bae i chwi sôn."

Yr oedd Dafydd Dafis yn fud, ac ni allai ddyfalu amcan Didymus yn siarad yn y modd yma, pryd yr ychwanegodd Didymus—

"Mantais fawr ydyw cael *ymddyddan* â gŵr fel Mr. Simon i gael allan dueddiadau ei feddwl a'i ragoriaethau personol. Yn y pwlpud y mae dyn megis *at a distance*, a dim ond y pregethwr yn d'od i'r golwg, ac yn aml nid ydych yn canfod hwnw. Rhaid dyfod *at* ddyn a chymdeithasu âg ef, i gael allan

adnoddau ei feddwl. Ac oddiwrth y pethau yr ydym wedi eu clywed genych chwi, Phillips, mae'n rhaid i mi gyfaddef fod Mr. Simon yn amgenach dyn nag y darfu i mi feddwl ei fod wrth ei wrando yn pregethu. Mae'n ddrwg gen' i na ddois i acw i gael ymgom âg ef."

"Mae'n ddrwg gen' inau hefyd, ac yr oeddwn yn eich disgwyl o hyd," ebe'r Eos.

"Dydio ddim dyben rhoi coel ar *first impressions*," ychwanegai Didymus. "A oedd Mr. Simon yn gwneud argraph arnoch, Phillips, ei fod wedi troi tipyn mewn cymdeithas—hyny ydyw, a oedd o'n dangos fod ganddo barch iddo ef ei hun—yn ofalus am ei ymddangosiad—ac a allech chwi ymddiried yn ei ymddygiad mewn cymdeithas *respectable?* oblegid, erbyn hyn, y mae peth felly yn bwysig, ac nid gwiw i ni feddwl am fugail diofal, hen ffasiwn, slyfenllyd—mae'r dyddiau hyny drosodd—mae'r byd wedi newid, a phwys yn cael ei ro'i ar ymddygiad a *manners*."

"Wel," ebe'r Eos, "'roeddwn i braidd yn meddwl fod Mr. Simon yn rhy *mannerly*—."

"'Does dim posib i ddyn fod yn *rhy mannerly* yn y dyddiau hyn," ebe Didymus, cyn i'r Eos orphen y frawddeg.

"Hwyrach hyny, wir," ebe'r Eos, "ond dyna oeddwn i braidd yn ofni fod Mr. Simon yn rhy foneddigaidd i ni—pobl Bethel."

"'Does dim *rhy* foneddigaidd i fod," ebe Didymus drachefn.

"Wel, dyna ydw' i'n feddwl wrth ddweyd ei fod yn rhy foneddigaidd—yr oedd o rywfodd yn diolch gormod gen' i. Daswn i ddim ond yn estyn y pot mwstard iddo, neu yn ei helpio i ro'i ei gôt ucha' am dano, yr oedd o'n deyd, '*Thank you,*'" ebe'r Eos.

"*Very good*—arwydd o *good breeding*," ebe Didymus. "Ddaru chwi ddim sylwi, Phillips, i Mr. Simon ro'i rhywbeth yn llaw'r forwyn cyn myn'd i ffordd?"

"Weles i mo'no'n rhoi dim iddi," ebe'r Eos.

"Mi wyddwn hyny," ebe Didymus, "naiff yr un boneddwr adael i neb ei *wel'd* yn rhoi dim i'r forwyn, ond gofynwch chwi iddi pan ewch gartref, a mi gewch, 'rwy'n siwr, ei fod wedi rhoi chwech neu swllt iddi."

"Synwn i ddim," ebe'r Eos. "A chyda golwg ar y peth arall oeddach chi'n ofyn—a oedd o'n ofalus o'i ymddangosiad—

yr oedd, meddai, yn shafio bob boreu Sul, a 'rydwi'n cofio, with i ni fyn'd i oedfa'r nos, pan oeddan ni wedi myn'd cyn belled a siop Start, y *druggist*, i Mr. Simon gofio ei fod wedi gadael ei fenyg ar y bwrdd yn y tŷ, ac er ein bod dipyn ar ol yr amser, fe fynodd fyn'd yn ol i'w cyrchu. 'Roeddwn i braidd yn ddîg wrtho am hyny. Ac yr ydw' i'n cofio hefyd iddo wneud y sylw, fod un diffyg yn festri'n capel ni—sef nad oedd yno yr un *glass*, crib, a brwsh gwallt."

"Dafydd Dafis," ebe Didymus, "gwnewch *note* o nyna,—dydw i ddim wedi nodi y diffyg yna er's talwm? Ond gadewch i ni fyn'd yn mlaen. Mor hawdd ydyw camfarnu dyn, *at a distance!* Mae Mr. Simon yn amgenach dyn o lawer nag y tybiais i ei fod. Yr ydych chwi, Phillips, ar ol cael y fraint o fod yn ei gymdeithas, wedi cael mantais i'w 'nabod yn drwyadl. Goddefwch i mi ofyn cwestiwn neu ddau arall yn ei gylch—a chadw mewn côf, fel y d'wedais o'r blaen, amrywiol nodweddion a thueddiadau aelodau a chynulleidfa Bethel—a ydyw Mr. Simon—ag i chwi ro'i barn onest—yn hoff o *parties?* a oes ganddo lygad i wneud arian? a fedr o chware *cricet?* a fedr o chware cardiau? a fedr o chware *billiards?* neu, mewn gair, a ydio'n *perfect humbug?*"

Neidiodd yr Eos ar ei draed, gafaelodd yn ffyrnig yn ei het, a chan edrych yn ddirmygus ar Didymus, ebe fe—

"Yr *humbug* mwya' adwaenes i ydach chi, Thomas. Wyr neb lle i'ch cael chi, a phan mae rhwfun yn meddwl y'ch bod chi'n fwya' difrifol, yr adeg hono yr ydach chi'n cellwair fwya'. 'Rydach chi'n trin pobol cystal a gwell na chi'ch hun, fel bydae nhw blant, ac yn meddwl y'ch hun yn rhwfun. Mi gymra fy llŵ bydase ni'n meddwl am gael yr Apostol Paul yn fugail i Bethel, y buasech chi'n gneud gwawd o'r *idea*. ('*Certainly*,' ebe Didymus). 'Rydach chi'n sôn llawer am hymbygoliaeth, ond er's pan ydw' i'n flaenor, 'does neb wedi fy hymbygio i fel chi, a dalltwch, dydw i ddim am ddyodde dim chwaneg o hyny, ac os ydi Dafydd Dafis am ddal i'ch cefnogi chi—wel, boed felly—" a rhuthrodd yr Eos allan o'r tŷ, a chwarddodd Didymus yn uchel.

"Thomas," ebe Dafydd Dafis, "wn i beth i feddwl o honoch chi. Mae gen' i feddwl uchel o'ch galluoedd chi, a mi wn y'ch bod chi'n llawer mwy craff na fi, ac y gallech chi fod yn llawer mwy defnyddiol gyda'r achos bydae chi'n dewis—er y'ch bod

chi'n ddefnyddiol iawn yrwan efo'r Ysgol Sul. Ond rywfodd yr ydach chi'n chware efo pobpeth—yn chware efo'r pethe mwya' difrifol, a mi wn eich bod wedi brifo Phillips yn dost heno. Yr ydach chi ar fai, Thomas."

"Chware, Dafydd Dafis?" ebe Didymus, "onid chware y mae pawb? onid chware ydyw pobpeth y bywyd yma?"

"Na ato Duw!" ebe Dafydd yn gyffrous. "Nid chware ydi pobpeth, ne' be ddaw o hono i! Ydach chi ddim yn meddwl deyd mai chware ydi crefydd? mai chware ydi'r byd mawr sydd o'n blaen? 'Rwyf yn synu atoch chi, Thomas, yn siarad fel yna."

"Yr wyf yn meddwl fy mod mor ddifrifol a'r rhan fwyaf o honom y dyddiau hyn," ebe Didymus, "ond fod llai o ragrith ynof. 'Rwyf wedi laru ar hymbygoliaeth pobol. Mi gymraf (= alaru) fy llŵ fy mod gystal Methodist, ac mor deyrngarol i'r Hen Gorph a neb sydd yn fyw. Pan oedd fy mam yn fyw, a minau yn grwmffast o hogyn, fe fu Henry Rees, ar noson waith, yn lletya yn ein tŷ ni, ac 'rwyf yn cofio i mi lanhau ei esgidiau, a mi rois bolish iawn arnynt—mi fasech yn gallu gwel'd eich llun ynddynt. A does dim ag yr wyf yn teimlo mor falch o hono y funyd hon, ag i mi gael y fraint i lanhau esgidiau Henry Rees. Ac y mae degau o'n pregethwyr—annhraethol lai yn mhob ystyr na Henry Rees, ag y teimlwn hi yn anrhydedd gael glanhau eu hesgidiau. Rhowch i mi bregethwr—waeth gen' i pa mor fychan a fydd o ran ei alluoedd—ond iddo fod yn onest, selog, unplyg, difalch, yn meddwl mwy am iachawdwriaeth pechaduriaid nag am ei fi fawr ei hun, a mi dynaf fy het iddo, ac a lanhâf ei esgidiau. Ond 'dallai i ddim dyoddef *humbugs*. Ddyn anwyl! ddeng mlynedd ar hugain yn ol, nodweddion pregethwr oeddynt—gostyngeiddrwydd, sêl, duwioldeb, ac awydd angherddol am achub pechaduriaid,—ond yn awr, yr *uniform* ydyw y nodwedd, ac y mae pechaduriaid yn eu hadnabod ac yn ffoi oddiwrth eu gwisgoedd. Pan fydd eisiau dal lladron a mwrddwyr, nid gŵr y gôt lâs, yn gyffredin, a ddanfonir at y gwaith, ond *detective in plain clothes*. Yn siwr i chwi, Dafydd Dafis, y mae eisiau mwy o'r *detectives in plain clothes* yn ein pwlpudau y dyddiau hyn, a warant a sêl y Llywodraeth ganddynt i ddal dynion. Yr wyf yn sicr mai un o ddynion yr *uniform* ydyw Mr. Simon, a thra y bydd ef yn edmygu ei fenyg, a'i frethyn, a'i drimins, y

bydd pechaduriaid yn dianc. Pa gymhwysder i fod yn fugail ydyw dawn gerddorol, os na bydd ei ysbryd wedi ei drwytho gan yr Efengyl, a'i awydd i achub pechaduriaid yn benaf peth yn ei gymeriad?"

"Mae llawer o wir yn y peth ydach chi'n ddeyd, ond dydi pob gwir ddim i'w ddeyd bob amser," ebe Dafydd.

"Athrawiaeth gyfeiliornus ydyw honyna, Dafydd Dafis," ebe Didymus, "ond athrawiaeth ffasiynol iawn y dyddiau hyn. Mae ofn deyd y gwir—y gor-ofal am beidio brifo teimladau *humbugs* a merchetos yn magu eiddilwch moesol—yn codi tô o ragrithwyr—yn gwneud rhagrith yn beth *respectable*, ac fe fydd ffeindio dyn *gonest* yn y man yn gymaint camp a ffeindio rhosyn yn tyfu o bîg y tegell. Ddoe diweddaf yn y byd yr oeddwn yn siarad efo un o flaenoriaid Salem yn nghylch y gŵr ifanc sydd wedi cael caniatâd i ddechreu pregethu yno, ac ebe fe—'Wyddoch chi, Thomas, 'rwyf yn siwr na fwriadodd Duw i'r bachgen yna bregethu.' 'Ddaru chwi ddweyd hyny yn seiat pan oedd achos y bachgen yn cael ei drin?' gofynais inau, ac ebe fo—'Wel, naddo, welwch chi, achos bydaswn i'n deyd hyny, mi faswn yn tynu pobol yn 'y mhen, ac yn wir, yn gneud niwed i mi fy hun, achos y mae rhai o deulu y bachgen yn delio yn y shop acw.' *Humbug*, Dafydd Dafis, ydw i yn galw dyn fel yna, ac y mae mwy o'r sort nag o ddynion gonest."

"Wn i beth am hyny," ebe Dafydd. "A mi ddeyda beth arall, does gan yr un blaenor hawl i ddeyd be mae Duw wedi fwriadu. Mae eisiau cymeryd pwyll cyn rhoi caniatâd i fachgen ddechreu pregethu, ac y mae eisiau gofal hefyd rhag rhwystro un o'r rhai bychain hyn. Ac er mai dyledswydd dyn, yn ddiau, ydyw dweyd ei feddwl yn onest, a bod yn ddoeth wrth wneud hyny, gwell gen' i a fyddai methu ar yr ochr dyneraf."

"Mae methu ar yr ochr dyneraf agos a bod yn adnod erbyn hyn," ebe Didymus. "Mae pobol yn od o dyner y dyddiau hyn. Mae un yn cael ei oddef, er y gwyddir ei fod yn cymeryd dropyn gormod, rhag brifo teimladau'r wraig, ac un arall yn cael ei oddef i gyflawni mân driciau yn ddisylw rhag brifo teimladau'r teulu, a chan fod rhai'n yn cael eu goddef, fe oddefir i'n pobl ifanc wneud y peth a fynont. A wyddoch chi be, pe deuai rhyw Ioan Fedyddiwr i'n plith, i ddweyd y gwir,

fyddai dim eisiau gwasanaeth na Herod na Herodias—fe fyddai crefyddwyr am y cyntaf i ddwyn ei ben ar ddesgl i ffrynt y sêt fawr!"

"Thomas, Thomas!" ebe Dafydd. "Yr ydach chi'n myn'd yn fwy eithafol bob dydd. Mae arnaf ofn fod gormod o'r ysbryd tori penau ynoch chwithe, Thomas bach. Mae goddef ein gilydd mewn cariad, yn gymaint dyledswydd a dweyd y gwir. Ond yr ydan ni wedi crwydro oddiwrth y pwnc er's meityn. Mae gen' i ofn oddiwrth siarad Phillips y bydd o, fel 'roeddach chi'n dweyd, yn dwyn enw Mr. Simon o flaen yr eglwys."

"Mae hyny cystal ag wedi cymeryd lle," ebe Didymus.

"Wel," ebe Dafydd, "os i hyny daw hi, gofalwch, Thomas, am fod yno, a d'wedwch eich meddwl yn rhydd ac mewn ysbryd llednais."

"Ddof fi ddim ar y cyfyl, Dafydd Dafis, gwnaed eglwys Bethel ei photes," ebe Didymus.

"Dyna hi yn y pen," ebe Dafydd, "'rydach chi isio i bobl fod yn onest a dweyd y gwir, a phan ddaw hi i'r pwsh yr ydach chi am droi'ch cefn."

"Chwi wyddoch, Dafydd Dafis," ebe Didymus, "pe deuwn i yno, mai y gwir a ddywedwn heb flew ar fy nhafod. Ond nid y gwir a fyddai o ngenau i yn ngolwg mwyafrif eglwys Bethel. Mi wn mai dafad ddu ydwyf yn nghyfrif llawer o honynt, a phe bawn yn dweyd fy meddwl yn onest, edrychid arnaf fel un yn rhegi Israel."

"Gadewch i hyny fod," ebe Dafydd. "Dowch chi yno, a d'wedwch eich meddwl yn onest ac mewn ysbryd priodol. A da chi, Thomas, peidiwch ysgrifenu dim yn nghylch y peth i'r papyr newydd. Tydw i byth yn gwel'd y papyr fy hun, ond mae nhw'n dweyd i mi eich bod yn ysgrifenu pethe hallt iawn weithiau."

"Mae ysgrifenu i'r papyr," ebe Didymus, "yn rhan o'mus-nes i, fel y mae hau maip yn rhan o'ch busnes chwithau, a phobl gignoeth sydd yn dweyd fy mod yn ysgrifenu pethau hallt—dydi'r croeniach yn cwyno dim."

"Waeth i chi befo, Thomas," ebe Dafydd, "dydi codi godre crefyddwyr ddim yn waith ag y baswn i yn hidio am ei wneud. Mae digon yn barod at y gwaith hwnw heb i ni ei wneud o."

"Mae llawer, hefyd," ebe Didymus, "yn ddigon parod i roi

clôg dros bobpeth. Ond hwyrach—fyddaf fi ddim yn cyfaddef fy meiau wrth bawb—hwyrach i mi fod yn ddigon annoeth lawer gwaith wrth ysgrifenu i'r papyr newydd. Mae fy natur dipyn yn arw, mi wn; ond eto 'rwyf yn credu fy mod yn teimlo gwir ddyddordeb yn yr achos yn Bethel. 'Rwyf yn siwr o hyn—na byddaf yn cael cymaint pleser yn unlle ag yn y capel, ac er fod genyf fy syniad am Mr. Simon—rhyw fath o *presentiment* nad allaf ei ysgwyd ymaith, yr wyf yn credu yr un pryd nad allaf fi, na chwithau, na'r Eos lywodraethu yr amgylchiadau yr ydym ynddynt yrwan, ac fod rhyw law anweledig yn eu llunio ac yn eu llywio er ein gwaethaf, a hyny, yn ddiamheu, i ryw ddyben da. A 'rwan, dyma fi yn dyweyd nos dawch i chwi."

"Mae'n rhyfedd," ebe Dafydd wrtho ei hun, "fod y dyn yna yn cael ei ddrwgleicio gymaint gan y cyfeillion. Mi fydda i'n gallu gneud yn burion efo fo. Os ydio dipyn yn arw, mae ganddo rywbeth dan ei ewin bob amser. Os daw y cyfeillion i ddeall fod Thomas yn erbyn Mr. Simon, mae nhwthe yn siwr o fyn'd yn selog o blaid y gŵr. Ond gobeithio y cawn ni'n harwain."

---

## PENNOD XXIV.

### DAFYDD DAFIS AR Y SEIAT BROFIAD.

Yr wyf dan demtasiwn i sôn tipyn eto am Dafydd Dafis. Wedi clywed Didymus yn adrodd hanes yr ymgom a groniclwyd yn y bennod ddiweddaf, tybiais y buasai Dafydd yn teimlo yn friwedig, ac euthum i ymweled âg ef. Nid oedd Dafydd yn rhyw hen iawn, ac eto yr oedd rhywbeth yn ei olwg ag oedd yn peri i mi feddwl am yr oes o'r blaen, a phan feddyliwn am rai o'i syniadau, yr oedd yn ymddangos i mi fel un wedi ei adael yn rhy hir yn y byd i allu bod yn gyfforddus ynddo. Yr oedd yn dal i wisgo brethyn cartref—gwlan ei ddefaid ei hun—

ac oni bae am ei nith, Mary, buasai wedi glynu wrth y clôs a'r getars. Drwy hir berswadio gallodd hi lwyddo gael ganddo wisgo llodrau o liw pupur a halen, ac erbyn hyny yr oedd efe yn teimlo yn ddigon cartrefol ynddynt. Yr wyf yn bur sicr cyn y gwisgasai Dafydd lodrau o'r lliw a'r toriad a wisgid genyf fi, y dyoddefasai ferthyrdod. Cyn i'w foelni ei luddias, arferai roi mynegiad i'w brotest yn erbyn balchder yr oes drwy wisgo ei wallt fel bondo yn gymwys efo'i aeliau trymion. Ar fore Sabboth, pan yn hwylio i'r capel, byddai Mary, ei nith, ar ol rhoi cwlwm ar ei gadach, yn tynu y crib drwy ei wallt ac yn rhoi lledtro iddo, pan dybiai fod ei hewythr dipyn yn absenol ei feddwl. Ond nid oedd o un dyben; oblegid y peth cyntaf a wnai efe yn y capel, ar ol tynu ei het befar ac eistedd, oedd tynu ei law dros ei ben, gan ddechreu yn y coryn a diweddu ar y talcen, a byddai y lledtro wedi myn'd a gwneud llafur Mary yn ofer. Ond bellach yr oedd Dafydd wedi ei amddifadu o'r cyfleusdra hwn i brotestio yn erbyn balchder, oblegid yr oedd ei ben mor foel—oddigerth rhyw hem gul efo'i odreuon—ag ydoedd y chwysigen llawn lard a hongiai yn nhop y gegin, ac, yn wir, nid yn annhebyg.

Er nad oedd Dafydd yn deall ond y nesaf peth i ddim o Saesoneg, camgymeriad a fuasai ei alw yn ddyn dwl. Nid wyf yn sicr na fu ei anfedrusrwydd yn yr iaith Saesoneg o beth mantais iddo, yn enwedig gyda'i fistar tir. Pan fyddai angen ar Dafydd roi cosfa i'w fistar tir, neu y stiward, byddai Mary wrth law i gyfieithu rhyngddynt; ond pan y gwyddai Dafydd fod y mistar yn dyfod yno i'w "drin" yn anghyfiawn, byddai Mary, fel y dywed Robert Roberts, Caergybi, am ambell ddiffyg ar yr haul—"yn anweledig yma." Pan fyddai Dafydd yn teimlo ei fod yn gwneud ei ddyledswydd yn ol ei gydwybod, ni ofalai efe beth a ddywedai y *landlord* yn Saesoneg. "Mae'i araeth o, weldi," ebe fe wrthyf, "fel cawod o wlaw ar gefn c'lagwydd." Mi wn fod Dafydd yn well Sais nag oedd y mistar tir o Gymro. Un tro—yr oedd hyn cyn bod sôn am "ryfel y degwm"—yr oedd Dafydd wedi bygwth y Person na thalai efe y degwm. Wrth wneuthur hyny, gwyddai y cynhyrfai lid y mistar tir, ac y byddai yn sicr o dalu ymweliad âg ef rai o'r dyddiau nesaf i'w ddwrdio. Nid oedd Dafydd eisieu ymddadleu na ffraeo âg ef, ac yr oedd efe ar y *watch* am dano. Ac un bore dacw *my lord* yn dyfod yn ysbardynog a brochus

ar gefn ei geffyl glâs. Gwelodd Dafydd ef yn dyfod, ac ebe fe wrth ei nith—

"Mary, cerdd i'r llofftydd yna i edrach weli di rwbeth isio'i wneud, a phaid a dwad i lawr nes y gweli di y gŵr acw yn troi pen ei geffyl tua chartre," ac allan âg ef i gyfarfod y mistar tir.

Ymholiad cyntaf y mistar oedd am Mary i gyfieithu, a dywedodd Dafydd ei bod wedi myn'd i rywle ar i fynu, yr hyn, wrth gwrs, ni ddeallai y mistar tir, a dechreuodd dywallt ffrwd o Saesoneg ar ben yr hen ffarmwr. Yr oedd y gair *tithe* yn cael ei fynychu yn ddidor, a phan gafodd Dafydd le i roi ei big i mewn, atebodd yn hamddenol—

"Dydw i'n gwybod dim byd, syr, am eich 'tai' chi, oddigerth y Tŷ Coch yma, a mae hwn, byd ai gŵyr, isio ripârs yn enbyd."

Deallodd y *landlord* fod Dafydd yn sôn rhywbeth am *repairs*, tra mai ei bwnc ef oedd y *tithe*, a chrafodd ei du mewn am hyny o Gymraeg a feddai, a gwaeddodd yn ffyrnig—

"P'am chi Sasneg, Dafydd?"

"P'am chi Cymraeg, syr?" atebodd Dafydd, yn uniawn ddigon, oblegid pa fwy o raid oedd ar Dafydd i fedru Saesoneg, nag i'r mistar tir fedru Cymraeg? Pan welodd y *landlord* nad oedd un gobaith am yr un—

"Robin Rolant o benisa 'r dre
I dd'od yno i gyfieithu pob gair yn ei le,"

ac mai ofer oedd iddo faldordd iaith na ddeallid gan ei denant, ysbardynodd ei geffyl glâs ac ymaith ag ef, a dychwelodd Dafydd i'r tŷ yn ddigyffro. Gwaeddodd yn ngwaelod y grisiau —"Mary, tyr'd i lawr at y 'menyn yma, nei di." Pan ddaeth Mary i lawr, yr hon oedd wedi bod yn gwrando drwy dwll yn y ffenestr—'roedd ffenestri'r Tŷ Coch yn dyllog iawn—ychwanegodd Dafydd—"Be 'roedd y dyn yn sôn am ei dai wrtho i? be wn i am ei dai o?"

"Nid 'tai' oedd o'n ddeyd, fewyrth, ond '*tithe*'—y degwm, wyddoch," ebe Mary.

"Oh!" ebe Dafydd, "ond hidia befo."

Dywedais mai camgymeriad a fuasai galw Dafydd Dafis yn

yn ddyn dwl; ond yr oedd dodrefn ei feddwl nid yn annhebyg i ddodrefn yr anedd yr oedd efe yn byw ynddi. Nid oedd dim *modern furniture* yno. Yr oedd y "pethau" heb ond ychydig gyfnewidiad yno er's oes—yr hen setl wrth y tân—yr hen dresser a'r plâts piwtar arni—yr hen gadeiriau, a'r bwrdd mawr wrth y ffenestr, yr oll yn dderw cadarn. Pan fyddai Betsi, y forwyn, wedi bod yn rhoi tipyn o olew penelin arnynt, byddai rhyw swyn mawr i mi yn nodrefn Dafydd Dafis. Yr unig ddernyn ag yr oedd *amser yn dyweyd arno* ydoedd yr hen gloc wyth niwrnod. Pan fyddai yn taro neu yn warnio, dangosai yn rhy amlwg ei fod yn dyoddef gan *chronic bronchitis*, ac erbyn hyny, yr oedd "tipyn o natur colli ynddo," meddai Dafydd. Rhywbeth yn lled gyffelyb ydoedd meddwl Dafydd—nid oedd fawr o ôl *modern thought* arno. Ac eto, yr oedd efe wedi darllen yn llwyr y llyfrau a enwyd genyf o'r blaen. Wrth ystyried mor hen ffasiwn oedd efe, bûm yn synu lawer gwaith mor ffafriol ydoedd i'r fugeiliaeth eglwysig. Ond ei bwnc mawr ef oedd seiat—yr un a fedrai "gadw seiat" yn dda, dyna'r dyn i Dafydd Dafis.

Fel y dywedais, yr oeddwn yn ofni fod Didymus wedi ei ddigaloni, ac euthum yno. Noswaith seiat ydoedd, ac yr oeddwn yn y Tŷ Coch cyn i Dafydd ddychwelyd o'r cyfarfod. Canfyddais ar ei olwg nad oedd sail i fy ofnau, oblegid yr oedd efe mewn ysbryd rhagorol, ac er mwyn taro ar ei hoff bwnc, dywedais—

"Mi welaf, Dafydd Dafis, eich bod yn parhau i fyn'd i'r seiat."

"Ydw, debyg, a mi fydde'n burion i tithe dd'od yno yn amlach nag wyt ti," ebe fe.

"Chwi wyddoch," atebais, "am fy amgylchiadau—mai anhawdd iawn i mi—yn enwedig yn misoedd yr haf ydyw gadael y siop am saith o'r gloch a myn'd i'r capel, heb wneud cam â mi fy hun. Hawdd iawn ydyw i chwi, y ffermwyr, fyned i'r seiat a'r cyfarfod gweddio, ond byddai raid i ni, y siopwyr, golli y *race* yn fuan, pe baen yn myn'd yn gyson i gyfarfodydd canol yr wythnos."

"Pa râs wyt ti'n cyfeirio ati?" gofynai Dafydd.

"Wel, y *race* efo'r byd—*race* masnach," ebe fi.

"Ho," ebe fe, "ai dyna ydi dy râs di? Ai am y cynta efo'r byd ydi dy bwnc mawr di?"

"Dyledswydd pawb, Dafydd Dafis," ebe fi, "ydyw edrych ar ol ei fywioliaeth."

"Gwir," ebe Dafydd, "ond y mae dyledswydd fwy na hono yn bod. Rhaid i ddyn edrych ar ol ei fywioliaeth; ond fe ddylai edrych mwy ar ol ei fywyd. Mae arnaf ofn, mai pwnc pobol y dyddiau yma ydyw bywioliaeth ac nid *bywyd*."

"Dydach chi ddim yn dyweyd, Dafydd Dafis, fod myn'd i'r seiat yn anhebgorol i gael bywyd tragywyddol?" gofynais.

"Na, dydw i ddim cweit mor ddwl a hyny. Mae miloedd a miliynau, mi obeithia, wedi cael bywyd tragwyddol na fuont erioed mewn seiat, fel y deallir seiat ymhlith Ymneillduwyr Cymru. Mi glywais ambell i ffarmwr yn dweyd y gallai ef wneud yn burion heb fyn'd i'r ffair a'r farchnad; ond ychydig o raen a welais i ar neb o honyn nhw. Mae rhywbeth tebyg iawn, mae arnaf ofn, wedi meddianu meddwl llawer o grefyddwyr y dyddiau hyn—maent yn tybio y gallant fyw yn grefyddol heb fyn'd i foddion gras canol yr wythnos. Os ydynt yn gallu gwneud hyny, yr wyf yn cenfigenu atynt—rhaid eu bod yn well pobol na ni sydd yn ceisio dilyn y moddion yn weddol gyson—oblegid mi wn mai profiad y rhai sydd yn dilyn y moddion ydyw, mai pell iawn ar ol y maent yn cael eu hunain —nid yn unig yn yr hyn y dylent fod o ran eu bywyd ysbrydol, ond hefyd yn yr hyn y dymunent fod. Dyna fel y bydda i yn clywed pobol y seiat yn siarad, a dyna ydyw fy mhrofiad i fy hun. Ond y mae y nifer mwyaf o grefyddwyr y dyddiau hyn yn gallu byw y bywyd ysbrydol, ac ar delerau da â hwy eu hunain—yn berffaith hunan-ddigonol a hapus eu meddyliau—heb ddangos eu gwyneb unwaith yn y flwyddyn mewn cyfarfod gweddio na seiat. Ac y mae amryw o honynt wedi cyrhaedd yr ystâd hono o berffeithrwydd fel y gallont, heb deimlo niwed na cholled, hebgor oedfa bore Sul. Ac os cynyddant mor gyflym yn y dyfodol—ac y mae pob lle i gredu y gwnant—gallant yn fuan iawn wneud heb unrhyw foddion o gwbl—yn unig anfon eu cyfraniadau efo Sali'r forwyn. Yr wyf yn cenfigenu atynt!"

"Yr ydych yn siarad yn gâs, Dafydd Dafis," ebe fi. "Mi wn fod dau feddwl i'ch geiriau. Ond aroswch; yr wyf yn bur sicr fy meddwl fod amryw o'r rhai y cyfeiriwch atynt yn gofidio yn fawr am nad allant ddilyn moddion canol yr wythnos."

"Wel," ebe fe, "gan dy fod yn un o honyn nhw, yr wyt yn debycach o wybod eu meddyliau na fi."

"Aroswch! does bosib," ebe fi, "eich bod yn fy rhoi i ymhlith y dosbarth yr oeddech yn ei ddarlunio yrwan? Mi fyddaf fi yn myn'd i'r seiat yn achlysurol, ac ni bûm erioed mewn seiat ac edifarhau am fyn'd. Ond goddefwch i mi ofyn cwestiwn i chwi, a pheidiwch a meddwl fy mod yn awgrymu dim wrth ei ofyn—a chymeryd pob peth i ystyriaeth—cyfnewidiadau yr amseroedd—y cynydd sydd wedi cymeryd lle mewn manteision addysg—mewn diwylliant a moesoldeb—gymaint mwy gwybodus ydyw ein cynulleidfaoedd, a chymaint uwch ydyw sefyllfa fydol llawer o'n haelodau eglwysig—a ydych yn meddwl fod y seiat *y peth* i ni yn y dyddiau hyn?"

Edrychodd Dafydd Dafis arnaf mewn mudandod, fel pe buasai yn petruso a wnai efe "fy rhoi i fynu" ai peidio, neu fel pe dymunasai gael *notice* o'r cwestiwn. Edrychodd arnaf drachefn a thrachefn, yna llwythodd ei bibell. Perthynai iddo y gwendid hwnw—yr oedd yn ysmygwr—a phan fyddai rhaid arno feddwl yn galed, troai at y bibell am gynorthwy, fel y gwna y frawdoliaeth yn gyffredin. Ymsythodd ychydig yn ei gader, ac ebe fe—

"Mae'r amseroedd, chwedl tithe, wedi cyfnewid yn fawr hyd yn nod o fewn fy nghof i fy hun—er gwell mewn llawer o bethau, ac er gwaeth mewn pethau eraill. Mae addysg wedi cynyddu yn ddirfawr, ac y mae hogiau bach erbyn hyn yn gwybod mwy am bethau cyffredin nag a wyddai dynion mewn oed er's talwm. Ond hyd yr ydw i yn dallt, 'does yr un Datguddiad newydd o bethau ysbrydol wedi ei gael. Chlywais i am yr un prophwyd wedi ei anfon oddiwrth Dduw i gyhoeddi fod y cyfarfod eglwysig yn afreidiol. Glywaist di? A chyda golwg ar y seiat fel sefydliad ag y gwnaed ac y gwneir lles dirfawr drwyddi i eneidiau dynion, nid wyf yn meddwl fod angen ei hamddiffyn; ond yn unig fel yr amddiffynir yr Efengyl ei hun yn ngwyneb ymosodiadau dynion annuwiol. Ac hyd yn nod pe buasai y seiat ar yr un tir a'r Ysgol Sul, sef heb yr un esiampl na gorchymyn ysgrythyrol o'i phlaid, buasai rhesymoldeb a naturioldeb ei sefydliad yn cael cymeradwyaeth calon a deall pob Cristion goleuedig. A glywaist di ryw dro am ryw symudiad, neu ryw deimlad cryf ag yr oedd llawer yn cyfranogi o hono, na fyddai yn diweddu mewn seiat, lle y gallai

pobol drin a thrafod eu pethau—cydymgynghori a chyfnewid meddyliau? Dyna'r teimlad cenedlaethol sydd wedi ei ddeffro yrwan; yr wyt ti yn un o honyn nhw, mi dy wranta. Ond wnewch chi ddim byd o hono heb eich seiat. Ac yr ydach chi wedi dallt hyny, ac yr ydach chi, fel yr ydw i'n clywed, yn sefydlu eich seiadau yn mhob cŵr o'r wlad. Os fel yna y mae hi gyda phethau cyffredin bywyd, ai oni ddylai crefydd gael ei seiat, ac ai oni ddylai pob crefyddwr fod yn aelod selog o honi?"

"Pa nifer, Dafydd Dafis," gofynais, "sydd o'r rhai y mae eu henwau ar lyfr yr Eglwys gyda ni yma, sydd yn rhoi eu presenoldeb yn seiat?"

"Oddeutu un ran o dair, neu ychydig bach gwell," atebodd.

"Yna," ebe fi, "pa fodd yr ydych yn rhoi cyfrif am anmhoblogrwydd y seiat?" Wedi meddwl tipyn, ebe fe—

"Os nad wyf yn camgymeryd, mae ein seiat ni, y Methodistiaid, can hyned a Methodistiaeth ei hun. Sefydlwyd hi pan oedd ein cenedl mewn dygyn anwybodaeth, ond eto wedi ei deffroi gan ddynion wedi eu hanfon gan Dduw—dynion yn llawn o'r Ysbryd Glân. Yr wyf yn meddwl fod i'r seiat, ar ei chychwyniad, ddau amcan o leiaf—sef profi gwirionedd argyhoeddiad y dychweledigion, a'u cyfarwyddo mewn gwybodaeth o bethau ysbrydol. Yr oedd yr amcanion hyn yn dda a gwerthfawr. O ran ffurf, nid rhyw lawer o gyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn ein cyfarfodydd eglwysig. Byddaf yn meddwl fod ar yr Ysgol Sul fwy o ôl cyfnewidiadau yr amseroedd—y cynydd sydd wedi ei wneud mewn addysg fydol—diwylliant a moesoldeb. Ond ysgafn a dibwys, mi gredaf, mae cyfnewidiadau allanol wedi cyffwrdd â ffurf ein seiat, ac hwyrach fod a wnelo hyn rywbeth â'i hanmhoblogrwydd. Seiat brofiad y gelwid hi ar y dechre, ac am brofiad yr ymofynir eto, ac anfynych y mae i'w gael. Yr wyf yn credu fod i'r gair profiad ystyr ar y dechre na cheir mo hono ond yn anaml yn awr. Ar y dechre yr oedd yn meddwl dirdyniadau yr enaid dan argyhoeddiad dwfn o bechod, neu ynte lawenydd mwynhad cymod â Duw. Mi gredaf hefyd fod i'r gair ystyr ychydig yn wahanol gan y Wesleyaid ragor y Methodistiaid Calfinaidd. 'Profiad' yn yr ystyr Wesleyaidd ydyw—pa mor agos y mae dyn wedi myn'd i'r nefoedd, ac yn yr ystyr Galfinaidd, pa mor bell y mae o'r lle dedwydd hwnw. Profiad y Wesley ydyw,

fel y bu iddo goncro'r diafol, a phrofiad y Calfin, yn rhy fynych ydyw, fel y bu i'r diafol ei goncro ef, neu ynte nad oes ganddo ddim neillduol ar ei feddwl. Nid oes un o honynt, 'ddyliwn i, yn iawn, ac eto, y mae'r ddau yn iawn. Mae gan bob dyn brofiad bob dydd o'i fywyd, oblegid profiad ydyw yr hyn y mae dyn yn ei brofi—gwir 'stad ei feddwl a'i galon gyda golwg ar bethau ysbrydol. Mae lle i ofni mai temtasiwn y Wesley ydyw, *gwneud* profiad dymunol, nad ydyw, mewn gwirionedd, yn ei fwynhau, ac mai temtasiwn y Calfin ydyw, gosod ei hun yn y bocs, o flaen y fainc, a hyny mewn ffûg, am y gŵyr mai yno y dylai fod. Temtasiwn un ydyw, ceisio hedeg yn uchel heb esgyll, a themtasiwn y llall ydyw, perswadio ei hun ei fod yn llyfu'r llwch, ac yntau yr un pryd yn ddigon cefnsyth. Pechod parod i amgylchu y naill a'r llall ydyw peidio bod yn onest.

"Mi dd'wedais fod gan bob dyn brofiad, ond rhaid i mi alw'r geiriau yn ôl. Mae yn wir mewn un ystyr, ond nid yn wir yn yr ystyr grefyddol i'r gair. Os gall dyn fyw am wythnos heb deimlo gofid o herwydd ei bechod a'i ddiffygion—heb fod mewn ymdrech ag amheuon—heb i ddirgelwch ac amcan ei fodolaeth groesi ei feddwl—ac heb i ofnadwyaeth y dyfodol ymyryd dim â'i fyfyrdodau—prin y gellir dyweyd fod gan y dyn hwnw brofiad o gwbl, mewn ystyr grefyddol—mae yn perthyn i'r un dosbarth a'r bydol-ddyn di-Dduw. Ond fy mhwnc ydyw hyn—mae y seiat, yn ol fy meddwl i, yn sefydliad hynod fanteisiol, nid yn unig i wrando profiad, ond hefyd i'w greu a'i feithrin. Yr un peth ydyw argyhoeddiad o bechod yn awr ag ydoedd gant a haner o flynyddoedd yn ôl. Mae yr un gwahaniaeth hanfodol yn bod yn awr, fel bob amser, rhwng dyn duwiol a dyn annuwiol. Hwyrach nad ydyw y gwahaniaeth lawn mor amlwg ag y bu. Mae y dyn digrefydd wedi dyfod i fucheddu yn debycach i'r dyn crefyddol, a'r dyn crefyddol, yn rhy fynych, yn bucheddu yn debycach i'r dyn anghrefyddol. Mae lle i ofni, mewn llawer amgylchiad, fod rhyw fath o fargen wedi ei tharo rhwng y byd a'r eglwys. Mae troedigaethau hynod, ysywaeth, erbyn hyn, yn anaml, a bod o fewn ychydig i fod yn Gristion yn ffasiynol. Mae hyn, o angenrheidrwydd, wedi rhoi gwedd wahanol ar ein cyfarfodydd eglwysig. Rhai wedi eu dwyn i fynu er yn blant gyda chrefydd ydyw mwyafrif mawr ein haelodau, a chan amlaf, rhai

nad allant gyfeirio at unrhyw haner dydd ar y ffordd i Demascus. Ac y mae y rhai a ddychwelir o'r byd, o herwydd eu bod yn flaenorol, fel rheol, ymhlith ein gwrandawyr cyson, ac yn ddynion bucheddol, yr un mor analluog i ddatgan dim mwy nag argyhoeddiad graddol nes cyrhaedd rhyw bwynt o berswadiad i gynyg eu hunain i'r eglwys. Beth y mae hyn yn ei ddysgu i ni? Wel, mi allwn feddwl, ei fod yn dysgu nad allwn ddisgwyl, ond yn anfynych, am brofiadau cyffrous a thanllyd fel a geid er's talwm; ond, yn sicr, fe ellir disgwyl am brofiad dwfn a distaw. Heblaw hyny, y mae yn ein dysgu mai prif amcan ein cyfarfodydd eglwysig, erbyn hyn, a ddylai fod creu meddylgarwch, myfyrdod ac ymchwiliad beunyddiol i wirioneddau ysbrydol, a hyny yn y fath fodd ag a grëai ddyddordeb yn mhob dosbarth o'n haelodau. Ni ddylem adael y cyfarfod mwyaf cysegredig a feddwn i siawns a damwain. Dylai y mater sydd i fod dan sylw, fod yn hysbys i'r aelodau cyn myn'd i'r cyfarfod. Mae toraeth o faterion teilwng at ein galwad—maent yn hen, ond bob amser yn newydd i'r rhai sydd yn teimlo pryder am eu cyflwr—megis y rhai canlynol:—Pa rai ydynt nodau gwir argyhoeddiad? Yn mha bethau y mae yr eglwys a'r byd yn debyg ac yn annhebyg? Pa rai ydynt arwyddion cynydd a dirywiad ysbrydol? Pa fodd y gellir cyrhaedd sicrwydd gobaith bywyd tragywyddol? a llu o faterion cyffelyb. Nid wyf yn credu mai y ffordd oreu i gadw seiat ydyw trwy ymgystadlu adrodd am y mwyaf o bregethau y Sabboth. Os adroddir rhywbeth o'r pregethau, adrodded y brawd sylw aeth yn syth i'w galon ef ei hun—sylw wnaeth iddo symud yn ei sêt—ac nid adrodd llarp hir, yn llawer mwy annhaclus nag yr adroddwyd ef gan y pregethwr. Cwestiwn o bwys ydyw, pa beth ydyw yr achos fod nifer mor fychan yn mynychu y seiat. Un rheswm, yn ddiamheu, ydyw yr ofn sydd yn mynwesau rhai gwylaidd eu hysbryd, y gofynir iddynt ddyweyd rhywbeth. Pe cai y dosbarth hwn sicrwydd y caent fod yn wrandawyr yn unig, deuent yn lled gyson, hwyrach, i'r seiat. O'm rhan fy hun, tra y buaswn yn rhoi cyfleusdra ac anogaeth i bawb ddyweyd yr hyn fyddo ar ei feddwl, ni fuaswn yn gwasgu am brofiad na dim arall gan y rhai y gwyddis mai gwell ganddynt fod yn ddistaw, oddigerth fod rhyw reswm neillduol yn galw am hyny. Rheswm arall, mae'n debyg, ydyw diffyg gwroldeb ynom ni, y swyddogion, i wneud ein

dyledswydd tuag at yr aelodau. Dylid rhoi ar ddeall y disgwylid i bob aelod, hyd y mae ynddo ef, roddi ei bresenoldeb yn y seiat o leiaf yn achlysurol os nad yn gyson, ac nad ystyrid y rhai sydd yn esgeuluso yn wirfoddol, mwyach yn aelodau o gwbl. Ond y rheswm penaf, yn ddiau, fod can lleied yn dyfod i'r cyfarfod eglwysig ydyw, diffyg chwaeth grefyddol, os nad diffyg hollol o grefydd. Mae y byd rywfodd, erbyn hyn, wedi cael y llaw uchaf arnom. Yr ydym wedi ffurfio a llunio ein hamgylchiadau fel nad ydyw yn bosibl i grefydd gael chware teg. Rhaid ydyw edrych ar ol yr amgylchiadau, fel yr oeddit ti'n dyweyd, ond yr wyf yn meddwl fod yn bosibl eu trefnu yn well. Mae nifer o'n pobol ifainc dan gaethiwed oriau masnach, fel nad allant ddyfod i foddion canol yr wythnos pe dymunent. Ni ddylai y pethau hyn fod felly. Crefyddwyr, mewn enw, ydyw y nifer mwyaf o fasnachwyr trefi Cymru; a phe byddai tipyn o yni ynddynt, gallent gael gan bawb gau ei siopau fan hwyraf am saith o'r gloch. Ond nid oes un ymdrech, gwerth sôn am dano, wedi ei wneud ganddynt yn y ffordd hono. Yr ydym yn rhy fydol i ddyweyd nos dawch wrth y byd am saith o'r gloch, a thra y parhäo pethau fel hyn, nid ydyw yn bosibl i gyfarfodydd crefyddol gael chware teg. Mae lle i ofni mai y byd a bïau llawer o honom ag y mae enw crefydd arnom—ei bobl ef ydym a defaid ei borfa. A phwy bynag a ddaw yma fel bugail, pa un ai Mr. Obediah Simon ai rhywun arall, os na all ddwyn oddiamgylch ddiwygiad yn y peth yma, fe fydd ei lafur yn ofer."

Ni chynygiais un wrthddadl yn erbyn yr hyn a ddywedai Dafydd Dafis, am nad oeddwn yn dewis ei flino, ac hefyd am fy mod yn cydweled â llawer o'r hyn a ddywedai.

## PENNOD XXV.

### ENOC A MARGED.

Mae sefydlu bugail ar eglwys, erbyn hyn, yn beth mor gyffredin—er, hwyrach, pe buasai yn fwy cyffredin, mai da fuasai hyny i lawer o eglwysi—a'r seremoni mor unrhywiol, fel nad wyf yn bwriadu blino y darllenydd gydag adroddiad manwl o'r amgylchiad. Dywedaf hyn, fel awgrym i feddwl am dano eto,—er mwyn darllenwyr newyddiaduron Cymreig, ac er mwyn cyfarfod tuedd y natur ddynol at amrywiaeth, ac hefyd er dangos i'r oes a ddêl mor agored ydyw tymheredd y meddwl dynol i gyfnewidiadau, ac fel y mae ychydig flynyddoedd, ac weithiau ychydig fisoedd, yn troi dynion tugwrthwyneb allan—mai buddiol a fyddai cael mwy o seremoni yn nglŷn â *dad*sefydliad bugeiliaid. Heb amgylchu môr a thir, waeth dweyd ar fyr eiriau, sefydlwyd y Parchedig Obediah Simon yn fugail ar eglwys Bethel. Ar ol yr ymgom yn nhŷ Dafydd Dafis, ni chollodd Eos Prydain un cyfleusdra i osod allan ragoriaethau Mr. Simon ger bron pob aelod o eglwys Bethel y digwyddodd gyfarfod âg ef. Nid y rheswm lleiaf a ddefnyddiai yr Eos gyda'i gyfeillion dros iddynt alw Mr. Simon yn fugail oedd, fod arnynt eisiau rhywun a fedrai roi taw ar Didymus. Am ryw reswm neu gilydd, yr oedd Didymus yntau wedi penderfynu myned i lawr ei lewys a bod yn fud yn yr amgylchiad. Wrth weled fod y teimlad yn gryf a chyffredinol yn mhlaid Mr. Simon, ni fynegodd Dafydd Dafis ei deimlad personol, yn unig anogai bawb i weddïo yn ddyfal am gael arweiniad. Yn mhen tri mis yr oedd Mr. Simon yn weinidog Bethel.

Prin yr oedd Mr. Simon wedi troi yn ein plith bythefnos pryd y taenwyd y newydd galarus fod gwaith Pwllygwynt wedi sefyll. Yr oedd hyn yn ddigwyddiad anffortunus iddo ef ac i eglwys Bethel, a phe gwybuasid yn gynt fod y fath anffawd wrth y drws, mae yn fwy na thebyg y buasai y rhai mwyaf selog o bleidwyr Mr. Simon yn petruso nid ychydig cyn cymeryd y cam a wnaethant, yn gymaint a bod nifer mawr o

aelodau Bethel yn dibynu yn hollol ar Bwllygwynt am eu cynhaliaeth, ond felly y bu; a phwy a all ragweled digwyddiadau o'r fath? Yr oedd y cwrs wedi ei gymeryd, ac mwyach nid oedd dim i'w wneud ond y goreu o hono. Ond yr oedd yno rai gwrthfugeilwyr bron ag awgrymu nad oedd yr holl anffawd ond barn ar eglwys Bethel am yr hyn a wnaeth. Tipyn o beth, hefyd, oedd fod eglwysi eraill, ac hyd yn nod Eglwys Loegr, yn gorfod dyoddef oddiwrth y *farn* a ddaeth ar eglwys y Methodistiaid!

Ni fuasai Capten Trefor, o herwydd amgylchiadau anorfod, yn bresenol yn y cyfarfodydd eglwysig er ys rhai misoedd, ac felly yr oedd yr eglwys wedi gorfod myned trwy yr argyfwng o ddewis bugail heb gynorthwy ei farn ef. Cyflenwid y Capten â holl fanylion trafodaethau y seiat gan Mrs. Trefor, yr hon oedd yn hynod ffyddlon yn y moddion. Nid anfynych y gresynai Mrs. Trefor nad allai y Capten gynorthwyo y brodyr yn y trafodaethau hyn, ond atebai y Capten—

"Chwi wyddoch, Sarah, er fod amgylchiadau bydol, mewn ffordd o siarad, yn cymeryd fy holl amser, o herwydd fod bywoliaeth llawer teulu yn dybynu arnaf, chwi wyddoch, meddaf, fod fy nghalon gyda chwi—'rwyf yn bresenol gyda chwi yn yr ysbryd, er yn absenol o ran y corph, ac 'rwyf yn meddwl na pherffeithir chwithau hebof finau hefyd." Ac ychwanegai y Capten, "o herwydd fy mod yn cydweled yn hollol â'r hyn y mae eglwys Bethel wedi ei wneud—sef dewis Mr. Simon i'n gwasanaethu, nid wyf yn gweled, meddaf, y buasai y *result* yn wahanol, hyd yn nod pe buaswn yn bresenol yn yr holl gyfarfodydd, oblegid fe ŵyr pawb fy mod bob amser yn bleidiol i fugeiliaeth eglwysig, a fy mod, ar fwy nag un achlysur, wedi dangos, gyda rhesymau teg ac anwrthwynebadwy, yr afresymoldeb i ni, mwy nag un enwad arall, fod yn amddifad o weinidog—cwbl rydd oddiwrth ofalon bydol—i edrych ar ol lles ysbrydol yr aelodau a'r gymydogaeth yn gyffredinol."

Rhoddai y mynegiad hwn a'r cyffelyb foddlonrwydd i Mrs. Trefor fod eglwys Bethel wedi cael ei chadw rhag gwneud camgymeriad, er nad oedd y Capten wedi ei helpu â'i gynghorion. I ddangos yn helaethach ei gymeradwyaeth o'r hyn a wnaed gan yr eglwys, ebe'r Capten, ryw ddiwrnod—

"Sarah, er nad ydyw ein hamgylchiadau y peth y buont, nid gweddus i ni ddangos un math o oerfelgarwch tuag at ein

gweinidog, a gwell a fyddai i chwi ofyn i Mr. Simon ddyfod yma i gael tamaid o swper gyda Mr. Huws, Siop y Groes, a Mr. Denman."

Hyfrydwch gan Mrs. Trefor ydoedd gwneud hyn, ac nid annifyr gan Mr. Simon ydoedd cydsynio, oblegid clywsai fod Capten Trefor yn ŵr o ddylanwad yn y gymydogaeth, ac, hyd yn hyn, ni feddai ond cydnabyddiaeth anmherffaith iawn âg ef a'r teulu. Mae'n wir ei fod wedi *sylwi* ar Miss Trefor, ac wedi bod yn siarad unwaith neu ddwy gyda Mrs. Trefor.

Nid drychfeddwl yn unig, erbyn hyn, ydoedd y fentar newydd, sef gwaith Coed Madog. Na, yr oedd y Capten wedi gosod amryw ddynion ar waith i sincio, ac eisioes wedi tynu allan y planiau o'r *office*, yr *engine-house*, &c., ac mewn gohebiaeth am *machinery*. "Oblegid," ys dywedai y Capten, "yr oedd yn rhaid edrych ar y ffaith yn ei gwyneb wrth gychwyn, y byddai i'w hen elyn, sef dw'r, yn sicr o ddangos ei ddanedd, ac y byddai raid i gwmni Coed Madog ddangos iddo yntau fod dyfais dyn yn y ffurf o *machinery* yn drech nag ef. Yn wir," meddai y Capten, " lle bynag y mae plwm mawr, y mae yno hefyd ddw'r mawr. Megis, yn fynych iawn, y mae yn rhaid myn'd trwy dân—yn y ffurf o *gas*—i gael glo, felly y mae'n rhaid, yn mron yn ddieithriad, myn'd trwy ddw'r i gael plwm. Mae i bob trysor, syr," meddai y Capten, "mewn natur a gras ei wyliwr eiddigus, a gwyliwr y plwm ydyw Dw'r. Ond, gyda bendith a rhwydeb, ni a ddygwn y caffaeliad o law y cadarn. Medrusrwydd, amynedd, ffydd, a chalon i fentro, ac nid oes genyf ofn na'r amheuaeth lleiaf na welir y gymydogaeth hon eto yn llwyddianus, a dynion, o herwydd cyflawnder gwaith, ar ben eu digon."

Yr oedd Enoc Huws, erbyn hyn, yn ymwelydd cyson â Thy'nyrardd, ac wedi gorchfygu llawer ar ei yswildod, a magu mwy o wroldeb nag y tybiasai efe ei hun un tro yn alluog o hono. Yr oedd yn iechyd i galon dyn sylwi ar y cyfnewidiad dymunol a ddaethai drosto. Yn lle—fel yr arferai—bod â'i holl fryd ar y siop—y cyntaf yn agor a'r olaf yn cau, ac wedi cau, yn llusgo ei hun yn flinedig yn ei ddillad blodiog i'r *office* i ysmygu o getyn byr i aros amser gwely—yr oedd efe yn awr, fel masnachwr parchus ac annibynol, yn gorchymyn cau y siop can gynted ag y clywai efe y gloch wyth. Yna elai yn syth i'r llofft i eillio ac ymolchi—deuai i lawr y grisiau fel pin mewn

papur—gosodai rosyn, os gallai gael un, yn nhwll lapel ei gôt—taniai ei sigâr—cymerai ffòn a phen arian iddi yn ei law, ac elai am dro i Dy'nyrardd. Codai ei het yn foesgar foneddigaidd pan gyfarfyddai ferch ieuanc a adwaenai, ac yn ad-daliad, derbyniai wên gydnabyddgar, yr hon a addfedai i chwerthiniad wedi iddo ef fyned heibio. Er y dydd y daeth Enoc gyntaf i Siop y Groes, cydnabyddid ef gan bawb fel gŵr ieuanc da, gwylaidd, a chrefyddol, ond yr oedd gorfoesgarwch yn rhywbeth cwbl newydd yn ei gymeriad. Nid ystyriai ei gymydogion y ffaith—yr hon oedd ddigon adnabyddus erbyn hyn, sef fod Enoc yn bartner yn y fentar newydd—yn rheswm digonol am y cyfnewidiad sydyn a thrylwyr a ddaethai drosto, ac nid oedd modd rhoddi cyfrif am dano—yn enwedig gan y merched—ond drwy ddweyd fod Enoc yn parotoi ei hun i fod yn ŵr i ferch y Capten Trefor. Anwanegid eu ffydd yn ddirfawr yn y grediniaeth hon gan ffaith amlwg arall—sef y cyfnewidiad cydamserol yn ngwisg, dull, ac ymddygiad Miss Trefor. Yr oedd yr eneth, meddent, yn prysur adnabod ei hun, ac yn dechreu dyfod i fod fel rhyw eneth arall—nid oedd yn dangos "*airs*"—nid oedd yn dal ei phen mor uchel—yr oedd yn dyfod i'r capel yn gyson—yn sylwi ar bawb, tlawd a chyfoethog,—yn weddus ei gwisgiad—yn ostyngedig ei hysbryd. Amlwg ydoedd, meddai ei chyfeillesau, ei bod wedi anobeithio cael boneddwr yn ŵr, a'i bod yn cyfaddasu ei hun i fod yn wraig i fasnachwr, a'i bod yn parotoi magl i ddal Enoc Huws, druan ŵr. Eglur ydoedd, meddai yr un awdurdodau, mai egwyddor Miss Trefor oedd lefelio i lawr, ac egwyddor Enoc oedd lefelio i fynu, ac mai'r canlyniad naturiol a fyddai yn y man—cyd-ddealltwriaeth—canu'r clychau—taflu *rice*, a gwaeddi hwre! Yr oedd y mater wedi ei setlo gan y cymydogesau—nid oedd dim arall yn bosibl.

Ar y cyfan yr oedd Enoc yn lled lon ei ysbryd—o leiaf yn ymddangos felly—ond da a fuasai ganddo pe cawsai weledigaeth mor eglur a'i gymydogion. Prin yr elai diwrnod heibio heb i rywun neu gilydd ei longyfarch am ei ragolygon. Ar y dechreu, byddai hyn yn boenus iawn iddo, yn enwedig pan siaradai rhai o'i gwsmeriaid diseremoni am y peth yn ngwydd ei gynorthwywyr yn y siop. Byddai enw Miss Trefor yn peri iddo deimlo fel torth newydd dd'od o'r pobty. Ond y mae dyn yn dyfod i ddygymod â phobpeth yn mron, ac o dipyn i beth

toimlai Enoc yn siomedig os äi diwrnod heibio heb i neb gyfeirio at deulu Ty'nyrardd. Yr oedd rhai o'i gwsmeriaid—mwy gonest na chall—yn meiddio siarad yn anfwyn am wrthrych ei serch, ac er na ddywedai Enoc ddim (yr oeddynt yn gwsmeriaid da) tystiai ei wyneb nad hyfryd oedd ganddo glywed eu hymddyddan, ac, yn ei galon, yr oedd yn cashau pob un a sibrydai air anmharchus am Miss Trefor. Deuai un wraig dafodrydd i Siop y Groes bob nos Sadwrn pan fyddent ar fin cau. Protestiai y wraig hon fod Enoc a Miss Trefor yr un ffunud a'u gilydd, ac er fod Enoc yn cymeryd arno ei fod wedi blino ar ei stori, sylwai y cynorthwywyr y byddai efe bob amser yn rhoi *sweets* i blant y wreigan hon.

Er mor gyffredinol oedd y grediniaeth yn ngharwriaeth Enoc a Miss Trefor, yr oedd un na allai oddef sôn am y peth, ond fel chwedl ffôl a disynwyr, a'r un hono oedd Marged, *housekeeper* Enoc ei hun. Cyfaddefai Marged fod ei meistr yn mynychu Ty'nyrardd yn lled gyson, ond yr oedd yn *gorfod* gwneud hyny, meddai hi, am ei fod wedi bod mor ffôl a dechreu "mentro." Ond nid oedd hi wedi bod yn Siop y Groes am gyhyd o amser heb wybod meddwl ei meistr, ac yr oedd sôn am i'w meistr hi briodi rhyw ddoli a ffifflen anfedrus fel Miss Trefor yn *insult* i synwyr cyffredin yn ngolwg Marged. Byth ar ol y noson y dywedasai Enoc wrth Marged y gwnaethai hi wraig ragorol, a'i fod yn resyn o beth ei bod heb briodi, yr oedd y ddau wedi byw ar delerau hynod o hapus. Yr oedd Marged mor dirion a chyweithas, ac mor ofalus am ei gysuron ac am gario allan ei ddymuniadau, ac hyd yn nod ei awgrymiadau, fel nad allai Enoc ddyfalu rheswm am y cyfnewidiad dymunol hwn yn ei hymddygiad, oddigerth ar yr ystyriaeth ei bod wedi ei breintio â synwyr newydd 'spon. Rhoddai Enoc y fath bris ar y gwelliant hwn yn ei gartref, fel y darfu iddo, un noswaith, o hono ei hun, grybwyll wrth Marged am godiad yn ei chyflog. Ond ni fynai Marged glywed am y fath beth—yn wir, 'doedd ganddi hi, meddai, eisiau dim cyflog ond *just* ddigon i gael dillad symol teidi. Sylwasai Enoc, gyda phleser, fod Marged, yn ddiweddar, wedi ymdecâu gryn lawer. Tipyn o slyfen a fuasai hi bob amser, a difyr gan Enoc oedd sylwi ar geisiadau Marged i fod yn fain ei gwasg ac yn fin-geuad. Ond er gwneud ei goreu yn y ffordd hon, lled aflwyddianus a fu ymdrechion Marged—yn enwedig gyda'r wasg—oblegid wedi

tynu a thynu, nid oedd fawr well yr olwg na phe rhoisid gardas o gwmpas canol sached o datws. Ac nid allai Marged, gyda diogelwch, ychwanegu *bustle* neu *dress improver*, canys yr oedd y rhanau hyny a addurnir gan y cyfryw bethau eisioes o faintioli mor anghymedrol fel pe rhoisid unrhyw atodiad y tybiasai hyny yr angenrheidrwydd o ledu allan furiau Siop y Groes. Serch hyny, hyfryd odiaeth gan Enoc oedd gweled y gwelliant hwn yn niwyg ei *housekeeper*, oblegid yr oedd yr olwg aflawen a fyddai arni, yn rhy fynych, yn yr amser a basiodd, wedi bod yn brofedigaeth fawr iddo fwy nag unwaith, ac wedi peri iddo ofni i bobl gredu nad oedd efe yn rhoi o gyflog iddi ddigon i gael dillad gweddus. Wrth weled Marged wedi ymdwtio cymaint, nid allai Enoc lawer pryd beidio ei chanmol a'i llongyfarch ar ei hymddangosiad. Yr oedd Enoc Huws yn ŵr mor dirion a hael-galon, fel y bu i waith Marged yn gwrthod yn bendant godiad yn ei chyflog, achosi poen mawr iddo. Gresynai at ei diniweidrwydd, ac yr oedd efe yn ddyn rhy gydwybodol i gymeryd mantais ar hyny. Nid allai Enoc gael tangnefedd i'w feddwl heb wobrwyo Marged mewn rhyw ffurf neu gilydd am ei gwasanaeth gwerthfawr—ei gofal dibaid am dano, ac am wneud ei dŷ yn rhywbeth tebyg i gartref.

Meddai Marged dymher mor ryfedd, fel yr ofnai ei meistr gynyg anrheg o ddilledyn iddi; ac eto, pa ffordd arall y gallai efe ddangos ei werthfawrogiad o'i gwasanaeth? Mentrodd un diwrnod, gydag ofn, gynyg iddi anrheg o *broach*. Boddhawyd Marged yn ddirfawr—yn wir, gorchfygwyd hi gan ei theimladau, ac nid allai beidio colli dagrau. Wrth ganfod ei mawr foddhad, anrhegodd Enoc hi, o dro i dro, âg amryw ddarnau o ddilladau, cyfartal o ran gwerth i swm y codiad yn y cyflog y bwriadasai efe roddi iddi. Yr oedd llonder Marged ar dderbyniad yr anrhegion, a'r effeithiau daionus oedd yn dilyn, yn fforddio pleser mawr i Enoc. Un diwrnod, tybiai Enoc fod gwobr yn ddyledus i Marged—yn fwy felly, am ei bod wedi gwrthod yn benderfynol ei chwarter cyflog, gan ddweyd wrtho am ei gadw hyd ryw dro arall. Gofynodd Enoc i Marged beth fuasai hi yn ddymuno gael yn y ffurf o rôdd; a synwyd ef gan ei hatebiad, ac nid allai beidio chwerthin yn ei lewys, "Wel, gan y'ch bod chi mor geind, mistar," ebe Marged, "mi faswn yn leicio'n anwêdd gael modrwy tebyg i hona sy' gynoch chi, ond heb fod mor gostus."

Yr oedd ffyddlondeb Marged mor fawr, ei diniweidrwydd plentynaidd mor amlwg, fel na feiddiai Enoc wrthod ei chais, ac ebe fe, "Wel, gan mai dyna leiciech chi gael, ewch i siop Mr. Swartz i brynu un, a deudwch wrtho y dôf i yno i dalu. Mi gewch fodrwy go lew, Marged, am rhw bum' swllt ar hugain." "Yr ydach chi'n bur garedig, mistar," ebe Marged, ac i siop Mr. Swartz hi a aeth heb golli llawer o amser. Ond er treio llawer ni feddai Mr. Swartz fodrwy ddigon ei hamgylchedd i fŷs Marged, a phe buasai efe yn fasnachwr anonest, anfonasai yn ddirgel i siop yr *ironmonger* am fodrwy cyrten gwely. Ond ni wnaeth hyny, eithr yn hytrach cymerodd fesur ei bŷs i gael gwneud modrwy yn arbenig iddi. Pan glywodd Enoc gan Marged am hyn, teimlai awydd angherddol i chwerthin, ond ni feiddiai. Pa fodd bynag, yr oedd y ddau yn cyd-fyw yn "ffamws," a dechreuai Enoc fwyn gredu, os digwyddai iddo fod yn llwyddianus i enill llaw a chalon Miss Trefor—ei phriodi, a'i dwyn i Siop y Groes, na fyddai raid troi Marged i ffwrdd fel yr ofnasai. "Hwyrach," ebe Enoc, rhyngddo ag ef ei hun, "ei bod hithau, fel llawer eraill, yn meddwl fod pobpeth wedi ei wneud i fynu rhyngof fi â Miss Trefor, a'i bod yn ymbarotoi erbyn y bydd Miss Trefor yn Mrs. Huws; a diolch am hyny. 'Rwyf yn cofio'r amser pan fyddwn yn dychrynu wrth feddwl be ddeude Marged pe baswn yn sôn am briodi. Druan ydi Marged! Yr hen greadures ddiniwed a ffyddlon, mi leicie ngwel'd i wedi priodi a setlo i lawr."

Gan fod yn mron bawb o'i gydnabyddion, yn eu tro, wedi crybwyll wrtho—rhai yn chwareus, eraill yn ddifrifol—enw Miss Trefor, synai Enoc, weithiau, wrth feddwl na ddarfu i Marged erioed sôn am dani, nac awgrymu dim am y siarad oedd mor gyffredinol yn y gymydogaeth am ei garwriaeth. A llawer tro pan ddigwyddai iddo aros yn hwyr yn Nhy'nyrardd, y disgwyliai Enoc i Marged led-awgrymu rhywbeth at yr argoelion. Ond y cwbl a ddywedai Marged a fyddai—"Sut mae'r gwaith mein yn dwad ymlaen, mistar?" a dywedai Enoc ynddo ei hun—"Dydi hi ddim yn leicio cymeryd hyfdra arna' i."

Aethai pethau fel hyn yn mlaen yn hynod o gysurus yn Siop y Groes am amser. Yr oedd Enoc wedi gwario gryn lawer o arian i brydferthu ei dŷ, oddimewn ac oddiallan, a phob teclyn

newydd a ychwanegwyd at y dodrefn wedi derbyn cymeradwyaeth wresog Marged, ac nid oedd ond un peth yn ol yn ngolwg Enoc i wneud ei fywyd yn berffaith gysurus. Ond byr ei barhad ydyw dedwyddwch dyn syrthiedig ar y goreu, ac yn aml pan fydd y cwpan yn ymddangos yn mron yn llawn at yr ymyl, a ninau ar fedr drachtio gydag aidd, mae rhyw ffawd ddrwg yn ei thori yn deilchion yn ngwydd ein llygaid. A goreu bo'r dyn, tebycaf yn y byd ydyw i'r aflwydd hwn ddigwydd iddo, fel pe byddai y nefoedd yn rhy eiddigus i ddyn fwynhau gormod ar y byd hwn, rhag i'w ddisgwyliadau yn y nesaf gael eu siomi. Gwirwyd hyn yn rhy fuan yn hanes Enoc a Marged—y ddau fel eu gilydd, fel y ceir gweled yn y bennod nesaf.

---

## PENNOD XXVI.

### TORI AMOD.

Yr oedd terfyn i amynedd a hirymaros hyd yn nod Marged, *housekeeper* Enoc Huws. Ac un noson, tra yr oedd ei meistr yn aros yn hwyr yn Nhy'nyrardd, a'r nos i Marged—nid i Enoc—yn ymddangos yn hir a thrymaidd a digysur, penderfynodd yn ei meddwl y siaradai â'i meistr pan ddeuai gartref, oblegid yr oedd hi wedi blino byw fel hyn, a gwnaeth ddiofryd y mynai ddealldwriaeth clir ar y mater. Ac wedi i Marged benderfynu ar rywbeth, dyna oedd i fod heb ail siarad. Mae yn wir y teimlai hi ei bod yn cymeryd cam pwysig, a phan glywodd hi ei meistr yn canu'r gloch, pe buasai gan Marged *nerves*, buasai yn teimlo yn *nervous*, ond gan na feddai hi bethau felly, y peth tebycaf y gallai hi gydmaru ei theimlad iddo oedd—pan fyddai ambell ddiwrnod yn methu penderfynu pa un ai pobi ai golchi a wnai. Can gynted ag y daeth Enoc i'r tŷ canfyddodd nad oedd Marged yn edrych lawn mor fywioced ag arferol, a thybiodd ei bod wedi hepian yn drymach na

chyffredin, a'i bod heb ddeffro yn hollol. Am unwaith, er mawr ryfeddod i Enoc, ni ofynodd Marged "pa fodd yr oedd y gwaith mein yn dyfod ymlaen," ond gyda ei fod wedi tynu ei esgidiau, a hithau wedi estyn ei slipars iddo, edrychodd Marged yn myw llygad Enoc gyda chymaint o ddifrifwch, fel ag i'w adgofio am ei hen ffyrnigrwydd, ac ebe hi—

"Wel, mistar, be ydach chi'n feddwl neud?"

Edrychodd Enoc am foment braidd yn yswil, a meddyliodd fod Marged, o'r diwedd, yn *myn'd* i sôn am Miss Trefor, ac nid annifyr oedd hyny ganddo, ac ebe fe, gyda gwên ar ei enau—

"At be yr ydach chi'n cyfeirio, Marged?"

"At be yr ydw i'n cyfeirio?" ebe Marged, "on' wyddoch chi o'r gore at be yr ydw i'n cyfeirio. Isio gwbod ydw i be 'dach chi'n feddwl neud, achos y mae'n bryd i chi neud rhwbeth."

"Wel," ebe Enoc, dipyn yn wyliadwrus, "yr ydw i braidd yn gesio at be yr ydach chi'n cyfeirio, ac mi wnaf addef *fod* yn bryd i mi wneud rhywbeth, a gobeithio na fydd hi ddim fel hyn o hyd. Ond fedr dyn ddim cael ei ffordd ei hun bob amser, chwi wyddoch hyny, Marged."

"Be sy'n rhwystro i chi gael y'ch ffordd y'ch hun? 'Rydach chi wedi cael y'ch ffordd y'ch hun er's gwn i pryd, a be sy'n rhwystro i chi gael y'ch ffordd y'ch hun 'rwan?" ebe Marged.

"'Dydach chi ddim yn gwybod pobpeth, Marged," ebe Enoc.

"Mi wn hyny'n burion," ebe Marged, "mi wn nad ydw i'n dallt dim am fusnes; a ddaru chi wel'd rhwfun rw dro oedd yn gwbod pobpeth? 'Rydw i'n meddwl y gwn i sut i gadw tŷ cystal a neb a welsoch chi eto, beth bynag."

"'Rwyf bob amser yn dweyd, fel y gwyddoch chi, Marged," ebe Enoc yn fwyn, "nad oes eisiau eich gwell fel *housekeeper*. Ydw i ddim wedi dweyd hyny laweroedd o weithiau, Marged?"

"Be arall fedrech chi ddeyd," ebe Marged, mwy na heb yn dawel.

"Gwir iawn," ebe Enoc. "Ond dyna oeddwn i yn myn'd i ddeyd: 'rydach chi wedi hintio y mod i yn hir yn gwneud rhywbeth, ac felly yr ydw i. Ond fedr dyn ddim gwneud pobpeth y mae yn ei ddymuno. Mi wn eich bod yn teimlo yn unig yn yr hen dŷ mawr yma ar eich pen eich hun, yn enwedig er's pan ydw i wedi dechreu myn'd i Dy'nyrardd, ac yn aros

allan yn hwyr. Ac y mae hyny yn ddigon naturiol. Nid da bod dyn ei hunan, medde'r Beibl, ac nid da bod merch ei hunan chwaith. Ond pa help sy gen' i am hyny? Mi wn eich bod wedi blino disgwyl i mi briodi. Ond y gwir am dana i ydi hyn—waeth i mi siarad yn blaen—dydw i ddim wedi sôn am hyn wrth neb arall—mae'n digwydd weithiau i ddyn fod am flynyddoedd cyn llwyddo yn ei gais, a'r gwir ydyw—'newch chi ddim sôn am y peth wrth neb, 'newch chi, Marged?"

"Nana, soniais i air wrth neb erioed," ebe Marged.

"Wel," ebe Enoc, "y gwir ydyw, dydw i damed nes efo Miss Trefor heddyw nag oeddwn i yn y cychwyn. Mae hi yn eneth anhawdd iawn i'w henill. Yr wyf, mi wnaf addef, yn ei charu yn f——."

Ni ynganodd Enoc air arall. Dychrynwyd ef gan yr olwg oedd ar Marged. Y peth cyntaf a'i tarawodd â syndod oedd ei llygaid, y rhai, yn gyffredin, oeddynt mor anfynegianol a llygaid mochyn tew, ond y rhai, yn awr, a agorent arno led y pen gan wreichioni tân fel llygaid teigres. Teimlai Enoc fod eu fflamau yn mron a'i gyrhaedd, a gwthiodd ei gadair yn ol yn anymwybodol. Yna gwelai ei gwefusau yn glasu, a'r glesni yn ymledu dros ei holl wyneb, ond ni symudai gewyn yn ei chorph. Yr oedd Enoc wedi ei syfrdanu yn gymaint fel nad allai ofyn beth oedd yr anhwyldeb oedd arni, ond credai yn sicr fod Marged wedi gorphwyllo ac ar fin gwneud llam arno a'i dynu yn garïau,* neu ynte ar fin cael *stroke*, ac nid oedd mwyach nerth ynddo, pryd y rhoddodd Marged ysgrech annaearol, megis ysgrech mil o gathod gwylltion, ac y syrthiodd fel marw ar lawr. Mewn dychryn a fu agos a bod yn angau iddo, rhuthrodd Enoc at ddrws y ffrynt ar fedr ymofyn cynorthwy, ond cyn agor y drws, cofiodd ei bod yn haner y nos, ac y gallasai Marged druan farw tra y byddai efe yn ceisio rhywun yno. Fel y brenin hwnw gynt, crynai ei liniau yn nghyd tra yr oedd yn cymhwyso dwfr oer at wyneb Marged, ac er cymaint oedd ei fraw, nid allai Enoc, wrth edrych yn ddiallu a syfrdanol ar ei gruddiau hagr, beidio meddwl am y darlun hwnw o Apolion oedd ganddo mewn argraphiad o *Daith y Pererin*. Yr oedd Enoc yn sicr yn ei feddwl—gan nad beth oedd clefyd Marged—nad allai curiadau ei chalon fod yn gyflymach na'r eiddo ef ei hun, a meddianodd, yn y man, ddigon o nerth i wneud cydmariaeth, a chafodd ei fod yn

* carrai loce, thong; 'pull him to shreds' in Voc. Bangor p. 240.

gywir. Tra yr oedd efe yn teimlo *pulse* Marged, yn hollol sydyn, hi a ddechreuodd gicio yn enbyd, a thaflu allan ei breichiau preiffion, yr hyn a argyhoeddodd Enoc mai mewn ffit yr oedd Marged druan. Cadarnhawyd yr opiniwn hwn yn ei feddwl gan y ffaith ei bod yn rhincian ei danedd yn gynddeiriog. Gwelsai Enoc o'r blaen rai yn yr un cyflwr, ac yr oedd efe yn gyfarwydd â'r moddion a ddefnyddid. Rhag iddi gnoi ei thafod, llwyddodd Enoc, ar ol mawr drafferth, i roddi llwy yn ei safn (edifarhaodd wneuthur hyn), yr hyn, pe buasai efe yn ddigon tawel ei feddwl i fwynhau yr amgylchiad, a ychwanegodd gryn lawer at ddyddorbeb yr olygfa, oblegid cydiodd Marged â'i danedd yn y llwy fel y bydd hen ysmygwr daneddog yn cydio mewn cetyn pan fydd chwant mygu arno. Fel y sylwyd o'r blaen—o ran nerth corphorol (nid wyf yn awr yn sôn am ei feddwl) nid oedd Enoc ond eiddilyn; ond fel gwir ddyngarwr, yr oedd am wneud ei oreu, yn ol ei allu, i gael Marged yn iach o'r anhwyldeb, a dechreuodd yn egniol—fel y gwelsai rai yn gwneud o'r blaen—guro cledrau ei dwylaw. Gŵyr pawb pa mor gryfion ydyw pobl pan mewn ffit; a Marged, yr hon oedd hynod o gref wrth natur, pan ddechreuodd Enoc guro cledrau ei dwylaw, a luchiodd allan ei braich ddeheu gyda dwrn cauedig, ac a darawodd Enoc yn môn ei drwyn nes oedd yn llechan ar lawr a'i waed yn llifo. Yn llawn tosturi at y dyoddefydd, ac heb falio dim yn yr ergyd a gawsai, neidiodd Enoc ar ei draed yn chwimwth, ond yr oedd y dyrnod wedi ei ddinerthu mor dost, a Marged hithau yn parhau i gicio a lluchio a baeddu, fel y gwelodd Enoc yn amlwg y byddai *raid* iddo ymofyn cymorth o rywle. Rhuthrodd allan, ac er ei lawenydd, pwy a ganfyddai, fel pe buasai newydd ddyfod i'r fan a'r lle, ond Jones y plismon.

"Dowch i mewn ar unwaith, Mr. Jones bach," ebe Enoc.

"Beth ydi'r helynt, Mr. Huws?" gofynai Jones yn araf a digyffro, "beth ydi'r gwaeddi sydd yn eich tŷ chi?"

"Ond Marged yma sy mewn ffit, dowch i mewn, dowch i mewn ar unwaith," ebe Enoc.

Cerddodd Jones i mewn yn hamddenol a throed-drwm, ac wedi d'od i'r goleuni, synwyd ef yn fwy gan yr olwg oedd ar wyneb gwaedlyd Enoc, na chan yr olwg annaturiol oedd ar Marged gyda llwy yn ei safn. Yr oedd Marged wedi llonyddu, ac edrychodd Jones yn wyneb Enoc, ac ebe fe—

"Mae'n ymddangos, Mr. Huws, mai chwi sydd wedi cael y gwaethaf yn yr ysgarmes," a chyn i Enoc gael ateb, neidiodd Marged ar ei thraed, a chan edrych yn ffyrnig ar Enoc, ebe hi—

"Y dyn drwg gynoch chi——" ond gwelodd fod rhywun arall yn yr ystafell, a chan droi at y plismon, ebe hi yn eofn—

"Be 'dach chi isio yma? be 'dach chi yn busnesu? ewch allan oddma mewn wincied, ne mi ro ole trwoch chi efo'r procor 'ma—ydach chi'n myn'd?"

Gwenodd y plismon yn wybodus hynod, ac amneidiodd Enoc arno i fyned ymaith, a dilynodd ef at y drws.

"Yr hen *game*, Mr. Huws, yr hen *game*," ebe'r plismon wrth adael y tŷ, ac yr oedd Enoc yn rhy ddychrynedig i'w ateb.

Druan ŵr! yr oedd yn mron llewygu, a'i wyneb, oddigerth y rhan a orchuddid gan waed, yn farwol welw pan syrthiodd i'r gadair o flaen Marged eilwaith, yr hon, wrth weled yr olwg resynus oedd arno, a liniarodd am oddeutu pum' eiliad, ac yna dechreuodd lefaru.

"Be oeddech chi isio efo'r syrffed ene yma? oeddach chi'n meddwl y nghymyd i i'r rowndws? Mi dyffeia chi! Ydio ddim yn ddigon i chi nhwyllo i a gneud ffwl o hono i, heb nol plismon yma?"

"Marged," ebe Enoc yn grynedig, oblegid y munyd hwnw y canfyddodd wir sefyllfa pethau, "Marged," ebe fe, "peidiwch a gwaeddi—yr wyf yn crefu arnoch." (Credai Enoc fod y plismon yn gwrando wrth y ffenestr).

"Peidio gwaeddi? peidio gwaeddi?" ebe Marged yn nhop ei llais, "mi waedda faint a fyna i, a chewch *chi* mo fy stopio i. Oes gynoch chi ofn i bobl glywed? oes mi wn! Ond mi geiff pawb glywed—mi'ch 'sposia chi i bawb, a chewch chi ddim gneud ffwl o hono i—mi'ch dyffeia chi!"

"Sut yr ydw i wedi gneud ffwl o honoch chi, Marged?" ebe Enoc, a'i dafod can syched nes oedd yn mron glynu yn nhaflod ei enau.

"Sut? sut? sut?" gwaeddai Marged, "yn mhob sut! Ddaru chi ddim dweyd fod yn biti mod i heb briodi, ag y b'aswn i'n gneud gwraig *splendid?*—ddaru chi ddim deyd gantoedd o weithiau na fasech chi byth yn dymuno gwell *housekeeper?*"

"Do," ebe Enoc, "a mi ddeudaf hyny eto, ond sut yr ydw i wedi gneud ffwl o honoch chi?"

"Y dyn drwg gynoch chi," ebe Marged, "sut mae gynoch chi wymed i ofyn ffasiwn gwestiwn i mi? Oeddach chwi ddim yn rhoi ar ddallt i mi bod chi'n meddwl am dana i? Ac os nad oeddach chi, pa fusnes oedd gynoch i ddeyd ffasiwn beth?"

Heliodd Enoc at ei gilydd gymaint o wroldeb ag a feddai, ac ebe fe—

"Marged, yr ydach chi wedi twyllo eich hun—rois i 'rioed sail i chi feddwl y fath beth, mi gymra fy llw, a feddylies i 'roed fwy am eich priodi nag am briodi *boa-constrictor*."

"Wel y dyn melldigedig!" ebe Marged, "be yn y byd mawr oeddach chi'n feddwl wrth roi i mi yr holl bresantau, heblaw gneud ffwl o hono i? Ond y mae nhw gen' i i gyd, a mi ddôn i gyd i'ch gwymed chi eto! Peidiwch a meddwl y cewch chi'n nhrin i fel ene—mi wna i o'r gore â chi, a mi *wna* i chi sticio at y'ch gair. Ac i be y baswn i'n gwrthod codiad yn y nghyflog blaw fod chi wedi cystal a deyd mai fi fase'ch gwraig chi? Peidiwch a meddwl y cewch chi droi yn y'ch tresi fel ene! Ac am edliw i mi Boaz, y *conductor*, neiff nene mo'r tro, Mr. Huws. Mi wn, pan oeddwn i'n perthyn i'w gôr o, fod o wedi meddwl am dana i, ond dryches i 'rioed arno fo, a faswn i ddim yn edrach arnoch chithe blaw mod i'n dechre myn'd dipyn i oed, achos yr ydw i wedi gwrthod y'ch gweli chi. Ond mi gewch chi sefyll at y'ch gair, syr, ne mi fydd yn difar gynoch chi. A deyd yn yngwymed i y'ch bod chi'n caru yr hen lyngyren ene o Dy'nyrardd? Y ffifflen falch, ddi-ddaioni! Mi ddeyda i iddi pwy a be ydi hi pan wela i hi nesa, a mi wna! A mi geiff glywed ffasiwn un ydach chithe hefyd, y dyn twyllodrus gynoch chi! Y chi'n galw'ch hun yn grefyddwr? Crefyddwr braf yn wir, pan fedrech chi dwyllo geneth myddifad a digartre! A ddyliwn y'ch bod chi wedi treio twyllo y lyngyren ene o Dy'nyrardd? Oedd twyllo un ddim yn ddigon gynoch chi? Ond rhoswch dipyn bach! mi geiff pawb wybod y'ch hanes chi, a mi gewch dalu'n ddrud am hyn! Os na sefwch chi at y'ch gair, mi fyna'ch tori chi allan o'r seiat, a mi'ch gna chi can dloted a Job, na fydd gynoch chi 'run crys i roi am y'ch cefn—a mi wna—cyn y bydda i wedi darfod efo chi, y dyn dauwymedog gynoch chi."

Nid ydyw dweyd fod Enoc, ar y pryd, yn druenus, ond des-

grifiad gwan o'i sefyllfa. Agorai mil o waradwyddiadau posibl a thebygol o flaen ei feddwl, yr hyn a wnai marw yn y fan a'r lle, yn mron, yn fwy dymunol yn ei olwg na byw, ac yn berffaith ddiystyr o'r canlyniadau, a chyda cofndra a dynoliaeth na ddangosodd erioed o'r blaen, ebe fe, gydag yni a theimlad—

"Marged, mi fydde'n well gen' i i chi blanu y gyllell yna (yr oedd cyllell fara fawr ar y bwrdd yn ymyl Marged) yn y nghalon i na gwrando un gair anmharchus am Miss Trefor. Deydwch y peth a fynoch am dana i—neu trewch fi yn fy mhen â'r procar yna os leiciwch, ond peidiwch a deyd yr un gair—yr un sill am Miss Trefor. Y hi ydi'r eneth oreu a phrydferthaf yn y byd, mi gymra fy llw! Mae ei henw yn rhy bur i'ch anadl llygredig chi ei swnio, a difai gwaith i chi a fyddai glanhau ei hesgidiau. A sôn y mod *i* wedi gneud ffwl o honoch chi!—Drychwch yma—gwrandewch be rydw i'n ddeyd wrthoch chi—bydase neb ond y chi a fine ac un wranwtang yn y byd, ac i mi orfod priodi un o honoch, fe gawsech chi, Marged, fod yn hen ferch! Dydw i'n hidio 'run daten am danoch chi, a dalltwch dydw i ddim am ddyodde dim chwaneg o'ch tafod drwg chi, a fe fydd raid i chi hel eich pac oddiyma ar unwaith!"

Pensyfrdanwyd Marged gan eiriau ac eondra Enoc. Yr oedd yn beth newydd hollol yn ei gymeriad a'i hanes, a chafodd effaith ddirdynol arni. Gweithiai ei hwyneb i bob ffurf, lliw a llun—weithiau yn fygythiol, bryd arall yn athruddgar—agorai ei genau i siarad, a cheuai hi drachefn cyn dweyd gair. Wedi myn'd drwy gyfres o ystumiau annaearol ac ellyllaidd gollyngodd Marged ei hun i freichiau natur ddrwg—neu, mewn geiriau eraill—cafodd ail ymosodiad o'r hyn a olygai Enoc, yn ei ddiniweidrwydd, yn ffit, ond yr hyn, mewn gwirionedd, nad oedd yn ddim amgen na *hysteria*—clefyd ag y mae merched nwydlyd ac annuwiol yn ddarostyngol iddo, a chlefyd, fel y clywais fy mam yn dweyd—ac yr oedd hi yn gryn ddoctores—nad oes ond un feddyginiaeth anffaeledig ar ei gyfer—sef yw hwnw—taflu bwceded o ddw'r oer i'r gwyneb, ac un arall i lawr y cefn, a mynychu yr oruchwyliaeth nes daw y dyoddefydd ati ei hun, yr hyn a ddigwydd yn gyffredin gyda'r ddau fwceded cyntaf. Syrthiodd Marged ar ei chefn ar lawr, a dechreuodd gicio a bytheirio fel o'r blaen. Ni estynodd Enoc unrhyw *help* iddi—ni ddychymygodd am roi llwy yn safn

Marged. Yn hytrach, goleuodd ganwyll ac aeth i'w ystafell wely.

Byd a'i gŵyr! yr oedd Enoc Huws yn ddyn da, a chanddo galon mor dyner fel na ddarfu iddo erioed ladd gwybedyn neu gacynen yn ei siop heb deimlo pangfa yn ei gydwybod. Ond y noswaith hono, tra yr oedd efe yn esgyn y grisiau i'w ystafell wely, gobeithiai o waelod ei galon y byddai i Marged gnoi ei thafod yn yfflon cyn y bore!

---

## PENNOD XXVII.

### PENBLETH.

Nid cynt y cyrhaeddodd Enoc ei ystafell wely nag y daeth i deimlo mai Enoc Huws oedd efe eto. Prin y gallai gredu ei fod wedi bod mor eofn gyda Marged, ei *housekeeper*. Marged! Yr hon a ofnai efe yn ngwaed ei galon! Dechreuodd ei gydwybod hefyd ei gyhuddo am ei gadael ar ei phen ei hun yn y fath gyflwr. Meddyliodd mai ei ddyledswydd oedd myn'd yn ol a cheisio gweinyddu rhyw ymgeledd iddi. Ond cofiodd am y mileindra a welodd yn ei gwedd y noswaith hono—yr oedd yn sicr yn ei feddwl fod mwrdrad yn llechu yn nghonglau ei llygaid! Mae bywyd yn werthfawr, ac y mae gan ddyn afael dŷn ynddo. Dechreuodd Enoc ofni a chrynu, a phenderfynodd gloi drws ei ystafell. Nid oedd y drws wedi ei gloi er ys amryw flynyddau; ac o herwydd hyny, pan aeth Enoc at y gorchwyl, cafodd fod yr allwedd wedi rhydu yn y clo—nid allai efe ei symud. Beth oedd i'w wneud? Ni fu erioed mor *nervous* oddieithr y noswaith pan aeth efe gyntaf i Dy'nyrardd. Gosododd ei focs dillad yn erbyn y drws, a hyny o gadeiriau oedd yn yr ystafell. Ychwanegodd y *washing-stand*—a rhywbeth arall na raid ei enwi yma, oblegid y mae pob tipyn yn help wrth baricedio! Eto ni theimlai Enoc yn ddyogel rhag y gelyn. Yr oedd efe yn berffaith ymwybodol nad oedd hyn oll ond megis dim o flaen nerth herciwlaidd Marged. Fel cadlywydd

deallgar, agorodd Enoc y ffenestr rhag ofn na fyddai yr atgalgaer yn ddigonol ac y byddai raid iddo ddianc. Yn gymaint a bod un pen i'w bren gwely gyferbyn â drws yr ystafell, ac er mwyn cadarnhau yr amddiffynfa, gosododd Enoc ei gefn yn erbyn y gwely a'i draed yn erbyn y bocs dillad, ac arhosodd am yr ymosodiad. Yr oedd yn edifar ganddo yn ei galon siarad fel y gwnaethai â Marged, oblegid, meddyliai Enoc, nad oedd neb yn y byd a wyddai pa ddial a gynyrchai ei eiriau yn ei chalon. Arhosodd Enoc yn hir yn y sefyllfa amddiffynol, ac er nad oedd ymosodiad gweithredol, gwasgai ei draed â'i holl nerth yn erbyn y bocs. Mewn gwirionedd, yr oedd efe mewn *active service* yn absenoldeb y gelyn—yn gymaint felly nes oedd ei goesau, yn y man, yn gythgam! Teimlai yn sicr, yn ol yr amser, mai rhaid oedd fod Marged allan o'r ffit er's meityn, a meddianwyd ef gan y meddwl arswydus ei bod wedi rhoi y procor yn y tân, a'i bod yn aros iddo fod yn eirias. Crebychai ei gnawd, a theimlai ei groen drosto fel croen gŵydd wrth feddwl am ias y procor yn ei ffiïo!

Yn y man clywai Enoc rhyw gynhyrfiad yn ngwersyll y gelyn, ac yn ddiatreg clywai y grisiau yn clecian dan bwysau Marged. Deallodd ei bod yn dyfod i fynu yn nhraed ei 'sanau, oblegid yr oedd ei throediad yn ysgafn ac araf, a chredai Enoc yn ei galon fod Marged yn bwriadu gwneud rhuthr annisgwyliadwy arno. Gan nad oedd drws ei lofft yn cau yn glos, pan ddaeth Marged i'r troad uchaf yn y grisiau cyn cyrhaedd y *landing*, gwelai Enoc lewyrch ei chanwyll trwy rigol y drws, a meddianwyd ef gan y fath ddychryn fel y gadawodd efe ei amddiffynfa, ac y diangodd i gyfeiriad y ffenestr. Gwnaeth ei gêg ar ffurf O yn barod i waeddi "O Mwrdwr" y foment yr ymosodai Marged ar ei amddiffynfa. Curai ei galon fel calon aderyn newydd ei ddal, a rhedai chwŷs oer gymaint a phŷs gleision i lawr ei wyneb. *Yr oedd Marged wedi cyrhaedd drws ei ystafell!*—ond yn myn'd heibio yn araf a dystaw fel pe buasai yn ofni deffro plentyn! Pan glywodd Enoc—ac yr oedd efe yn glust i gyd—ddrws ystafell gwely Marged yn cael ei gau gollyngodd ochenaid hir, ddiolchgar o waelod ei galon, a thaflodd ei hun ar y gwely i geisio adfeddianu ei hun ychydig, heb, ar yr un pryd, esgeuluso gadw gwyliadwriaeth. Wedi cyfnerthu fymryn, a chyfrif y dylasai Marged, o ran amser, fod bellach rhwng y cynfasau, cododd ac aeth at y drws, gan osod ei glust ar y

rhigol. Yr wyf yn meddwl fy mod wedi dweyd o'r blaen, yn nechreu yr hanes hwn, fod Marged yn chwyrnreg ddigyffelyb, a gwyddai Enoc o'r goreu os cysgai hi y gallai efe glywed ei hebychiadau hyd yn nod o'r seler. Yr oedd hyn wedi ei flino lawer tro, a rhag i mi annghofio dweyd hyny eto, dyna oedd prif, os nad unig, reswm Enoc dros wrthod cymeryd "mis pregethwyr," ond cadwodd y rheswm iddo ef ei hun. Gwrandawai Enoc yn ddyfal am godiadau, ymchwyddiadau, a thagiadau *portable engine* Marged, a phan ddechreuodd y rhai hyn ddisgyn ar ei glyboedd, yr wyf yn sicr na chynyrchwyd erioed gan y gerddoriaeth fwyaf seinber y fath deimladau boddhaus ag a gynyrchwyd yn meddwl a chalon Enoc. Teimlai bellach radd o ddyogelwch, ac wedi ymddiosg a myned i'r gwely, cafodd hamdden i ystyried "y sefyllfa."

Nid paradwys hollol a fuasai ei fywyd yn flaenorol, a gallai alw i'w gof lawer bwlch cyfyng ac ambell amgylchiad profedigaethus y buasai ynddynt. Ond nid oedd yr oll gyda'u gilydd yn ddim o'u cymharu â'i sefyllfa bresenol. Yr oedd y drychfeddwl fod Marged wedi tybied ei fod ef wedi dychymygu gwneud gwraig o honi yn atgas ac annghynes ganddo. Ac eto gwelai nad oedd ganddo neb i'w feio am hyn, ond efe ei hun. Nid oedd neb yn adnabod consêt Marged yn well nag ef ei hun, ac er mwyn cymydogaeth dda a thangnefedd yn ei dŷ, yr oedd yntau wedi ei borthi er's llawer o amser. Deuai yr holl eiriau tyner a charuaidd a arferasai efe o dro i dro gyda Marged er mwyn ei chadw yn ddiddig—deuent yn ol i'w gof yn awr fel ysgythanod i'w clwydi—geiriau, pan yn eu defnyddio, na roddasai efe un pwys arnynt, ond a dderbynid gan Marged, fel y gwelai efe yn awr, fel geiriau cariadfab. Ac, erbyn iddo ystyried, pa beth oedd yn fwy naturiol nag iddi roddi iddynt ystyr benodol. Da oedd ganddo gofio nad oedd gan Marged un tyst iddo arfer ymadroddion felly. Ond nid oedd hyn ond gwelltyn y dyn wrth foddi, ac nid allai Enoc feddwl am wadu ei eiriau. A dyna yr anrhegion: nid allai wadu y rhai hyny—yr oedd efe ei hun wedi talu am danynt, ac ni fyddai Marged yn brin o dystion i brofi hyny. Cofiai Enoc am y difyrwch a gawsai wrth wrando Marged yn adrodd helynt Mr. Swarts yn cael modrwy i'w ffitio. Nid mater chwerthin oedd y digwyddiad hwnw erbyn hyn. Yr oedd ganddo ryw adgof gwan hefyd o glywed Marged yn galw y fodrwy yn "*migag'd ring.*" Yr oedd y pethau hyn, wrth eu

troi yn ei feddwl, yn anferthol o wrthun, ac ar yr un pryd yn ofnadwy o ddifrifol. Wrth fyned tros ac ail fyned tros y pethau yn ei feddwl, troai Enoc yn ei wely o'r naill ochr i'r llall fel anifail â'r cnoi arno.

Fel *back ground* i'w fyfyrdod, ac yn anferthu yr holl bethau hyn a redent trwy ei feddwl, safai Miss Trefor yn ei phrydferthwch a'i holl swynion diail—yr unig wrthrych daearol yn ei olwg ag yr oedd yn werth byw erddo! Wedi'r cwbl, ni buasai yn malio rhyw lawer am y darganfyddiad a wnaethai y noson hono, oni bae am dani hi. Nid allai na ddeuai hi i wybod am yr holl helynt. Yn wir, meddyliai Enoc, yr oedd yn eithaf amlwg oddiwrth fygythion Marged, mai efe a'i amgylchiadau a fyddai siarad y gymydogaeth yn mhen ychydig ddyddiau os nad ychydig oriau. A chan nad pa mor wrthun ac annhebygol oedd y peth ynddo ei hun, yr oedd digon o bobl bob amser yn barod i gredu pob ystori o'r fath, a phan ddangosai Marged yr anrhegion, y rhai nad allai efe eu gwadu—yr oedd yn ddigon posibl y credai pawb y chwedl ffol. A gredai Miss Trefor? Pa un a gredai hi ai peidio, gwelai Enoc yn eglur y byddai i'r helynt beri iddi ei ddiystyru, os nad ei gashau, a rhoi pen bythol ar brif amcan ei fywyd. Er mwyn enill syniadau da, ac, os oedd yn bosibl, serch Miss Trefor, yr oedd efe eisioes wedi hunan-ymwadu gryn lawer, ac wedi gwario crynswth o arian. Mewn cydymffuriad â chais Capten Trefor yr oedd Enoc yn barod wedi gwario canoedd o bunau ar Waith Coed Madog, ac nid oedd ond gwario i fod am beth amser o leiaf. Heblaw hyny yr oedd efe wedi prynu ceffyl a thrap a rhoi pris mawr am danynt, ac wedi eu gosod at wasanaeth Capten Trefor i gymeryd Mrs. Trefor—yr hon nad oedd yn gref iawn—allan yn awr ac yn y man am awyr iach. Ni fuasai efe yn dychymygu am roddi ei arian mewn gwaith mŵn, nac am geffyl a thrap—nad oedd arno eu heisiau—oni bae ei fod yn gobeithio y diweddai y cwbl i enill ffafr Miss Trefor, ac yr oedd yn barod i wneuthur aberthau mwy os gwelai fod hyny yn parotoi y ffordd i wneud iddo le yn ei chalon hi. A thybiai, ar adegau, gyda boddhad annhraethol, ei fod yn canfod arwyddion gwan fod ei ffyddlondeb a'i ymgyflwyniad llwyr i'r amcan neillduol hwn yn graddol sicrhau iddo fuddugoliaeth hapus. Ond och! dyma y deml a adeiladodd yn dyfod yn bendramwnagl am ei ben! a'r trychineb yn dyfod o gyfeiriad na freudd-

wydiodd efe erioed am dano! Nis gallasai ysgorn y Jerichoaid fod yn fwy mingam wrth weled eu caerau ardderchog yn syrthio ddim ond trwy chwythu mewn corn hwrdd, na'r eiddo Enoc wrth feddwl fod ei ragolygon gwerthfawr yn cael eu gwneud yn chwilfriw gan lances o forwyn hagr, anwybodus ac annghoeth.

Nid unwaith na dwywaith y meddyliodd Enoc a fyddai yn bosibl, tybed, prynu Marged? A gymerai hi swm go lew o arian am atal ei thafod a myned ymaith? Prin y gallai Enoc gredu fod hyny yn bosibl, oblegid yr oedd ei gwaith yn gwrthod ei chyflog yn dangos nad oedd hi yn rhoi pris ar arian—hyny ydyw, fel cydwerth a bod yn wraig iddo ef. Ar yr un pryd, meddyliai Enoc, hwyrach y buasai cynyg iddi haner cant o bunau yn peri iddi newid ei thôn. Ond buasai hyny yn ymddangos fel cyfaddefiad ddarfod iddo ei thwyllo. Eto buasai hon yn fargen râd pe buasai yn sicr y llwyddai. Yn wir ni fuasai yn aros ar hyd yn nod gan' punt ond cael setlo'r mater am byth. Yr oedd Marged yn anllythyrenog—ac hyd yn nod pe na buasai felly byddai raid cael tyst, a dygai hyny rywun arall i'r gyfrinach—rhywun, hwyrach, a daenai yr ystori hyd y gymydogaeth, neu y byddai ef dan ei fawd tra fyddai byw. Ond beth arall oedd i'w wneud? Nid oedd un llwybr arall yn cynyg ei hun i feddwl Enoc i ddyfod allan o'r helynt. Gwelai yn eglur nad oedd yn bosibl ysgoi dwyn *third party* i mewn. Rhedai ei feddwl dros restr ei gyfeillion, pryd y cofiodd gydag ing fod Jones, y plismon, eisioes wedi cael cip ar ei sefyllfa. A beth oedd y dyn yn ei feddwl wrth ddweyd "yr hen *game*, Mr. Huws?" A oedd o yn awgrymu rhywbeth am ei gymeriad? "Mae'n sicr fod y dyn yn meddwl rhywbeth felly," ebe Enoc gyda dychryn, ac ymollyngodd yn ei ysbryd i anobaith truenus i allu byth ddyfod o'i brofedigaeth yn anrhydeddus. Er ei fod yn meddu ymwybyddiaeth o gydwybod bur, yr oedd yr ymddangosiadau o bob cyfeiriad yn ei erbyn, a phrin y gallai ddisgwyl i'w gyfeillion penaf gredu yn ei ddiniweidrwydd. Teimlai Enoc yn dôst hefyd oddiwrth beth arall, sef y byddai efe, o herwydd gwendid ei *nerve*, yn sicr o ymddangos yn llipa ac euog, er ei fod yn berffaith ddiniwed, ac nid allai beidio gofyn eilwaith pa ffawd ddrwg oedd yn ei ddilyn? Tybiai Enoc fod ambell un mewn amgylchiadau llai profedigaethus wedi cyflawni hunanladdiad. A ddaeth y syniad am roddi

terfyn ar ei fywyd i'w feddwl? Do, yn sicr ddigon am foment, a chuddiodd Enoc ei ben dan ddillad y gwely—teimlodd ei hunan yn poethi drwyddo, ac yn oeri fel rhew y funyd nesaf. Daeth y meddwl iddo, yn ddiamheu, o uffern, o ba le y daw meddyliau felly yn gyffredin—mae arogl y lle arnynt—ond i Enoc bu o fendith. Hyd yn hyn yr oedd ei feddyliau wedi ymdroi o'i gwmpas ef ei hun a'i gymydogion; ond yn awr daeth Duw i'w feddwl. Yn ngwyneb yr amgylchiadau yn nglŷn â'i gymydogion teimlai fel un oedd ar gael ei gamddeall a'i gamfarnu. Ond pan ddaeth y meddwl drwg i'w galon cafodd ei hun wyneb yn wyneb â Duw. Gwnaeth hyn i'w feddwl redeg ar linell newydd hollol, a dechreuodd holi ei hun onid oedd rhywbeth ynddo ef ei hun yn galw am farnedigaeth? oblegid yr oedd Enoc yn ngwraidd ei galon yn grefyddol yn anad dim. Dechreuodd ei gydwybod edliw iddo ei bechodau. Adgofiodd iddo yr amser pan—er holl brysurdeb masnach—nad esgeulusai un cyfarfod crefyddol canol yr wythnos—pan ddarllenai ac y myfyriai lawer ar y Beibl, ac y ceisiai wneud ei oreu, yn ei ffordd, dros achos crefydd. A oedd efe wedi cadw ar y llwybr hwnw? Na, yr oedd ei fyfyrdodau yn mron yn gyfangwbl er ys misoedd wedi bod yn ymdroi yn nghylch Miss Trefor, Gwaith Coed Madog a phethau felly. Pan fyddai'r capel a Thy'nyrardd yn croesi eu gilydd, yr oedd er ys amser bellach yn ddieithriad yn ochri at Dy'nyrardd. Pan fyddai Miss Trefor a chrefydd yn y cwestiwn, Miss Trefor oedd wedi cael y flaenoriaeth. Nid hyny yn unig, ond yr oedd yn ymwybodol ei fod wedi colli llawer o'i ddyddordeb yn mhethau crefydd yn gyffredinol, ac o herwydd ei fod wedi gwario llawer ar ei dŷ, Gwaith Coed Madog a phethau eraill, yr oedd wedi cwtogi ei gyfraniadau yn y capel ac at achosion elusenol. Nid oedd yn cael cymaint o ddifyrwch yn nghwmni pobl grefyddol, ac erbyn iddo ystyried, nid oedd yn cael edrych arno gyda'r parch a'r hoffder y bu unwaith yn falch o hono. Yr oedd amryw o'i gyfeillion wedi pellhau oddiwrtho. Ar y Sabbothau, yn y capel, yr oedd yn ddiweddar yn teimlo fod y gwasanaeth yn rhy hir, ac os byddai cyfarfod brodyr neu gyfarfod athrawon nis gallai feddwl am aros ynddo. Y ffaith oedd—addefai Enoc wrtho ei hun yn ei wely y bore hwnw—oni fyddai y bregeth ar y Sabboth yn hynod gynhyrfus, byddai ei feddyliau ef o ddechreu y gwasanaeth i'w ddiwedd yn cyniwair yn nghylch Miss Trefor, ac yr

oedd yn rhoi mwy o bris ar gael cyd-gerdded â hi adref ar fore Sul—er nad oedd hyn ond *act of toleration*—nag ar y bregeth odidocaf.

Meddyliodd Enoc am yr holl bethau hyn, a meddyliodd yn ddwfn, ac wylodd ddagrau o edifeirwch pur. "Nid rhyfedd," meddai Enoc wrtho ei hun, "fod Duw wedi digio wrthyf a'i fod yn fy nghosbi yn llym yn ei ragluniaeth drwy fy ngwaradwyddo yn ngolwg fy nghymydogion a pheri iddynt edrych arnaf mewn gwedd nad wyf yn deilyngu." Ond y mae dyn da yn gallu ymgadarnhau yn holl-wybodaeth Duw, ac er fod Enoc yn teimlo yn euog a phechadurus cafodd nerth i ymfoddloni ychydig yn y ffaith fod Duw yn gwybod y cwbl o'i hanes. Ni fyddai iddo Ef ei gamfarnu na rhoddi yn ei erbyn yr hyn nad oedd efe yn euog o hono. Canfyddai ynddo ei hun ddirywiad dwfn—dirywiad yr oedd efe wedi syrthio iddo yn hollol anfwriadol. Wrth garu Miss Trefor yn fawr nid oedd efe wedi bwriadu caru Duw a'i achos yn llai. Ac erbyn hyn, er ei fod yn llym deimlo ei fai—bai nad allai beidio edrych arno ond fel gwrthgiliad ysbrydol—canfyddai fod y ffordd megis wedi ei chau i fyny iddo allu diwygio. Gwelai y tebygolrwydd, ac yn mron y sicrwydd, y byddai iddo gael ei ddiarddel. Yr oedd Marged wedi protestio y mynai gael ei dori o'r seiat. Byddai iddi yn ddiamheu wneud *case* cryf yn ei erbyn. Credai yr holl ferched ei thystiolaeth noeth pe na buasai ganddi ddim arall yn ei erbyn. Ond gallai Marged ddwyn yn mlaen amryw bethau eraill oeddynt, ar y wyneb, yn cadarnhau ei chyhuddiad. Ni fyddai ganddo ef i wrthbrofi ei chyhuddiad ond ei air yn unig. A chaniatau y byddai i ychydig o ddynion call ei gredu, yn sicr byddai y mwyafrif o ddigon yn ochri gyda Marged. Byddai rhai yn fwy parod i gredu yr hyn a roddid yn ei erbyn am ei fod yn ddiweddar wedi dirywio yn ei ffyddlondeb yn y capel, gan briodoli fel rheswm am hyny gydwybod euog. Gwelai Enoc yn ei fyfyrdodau yr holl bethau hyn cystal ag wedi cymeryd lle. Pa fodd i wynebu yr amgylchiadau ni wyddai, a suddai ei galon ynddo, a gofynai, "A oes gofid fel fy ngofid i?" Pe buasai rhyw eneth ddeallgar, olygus a phrydferth yn ei gyhuddo o dori amod â hi, buasai rhyw fymryn o gredyd yn nglŷn â hyny serch na fuasai sail iddo; ond yr oedd y drychfeddwl fod Marged—wel, yr oedd hyny yn annyoddefol.

Yn ngwyneb yr ystorm oedd o'i flaen—er ei fod yn teimlo yn

euog ac edifeiriol ger bron Duw am lawer o esgeulusderau—nid allai Enoc gael bai ynddo ei hun am ymserchu yn Miss Trefor—yr oedd hyn yn beth nad allai ddim oddiwrtho, ac heb fod yn fater o ddewisiad o gwbl. Ond yn awr gydag ochenaid a fu agos a chymeryd ei enaid ymaith ar ei hadenydd, ffarweliodd byth â'i hoff freuddwyd o wneud Miss Trefor rhyw ddydd yn Mrs. Huws. Ond protestiodd ynddo ei hun—ac yr oedd ysbryd a nerth llŵ yn y protest—pa le bynag y byddai ei drigfan—pa beth bynag a ddigwyddai iddo—y carai efe hi hyd y diwedd, ac y bendithiai efe hi gyda'i anadl olaf. "Ië," ebe Enoc, "pa le bydd fy nhrigfan? Mae aros yn y gymydogaeth hon allan o'r cwestiwn—fedra'i byth ddal y *disgrace!* Mae'r meddwl am fyn'd drwy yr holl helynt yn mron a 'ngyru i'n wallgof! A pha *interest* fydd i mi yma ar ol colli y gobaith am dani *hi?* Dim! yr un llwchyn, mi gymra fy llŵ! Mi werthaf bob scrap sy gen i ar fy helw, a mi af i rywle—waeth gen i i b'le," a rhoddodd Enoc y canfed tro yn ei wely y noswaith hono.

---

## PENNOD XXVIII.

### JONES Y PLISMON.

Hen lwynog oedd Jones, y plismon, callach na'r cyffredin o lwynogod; oblegid er fod ganddo gynffon hir a thusw braf arni, yr oedd rywfodd yn medru ei chuddio fel nad allai yr ŵydd fwyaf craff a phrofiadol wybod mai llwynog oedd efe nes teimlo ei chorn gwddf yn ei gêg a'i chorpws wedi ei daflu ar draws ei gefn. Yr oedd gan ei dad feddwl lled uchel am Jones er yn hogyn, ac, yn rhagweled y byddai iddo ryw ddydd, os cai fyw, dori ffigiwr nid anenwog yn y byd, efe a roddes dipyn o ysgol iddo. A llawer tro y dywedodd ei dad na fyddai raid i'w fab ef byth orfod gweithio "ond gyda'i ben." Er na ddarfu i Jones, tra yn yr ysgol, gyflawni disgwyliadau ei dad yn hollol,

eto gwnaeth ei farc yno—yn y ffurf o graith ar wynebau amryw o'i gydysgolheigion—canys yr oedd Jones yn hogyn cryf, esgyrniog, ac yn meddu ffrâm gymwys iawn i roi cnawd arni pan ddeuai cyfleusdra iddo gael ei wala o fwyd a diod, yr hyn na chai efe, y pryd hwnw, yn ei gartref. Meddai amryw oedd yn yr ysgol yr un adeg a Jones adgofion melus am dano fel un na ddarfu iddo erioed wrthod rhôdd na sarhau neb drwy gynyg rhôdd iddo. Yn wir, cofiai ei gyfoedion ddarfod i Jones, tra yn yr ysgol, weithredu yn ewyllysgar fel trysorydd iddynt oll, ac ni wybuwyd i ddim a ymddiriedwyd iddo adael ei ddwylaw. Crydd, wrth ei grefft, ydoedd tad Jones, ac er ei fod yn argyhoeddedig fod Jones wedi ei fwriadu i alwedigaeth uwch, gorfodwyd ef gan amgylchiadau i dd'od i'r penderfyniad y byddai raid i'w fab ddilyn yr un grefft ag yntau. Ond pa gymdeithas sydd rhwng athrylith a *lapstone*, a thalent o radd uchel a miniawyd? Nis gallasai hyny o gŵyr oedd yn siop ei dad gadw Jones wrth y sêt. Yr unig adeg y gwelid Jones yn eistedd yn naturiol ar y sêt oedd pan fyddai efe yn darllen y papyr newydd. Hyn a wnai efe weithiau am haner diwrnod. Da gan ei dad a fuasai gweled Jones yn cydio yn ei grefft nes i rywbeth gwell droi i fynu, ond er hyny difyr oedd ganddo glywed Jones yn darllen hanes mwrdradau a lladradau o'r papyr newydd. Yr oedd annhueddrwydd Jones at waith yn cadarnhau syniad yr hen ŵr ei dad na fwriadwyd Jones i weithio "ond gyda'i ben," yn yr hon grediniaeth yr oedd Jones ei hun hefyd yn llwyr argyhoeddedig. Bu cydoddefiad ei dad a dieithrwch Jones i bob caledwaith yn fantais fawr i'w "ddynol natur" ymddadblygu ar raddfa helaeth, heb yr arwydd lleiaf ynddi o grebachdod, a buan yr edrychid arno fel siampl ragorol o'r hil. I ddangos nad oedd efe yn tueddu at ddiogi nac yn anymwybodol o'i nerth, nid anewyllysgar a fyddai Jones, ar adegau neillduol, i gario llwyth o lô i dŷ boneddwr, neu ynte i ddadlwytho gwagenaid o flawd i rai o'r siopwyr, ac ni ddisgwyliai un amser fwy na swllt am ei drafferth. Ac wedi cyflawni y gorchwyl crybwylledig, i ddangos yn mhellach nad oedd efe yn ariangar, elai Jones yn syth i'r *Brown Cow* i waghau haner peintiau hyd y parhäi y swllt, ac os digwyddai fod yn y *Brown Cow* angen troi dyn afreolus a thrystfawr i'r heol, gwnai Jones hyny hefyd am y gydnabyddiaeth isel o geiniog a dimai—neu yn hytrach eu gwerth mewn cwrw, oblegid nid

oedd efe yn gofalu am bres. Ac er fod Jones yn fab i grydd, nid oedd dim balchder na ffroenuchelrwydd yn perthyn i'w gymeriad, a mynych y clywid ef yn tystio nad oedd efe yn *proud chap.* I brofi hyn, ni ddiystyrai efe ddal pen ceffyl y ffarmwr mwyaf distadl, er nad allai efe ddisgwyl am ei wasanaeth—"yn ngwyneb sefyllfa isel amaethyddiaeth"—fwy na cheiniog yn dâl.

Amlygodd Jones yn fore fel hyn rinweddau dinesydd defnyddiol. Yn gymaint a'i fod yn ysgolhaig, gweithredai Jones fel dirprwywr a rhaglaw i'r *town crier* pan ddigwyddai y swyddog hwnw fod oddicartref neu yn afiach. Ac mor rhagorol y gwnai efe y gwaith dirprwyol, fel yr anogwyd ef yn daer gan amryw wŷr dylanwadol i ymgymeryd â'r busnes hwnw ar ei wadnau ei hun. Pwyswyd mor drwm ar Jones un tro i ymgymeryd â'r busnes o *town crier*, fel nad allai efe, ar ol dwys ystyriaeth, droi clust fyddar at gais ei gyd-drefwyr heb fod yn euog o anfoesgarwch a dibrisdod o'u syniadau da am dano. Cydsyniodd. Ond wedi ail ystyried, gwelodd Jones fod yr anturiaeth yn tybio suddo hyn a hyn o arian yn y busnes. Canfyddodd y byddai raid iddo gael cloch, a hono yn un soniarus, yr hon a gostiai, o leiaf, wyth swllt. Gwyddai pawb nad oedd ef wedi bod yn ŵr ariangar, nac hyd yn nod yn neillduol o ddarbodus. Yr oedd Jones, fel y dywedwyd, yn ysgolhaig, a gwnaeth apêl ysgrifenedig at ei gymhellwyr am danysgrifiadau. Ni fu ei apel yn ofer; ond wedi iddo hel saith swllt—tarawyd ef gan ei gydwybod. A oedd efe yn myned i ddisodli y *town crïer* cydnabyddedig, yr hwn oedd yn ŵr priod ac amryw o blant bach ganddo? A oedd efe am gymeryd ei fwyd oddiar ei blât? "Na," ebe Jones, "nid y fi ydi'r dyn i neud peth felly," ac aeth yn syth i'r *Brown Cow*—rhoddodd lyfr yr apel yn tân a'r saith swllt mewn cylchrediad masnachol, ac aeth adref gyda chydwybod dawel.

Dywedai rhai mai i'w dueddiadau astronomyddol y gellid priodoli yr arfer oedd gan Jones i aros allan yn hwyr y nos. Ac yr oedd yr arferiad hwn wedi myn'd yn fath o ail natur ynddo, fel nad allai ymryddhau oddiwrtho hyd yn nod ar nosweithiau tywyll pryd na byddai ser na lloer yn y golwg. Credai eraill a dybient eu bod yn adnabod Jones yn dda, mai ei ofal am eiddo ei gymydogion a'i cadwai allan hyd oriau mân y bore, a'i fod fel gwir gymwynaswr i gymdeithas yn rhoddi ei

wasanaeth yn rhad ac am ddim i geisio glanhau y gymydogaeth oddiwrth garnladron oeddynt yn prowla yn y tywyllwch. Ni chymerai Jones y credyd hwn iddo ef ei hun, oblegid nid oedd efe un amser yn gwneud bost o'i wasanaeth ewyllysgar. Ar yr un pryd mae'n rhaid nad oedd ei gymydogion mwyaf cefnog yn anystyriol o'i wyliadwriaethau nosawl, oblegid, er esiampl, ni fyddai Jones un amser yn brin o wningen, neu hwyaden dew i'w gwerthu am bris isel i'w gyfeillion, y rhai—sef y da byw—a roddid iddo, yn ddiamheu, gan ŵr y Plas am y gwasanaeth a grybwyllwyd. Ar adeg etholiad profai Jones ei hun yn ŵr defnyddiol iawn fel arweinydd y bobl. Y pryd hwnw yr oedd efe yn Dori rhonc, ac os digwyddai mewn cyfarfod cyhoeddus fod rhyw Radical yn aflonyddu ac yn gwrthod cymeryd ei argyhoeddi gan resymau teg, a thybied o'r blaid Doriaidd mai allan oedd y lle goreu i'r aflonyddwr, nid oedd eisiau ond rhoi awgrym cil llygad i Jones a byddai y gorchwyl wedi ei gyflawni. Yr oedd gwasanaeth Jones i'r blaid ac i labwstyddiaeth yn gyffredinol, ar adegau felly, yn anmhrisiadwy. Creai y gorchestion hyn, ac yn enwedig yr egni a arferai efe mewn ffordd o gymeradwyaeth leisiol i'r siaradwyr politicaidd, yn naturiol iawn, sychder annyoddefol yn nghorn ei wddf, ac nid oedd y blaid un amser yn anystyriol o hyny.

Yr oedd yn Jones ymwybyddiaeth o alluoedd annadblygedig, a rhag cymeryd cam cyfeiliornus, a thrwy hyny ddechreu ar gwrs o fywyd anfanteisiol i ddadenhuddiad o honynt, a lluddias bwriadau Rhagluniaeth, bu Jones am dymhor lled faith megis yn petruso pa alwedigaeth a ddilynai. Yn y cyfamser, rhoddai ei hun at wasanaeth pawb. Pa fodd bynag, wedi hir gloffi, tybiodd Jones un diwrnod ei fod yn canfod yn eglur lwybr y bywyd a fwriadwyd iddo gymeryd. Yr oedd bŷs Rhagluniaeth yn amlwg yn y peth, ac ni phetrusodd yn hwy. Cymerodd *agency* i werthu *German Barm*, neu, fel y mynegodd efe ei fwriad i'w dad—"Yr wyf wedi penderfynu, nhad, myn'd yn *yeast merchant*." Anogodd ei dad ef i gymeryd pwyll, a phwyso ac ystyried y mater yn briodol cyn ymgymeryd â'r fath anturiaeth. Cydnabyddodd Jones briodoldeb a rhesymoldeb y cynghor, ond yr oedd, meddai, wedi gweithredu arno cyn ei gael, ac wedi gwneud ei feddwl i fynu. Ymdaflodd Jones â'i holl enaid i fasnach—hyny ydyw—i werthu burum Germanaidd. Ond buan y canfyddodd mai gwell a fuasai iddo ef roi

clust i gynghor ei dad, a rhoddi mwy o ystyriaeth cyn ymgymeryd â'r fasnach. Yr oedd Jones wedi cwbl esgeuluso ystyried un wedd ar y fasnach furymol—sef mai yn y bore yr oedd eisiau burum, tra mai mwy dewisol ganddo ef ei hun a fuasai trin y drafnidiaeth gyda'r nos. Teimlai Jones nad oedd y fasnach ac yntau yn cylymu â'u gilydd yn dda. Heblaw hyn, tra yr oedd y nwydd a werthai, o dan amgylchiadau ffafriol, yn cynyrchu *codiad*, nid allai Jones obeithio am *godiad* iddo ef ei hun. Rhoddodd Jones y fasnach i fynu. Ond ni fu ei gysylltiad â masnach heb ei gwersi iddo. Dysgodd Jones na fyddai unrhyw fasnach ag yr oedd codi'n fore yn nglŷn â hi, yn gydweddol â'i dueddiadau ac â'i athrylith ef. Ni ofalai ffuen am aros i fynu drwy'r nos, ond yr oedd codi yn fore allan o'r cwestiwn. Daeth Jones i ddeall nad oedd neb yn gweithio dan y Llywodraeth yn arfer dechreu ar eu gorchwyl yn gynar ar y dydd, a gwelodd y byddai raid iddo yntau yn y dyfodol droi ei lygaid i gyfeiriad y Llywodraeth. I dori'r stori yn fèr, yr ystyriaeth hon a barodd i Jones, yn y man, ymuno â'r *force*; neu mewn geiriau eraill fyn'd yn blismon, ac yr wyf yn meddwl y cydnabydda pawb a adwaenent Jones ei fod wedi ei dori allan i'r gwaith. Heblaw fod prophwydoliaeth ei dad wedi ei chyflawni, sef na fyddai raid i Jones byth weithio ond gyda'i ben, yr oedd Jones ei hun yn teimlo yn hollol yn ei elfen. Yn y lle cyntaf yr oedd Jones yn ddwy lath a dwy fodfedd yn nhraed ei 'sanau, a chan sythed a phost llidiart. Yr oedd ei ysgwyddau yn llydain ac ysgwâr fel top drws, a'i frest yn taflu allan fel ceiliog,—yn gymaint felly fel mai'r peth cyntaf a wnai Jones pan gaffai gôb newydd oedd tynu allan y wadin o'r leinin. Ni chredai Jones mewn plismon wedi ei wneud o wadin. Mor gadarn a nerthol oedd efe fel yr oedd yn gallu hebgor cario *staff* a *handcuffs*. Diystyrai Jones betheuach felly. *Handcuffs* Jones oedd ei figyrnau, a'i *staff* oedd ei ddeheulaw, a'r un a anturiai alw am eu gwasanaeth oedd mor saffed o gael ei hun yn y carchar a phe buasai holl awdurdod a nerth cyfraith Lloegr wedi eu crynhoi yn mlaenau bysedd Jones. Ffaith adnabyddus ydoedd fod Jones, un tro, wedi cymeryd y straffwr mwyaf yn y dref i'r carchar yn erbyn ei law. Pan ddangosai y straffwr unrhyw wrthwynebiad, gwasgai Jones ei law nes oedd y dyn yn gwaeddi fel porchell, a chlywais y dyn ei hun yn dweyd ar ol hyny mai gwell a fuasai ganddo roi ei law dan olwyn gwagen goed na'i rhoi yn llaw Jones y plismon.

Gwelir oddiwrth y byr nodion hyn fod Jones, o ran corph, wedi ei gymhwyso gan natur i fod yn blismon, ac y mae y darllenydd eisioes, mi gredaf, wedi gwneud ei gasgliadau ei hun beth ydoedd o ran galluoedd ei feddwl. Yr wyf yn meddwl y gellir nodi—at lawer o rinweddau eraill oedd yn Jones—ei fedr o dd'od i hyd i hanes pobl, yn bersonol, teuluol, a chymdeithasol, ac hefyd, lle byddai angen, ei ffyddlondeb mewn cadw cyfrinach. Yr oedd ei fynwes yn ystordy o gyfrinachau, a'r oll dan glô. O herwydd hyn yr oedd Jones yn boblogaidd iawn, yn enwedig yn mhlith y rhai a ddylasent ei ofni fwyaf. Nid oedd ganddo bleser mewn dinoethi gwendidau pobl. Er engraipht, os byddai tuedd mewn rhyw ŵr ieuangc, a fyddai o deulu parchus, at ryw ddrygioni penodol, cadwai Jones ei lygad arno nes ei ddal ar y weithred, ac yna, wedi bygwth yn enbyd achwyn arno wrth ei rieni, gostyngai Jones ei lais a siaradai yn ddifrifol a chyfrinachol—rhoddai y gŵr ieuanc ei law yn ei boced—ond, na, ni fynai Jones dderbyn dim, ar un cyfrif, nes ei orfodi, ac yna dywedai y gŵr ieuanc "*that's a good fellow.*" Yn y cyfryw amgylchiadau yr oedd Jones wedi gwneud ei ddyledswydd, ac wedi rhoi cynghor rhagorol i'r sprigyn ffast, ac os oedd y sprigyn yn ystyried y dylasai dalu am y cynghor nid oedd hyny ond efelychiad o waith cynulleidfa yn talu o wirfodd ei chalon i bregethwr am ei gynghor. Teimlai Jones yn dawel ei fod wedi dangos y ffordd uniawn i'r gŵr ieuanc, ac ni ddeilliai un lles i neb byw bedyddiol drwy wneud yn hysbys ei feiau. Neu, fel engraipht arall, dyweder fod gŵr o safle uchel, ac yn enwedig os byddai yn proffesu crefydd, yn "tueddbenu" at gymeryd dropyn gormod; byddai Jones yn siwr o'i gael allan, ac os na fyddai y pechadur yn ymwybodol a theimladol o'i fai, ni phetrusai Jones siarad âg ef i'r perwyl yma—"Dyma chwi, Mr. Prichard, mae'n ddrwg, yn ddrwg iawn, gen i'ch gwel'd chwi yn y cyflwr yma heno. Er nad wyf yn proffesu crefydd fy hun mae gen i barch calon i grefydd, ac mi fyddaf yn gofidio wrth weled rhai y gallesid disgwyl gwell pethau oddiwrthynt yn gwarthruddo'r achos. Yr wyf yn teimlo mai fy nyledswydd ydyw dweyd wrth eich gweinidog am yr hyn a wn am danoch. Ond mi gaf siarad â chwi yn y bore." Y peth cyntaf a wnai y troseddwr bore dranoeth a fyddai anfon am Jones, ac wedi hir ymgynghoriad a *dealldwriaeth*, penderfynai Jones, gan na wyddai neb am y bai ond efe

ei hun a Mrs. Prichard, mai doethach er lles yr achos oedd peidio sôn gair am y peth. Ond credai Jones mai gwell a fuasai i ŵr fel Mr. Prichard fod yn llwyrymwrthodwr, ac yn wir dywedodd hyny wrtho fwy nag unwaith pan fyddent yn cael glasied efo'u gilydd. Mewn atebiad dywedai Mr. Prichard, "Yr wyf yn rhy hen, Jones, i seinio dirwest; ond mi fuaswn yn leicio gallu gwneud fel chi, Jones, sef yfed llon'd y mol o ddiod ac heb i mhen a nghoese i fod damed gwaeth." "Gwyddoch, Mr. Prichard," atebai Jones, "na ddylid rhoi gwîn newydd mewn *hen* gostrelau."

Ond gyda throseddwyr nad oedd ganddynt gymeriad i'w golli, na theulu na pherthynas i deimlo oddiwrth y dinoethiad, ni ddangosai Jones unrhyw drugaredd, ond bwriai hwynt i garchar, a dygai hwynt o flaen yr ustusiaid yn ddiarbed, a mynych y llongyfarchwyd ef gan yr ynadon am gyflawni ei ddyledswydd mor drylwyr a didderbynwyneb. Yr oedd y gymydogaeth oedd dan ofal Jones yn lled rydd a glân ar y cyfan oddiwrth y mân ladradau y clywir am danynt yn rhy fynych mewn cymydogaethau eraill, a phan ddigwyddai lladrad ar awr neillduol ar y nos, gallai Jones dystio ei fod ef yn y fan hono ychydig funydau cyn i'r lladrad gymeryd lle (yr hyn oedd yn ffaith), ac felly nad ellid priodoli y lladrad i'w ddyeithrwch ef i'r gymydogaeth lle e'i cyflawnwyd. Cof genyf i Jones, ar fwy nag un achlysur, alw sylw y cyhoedd at y perygl i ddyn feddwi nes ei fod "yn farw feddw," fel y dywedir, oblegid ei brofiad ef yn ddieithriad oedd pan gaffai ddyn yn y cyflwr gresynus hwnw, fod ei logellau yn wâg, yr hyn, meddai Jones oedd yn dangos yn eglur fod y dyn wedi ei ysbeilio gan rywun neu gilydd, canys nid oedd un rheswm mewn dyweyd fod *pob* meddwyn wedi gwario *pob* dimai. Mewn gwirionedd, yr oedd hyny yn anmhosibl, a da, ystyriwn i, oedd gwaith Jones yn galw sylw at y ffaith. Dywedai Jones, ac hwyrach mai buddiol a fyddai i'r rhai sydd yn gwisgo yr un brethyn ag ef ystyried ei eiriau—na ddylai plismon identiffeio ei hun gydag un sect grefyddol, ond yn hytrach arddangos y catholicrwydd dwfn a llydan hwnw a heriai y dyn mwyaf craff ddyfalu ei gredo. Y plismon, meddai Jones, ydyw cynrychiolydd Llywodraeth Prydain Fawr a'r Iwerddon yn mhob cymydogaeth. Golygir fod y Llywodraeth yn amddiffyn pawb fel eu gilydd, o ganlyniad ni ddylai y plismon gysylltu ei hun â sect. Ond,

ychwanegai Jones, pan fyddo gŵr cul ei feddwl wedi ymgymeryd â swydd plismon, ac yn teimlo ei hun yn rhy wan i beidio ymuno â sect, gwell iddo ymuno âg Eglwys Loegr, gan mai hi ydyw mam pob sect, ac am mai ynddi y ceir yn mron yr holl ynadon. Ystyriai Jones y dylai pob plismon roddi tro yn achlysurol, ond nid yn rhy aml, o gwmpas addoldai yr Ymneillduwyr i edrych na fyddo plant drwg yn aflonyddu, a gofalu am fod *bob bore Sul* wrth ddrws Eglwys Loegr ar derfyn y gwasanaeth, fel y gwelo y boneddigion nad oedd efe yn esgeuluso ei ddyledswydd. Gyda golwg ar wleidyddiaeth, credo Jones oedd hyn: Can gynted ag yr ymgymero dyn â gwisgo'r gôt lâs y dylai yr un pryd roi ei wleidyddiaeth yn ei boced, a pheidio gadael i neb wybod i ba blaid y perthynai, oddigerth ar achlysuron penodol pan fyddai dangos lliw neillduol yn fantais iddo ef yn bersonol. Os byddai dyn yn Rhyddfrydwr egwyddorol, ac yn analluog i beidio dangos ei egwyddorion, cynghor Jones iddo oedd peidio meddwl am ymuno â'r *force.* Ond os byddai dyn yn Geidwadwr, ac heb allu atal ei dafod, ac ar yr un pryd â'i fryd ar ymuno â'r *force*—ymuned—nid oedd ganddo ddim i'w ofni. Eto argyhoeddiad Jones oedd mai y plismon goreu oedd hwnw nad allai neb ddyfalu beth oedd lliw ei gredo politicaidd. Dyledswydd plismon, meddai, oedd edrych ar ol lles cymdeithas heb ogwyddo at y naill blaid na'r llall, ond yn unig fel y byddai amgylchiadau yn galw. Yn nghraidd ei galon tueddai Jones at y blaid Ryddfrydol, ond yr oedd ganddo beth yn ei herbyn—yr oedd y blaid yn ddiffygiol o barch i foneddigion a hen deuluoedd, ac ni welodd efe hyny, yn y *long run*, yn talu. Gyda golwg arno ef ei hun, y cwrs mwyaf Cristionogol, yn ei dyb ef, oedd dilyn esiampl yr apostol—gwneud ei hun yn bob peth i bawb.

Y noswaith y galwyd Jones i Siop y Groes yr oedd ei ddyledswyddau nosawl i ddibenu am bedwar o'r gloch y bore, ond gan y tybiai efe mai priodol a buddiol a fuasai iddo gael ymgom gyda Mr. Enoc Huws yn gynar ar y diwrnod, ni thybiodd yn werth y drafferth iddo fyned i'w wely nes iddo yn gyntaf gael gweled Enoc. Synfyfyriodd lawer am yr hyn a welodd ac a glywodd yn Siop y Groes y noson hono, a chredai y gallai ei wasanaeth fod o ddefnydd i'r pleidiau. Adwaenai Jones Enoc Huws yn dda—adwaenai ef fel un o'r dynion diniweitiaf a phuraf oi gymeriad a welodd erioed. Credai yn sicr ei fod yn

analluog i gyflawni dim oedd ddianrhydeddus, ac nid allai ddyfalu y rheswm am yr hyn a welsai ac a glywsai, ac nid allai efe orphwyso nes gwneud ei hun yn gyfarwydd â'r holl ddirgelwch. Yr oedd dirgelwch yn beth nad allai Jones ei oddef.

Er na chysgodd Enoc winciad y noson hono, arosodd yn ei ystafell wely heb leihau dim ar y baricêd (gwerth sôn am dano) nes clywed Marged yn myn'd i lawr y grisiau. Yna symudodd yr atalgaer mor ddistaw ag y medrai. Wedi ymolchi, pan aeth at y drych ar fedr cribo ei wallt, dychrynodd wrth yr olwg oedd ar ei wyneb. Yr oedd yn sicr ei fod yn edrych ddeng mlynedd yn hŷn nag ydoedd y dydd blaenorol. Ond gwaeth na hyny, yr oedd clais dû dan ei ddau lygad, effaith y ddyrnod a gawsai gan Marged. Yr oedd poenau enaid Enoc wedi bod mor dôst ar hyd y nos nes peri iddo gwbl annghofio y ddyrnod hyd y funyd yr edrychodd i'r *glass*. Dygodd hyn, am y canfed tro, holl amgylchiadau y noson flaenorol i'w feddwl. Pa fodd y gallai ddangos ei wyneb i neb? Suddodd ei ysbryd yn îs nag ydoedd eisioes, os oedd hyny yn bosibl. Wedi cerdded ol a blaen hyd yr ystafell am yspaid, a phendroni nid ychydig, gwelodd Enoc nad allai wneud dim oedd well na myn'd i lawr y grisiau—syrthio ar ei fai o flaen Marged—siarad yn deg â hi—addaw pobpeth iddi (ond ei phriodi) er mwyn ei thawelu a chael amser iddo ef ei hun i hel ei bethau—eu gwerthu—a gadael y wlad. Yr oedd yn glamp o orchwyl, ond rhaid oedd ei wneud, ac i lawr ag ef. Pan gyrhaeddodd waelod y grisiau llesgäodd ei galon, ac yn lle troi i diriogaeth Marged, sef y gegin, trodd i'r parlwr, a phan oedd yn codi bleind y ffenestr, y gŵr cyntaf a welodd ar yr heol oedd Jones, y plismon. Pan fydd bleind ffenestr yn cael ei godi, y peth mwyaf naturiol i ddyn fydd yn digwydd myned heibio ar y pryd fydd edrych i'r cyfeiriad hwnw. Felly y gwnaeth Jones. Rhoddodd Enoc nòd arno, ystyr yr hwn oedd—"Bore da, Mr. Jones." Camgymerodd (?) Jones y nòd a rhoddodd iddo yr ystyr—"Hwdiwch," a chyflymodd at y drws. Gwelodd Enoc fod Jones wedi tybied ei fod yn ei alw. Agorodd Enoc y drws. "Oeddech chi'n galw, Mr. Huws?" gofynai Jones. "Nac oeddwn," ebe Enoc, "ond dowch i mewn." Aeth y ddau i'r parlwr a chauodd Enoc y drws.

## PENNOD XXIX.

### MARGED O FLAEN EI GWELL.

Aeth Jones ac Enoc i'r parlwr, fel y dywedwyd, a chauodd Enoc y drws.

"Maddeuwch fy nghamgymeriad," ebe Jones, "mi feddyliais eich bod yn fy ngalw, a'ch bod eisiau siarad â fi am yr helynt neithiwr."

"Yr oedd hyny yn ddigon naturiol," ebe Enoc mewn penbleth fawr. Ar ol ychydig ddistawrwydd, ychwanegodd Enoc, "Ddaru chi sôn am yr helynt wrth rywun, Mr. Jones?"

"Dim peryg, Mr. Huws," ebe Jones, "neiff hi mo'r tro i blismon sôn am bobpeth y mae yn ei weled ac yn ei glywed yma ac acw, na, dim peryg."

"Ddaru chi ddeyd dim wrth y'ch gwraig," gofynai Enoc.

"Wrth fy ngwraig, Mr. Huws? Na, fydda i byth yn dweyd dim wrth *unrhyw wraig* ond pan fyddaf eisiau arbed talu i'r *town crier*," ebe Jones.

"Mae'n dda gen' i glywed hyny; ond yr wyf yn hynod o anffortunus," ebe Enoc yn drist.

"Peidiwch a blino dim yn nghylch y peth, dydio ddim ond *common case*, Mr. Huws," ebe Jones. "Chwi synech pe dywedwn i wrthoch chi y cwbl a wn i am bethau sydd yn digwydd mewn teuluoedd *respectable*, na ŵyr y byd ddim am danynt. Mae plismon, syr, yn gweled ac yn clywed mwy nag a ddyliai neb, ond mi fyddaf bob amser yn dweyd na ddylai yr un dyn sydd mewn busnes, ac yn enwedig os bydd yn cadw tŷ, fod heb briodi. Y natur ddynol ydyw y natur ddynol dros yr holl fyd, syr."

Edrychodd Enoc yn myw llygad y plismon fel pe buasai yn ceisio dyfalu gwir ystyr ei eiriau, a chan nad allai gael boddlonrwydd, rhoddodd ei galon dro ynddo, ac ebe fe gyda theimlad—

"Mr. Jones, ydach chi ddim yn meiddio awgrymu dim am burdeb fy nghymeriad, ydach chi?"

"Rwyf yn eich adnabod er's blynyddau, Mr. Huws," ebe Jones, "a byddai yn ddrwg genyf awgrymu dim o'r fath beth, byddai yn ddrwg iawn genyf orfod credu y peth a ddywedodd y lafnes forwyn yna neithiwr, sef eich bod yn ddyn drwg melldigedig, ond yr ydym ni, y plismyn, yn gweled cymaint nes y byddaf, ar adegau yn mron colli ffydd yn mhawb, ac yn mron a dyweyd nad oes un cyfiawn, nac oes un. Ar yr un pryd byddaf yn gwneud ymdrech i gredu y goreu am bob dyn nes y profir tuhwnt i amheuaeth ei fod yn euog."

Er gwneud ei oreu i ymddangos yn ddigrŷn, teimlai Enoc yn sicr fod Jones yn edrych arno fel dyn euog. Fel y gŵyr y darllenydd, yr oedd efe yn ddyn gwan ei *nerve*, a gorchfygwyd ef gan ei deimladau, a thorodd allan i wylo yn hidl, a theimlai yr un pryd fod Jones yn edrych ar ei ddagrau fel dagrau edifeirwch, ac nid fel dagrau diniweidrwydd. Gwelodd y llwynog fod yr ŵydd yn ei feddiant, ac ebe fe yn galonogol,

"Mr. Huws, peidiwch a bod yn ffol, raid i chwi ofni dim yr aiff y stori ddim pellach o'm rhan i."

Wedi meddianu ei hun ychydig, ebe Enoc braidd yn alaethus ei dôn—

"A allaf fi wneud cyfaill o honoch? a allaf fi ymddiried ynoch, Mr. Jones, os dywedaf y cwbl wrthoch?"

Datododd Jones dri botwm ar ei gôt làs, gan ddangos darn o hen wasgod ddarfodedig, a botymodd hwynt drachefn yn arwyddluniol o'i allu i gadw cyfrinach, ac ebe fe—

"Pan fydd rhywun yn ymddiried *secret* i mi, syr, mi fyddaf yn ei roi yna (gan bwyntio ei fys at ei fynwes) ac yn ei gadw yna dan glo."

Yna adroddodd Enoc ei holl hanes yn nglyn â Marged—y byd tost a gawsai efe gyda hi, gymaint yr oedd efe wedi orfod oddef a chyd ddwyn â hi, soniodd am ei thymherau drwg a'i gormes, fel yr oedd efe, er mwyn tangnefedd, wedi rhagrithio drwy ei moli—mewn gair, datguddiodd y cwbl, heb adael allan sôn am Miss Trefor, ac fel yr oedd ei garedigrwydd at Marged wedi arwain i'r olygfa yr oedd Jones ei hun wedi bod yn dyst o honi. Yr unig beth a adawodd Enoc allan o'i adroddiad oedd ei waith yn baricedio drws ei ystafell wely, yr oedd ganddo gywilydd sôn am hyny. Wedi gorphen ei stori, teimlai Enoc fel un wedi cael gollyngdod mawr, ac ebe fe wrth Jones—

"Yn awr, pa gynghor ellwch chi ei roi i mi? mi roddaf

unrhyw beth i chi, Mr. Jones, os gellwch fy helpio allan o'r helynt yma."

Drwy ystod yr adroddiad, gwrandawai Jones yn astud ac yn llawn dyddordeb. Ni chlywsai y fath hanes yn ei fywyd, a phrin y gallai ymgadw rhag chwerthin. Ni wyddai pe crogid ef, pa un i ryfeddu fwyaf ato, ai ffolineb, ai difrifwch Enoc Huws. Gwyddai Jones o'r dechreu fod Enoc can ddiniweitied a phlentyn, ac nid oedd o herwydd hyny yn llai dyddorol yn ei olwg. Gwelsai ambell ŵydd yn ei oes, ond Enoc, meddyliai oedd yr ŵydd frasaf a welodd erioed, ac eisioes yr oedd arogl saim yn ei ffroenau. Wedi cymeryd arno bwyso y mater yn ddifrifol yn ei feddwl a gosod ei ben yn gam a synfyfyriol am ychydig eiliadau, ebe Jones yn bwyllog—

"Yr wyf yn gwenieithio i mi fy hun, Mr. Huws, y gwn pan fydd dyn yn dweyd y gwir. Yr wyf wedi cael tipyn o brofiad yn y ffordd yna, ac y mae gwirionedd i'w weled ar wyneb eich stori. Mae'n ddrwg iawn gen' i drosoch chi, Mr. Huws, ac os medraf wneud rhywbeth i'ch cael allan o'r helynt yma mi a'i gwnaf gyda phleser. I ddyn anrhydeddus nid oes dim yn fwy gwerthfawr yn ei olwg na'i garitor. Nid ydyw arian yn ddim i'w gydmaru â chymeriad dyn. Fe ŵyr pawb—o leiaf y mae pawb yn gesio erbyn hyn, fod rhywbeth rhyngoch chi a Miss Trefor, ac y mae'n bosibl i ryw helynt fel hyn andwyo eich dyfodol a newid eich program yn hollol. A pheidio sôn dim am eich cysylltiad â'r capel—y chi ŵyr oreu am hyny—nid all peth fel hyn beidio effeithio ar eich masnach a'ch *position* yn y dref. Pwy ŵyr, syr, beth a ddywed llances afiawen o forwyn? Mi ddywedaf i chi beth arall, Mr. Huws, dydio ddim ods beth fydd cymeriad dyn, fe gred y mwyafrif y stori waethaf am dano, a gwaetha' bo'r stori, mwyaf parod ydyw rhai pobl i'w chredu. Ond y mae'n rhaid i mi ddweyd hyn—esgusodwch fi am ei ddyweyd--fod peth bai arnoch chi eich hun yn y mater yma. Mae rhai merched, fel y mae rhai ceffylau, na wna dim y tro iddynt ond y chwip, dyna'r unig beth ddaw a nhw atyn eu hunen. Mae ambell geffyl, os rhowch chi gerch iddo, nad oes dim trin arno—rhaid ei gadw ar wair. Mewn ffordd o siarad, Mr. Huws, mae yn bur amlwg i mi eich bod wedi rhoi gormod o gerch i Marged. Bydase chi, pan ddangosodd hi dymher ddrwg gyntaf, wedi dangos y drws iddi, a bygwth ffurfio cydnabyddiaeth rhwng blaen eich troed â rhan neillduol o'i chorph,

'does dim amheuaeth yn fy meddwl na fase'r llances yn burion erbyn hyn, ac na chawsech chi ddim helynt na thrafferth efo hi o gwbl, yn lle hyny yr ydach chwithe wedi rhoi pob moethau iddi fel na wnaiff dim y tro ganddi 'rwan ond eich cael chi yn ŵr, neu ynte andwyo eich caritor. Mae hi'n llances ddeugain oed, mi wranta, erbyn hyn, ac anodd iawn, fel y gwyddoch, ydyw tynu cast o hen geffyl. Ond a wnewch chi ymddiried y mater i mi, Mr. Huws? Mi ddymunwn yn fy nghalon fod o ryw wasanaeth i chi, ond a wnewch chi, Mr. Huws, ro'i eich *case* yn fy llaw i?"

"Yr ydach chi'n hynod o garedig, Mr. Jones," ebe Enoc, "ac os medrwch chi ro'i help i mi dd'od allan o'r drybini yma, mi dalaf i chi yn anrhydeddus."

"Peidiwch a sôn am dâl, Mr. Huws," ebe Jones. "Mae rhyw bobl—dydw i ddim yn awgrymu eich bod chi yn un o honyn nhw, cofiwch, dim o'r fath beth—ond y mae rhyw bobl yn meddwl mai tâl sydd gan bob plismon o flaen ei lygad bob amser. Maent yn camgymeryd, syr. Dydw i ddim yn dweyd, cofiwch, Mr. Huws, na ches i fy nhalu, a fy nhalu yn anrhydeddus ambell waith am helpio hwn a'r llall allan o helynt, ond ddaru mi erioed ofyn am dâl—erioed yn fy mywyd, er fod cyflog plismon, fel y gwyddoch, yn fychan, yn rhy fychan o lawer pan feddyliwch am ei ddyledswyddau—llawer o ba rai sydd yn ddigon anhyfryd—ac yn enwedig pan fydd ganddo deulu go fawr, fel fy hunan, i'w gadw. Ond 'does dim eisiau i mi ddweyd pethau fel hyn wrthoch chi, Mr. Huws. Fy mhwnc mawr i yrwan, fel cyfaill a chymydog, ydyw bod o ryw wasanaeth i chi yn eich helynt. Dydw i ddim yn dweyd y gallai i lwyddo, ond y mae gen' i dipyn o brofiad efo pethau fel hyn. A wnewch chi, Mr. Huws, adael i mi gael fy ffordd fy hun?"

"'Rwyf yn rhoi fy hun yn eich llaw chi, Mr. Jones, gan eich bod mor garedig," ebe Enoc.

"Purion," ebe Jones. "Mae gen' i *idea*. A ydi'r llances yn yn ymyl? Ydi hi wedi codi?"

"O ydi, er's meityn, mae hi yn y gegin," ebe Enoc.

"A ydi hi yn anllyth'renog?" gofynai Jones.

"Feder hi lythyren ar lyfr," ebe Enoc.

"O'r goreu," ebe Jones. "Arhoswch chi yma nes y bydda i'n galw am danoch, ac os llwyddiff yr *idea*, ac os bydda i'n

galw am danoch i'r gegin, cofiwch edrych yn filain a phenderfynol, *os gellwch.*"

Agorodd Jones ddrws y parlwr, a chauodd ef ar ei ol, ac wrth gerdded ar hyd y lobi hir i gyfeiriad y gegin, drws yr hon oedd yn llydan agored, dywedodd mewn llais uchel, fel y gallai Marged ei glywed—"Waeth i chi heb siarad, Mr. Huws, mae'n rhaid i'r gyfraith gael ei ffordd."

Yr oedd Marged wrthi yn lluchio ac yn trystio, a'r hen dymher ddrwg yr oedd hi wedi gadw danodd er's amser yn berwi ynddi—a brwsh llawr yn ei llaw pan syrthiodd geiriau Jones ar ei chlyboedd. Safodd yn sydyn, a buasai yr olwg wyllt, hagr, aflawen a bygythiol oedd arni yn peri i ŵr llai dewr na Jones betruso. Ond nid ofnai Jones ymosodiad, ac ni fwriadai wneud ymosodiad. Cerddodd i'r gegin yn dawel, ond penderfynol—clodd y drws, a rhoddodd yr agoriad yn ei boced. Yna eisteddodd wrth y bwrdd, pylfalodd yn ei logellau am bapyr. Wrth bylfalu tynodd allan bâr o *handcuffs* gloew (ni arferai Jones gario *handcuffs*, ond digwyddai ei bod yn *review day* y diwrnod hwnw), a gosododd hwynt yn hamddenol ar y bwrdd, a'r un modd y gosododd ei *staff*. Hyn oll a wnaeth Jones cyn yngan gair nac edrych ar Marged ond gyda chil ei lygad. Gwelodd fod ei "*idea*" yn argoeli yn dda, canys yr oedd Marged fel pe buasai wedi rhewi wrth lawr y gegin, a'i hwyneb yn welwlas gan ofn neu gynddaredd. Wedi lledu darn o hen lythyr ar y bwrdd, a rhoi mîn ar ei bensil plwm, cododd Jones ei ben, ac edrychodd fel llew ar Marged, ac ebe fe—

"Yrwan am y gyfraith ar y mater. Eich enw chi ydyw Marged Parry, onide?"

"Mi wyddoch o'r gore be ydi f'enw i," ebe Marged, gan geisio ymddangos yn ddiofn.

"Purion," ebe Jones. "Beth ydyw eich oed, Marged Parry?"

"Pa fusnes sy gynoch chi efo f'oed i?" ebe Marged.

"Marged Parry," ebe Jones, "wyddoch chi'ch bod yn llaw y gyfraith? ac fod yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn cyn myn'd o flaen y *magistrate* ddeg o'r gloch bore heddyw? Be ydi'r gloch yrwan (gan edrych ar y cloc)—oh, mae digon o amser."

"Be sy nelo'r gyfraith â fi?" ebe Marged, gan bwyso yn drymach ar y brwsh.

"Beth sydd a nelo'r gyfraith â chi, yn wir?" ebe Jones. "Oni wyddoch chi eich bod wedi tori'r gyfraith, yr hon a elwir *Act of Parliament for the prevention of cruelties to animals?*"

"Bewn i bedi hyny?" ebe Marged.

"'Dydw i, cofiwch," ebe Jones, "ddim yn myned i gyfieithu i chi. Mi gewch ddyn i gyfieithu i chi pan ewch o flaen Gŵr y Plas. Atebwch chi fi, beth ydyw eich oed?"

"'Rydw i'n bymtheg ar hugen," ebe Marged, yn anewyllysgar.

"A'r *rest*," ebe Jones. "Dwedwch i mi y gwir, Marged Parry, onid ydych yn bump a deugen?"

Ni atebodd Marged air, ac ebe Jones—

"Mi wyddwn. *Very good*," a chan adrodd megis wrtho ei hun wrth ysgrifenu—ychwanegodd—"*I, Marged—Parry,—aged—forty—five—years—last—birthday*, &c. Purion. Yrwan, Marged Parry, gwrandewch chi arna i. Wedi gweled a chlywed yr hyn gymerodd le yn y tŷ hwn neithiwr, rhwng unarddeg a haner nos, fy nyledswydd fel plismon oedd chwilio i'r mater, gan ei fod yn ol cyfraith Prydain Fawr a'r Iwerddon yn *breach of the public peace*. Yn awr, ar ol bod yn siarad â Mr. Huws, yr wyf yn hysbys o'r holl amgylchiadau, ac wedi i mi gael ychydig eiriau gyda chi, Marged Parry, ni a fyddwn yn barod i ddwyn yr holl achos o flaen Gŵr y Plas yn y *County Hall*. Ond i ddechreu, eisteddwch i lawr, Marged Parry, achos mi fydd raid i chi *sefyll* mwy na digon pan ewch i'r *Hall*. Yr wyf yn deall eich bod yn ngwasanaeth Mr. Hughes, *Grocer*, Siop y Groes, er's rhai blynyddoedd. Yn ystod y tymhor hwnw—gofalwch chi sut yr atebwch 'rwan—yn ystod y tymhor hwnw a gawsoch chi ryw gamdro gan Mr. Huws?"

"Ddeudes i 'rioed mod i wedi cael cam gan Mr. Huws," ebe Marged.

"Purion. Ond gadewch i mi roi hyny i lawr mewn ysgrifen," ebe Jones, gan nodi rhywbeth ar y papyr, a brygowthan rhywbeth yn Saesoneg. "Yna," ebe fe, "be gwtrin oedd eich meddwl wrth alw Mr. Huws, yn fy nghlywedigaeth i neithiwr, yn ddyn drwg melldigedig? Mae eich *case* wedi ei benderfynu yn barod—yr ydych yn euog o *defamation of character*—cyfraith a wnaed yn amser George *the Fourth*, a'r gosb am ei thori ydyw dwy flynedd o garchar gyda llafur caled. Ond dydi

hyny ond rhan fechan o'r gŵyn sydd yn eich herbyn. Yn ystod yr amser yr ydych wedi bod yn ngwasanaeth Mr. Huws, yr ydych wedi bod yn euog o anufudd-dod, ac nid hyny yn unig, ond o geisio temtio eich meistr i ddefnyddio geiriau y gallech wneud defnydd anghyfreithlon o honynt ar ol hyny, ac hefyd wedi ei orfodi i brynu eich iawn ymddygiad gyda gwobrau, ac yr ydych hyd yn nod wedi gwrthod codiad yn eich cyflog, ac, yn wir, eich cyflog dyledus, gydag amcan neillduol —mewn geiriau plaen yr ydych wedi rhyfygu meddwl, ac nid yn unig meddwl, ond cystal a dweyd fod Mr. Huws a'i lygad arnoch i wneud gwraig o honoch. Yr *idea!* Hen wrach aflawen, ddiolwg fel chi yn meiddio meddwl—yn meiddio dychmygu fod gŵr boneddig fel Mr. Huws, gŵr ieuanc a fedrai gael y foneddiges harddaf yn y dref yn wraig—gŵr ieuanc cefnog, hardd, *respectable*, yr *idea!* meddaf, fod gŵr felly wedi gwario un ran o ugen o eiliad i feddwl am danoch chi! Mae'n rhaid eich bod wedi d'rysu—wedi glân ddyrysu yn eich synwyrau, ddynes. Ac wrth gofio yr olwg a ges i arnoch neithiwr gyda llŵy yn eich cêg, yr wyf yn sicr mai wedi dyrysu yr ydych, ac o herwydd hyny yr wyf yn tueddu i dosturio wrthych. Marged Parry, gwrandewch be yr ydw i yn ddweyd yrwan. Mae eich meistr yn gwybod y gallai am y camddefnydd yr ydych wedi ei wneud o'i garedigrwydd, eich rhoi yn *jail*, a hyny dan *Act of Parliament* a elwir *Act of Toleration for the High Court of Chancery*. Ond y mae yn dda i chi fod gynoch chi feistr tyner —nid ydyw Mr. Huws yn dymuno eich carcharu, a fy nghynghor i iddo ydyw eich rhoi yn Seilam Dinbech. Ond y mae Mr. Huws yn erbyn gwneud hyny, os addewch chi bihafio'ch hun yn y dyfodol, a seinio cytundeb. Mae'n ymddangos eich bod ar adegau neillduol—megis pan fydd y lleuad yn ei gwendid—yn gadael i'r ysbryd drwg eich meddianu, a'r Seilam ydyw'r unig le i giwrio rhai felly. 'Rwyf wedi cymeryd ambell un yno, ac y maent yn gwybod sut i'w trin yno. I ddechre, y maent yn eu rhwymo draed a dwylo, ac yn eu rhoi yn nghafn y pwmp, ac yn pympio dw'r arnynt am awr a haner, ac felly bob dydd, nes iddyn nhw dd'od atyn 'u hunen. Ond y mae Mr. Huws yn ddyn trugarog, ac nid ydyw yn foddlon i mi eich cymeryd i'r Seilam, ac y mae yn barod i roi un treial eto arnoch. Yn awr, Marged Parry, a ydych chi'n barod i addaw —os bydd i Mr. Huws drugarhau wrthoch chi, fod yn ufudd

i'w orchymynion, peidio rhoi lle i'r ysbryd drwg yn eich calon, edrych ar ol ei dŷ a'i gadw yn deidi, a gofyn maddeuant Mr. Huws am i chi ddychmygu ei gael yn ŵr, ac am ei alw yn ddyn drwg melldigedig? Cofiwch y bydd raid i chi fod mewn un o dri lle—yn Siop y Groes yn eneth dda edifeiriol, neu yn *Jail*, neu yn Seilam Dinbech. Ymha un o'r tri lle yr ydych am fod, Marged Parry?"

Yr oedd arwyddion o edifeirwch a braw er's meityn ar Marged, ac ebe hi yn drist—

"Well gen' i fod yma, a 'dwy'n siwr na neiff Mr. Huws mo ngyru i ffwrdd."

"Purion," ebe Jones. "ond rhaid gwneud cytundeb," ac agorodd y drws gan waeddi yn uchel ar Mr. Enoc Huws.

Daeth Enoc i mewn yn llipa a chrynedig—mor grynedig fel y dymunasai Jones yn ei galon roi rhegfa dda iddo.

---

## PENNOD XXX.

### AMODAU HEDDWCH.

Daeth Enoc i'r gegin fel y dywedwyd yn llipa ddigon, ac ebe y plismon wrtho—

"Yn awr, Mr. Huws, yr wyf wedi bod yn egluro y gyfraith i Marged Parry—cyfraith Prydain Fawr a'r Iwerddon—mewn perthynas i helynt a all ddigwydd mewn tŷ o fusnes fel eich tŷ chwi. Mae Marged Parry erbyn hyn yn gwybod lle y byddai hi yr adeg yma bore fory oni bae eich bod chwi yn ddyn trugarog, ac y mae yn edifarhau am ei throsedd, ac yn addaw seinio cytundeb y bydd iddi hi o hyn allan fod yn ufudd i'ch gorchymynion, teidi yn y tŷ, gofalus am eich cysuron, ac adnabod ei lle mai morwyn ydyw ac nid meistres, ac na chaiff hi byth fod yn feistres yn y tŷ hwn, hyny ydyw, os byddwch chwi mor garedig a maddeu yr hyn sydd wedi pasio, a rhoi ail dreial arni. A ydach chi, Mr. Huws, yn teimlo y gellwch wneud hyny? A ellwch chi edrach dros yr hyn sydd wedi

digwydd? Yr *insult*, y cam yr ydach chi wedi gael oddiar law un sydd wedi derbyn cymaint o'ch caredigrwydd?"

"Yr wyf yn meddwl y medraf," ebe Enoc, heb wybod yn iawn pa fodd i ateb Jones.

"Yr ydach chi'n un o fil, syr," ebe Jones. "Mi welais rai dwsiniau yn cael eu rhoi yn *jail* am ddwy flynedd am drosedd llai na'r un y mae Marged Parry yn euog o hono. Yn awr, Marged Parry, gan fod Mr. Huws mor drugarog, a ydach chi yn edifarhau am eich pechodau, ac yn gofyn maddeuant Mr. Huws am —— wel, am beth sydd yn rhy atgas i'w enwi?"

Ni ddywedodd Marged ddim, ond sobian crïo.

"Mae'n rhaid i mi gael ateb, Marged Parry, neu wneud fy nyledswydd," ebe Jones, a chododd ar ei draed a gafaelodd yn yr *handcuffs*.

"Mr. Jones ——," ebe Enoc, ar fedr cymeryd plaid Marged, ond atebodd Jones yn union—

"Mae'n rhaid i'r gyfraith gael ei ffordd, Mr. Huws. Os nad ydyw Marged Parry yn barod i ofyn eich maddeuant, ac addaw bihafio 'i hun, 'does dim ond *jail* neu Seilam Dinbech i fod. Be ydach chi'n ddweyd, Marged Parry? Un gair am dani."

"Ydw," ebe Marged rhwng gwaeddi a chrïo, a threiglodd deigryn dros rudd Enoc o dosturi ati.

"Purion," ebe Jones. "Un o'r pethau casaf gen i ar y ddaear, Mr. Huws, ydyw cymeryd neb i'r carchar, yn enwedig merch, ac mae'n dda gen i wel'd Marged Parry yn ddigon call i edifarhau am ei bai ac addaw diwygio. Mi ddeyda i chi beth arall, Mr. Huws, welais i 'rioed ferch yn cael ei chymeryd i'r *jail* na fydde hi farw yno yn fuan, achos y mae nhw yn eu trin yn ddychrynllyd—choeliech chi byth." Yrwan," ychwanegodd Jones, gan eistedd wrth y bwrdd—"dowch yma a seiniwch y papur yma, achos mae'n rhaid gwneud pobpeth fel mae'r gyfraith yn gofyn."

"Fedra i ddim sfenu," ebe Marged.

"Mae'r gyfraith yn caniatau i chi roi croes," ebe Jones.

Daeth Marged at y bwrdd ar hyd ei—hyny ydyw, o'i hanfodd, ac wedi i Jones roi ei fŷs ar fan neillduol ar y papur, gwnaeth Marged globen o groes agos gymaint a melin wynt.

"Yrwan, Mr. Huws," ebe Jones, "faint o gyflog sydd yn ddyledus i Marged Parry?"

"Pum' punt a chweigen, 'rwyf yn meddwl," ebe Enoc.

"Dowch a nhw yma bob dime," ebe Jones.

"Beth am y codiad?" ebe Marged, wedi iachau nid ychydig.

"Yr ydach chi wedi fforffedio y codiad drwy gamymddygiad, ac mae'n rhaid i chi enill eich caritor yn gyntaf cyn sôn am y codiad," ebe Jones.

"Hwyrach ——" ebe Enoc.

"Mr. Huws," ebe Jones, oblegid gwelai fod Enoc yn toddi, "talwch chi'r arian sydd ddyledus i'r forwyn, achos mae'n rhaid myn'd ymlaen yn ol y gyfraith."

Estynodd Enoc yr arian i Jones, a chyflwynodd Jones hwynt i Marged, ac ebe fe—

"Yn awr, Mr. Huws, mi wn eich bod yn ddyn tyner a thrugarog, a mi wn na ddymunech chi ddim gwneud niwed i hen ferch ddigartre, na thori ei charitor; a wnewch chi addaw peidio sôn gair byth wrth neb am yr helynt yma, ar eich gwir yrwan?"

"Sonia i air byth wrth neb os ——," ebe Enoc.

"'Does dim os i fod am y peth, Mr. Huws," ebe Jones, "yr wyf yn crefu arnoch er mwyn hen greadures fel eich morwyn i beidio menshon y peth byth wrth neb, achos bydae'r hanes yn myn'd allan fe fydde Marged Parry, druan, yn sport gan bawb. Fydd y llygaid duon yna ddim yn hir yn mendio, a rhaid i chi wneud rhyw esgus – eich bod wedi taro eich pen yn mhost y gwely, neu rywbeth arall, a pheidio dweyd ar un cyfrif mae eich morwyn a'ch tarawodd pan oedd yr ysbryd drwg yn ei meddianu. Wnewch chwi addaw, Mr. Huws? Dowch, byddwch yn ffeind? 'Rwyf yn gwybod nad ydi hi ddim yn haeddu hyny, ond wnewch chi addaw cadw y peth yn ddistaw?"

"Gwnaf," ebe Enoc.

"Yr ydach chi'n un o fil, meddaf eto," ebe Jones. "A 'rwan, Marged Parry, gofalwch chithe arwain bywyd newydd, a pheidio temtio'ch mistar i adael i'r sôn am yr helynt yma fyn'd allan, achos bydae o unwaith yn myn'd allan, mi fyddech yn sport i'r plwy', a fe fydde holl blant y dre' yn gwaeddi ar eich hol. A chofiwch chithe, Mr. Hughes, os bydd genych y gŵyn leia yn erbyn eich morwyn—ddim ond y smic lleia—*just* deydwch wrtha i—yr ydw i'n pasio'ch tŷ bob dydd—a mi ofala i am gael trefn ar bethe—achos cyfraith ydyw cyfraith, ac wn i ddim be ddeuthe o honom ni oni bae am y gyfraith. Wrth

gofio, os byddwch eisiau morwyn y mae gen i nith sydd yn *first-class housekeeper*—yn sgolor gampus, ddaw atoch chi ar ddiwrnod o rybudd, bydae chi'n hapnio bod mewn angen am un. Wel, yrwan, y mae'n rhaid i mi fyn'd, ond y mae gen i eisiau siarad gair â chi yn breifet, Mr. Huws, yn nghylch y gyfraith sydd yn rheoleiddio tŷ o fusnes fel eich tŷ chi."

Teimlai Enoc unwaith eto yn obeithiol ac yn llawer ysgafnach ei fynwes. Edrychai ar Jones fel ei angel gwarcheidiol. Wedi i'r ddau fyned eilwaith i'r parlwr, ebe Enoc, gan rwbio ei ddwylaw, a gwenu yn siriol—

"Wyddoch chi be, un garw ydach chi, Mr. Jones. Wn i ddim be faswn i wedi wneud oni bae i chi ddigwydd d'od yma."

"Mr. Huws," ebe Jones, "'rwyf wedi cael llawer o brofiad efo pethau fel hyn, ac yr wyf yn meddwl fy mod wedi eich gosod ar dir dyogel unwaith eto. Bydd eich cysur dyfodol yn dibynu'n hollol arnoch chi eich hun—hyny ydyw, ar y modd yr ymddygwch at eich morwyn. Mae hi mor *ignorant* a meipen, ac ar ei *hignorance* y daru mi weithio—dyna oedd yr *idea*. A mhrofiad i ydyw hyn: Weles i 'rioed lances o forwyn anwybodus a drwg ei thymher, os trowch chi'r min ati na chewch chi wel'd mai *coward* hollol ydyw. Yn awr, Mr. Huws, os ydach chi am gael heddwch a chysur yn eich tŷ, dangoswch mai chi ydi'r mistar. Mi gymra fy llŵ, syr, bydae chi'n troi'n dipyn o deirant am wythnos y bydde'r hen Wenhwyfar fel oen i chi. A dyna *raid* i chi wneud. Bloeddiwch arni 'rwan ac yn y man, a gwnewch iddi wneud pethe nad oes angen am eu gwneud, *just* i ddangos mai chi ydi'r mistar. Oni bae eich bod yn grefyddwr mi faswn yn eich anog i roi ambell regfa iddi nes bydd hi'n downsio. Ond 'does dim eisiau i chi fyn'd cweit mor bell a hyny. Ond mi ddeyda hyn, os na ddangoswch chi'r *dyn*, os na chodwch eich cloch a dweyd iddi pwy ydi pwy, fyddwch chi damed gwell. Yr ydw i wedi bwrw yr ysbryd aflan allan o honi—ac mi fase'n dicêt i chi wel'd i gwyneb hi pan oeddwn i'n dweyd y drefn wrthi—ond os na actiwch chi'r *dyn*, Mr. Huws, a dangos eich awdurdod, fe aiff saith ysbryd aflan arall i mewn i'r llances, ac mi fydd yn waeth arnoch nag eriocd, coeliwch chi fi."

"'Rydach chi'n deyd reit wir, Mr. Jones," ebe Enoc, "ac mae'n rhaid i mi dreio, er y bydd yn anodd, bod yn fwy o fis-

tar. 'Rydw i wedi dyodde mwy nag a goeliech chi, a mae hithe wedi myn'd yn hŷ arna' i."

"Mi ddof i mewn yrwan ac yn y man," ebe Jones, "megis i edrych ydi pobpeth yn myn'd yn mlaen yn iawn, a mi cadwiff hyny hi danodd."

Pan oedd Jones yn llefaru y geiriau olaf gwelai Enoc forwyn Ty'nyrardd yn croesi'r heol at ei ddrws a nodyn yn ei llaw, ac wedi gofyn i Jones ei esgusodi am foment, rhedodd Enoc i'r drws, gan guddio ei lygaid â'i law rhag i Kit weled y cleisiau, i dderbyn y nodyn, a dychwelodd yn y funyd. Wedi agor y nodyn a'i ddarllen iddo ef ei hun, ebe Enoc—

"Wel, dyma hi eto !"

"Beth sydd yrwan, Mr. Huws? ychwaneg o brofedigaethau?" ebe Jones.

"Ië," ebe Enoc yn alaethus, "gwahoddiad oddiwrth Mrs. Trefor i fyn'd yno i swper heno i gyfarfod ein gweinidog, a sut y *medra* i fyn'd â dau lygad dû gen i? Yr *ydw* i'n anlwcus—fu neb erioed mor anlwcus!"

"Fe ellwch fyn'd yno yn reit hawdd," ebe Jones, "A oes genoch chi bîff heb ei gwcio yn y tŷ?"

"Oes, 'rwyf yn meddwl," ebe Enoc.

"O'r gore," ebe Jones, "Mi wn na ddaru chi gysgu fawr neithiwr, ac wedi i chi gael eich brecwest, torwch ddau sleis o biff cul, ac ewch i'ch gwely—mi fedr y llanciau yn siop neud heboch yn burion—a rhowch sleis un ar bob llygad, ac aroswch yn eich gwely dan ganol dydd—ïe, hyd ddau o'r gloch—ac os medrwch chi gysgu gore oll. Erbyn un neu ddau o'r gloch, mi ffeindiwch y bydd y cleisiau duon dan eich llygad wedi diflanu'n lân, ac erbyn yr amser y bydd eisiau i chi fyn'd i Dy'nyrardd, mi fyddwch yn *all right*. Rhag gwastraffu, fe neiff y ddau sleis burion cinio i'r gath wed'yn."

Chwarddodd Enoc at gynildeb Jones, ac ebe fe—

"Wel, yn wir, un garw ydach chi, Mr. Jones, weles i 'rioed eich sort chi. Mi treiaf o beth bynag."

"Mae o'n siwr o ateb y diben," ebe Jones, "a 'rwan mae'n rhaid i mi fyn'd, Mr. Huws, achos mae hi'n *review day*."

"Hoswch, wn i ddim pryd y do'i allan o'ch dyled chi—cymerwch hon 'rwan," ebe Enoc gan roddi sofren yn llaw Jones.

Edrychodd Jones ar y sofren ar gledr ei law, a throdd lygad cellweirus ar Enoc, ac ebe fe—

"'Rydach chi'n rhy haelfrydig, Mr. Huws. Ydach chi am i mi reteirio o'r *force* ar unwaith? Wel, 'does gen' i ond diolch yn fawr i chi, a chofiwch fy mod at eich gwasanaeth, Mr. Huws."

"Peidiwch a sôn, fe gawn siarad eto, *good morning*," ebe Enoc.

---

## PENNOD XXXI.

### BREUDDWYD ENOC HUWS.

Bwytaodd Enoc ei frecwest mewn distawrwydd. Edrychai Marged yn swth, diyni, a digalon, fel pe buasai wedi tynu ei pherfedd allan, neu fel cath wedi haner ei lladd. A pha ryfedd? Yr oedd y gobaith hapus yr oedd hi wedi ei fynwesu er's llawer dydd, sef y cai hi fod yn feistres yn Siop y Groes, ac y gelwid hi yn "Mrs. Huws," wedi ei lofruddio. Ac nid hyny yn unig, ond yr oedd wedi ei bygwth a'i thrin yn enbyd gan blismon, yr hwn, bellach, oedd i'w gwylio a'i chadw mewn trefn. Yn wir, ystyriai Marged na fu ond y dim iddi hi gael ei chymeryd i'r carchar. Yr oedd ei gwyneb yn fudr gan ól crïo, ac nid oedd wedi crïo o'r blaen er yr adeg y bu farw ei mam, a dim ond ychydig y pryd hwnw, ac ni fuasai wedi crïo o gwbl, oni bae ei bod yn credu fod crïo yn gweddu i'r amgylchiad. Nid oedd colli ei mam yn ddim yn ei golwg o'i gydmaru â cholli'r gobaith am gael priodi ei meistr. Nid oedd wahaniaeth ganddi bellach pa un ai byw ai marw a wnai. Ar ol y gurfa a gawsai gan Jones, y plismon, a thra yr oedd Jones ac Enoc yn ymddyddan yn y parlwr, nid unwaith na dwywaith y meddyliodd hi am Boaz, y *conductor*. Da iddi, meddyliai Marged, pe buasai wedi dychwelyd *edrychiadau* Boaz. Teimlai yn awr yn fwy sicr nag erioed, wedi i Enoc ei edliw iddi, fod Boaz yn meddwl rhywbeth am dani pan edrychai efe mor fynych arni yn y *practices!* Druan oedd Marged! Y rheswm fod Boaz yn troi ei lygaid mor fynych ar Marged yn y côr oedd, am ei

bod yn *discordio* mor ddychrynllyd, a mynych y dywedodd Boaz wrth *leader* y *treble* (yr hon, yn y man, a briododd efe), "Jennie," wn i beth i feddwl o Marged Parry yna, mae hi'n gneud nâd lladd mochyn, ac yn andwyo'r canu. 'Dydw i ddim yn leicio deyd hyny wrthi, a mi leiciwn bydae rhai o honoch chi, os ydio'n bosib, yn ei digio, gael iddi gadw i ffwrdd." Mor agored ydym i gamesbonio edrychiad dyn!

Nid allai Enoc beidio canfod ar yr olwg oedd ar Marged ei bod wedi ei thori i mewn i raddau mawr. Ond a barhai hi yn y cyflwr dedwydd hwn oedd yn amheus ganddo. Yr oedd Enoc yn berffaith ymwybodol o wirionedd yr hyn a ddywedasai Jones, y plismon, wrtho, sef y byddai raid iddo ddangos y *dyn* os oedd am gadw Marged i lawr. Os na wnai efe hyny, teimlai Enoc yn berffaith sicr y byddai Marged mewn cyflawn feddiant o'i thymherau drwg erbyn dranoeth. Wrth fwyta ei frecwest synfyfyriai pa fodd y gallai efe ddechreu ar y gorchwyl hwn. Ychydig ffydd oedd ganddo yn ei allu i gyflawni y dasg. Yn wir, ni fedrai fod yn gâs efo neb, a gwell oedd ganddo oddef cam na bod yn frwnt a meistrolgar. Erbyn hyn, gwelai Enoc y byddai raid iddo geisio dangos ei awdurdod. Wedi gorphen brecwest, aeth yn syth i'r pantri, lle na buasai o'r blaen er's llawer o amser, a theimlai lygaid Marged yn llosgi ei gefn wrth iddo gyflawni y fath hyfdra. Torodd ddau sleis o bîff cul yn ol cyfarwyddyd Jones, ac wrth fyned i fynu'r grisiau i'r llofft, dywedodd, braidd yn *nervous*.

"Marged, 'rydw i'n myn'd i ngwely, a 'does neb i fy nisdyrbio i tan ganol dydd," a rhag i Marged ei atal, cerddodd yn gyflym i'r llofft cyn clywed beth a ddywedai hi.

Ni ddyweddodd Marged air; yn unig edrychodd yn synedig ar y bîff oedd yn ei law. Gofynai iddi ei hun a oedd ei meistr wedi dyrysu? I beth yr oedd yn cymeryd bîff i'r llofft yn enw pob rheswm? A oedd y plismon wedi d'od a mastiff iddo, yr hwn a gadwai efe yn y llofft, a'r hwn oedd i edrych ar ei hol hi? Neu a oedd ei meistr yn bwriadu yn y dyfodol—yn hytrach na bwyta yn y gegin, cymeryd ei ymborth yn llofft, a hwnw heb ei gwcio? Neu a oedd efe ar fedr ei *witchio* efo'r bîff, fel y clywsai fod rhai yn *witchio* dafad wyllt? Yr oedd Marged wedi ei dyrysu a'i hanesmwytho nid ychydig.

Aeth Enoc i'w wely, ac yn ol y cyfarwyddyd, gosododd y bîff ar ei lygaid gyda saeth weddi am i'r feddyginiaeth ateb y dyben

dymunol. Nid rhyfedd ar ol yr hyn yr aethai drwyddo y noson flaenorol a'r bore hwnw, ei fod yn teimlo ar ol gorwedd yn ei wely, braidd yn gwla. Teimlai ei frecwest, er nad oedd ond bychan, yn pwyso yn drwm ar ei ystumog, ac fel pe buasai eisiau newid ei le. Nid allai roddi cyfrif am ei salwch. Gwaethygai ei glefyd, a tharawyd Enoc gan y drychfeddwl arswydus—a oedd Marged, tybed, wedi ei wenwyno? Nid oedd dim hawddach iddi wneud, oblegid, yn wahanol i hen ferched yn gyffredin, ni allai Marged oddef cathod—yn wir, yr oedd hi wedi lladd tua haner dwsin—ac fel dirprwy cath defnyddiai Marged yn helaeth yr hyn a elwir "gwenwyn lladd llygod." Beth, meddai Enoc, os oedd hi wedi rhoi peth o'r gwenwyn hwnw yn ei frecwest? Teimlai yn sâl iawn. Os oedd Marged wedi ei wenwyno—nid oedd mo'r help—yr oedd yn rhaid iddo farw—canys ni fedrai alw ar neb i'w gynorthwyo—ac a chymeryd pob peth i ystyriaeth, ni fuasai marw yn rhyw anffawd fawr iawn. Fel hyn yr ymsyniai Enoc pryd y syrthiodd i gwsg trwm—mor drwm fel na ddeffrodd am bedair awr. Ac nid oes neb â ŵyr pa bryd y deffroisai, oni bae iddo gael breuddwyd ofnadwy. Meddyliai, yn ymdaith ei enaid, ei fod wedi bod yn afiach a gorweddiog am fisoedd lawer, ac fod Marged wedi cadw ei afiechyd yn ddirgelwch i bawb, oblegid ni ymwelsai na meddyg na chyfaill âg ef yn ystod holl fisoedd ei glefyd. Yr oedd mewn poenau arteithiol yn barhaus, nos a dydd, ac os cwynai efe ond ychydig, tarawai Marged ef yn ei dalcen gyda rhyw offeryn, yr hyn a ddyblai ei boenau. Lawer pryd, pan na fyddai Marged yn yr ystafell, carasai allu codi a churo y ffenest ar rywun a ddigwyddai fyned heibio a hysbysu ei gyfeillion mai afiach ydoedd, a'i fod yn cael ei gam drin yn echrydus, ond yr oedd yn rhy wan i godi. Trwy ryw ffordd, nas gwyddai efe, yr oedd Marged wedi gwerthu ei siop a'i holl eiddo, ac wedi sicrhau yr arian iddi hi ei hun. Weithiau, er mwyn ei dormentio, dygai Marged yr holl arian ar fwrdd bychan o flaen ei lygaid, a chyfrifai hwynt yn fanwl lawer gwaith drosodd, yna cadwai hwynt yn ofalus a herfeiddiol. Yr oedd efe yn ymwybodol o hyd mai disgwyl iddo farw yr oedd Marged, a'i bod yn bwriadu ei gladdu yn ddirgel yn yr ardd wedi bo nos. Ar adegau, tarawai Marged ef yn ei ben gyda morthwyl mawr nes pantio ei dalcen, ac yna gafaelai yn ffyrnig yn ei wallt, codai ei ben oddiar y gobenydd, a tharawai ef yn

ei wegil â'r morthwyl, nes y deuai ei dalcen i'w le yn ei ol. Os gwaeddai ef "Oh!" rhoddai Marged iddo gnoc *extra* flaen ac ol. Synai ef ei hun weithiau ei fod yn gallu byw cyhyd dan y fath driniaeth chwerw, a chanfyddai ar wyneb Marged ei bod hithau wedi glân flino disgwyl iddo farw. Ar brydiau, cedwid ef am wythnosau bwygilydd heb damed o fwyd. Mor dost oedd ei newyn yr adegau hyny, fel y tybiai, pe gallasai symud ei ben y gallasai fwyta post y gwely, ond nis gallai hyd yn nod droi ei lygad yn ddiboen. Pan fyddai ei gwthlwng yn fwyaf miniog, deuai Marged i'r ystafell gyda dysglaid o'r ymborth mwyaf persawrus—eisteddai o fewn troedfedd i'w drwyn, a bwytäi y cyfan, a llyfai y ddysgl heb gynyg gwlithyn iddo; ac eto, yr oedd yn byw. Ar amserau ceisiai farw, ond bob tro y gwnai efe hyny, elai angau yn mhellach oddiwrtho a dyfnhai ei boenau. Un diwrnod, daeth Marged i'r ystafell gyda chyllell fain finiog yn ei llaw, a gwelodd Enoc ei bod ar fedr ei lofruddio, ac nid drwg digymysg oedd hyny yn ei olwg, canys yr oedd wedi blino byw. Nid oedd Marged wedi siarad âg ef er's llawer o fisoedd—yn unig tynai wynebau ellyllaidd arno am oriau bwygilydd weithiau. Ond yn awr siaradodd, gan ei hysbysu nad oedd hi yn bwriadu ei ladd am fis neu ddau, ond mai ei gorchwyl y diwrnod hwnw a fyddai tynu ei lygaid allan. Can gynted ag y siaradodd Marged, teimlai Enoc yr un foment ei fod ef ei hun wedi colli y gallu i barablu. Gwnaeth ymdrech galed, ond ni fedrai symud ei dafod, yr hyn a ymddangosai fel pe buasai yn cydsynio i Marged i dynu ei lygaid, yr hyn a wnaeth hi yn ddeheuig gyda blaen y gyllell. Rhyfeddai Enoc nad oedd tynu ei lygaid yn achosi cymaint o boen iddo a chael ei daro yn ei dalcen â'r morthwyl. Gwelai (yr hyn oedd yn bur òd) Marged yn gosod ei lygaid ar y *dressing table*, ac yn eu gadael yno, ac yna yn myn'd i lawr y grisiau. Ni phrofai Enoc rhyw lawer o anghyfleusdra o herwydd colli ei lygaid, ond teimlai dipyn yn anghyfforddus wrth eu gweled yn edrych arno o hyd, ac un o honynt—ei lygad chwith—fel pe buasai yn gwneud sport am ei ben, ac felly y gallai, meddyliai Enoc, oblegid yr oedd yn ymwybodol fod ganddo dyllau dyfnion, hyll, o bobtu ei drwyn. Ar yr un pryd, yr oedd yn bur galed fod un o'i lygaid ef ei hun yn gwneud *common cause* efo Marged yn ei erbyn, a phrotestiai ynddo ei hun, os gallai ddyfod drwy yr aflwydd hwn, nad anghofiai efe byth ei lygad de am sticio yn

drymp iddo hyd y diwedd. Tra yr oedd efe yn synfyfyrio ar y pethau hyn, wele Marged yn gwneud ei hymddangosiad drachefn, ac yn dweyd wrtho ei bod, ar ol tynu ei lygaid, wedi anghofio crafu y tyllau, a phan ddechreuodd hi grafu, neidiodd Enoc yn ei wely a deffrôdd. Deallodd ei fod wedi cael breuddwyd. Ceisiodd agor ei lygaid, ond nis gallai. Dechreuodd amheu ai breuddwyd ydoedd. Teimlodd ei lygaid, ac—wel, cofiodd am y biff cul, yr hyn a ddeonglodd ei freuddwyd. Llosgai ei lygaid yn enbyd, ond yr oeddynt yn ei ben, ac nid ar y *dressing table;* ac ni theimlodd yn ei fywyd mor ddiolchgar. Neidiodd i'r llawr, ac ymolchodd, a chafodd fod meddyginiaeth Jones, y plismon, wedi ateb y dyben.

Am y gweddill o'r prydnawn, ceisiai Enoc ymddangos yn fywiog a phrysur, eto yr oedd yn amlwg i'w gynorthwywyr yn y siop ei fod yn derfysglyd ac absenol ei feddwl. Nid allai Enoc lai na llongyfarch ei hun am y wedd oedd ar ei amgylchiadau o'i chymharu â'r hyn a ofnodd y noson flaenorol. Teimlai ei fod yn ddyledus i Ragluniaeth am anfon gŵr o fedr a phrofiad Jones y plismon i'w dynu allan o helynt a ymddangosai ychydig oriau yn ol yn anocheladwy. Rhedai ei feddyliau yn barhaus i Dy'nyrardd, ac edrychai ar ei oriawr yn fynych. Nid oedd efe heb ofni i'r Parch. Obediah Simon wneud argraff ffafriol ar feddwl Miss Trefor, ac felly ei daflu ef ei hun rwd neu ddau yn mhellach oddiwrth y nôd a osodasai efe o flaen ei feddwl. Yr oedd Enoc yn ymwybodol—poenus felly—fod Mr. Simon yn fwy golygus nag ef, ac er nad hyny yn unig a barodd iddo roi ei fôt yn ei erbyn pan oedd galwad Mr. Simon o flaen yr eglwys, eto yr oedd yn rhan o'r swm a barodd i Enoc benderfynu yn ei feddwl nad Mr. Simon oedd y dyn goreu y gellid ei gael fel gweinidog. Oddiar yr ychydig ymddyddan a gawsai Enoc gyda Mr. Simon, nid oedd yn foddlawn i gydnabod fod ei *information* yn helaethach na'r eiddo ef ei hun, ond gwyddai fod y gweinidog yn fwy parablus nag ef—yn fwy diofn a hŷf, neu fel yr ymsyniai Enoc ynddo ei hun, "mae gen i gystal stoc ag yntau, ond y mae ganddo ef well ffenest." A beidiai Miss Trefor edrych ar y ffenest a flinai Enoc. Nid oedd efe wedi celu oddiwrthi, mewn ymddygiad ac yn mhob ffurf, oddigerth mynegiad pendant mewn geiriau, ei hoffder o honi. Yn wir, yr oedd efe mewn cant o amgylchiadau wedi dangos ei fod yn gaethwas iddi, gan ddisgwyl yn bryderus, wrth gwrs, iddi

hithau ddangos rhyw argoelion ei bod yn gwerthfawrogi ac yn croesawu ei ddiofryd a'i ddefosiwn cyn iddo wneud datganiad eglur o'i serch. Ond hyd yn hyn, nid oedd hi wedi rhoi ond ychydig o le iddo gasglu ei bod yn deall ei ddyfalwch na'i deimladau tuag ati. Yr unig arwydd er daioni a gawsai Enoc —ac yr oedd yn werthfawr yn ei olwg—oedd na fyddai hi yn ddiweddar yn ysgoi ei gymdeithas, nac, ar y cyfan, yn anmharchus o hono. Prin yr ymddygai hi felly ato pan ddechreuodd efe fyned i Dy'nyrardd,—yn wir, cofiai amser pryd na chollai hi unrhyw fantais i roi ergyd iddo, os gallai sut yn y byd, yr hyn a ddygai arni ŵg Capten Trefor. Hyny ni wnai hi yn awr, ond ymddygai ato fel cyfaill y teulu. Ond prin y golygai Enoc fod y cyfnewidiad hwn yn ei hymddygiad yn gymhelliad digonol i wneud ei feddwl yn hysbys iddi, oblegid ystyriai pe gwrthodai hi ei gynygiad—pe dywedai yn bendant nad oedd iddo obaith—wel, yr oedd y drychfeddwl yn gyfryw nas gallai ei oddef, a gwell a fuasai ganddo dreulio ei oes i fyn'd a dyfod i ac o Dy'nyrardd os gallai felly gadw pawb arall draw, serch nad allai ef ei hun lwyddo yn ei gais. Ond pa sicrwydd oedd ganddo ef na ddeuai rhywun a chipio ei eilun tra byddai efe yn adeiladu ei allorau? Dim. Ac hwyrach mai y Parch. Obediah Simon oedd y gŵr a wnai hyny.

---

## PENNOD XXXII.

### DARGANFYDDIAD SEM LLWYD.

Ar ei ffordd i Dy'nyrardd, fel y dywedwyd, yr oedd mynwes Enoc Huws yn llawn eiddigedd. Yr oedd ynddo *presentiment* annghyfforddus y byddai i'r Parch. Obediah Simon ymddisgleirio ar y swper a'i daflu ef i'r cysgod, a gwneud ei obaith—yr hwn oedd eisoes yn ddigon gwan—yn wanach nag erioed, a phe buasai Mr. Simon yn y lleuad y noswaith hono yn lle bod yn Nhy'nyrardd nid gwaeth a fuasai hyny yn ngolwg Enoc. Meddyliasai Enoc lawer y prydnawn hwnw—yn wir fwy nag

erioed—am Mr. Simon, ac wrth ymwisgo oreu y gallai cyn cychwyn oddicartref, nis gallai yn ei fyw beidio dal ei hun o hyd mewn cyferbyniad âg ef. Nid oedd ei syniadau yn uchel am y gweinidog, ond yr oedd Enoc yn ddigon gonest i gydnabod wrtho ei hun nad ydoedd yn feirniad diragfarn. Ar yr un pryd, pan oedd yn cerdded yn gyflym tua Thy'nyrardd—nid unwaith na dwywaith y dywedodd ynddo ei hun—"Wn i ddim yn y byd mawr be mae pobol yn 'i wel'd yn y dyn—leicies i 'rioed mono."

Hwyrach mai i waith Enoc yn rhoi tipyn o *extra touch* iddo ef ei hun y gellid priodoli ei fod braidd ar ol yr amser penodedig yn cyrhaedd Ty'nyrardd. Pan agorodd Kit, y forwyn, y drws iddo, ebe hi—

"Wel, Mr. Huws, lle dach chi wedi bod tan 'rwan?—mae Miss Trefor yn gofyn o hyd ydach chi ddim wedi dwad."

Yr hen genawes! gwyddai Kit yn burion fod y gair yna yn werth swllt iddi y noswaith hono, ac yr oedd yn werth can' punt yn ngolwg Enoc os ffaith a fynegai Kit. Rhwng Kit a'i chydwybod am y ffaith. Agorodd Kit ddrws y *smoke-room* i Enoc, lle yr oedd yn ei ddisgwyl Capten Trefor, Mr. Denman, Mr. Simon, Miss Trefor, ac yn eistedd wrth y pentan yn ei ddillad gwaith, Sem Llwyd, a'r oll, oddigerth Sem, yn ymddangos fel pe buasent wedi haner meddwi. Ar ymddangosiad Enoc cododd pob un—oddigerth Sem—ar ei draed, i ysgwyd llaw âg ef, a Miss Trefor oedd y gyntaf i wneud hyny, ffaith y cymerodd Enoc sylw manwl o honi, ac arddangosai pawb, oddigerth Sem, lawenydd nad allai Enoc ei amgyffred. Ond nid hir—er ei fod dipyn yn hir—y bu efe heb gael rheswm am yr holl lawenydd. Hyfdra digywilydd, tra yr oedd y Capten yn bresenol, a fuasai i neb ond efe ei hun hysbysu Enoc am yr hyn oedd wedi eu rhoi yn y fath hwyl. Wedi i bawb ymdawelu, ac i Enoc eistedd, ebe'r Capten—

"Mi wranta, Mr. Huws, eich bod yn canfod ein bod dipyn yn llawen heno, ac nid ydym felly heb reswm, ac mi wn, pan glywch y rheswm, y byddwch chwithau yn cydlawenhau â ni. Mae yn digwydd weithiau ein bod yn llawenhau wrth glywed am newydd da i eraill, ond heno yr ydym yn llawenhau, nid am fod genym newydd da i eraill, er, mewn ffordd o siarad, ei fod yn newydd da i eraill hefyd, ond heno yr ydym yn llawenhau am fod genym newydd da i ni ein hunain, ac i neb yn fwy

nag i chwi eich hunan, Mr. Huws, ac nid oes yn ol—ac i mi siarad yn bersonol, a chwi faddeuwch oll i mi am grybwyll y peth—nid oes dim yn ol, meddaf, ond un peth i wneud fy llawenydd yn gyflawn heno, a'r peth hwnw ydyw—(ac yn y fan hon rhwbiodd y Capten ei drwyn gyda'i gadach poced), a'r peth hwnw ydyw, wel, nid oes genych chwi, Mr. Huws, na chwithau, Mr. Simon, brofiad o hono, ond, hwyrach, rywdro, y byddwch mewn sefyllfa y gellwch ei ddeall—y peth hwnw ydyw, meddaf, nad ydyw Mrs. Trefor yn alluog o ran ei hiechyd i fod gyda ni heno i gydlawenhau, a mae Mr. Denman yn gallu deall yr hyn yr wyf yn ei———."

"Oh! Tada, yr ydach chi'n hir yn deyd y newydd wrth Mr. Huws," ebe Miss Trefor.

"Susi," ebe'r Capten, "dydw i ddim wedi byw i'r oed yma, tybed, heb wybod sut i siarad a sut i ymddwyn yn nghwmni boneddigion. Ond dyna oeddwn yn myn'd i'w ddweyd oni bae i fy merch fy *interuptio*, mai yr unig beth sydd yn anmharu tipyn ar fy llawenydd i yn bersonol ydyw yr hyn a grybwyllais, sef nad ydyw Mrs. Trefor gyda ni heno, a hyny o herwydd afiechyd—afiechyd, mi obeithiaf, nad ydyw yn beryglus. Ond chwi ddeallwch fy nheimlad—mae dyn, rywfodd, wedi cydfyw am gynifer o flynyddoedd yn rhy barod, hwyrach, i ofni'r gwaethaf. Ond rhag i mi eich cadw yn rhy hir, Mr. Huws, mewn disgwyliad, er y gwn eich bod chwi, yn anad neb, yn cymeryd dyddordeb yn iechyd Mrs. Trefor—rhag eich cadw yn rhy hir, meddaf, a rhag i mi gael fy ngalw i gyfrif eto gan fy merch fy hun, er y byddaf yn hoffi myn'd o gwmpas pethau yn fy ffordd fy hun, mi doraf fy stori yn fèr—mae genym newydd da, Mr. Huws, mae Sem Llwyd wedi d'od â newydd i ni gwerth ei glywed—maent wedi taro ar y faen yn Nghoed Madog!"

"Beth?" ebe Enoc mewn syndod mawr, "wedi d'od i blwm yn barod?"

"Dyna'r ffaith, syr, onide, Sem?" ebe'r Capten.

Rhoddodd Sem nòd ddoeth, yr hon a arwyddai fod ganddo lawer i'w ddweyd ond ei fod yn ymatal rhag nad allent ei ddal.

"Hwre! brafo ni, Cwmni Coed Madog," ebe Enoc mewn llawenydd mawr, yn yr hwn y cyfranogodd pawb oddigerth Sem.

"Esgusodwch ein ffolineb, Mr. Simon," ebe'r Capten gan

anerch y gweinidog, "ac nid ffolineb chwaith, oblegid nid oes dim yn fwy naturiol, syr, nag i rai fel fy hunan a Mr. Huws a Mr. Denman, y rhai, nid gydag amcanion hunanol a bydol, ond gyda golwg ar wneud lles i'r gymydogaeth, a chyda golwg ar gadw achos crefydd i fynu—sydd wedi gwario llawer o arian —mwy nag a goeliech chwi—naturiol, meddaf, iddynt lawenhau pan ddont o hyd i'r trysor cuddiedig—mor naturiol ag oedd i Columbus lawenhau pan welodd y ddeilen ar y dŵr."

"Perffaith naturiol, ac yr wyf yn cydlawenhau â chwi, Capten Trefor," ebe Mr. Simon.

"Mi'ch credaf," ebe'r Capten, "*just* y peth a fuaswn yn ei ddisgwyl oddiwrth ŵr o amaethiad a dysg fel chwi. Ar yr un pryd, mae yn bosibl, yn wir, yn eithaf naturiol, i rai fel chwi sydd yn ymdroi gyda phethau ysbrydol, ac heb ymyraeth rhyw lawer gyda phethau y byd a'r bywyd hwn—mae yn bosibl, meddaf, i ni, yr anturiaethwyr yma, wneud argraph arnoch mai creaduriaid y byd a'r bywyd hwn yn unig ydym—hyny ydyw, mai pobl ydym a'n bryd yn hollol ar wneud arian. Ond nid dyna'r ffaith, syr,—mae ochr arall i'n natur, ac mi fentraf ddweyd fod i ddarganfyddiadau yn y byd naturiol, fel yn y byd moesol ac ysbrydol, eu *charm*, ac fod y *charm* lawn cymaint yn y darganfyddiad ag yn yr hyn a ddarganfyddir. Er engraipht (gadawodd Miss Trefor yr ystafell mewn *disgust*), meddylier am Syr Isaac Newton—ni fuasai ei lawenydd yn llai pe darganfyddasai mai rhywbeth arall ac nid *gravitation* a barai i'r afal syrthio oddiar y pren—y darganfyddiad ei hun oedd yn rhoi boddhad iddo—os nad ydwyf yn camgymeryd. Yr un modd, syr, yn y *case* presenol; ac yn y peth hwn yr wyf yn mynegu fy nheimlad fy hun, ac, yr wyf yn credu, deimlad Mr. Huws a Mr. Denman—yn y *case* presenol, meddaf, nid yr unig bleser, nac ychwaith y mwyaf, ydyw y byddwn ryw ddydd yn feddianol ar lawer o eiddo—yr wyf yn addef fod pleser yn y drychfeddwl yna—ond, ac i mi siarad yn bersonol—mae y pleser mwyaf yn y *ffaith* fod plwm—bydded fawr neu fach—wedi ei *ddarganfod*, yr hyn sydd yn gwirio fy rhagddywediad—set fy mod yn sicr fod plwm yn Nghoed Madog. Neu, i mi ei roi mewn ffurf arall, meddyliwch yn awr, pe cawn fy newis, naill ai i berthynas i mi, dyweder, oblegid nid wyf ond yn tybio *case*—fod i berthynas adael i mi yn ei ewyllys ugain mil o bun-

au, neu ynte i mi gael yn Nghoed Madog werth pymtheng mil o bunau o blwm, pa un a ddewiswn? Yr olaf, syr, heb wario munyd uwch ben y cwestiwn. Gallai hyn ymddangos yn ynfyd i ryw bobl, ond yr wyf yn credu fy mod yn mynegu calon a theimlad Mr. Huws a Mr. Denman—dynion sydd yn gwybod rhywbeth am y *charm* o fentro ac am y *charm* uwch o ddarganfod. Ai nid felly y mae pethau yn sefyll, Mr. Huws?"

"Ië," ebe Enoc, "ond gadewch glywed am y darganfyddiad, faint ydach chi wedi ei ddarganfod, Sem Llwyd?"

"Esgusodwch fi, Mr. Huws," ebe'r Capten, "mi äf i lawr i'r Gwaith fy hun yn y bore, a chewch *report* cyflawn. Mae yn ddiamheu genyf fod Sem wedi rhedeg yma a'i wynt yn ei ddyrnau y foment gyntaf y gwelodd lygad y trysor gloew, ac nid ydyw mewn *position*, mi wn, i roi *idea* briodol i chwi, Mr. Huws, am natur y darganfyddiad, ac, fel y dywedais, mi äf i lawr i'r Gwaith fy hun yn y bore, D.V. Ond hyn sydd sicr, pe na byddai y darganfyddiad ond cymaint a modwydded o edeu sidan, ac, yn wir, nid wyf yn disgwyl, yn ol natur pethau, iddo fod yn fawr, mae y ffaith fod Sem Llwyd a'i bartner wedi darganfod ei fod yno—bydded lleied ag y bo—yn dangos yn eglur fod toraeth o hono allan o'r golwg. Ai nid dyna ydyw ein profiad ni fel *practical miners*, Sem?"

"'Rydach chi yn llygad y'ch lle, Capten," ebe Sem?

Yn y fan hon daeth Miss Trefor i mewn gan hysbysu fod y swper yn disgwyl am danynt, ac aeth y cwmni i'r parlwr, ond arosodd y Capten i gael gair neu ddau yn gyfrinachol gyda Sem Llwyd. Nid oedd yr ymgom ond bèr, sef fel y canlyn—

"Dydio fawr o beth, mi feddyliwn, Sem?"

"Nag ydi, syr," ebe Sem, "prin werth sôn am dano, fel y cewch chi wel'd yfory, ond 'roeddwn i'n meddwl na fase fo *harm* yn y byd i mi ddwad yma i ddeyd."

"Chwi wneuthoch yn reit, Sem," ebe'r Capten. "Y gwir ydyw, ddaeth newydd erioed mewn gwell amser, achos, rhyngoch chwi a fi, mae Denman yn mron a rhoi fynu'r ysbryd. 'Does gan Denman, druan, mae arnaf ofn, fawr o arian i'w spario, ac y mae yn gorfod cyfyngu arno ei hun i wneud yr hyn y mae yn ei wneud. Ond 'does dim dowt, Sem, fod eich newydd wedi codi llawer ar ei ysbryd. Mae hi yn wahanol gyda Mr. Huws, mae ganddo fo bwrs lled hir. Gobeithio'r tad y cawn ni rywbeth acw yn fuan, bydae o ddim ond er mwyn



* I hope to goodness

Denman. Ond rhyngoch chwi a fi, dydw i ddim yn disgwyl dim acw 'rwan, ond rhaid ceisio cadw'r gobaith i fynu, er, mewn ffordd o siarad, fod yn edifar gen i ddechreu yn Nghoed Madog, a faswn i 'rioed *wedi* dechreu—mi faswn yn treio byw ar y tipyn oedd gen i—oni bae mod i yn meddwl beth ddeuthai o honoch chwi, y gweithwyr a'ch teuluoedd."

"Wn i ddim be ddeuthe o honom ni blaw am Goed Madog," ebe Sem.

"Digon gwir," ebe'r Capten, "ond beth ydyw eich barn chwi, Sem, a beth ydyw barn y dynion am y lle?"

"Wel, syr," ebe Sem, "mae gan y dynion, a mae gen inau, ffydd y cawn ni blwm yno ryw ddiwrnod."

"Gweddïwch ynte," ebe'r Capten, "am i'ch ffydd droi yn olwg a'ch gobaith yn fwynhad, oblegid y mae gan Ragluniaeth lawer i'w wneud gyda phethau fel hyn. A pheth arall, y mae gwaelod, chwi wyddoch, i byrsau yr ychydig o honom sydd yn gorfod dwyn y gôst. Mi ddof i lawr acw bore fory, Sem, os byddaf byw ac iach. A 'rwan rhaid i mi fyn'd at y cyfeillion yma. Peidiwch a chodi, Sem, mi ddwedaf wrth Kit am ddwad â pheint o gwrw i chwi a thipyn o fara a chaws."

"Thanciw, syr," ebe Sem.

---

## PENNOD XXXIII.

### Y SWPER.

Pe buaswn yn ysgrifenu i'r Saeson bwyteig, buaswn yn ceisio desgrifio yr arlwy a huliai fwrdd Capten Trefor noswaith y swper yn Nhy'nyrardd; ond nid ydyw y Cymry yn gofalu cymaint am *ddesgrifiad* o wledd (gwell ganddynt gyfranogi o honi). Yr oedd yno bobpeth angenrheidiol ar gyfer ystumog dyn rhesymol. Ac nid ydyw ond teg â Miss Trefor ddweyd mai hi ei hun oedd wedi parotoi y danteithion, canys yr oedd hi, yn ddiweddar, wedi ymroi i ddysgu coginio a gwneud pob math o waith tŷ, ac wedi dyfod yn lled fedrus ar y goruchwylion hyn. Gofalodd

y Capten hysbysu ei gyfeillion mai Susi oedd y gogyddes. Wedi i'r gweinidog ofyn bendith, ac i'r Capten daflu golwg ar hydred a lledred y bwrdd a'r hyn oedd arno—fel y bydd llywydd cyfarfod cyhoeddus yn taflu ei olwg dros y program cyn codi i wneud araith—ebe fe—

"'Rwyf yn hyderu, gyfeillion, y gwnewch yn harti o'r peth *sydd* yma, fel ag y *mae* o, ac os bydd rhywbeth heb fod yn iawn, nac yn unol â'ch archwaeth, ar fy merch, Susi, y bydd y bai, achos hi sydd gyfrifol am y cwcari."

"Dydach chi ddim yn foddlon, dada," ebe Susi, "ar ofyn bendith ar y bwyd heb wneud *apology* dros yr hon a'i parotodd."

"Maddeuwch i mi, Miss Trefor," ebe'r gweinidog, "yr ydych yn camesbonio geiriau Capten Trefor—rhoi *guarantî* i ni mae eich tad y bydd pobpeth yn berffaith."

"Diolch i chi, Mr. Simon, am *revised version* o eiriau nhad," ebe Susi.

("Conffowndio'r dyn," ebe Enoc yn ei frest, "gobeithio y tagiff o.")

"Pa fodd bynag am hyny," ebe'r Capten, gan drefnu yn helaeth ar gyfer ystumog ei westtywyr, "mi obeithiaf y gwnewch gyfiawnder â'r hyn *sydd* yma. Y rhai salaf yn y byd, Mr. Simon, ydym ni, teulu Ty'nyrardd, am gymhell, ac os na wnewch y goreu o'r hyn sydd o'ch blaen, arnoch chwi y bydd y bai, Mr. Simon."

"Ni fyddaf yn euog o'r bai hwnw, Capten Trefor," ebe'r gweinidog.

("Mi dy gredaf," ebe Enoc ynddo'i hun.)

"Purion," ebe'r Capten. "Mr Simon, beth gymerwch chwi i'w yfed? Yr wyf fi fy hun wedi arfer cymeryd cwrw, hwyrach ei fod yn fai ynof, ac mi fyddaf yn meddwl weithiau, wrth ystyried y mawr ddrwg sydd o'i gamarfer, y dylwn, er mwyn esiampl, ei roi heibio, er y gwn y byddai hyny, yn yr oed yma, yn niweidiol iawn i mi. A ydych yn ddirwestwr, Mr. Simon?"

"Ydwyf," ebe Mr. Simon, "yn yr ystyr Ysgrythyrol o'r gair. Mi fyddaf yn cymeryd cwrw yn gymedrol, a phan fyddaf yn credu ei fod yn fwy llesol i mi na thê neu goffi, ond ni fynwn friwio teimladau neb wrth ei gymeryd."

"Dyna *just* fy athrawiaeth inau," ebe'r Capten, ac ychwanegodd—"Susi, dwedwch wrth Kit am dd'od a chwrw i Mr.

Simon a minau, a choffi i Mr. Huws a Mr. Denman. Maent hwy eu dau, Mr. Simon, yn ddirwestwyr, ond heb fod yn rhagfarnllyd. Felly, chwi welwch, a chyfrif fy merch, y bydd tri yn erbyn dau o honom."

Yr oedd hyn braidd yn annisgwyliadwy i'r gweinidog, ac ebe fe—

"Rhydd i bob meddwl ei farn."

"Ac i bob barn ei llafar," ebe'r Capten.

"Os rhydd i bob barn ei llafar," ebe Enoc, "fy marn i ydyw y dylem ni, sydd yn gymharol ieuanc, yn anad neb, ymwrthod yn llwyr â'r diodydd meddwol. Yr ydym ar dir diogelach, ac yn meddu cydwybod dawelach i annog y rhai sydd yn yfed i ormodedd i ymwrthod â'r arferiad."

"Wel, Mr. Simon," ebe'r Capten, "sut yr atebwn ni hynyna."

"O'm rhan fy hun," ebe Mr. Simon, "ni byddaf un amser yn ymhoffi ymddadleu yn nghylch mân reolau a dynol osodiadau. Gwell gen' i ddilyn esiampl y Testament Newydd. Yr ydych wedi sylwi, yn ddiamheu, Capten Trefor, nad ydyw y Datguddiad Dwyfol, ag eithrio y ddeddf seremonïol, yn ymostwng i osod i lawr fân reolau yn nghylch bwyd a diod. Nid yw teyrnas nefoedd fwyd a diod. Egwyddorion hanfodol a ddatguddir i ni yn y Gair Santaidd, un o ba rai, yn ol fy meddwl i, ac yr wyf wedi ceisio meddwl tipyn yn fy oes, ydyw rhyddid cydwybod. Mae gan bob dyn ryddid i ddarllen y Datguddiad, a hawl i'w ddeall yn ol ei feddwl ei hun. Os ydyw un dyn yn darllen llwyrymwrthodiad yn yr Ysgrythyr Lân, purion—dyna ei feddwl ef; ac os ydyw un arall, yr hwn sydd yn meddu yr un manteision, o ran dysg a gallu meddyliol, yn methu canfod llwyrymwrthodiad, mae ganddo yntau hawl i feddwl felly. Ond fy syniad i yn bersonol ydyw hyn—a gallaf eich sicrhau nad ydwyf wedi dyfod iddo heb lawer o ymchwiliad a myfyrdod—fod hanes y gymdeithas ddynol yn gyffelyb i hanes dyn yn bersonol. A chyda llaw, y mae hyny yn eithaf naturiol gan mai personau sydd yn gwneud i fynu y gymdeithas ddynol. Mae pob dyn yn ei faboed dan lywodraeth mân reolau, ac yn y cyfnod hwnw maent yn angenrheidiol a llesol, ond, wedi cael addysg a chyrhaedd oedran gŵr, *insult* i'w ddynoliaeth a fyddai ei rwymo wrth reolau o'r fath. Mae hyn i'w weled yn eglur yn y Datguddiad. Yn yr ysgol yr oedd y

gymdeithas ddynol dan y ddeddf seremonïol, ond dan y Testament Newydd y mae wedi cyrhaedd oedran gŵr, ac wedi taflu y seremonïau o'r neilldu."

"Wel, Mr. Huws," ebe'r Capten, gan waghau ei wydriad, "dyna bilsen go gref i chwi, beth ddwedwch chwi yn ateb i hynyna?"

"Nid wyf yn cymeryd arnaf," ebe Enoc, "bod yn ddadleuwr, yn enwedig gyda gŵr dysgedig fel Mr. Simon. Ond yr wyf yn meddwl y gallaf ateb yr wrthddadl i fy moddlonrwydd fy hun. Os ydwyf yn deall dysgeidiaeth y Testament Newydd —yn enwedig dysgeidiaeth Iesu Grist ei hun, nid oes dim ag y mae Ef yn rhoi mwy o bwys arno na hunanymwadiad a hunanaberthiad. Yr oedd yn ei ddysgu i eraill, ac yn ei gario allan yn ei fywyd ei hun. Nid beth oedd ganddo hawl iddo, neu ryddid i'w wneud, oedd cwestiwn mawr Iesu Grist, ond beth oedd ei ddyledswydd. Yr oedd ganddo Ef hawl i barch a chysuron penaf y byd—yr oedd ganddo hawl i fyw, os bu hawl gan neb erioed. Ac eto, er mwyn eraill, yr oedd Efe yn myn'd i gyfarfod croesau, ac yn rhoddi ei einioes i lawr. Ac, erbyn meddwl, mor rhyfedd, yr Un oedd yn meddu y rhyddid mwyaf—rhyddid na feddai neb arall ei gyffelyb—rhyw unwaith neu ddwy y mae yn sôn am dano—ond y mae yn sôn yn feunyddiol am y rheolau—wna i ddim dweyd 'mân reolau'—yr oedd wedi eu gosod arno ei hun. Ac os nad ydyw Teyrnas Nefoedd fwyd a diod, eglur yw nad ydyw ymarfer â'r diodydd meddwol yn rhan o honi. Ac yr wyf yn meddwl y gellir dyfod a rhesymau cryfach o lawer dros——."

"Mr. Huws," ebe'r Capten, "esgusodwch fi. Yr ydym erbyn hyn yn ddigon o gyfeillion i mi gymeryd hyfdra arnoch. Mae o'n taro i meddwl i mai tipyn o *bad taste* ynof oedd cyffwrdd â'r cwestiwn dirwestol, yn enwedig ar achlysur fel hwn, ac yr wyf yn meddwl mai'r peth goreu allwn wneud, wedi i Mr. Denman ddweyd *just* un gair ar y ddadl fel diweddglo, ydyw troi yr ymddyddan at rywbeth arall. Yrwan, Mr. Denman."

"Yr wyf wedi sylwi," ebe Mr. Denman, "fod merched, hyny ydyw, merched o'r dosbarth goreu, yn cael eu harwain megys gan reddf i benderfynu cwestiynau amheus—cwestiynau ag y bydd dynion yn ymddyrysu uwch eu penau. Mi rof y cwestiwn mewn ffurf ymarferol, gan apelio at Miss Trefor. Yn awr, Miss Trefor, golygwch fod dau ŵr ieuanc, cyfartal o ran

pryd a gwedd, ffortun, a phob rhagoriaeth arall, yn ceisio am eich ffafr, ond fod un yn ddirwestwr, a'r llall yn ymarfer â'r diodydd meddwol, ar ba un o'r ddau y gwrandawech?"

"Wrandawn i ar y naill na'r llall," ebe Susi.

"Ië," ebe Mr. Denman, "ond golygwch y byddai *raid* i chwi briodi un o'r ddau."

"Wel," ebe Susi, "pe byddai *raid* i mi briodi un o honynt, neu gael 'y nghrogi, mi briodwn, wrth gwrs, y dirwestwr, ac nid yn ol 'greddf' ond yn ol fy rheswm."

"Clywch! clywch!" ebe Enoc, "mae'r cwestiwn wedi 'i setlo."

"Gyda phob dyledus barch," ebe Mr. Simon, "'dydi'r cwestwn ddim wedi'i setlo, oblegid yn ol tystiolaeth Capten Trefor y mae Miss Trefor yn ddirwestreg, ac felly y mae ganddi *bias*. A phe apelid at ryw ferch arall, dichon yr atebai hono yn wahanol."

"Ond y mae Mr. Denman yn golygu i chwi apelio at y dosbarth goreu o ferched," ebe Enoc.

"Mae peth arall i'w ddweyd," ebe'r Capten. "Pan ddywed fy merch na wnai hi wrandaw ar yr un o'r ddau, y mae yn amlwg nad ydyw yn dweyd yr hyn y mae hi yn ei feddwl; ac os nad ydyw yn dweyd yr hyn y mae yn ei feddwl yn y rhan flaenaf o'i hatebiad, mae lle i gredu nad ydyw yn dweyd yr hyn y mae yn ei feddwl yn y rhan arall."

"Campus!" ebe Mr. Simon, "rhesymeg berffaith. Nid anfynych y clywir merched ieuainc prydweddol yn dweyd yn bendant na phriodant byth, ac mai mwy dewisol ganddynt fod yn hen ferched, a phan welir hwynt rhyw ddiwrnod yn cael eu harwain at yr allor, nid oes neb yn ddigon dideimlad i'w beio am dori eu gair. Gyda thipyn o *strategy*, gellir cymeryd y ddinas fwyaf caerog."

"Mae'n debyg mai adrodd eich hyder a'ch profiad yr ydach chwi 'rwan, Mr. Simon," ebe Susi, gyda thipyn o gnoad yn ei geiriau, "ond yr wyf yn meddwl yr addefwch fod ambell ddinas eto heb ei chymeryd, ac na chymerir byth mo honi."

"Fy *argument* i ydyw hyn," ebe Mr. Simon, "os cymerwyd Jericho, paham nad ellir cymeryd pob dinas?"

"'Dydi'r ffaith," ebe Susi, "fod Jericho wedi ei chymeryd drwy chwythu cyrn hyrddod ddim yn profi y gellir cymeryd

hyd yn nôd bentref eto drwy chwythu corn dafad Gymreig, er i'r chwythwr fod yn offeiriad."

"Susi," ebe'r Capten, gan droi llygaid arni oeddynt braidd yn geryddol, "eich perygl, fy ngeneth, ydyw bod dipyn yn rhy ffraeth, yn enwedig pan na fydd hir gydnabyddiaeth—fel gyda Mr. Huws a Mr. Denman—yn rhoi gwarant i chwi arfer eich ffraethineb. Pan ddeuwch i adnabod fy merch yn well, Mr. Simon, dowch i ddeall nad ydyw yn *bad sort;* ond, fel hen lanc, bydd raid i chwi ddyoddef ergyd yrwan ac yn y man. Dyna ei phechod parod i'w hamgylchu—ymosod ar wŷr dibriod."

"Dyna'r *ail apology* dros eich merch heno, dada," ebe Susi; "y gyntaf oedd na wyddwn sut i gwcio; a'r ail na wn sut i byhafio fy hun. Rhaid eich bod wedi esgeuluso fy *education,* dada. Ddaru mi ddweyd rhywbeth *vulgar*, Mr. Simon?"

"Ddim o gwbl, Miss Trefor. Rown i 'run ffig am ferch ieuanc os na fedrai ateb drosti ei hun," ebe Mr. Simon.

"Debyg iawn," ebe Susi, "rown inau 'run ffig am *ddyn*, er iddo fedru ateb drosto'i hun."

"Mae arnaf ofn, fy ngeneth," ebe'r Capten, "y bydd raid i mi wneud trydydd *apology* drosoch, os ewch y'mlaen yn y ffordd yna. Nid ydyw siarad yn anmharchus am ddynion yn un arwydd o *education*, ac yr ydych yn annghofio mai *dyn* ydyw eich tad."

"*Present company excepted*, chwi wyddoch, tada," ebe Susi, "a dydw i, fel y gwyddoch, ddim wedi cyfarfod ond ychydig o ddynion,—dim ond Cwmni Pwllygwynt, pobl Bethel, a 'chydig o bregethwyr Methodus, a mhrofiad gwirioneddol i ydyw mai *windbags* ydyw naw o bob deg o'r dynion a welais i—creaduriaid yn ———."

"Susi," ebe'r Capten, "mae'n ymddangos fod pawb wedi gorphen. Cenwch y gloch yna am Kit, i glirio'r pethau, ac 'rwyf yn meddwl mai gwell i chwi fyn'd i edrych sut y mae hi ar eich mam, druan. Mae hi, *poor woman*, wedi ei gadael yn unig heno."

"O!" ebe Susi, "mi wela, yr ydach chi am y'nhori o'ch Seiat, tada. Well i chi ofyn arwydd,—pawb sydd o'r un meddwl nad ellir ystyried Susan Trefor yn aelod mwyach o'r seiat hon, coded ei law."

Ni chododd neb ei law ond y Capten, a chanodd Susi y gloch am Kit, a rhedodd ymaith dan chwerthin.

"Mae genych ferch fywiog, Capten Trefor," ebe Mr. Simon.

"Oes," ebe'r Capten, "mae digon o fywyd ynddi, ond byddaf yn ofni yn aml iddi wneud argraph anffafriol ar feddyliau dyeithriaid. Hwyrach fy mod yn euog o adael iddi gael gormod o'i ffordd ei hun. Ond y mae'n rhaid i mi ddweyd hyn, ac mae'r cyfeillion yma yn gwybod mai gwir yr wyf yn ei ddweyd —fod rhyw gyfnewidiad rhyfedd wedi d'od dros feddwl fy merch yn ddiweddar. Amser yn ol, syr, yr oedd yn peri llawer o boen a phryder meddwl i mi, oblegid yr oedd yn rhoi lle i mi gredu nad oedd yn meddwl am ddim ond am ymwisgo, darllen *novels*, a rhyw wâg-freuddwydio ei hamser gwerthfawr heibio. Nid oedd yn diwyno ei dwylaw o'r naill ben i'r wythnos i'r llall, ac er ei bod wedi cael dygiad i fynu crefyddol—can belled ag yr oedd addysg ac esiampl ei rhïeni yn myn'd—yr oedd genyf le i ofni nad oedd yr adeg hono yn meddwl dim am fater ei henaid, ac yr oedd hyn, fel y gellwch feddwl, yn achosi poen i mi nid ychydig. Er yn hogen yr oedd ei dychymyg yn fywiog, a thrwy ryw anffawd, fe aeth yn mlaen i'w phorthi fel yr oedd pethau cyffredin bywyd, megis gwaith tŷ, trafferthion bywyd, ac yn y blaen, mor ddyeithr iddi a phe buasai yn byw mewn byd arall. Gan fy mod wedi dechreu, waeth i mi orphen. Y pryd hwnw, syr, nid wyf yn meddwl fod fy merch yn ymwybodol fod yma fyd o drueni o'i chwmpas. Ni wyddai hi ei hun beth oedd eisiau dim, ac nid allai ddychymygu, ar y pryd, fod neb arall mewn angenoctyd neu yn dyoddef. Nid oedd ei chalon erioed wedi ei chyffwrdd. Heblaw hyny, nid oedd ganddi syniad am werth arian—yr oedd papur pum' punt yn ei golwg fel hen lythyr, heb fawr feddwl fod pob punt yn tybied hyn a hyn o lafur ymenydd i'w thad. Yr oedd hi rywfodd yn byw ynddi hi ei hun, ac er gwneud llawer cais nid oedd bosibl ei chael allan o honi ei hunan i sylweddoli *realities* bywyd. A rhaid i mi ddweyd fod hyn wedi peri i mi golli llawer noswaith o gysgu? Ond er's amser bellach, nid yw yn gofalu dim am wisgoedd—mae'n well ganddi, syr, fyn'd i'r capel mewn ffroc gotyn nag mewn gown sidan—ac y mae hi fel gwenynen gyda gwaith y tŷ o'r bore gwyn tan nos. Mewn gair, y mae hi wedi myn'd i'r eithafion cyferbyniol. Mae'n well ganddi olchi'r llawr na chwareu y *piano*, ac hwyrach y bydd yn anhawdd genych fy nghredu, ond ddoe diweddaf yn y byd pan oeddwn yn dyfod adref o'r Gwaith, beth welwn ond Susi yn golchi

careg y drws, a Kit y forwyn yn edrych arni gyda dwylaw sychion! Wrth gwrs, y mae peth fel hyn yn *ridiculous*, ond y mae yn mynu cael gwneud y pethau y dylai y forwyn eu gwneud—yn wir, erbyn hyn, *sinecure* ydyw morwyn yn ein tŷ ni, syr. Raid i mi ddim dweyd wrthoch chwi, Mr. Simon, nad ydyw peth fel hyn yn gweddu i'w sefyllfa, ond yr wyf wedi myn'd i'r drafferth o'i ddweyd rhag ofn y digwydd i chwi dd'od yma ryw ddiwrnod a chael *shock* i'ch *nerves* wrth weled fy merch â ffedog frâs o'i blaen yn glanhau esgidiau, a'r forwyn yn eistedd wrth y tân yn darllen nofel. Ac wrth sôn am ddarllen, y mae yr un cyfnewidiad wedi d'od dros ei meddwl yn hyn hefyd, yr hyn sydd wedi fforddio cysur mawr i mi ac i'w mam. Welir byth mo honi yn awr yn gafael mewn llyfr gwagsaw. Ei hoff lyfr, wrth gwrs, ydyw y Beibl, a chwi synwch pan ddywedaf i mi ei dal y nos o'r blaen dros ei phen a'i chlustiau yn *Nghyfatebiaeth Butler*, ond dyna'r ffaith, syr, ac, os nad wyf yn camgymeryd, y mae wedi benthyca amryw gyfrolau o'r *Traethodydd* gan fy nghyfaill yma, onid ydyw, Mr. Huws? (Rhoddodd Enoc nòd gadarnhaol.) Ac, os nad ydwyf yn eich blino, cyfnewidiad arall y dylwn gyfeirio ato ydyw ei ffyddlondeb yn moddion gras. Yr ydych wedi sylwi eich hun, Mr. Simon, nad oes neb yn fwy ffyddlon yn y capel, mi gredaf. Mewn gair, yr wyf yn credu fod fy merch wedi cael cyfnewidiad calon a chyflwr, a chwi faddeuwch i mi, Mr. Simon, am siarad cymaint yn ei chylch. Mae genyf ddau reswm am wneud hyny: y cyntaf ydyw am fy mod yn ystyried ei bod yn fantais i chwi, fel ein gweinidog, feddu yr adnabyddiaeth lwyraf sydd yn bosibl o wir stâd meddwl a chalon pob aelod o'ch eglwys, fel y galloch iawn gyfranu iddynt air y gwirionedd. A'r rheswm arall ydyw—fel cysur a chymhelliad i chwi—os byth y deuwch yn ben teulu—i ddwyn eich plant i fynu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd—yr hyn, yr wyf yn sicr, a wnewch. Ac er, hwyrach, na welwch ffrwyth eich llafur yn uniongyrchol, eto, mor sicr a'ch bod yn fore wedi hau eich hâd, fe ddwg ffrwyth ar ei ganfed, yn ei amser da Ef ei hun. Mae genyf ofn fy mod wedi siarad gor—— "

Ar hyn dychwelodd Miss Trefor, ac ebe hi—

"Mr. Huws, mae mam yn crefu arnoch i beidio myn'd i ffwrdd cyn d'od i edrach am dani."

"Mi ddof y munyd yma," ebe Enoc, ac ymaith âg ef.

"Mae'n rhyfedd," ebe'r Capten, "y ffansi y mae Mrs. Trefor wedi ei gymeryd at Mr. Huws. Bydasai yn fab iddi nid wyf yn meddwl y gallasai ei hoffi yn fwy; ac eto, erbyn ystyried, nid ydyw mor ryfedd, oblegid ni chyfarfyddais â dyn erioed hawddach i'w hoffi, ac y mae Mrs. Trefor ac yntau cweit o'r un teip o feddwl—maent yn naturiol grefyddol, a'u myfyrdodau yn rhedeg ar yr un llinellau. Mi fyddaf yn meddwl nad ydio gamp yn y byd i rai pobl fyw yn grefyddol, ac 'rwyf yn meddwl fod fy ngwraig a Mr. Huws—beth, Mr. Denman, ydych chwi yn hwylio myn'd gartre? Wel, yr wyf yn deall eich brys—eisiau cael dweyd y newydd da i Mrs. Denman, onide? Wna i mo'ch rhwystro—nos dawch, nos dawch.—Dyn clen iawn ydyw Mr. Denman, Mr. Simon, ac yr ydych yn siwr o ffeindio fy mod yn dweyd y gwir am dano. Ond deydwch i mi, ydach chwi ddim yn cael y cwrw yma yn galed o'i hwyl? Mae o'n dechreu myn'd, mae arnaf ofn. Cael gormod o lonydd y mae trwy nad oes neb yn ei yfed. Peidiwch ag yfed chwaneg o hono—*change is no roguery*—mae gen i dipyn o *Scotch whiskey*, yr hwn sydd yma er's gwn i pryd, gan mai anaml y byddaf yn edrych arno, ac os ydio cystal ag oedd o fis yn ol yr ydych yn sicr o'i leicio. Esgusodwch fi tra byddaf yn nol tipyn o ddŵr glân, achos bydawn i yn canu'r gloch ar y forwyn, fe ddealle'r titots yn y llofft ein bod yn galw am chwaneg o gwrw neu yn newid ein diod.

"Yrwan, syr, yr wyf yn meddwl y leiciwch hwn,—*say when.* 'Run fath y finau yn union,—mae gormod o ddŵr yn andwyo *whiskey.* Llwyddiant i'r achos dirwestol. 'Naiff o'r tro, Mr. Simon?"

"*Prime, prime,*" ebe Mr. Simon.

"Mi wyddwn," ebe'r Capten, "y buasech yn ei leicio, a phaham a rhaid i ddyn amddifadu ei hun o bethau da y bywyd hwn? 'Does na rheswm na 'Sgrythyr yn gofyn iddo wneud hyny, *provided* ein bod yn cymeryd pobpeth gyda diolchgarwch. Ond y mae'n rhaid i mi ddweyd hyn, na fedraf fwynhau glasied o *whiskey* yn mhresenoldeb fy merch, am y rheswm ei bod yn ddiweddar yn rhagfarnllyd ofnadwy yn ei erbyn—yn mha le y cafodd ei *notions* dirwestol nis gwn."

"Hwyrach," ebe Mr. Simon, "mai gan Mr. Huws, oblegid er ei fod yn ddyn da yn ddiamheuol, mae o yn ymddangos i mi dipyn yn *ancient* yn ei ffordd. Ac y mae'n resyn o beth fod yn

mysg ein dynion goreu wmbreth o *cant* a chuldra meddwl, ac y mae hyn i'w briodoli o bosibl i ddiffyg addysg ac ymgydnabyddiaeth â'r byd gwareiddiedig."

"Mi welaf," ebe'r Capten, "eich bod yr hyn yr oeddwn wedi tybio eich bod, sef yn ddyn sydd wedi sylwi ar fywyd a chymeriadau; ac, fel yr oeddych yn dweyd, mae yn resyn pan aiff Cymro dipyn yn grefyddol, ei fod yr un pryd yn myn'd yn gul ei syniadau, ac yr wyf yn siwr mai i hyn y gellir priodoli gelyniaeth anghymodlawn fy merch at bob math o wirod, oblegid y *mae* hi yn grefyddol, ac yr wyf yn ddiolchgar am hyny. Yn awr, syr, goddefwch i mi ddweyd fod yn dda genyf gyfarfod â dyn eang ei syniadau, ac y bydd yn dda genyf gael eich cwmni yn aml, pan na fydd hyny yn tolli ar eich myfyrgell a'ch llafur ar gyfer y weinidogaeth. Mewn lle fel Bethel, mae yn amheuthyn cael cwmni gŵr o gyffelyb syniadau a mi fy hun. Hwyrach y synwch pan ddwedaf na fu ond ychydig gymdeithas rhyngof â'ch rhagflaenydd, Mr. Rhys Lewis. Fel y clywsoch, yn ddiamheu, yr oedd Mr. Lewis yn ŵr rhagorol, yn bregethwr da, sylweddol, ac yn hynod o dduwiol. Ond yr oedd yn gul ei syniadau ar rai pethau,—nid oedd wedi troi llawer yn y byd, ac er fy mod yn ei edmygu fel pregethwr, ac yn ei barchu fel bugail a gwas yr Arglwydd, nid oeddwn, rywfodd, yn gallu bod yn rhydd a chartrefol yn ei gwmni. A synwn i ddim nad oedd yntau yn teimlo yn gyffelyb ataf finau, —yn wir, y mae genyf le i gredu y byddai yn edrych arnaf braidd yn amheus, ac yn ofni, hwyrach, nad oedd gwreiddyn y mater genyf; a'r oll yn tarddu oddiar ein dull gwahanol o feddwl ac o edrych ar bethau. Yr oedd ef, syr, wedi troi mewn cylch bychan, a minau mewn cylch mawr."

"Hyny, yn ddiau," ebe Mr. Simon, "oedd yn rhoi cyfrif am y peth, ac, fel y dywedais o'r blaen, mae'n resyn o beth fod rhai o'n dynion goreu yn gul. Ond, beth bynag arall ydwyf, nid ydwyf yn gul, *thanks* i fy adnabyddiaeth o'r byd; ac er fy mod yn mwynhau eich cwmpeini yn fawr, ac yn gobeithio y caf lawer o hono, mae'n hen bryd i mi droi gartref wedi i mi ddiolch i chwi am eich *hospitality*."

"Peidiwch a sôn am *hospitality*," ebe'r Capten, "mi wyddoch yn awr lle 'rydw i'n byw, a bydd yn dda genyf eich gweled yn fuan eto. Buaswn yn galw fy merch i lawr, ond chwi esgus-

odwch ni heno, a'r tro nesaf y dewch yma, mi obeithiaf y bydd Mrs. Trefor yn ddigon iach i'ch croesawu."

"Mae'n ddrwg iawn genyf am ei hafiechyd, a chofiwch fi ati. Ac yrwan, nos dawch, Capten Trefor," ebe Mr. Simon with adael y tŷ.

"Nos dawch," ebe'r Capten, ac wedi cau y drws, ychwanegodd rhyngddo âg ef ei hun,—"Nos dawch, ŵr da. Yr ydych chwi, syr, yr wyf yn meddwl, yn hen *stager*, neu ni cherddech chwi adref lawn can sythed ag y daethoch yma. Ond hwyrach mai da i chwi, Mr. S., lawer tro fel ag y bu yn dda i minau, nad oedd post y gwely yn mhell. A dyna ydyw'r *beauty*—nid yn y peth ei hun y mae'r drwg, ond yn nghael ein dal. Hym! Gwell i mi yrwan glirio olion y gyfeddach, oblegid yr hyn na wêl y llygad ni ofidia'r galon. Bydae hyny o ryw ddyben, achos y mae Susi yn *bound* o wybod fod y botel wedi ei hanrhydeddu. Mae ganddi ffroen fel *retriever*. Ond siwr ddyn, nad ydwyf yn feistr yn fy nhŷ fy hun. Ac yrwan, wedi i mi gymeryd llond gwniadur o ffarwel, ni awn i fynu. Yn wir, hwyrach y deudiff yr hen wraig—a hithau mor sâl—fy mod yn ddifater yn ei chylch, gan na fum i fynu er rhywbryd yn y prydnawn. Ond ni all dyn fod yn mhob man—'dall o ddim *nyrstendio* ac *entertainio* cyfeillion yr un pryd. Yrwan, ni awn i edrych sut mae pethau yn sefyll," a cherddodd y Capten i'r llofft heb afael yn y *banister*. Rhoddai hyny, bob amser, dawelwch cydwybod i'r Capten, os gallai fyn'd i fynu'r grisiau heb help y *banister*.

## PENNOD XXXIV.

### YSTAFELL Y CLAF.

Mor wahanol, yn fynych, ydyw arweddion bywyd, yr un amser, ac hyd yn nod yn yr un tŷ. Tra mae rhywrai, hwyrach, mewn un ystafell yn mwynhau digrifwch a hapusrwydd, yn yr ystafell nesaf, heb ddim ond lled bricsen rhyngddynt, y mae rhywun arall â'r galon yn brudd. a meddyliau am y dyfodol yn gwasgu ar ei enaid. Ac felly, yr oedd yn Nhy'nyrardd y noswaith y buwyd yn sôn am dani yn y bennod ddiweddaf. Dilynodd Enoc Miss Trefor i fynu'r grisiau. Cyn agor drws ystafell ei mam, dywedodd Miss Trefor yn ddystaw :—

"Mae fy mam, Mr. Huws, yn salach o lawer nag yr oeddwn yn meddwl ei bod. Ddaru mi ddim meddwl fod dim mwy arni na thipyn o *bilious attack*. Mae wedi bod yn cysgu er's oriau, ac yr oeddwn yn credu y buasai wedi d'od ati ei hun pan ddeffroe. Ond y mae hi yn wael iawn, a dydw i ddim, rywfodd, yn leicio'i golwg hi."

"Ai ni fyddai'n well gofyn i Mr. Simon dd'od i'w golwg? Hwyrach y gallai ei chysuro, ac hwyrach y carai eich mam iddo weddïo gyda hi," ebe Enoc.

"Na," ebe Susi, "'does gen i ddim ffydd mewn gweddi dyn âg arogl cwrw arni," ac agorodd ddrws yr ystafell.

"Ai gwael iawn ydach chi, Mrs. Trefor?" gofynai Enoc.

"Ië, Mr. Huws, ond y selni olaf ydio," ebe Mrs. Trefor.

"Dyn anwyl, peidiwch a siarad fel yna; mi'ch gwelais chi yn llawer salach ac yn mendio, Mrs. Trefor," ebe Enoc.

"Naddo Mr. Huws, naddo. 'Rydw i'n teimlo'n rhyfedd—fum i 'rioed yn teimlo 'run fath, a fedra i mo'i ddeyd o. 'Roedd Susi yn meddwl y mod i'n cysgu er's oriau, ond 'doeddwn i ddim, achos 'roeddwn i'n i chlywed hi'n d'od i'r *room* bob tro, ac yn y'ch clywed chithe i lawr yn siarad, yn enwedig Richard. A 'doeddwn ddim yn effro chwaith. 'Roeddwn i'n meddwl y mod i ar ryw afon braf, lydan,—nid mewn cwch. 'Doedd gen i ddim byd i ual i, ac eto 'roedd rhwfun neu rwbeth yn y nal i

rhag i mi suddo. 'Roedd yr afon yn myn'd yn gyflym, a neb ond y fi arni. 'Roeddwn i'n gwel'd fod y tir o bobtu'r afon yn symud yr un ffordd ond nid mor gyflym a'r afon. 'Roeddwn i'n pasio llawer o bobol a'r lànau'r afon—rhai oeddwn i'n 'nabod, ond y rhan fwyaf yn ddiarth i mi. A dyna oeddwn i'n synu ato—'doeddwn i ddim yn colli golwg ar y rhai oeddwn i'n nabod, ond 'u bod nhw'n myn'd yn mhellach oddiwrtha i, ond 'roeddwn i'n colli'r rhai diarth o hyd, a rhai newydd yn d'od yn 'u lle nhw. A 'rydw i'n teimlo 'rwan, er y mod yn reit effro, fel bydawn ar yr afon,—rhw deimlad fel bydawn i'n myn'd o hyd, a rydw i'n meddwl, Mr. Huws, mai angau ydio."

"Dim o'r fath beth, Mrs. Trefor," ebe Enoc, yn gysurol, "dydio ddim ond tipyn o wendid. Dydi angau ddim yn beth mor hyfryd, mae arnaf ofn, a'r teimlad yr ydach chi yn ei ddysgrifio, Mrs. Trefor."

"Sut y gwyddoch chi, Mr. Huws? achos fedr neb adael ei brofiad ar ol i ddweyd beth ydi angau fel ag i'r byw ei 'nabod. Mae'n rhaid fod y teimlad yn newydd i bawb erbyn y daw ato, ac hwyrach ei fod yn hollol wahanol i'r peth y daru ni feddwl ei fod," ebe Mrs. Trefor.

"Yr ydach chi *quite* yn *philosopher*, mam. Chlywes i 'rioed monoch chi'n siarad mor dwt. Dydach chi ddim i farw'n siwr i chi," ebe Miss Trefor.

"Mi glywes dy nain yn deyd," ebe Mrs. Trefor, "y bydde rhai pobol fydde dipyn yn ddwl yn ystod 'u hoes yn sharpio'n anwêdd cyn marw, ac hwyrach y mod ine felly. Mae ene rwbeth yn deyd wrtha i na choda i ddim o'r gwely 'ma eto. 'Does ene ddim rhw air yn deyd, Mr. Huws, am rwfun yn cael ei gymeryd ymaith o flaen drygfyd?"

"Oes," ebe Enoc, "fe ddwedir fod y cyfiawn yn cael ei gymeryd ymaith o flaen drygfyd. Ond nid oes drygfyd yn debyg o ddigwydd i chwi, Mrs. Trefor. Yr ydach chi'n gryno efo'ch gilydd fel teulu,—mae Rhagluniaeth wedi bod yn dda wrth Capten Trefor,—nid oes genych le i bryderu am eich amgylchiadau, gan nad beth a ddaw o'r gymydogaeth hon, ac nid oes genych le i amheu daioni Duw yn y dyfodol."

"'Dydan ni ddim wedi byw fel y dylasen ni, Mr. Huws," ebe Mrs. Trefor, "a mae gen i eisio cael deud rhwbeth wrthoch. Mi wn y'ch bod chi yn ddyn da a chrefyddol. Ac am yr

amgylchiadau, wel, fe ddaw amgylchiadau pawb i'r golwg yn hwyr neu hwyrach. Mae o wedi costio llawer o boen a gofid i mi'n ddiweddar wrth feddwl i mi fod am flynydde yn rhoi rhw bris mawr ar y peth y mae nhw'n alw'n yn *respectability*—rhw feddwl y'n bod ni'n well na phobol erill. Ond 'rydw i'n credu, Mr. Huws, fod Duw wedi madde i mi'r ffolineb, a fedra i byth ddiolch digon fod Susi wedi cael gras i ddiystyru y lol ddaru mi ddysgu iddi. O diar! O diar! mae gen i gwilydd na wn i ddim be i neud wrth feddwl mor wirion fum i. Wyddoch chi be, mae gen i ofn y mod i un amser yn meddwl cymin am fod yn *respectable* fel bydase y Gwaredwr Mawr yn d'od i'r byd fel y bu O o'r blaen, y buaswn i'n rhy *respectable* i onio mod i'n perthyn iddo. Oes wir. Ond mi gefes drugaredd, rydw i'n meddwl. A Susi, yr eneth 'roeddwn i wedi pwnio 'run syniade i'w phen hi, fu'n offeryn i nwyn i wel'd fy ffolineb. Mor fychin ydi'n pethau ni wrth edrach arnyn nhw o ymyl angau."

"Bychain yden ni ein hunain, bawb o honom, Mrs. Trefor," ebe Enoc, "a mi fyddaf yn meddwl fod Duw yn edrach gyda thosturi maddeugar arnom pan fyddwn yn rhoi pris mor fawr ar bethe mor fychin. Mae Ef yn cofio mai llwch yden ni."

"Ië, ïe, Mr. Huws, ond llwch aur a gostiodd waed y Meichiau mawr rhag iddo fyn'd ar goll. Pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid? Weles i 'rioed gymain o werth bod yn gadwedig ag ydw i'n wel'd heddyw, a rydw i'n synu y mod i wedi meddwl can lleied am hyn, a rhoi cymain o bris ar bethe darfodedig, a Duw yn ei Air wedi deyd mor blaen."

"Nid ydi hyny," ebe Enoc, "ond profi mai pechaduriaid yden ni. Pe basen ni wedi gneud pobpeth a ddylasen eu gneud, angylion fasen ni, ac nid pechaduriaid. Ac mae cael golwg glir ar ein colliade yn dangos mai pechaduriaid wedi ein hargyhoeddi yden ni, a mae bod yn feddianol ar awydd gwirioneddol am fod yn lân yn profi mai pechaduriaid wedi'n hachub yden ni. Nid ydi'r awydd hwn yn codi o'n natur lygredig ni'n hunen—nid ydyw'n cael ei roi ynom gan y byd na chan y diafol, ac felly mae'n rhaid mai oddiwrth Dduw y mae'n d'od. A pha mor chwerw bynag fyddo'r oruchwyliaeth a'n dygo i'r stad hon o feddwl a theimlo, ni a ddylem fod yn ddiolchgar am dani. Os bydd llwyddiant bydol ac iechyd

X = every one knows where the shoe pinches, every one knows his own troubles



yn peri i ni annghofio Duw a byd arall, ni a ddylem weddio am dlodi ac afiechyd. Ond 'rwyf yn y'ch nabod chi, Mrs. Trefor, er's rhai blynydde bellach, ac yn y'ch holl lwyddiant bydol a'ch cysuron yr oedd pethau crefydd yn uchaf yn y'ch meddwl, a 'rwyf lawer tro wedi bod yn cenfigenu at y'ch ysbryd."

"Pawb ŵyr gwlwm 'i gwd, X Mr. Huws, bach," ebe Mrs. Trefor. Wyddoch chi ddim byd am y mhechod i. Ond 'rwyf yn meddwl y medra i ddeyd hyn yn onest—na wn i ddim am adeg yn ystod yr ugen mlynedd diwedda nad oedd gen i ryw gymaint o gariad at Grist a'i achos. Ond mi adewes i'm meddwl ramblo, a mi ymserches mewn pethe y bydde'n gwilydd gen i henwi nhw i chi. Ond er's tro, yrwan, 'rydw i wedi ffarwelio â nhw, ac yn meddwl y leiciwn i gael myn'd o'r hen fyd 'ma, a chael myn'd i wlad heb ddim trwbleth, ac y medrwn i fod yn gyfforddus a hapus mewn lle nad oes dim pechod o'i fewn, na dim balchder—dim ond cariad at Grist. Hwyrach y mod i'n twyllo fy hun, ond mi fydda'n meddwl fel ene y dyddie yma."

"A be sydd i ddwad o honom *ni*, mam?" ebe Susi. "Nid dyna y ffurf ucha ar grefydd, yn ol y meddwl i."

"Wel," ebe Mrs. Trefor, "be ydi'r ffurf ucha ar grefydd yn ol dy feddwl di, Susi? Rwyt ti wedi cael rhw ole rhyfedd yn ddiweddar."

"Dydw i ddim yn credu," atebai Susi, "mai snecio i'r nefoedd, a gadael i bawb arall gymeryd 'u siawns ydi'r ffurf ucha ar grefydd, os ydw i'n dallt be ydi crefydd."

"Wel, be ydi crefydd, y ngeneth i, fel rwyt *ti* yn 'i dallt hi? Mae perygl i ni gamgymeryd, a mi wn dy fod di wedi cael gole mawr yn ddiweddar ar bethe crefydd," ebe Mrs. Trefor.

"Naddo, mam," ebe Susi, "ches i ddim mwy o ole na phobol eraill, ond y mod i, hyd yn ddiweddar, wedi cau fy llygaid rhag ei wel'd. Fel y gwyddoch, mam, myfi fy hun oedd fy mhobpeth ar hyd y blynydde—arnaf fi fy hun yr oedd fy holl feddwl—byw i *entertainio* fy hun yr oeddwn ac yn methu. A'r peth yr ydach chi, mam, yn 'i alw yn 'ole'—oedd *nad peth felly oedd crefydd*, ond rhywbeth hollol wahanol—rhywbeth a barai i mi anghofio fy hun yn hollol. Ac yr wyf yn fwy argyhoeddedig bob dydd mai *hunan* ydi damnedigaeth pawb, ac mai anghofio hunan ydi y daioni mwya'. 'Rwyf yn

ofni—hwyrach fy mod yn methu—fod gormod o hunan mewn pobol dduwiol. Maent beunydd a byth, yn seiat, yn dweyd eu bod yn ofni nad ydynt yn gadwedig—yn ofni na chant byth fyn'd i'r nefoedd; a chan gynted ag y teimlant yn symol parod i fyn'd yno maent ar frys am gael marw. Gwneud ein dyledswydd heb ofalu dim am y canlyniadau—yn ol fy meddwl i—ydi y ffurf ucha ar grefydd. Beth a fyni di i mi ei wneuthur? a ddylai fod ein hymofyniad bob dydd, heb bryderu dim am ein cadwedigaeth na'n colledigaeth—Duw fydd yn penderfynu hyny, ac nid y ni. Mae gen i ofn ein bod yn rhy dueddol i feddwl mwy am ein cadwedigaeth—am fod yn sâff yn y diwedd—nag am wneud ein dyledswydd. Ai nid hunan wedi cymeryd gwisg crefydd ydi peth fel yna? Dydw i ddim yn *right*, Mr. Huws?"

"Yr ydach chi bob amser yn *right*, Miss Trefor," ebe Enoc.

"Na, nid bob amser, Mr. Huws," ebe Susi, "ond 'dallai i lai na meddwl fy mod yn *right* ar hyn yna. Yn wir, fe ddaru chi'ch hunan wneud yr un sylw, mewn ffordd arall, wrth Mr. Simon. Ac fe trawodd fi pan oeddach chi'n gneud y sylw—ai nid llafur enaid Iesu Grist oedd ei hunanymwadiad er mwyn eraill, ac ai nid dedwyddwch penaf Iesu Grist ei hun yn awr ydyw ei hunanymwadiad a'i ganlyniadau? 'Rwyf wedi darllen yn rhai o'r llyfrau ges i fenthyg gynoch chi, Mr. Huws, y buase Duw yn dragwyddol ddedwydd ynddo ef ei hun pe na buasai wedi creu un creadur. Tybed y mod i'n pechu wrth ddweyd y mod i'n amheu hyny? Ydio'n rhyfyg yno i ddweyd fod hyd yn nod Duw wedi blino arno'i hun, ac mai dyna oedd y rheswm iddo greu?"

"Mae arnaf ofn nad ydach chi ddim yn iawn gyda hynyna, Miss Trefor, ac eto mae rhywbeth yn y peth ydach chi'n ddweyd," ebe Enoc.

"Rhaid i chi gofio, Mr. Huws," ebe Susi, "mai newydd ddechreu *meddwl* yr ydw i—newydd ddechreu pondro yn nghylch pethe. Ond a fedrwch chi ddweyd wrtho i be wnaeth i Dduw greu o gwbl, os oedd o'n berffaith ddedwydd ynddo ef ei hun?"

"Na fedraf," ebe Enoc. "Mae eich cwestiwn yn awgrymu fod rhyw deimlad o ddiffyg yn y Bod Mawr cyn iddo greu. Ond y mae'n rhaid i ni gofio fod yn Nuw bob perffeithrwydd,

ac ni wiw i ni gymharu ein hymwybyddiaeth ni âg ymwybyddiaeth y Perffaith."

"Yna fe ddaru i'r Perffaith greu yn amherffaith er mwyn—be?" gofynai Susi.

"Er ei fwyn ei hun, medd y Beibl," ebe Enoc.

Ar hyn torwyd ar yr ymddyddan gan ymddangosiad Capten Trefor, yr hwn a ddwedodd—

"Wel, be sy'n myn'd yn mlaen? Tipyn o seiat mi wranta? Sut mae hi arnoch chwi erbyn hyn, Sarah?"

"Pur gwla, Richard, ac oni bae mod i'n gwbod fod gynoch chi gwmpeini, mi faswn yn meddwl y'ch bod chi'n o ddifeind o hona i," ebe Mrs. Trefor.

"Dyna'r unig reswm, Sarah, ni buasai yn weddus i mi adael Mr. Simon, er bod fy meddwl i gyda chwi yn barhaus, a nghalon i yn llosgi eisiau cael d'od i ddweyd y newydd da i chwi, yr hwn a glywsoch er's meityn, mi wn, gan Susi neu Mr. Huws," ebe'r Capten.

"Na, ddaru ni sôn dim, dada, wrth' y mam," ebe Susi.

"'Does bosib!" ebe'r Capten, "eich bod heb ddweyd wrth eich mam am yr hyn sydd wedi ein llenwi â llawenydd a gorfoledd heno?"

"Beth ydio, Richard? Oes ene ddiwygiad wedi tori allan?" gofynai Mrs. Trefor.

"Na," ebe'r Capten, "nid newydd o'r natur yna sydd genym heno; er, mae'n rhaid i mi gyfaddef, fod llwyr angen am ddiwygiad, ac ar neb yn fwy nag arnaf fi fy hun, ac, os nad ydwyf yn twyllo fy hun, fe fuasai yn fwy peth yn fy ngolwg, ac yn fforddio mwy o lawenydd i mi, glywed am ymweliad grymus mewn ystyr grefyddol, na'r llawenydd a gynyrchwyd yn fy nghalon gan y newydd da a swniodd ar ein clyboedd ychydig oriau yn ol, oblegid mae'n rhaid i ni, os bydd ystad y galon a'r ysbryd yn eu lle, roddi y flaenoriaeth i bethau ysbrydol a chrefyddol, gan nad beth, mewn ffordd o siarad, ydyw ——."

"Mae Sem Llwyd, mam, yn deyd ei fod wedi taro ar y faen yn Nghoed Madog—dene'r newydd," ebe Susi.

Edrychodd y Capten yn geryddol ar ei ferch, ond cyn iddo ddweyd dim yn gâs, cofiodd fod Enoc yn bresenol, a lliniarodd ei olwg, ac ychwanegodd Susi,—

"Mae hi yn dechreu myn'd yn hwyr, dada."

"*Quite right*," ebe'r Capten. "Dyna fo, Sarah, mae Susi wedi dweyd y newydd da i chwi mewn un gair."

Yr oedd Mrs. Trefor wedi clywed gynifer o weithiau yn ystod ei hoes am "daro ar y faen," fel na ddarfu i'r newydd effeithio rhyw lawer arni, a'r unig beth a ddywedodd oedd, "Ho!"

Cododd Enoc i ffarwelio â Mrs. Trefor, ac i fyned adref. Aeth Miss Trefor i "ddangos Enoc allan," gan adael ei thad i ymeangu ar y newydd da i'w mam. Ond nid dyna oedd y peth pwysicaf gymerodd le y noson hono.

---

## PENNOD XXXV.

### DATGUDDIAD.

RHWNG rhoi ei het am ei ben, rhoi ei gôt uchaf am dano, a chwilio am ei ffòn—gan nad pa mor hwyr ar y nos a fydd hi—gall dyn siarad cryn lawer a dweyd cryn dipyn o'i feddwl, os bydd hyny ar ei galon. Ac yr oedd Enoc Huws y noson hono y buom yn sôn am dani wedi ymddiofrydu y dwedai rywbeth o'i feddwl wrth Miss Trefor, hyd yn nod pe buasai farw yn yr ymdrech. Yn wir, yr oedd hyn yn pwyso cymaint ar ei feddwl fel na ddarfu i "newydd da Sem Llwyd" leihau dim ar ei ddwysder. Ebe fe—.

"Nid wyf yn meddwl, Miss Trefor, fod llawer o sail i'ch ofnau am eich mam. Mae hi'n siarad yn bert ryfeddol."

"Gobeithio nad oes, Mr. Huws," ebe Susi, "ond y mae gen' i *presentiment* càs na fydd fy mam fyw yn hir. Fedr hi ddim dyoddef profedigaethau na dal dim gwynt croes. Fel y gwyddoch, y mae hi wedi cael bywyd esmwyth, ac wedi arfer cael digon o bobpeth, ac y mae ychydig o adfyd yn ei tharo i lawr. Mae'n ddiamheu eich bod wedi sylwi, Mr. Huws, fod rhai pobol, yn enwedig merched, yn disgwyl i fywyd fod yn dywydd têg o hyd, ac, fel y wenoliaid, pan welant y gauaf yn neshau, maent yn dechreu taclu eu hedyn i fyn'd i ryw wlad gynhesach.

Un o'r rheiny ydi fy mam, fel y gwelsoch heno. Pan mae'r byd heb fod wrth ei bodd, y mae yn gollwng ei gafael o hono fel pe bae yn haiarn poeth, ac y mae yn hiraethu, mi wn, yrwan, am gael myn'd i'r nefoedd, a 'rydw i'n meddwl y caiff hi fyn'd yno ryw ddydd, oblegid mi wn ei bod yn caru Iesu Grist. Ond yr ydw i'n meddwl y mod i fy hun wedi dysgu cymin a hyn, yn ddiweddar, beth bynag, sef na ddysges i ddim nes i mi ddysgu dyodde', a dyodde'n ddistaw."

"Ddaru mi 'rioed wybod, Miss Trefor," ebe Enoc, "eich bod wedi dyoddef dim—'roeddwn bob amser yn meddwl eich bod yn berffaith iach."

"Ac felly 'rydw i," ebe Miss Trefor. "Ond yr ydach chi'n cofio dwediad Gurnal? Mi wn inau rywbeth am ddyoddefiadau enaid. 'Rwyf wedi dyodde tipyn o'ch hachos chi, Mr. Huws."

"O'm hachos i, Miss Trefor?" ebe Enoc mewn syndod, a daeth mil o feddyliau i'w galon.

"Ië," ebe hi. "Mi wn eich bod yn gwario llawer o arian yn barhaus ar Waith Coed Madog, ac mai nhad sydd yn eich perswadio i neud hyny. Ac er i chi fod yn gyfocthog, mae'n hawdd iawn i chi, mewn amser, wario y cwbl sy' gynoch chi ar waith *mine* ac heb gael dim yn ol, fel y daru Hugh Bryan, druan, neud, ac fel y mae Mr. Denman agos a gneud. A fedra i ddim bod yn dawel, Mr. Huws, heb eich rhoi chi ar eich gwyliadwriaeth. Peth ofnadwy ydyw i ddyn, ar ol iddo weithio'n galed a hel tipyn o'i gwmpas, ac enill safle barchus yn mhlith ei gym'dogion, ac wedy'n, yn y diwedd, golli'r cwbwl a myn'd yn dlawd. 'Rwyf yn nabod rhai felly, a 'rydach chithe, Mr. Huws, yn eu nabod nhw."

"Mae arnaf ofn, Miss Trefor," ebe Enoc, "eich bod mewn tymher brudd heno, a'ch bod wedi anghofio y newydd a gawsom gan Sem Llwyd."

"Na," ebe Susi, "dydw i ddim wedi anghofio newydd Sem Llwyd; ac os ydio'n wir, 'rwyf yn llawenhau er mwyn y nhad a chwithe a Mr. Denman. Ond peidiwch rhoi llawer o bwys arno—'rwyf wedi clywed llawer o newyddion tebyg a dim byd yn d'od o honynt. Cymerwch ofal, Mr. Huws. Goddefwch i mi ofyn i chi faint ydach chi wedi wario'n barod ar Goed Madog, os gwyddoch chi?"

"O, rhwbeth fel tri chant o bunau, 'rwyf yn meddwl," ebe Enoc.

"Gwarchod pawb! 'roeddwn yn ofni hyny," ebe Miss Trefor.

"Ond dydw i ddim ond un o dri, Miss Trefor," ebe Enoc.

"Ië," ebe hi, "yr un o'r tri sydd yn morol am yr arian—y chi, Mr. Huws, ydi'r banc."

"Nid wyf yn dallt y'ch meddwl, Miss Trefor," ebe Enoc.

"Fy meddwl ydi hyn, Mr. Huws," ebe hi, "ac mae'n rhaid i mi gael ei ddweyd—fedra i ddim bod yn dawel 'y nghydwybod heb ei ddweyd—mai chi sydd yn ffeindio'r arian ac ma nhad sydd yn 'u gwario nhw, achos 'does gan 'y nhad yr un bunt o'i eiddo 'i hun i'w gwario."

"'Rydach chi'n smalio, Miss Trefor," ebe Enoc.

"Fu'm i 'rioed yn fwy difrifol, Mr. Huws," ebe Susi. "Yr oeddwn yn ofni o hyd eich bod yn credu ein bod yn gyfoethog, ond y gwir ydyw y'n bod yn dlawd—ac yn dlawd iawn, a dyna, mi wn, sydd yn lladd 'y mam. Yr yden ni am flynydde wedi byw mewn llawnder a moethau, ond er pan stopiodd Pwllygwynt yr yden ni'n dlawd, ac erbyn hyn, mae gen' i ofn y'n bod ni'n byw ar eich arian chi, Mr. Huws. 'Does gen' i ddim *idea* faint mae Mr. Denman wedi 'i wario er pan gychwynodd Coed Madog, ond mi wn hyn—na wariodd y nhad ddim, achos 'doedd ganddo ddim i'w wario. Fedrwn i ddim bod yn dawel 'y nghydwybod heb gael dweyd y cwbwl i chi, Mr. Huws. A chyda golwg ar newydd da Sem Llwyd, 'does gen' i ond gobeithio ei fod yn wir er eich mwyn chi. Ond dydw i'n rhoi dim pwys ar yr hyn a ddywed Sem. Mae o wedi dweyd llawer o bethau tebyg o'r blaen, a'r cwbwl yn troi'n ddim yn y byd."

"Miss Trefor," ebe Enoc, wedi ei haner syfrdanu, "yr ydach chi'n *jokio*—dydach chi ddim yn meddwl deyd wrtha i nad ydi'ch tad yn dda arno?"

"Mae fy nghalon yn rhy brudd i *jokio*, Mr. Huws," ebe Miss Trefor, "nid yn unig nid yw fy nhad yn dda arno, ond y mae mewn dyled, ac os na ddaw gwawr o rywle, wela i, ar hyn o bryd, ddim gobaith iddo allu talu ei ddyled. Ond dydi'r ffaith ein bod ni ein hunain yn dlawd, ddim yn ddigon o reswm dros i ni wneud eraill yn dlawd. 'Rwyf agos yn sicr na fydd fy mam fyw yn hir,—fedr hi ddim dal tlodi. Be sydd o'm mlaen i, 'dwn i ddim; ond 'rwyf yn benderfynol na byddaf byw ar dwyll a rhagrith, deued a ddelo. Os troiff Coed Madog allan

yn dda, mi ddiolchaf i Dduw am hyny; ond os fel arall, wel, wn i ddim be ddaw o bonon ni. 'Rwyf yn gwybod o'r goreu eich bod wedi ymddiried y cwbwl i nhad, a dyma fine wedi deyd y cwbwl wrthoch chi, ac yr oeddwn wedi bwriadu ei ddeyd er's wythnosau, ond fy mod yn methu tori trwodd. Chi wyddoch 'rwan sut mae pethe'n sefyll, ond bydae nhad yn gwybod y mod i wedi deyd hyn wrthoch chi, fydde fychan ganddo fy mwrdro."

"'Rydach chi wedi fy synu, Miss Trefor, ac eto 'rwyf yn teimlo'n llawen," ebe Enoc, a'i wyneb yn eglur ddangos ei fod yn dweyd y gwir o'i galon.

"Yn llawen, Mr. Huws? Ydi clywed ein bod yn dlawd yn fforddio llawenydd i chi? Syr, dydach chi ddim y dyn ddaru mi feddwl y'ch bod," ebe Miss Trefor yn gynhyrfus.

"Hwyrach hyny," ebo Enoc, "ond mi obeithiaf y cewch fi yn well dyn nag y daru chi 'rioed synio am danaf. Fe allai ei fod yn ymddangos yn greulon ynof ddweyd, ond, mewn ystyr, mae yn dda iawn genyf ddeall eich bod yn dlawd, os ydach chi'n dlawd hefyd."

Ni atebodd Miss Trefor air, ond gydag ysgorn ddirmygus ar ei hwyneb, cyfeiriodd tua'r drws. Cyrhaeddodd Enoc y drws o'i blaen, a chan ei gau a gosod ei gefn arno, ebe fe,—

"Aroswch i mi esbonio fy hun."

"Nid oes angen i chi neud hyny," ebe Miss Trefor, "'rwyf yn gwel'd trwoch fel trwy ffenest. 'Roeddech chi, mi wn, yn credu bob amser ein bod yn weddol dda arnom,—'rydach chi'n cofio'n dda fel y bydde nhad yn y'ch patroneisio, ac fel y byddwn ine, yn fy ffolineb, yn y'ch cytio; 'ond,' meddwch 'rwan, 'mae'r byrdde wedi troi—mae nhyrn ine wedi dwad—mi wna iddyn nhw *sing small*.' Wel, mae hyny yn eitha naturiol—dydio ddim ond y peth yden ni'n haeddu am ein hymbygoliaeth,—ond y mae o'n *mean* ynoch, Mr. Huws—yn dro sâl mewn dyn fel chi. 'Roeddwn i wedi disgwyl am eich cydymdeimlad—a 'doeddwn i ddim chwaith—achos fy amcan—fy unig amcan—yn dweyd wrthoch am sefyllfa fy nhad oedd eich lles chi eich hun,—eich rhoi ar eich gwyliadwriaeth rhag i chi dd'od i'r un sefyllfa eich hunan. Bydaswn i yn hunanol, mi fuaswn yn y'ch gadel yn twllwch. Ond cymerwch eich *fling*. 'Rwyf yn meddwl fy mod yn ofni Duw, ond dydw i'n hidio 'run botwm am opiniwn nac ysgorn un dyn ar wyneb y ddaear. Gadewch i mi fyn'd, Mr. Huws, os gwelwch yn dda."

"Nid cyn y byddwch mewn gwell tymher," ebe Enoc. "Gyda'ch holl *insight*, ac er mor graâff ydach chi, 'rydach chi wedi cam——."

"Susi? Lle'r ydach chi, ngeneth i?" gwaeddai Capten Trefor wrth ddyfod i lawr y grisiau, ac ychwanegai, "Mae'ch mam eich eisieu, Susi."

Er fod rhegu yn beth hollol ddyeithr i Enoc, aeth rhywbeth tebyg i rêg trwy ei fynwes pan glywodd lais y Capten, a phan ysgubodd Susi heibio iddo heb gymaint a dweyd "nos dawch" wrtho.

"Holo, Mr. Huws," ebe'r Capten, "'roeddwn yn meddwl eich bod wedi myn'd adref er's meityn, ond pobl ifainc ydyw pobl ifainc o hyd. 'Rydw inau'n cofio'r amser, syr, ha! ha! ha! Aroswch, Mr. Huws, hidiwn i ddim byd a d'od i'ch danfon gartref, 'rwyf eisiau tipyn o *fresh air*."

Teimlai Enoc yn flin iawn ei ysbryd, fel y cymerai y Capten afael yn ei fraich gan ei arwain tua chartref. Gallasai sylwedydd craff ganfod fod gwir angen ar y Capten am gymhorth braich Enoc, canys nid oedd efe yn cerdded lawn mor hysaf ag arferol, ond efe ei hun fuasai yr olaf i gydnabod hyny, ac Enoc fuasai yr olaf o bawb i ganfod hyny, yn enwedig pan oedd ei feddwl yn mron yn hollol gyda Miss Trefor. Er hyny, yr oedd y Capten yn nghanol ei gôf, a'i feddwl can gliried a phe na phrofasai ddyferyn o chwisgi.

## PENNOD XXXVI.

### CAPTEN TREFOR.

WEDI i'r Capten ac Enoc gyrhaedd y ffordd fawr, ebe'r blaenaf—

"Yr wyf yn cofio, Mr. Huws, pan oeddwn dipyn ieuengach nag ydwyf yn awr, y byddwn yn cael difyrwch nid bychan wrth gerdded allan yn nhrymder y nos ar fy mhen fy hun, pan fyddai trwst y byd a masnach wedi distewi, a dim yn bod,

mewn ffordd o siarad, i aflonyddu ar fy myfyrdodau. I un o duedd fyfyrgar, fel fy hunan, mewn ffordd o siarad, nid oes dim yn fwy hyfryd i'r teimlad, nac, yn wir, yn fwy llesol i'r enaid, na thro wedi bo nos, pryd y gall dyn, mewn dull o ddweyd, ymddiosg oddiwrth bob gofalon a thrafferthion bydol ac ymollwng, megys, i gymundeb â natur fel y mae, yn ol fy syniad i, yn fwy *impressive* yn y nos,—nid oes gair Cymraeg yn cynyg ei hun i mi ar y foment—yn fwy *impressive*, meddaf. Hyny ydyw, mi fyddaf yn meddwl—hwyrach fy mod yn camgymeryd—ond yr wyf yn wastad yn agored i gael fy argyhoeddi—mi fyddaf yn meddwl, meddaf, fod yn hawddach, yn y nos, yn enwedig ar noson dawel fel heno, i'r ysbryd, megis yn ddiarwybod, ymlithro i fyfyrdod ar bethau ysbrydol a thragwyddol. Y ffaith ydyw, Mr. Huws, mae fy meddwl, fel y gwyddoch, wedi ei gymeryd i fynu mor llwyr, yn ddiweddar, gyda phethau daearol a darfodedig, fel yr wyf yn teimlo angen mewnol, a hwnw yn ddwfn, am ysbeidiant, pe na byddai ond haner awr, i ymollwng, fel y dwedais, i fyfyrdodau cwbl wahanol o ran eu natur, ac yn fwy felly, yn gymaint a fy mod, fel y gwyddoch, newydd dd'od oddiwrth glaf wely fy ngwraig, a fy mod, i ryw raddau, o leiaf, wedi fy nwyn yn deimladwy o wagedd pethau y byd a'r bywyd hwn, hyny ydyw, o'u cymharu â phethau tragywyddol. Ar adegau, Mr. Huws, mi fyddaf yn meddwl—oni bae fod yr hen fyd yma wedi bod mor greulon wrthyf, a chymeryd, yn mron, fy holl amser—er fod yn rhaid i rywrai fod gyda'r byd—mi fyddaf yn meddwl, meddaf, mai yn *philosopher* y bwriadwyd fi i fod. Oblegid, can gynted ag y caf ddeng munyd o hamdden oddiwrth orchwylion bydol, mae fy myfyrdodau yn rhedeg ar ol y pethau mawr—pethau yr enaid. Ond hwyrach fy mod yn camgymeryd."

"Yn ddiamheu," ebe Enoc, oblegid nid oedd yn gwrandaw ond ychydig, ac yn deall llai o'r hyn a ddwedai y Capten. Ac nid oedd y Capten heb ganfod fod meddwl Enoc yn rhywle arall, ac er mwyn ei ddwyn gartref, ebe fe—

"Beth ydyw eich syniad, erbyn hyn, Mr. Huws, am ein gweinidog—Mr. Simon?"

"Fy syniad yw ei fod yn gerddor gweddol," ebe Enoc.

"Ië, ond beth ydych yn ei feddwl o hono *fel gweinidog?*" gofynai y Capten.

"Wn i ddim a ydw i'n abl i roi barn," ebe Enoc. "Ac yn wir, dydio ddim yn waith hoff gen i farnu dynion, yn enwedig pregethwyr. Na ddywed yn ddrwg yn erbyn penaeth dy bobl. Mae rhyw air tebyg i nyna yn rhywle. Ond gan eich bod yn gofyn i mi, mi ddwedaf wrthoch chi—nid fy marn, ond fy nheimlad, *in confidence*, wrth gwrs, ac ni fynwn i chi wneud unrhyw ddefnydd o hono, oblegid ni fynwn er dim greu rhagfarn yn ei erbyn. Ond fy nheimlad, o'r dechreu, ydyw nad oes gan Mr. Simon ddim dylanwad ysbrydol arnaf—dim i ddyrchafu fy syniadau am bethau crefyddol—dim i gynhesu fy nghalon at Grist. 'Dydw i ddim yn teimlo fod ei bregethau, na'i anerchiadau yn y seiat, na'i ymddyddanion mewn cwmni, yn gwrthweithio dim ar y dylanwad sydd gan y byd a masnach i fferu teimladau dyn. A buase yn hawddach gen i fadde hyn iddo pe buasai yn goleuo rhyw gymaint ar fy neall, ond, yn wir, dydw i byth yn teimlo damaid gwell o'i herwydd. Mae rhyw syniad genyf y dylai gweinidog yr Efengyl ddiddyfnu tipyn ar ddyn oddiwrth y byd, a gwneud pethau crefydd a byd arall yn fwy dymunol yn ei olwg. Theimlais i erioed felly dan weinidogaeth ac yn nghwmni Mr. Simon. Ond yr wyf yn barod iawn i gydnabod y gall mai ynof fi fy hun y mae y diffyg."

"Mr. Huws," ebe'r Capten, "yr ydych yn fy argyhoeddi fwyfwy bob dydd eich bod wedi eich cynysgaeddu â thalent neillduol i adnabod cymeriadau, a hyny, megis ar darawiad. Wrth fynegu eich barn—neu fel y mynech chwi ei osod, eich teimlad—yr ydych wedi rhoi mynegiad i 'nheimlad inau hefyd, er, hwyrach, na allaswn ei ddangos mor gryno ac mewn can lleied o eiriau, oblegid yr ydych, mewn ffordd o siarad, wedi *photographio* cymeriad Mr. Simon fel y gallaf ei adnabod ar unwaith oddi wrth yr *original*."

"Nid wyf yn siwr am hyny," ebe Enoc, "na fy mod wedi gwneud chware têg â Mr. Simon, oblegid, a dweyd y gwir i chi, mae gen i ragfarn o'r dechreu yn ei erbyn. Ond gallaf ddweyd yn onest o waelod fy nghalon fy mod yn gobeithio fy mod yn meddwl yn rhy isel o hono, a'i fod yn llawer gwell ac amgenach dyn nag yr ydw i wedi arfer meddwl ei fod."

"Syr," ebe'r Capten, "ni ddaw rhagfarn o'r pridd mwy na chystudd—mae yn rhaid fod rhyw reswm am eich rhagfarn,—rhywbeth ddarfu ei achosi. Yr wyf yn credu—cewch fy

nghywiro os ydwyf yn camgymeryd—mai y rheswm am ragfarn, mewn dynion goleuedig, wrth gwrs, ydyw eu bod yn feddianol, er yn anymwybol, ar ryw ysbryd prophwydol sydd yn eu galluogi i ffurfio syniad cywir am alluoedd a chymeriad dyn cyn cael y cyfleusderau wrth ba rai y mae dynion cyffredin yn ffurfio eu barn. Nid yw y gallu hwn yn eiddo i bawb. Na, syr, mae arnaf ofn eich bod—gyda llawer o ledneisrwydd mi wnaf addef—wedi gosod allan, mewn byr eiriau, wir gymeriad Mr. Simon, ac, os ydwyf wedi cymeryd i mewn gyda graddau o gywirdeb wir ystyr eich geiriau, eich syniad—neu eich teimlad ydyw hyn—nad ydyw Mr. Simon—fel yr arferai yr hen Abel Huws a dweyd—coffa da am dano—nad ydyw Mr. Simon, meddaf, wedi profi y pethau mawr, neu, mewn geiriau eraill, ei fod yn fwy o ddyn y byd hwn na'r byd a ddaw."

"Dyna fy nheimlad, ond gobeithio fy mod yn methu," ebe Enoc.

"Mae arnaf ofn, syr," ebe'r Capten, "eich bod gyda hyn, fel gyda phobpeth arall, wedi taro'r hoel yn ei phen, ac yr wyf yn fwy argyhoeddig o hyn yn gymaint a bod Susi acw wedi awgrymu fwy nag unwaith syniadau cyffelyb. Yn wir, yr ydych fel pe byddech wedi bod yn cynal cyngor ar achos y gwr gan mor debyg ydyw eich syniadau."

"Ni chefais ddim ymddyddan gyda Miss Trefor, hyd yr wyf yn cofio, yn nghylch Mr. Simon," ebe Enoc.

"Nid ydyw hyny," ebe'r Capten, "ond profi eich bod yn dra thebyg o ran cyfansoddiad meddwl, a gallaf eich sicrhau, syr, nad un yw Susi i gadw ei llygad yn nghauad. Ond goddefwch i mi ofyn hyn—a oes genych le i gredu fod gan Mr. Simon eiddo? Mae ei ymddangosiad yn peri i mi feddwl fod ganddo rywbeth mwy wrth ei gefn na'r tipyn cyflog y mae yn ei gael genym ni, ac yr wyf yn meddwl ei fod wedi awgrymu wrthyf fwy nag unwaith ei fod yn d'od o deulu da, ac yr oedd Susi yn dweyd wrthyf na chostiodd y fodrwy sydd ganddo ar ei law lai na deg punt. Fy rheswm am ofyn y cwestiwn i chwi ydyw hyn—yr oeddwn braidd yn meddwl ar olwg Mr. Simon heno ei fod yn cymeryd cryn ddyddordeb yn ngwaith Coed Madog, ac na fuasai ganddo wrthwynebiad, pe buasem yn gofyn iddo gymeryd *shares* yn y Gwaith. Beth ydyw eich syniad chwi?"

"Dydw i'n gwybod dim am sefyllfa fydol Mr. Simon," ebe

Enoc, "ond prin y buaswn yn meddwl fod ganddo eiddo. Mae gweinidogion dan ryw fath o angenrheidrwydd i wisgo'n dda, ac i ymddangos yn *respectable.* Mi welais cyn hyn ambell bregethwr ifanc yn cychwyn i'w daith ar ddydd Sadwrn mor drwsiadus ag un boneddwr yn y wlad, ac fel yr oedd y gwaethaf, heb fwy na cheiniog a dimai ar ei elw wedi talu am docyn ei drên, a phe digwyddasai i'r blaenor lle y pregethai anghofio rhoi'r degwm iddo, buasai raid iddo gerdded yr holl ffordd gartre neu fenthyca arian. Ac hyd yn nod pe buasem yn siwr fod gan Mr. Simon arian wrth ei gefn, prin yr wyf yn meddwl y buasai yn ddoeth gofyn iddo gymeryd *shares* yn Nghoed Madog. Mwy priodol a fuasai ei anog i gloddio a myned yn ddwfn i bethau'r Beibl, nag i gloddio am blwm, fel chwi a minau. Ac, yn wir, dydw i ddim yn credu y bydd arosiad Mr. Simon yn hir yn Bethel. Mae o eisoes yn ymddangos i mi wedi myn'd trwy ei stoc, ac yn ail-adrodd ei hun er's tro. Ond hwyrach mai fy rhagfarn i yn erbyn y dyn ydi hyn i gyd."

"Wyddoch chwi beth, Mr. Huws?" ebe'r Capten, "mi rown lawer am eich gallu i adnabod cymeriadau. Yr wyf yn meddwl y bydlai yn anmhosibl i'r un dyn yn y byd gael yr ochr ddall i chwi—yr ydych fel—fel yr anifail, onide?—y mae'r Ysgrythyr yn sôn am dano—yn llawn llygaid—a 'does ryfedd yn y byd eich bod wedi llwyddo cymaint. Rhaid i mi ofyn eich maddeuant—achos 'doedd o ond tipyn o ysmaldod—mi dreies dipyn o dric arnoch, ond fasai waeth i mi heb, ac nid ydyw yn bosibl, fel y dywedais, dod o hyd i'r ochr ddall i chwi. Y gwir ydyw hyn: yr oeddwn yn sylwi eich bod yn canfod fod Mr. Simon yn cymeryd dyddordeb mawr yn newydd da Sem Llwyd, ac yr oeddwn yn ofni yn fy nghalon i chwi, yn ddifeddwl, ofyn iddo gymeryd *shares*, ond mi welaf, ac mi ddylaswn wybod, nad oedd raid i mi ofni. Nid pregethwyr na phersoniaid ydyw'r bobl i ni, Mr. Huws. Yn wir, pwy bynag gymerwn yn bartnars,—os cymerwn rywrai o gwbl,—bydd raid iddynt—yrwan wedi i ni ddarganfod y plwm—ystyried ein bod yn gwneud ffafr fawr â hwynt—fe allwn fforddio bod yn *independent*, syr, a dweyd wrthynt os nad ydynt yn foddlon i roddi hyn a hyn o arian i lawr, a ninau wedi profi fod plwm yn Nghoed Madog,—ni allwn ddweyd, meddaf,—wel, peidiwch, ni a fedrwn wneud hebddoch, a hyny yn burion. Wyddoch

chwi beth? *mae* yn dda genyf ein bod wedi taro ar y faen, er mwyn Denman, druan, oblegid, rhyngoch chwi a fi, mae arnaf ofn ei fod wedi gwario agos gymaint sydd ganddo."

"Mae'n wir ddrwg gen i glywed hyny, ond tybed na chaiff o'r cwbl yn ol ryw ddiwrnod," ebe Enoc.

"Y cwbl yn ol, syr? Caiff, fel y cawn ninau, a llawer ychwaneg," ebe'r Capten, ac ychwanegodd, "Ond dyma ni yn awr wedi d'od at eich *palatial residence* a *noble residence* ydyw mewn gwirionedd. A chymeryd y tŷ a'r siop efo'u gilydd, nid llawer o rai gwell sydd, os oes un, yn y dref, yn ol fy meddwl i. Ond dyna oeddwn yn cychwyn ddweyd—oni bae fod fy llygaid wedi syrthio ar eich tŷ ardderchog—dyna oeddwn yn myn'd i'w ddweyd,—fy mod am ofyn cymwynas genych, ac nid peth arferol, fel y gwyddoch, ydyw hyny i mi. Yn wir, yr wyf wedi gofyn can' lleied o gymwynasau fel yr wyf yn teimlo yn bur anfedrus gyda'r gwaith. Ond dyna oeddwn yn myn'd i'w ddweyd—chwi wyddoch ein bod wedi gwario tipyn ar Goed Madog, er nad oes un geiniog wedi ei gwastraffu. Hwyrach y dylaswn fod wedi eich cymeryd, Mr. Huws, i'm cyfrinach teuluol cyn hyn, ond tipyn yn glos yr wyf wedi arfer bod,—yn wir, ni ŵyr fy nheulu ond ychydig am fy amgylchiadau. Yr wyf ar fai, mi wn. Ond y ffaith ydyw, fod yr ychydig arian a gesglais yn ystod blynyddoedd fy llafur—a llafur nid bychan ydyw wedi bod, fel y gwyddoch,—wedi eu suddo mewn lle dyogel, oblegid yr oeddwn bob amser yn ceisio cofio am fy nheulu. Peidiwch agor y drws, Mr. Huws, cyn i mi orphen fy stori,—yr oeddwn bob amser yn ceisio cofio am fy nheulu, meddaf, ac yn ceisio parotoi ar eu cyfer, pe digwyddasai i Ragluniaeth ddoeth fy nghymeryd i ymaith yn sydyn, fel na fyddai raid iddynt, wedi i mi fyned, ddibynu ar na phlwy' na pherson. Yr wyf, erbyn hyn, braidd yn ofni i mi fod yn rhy ofalus am y dyfodol, ond, ar yr un pryd, nid wyf yn awr yn teimlo'n barod iawn i aflonyddu ar yr hyn a wnes. Wel, y canlyniad ydyw, fel y gallech gasglu, nad oes genyf erbyn hyn lawer o arian wrth fy ymyl, a mi a'i hystyriwn yn gymwynas—yn gymwynas fawr iawn—pe gallech, heb achosi dim annghyfleustra i chwi eich hun, roddi benthyg can' punt i mi—nid i gario'r Gwaith yn mlaen, deallwch, ond i mi yn bersonol, oblegid y mae genyf dipyn wrth gefn i gario'r Gwaith yn mlaen, ond yr wyf yn gofyn am hyn fel ffafr, i'r

dyben fod genyf, fel y dywedais, heb aflonyddu ar bethau eraill, dipyn o arian yn tŷ, achos y mae arnaf ofn iddynt gredu fy mod yn dlawd, ac ymollwng yn eu hysbryd acw. Rhoddaf i chwi fy I. O. U., a chewch hwy yn ol gydag *interest* yn mhen mis, dau, tri, pedwar, neu flwyddyn—*just* yn ol y ffordd y penderfynaf alw pethau i mewn. Ni buaswn yn meiddio gofyn am y ffafr hon—yn wir, yr oeddwn wedi penderfynu galw rhyw bethau i mewn—oni bae am y newydd da a gawsom heno gan Sem Llwyd."

"Cewch yn eno dyn, a chroeso; dowch i mewn, syr," ebe Enoc, ac i mewn yr aethant. "Gwarchod pawb! 'does yma ond twllwch yr Aipht," ychwanegai Enoc wedi agor y drws, ac ni ddywedai efe lawer o ormodiaeth, oblegid yr oedd Marged wedi rhoi y *gas* allan, a gadael i'r tân fyn'd yn isel yn y grât, ac yn ol pob ymddangosiad, wedi myned i'r gwely er's meityn.

"Mae'n ddrwg gen i," ebe Enoc wrth roi goleu ar y *gas*, "eich dwyn i le mor annghyfforddus, ond gwelwch sut fyd sydd ar hen lanc."

"*Just so*," ebe'r Capten, "ond pwy sydd gyfrifol? Mae'n ymddangos i mi, Mr. Huws, eich bod yn hoffi y trueni fel yr oedd Diogenes yn hoffi ei dwb, oblegid mi wn—nid yr wyf yn tybied, ond mi wn—y gallech yn y fath gartref ac yn y fath sefyllfa ddim ond wrth godi eich bys bach swyno y ferch ieuanc oreu a phrydferthaf yn y plwyf i gynhesu a dedwyddoli eich aelwyd. *Self-imposed misery* ydyw yr eiddoch chwi, Mr. Huws."

"Wn i beth am hyny," ebe Enoc, "ond mi wnaf y *cheque* i chwi 'rwan, Capten Trefor."

"Os nad ydyw yn rhyw wahaniaeth i chwi, Mr. Huws," ebe'r Capten, "byddai yn well genyf eu cael mewn aur neu *notes*, ond peidiwch achosi dim annghyfleustra i chwi eich hun. Ond chwi wyddoch, Mr. Huws, fel y mae gan foch bychain glustiau mawr, felly y mae gan rai *bankers* bychain lygaid mawr; ond fel y mae yn fwyaf cyfleus i chwi."

"Rwyf yn meddwl y gallaf eu rhoi i chi mewn *notes*," ebe Enoc.

"*Very good*," ebe'r Capten, "ond aroswch—ydach chi ddim yn peri rhyw annghyfleustra i chwi eich hun wrth wneud hyny?"

"Dim o gwbl," ebe Enoc wrth fyned i'r *office* i gyrchu y *notes*, a thra y bu efe yn yr *office* edrychai y Capten yn foddhaus i'r tân—hyny o dân oedd yno, gan chwibanu yn isel yr hen dôn "Diniweidrwydd."

Daeth Enoc yn ol gyda'r papyrau, gan eu gosod bob yn un ac un ar y bwrdd, a chymerodd y Capten hwynt i fynu yn rasol, gan eu dodi hwynt yn ofalus yn ei logell-lyfr, ac ebe fe—

"Diolch i chwi, syr; os byddwch mor garedig a rhoi i mi fymryn o bapyr a phin ac inc, mi roddaf i chwi gydnabyddiaeth am danynt, Mr. Huws."

"Na hidiwch," ebe Enoc.

"Na, syr, busnes ydyw busnes," ebe'r Capten, "er, rhaid cyfaddef, nad ydyw peth felly ond amddiffyniad i ddyn gonest rhag ystrywiau dyn anonest, ac nid ydyw yn anhebgorol, mewn ffordd o siarad, rhwng pobl o gymeriad. Ar yr un pryd,—wel, mi gofiaf am y peth yfory. Ac yn awr, Mr. Huws, wrth edrych ar y cloc yna mae y gair hwnw yn d'od i fy meddwl,—*tempus fugit*, ac er mwyn cadw gweddusrwydd, mae'n rhaid i mi ddychwelyd, er y buasai yn dda genyf gael parhau y gymdeithas."

"A gâf fi dd'od i'ch danfon gartre, syr," gofynai Enoc.

"Na chewch, Mr. Huws," ebe'r Capten, "nid am na fuasai yn dda genyf am eich cwmni, ond chwi wyddoch, yn ein hamgylchiadau presenol, pe deuech, mai llithro a wnaem i ymddyddan am y byd a'i bethau, ac y mae genyf finau, fel yr awgrymais gynau, eisiau ychydig funydau o seibiant ar fy mhen fy hun i feddwl a myfyrio, os gallaf, am bethau uwch. Ond diolch i chwi, Mr. Huws, yr un fath."

Wedi ysgwyd dwylaw yn garedig, aeth y Capten ymaith yn hollol foddlon ar lwyddiant ei neges.

## PENNOD XXXVII.

### ADEILADU CASTELLI.

Wedi ei adael ei hunan, tynodd Enoc ei gadair at y mymryn tân oedd yn y grât—llwythodd a thaniodd ei bibell, a gosododd ei hun yn yr agwedd gorphorol fwyaf manteisiol i adolygu yr holl sefyllfa. Ond rhaid i mi ei adael yn ei fyfyrdodau am ychydig amser.

Ni ddarfu i Capten Trefor ond rhoi prawf arall at brawfion dirifedi a gafwyd o'r blaen o'i adnabyddiaeth o'r natur ddynol, pan ddywedodd, wrth weled Mr. Denman yn troi adref mor gynar ar ol y swper y noswaith hono yn Nhy'nyrardd, mai brys oedd arno am gael dweyd y "newydd da" i Mrs. Denman. Dyna oedd y ffaith. Hon oedd y noson hapusaf a brofasai Mr. Denman er's llawer o amser. Y creadur! mewn ffydd ddiffuant yn ngalluoedd, rhagwelediad, a gonestrwydd Capten Trefor, yr oedd efe wedi fforffedu y cwbl oedd ar ei elw, a hyny megis am y pared â'r wraig, oblegid er ei bod hi yn dyfalu ei fod wedi gwario wmbredd ar weithydd mŵn, ni ddychmygai fod y cwbl wedi myn'd "i lawr shafft gwaith mein," ys dywedai Thomas Bartley. Rhwng Pwllygwynt a Choed Madog, byd truenus iawn a gawsai Mr. Denman er ys talm. Yr oedd gau y Capten ddylanwad swyngyfareddwr arno. Cofiai Mr. Denman amser pryd yr oedd ganddo ychydig dai, ychydig diroedd a thipyn o arian, a phryd y golygai ei hun mewn sefyllfa led glyd. Ond erbyn hyn, yr oedd yn mron yr oll wedi myn'd drwy ddwylaw y Capten a'u claddu yn mherfeddion y ddaear heb obaith adgyfodiad. A mwyaf a wariai mwyaf anhawdd oedd rhoi heibio "mentro," oblegid ni chlybuwyd erioed am neb wedi dyfod i "blwm mawr" ond y rhei'ny oedd yn mentro, ac mewn gobaith am "lwc," y boddodd eiddo Mr. Denman fel iâ ar lechen yn ngwres yr haul. Heblaw hyny, yr oedd Mr. Denman wedi dyoddef am flynyddoedd rinc feunyddiol ei wraig, yr hon oedd yn ei fyddaru ac yn ei boenydio gyda'i hedliwiadau am ei ffolineb yn cario ei arian "i'r hen Gapten y felldith ene." Yr oedd hyn wedi dinystrio ei gysur teuluaidd, a rhawg cyn

Bwllygwynt sefyll, yr oedd Mr. Denman wedi peidio cymeryd ei wraig i'w gyfrinach, ac yr oedd yn byw mewn arswyd beunyddiol iddi ddyfod i ddeall gymaint oedd efe wedi wario, a chan lleied oedd ganddo o'r hyn a allai ei alw yn eiddo iddo ef ei hun. Pe gwelsai efe ei ffordd yn glir i ddyfod dros yr helynt o ddatguddio ei sefyllfa i Mrs. Denman, buasai yn eithaf boddlon i daflu y cwbl i fynu ac ail ddechreu byw. Dyfeisiai ddydd a nos pa fodd y gallai efe fyn'd dros y garw a dweyd y gwaethaf wrth ei wraig, ac yr oedd y peth yn dyfod i bwyso yn drymach arno bob dydd am y gwelai yn eglur y byddai raid i'r terfyn ddyfod yn y man. Teimlai fod cadw hyn i gyd yn ei fynwes ei hun yn ei nychu ac yn ei fwyta ymaith yn raddol, a mynych y dywedai ei gymydogion fod Mr. Denman yn heneiddio yn dost. Ychydig a wyddent hwy am ei bryderion a'i ofnau.

Ond ffordd hir ydyw hono nad oes tro ynddi, a'r noson yr wyf wedi bod yn sôn am dani—wedi clywed newydd da Sem Llwyd, yr oedd gwên foddhaus ar wyneb Mr. Denman a'i ysbryd wedi bywiogi drwyddo. Prin y buasai neb yn adnabod ei gerddediad pan gyfeiriai yn gyflym tua chartref. Cerddai fel llanc. A pha ryfedd? canys, fel pererin Bunyan, yr oedd y baich oedd agos a'i lethu wedi syrthio i'r llawr. Cofiai Mr. Denman eiriau prophwydoliaethol y Capten y noson y cytunodd efe i ymuno yn Ngwaith Coed Madog—"Mr. Denman"—dyna oedd geiriau y Capten—"mi welaf amser pryd y byddwch yn dweyd y cwbl i Mrs. Denman, ac y bydd hithau yn eich canmol." Synai Mr. Denman at allu rhagweledol y Capten. "A'r fath lwc," ebe fe wrtho ei hun—"na ddaru mi ddim tori 'nghalon! Y fath fendith! Mi fase canodd wedi tori'u c'lone a rhoi'r cwbl i fynu er's talwm. Ond 'roedd gen' i ffydd o hyd fod y Capten o'i chwmpas hi. Pwy arall fase'n gwario'r cwbwl oedd ganddo, os gwn i? Ond mi ga'r cwbwl yn ol, 'rwan, ar ei ganfed. A diolch y medra i fyn'd adre a dangos gwyneb llawen, a deyd y cwbl i gyd i'r wraig! A mi gaf dipyn o gysur teuluaidd 'rwan, tybed, peth na ches i mo'no er's blynydde. 'Yr Arglwydd a roddodd,' &c." A chyda geiriau Job ar ei wefusau, yr aeth Mr. Denman i'w dŷ yn llawen.

Wrth natur, nid oedd Mrs. Denman yn flinderog, ond yr oedd mynych hir-ddisgwyl am ei gŵr gartref hyd ddeg, unarddeg, ac weithau haner y nos, yn nghyda'r ffaith oedd ddigon amlwg iddi, erbyn hyn, eu bod yn myn'd yn dlotach bob dydd,

wedi rhoddi ffurf ddreng i'w hwyneb a thôn gwynfanus i'w llais. Yr oedd y plant newydd fyn'd i'r gwely, a hithau, Mrs. Denman, wedi gosod ei hun mewn cadair wrth y tân i bendwmpian i aros ei gŵr gartref. Hi a synodd pan welodd Mr. Denman yn dyfod i fewn yn fywiog a hoew, cyn iddi dynu mig efo'r cyntun cyntaf, a deallodd ar ei olwg fod rhywbeth mwy na chyffredin wedi digwydd, ac ebe hi, dipyn yn wawdlyd,—

"Diar mi! be sy'n bod?"

"Mi ddeyda i chi, Mary bach, gynted byddai i wedi tynu fy 'sgidie," ebe Mr. Denman. Ac wedi gwneud hyny a thynu ei gadair at y tân, a gosod ei draed ar y stol haiarn, edrychodd yn foddhaus ar ei wraig, ac ebe fe,—

"O'r diwedd! o'r diwedd! Mary."

"O'r diwedd be! Denman?" gofynai Mrs. Denman.

"Wedi—dod—i blwm—wedi—dod—i blwm, Mary,—wedi taro ar y faen, Mary, o'r diwedd! Ac yr ydw i fel y gôg—'rydw i wedi f' ail neud. Mi wn y mod i wedi achosi llawer o flinder i chi wrth fentro, a mentro am gymin o flynydde, a gwario cymin o arian, a mi fasech yn blino mwy o'r haner bydasech chi'n gwbod y cwbl. Ond mi wyddwn o hyd—'roedd rhywbeth yn dweyd wrtho i y cawn i blwm yn fuan, a dyma fo wedi dwad, diolch i'r nefoedd am dano—achos 'roedd hi agos a myn'd i'r pen arna i—'roeddwn i *just* a thori fy nghalon, a bron meddwl y byddwn i farw yn ddyn tlawd. Ond diolch i'r nefoedd, meddaf eto."

"Deydwch yn fwy plaen wrtho i, Denman, dydw i ddim yn y'ch dallt chi," ebe Mrs. Denman.

"Mi 'na, Mary bach, mor blaen a haul haner dydd. Mi wn y mod i wedi'ch cadw chi'n t'w'llwch, Mary, ac na wyddoch chi fawr am waith mein. 'Roeddwn i ar fai, a 'rwan mi fedra ofyn i chi faddeu i mi, a mi wn y gwnewch chi faddeu i mi pan ddeydai'r cwbl. Yr ydw i wedi gwario ar weithydd mein, Mary, fwy nag y daru chi 'rioed freuddwydio. Wel, waeth i mi 'rwan gyfadde'r gwir—'rydw i wedi gwario hyny oedd gen' i—mae'r tai a'r tir a'r cwbl wedi myn'd, heblaw y tipyn stoc sydd yn siop, ac erbyn heno, dydi ddim yn 'difar gen' i—yn wir, yr ydw i'n teimlo'n ddiolchgar mod i wedi dal ati, achos daswn i wedi rhoi fynu ddim ond wythnos yn ol, mi faswn wedi colli'r cwbl. Ond mi ga'r cwbl yn ôl 'rwan, a llawer chwaneg. Fedrwn i yn y myw ffrwytho i ddeyd wrthoch chi cyn heno,

Mary, ond y mae pobpeth yn *all right* 'rwan. A llawer gwaith yr ydach chi wedi galw Capten Trefor yn hen 'Gapten y felldith' ynte, Mary? Ond alwch chi byth mono felly eto. Dyn iawn ydi'r Capten. Ond i ddwad at y pwnc a siarad yn blaen —mae Sem Llwyd wedi taro ar y faen yn Nghoed Madog, Mary, hyny ydi, wyddoch, wedi dwad i blwm, a ŵyr neb be fydd y'n cyfoeth ni, achos y Capten a finau a Mr. Huws, Siop y Groes, bia'r holl waith. Na, ŵyr neb eto be fydd y'n cyfoeth ni, Mary."

"Ond ydio'n wir, Denman? be os celwydd ydi'r cwbl a chithe wedi gwario'ch eiddo i gyd? O, diar! 'rydw i *just* yn sâl, ydio'n wir, Denman?"

"Yn wir, wraig bach? ydach chi'n meddwl na ŵyr Sem mo'r gwahaniaeth rhwng plwm a baw? Yn wir? mae can wired a'ch bod chithe yn eistedd yn y gader ene. Mi wn fod y newydd mor dda fel y mae yn anodd ei gredu, ond y mae yn eitha gwir—yr ydan ni wedi'n gneud i fynu am ein hoes, Mary, a diolch i Dduw am hyny! A wyddoch chi be, Mary, 'roeddwn i *just* yn meddwl y'ch bod chi a fine yn dechre myn'd i oed, ac mae'r peth gore i ni 'rwan, hyny ydi, ymhen ychydig wythnosau, fydd rhoi'r busnes yma i fyny, achos dydio ddim ond poen a blinder. Ac i be y gnawn ni foddro efo busnes pan fydd gynon ni ddigon o fodd i fyw yn *respectable?* Fydde fo ddim ond ynfydrwydd. Mi bryna ferlen a thrap *just* i redeg i'r Gwaith ac i gnocio tipyn o gwmpas, ac i'ch cymyd chithe allan dipyn ar ddiwrnod braf. Mae'n *rhaid* i ni feddwl am hyn—sef rhoi ediwceshyn da i'r plant yma—y pethe bach! Yr ydw i'n meddwl y gneiff Bobi bregethwr ne dwrne, mae o mor sharp, ac wedi iddo gael ysgol dda, mi gyrwn o i'r Bala, i'r College. Ac am Lusi, rhaid i ni ddysgu miwsig iddi, achos y mae o *yn* yr eneth yn amlwg i bawb. Mi gawn gysidro eto am y plant eraill," ebe Mr. Denman.

"Oh! Denman, mae o fel breuddwyd gen' i'ch clywed chi'n siarad!" ebe Mrs. Denman.

"Ydi, mae o, ond yn ddigon gwir er hyny, Mary. Mae ffordd Rhagluniaeth yn rhyfedd, ydi yn rhyfedd! Ond deydwch i mi, Mary, oes gynoch chi ddim rhwbeth yn tŷ gawn ni'n damed blasus i swper? Achos, deyd y gwir i chi, er fod gan y Capten swper ffyrs clas, fedrwn i yn y myw neud dim byd o hono rwsut ar ol dallt fod nhw wedi dwad i blwm yn Nghoed

Madog, a mi faswn yn leicio bydase gynou ni rw damed blasus i ni efo'n gilydd 'rwan."

"Mae 'ma dipyn o *steaks*, Denman, ond 'roeddwn i wedi llunio cadw hwnw erbyn cinio fory," ebe Mrs. Denman.

"Hidiwch befo fory, Mary, 'dewch i ni gael o. Raid i ni, bellach, ddim cynilo, mi gawn ddigon o bobpeth, a mwy na digon. O dewch i ni gael tamed cyfforddus efo'n gilydd, a siarad dipyn dros bethe, sut y gwnawn i, ac felly yn y blaen, achos mi wn na chysga i ddim heno, mae meddwl i yn rhy gynhyrfus, ebe Mr. Denman.

Prin y gallai Mrs. Denman gredu mai Mr. Denman oedd yn ymddyddau â hi, gan mor fwyn a hawddgar oedd ei eiriau, ac mor wahanol oedd ei ysbryd. Am dymhor hir ni chawsai hi ganddo ond atebion byrion a chrabed, a thymher sur a phigog. Teimlai fel pe buasai wedi ei thaflu yn ol i'r chwe' mis cyntaf ar ol priodi, ac yr oedd hi wedi ei hyfryd syfrdanu. Ni fuasai ganddi un amser lawer o ffydd y deuai dim daioni o waith Mr. Denman yn "mentro" cymaint, ond yr oedd rhywbeth mor newydd yn ei ysbryd, a'i eiriau mor amddifad o os ac oni bae y noswaith hono, a hyny mor wir amheuthyn iddi, fel yr oedd yn mron a chredu fod tymhor o lawnder a dedwyddwch wedi gwawrio arnynt. Ac eto yr oedd yn methu cwbl gredu, ac yn methu, er ceisio, ymollwng i lawenhau yr un fath a Mr. Denman. Teimlai fil o obeithion yn ymddeffro yn ei mynwes, ac ar yr un pryd amheuaeth, nad allai roddi cyfrif am dano, yn ei rhwystro i roddi rhaff iddynt i chwareu. A thra yr oedd Mrs. Denman, druan, yn hwylio "tamed o swper blasus," yn ol dymuniad ei gŵr, yr hwn a adeiladai gastelli dirifedi, buasai yn anhawdd dyfalu ei gwir deimladau. Oblegid pan oleuid ei hwyneb gan wên siriol, dilynid hyny yn union gan ochenaid drom. Yr oedd hi yn obeithiol ac yn ofnus—yn llawen ac yn brudd bob yn ail, a mwy nag unwaith y gofynodd hi i Mr. Denman—"Ond, Denman, ydach chi'n credu fod o reit wir?" a phan brotestiodd Denman ei fod o can' wired a'r pader, wel, nid allai mwyach ond ei gredu, a theimlai Mrs. Denman, o'r diwedd, ei bod hithau wedi ei hail-falu. Yn wir, mor llwyr y meddianwyd hi gan yr un ysbryd a'i gŵr fel, o herwydd rhyw air digrifol o eiddo y diweddaf, y chwarddodd hi dros y tŷ. Ni chwarddasai o'r blaen er's blynyddau, ac yr oedd y chwerthiniad hwn mor uchel ac aflafar nes deffro Sami, eu bachgen

ieuengaf. Digwyddodd hyn pan oedd Mrs. Denman newydd roi y winwyn yn y badell ffrïo gyda'r *steaks*. Wedi deffro, gwrandawodd y crwt yn astud, a chlywodd lais uchel a llawen ei dad yn siarad yn y gegin. Yn nesaf daeth arogl beraidd y winwyn a'r *steaks* i'w ffroenau. Llithrodd yn ddistaw o'r gwely ac i lawr y grisiau. Pan oedd Denman yn nghanol ei afiaeth, a sŵn y badell ffrïo ar ei huwchaf, ac er dirfawr fraw i'w rïeni, safodd Sami yn ei grys nos ar ganol llawr y gegin, ac ebe fe—

"Ga *i* gîg, dada?"

Pe digwyddasai i Sami godi yn y cyffelyb fodd y noson flaenorol, cawsai gweir y cofiasai am dani. Ond yr oedd yr amgylchiadau yn wahanol—yr oedd ei dad wedi d'od i blwm, ac ebe Mr. Denman yn groesawus—

"Cei, y ngwas gwirion i, tyd yma ar lin dada, y mhwt aur melyn anwyl i. Gei di gîg? cei gymin fyw fyth ag a leici di. Ac mi gei bobpeth arall ag a feder dy galon anwyl ddych'mygu am dano, o'n chaiff o, Mary?"

Ac felly nes iddi foreuo y treuliodd Mr. a Mrs. Denman amser dedwydd yn cynlluno mil o bethau a wnaent wedi cael y plwm mawr. Ac nid cyn i'r ceiliog *cochin china* ganu ar ei glwyd yn y buarth cefn y dywedodd Mr. Denman—

"Wel, Mary, mae'n *rhaid* i ni fyn'd i'r gwely—*just* o ran ffasiwn, ond am gysgu, mae hyny allan o'r cwestiwn."

Mae yn rhaid i minau yn awr ddychwelyd at wrthrych fy hanes, yr hwn a adewais yn synfyfyrio o flaen ei fymryn tân.

---

## PENNOD XXXVIII.

### CARIAD NEWYDD.

Tra y synfyfyriai Enoc Huws o flaen ei dipyn tân—oedd erbyn hyn yn mron myn'd allan—ai "newydd da Sem Llwyd" am ddarganfyddiad y plwm yn Nghoed Madog a lanwai ei feddyliau? Choelia i fawr! Cyn hyn y mae dyn wedi anghofio ei

ymborth angenrheidiol—wedi herio cyngor a fforfedio serch ei rïeni—wedi diystyru ei etifeddiaeth, a gwneud yn fach o'i einioes ei hun—a'r cwbl am fod rhyw elfen, neu egwyddor, neu deimlad yn ei galon a eilw yn GARIAD. Mae y ffaith yn ddigrif ei gwala, ond ffaith ydyw serch hyny. A phan gofiom nad ffyliaid y byd a orchfygwyd ganddi, ond, weithiau, goreuon a phigion ein hil, mae yn rhaid, ac yn weddus i ni, yr hen lanciau, dynu ein het iddi, a chydnabod fod rhyw ddirgelwch llawer mwy ynddi nag y gallwn ei ddirnad na'i blymio. I un fel Enoc Huws, yr hwn oedd, os oedd yn rhywbeth, "yn ddyn o fusnes," ac mor llygadog ag undyn, i wneud arian, gallesid tybio y buasai y ffaith a wnaed yn hysbys iddo y noswaith hono —sef eu bod "wedi taro ar y faen" yn Nghoed Madog, yn ddigon i lenwi ei feddwl am bythefnos o leiaf. Ond, rhyfedd i'w ddweyd, tra yr oedd efe yn myfyrio o flaen tân, ni ddaeth "newydd da Sem Llwyd" unwaith ar draws ei feddwl. Nid oedd iddo le yn ei galon. Nid oedd ganddo ond un meddwl mawr—yn tori allan, y mae'n wir, i amryw gyfeiriadau—a hwnw oedd, i'r de ac i'r aswy, ol a blaen—SUSAN TREFOR. Erbyn hyn hyhi oedd yn bobpeth ganddo, ac ar wahan iddi hi, nid oedd gwerth mewn dim yn ei olwg. A mwyaf a welai efe o honi—mwyaf y cymdeithasai efe â hi, tecaf, hawddgaraf, a gwerthfawrocaf yr âi hi yn ei fryd. Ar un adeg edrychasai arni fel trysor rhy werthfawr iddo ef byth allu gobeithio ei feddu. Ond yr oedd yr amgylchiadau wedi newid cryn lawer oddiar hyny. Yr oedd ef ei hun yn gyfoethocach nag y bu erioed, a'i fasnach yn parhau i gynyddu—yr oedd ei ymdrafodaethau â Chapten Trefor wedi ei ddwyn i gysylltiad agosach a'i eilun, ac nid oedd agosrwydd, fel y digwydda yn fynych, wedi lleihau dim ar y gyfaredd, eithr yn hytrach wedi ei dwyshau. Yr oedd enill serch a chalon Miss Trefor yn ei olwg erbyn hyn o fewn terfynau posibilrwydd, os nad tebygolrwydd. Gwelai nad ydoedd efe yn anmharchus yn ei golwg—cytunai y ddau yn gyffredin yn eu golygiadau, ac, ar adegau, tybiai Enoc ei bod yn edmygu rhyw bethau ynddo. Yr oedd efe o'r dechreu wedi amcanu enill syniadau da ei mam, ac wedi llwyddo tuhwnt i'w ddisgwyliad, canys gwyddai fod iddo le cynhes yn nghalon Mrs. Trefor. Os oedd ymddygiad cwrteisiol y Capten Trefor a choel arno, nid dirmygus oedd efe yn ei olwg yntau. Teimlai Enoc yn sicr erbyn hyn ei fod wedi enill yr amgaerau, ac yr

oedd wedi llwyr arfaethu y noson hono wneud cais egniol i feddianu y castell. Ond nid cynt, fel y cofia y darllenydd, y dechreuodd efe ei ymosodiad, nag y cilgwthiwyd ef yn ddirmygus, a hyn i gyd o herwydd un anhap. A siarad yn eglur —heb ddameg—tybiai Enoc na chawsai erioed well cyfleusdra nag a gawsai y noson hono i wneud yn hysbys i Miss Trefor ei wir deimladau tuag ati. Yr oedd ei stori am gyfyngder amgylchiadau ei thad yn gyfle rhagorol yn ei olwg iddo ddangos mawrfrydigrwydd ei natur a diffuantrwydd ei edmygedd o honi —*o honi hi ei hun*—yn annibynol ar eiddo a sefyllfa. Ond yr oedd ei eiriau wedi ei dolurio a'i chythruddo yn dost, a chyn iddo gael amser i egluro iddi eu hystyr, yr oedd y Capten—pla arno!—wedi gwneud ei ymddangosiad.

"Y newydd gore," ebe Enoc wrtho ei hun, "a gês i er's gwn i pryd, oedd 'i chlywed hi'n deyd bod nhw'n dlawd. Yrwan, meddwn, mae hi'n fwy tebyg o wrando ar fy nghynygiad. Yrwan, ni fydd amddiffynydd a sicrwydd rhag angen yn ddibris yn 'i olwg, ac, o dan yr amgylchiade, mi fydd fy nghariad ati yn rhwym o ymddangos yn fwy *disinterested*. A dyna oeddwn yn *myn'd* i ddeyd wrthi daswn i wedi cael amser. Ond dyna'r hen Gapten i lawr y grisiau! *Confound!* Dau funyd fuase'n gneud y tro. Fu neb erioed mor anlwcus a fi, mi gymra fy llw. A mi ddaru gamddallt y ngeirie i—mi brifes hi, druan, ac erbyn hyn mi fase'n dda gan y nghalon i daswn heb ddeyd yr un gair. Bychan y gŵyr hi y base'n well gen' i dori mŷs i ffwrdd nag achosi y boen leia iddi. Mae hi'n teimlo'n ddig ata i heno, mi wn. A be fydde ore i mi neud? Mae gen' i flys ysgrifenu llythyr ati i egluro fy hun a deyd y cwbl. Ond mi fydde hyny yn *ridiculous*, a fine yn 'i gwel'd hi mor amal. Mi af yno 'fory, achos *rhaid* i bethe dd'od i boint yrwan —mae'n rhaid i mi egluro p'am 'roeddwn i'n deyd fod yn dda gen' i glywed bod nhw'n dlawd. Ond y gwaetha ydi, *dydyn* nhw ddim yn dlawd. 'Roedd yn hawdd dallt hyny ar eirie y Capten heno. Wedi twyllo nhw mae o—wedi cadw 'i amgylchiade oddiwrthynt y mae'r hen lwynog. Mi wyddwn fod y peth yn anmhosibl. Ac eto, mi fase'n well gen' i bydase nhw'n wir dlawd, oblegid dase hi felly arnyn nhw, mae gen' i le i obeithio y base *hi*, hwyrach, yn fwy parod i dderbyn fy nghynygiad, a mae'r Nefoedd yn gwybod y base'n dda gen' i roi'r cwbl sy gen' i at 'i gwasanaeth *hi*, a chadw'r hen bobol hefyd, os base

raid. Ond tybed nad y nhrio i 'roedd hi? 'Does dim posib na ŵyr hi mod i'n meddwl am dani, ac hwyrach mai nhestio i 'roedd hi. 'Does neb ŵyr. Ond mae'n rhaid iddi ddwad i rywbeth yn fuan, achos fedra i ddim byw fel——."

Curodd rhywun y ffenestr yn ysgafn, ac edrychodd Enoc mewn braw i'r cyfeiriad hwnw, a chanfu yr hyn nad oedd wedi sylwi arno o'r blaen, sef nad oedd Marged wedi tynu i lawr y gorchudd. Tu ol i'r gwydr gwelai Enoc helm loew a gwyneb siriol o dani—sef yr eiddo Jones, y plismon, yn gwenu arno. Agorodd Enoc y drws, ac ebe Jones—

"*Brown study! brown study!* Mr. Huws, 'doeddwn i ddim ond *just* galw'ch sylw fod y *blind* heb ei dynu i lawr."

"Diolch i chwi," ebe Enoc, "'doeddwn i ddim wedi sylwi. Sut fu, tybed, i Marged anghofio! Dowch i fewn, Mr. Jones."

"Dim ond am funyd, syr, achos rhaid i mi fyn'd yn nghylch fy musnes," ebe Jones. "Sut dôth hi mlaen yn Nhy'nyrardd? ddaru chi fwynhau 'ch hun yno? Wrth gofio, sut mae'r llygaid? O! mi welaf, maent yn iawn. Mi wyddwn y base'r biff yn 'u mendio nhw."

"'Rydach chi'n ddoctor campus, Mr. Jones," ebe Enoc, "ddaru neb sylwi fod dim o'i le arnyn nhw, i mi wybod. Wel, fe gawsom nosweth bur hapus, a newydd da hefyd. Mae'n dda gen' i ddeyd, Mr. Jones, a mi fydd yn dda gynoch chithe glywed, bod ni wedi dwad i blwm yn Nghoed Madog."

"Ffact, Mr. Huws?" gofynai Jones.

"Ffact i chi. Mae Sem Llwyd wedi taro ar y faen heno," ebe Enoc.

"Sem Llwyd, ai ïe?" ebe Jones. "Hidie Sem yr un blewyn a chymyd tipyn o blwm yn 'i boced i lawr y *shafft*—mae Sem yn hen *stager*, Mr. Huws. Glywsoch chi am Elis, y Batis, er's talwm? 'Naddo?' 'Wel, i chi, 'roedd Elis ac un neu ddau arall yn chwilio am blwm yn rhwle tua Phenyboncyn ene, ac yn gweithio bob yn ail stem. 'Roeddan nhw wedi bod wrthi am fisoedd, ac 'roedd Elis bron rhoi i fynu'r ysbryd, a helbul garw oedd hi arnyn nhw i gael Elis i weithio 'i stem. Un diwrnod be ddaru un o'i bartnars—'roedd o'n gwbod mai tyrn Elis oedd y stem nesa—ond cymyd lwmp o blwm gymin a'i ddwrn, a'i guddio yn y fan yr oedd Elis i fyn'd ati. Wrth fyn'd adre', wedi gorphen 'i stem, fe alwodd yn nhŷ Elis, a be fo—'Ydach chi'n hwylio ati, Elis? Wyddoch chi be, mae acw

well golwg nag a weles i 'rioed, Elis.' 'I mae?' ebe Elis, 'sut ydach chi'n deyd hyny?' 'Wel,' ebe'r partnar, 'fedra i ddim deyd wrthoch chi'n iawn, ond ewch yno a barnwch drostoch y'ch hun.' 'Wel, ddyliwn y bydd raid i mi fyn'd unweth eto er y mod i *just* a gwanobeithio,' ebe Elis. A ffwrdd a fo yn 'i jaced wlanen a'i het galed. Ond 'doedd o ddim wedi bod i lawr ddeng munyd, nag y rhedodd o i fynu'r 'sgolion na ŵyr o hyd y dydd heddyw sut; ac i lawr i'r dre a fo a'i het yn 'i law, a'r plwm yn 'i law arall, ac wedi haner colli 'wynt, yn gwaeddi —'Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith!' A dyna hyny o blwm a gafodd Elis yn Mhenyboncyn. Ond digrifwch y peth oedd hyn: toc ar ol y tric ar Elis fe ddaeth rhw bregethwr diarth i gapel y Batis, a'i destyn o oedd, 'Yr Arglwydd a roddodd,' ac felly yn y blaen, a dyna bawb yn troi eu llygaid ar Elis, ac fe gloewodd Elis hi allan o'r capel *in disgust.* Bydawn i chi, Mr. Huws, mi fynwn wel'd drosof fy hun. Ewch i lawr y Gwaith yfory."

"Be? y fi fyn'd i lawr y *shafft*, Mr. Jones? Chymrwn i ddim mil o bune," ebe Enoc.

"Ha! ha!" ebe Jones, "un braf ydach chi, Mr. Huws, i fentro! Sut y gwyddoch chi ydi'r meinars yn deyd y gwir wrthoch chi? Choeliwn i byth feinar."

"Bydae nhw'n deyd celwydd wrtha i am oes," ebe Enoc, "'dawn i byth i lawr y *shafft*, achos mi wn yr äi 'y mhen i'n ysgafn, ac y byddwn yn y gwaelod can farwed a hoelen cyn i mi gyfri dau, a pha les i mi wed'yn fydde'r plwm na dim arall?"

"Dim," ebe Jones, "ond y byddech yn sefyll *chance* dda i gael arch blwm fel gŵr boneddig. Ond deydwch i mi, oedd o ddim yn rhyfedd fod y Capten allan mor hwyr heno?"

"O! welsoch chi'r Capten," gofynai Enoc.

"Do," ebe Jones, "o Dy'nyrardd y dois i 'rwan,—'rwyf wedi bod yn lloffa ar ol y'ch cynaua chi, a mi gês rywbeth yno na chawsoch chi, y titots, mono—mi gês lasied o wisgi hefo'r hen ŵr."

"Lle daru chi daro ar y Capten?" gofynai Enoc.

"Yn bur òd," ebe Jones, "'roeddwn i *just* yn dwad i gornel y stryt fawr, a mi glywes gnocio drws, a be welwn i ond rhwfun yn curo drws Lloyd, y twrne. 'Roedd Lloyd yn cychwyn i'w wely, achos yr oedd gole yn ffenest y llofft. 'Doeddwn i ddim yn gallu gweled pwy oedd yn curo, ond fe aeth i mewn,

ac mi feddylies y mynwn i wybod pwy oedd o. Fu o ddim i mewn yr un pum' munyd, a phwy oedd o ond y Capten. 'Roedd yn reit dda ganddo ngwel'd i, a mi ês i ddanfon o gartre. Mae'r hen ŵr yn tori,—'roedd o'n cerdded 'reit simsan heno. Ond be allase fo fod eisiau gan yr hen Lloyd yr adeg yma ar y nos, os gwn i?"

"Rhyw fusnes, mae'n debyg," ebe Enoc yn fyfyrgar.

"Felly 'roedd o'n deyd," ebe Jones, ac wrth weled Enoc yn edrych yn lled syn, ychwanegodd,—"A 'does gynoch chi ddim *idea*, Mr. Huws?"

"Ddim o gwbl," ebe Enoc, a meddyliai fod Jones, ar can lleied o gydnabyddiaeth, dipyn yn wynebgaled ac ymholgar.

"Hy," ebe Jones, ac ar ol ychydig ddistawrwydd, ebe fe, "Wyddoch chi be, Mr. Huws, 'dydw i ddim yn meddwl fod y Capten mor dda arno ag y mae pobl yn credu ei fod."

"Be sy'n peri i chi feddwl hyny?" gofynai Enoc.

"Wel," ebe Jones, "fedra i ddim deyd wrthoch chi'n iawn, rywsut, ond be ydach chi'n feddwl am hyny, Mr. Huws?"

("Wel, y gwynebgaled," ebe Enoc ynddo ei hun, ac ychwanegodd yn hyglyw):—

"Mae sefyllfa fydol Capten Trefor yn ddyeithr hollol i mi, a dydio ddim llawer o bwys gen' i beth ydi ei sefyllfa—pa un ai cyfoethog ai tlawd."

"Ah!" ebe Jones, "mae hi'n debyg arw i wlaw. Prin y galla i'ch coelio chi 'rwan, Mr. Huws."

"Pa'm?" gofynai Enoc.

"O herwydd," ebe Jones, "fod pobol yn gallach 'rwan nag y bydde'n nhw er's talwm. Mi briodes i pan oeddwn i'n dair ar hugen oed, a mi briodes eneth dlawd. Bydaswn i wedi cymyd 'mynedd, yr un faint o drafferth a fase i mi briodi geneth a dwy neu dair mil o bune ganddi—fase'r person yr un munyd hwy yn myned dros y wers, a mi faswn ine'n safio gwisgo'r lufre 'ma. Ond yrwan y mae dynion yn cymyd amser i edrach o'u cwmpas, ac yn cymyd gofal fod y wraig yn dod â rhywbeth i'r tŷ heblaw tafod drwg. *Quite right* hefyd. Ac er y mae yn rhaid i mi gyfadde, fod yno brydferthwch, dysg, a sens, yn ddiame, 'rwyf yn meddwl na fase rhwfun ydw i'n nabod mor ddyfal yn Nhy'nyrardd, oni bae fod o'n credu fod yno rwbeth arall."

"Nid yw yr un y cyfeiriwch ato, Mr. Jones, mor fydol ac

ariangar a hyny, a phe buasai rhywbeth mwy na chyfeillgarwch rhyngddo ef â Miss Trefor, ac iddo gael allan nad oedd ei thad yn dda arno, neu hyd yn nod ei fod yn dlawd, ni fuasai hyny yn newid mymryn ar ei fwriadau tuag ati," ebe Enoc.

"Dyn rhyfedd ydach chi, Mr. Huws, yr ydach chi cweit yn eithriad yn y peth yna," ebe Jones.

"Wn i beth am hyny," ebe Enoc, "ond mi wn hyn, nad ystyriwn i gariad yn gariad o gwbl os bydd i amgylchiadau newid dim arno."

"Mi welaf," ebe Jones, "mai y syniad hen ffasiwn sy gynoch chi, Mr. Huws, am gariad—y cariad y mae y ffugchwedlau yma yn sôn am dano. Ond erbyn y dowch chi i *actual life*, welsoch chi 'rioed lai fydd o hono hyd yn nod gan y rhai oedd yn tybied ei fod ganddynt; ac yr ydach chi yn cofio am y ddiarheb,—'Pan ddaw tlodi i fewn trwy y drws y mae cariad yn ffoi allan drwy y ffenest.'"

"Fu 'rioed ddihareb fwy celwyddog, yn ol y meddwl i," ebe Enoc. "Mae yn ddiamheu fod tlodi wrth ddod i mewn trwy y drws wedi bod yn wasanaethgar i ddangos lawer tro na fu yn y tŷ erioed *wir* gariad. Pan mae dyn yn syrthio dros ei ben a'i glustiau mewn cariad at brydferthwch a theilyngdod, ac yn cael ei daro megis gan fellten yn fud ac yn fyddar, fedr o byth ysgwyd hwnw i ffwrdd—waeth faint o bethau ddaw i'r goleu, os na fyddant yn milwrio yn uniongyrchol yn erbyn yr hyn y syrthiodd efe mewn cariad âg ef—ni fedrant newid dim arno, yn ol fy syniad i. Anffawd ac nid drwg ydyw tlodi, a damwain ydyw cyfoeth, ac ni all y naill na'r llall dynu rhyw lawer oddiwrth nac ychwanegu at wir werth geneth brydferth a rhinweddol. Dyna 'meddwl i, Mr. Jones."

"'Rydach chi'n myn'd tuhwnt i mi 'rwan, Mr. Huws," ebe Jones, "wn i fawr am bethau fel yna. Ond f'asech chi'n synu pe deydwn i wrthoch chi fod y Capten yn galed arno?"

"Baswn, wrth gwrs," ebe Enoc.

"Be ddeydech chi pe dwedwn i fod y Capten wedi 'i serfio efo gwrit am bum' punt ar hugain?" gofynai Jones.

"Mi ddwedwn fod rhywun wedi dweyd celwydd wrthoch," ebe Enoc.

"Be bydawn i'n deyd fy mod yn *gwybod* fod hyny'n ffact?" gofynai Jones.

"Mi ddwedwn," ebe Enoc, "'y mod inau'n *gwybod* nad

ydyw y Capten heno yn fyr o ddau na thri pum' punt ar hugain. Mae rhyw gamgymeriad yn bod, Mr. Jones."

"Nac oes, syr, ddim camgymeriad. Ac os oedd gan y Capten ddau bum' punt ar hugain, mi wn ei fod wedi partio a'u haner nhw heno," ebe Jones.

Gwenodd Enoc, a dywedodd ynddo ei hun,—

"Y *mae* nhw yn dlawd wedi'r cwbl, a diolch am hyny."

"Yr oeddwn yn meddwl," ebe Jones, "ei bod yn ddyledswydd arnaf, fel cyfaill, ddweyd hyn wrthoch, Mr. Huws, achos peth garw i chi a fyddai cael cam gwâg, a bydaswn i yn y'ch lle chi, mi faswn yn gneyd fy hun yn *conspicuous by my absence* yn Nhy'nyrardd. Dydw i ddim yn amheu na wna nhw 'u gore i'ch cael chi'r trap i briodi y ferch yna, ond *bad look out* fyddai hi i chi, Mr. Huws."

"Dydi'r ffaith," ebe Enoc, "os ffaith ydyw, fod y Capten wedi ei serfio efo gwrit ddim yn profi ei fod yn dlawd. Dyn òd ydi'r Capten, ac hwyrach ei fod wedi cymeryd yn 'i ben i beidio talu'r arian nes y leicie fo'i hun. Ond sut y deysoch chi o hyd i hyn Mr. Jones?"

"Fedra i ddim ateb y cwestiwn yna, Mr. Huws, heb fradychu ymddiried. Mae plismon yn d'od o hyd i fil o bethau na wiw iddo ddweyd sut. Ond y mae yn ddigon gwir, coeliwch chi fi, a mi fedrwn ddweyd chwaneg wrthoch chi, ond mi wn ar eich gwyneb nad ydych yn coelio," ebe Jones.

Ni fedrai Enoc gelu ei lawenydd, a chododd Jones i fyned ymaith, ac ebe fe—

"Amser a ddengys, Mr. Huws, ond byddwch ofalus a llygadog, ac yr ydach chi'n siwr o ffeindio fy mod ——. Beth oedd y trwst yna? oes gynoch chi gathod yma?"

"Nac oes," ebe Enoc, "mae yma fwy o lygod nag o gathod —mae Marged yn lladd pob cath a ddaw 'ma. Ond yr oedd yna ryw drwst, on'd oedd? Beth oedd o, tybed?"

"Yn y rŵm gefn yr oedd o, gadewch i ni fyn'd i edrach rhag ofn fod yma ladron," ebe Jones.

Goleuodd Enoc ganwyll, ac nid yn ddiofn, wedi clywed enwi lladron, yr aeth efe tua'r ystafell gefn, ond yr oedd efe yn weddol gefnog hefyd, gan fod Jones wrth ei sawdl. Agorodd Enoc y drws gan ddal y ganwyll ar hyd ei fraich, a chan gadw ei gorph can' belled yn ôl ag y medrai. Can gynted ag yr estynodd Euoc y ganwyll yn mlaen i'r ystafell, ceisiwyd ei

chwythu allan gan rywun o'r tu ol i'r drws, a neidiodd Enoc yn ol mewn dychryn gan daro yn erbyn ystymog Jones. Cipiodd Jones y ganwyll o'i law, a gwthiodd Enoc o'i flaen i'r ystafell yn erbyn ei waethaf, ac yn y ffrwgwd, clywent rywun yn dweyd yn ddistaw—" Y fi sy' 'ma, mistar."

"Ië, a phwy arall?" ebe Jones, gan ddal y goleu i bob cyfeiriad.

Datguddiodd y goleuni olygfa ddiniweid dros ben—rhy ddiniweid i achosi y fath fraw i Enoc, oblegid yr oedd efe wedi dychrynu yn enbyd—crynai fel deilen, ac yr oedd ei wyneb mor welw a marwolaeth. Yn yr ystafell hon yr oedd mainc oddeutu dwylath o hyd, a ddefnyddid gan Marged ar ddiwrnod golchi i ddal y padelli. Pan aeth Jones ac Enoc i mewn, eisteddai Marged ar un pen i'r fainc hon, a'i gên yn pwyso ar ei bron a'i bŷs yn ei safn, gan edrych ar y llawr yn yswil ac euog. Tu ol i'r drws safai (neu yn hytrach, fel un ar ganol codi oddiar ei eistedd) cymeriad adnabyddus o'r enw Tom Solet. Gwisgai Tom drowsus cord, yr hwn oedd fŷr i fynu ac i lawr. Yn y gwaelod yr oedd wedi ei godi tucha'i fferau a'i rwymo â llinyn dan benau ei liniau, ac yn top wedi ei oilwng dros ei hipiau, ac wedi ei sicrhau gyda strap a bwcwl, a chrys unlliw yn gweflo yn llanast dros ei ymylon. Unlliw a fyddai crys Tom bob amser—lliw peidio dangos baw—a chloben o goler arno fel coler côt—rhag gwisgo cadach. I arbed gwasgod gyffredin—gwisgai Tom wasgod lewys, ac er ei bod yn ddwbwl-brest a botymau mawr arni, byddai bob amser yn agored—hâf a gauaf. Dyna oedd diwyg Tom yn d'od i garu. Nid hwn oedd y tro cyntaf iddo fod wrth y gorchwyl—canys yr oedd efe wedi claddu tair o wragedd, ac nid oedd Tom yn gweled fod angen am ddim *extra* yn ei wisg y noson hon. Ond dyn gonest oedd Tom. ac yr oedd wedi bod yn gweithio er's blynyddau dan y *Local Board*, ac wedi hwylio cymaint ar y ferfa, fel na fyddai byth yn sefyll yn syth, ond, fel y dywedwyd, megis ar ganol codi oddiar ei eistedd. Ni ddangosai Tom, pan ddaliwyd ef yn yr ystafell gefn gan Jones, y plismon ac Enoc, ddim byd tebyg i'r benbleth yr oedd Marged ynddi, ac yr oedd mwy o ddireidi i'w ganfod yn ei wyneb nag o fraw. Gofynodd Jones iddo—

"Wel, Tom, be ydi'ch busnes chi mewn tŷ fel hyn yr adeg yma ar y nos?"

Gwenodd Tom, ac amneidiodd â'i ben a'i lygaid ar Marged—ystyr yr hyn oedd—"Mae musnes i efo hi."

"Beth?" ebe Jones, "ai wedi d'od yma i garu Marged yr ydach chi?"

Rhoddodd Tom nòd gadarnhaol, a hwb i'w drywser.

"Ho!" ebe Jones, "er's faint o amser y mae'r busnes yma yn myn'd yn mlaen, Tom?"

Rhoddodd Tom nòd ddwbl ar Maged, ystyr yr hwn oedd—"Gofynwch iddi hi."

"Er's pa bryd, Marged?" gofynai Jones.

"Mae o isio siarad efo fi er's talwm, ond chafodd o 'rioed ddwad i fewn tan heno," ebe Marged.

"Felly," ebe Jones. "Ond rhoswch chi, Tom, 'rydach chi wedi claddu'r wraig ddwaetha er's tro byd—gryn dri mis—on'd ydach chi?"

Rhoddodd Tom nòd driphlyg, yr hyn o'i gyfieithu oedd—"Do, druan, bach."

"'Roeddwn braidd yn meddwl hyny," ebe Jones, ac ychwanegodd—"Ac yr ydach chi'n meddwl closio at Marged a gwneud gwraig o honi, Tom?"

Rhoddodd Tom nòd amodol—"Os bydd hi'n foddlon."

"Wel, Marged," ebe Jones, "be ydach chi'n ddeyd am gynygiad Tom? Mae Tom yn ddyn gonest, sobr, mewn gwaith constant—yn cael pymtheg swllt yr wythnos—a mae ganddo dŷ a *furniture*. Ydach chi'n foddlon, Marged?"

"Wn i ddim wir, ond hwrach na fedra i neud dim llawer gwell," ebe Marged.

"'Rwyf yn credu," ebe Jones, "y byddwch yn gneud reit dda—nid bob dydd y cewch y fath gynygiad. A mi ellwch chithe, Tom, ystyried eich hun yn lwcus dros ben os cewch Marged yn wraig, achos y mae hi'n ddynes lân, iach, fedrus, a gweithgar, heblaw fod ganddi dipyn o brês (llewyrchai gwyneb Tom wrth glywed hyn), a pheth ffol a fyddai i chi golli dim amser efo'r peth—gore po gyntaf i chi fyn'd at eich gilydd. Be 'dach chi'n ddeyd, Tom?"

Rhoddodd Tom nòd o gydsyniad hollol.

"Be 'dach *chi'n* ddeyd, Marged?" gofynai Jones.

"*Just* fel mae o'n leicio," ebe Marged.

"Wel," ebe Jones, "os bydd Mr. Huws yn foddlon i adael i

Marged ymadael heb roi notis, y peth gore, Tom, a fyddai i chi roi'r stegion allan y Sul nesa'."

Edrychodd Tom yn ymofyngar i wyneb Mr. Huws, ac ebe Enoc—

"Os ydi Marged yn dymuno hyny, wna i mo'i rhwystro hi. Yn wir, mi fydd yn dda gen' i gwel'd hi wedi gneud cartre iddi hi ei hun, er y bydd yn ddrwg gen' i cholli hi," ebe Enoc, ac yn hyn efe a ddwedodd dipyn bach o gelwydd.

"'Rydach chi wedi stopio'n rhy sydyn, Mr. Huws," ebe Jones. "Yr oeddwn braidd yn disgwyl eich clywed yn dweyd y basech yn rhoi'r *wedding breakfast.*"

"Wel, mi *wna* hyny, ac hwyrach y rho i dipyn o bresant iddi, achos y mae Marged wedi bod yn forwyn dda a gonest," ebe Enoc.

"Mi wyddwn," ebe Jones, "yr actiech fel gŵr bonheddig."

"Thanciw, syr," ebe Marged, a tharawodd Tom ei law wrth fargod ei wallt fel cydnabyddiaeth am y caredigrwydd.

"Yrwan," ebe Jones, "mi'ch gadawn ni chi, a hwyliwch chithe gartre, Tom, ymhen rhw ddeng munyd, a chofiwch chi, Tom, na chlywn ni ddim am *breach of promise*, achos mae 'ma ddau witnes, cofiwch."

Rhoddodd Tom nòd yr ochr chwith i'w ben, cystal a dweyd "dim peryg!"

Ac felly y gadawyd y cariadon gan Enoc a Jones. Wedi myned allan o'u clyw, ebe'r olaf—

"Dyna fusnes go fawr wedi 'neud, onide, Mr. Huws?"

"Ddyliwn i wir," ebe Enoc. "A *just* ffansiwch, ddeydodd y dyn yr un gair o'i ben!"

"Mi ddeydodd lawer â'i ben, ynte," ebe Jones. "Mae nòd y dyn yna, syr, cystal a'i air. Mi gewch wared tragwyddol, 'rwan, â'r hen byrcytan, Marged yna. Wyddoch chi be, Mr. Huws, mae hi'n gwlawio trugareddau arnoch heddyw."

"Dydi wiw i mi wadu," ebe Enoc, "na fydd yn dda gan y nghalon i gael gwared â Marged, a mae Tom Solet wedi cym'ryd baich mawr oddiar 'y meddwl i."

"Mi'ch credaf," ebe Jones. "A 'rwan mae'n rhaid i mi fyn'd yn nghylch 'y musnes. Ond y mae gen' i un gymwynas i'w ofyn gynoch chi, Mr. Huws. 'Roeddwn i'n sylwi ddoe fod gynoch chi *hams* cartre nobyl anwêdd yn eich siop—a 'newch chi nhrystio i am un hyd y *pay day* nesaf? Mae hi dipyn yn

brin arna i am brês yrwan, ond mi dala'n siwr i chi y *pay day* nesaf."

"Wna i ddim o'r fath beth, Mr. Jones," ebe Enoc, "ond mi anfonaf i chi *ham* yn rhôdd ac yn rhad yfory, a chroeso am eich caredigrwydd. Bydd yn eich tŷ cyn canol dydd."

"Yr ydach chi'n rhy haelionus, Mr. Huws, a 'does gen' i ond diolch i chi o waelod 'y nghalon, a dweyd nos dawch," ebe Jones.

## PENNOD XXXIX.

### O'R DIWEDD.

Yr oedd yr argoelion pendant fod Marged i gael gŵr, a hyny ar fyrder, yn fforddio llawer o gysur meddwl i Enoc, oblegid yr oedd y rhan fwyaf o'i ofnau a'i bryderon yn nghylch y dyfodol yn gysylltiedig â hi, ac nid allai efe lai na synu a rhyfeddu mor rhwydd a didrafferth yr oedd Tom Solet wedi cyrhaedd ei nôd, tra yr oedd ef ei hun yn yr helbul er's blynyddau, a chan belled ag y gallai efe weled, nid oedd yn nes i'w nôd yn awr nag yn y dechreu. Arweiniodd hyn fyfyrdodau Enoc i'w sianel naturiol, —sef i gyniwair yn nghylch Miss Trefor, i ba le yr aent bob amser ac o bob man. Ni chysgodd efe yn mron ddim y noswaith hono. Bwriadasai amlygu i Miss Trefor ei serch ati, ac yr oedd wedi gwneud rhagymadrodd anhapus—rhagymadrodd a'i briwiodd hi yn dost. Golygai Enoc i'r bregeth egluro y rhagymadrodd—dipyn yn groes i'r drefn gyffredin—a pheth mawr ydyw myn'd yn groes i arferiad. Ni chafodd efe, fel y gwelwyd, ddweyd y bregeth, ac felly yr oedd y rhagymadrodd yn dywyll. Ar yr un pryd, wedi clywed yr hyn a ddywedodd Jones y Plismon, ystyriai Enoc fod y rhagymadrodd yn burion, ac mai yr anhap fu na chafodd gyfleusdra i bregethu. Mewn geiriau eraill, wedi yr ymgom gyda Jones, methai Enoc weled ei fod wedi camgymeryd wrth ddatgan ei lawenydd pan hysbysodd Miss Trefor ef fod ei thad yn dlawd, gan y rhoddai

hyny brawf iddi o uniondeb a dianwadalwch ei hoffder o honi. Wedi yr anhap a ddigwyddodd, ni allai efe orphwyso nes cael egluro ei hun i Miss Trefor, ac mor fore ag oedd weddus hwyliodd i Dy'nyrardd gyda'r esgus o ymholi am iechyd Mrs. Trefor. Wrth gwestiyno Kit, y forwyn, cafodd allan fod Mrs. Trefor gryn lawer yn waeth,—eu bod wedi gorfod nol y meddyg ati, a bod hwnw wedi gorchymyn perffaith lonyddwch,—a bod y Capten wedi myn'd i'r Gwaith i chwilio i ddarganfyddiad Sem Llwyd. Nid oedd Enoc yn foddlon troi yn ôl ar hyn, a gofynodd i Kit hysbysu Mrs. Trefor ei fod yn ymholi am danynt; yr hyn a wnaeth, a dychwelodd yn y funyd gyda gair fod Mrs. Trefor yn rhy wael i neb gael ei gweled. Aeth Enoc yn ol yn ben isel, a bwriadai wneud ail gais yn yr hwyr. Er fod yn ddrwg iawn ganddo am waeledd Mrs. Trefor, eto yr hyn a'i gofidiai fwyaf oedd na chawsai gyfleustra i egluro ei hun i Miss Trefor. Pan oedd ar fin cychwyn i Dy'nyrardd yn yr hwyr, gan obeithio cael egwyl, pe na byddai ond dau funyd i siarad â Miss Trefor, daeth y Capten i mewn, ac ebe fe—

"Cheir mo'r melus heb y chwerw, Mr. Huws, a theimlais i erioed hyd heddyw mor wir ydyw y ddiareb. Yr oeddwn wedi bwriadu galw yma yn gynt i roi *report* i chwi am fy ymweliad â'r Gwaith, a mi fuaswn wedi gwneud hyny oni bae fod profedigaeth deuluaidd, sef afiechyd Mrs. Trefor—yr hon, fel y gwyddoch, yr wyf yn deall, sydd gryn lawer yn waeth heddyw nag ydoedd neithiwr—wedi fy rhwystro. Ac y *mae* hi yn wael iawn mewn gwirionedd, er fod y doctor yn sicrhau nad oes berygl, ar hyn o bryd, beth bynag. Mi wn, Mr. Huws, eich bod yn deall fy nheimladau ac yn cydymdeimlo â mi yn fy helynt, oblegid er fy mod yn disgwyl trwy eich gweddïau chwi ac eraill yr adferir hi,—eto, meddaf, pe gwelai Rhagluniaeth ddoeth yn dda ei chymeryd hi ymaith, byddai fy mhererindod i ar ben, gyda golwg ar y byd hwn a'i bethau, oblegid, mewn ffordd o siarad, ni fyddai genyf ddim yn y byd yn werth byw er ei fwyn. Ond at hyn yr oeddwn yn cyfeirio, a rhaid i mi fod yn fyr,—nid allaf yn yr amgylchiadau presenol aros yn hir, at hyn yr oeddwn yn cyfeirio,—y buaswn wedi galw yn gynar yn y dydd oni bae yr hyn a grybwyllais, i roi i chwi *report* am wir werth yr hyn a hysbyswyd i ni neithiwr gan Sem Llwyd. Y mae yn dyfod i hyn, Mr. Huws, ag i mi ei roi i chwi mewn byr eiriau,—y mae, fel y dywedais neithiwr, fel y ddeilen ar y dŵr

yn dangos fod y cyfandir yn ymyl, Ynddo ei hun nid ydyw yn fawr,—yn wir, nid ydyw ond bychan, ond fel y mae yn arwydd sicr o bethau mwy. Dan amgylchiadau cyffredin, syr, fe fuasai hyn yn destyn llawenydd mawr i mi, ond pan mae un wedi cyrhaedd—hyny ydyw, i un yn fy oed i, ac yn y pryder yr wyf ynddo heddyw am fywyd fy ngwraig, nid yw nac yma nac acw, oblegid os cymerir hi ymaith (ac yn y fan hon sychodd y Capten ei drwyn yn galed), byddaf wedi fy ngadael yn unig—yn hollol unig, syr."

"Yr ydych yn anghofio, Capten Trefor," ebe Enoc, "hyd yn nod pe collech Mrs. Trefor—yr hyn yr wyf yn gobeithio ac yn credu na wnewch am gryn amser—byddai genych ferch rinweddol wedi ei gadael gyda chwi."

"Na," ebe'r Capten, "nid ydwyf yn anghofio hyny, Mr. Huws, ond pa sicrwydd sydd genyf na fydd i rywun—yn wir, dyna yw y tebygolrwydd, y byddwch chwi, neu rywun tebyg i chwi, yn ei dwyn oddiarnaf, dyna ydyw ffordd y byd, dyna ydyw trefn Rhagluniaeth."

Difyr gan Enoc oedd clywed y Capten yn siarad fel hyn, a fflachiodd i'w feddwl ai nid doeth ynddo a fuasai crybwyll wrtho ei serch at y ferch, a'r awydd angerddol oedd ynddo am ei chael yn wraig. Ond cyn iddo allu ffurfio y drychfeddwl mewn geiriau, ebe'r Capten,—

"Ac yn awr, Mr. Huws, rhaid i mi ddweyd nos dawch, ac hyd nes y bydd acw ryw gyfnewidiad, mae arnaf ofn nad allaf roddi ond ychydig o sylw i Goed Madog, ac o dan yr amgylchiadau, mi wn yr esgusodwch fi," ac ymaith âg ef.

Unwaith eto yr oedd Enoc wedi colli y cyfleustra—yr oedd bob amser yn ei golli—a dechreuai gredu fod rhyw ffawd ddrwg yn ei ddilyn, a'i fod wedi ei eni dan rhyw blaned anlwcus. Credai Enoc dipyn mewn tynghed, ac yn bendrist ddigon y noson hono yr adroddodd wrtho ei hun fwy nag unwaith hen benill a welsai mewn rhyw gerdd neu gilydd,—

"Ni wiw mo'r tynu yn erbyn tynged,
Mae'n rhaid i'r blaened gael ei ffors,—
'Rwyf wedi'm tyngu er's pymthengnydd
I wasanaethu'r Brenin Siors."

Ond ychydig o gysur a allai efe dynu o'r penill; ac er iddo ym-

weled yn fynych yn y dyddiau dilynol â Thŷ'nyrardd, methodd yn lân a chael cyfleustra i siarad â Miss Trefor, ac egluro ei hun iddi. Yr oedd gwaeledd mawr a pharhaol Mrs. Trefor yn rhwystr beunyddiol i Enoc hyd yn nod gael cip ar yr un a garai mor fawr. Aeth pythefnos heibio heb un arwydd o wellhad yn ystâd iechyd Mrs. Trefor,—pythefnos oedd cyhyd a blwyddyn yn ngolwg Enoc, yn gymaint a'i fod wedi ei amddifadu yn hollol o gymdeithas ei Forfudd. Gallasai oddef hyn yn lled lew oni bae yr ymwybyddiaeth oedd ynddo bob awr o'r dydd a'r nos fod Susi yn coleddu teimladau angharedig tuag ato, a hyny wedi gwreiddio yn gwbl mewn camddealltwriaeth.

Er fod Marged yn hynod gyweithas a mwyn yn y rhagolwg ar ei phriodas, yr hon oedd i gymeryd lle yn mhen ychydig ddyddiau, nis gallai Enoc fwyta na chysgu. Canfyddai Marged fod rhywbeth mawr yn blino ei meistr, ac nis gallai ddychymygu fod dim yn rhoi cyfrif am hyn ond y ffaith ei bod hi ar fedr ei adael, a mynych y dywedodd hi wrth ei weled yn methu bwyta, —"Peidiwch a fecsio mistar, mi gewch gystal morwyn a mine o rywle." "Wn i ddim," oedd unig ateb Enoc. Yr oedd trueni Enoc mor fawr arno, fel nad allai ei ddal yn hwy, ac ysgrifenodd at Miss Trefor i grefu arni am gael ychydig funydau o ymddyddan â hi ar fater pwysig. Er ei bod wedi cymeryd arni ddigio yn enbyd wrtho, meddyliodd Miss Trefor pan dderbyniodd nodyn Enoc fod ei thad mewn rhyw drybini, ac mai ynfydrwydd a fuasai ei niweidio ef drwy ymddangos yn ystyfnig gydag Enoc. Penodd amser i Enoc gael ymweled â hi —sef prydnawn dranoeth. Wedi cael y caniatad, ni wnaeth Enoc ddim ond cyfansoddi yn ei feddwl eglurhad cyflawn ar yr hyn a ddywedasai efe wrthi bythefnos yn ol. Cyfansoddodd ddatganiad eglur, cryno, ac effeithiol o'i deimladau tuag ati, ac aeth drosto ganoedd o weithiau, nes oedd yn ei fedru yn well na'i bader. Ond pan ddaeth yr amser, a phan ddaeth efe wyneb yn wyneb â Miss Trefor yn mharlwr Ty'nyrardd,—ar ol yr hir ddirwest o bythefnos heb weled ei hwyneb hawddgar—teimlai fel dyn wedi bod yn rhy hir heb fwyd yn cael ei ddwyn at fwrdd y wledd. Canfyddodd Enoc ar darawiad fod Miss Trefor yn edrych yn deneuach a llwytach, ond ni welsai efe hi erioed mor swynol yr olwg. Glynai ei dafod yn nhaflod ei enau, ac aeth pob gair o'r hyn a barotoisai yn llwyr allan o'i feddwl. Ysgydwodd Miss Trefor law âg ef yn oer a ffurfiol, a

dywedodd wrtho am eistedd, ac wedi aros munyd mewn distawrwydd, ychwanegodd,—

"Wel, Mr. Huws, be sy gynoch chi isio'i ddeyd wrtho i?"

Wedi pesychu a chlirio ei wddf nid ychydig, ebe Enoc, gan haner tagu,—

"Mae gen i lawer o bethau isio'u dweyd wrthoch chi, bydawn i'n gwybod sut.——Y peth sy'n 'y mlino i fwya ydi y mod i'n ofni i mi'ch clwyfo drwy ddweyd fod yn dda gen i glywed fod eich tad yn dlawd, a chwi wyddoch na chefais amser na chyfleustra i esbonio yr hyn yr oeddwn yn ei feddwl wrth ddweyd felly. Mi wn ei fod yn ddwediad rhyfedd ——."

"Ewch ymlaen, Mr. Huws, achos 'does gen i ddim llawer o amser i aros," ebe Miss Trefor.

"Wel," ebe Enoc, a dechreuodd deimlo ei fod yn cael help, a "mae help i'w gael yn rhyfedd," fel y dywedai Mrs. Trefor ar amgylchiad arall.

"Wel," ebe Enoc, "mewn ystyr mi ddwedaf yr un peth eto, a gadewch i mi grefu arnoch i beidio rhedeg i ffwrdd cyn i mi orphen fy stori. Syniad cyffredinol eich cym'dogion, Miss Trefor, ydyw fod eich tad yn weddol dda arno, a dyna oedd fy syniad inau hyd yn ddiweddar iawn. Ond erbyn hyn yr wyf yn gorfod credu nad ydyw eich tad, a dweyd y lleiaf, yn gyfoethog. Mewn un ystyr, mae yn ddrwg iawn genyf, ac mewn ystyr arall, y mae'n dda iawn genyf ddeall mai dyna ydyw ei sefyllfa, fel y dywedais y noson o'r blaen. Mi wn pan ddwedais hyn o'r blaen—bythefnos yn ol—fy mod wedi eich brifo yn fawr, ac hwyrach y bydd i mi eich digio yn fwy eto pan ddwedaf pa'm yr oeddwn, ac yr ydwyf eto, yn dweyd felly. Ac nid ydwyf heb ofni, Miss Trefor, pan ddwedaf fy rheswm, y byddwch wedi digio wrthyf am byth ——."

"Ewch ymlaen, Mr. Huws, 'does neb efo mam ond Kit, a mi fydd yn galw am danaf yn union," ebe Miss Trefor.

"Wel," ebe Enoc, "byddai yn anodd genyf gredu nad ydach yn gwybod fy meddwl cyn i mi ei ddweyd. 'Does dim posib nad ydach wedi deall ar fy ymddygiad er's llawer o amser bellach fy mod yn coleddu rhyw deimlad tuag atoch nad ydyw cyfeillgarwch yn enw iawn arno. Mi wn ei fod yn rhyfyg ynof, ond 'dallai ddim wrtho—yr wyf yn eich caru, Miss Trefor, ac yn eich caru mor fawr, fel nad allaf ddych'mygu fod yn bosibl caru yn fwy ——."

Arosodd Enoc am funyd gan ddisgwyl iddi hi ddweyd rhywbeth, ond ni ddywedodd air—yn unig edrychai yn dawel a digyffro yn ei wyneb. Ac ychwanegai Enoc—dipyn yn fwy hyderus—

"Dyna'r unig reswm oedd genyf dros ddweyd fod yn dda genyf glywed am sefyllfa anghenus eich tad. Pe buasech yn gyfoethog—a gwyn fyd na fuasech—gallasech feddwl fod genyf ryw amcanion hunanol, ond, yn wir, y chi eich hun yr wyf yn ei garu, ac nid dim sydd o'ch cwmpas. Mae'n ddrwg genyf sôn am beth fel hyn pan mae eich mam mor wael, ond maddeuwch i mi—fedrwn i ddim dal ddim yn hwy. Rhowch i mi un gair—dim ond un gair o galondid, a mi fyddaf yn ddyn perffaith ddedwydd. Ond os gwrthodwch fi—wel, y mae arnaf ofn y byddaf yn ddyn gwallgof."

"Mr. Huws," ebe Susi, a synai Enoc sut y gallai hi siarad mor hunanfeddianol, "mae'n ddrwg gan y nghalon i glywed eich stori—coeliwch fi. Mae'n ddrwg iawn gen i'ch clywed chi'n siarad fel yna. 'Rwyf yn cofio'r amser—pan oeddwn yn hoeden wirion ddisynwyr—pryd y byddwn yn eich diystyru ac yn eich gwawdio yn fy nghalon. Maddeuwch i mi y penwendid hwnw—nid oeddwn yn eich nabod yr adeg hono. Wedi i mi'ch nabod yn iawn, a gweled eich gonestrwydd—eich *honour*—eich caredigrwydd diben-draw—yr wyf wedi dysgu eich parchu, a'ch parchu yn fawr. Mi wn er's talwm fod pob gair a ddwedwch yn wir—neu fe ddylwn ddweyd eich bod bob amser yn ceisio dweyd y gwir. Yr ydach chi bob amser yn cario eich calon ar eich llawes—mae'n amhosibl peidio gweled hyny. 'Rwyf dan fil a mwy o ddyled i chi. 'Rydach chi wedi llenwi llawer ar y mhen gwâg i—ydach yn wir. 'Rydach chi wedi gneud i mi gredu fod y fath beth yn bod a dyn gonest, *upright*, a da. 'Dydw i'n gweled dim ond un gwendid ynoch chi—a hwnw ydi—y'ch bod chi wedi bod mor ffol a rhoi eich serch ar hoeden ynfyd fel fi. A gadewch i mi geisio bod yr un fath a chi mewn un peth, Mr. Huws, sef bod yn onest a diragrith. Mi wyddwn er's llawer o amser eich bod yn meddwl rhywbeth am danaf—fe fase raid i mi fod can ddalled a'r post i beidio gweled hyny. A mi a rois i chi gyfleustra ddegau o weithiau i ddweyd eich meddwl. Ac er mwyn beth? Er mwyn i mi gael dweyd hyn wrthoch chi, Mr. Huws, nad ydio o un dyben i chi feddwl dim am dana i yn y ffordd yna—ddyben yn y byd."

"Miss Trefor," ebe Enoc, a'i galon yn ei wddf—"dydach chi ddim yn ddifrifol wrth ddweyd fel yna?"

"Mor ddifrifol," ebe hi, "a bydawn yn y farn, a mae'n ddrwg iawn gen i orfod dweyd fel yna, Mr. Huws, achos mi wn —fydde fo ddim ond rhagrith yno i ddweyd fel arall—fod hyn yn boen mawr i chi. Ond y mae gwrando ar eich cais, Mr. Huws, yn anmhosibl—yn anmhosibl."

"Pa'm? rhowch i mi reswm p'am?" ebe Enoc yn drist.

"Fedra i ddim deyd wrthoch chi pa'm, Mr. Huws," ebe Susi. "A chofiwch, dydi'r boen i gyd ddim o'ch ochr chi. Yr oedd gwybod—ac yr oedd yn anmhosibl i mi beidio gwybod—eich bod wedi rhoi eich bryd arnaf yn fy mhoeni yn dost. Nid, cofiwch, am nad ydwyf yn ei ystyried yn *compliment* mawr. Mae i ferch gael ei hoffi—gael ei charu gan unrhyw ddyn—bydded ef saled ag y bo—yn *compliment* iddi, a dylai ei werthfawrogi. Ond pan mae un fel fi—ïe, fel fi—yr hon yr ydach yn ei nabod yn dda—yn cael ei charu gan un fel chi, Mr. Huws,—dyn, fel y dwedais o'r blaen, y mae genyf y parch mwyaf iddo—wel, fe ddylai hono deimlo'n falch—ac *yr wyf* yn teimlo'n falch, a chofiwch na chaiff yr un glust byth—yn dragywydd—glywed fod Susan Trefor wedi gwrthod Enoc Huws."

"Na chaiff, mi obeithiaf, achos fe fydd i Susan Trefor, ryw ddiwrnod, dderbyn cynygiad Enoc Huws, ac wed'yn ni wnai pobl ei chredu pe dwedai hi hyny," ebe Enoc.

"Byth, Mr. Huws. A gadewch i mi grefu arnoch i roi'r meddwl heibio yn hollol ac am byth, a pheidio sôn am dano eto. Dowch yma bob dydd—'does neb ag y mae mor dda gen i ei wel'd a chi. Mae mam yn meddwl y byd o honoch, a mae nhad, mae arnaf ofn, yn byw arnoch, ond Mr. Huws bach, peidiwch byth a sôn am beth fel hyn eto," ebe Susan.

"P'am? deydwch i mi y rheswm p'am?" ebe Enoc.

"Wel," ebe Susan, wedi petruso tipyn, "yr yden ni yn rhy debyg i'n gilydd. Yr yden ni wedi siarad cymaint â'n gilydd —wedi cyfnewid meddyliau, a hyny am gymaint o amser, fel y byddaf yn dychrynu weithiau wrth geisio gwneud allan pa un ai Susan Trefor ai Enoc Huws ydw i. 'Ryden ni yn rhy debyg i'n gilydd i fod yn ŵr a gwraig. Nid dyna fy *idea* i am ŵr a gwraig—fy *idea* i ydyw y dylent fod yn hollol wahanol i'w gilydd, achos mi wn bydae gen i ŵr tebyg i mi fy hun, yr awn yn y man i'w gashau fel y byddaf yn cashau fy hun yn aml."

Gwenodd Enoc yn foddhaus, ac ebe fe—

"Mae'n dda genyf ddeall, Miss Trefor, nad ydych yn fy nghashau *yn awr*, a mi fyddaf yn hollol foddlon i gael fy nghashau rhyw dro eto fel rhan o honoch chi'ch hun—mi gymeraf y *risk*."

"Mae yn fwy o *risk* nag yr ydach chi wedi ddychmygu, Mr. Huws,—caech achos i edifarhau am eich hoes. A 'rwan, rhaid i mi fyn'd, a pheidiwch a gwario munyd i feddwl am y peth eto, Mr. Huws, yr wyf yn crefu arnoch," ebe hi.

"Yna," ebe Enoc yn ddwys, "rhaid i mi beidio byw—mae peidio meddwl am danoch chi, Miss Trefor, yr un peth i mi a myn'd allan o fôd. A chyn i chi fyn'd—mae'n ddrwg gen i'ch cadw cyd—dwedwch y cymerwch wythnos, bythefnos, ïe, fis, i ystyried y peth, a pheidiwch dweyd fod y peth yn anmhosibl?"

"Yr wyf wedi ystyried y peth yn bwyllog, Mr. Huws, cyn i chi dd'od âg ef ymlaen. Dydw i ddim yn cellwair â chi er mwyn eich tormentio—mae gen i ormod o barch i chi i wneud hyny. Yr wyf yn dweyd fy meddwl yn onest, a wneiff dim beri i mi newid fy meddwl. Cewch wel'd rhyw ddiwrnod mai dyna'r peth gore i chi a mine. Gobeithio y cawn bob amser fod yn gyfeillion, ac yn gyfeillion mawr—ond pobpeth dros ben hyny—wel, yr ydach chi'n dallt fy meddwl, Mr. Huws. 'Rwyf yn awyddus i achosi can lleied o boen i chi ag sydd bosibl—achos yr hyn fydd yn eich poeni chi fydd yn siwr o fy mhoeni inau."

"Wel," ebe Enoc, "os dyna ydyw eich penderfyniad, gellwch fod yn sicr y byddwch mewn poen tra fyddwch byw—neu, yn hytrach, tra fydda i byw, oblegid mi wn na cha i bellach orphwysdra na dydd na nos."

"'Rydach chi'n camgymeryd, Mr. Huws," ebe Susan. "Ar ol i ni ddeall ein gilydd, fe aiff hyn drosodd fel pobpeth arall—dydi cariad na chas y gore o honom ond lletywr dros noswaith, a fe ddaw rhywbeth arall yn ei dro i gymeryd ein bryd, ac felly o hyd, ac felly o hyd, nes yr awn ni ein hunain i anghof."

"Ddwedech chi ddim fel yna, Miss Trefor," ebe Enoc yn athrist iawn, "pe gwyddech *fel* yr wyf yn eich caru. Duw a ŵyr mae chi yw fy mhobpeth, ac nad ydw i'n rhoi pris ar ddim daearol ar wahan i chi. Ond a wnewch chi ateb un cwestiwn i mi cyn i chi fyn'd?"

"Wn i ddim wir, Mr. Huws, achos mi fyddaf yn gofyn llawer o gwestiynau i mi fy hun, heb fedru eu hateb," ebe hi.

"Ond mi fedrwch ateb y cwestiwn wyf am ei ofyn," ebe Enoc.

"Mae ambell gwestiwn nad ydyw'n ddoeth ei ateb, ac na ddylid ei ateb," ebe hi.

"Cewch farnu drosoch eich hun am hyny," ebe Enoc. "Goddefwch i mi ofyn i chi—A ydach wedi rhoi eich serch ar rywun arall?"

Am foment, ac am y waith gyntaf yn ystod yr ymddyddan, ymddangosai Susan, yn gynhyrfus, ac fel pe buasai wedi colli tipyn ar ei hunan-feddiant, ond ebe hi yn union—

"Ar bwy, Mr. Huws, y buaswn i yn rhoi fy serch? Chwi wyddoch nad oes un dyn yn d'od yn agos i Dy'nyrardd ond y chi."

"Dydach chi ddim yn ateb fy nghwestiwn, Miss Trefor," ebe Enoc.

"Wel," ebe hi, gan fesur ei geiriau yn wyliadwrus, "er's rhai blynyddoedd dydw i ddim wedi cyfarfod âg un dyn i'w edmygu yn fwy na chi eich hun, Mr. Huws. Naiff nyna eich boddloni?"

"Na naiff," ebe Enoc. "Yr wyf yn bur hŷf, mi wnaf addef, ond dydach chi ddim wedi ateb fy nghwestiwn."

"'Rwyf wedi ei ateb ore y gallwn," ebe hi.

"A 'does gynoch chi ddim gwell a dim mwy cysurus i'w ddweyd wrthyf cyn i chi fyn'd?" ebe Enoc gan godi ar ei draed, a lleithiodd ei lygaid yn erbyn ei waethaf.

"Dim, Mr. Huws bach," ebe hi, ac nid oedd ei llygaid hithau yn neillduol o sychion. Ychwanegodd, gan estyn ei llaw i ffarwelio âg ef,—"Brysiwch yma eto. Pan ddaw mam dipyn yn well, mi fydd yn dda gan ei chalon eich gweled."

Ac felly y gadawodd hi Enoc gan gyfeirio i ystafell ei mam. Ar dop y grisiau safodd yn sydyn, a throdd i mewn i'w hystafell ei hun, ac edrychodd i'r drych—y peth cyntaf a wna pob merch brydferth wrth fyn'd i ystafell wely. Yna taflodd ei hun i gader, ac wylodd yn hidl. Yn mhen dau funyd neidiodd i fynu ac ymolchodd—heb anghofio twtio ei gwallt, a phe buasai rhywun yn ei hymyl, gallasai ei chlywed yn sibrwd—

"*Poor fellow!* mi wyddwn o'r gore mai fel yna yr oedd hi arno. Mae o'n ddyn da—da iawn—a mae o'n myn'd yn well o

hyd wrth ei nabod. Mae'n rhaid i mi addef fy mod yn ei leicio'n well bob dydd—mae o'n ddyn *upright* ac yn *honourable*, a dim *humbug* o'i gwmpas. A bydaswn i'n siwr—yn reit siwr—na ddoe —— wel, mi faswn yn rhoi mreichiau am 'i wddf o, ac yn i gusanu, achos y mae'n rhaid i mi addef y gwir—yr ydw i'n reit ffond o hono fo. Na, faswn i ddim chwaith! Yr *idea!* Byth yn dragywydd! Er, wn i ddim be ddaw o hono i. Mi fydd raid i mi enill y nhamed rywsut. Ond mi ddalia at fy llw, a mi gymra fy siawns. Ac eto, hwyrach y mod i'n sefyll yn fy ngole fy hun—*sentiment* ydi'r cwbl. Mor falch fase ambell un o'r cynygiad! O! bobl anwyl! y fath *row* sy'n y byd! A fyddwn ni yma fawr! Sut mae mam, druan, erbyn hyn?"

Ac i ystafell ei mam yr aeth can llawened a'r gôg, fel pe na buasai dim wedi digwydd.

---

## PENNOD XL.

### LLW ENOC HUWS.

NI fuasai Enoc erioed (ond cof pob diwaethaf) mor druenus ei feddwl. Yn ei holl "brofedigaethau," yr oedd efe, er's llawer o amser bellach, wedi arfer cael rhyw gymaint o ddedwyddwch wrth freuddwydio am dano ei hun a Miss Trefor fel gŵr a gwraig. Yn wir, yr oedd y breuddwyd mor *real* iddo weithiau, ac yn rhychwantu mor bell i'r dyfodol, nes y byddai yn gweled ei hun, â'i wallt yn dechreu britho, yn dad i bedwar o blant—dau fachgen a dwy eneth—gydag enwau a phrydwedd pob un o honynt yr oedd efe yn hynod gyfarwydd, ac yn neillduol o hoff o'r ieuengaf! Ond erbyn hyn yr oedd ei freuddwyd wedi diflanu fel niwl y bore. Nid yn hollol felly chwaith, oblegid cyfaddefai wrtho ei hun, ei fod wedi tori ffigwr truenus o wael wrth gynyg ei hun i Miss Trefor, a thybiai, ambell foment, pe buasai wedi gallu bod yn ddigon hunan-feddianol i siarad â hi fel yr oedd efe wedi parotoi, y gallasai y canlyniad fod yn

wahanol. Ac eto ni allai efe anghofio mor benderfynol yr oedd hi wedi gwrthod ei gynygiad. Ar yr un pryd cofiai Enoc mor hynaws a charedig yr oedd hi hyd yn nod wrth wrthod ei gais. Yn wir, yr oedd hi wedi cydnabod ei bod yn ei barchu fwyfwy fel yr oedd ei hadnabyddiaeth o hono yn cynyddu, a phwy a wyddai, fel y deuai hi i'w adnabod yn well eto, na ddeuai yn y man i'w garu yn angherddol? Meddyliau fel hyn a lanwent galon Enoc, druan, ac, yn wir, ei ystymog hefyd, canys ni fwytâi efe ond y nesaf peth i ddim, a mynych y dwedodd Marged mai gwastraff oedd parotoi pryd o fwyd, ac nad allai robin goch fyw ar yr hyn a fwytâi Enoc. Bychan y gwyddai hi mai bara angylion oedd ei ymborth ef y dyddiau hyny!

Nid oedd Enoc goegfalch na chymhengar, nac mewn unrhyw fodd yn un oedd yn coleddu syniadau uchel am dano ei hun—yr oedd ei dueddfryd ffordd arall—yn feius felly. Ond bu ei aflwyddiant gyda Miss Trefor yn achlysur i gynhyrfu gwaelodion ei natur. Ac yr oedd hyny yn ddigon naturiol, oblegid nid oes dim a bâr i ddyn deimlo fel pe byddai yn cael ei flingo yn fyw, a chael ei wrthod gan ferch. Ac, o drugaredd, anfynych y cymer y fath beth le, canys y mae dynion, fel rheol, yn gall, ac fel y dyn da pan yn cyfansoddi y *Rhodd Mam* yn gwybod yr ateb cyn gofyn y cwestiwn. A dyna lle camgymerodd Enoc—dylasai wybod yr ateb cyn gofyn y cwestiwn. Mae tipyn o hunan-barch yn y dyn mwyaf gostyngedig ac iselfryd, ac nid oes eisiau ond sathru ei droed i gael hyny allan. Mae sathru ar ei gorn yn gwneud iddo gau ei ddwrn y munyd hwnw. Ychydig o ddynion, yr wyf yn meddwl, oeddynt wedi meddwl llai o honynt eu hunain, ac am danynt eu hunain, nag Enoc Huws, ond bu i waith Miss Trefor yn ei wrthod fel darpar gŵr, yn foddion iddo wario tipyn o amser i fesur a phwyso ei hunan. Ac wedi iddo wneud hyn, y casgliad y daeth iddo oedd—ei fod yn well dyn nag yr oedd wedi tybied ei fod. Barnai Enoc yn gydwybodol nad ydoedd yn ffwl—nad ydoedd, o ran ymddangosiad, yn ddirmygedig—ei fod, mewn ystyr fydol, yn weddol gyfforddus,—o ran safle yn y dref, yn symol barchus—ac na fuasai raid i Miss Trefor wrth dderbyn ei gynygiad "ddringo" i lawr. Penderfynodd—ac yr oedd y penderfyniad hwn yn beth mawr iddo ef—syrthio ar ei anrhydedd, a gwnaeth lw yn ei fynwes nad äi byth mwyach i Dy'nyrardd heb ei ofyn. Nid oedd y llw yn golygu—oblegid yr oedd efe yn gofalu am gael

perffaith ddealltwriaeth rhyngddo ef ac ef ei hun—na fyddai iddo ef gynyg ei hun eilwaith i Miss Trefor ryw dro,—yn wir, nid oedd efe eto yn ddiobaith o lwyddo yn ei gais yn y man. Nid oedd y llw ond math o deyrnged dyledus i'w urddas clwyfedig. Ac wrth roddi y llw mewn gweithrediad, teimlai ei fod yn tybio aberth mawr ar ei ran, a theimlai rhywun arall hefyd rywbeth oddiwrtho, ond ni wyddai ef mo hyny. Cadwodd Enoc ei lw am—wel, cawn weled am ba hyd. Rhaid cydnabod, er mai anfynych yr elai Enoc dros riniog ei dŷ y pryd hyny, fod ei ysbryd yn fwy presenol nag erioed yn Nhy'nyrardd. Syrthiodd yn naturiol i'w hen arferiad i fyned, ar ol swper, i'r offis, gan gymeryd arno wrth Marged fod ganddo "fusnes" i'w wneud. Yno yr arosai am oriau bob nos, a'r unig "fusnes" a wnai oedd ysmygu yn ddibaid, gan bwysleisio â'i ben, a phoeri, fel cynt, yn *sarcastic* i lygad y tân. Pe ysgrifenid pob ymson a hunan-ymddyddan gymerodd le yn yr offis y nosweithiau hyny, gwnaethent gyfrol drwchus.

I dori tipyn ar unrhywiaeth ei fyfyrdodau, daeth priodas Marged gyda Tom Solet ar warthaf Enoc heb iddo ddisgwyl. Mae'n wir fod Marged wedi crybwyll fwy nag unwaith am yr amgylchiad agosäol—megis drwy ei adgofio ei fod wedi addaw rhoi'r brecwest, ac wed'yn drwy ofyn iddo beth a gai hi barotoi ar gyfer y brecwest, a phwy a pha nifer a gai hi eu gwahodd i ddyfod i gyfranogi o'r wledd. Rhoddodd Enoc *carte blanche* i wneud fel y mynai, ac i wahodd y neb a fynai, ac ni feddyliodd fwy am y peth. Mor absenol ei feddwl oedd efe fel na ddarfu lwyr sylweddoli y ffaith fod Marged yn myn'd i'w adael, nes y darfu i'r olaf, y prydnawn o flaen y briodas, ei wahodd i'r gegin gefn i weled â'i lygaid ei hun y darpariaethau. Yno yr oedd cwbl o gywion, *ham* gartre, tafod eidion, a lwmp o bîff wedi eu coginio ac wedi oeri—y cywion wedi eu gwisgo â phersli, a mwnwgl yr *ham* wedi ei haddurno a phapur gwŷn a phinc yn ddestlus ddigon. Ni ddychymygasai Enoc y buasai Marged yn cymeryd mantais ar y caniatad a roesai efe iddi i fyn'd "i mewn" am bethau fel hyn. Ond er y gwyddai fod y cwbl ar ei gôst ef ei hun, nid oedd ei galon yn gwarafun, oblegid credai Enoc fod yr hyn oedd yn werth ei wneud o gwbl, yn werth ei wneud yn iawn. Pan welodd Enoc y danteithion, gwenodd—y wên gyntaf fu ar ei ruddiau er's dyddiau rai, ac ebe fe—

"Pwy fu'n cwcio i chi, Marged?"

"Y fi fy hun, debyg," ebe Marged. Ac ebe Enoc yn ei frest—"Lle mae ewyllys y mae gallu—welais i 'rioed moni'n troi pethau allan fel hyn o'r blaen," ac ychwanegodd, gan fwriadu i'r gair fod dipyn yn frathlym—

"'Rydach chi wedi anghofio un peth pwysig, Marged,—lle mae'r *wedding cake?*"

"Na, nid anghofio ddaru mi, mistar, ond doeddwn i ddim yn leicio cymyd hyfdra i ordro gormod o bethe, a ddyliwn fod hi'n rhy hwyr yrwan?" ebe Marged.

"Mae'n debyg ei bod—rhaid i ni dreio *managio* heb yr un," ebe Enoc, ac ychwanegodd—"Pwy sy'n d'od i fwyta'r pethe 'ma i gyd, Marged?"

"Wel," ebe Marged, "dene fi, a Tom, a chithe, a Betsi Pwel, a Robert Jones, a chithe, a'r dynion yn siop, ddyliwn, a fine. O! mi fydd yma lot o honom ni, a dene Tom hefyd."

"Fe ddylech," ebe Enoc, "ar bob cyfrif, ofyn i Mr. Brown, y person, dd'od yma, a Hugh, y clochydd, mae o wedi *claddu* llawer yn ei oes, a Jones, y plismon, ac, yn enwedig, Didymus, y *reporter*, ne' chewch chi ddim *report* o'r briodas yn y papyr newydd."

"Mi faswn yn leicio'n arw i'r hanes fod yn y papyr newydd, ond fu'm i 'rioed yn siarad efo Didymus," ebe Marged.

"Wel," ebe Enoc, "mi ofyna *i* i Didymus a Jones, y plismon, a gofynwch chithe i'r lleill, ac oni bae ei bod wedi myned yn rhy ddiweddar, mi f'aswn yn gwàdd *Chairman* y *Local Board* a *Lord Lieutenant of the County*. Mae Lord Mostyn a Syr Watcyn ar y cyfandir, neu fase fo *harm* yn y byd gofyn iddyn nhwthe!"

"Ffasiwn biti!" ebe Marged.

"'Does mo'r help," ebe Enoc, gyda gwyneb sad. 'Doedd o gamp yn y byd iddo gadw gwyneb sad y dyddiau hyny.

"'Rydach chi'n dallt, mistar," ebe Marged, pan oedd Enoc yn cychwyn ymaith, "mai chi sydd i fy rhoi i?"

"Bedach chi'n ddeyd, Marged?" ebe Enoc, ac yr oedd ei wyneb yn *sad* mewn gwirionedd erbyn hyn.

"Mai *chi* sydd i fy rhoi i," ebe Marged.

"'Dydw i ddim yn y'ch dallt chi," ebe Enoc.

"Wel," ebe Marged, "'roedd Mr. Brown, y person, yn deyd y bydde raid i mi gael rhwfun i fy rhoi i, a fedrwn i feddwl am

neb blaw chi, mistar, a rodd Mr. Brown yn deyd y gnae chi'n iawn—'doedd isio neb gwell."

"Wn i ddim am beth felly, a mi fydde'n well gen i i rwfun arall neud y gwaith, Marged," ebe Enoc.

"Mae hi'n rhy hwyr i ofyn i neb arall, mistar," ebe Marged.

"Pa amser yfory y mae y briodas i gymeryd lle?" gofynai Enoc.

"Gynted y caniff y gloch wyth," ebe Marged.

Petrusodd Enoc am funyd, a meddyliodd na fyddai neb o gwmpas yr adeg hono o'r dydd, a dywedodd,—

"Wel, mae'n debyg y bydd raid i mi dreio gneud y *job*, ond cofiwch chi, Marged, fy ngalw yn ddigon bore."

"Trystiwch chi fi am hyny," ebe Marged.

Gan na welsai Enoc erioed briodas yn Eglwys Loegr, ni wyddai efe pa ddyledswyddau oedd yn nglyn â'r "rhoi," ac eto yr oedd rhyw argraff ar ei feddwl fod "rhoi i briodas" yn ymadrodd Ysgrythyrol. Dechreuodd deimlo yn ofnus ac anghyfforddus; a rhag bod yn hurt, meddyliodd mai y peth goreu iddo, ar ol cau y siop, a fyddai rhedeg can belled a Mr. Brown, y person, i gael gwbod natur y dyledswyddau, yr hyn a wnaeth. Yr oedd Enoc a'r hen berson rhadlon ar delerau hynod gyfeillgar, a chafodd dderbyniad croesawgar, ac esmwythad i'w feddwl, pan eglurodd Mr. Brown na ddisgwylid iddo wneud dim ond dweyd, "y fi," pan ofynai efe pwy oedd yn "rhoi" y briodasferch. "A 'rwan Mr. Huws," ebe'r hen berson, yn llon'd ei groen, a hapus yr olwg,—ac yr oedd efe, erbyn hyn, wedi llwyr anghofio y wers ofnadwy a gawsai gan fam Rhys Lewis, er nad oedd ei Gymraeg ronyn gwell—"'rwan Mr. Huws," ebe fe, "nid yn amal ydach chi'n dwad yma—newch chi cymyd glasied o gwin?"

"Dim, diolch i chwi, Mr. Brown, fydda i ddim yn arfer efo peth felly,—'rydw i'n ddirwestwr," ebe Enoc.

"Wyddoch chi pe, Mr. Huws, 'rydach chi, Calvins, yn pobol smala iawn—'rydach chi'n gwaeth na Pabyddion. 'Rydach chi'n meddwl ych hun yn rhy duwiol i cymyd y pethe da y ma y Brenin Mawr wedi roi i'w creaduried gwael, ac yn meddwl y cewch chi myn'd i'r nefodd o blaen pobol erill am hyny. Ond credwch chi fi, Mr. Huws, cewch chi ddim. Cewch chi ddim myn'd yno cam gynt am' peidio cymyd pethe da Duw—cewch chi gweld. A 'rydach chi wastad—fel y deydes i llawer gwaith

wrth Abel Huws—Cristion da odd o—â'ch pene yn y plu 'run fath a giar yn *moultio*. Ma digon buan i ni *moultio* pan ma raid i ni gadel y pabell hon. A ma o'n pech od hefyd i beidio cymyd y pethe gore medrwch chi cael mewn bywyd—a tynu gwyneb hir 'run fath a dae'ch trwyn chi ar y ma'n llifo pob amser. Ma o'n dangos ysbryd di-diolch a pechadurus, a cewch chi gwel'd rhw diwrnod, Mr. Huws, ma fi sy'n *right*."

"'Rydw i bron a chredu'n barod mai chi sy'n *right*, Mr. Brown, achos y mae 'nhrwyn i wedi bod ddigon o hyd ar y maen llifo—byd a'i gŵyr," ebe Enoc.

"Mi gwyddwn hyny," ebe Mr. Brown, "ond gadewch i mi gwel'd—ond gwaeth i mi tewi—mi gwn ma Mr. Simon fydd yn ych priodi chi, ond gwnaiff hyny dim ods. Pryd y ma o i dwad i ffwrdd, Mr. Huws? Ma Miss Trefor yn geneth propor iawn, ac yn tebyg o gneud gwraig da. Pryd ma o i bod, Mr. Huws?"

"Y nefoedd fawr a ŵyr!" ebe Enoc gan godi i ymadael.

"Dyma chi, Mr. Huws," ebe Mr. Brown wrth ysgwyd llaw âg Enoc, "os gynoch chi dim cwilydd? Tyma fi wedi priodi Tom Solet tair cwaith, a myn'd i priodi o yfory y pedwar cwaith. Ma o'n cwilydd i chi! Cofiwch, Mr. Huws, os na gneiff Mr. Simon priodi chi, mi gna i, a hyny am dim—mi cowntia fo'n onar, a mi gna i chi'n digon saff."

Nid oes dim yn well i ddyn mewn profedigaeth ac iselder ysbryd nag ymgymysgu â phobl. Teimlai Enoc—ar ol bod yn pendroni mewn unigrwydd am ddyddiau a nosweithiau—yn ysgafnach a hoewach ei ysbryd wedi bod yn y Rheithordy a chael ymddyddan â Mr. Brown. Er mor anobeithiol oedd Enoc, yr oedd gwaith Mr. Brown yn cyfeirio at Miss Trefor fel ei ddarpar gwraig, heb os nac oni bae, yn falm i'w glwyfau. "Pa'm y mae pawb yn siarad fel hyn, os nad yw y peth i fod?" meddai Enoc ynddo ei hun. Erbyn hyn, dechreuai deimlo dipyn o ddyddordeb yn mhriodas Marged, ac nid oedd yn ddrwg ganddo y byddai raid iddo gymeryd rhyw fath o ran ynddi—rhoddai hyn dipyn o brofiad iddo erbyn y deuai ei dro yntau. Cyfeiriodd ei gamrau tua phreswylfod Didymus i'w wahodd i'r brecwast, ond arbedwyd y siwrnai iddo. Ar ei ffordd tarawodd ar Jones, y plismon. Yr oedd Jones—yn wahanol i'w frodyr—yn dod i'r golwg mewn rhyw fodd nad allai Enoc roi cyfrif am dano bob amser pan fyddai ei eisiau, ac er nad oedd efe yn neillduol hoff o hono, eto teimlai Enoc ei fod dan gymaint

o rwymau iddo, ac fod a wnelo Jones gymaint â'i dynged, fel nad allai lai na'i edmygu a'i barchu

"Holo!" ebe Jones, "gŵr go ddiarth, onide? Welais i monoch chi er's gwn i pryd, Mr. Huws. Deydwch i mi, ydach chi wedi peidio myn'd i Dy'nyrardd?"

"Fum i ddim yno er's rhai dyddiau," ebe Enoc.

"Ah!" ebe Jones, "mi wyddwn mai felly y bydde hi. Oeddwn i ddim yn *right?* Mae'n dda gen i bod chi'n dallt y cwbl erbyn hyn. Ond y mae'r hen wraig yn wael iawn, mi glywais?"

"Glywsoch chi rywbeth heddyw?" gofynai Enoc.

"Do, Mr. Huws,—mae hi'n llawer gwaelach. Mi fydd yno *smash* rhyw ddiwrnod, ond y mae'n dda gen i bod chi'n dallt pethau yn o lew," ebe Jones.

"Fyddwch chi'n rhydd yn y bore? ddowch chi acw i *wedding breakfast* Marged? Mae hi wedi parotoi toraeth o ymborth, ac fe fydde'n resyn iddo beidio cael ei fwyta. Fedrwch chi ddwad?" gofynai Enoc.

"Medra, neno dyn, a mi fydd yn dda gen i gael dwad," ebe Jones. "A mae'r hen Fari Magdalen yn y'ch gadel chi ynte? Y fath waredigaeth!"

"Ydi," ebe Enoc, a mi leiciwn bydae pobpeth drosodd. Ond deydwch i mi, welsoch chi mo Didymus heno? Mi faswn yn leicio iddo yntau fod acw."

"Gadewch hyny i mi, Mr. Huws, mi gwelaf o toc," ebe Jones.

"*Thank you*, a chofiwch fod acw erbyn yr amser," ebe Enoc, yn llawn pryder a allai efe ei hun godi yn ddigon bore i "roi" Marged.

## PENNOD XLI.

### PRIODI A FYNANT.

NI allai Enoc yn ei fyw lâs gysgu y noswaith o flaen priodas Marged,—yn wir, nid oedd efe, er y prydnawn y buasai ddiweddaf yn Nhy'nyrardd—yn alluog i gysgu ond ychydig. Troai a throsai yn ei wely, nes y byddai agos yn bryd codi, ac yna pan gurai Marged ddrws ei ystafell wely saith o'r gloch y boreu—yr hyn a wnai hi bob boreu trwy'r flwyddyn—teimlai Enoc yn mron marw eisiau cysgu. Y noswaith cyn priodas Marged clywodd Enoc y cloc yn taro un, dau, tri, pedwar, pump, ac yntau heb gysgu winc,—ac yna cysgodd fel careg. Am chwarter i chwech, curodd Marged ddrws ei ystafell yn galed. Atebodd Enoc yn ei gwsg, ond mewn gwirionedd ni wyddai ef fwy am ei churo na phe buasai hi yn curo ymyl y lleuad. Arosodd Marged i'r cloc daro chwech, ac aeth at y drws a gofynodd yn foesgar,—"Ydach chi'n codi, mistar?" Dim ateb. Curodd Marged drachefn, ond nid oedd neb yn ystyried. Dychrynodd yn enbyd, a meddyliodd fod ei meistr wedi marw, a chychwynodd Marged i ymofyn help, ond trodd yn ei hol, a gosododd ei chlust ar rigol y drws. Mor ryfedd! nid rhyw lawer o amser cyn hyny yr oedd Enoc yn gwrando yn ddyfal wrth yr un rhigol am chwyrniadau Marged, a dyma hithau yrwan, lawn mor bryderus, yn gwrando am chwyrniadau Enoc! Y fath bwys sydd mewn bod yn chwyrnwr! A'r fath ollyngdod a gafodd Marged pan glywodd hi Enoc yn chwyrnu yn drwm a chyson, a'r fath nerth a roddodd hyny yn ei braich i guro'r drws nes oedd yn mron oddiar ei golynau! Pe curasai hi yn gyffelyb ar gauad arch dyn mae yn amheus ai ni ddeffroisai y marw.

"Holo! Be 'dir mater?" ebe Enoc, a neidiodd i'r llawr gan feddwl fod y tŷ yn d'od i lawr am ei ben.

"Os na feindiwch chi, mistar, 'rydach chi'n bownd o fod ar ol," ebe Marged.

"*All right*, Marged," ebe Enoc, a dechreuodd sylweddoli lle

yr oedd efe a beth oedd i gymeryd lle y bore hwnw. Edrychodd ar ei *watch*—pum' munyd wedi chwech—yr oedd digon o amser, ac eisteddodd ar ymyl y gwely—dim ond am funyd—cyn dechreu ymwisgo. Cauodd ei lygaid—dim ond am funyd—yna ymddangosai fel pe buasai yn ceisio taro rhywbeth efo'i ben yr ochr chwith, ac wedi methu ceisiai ei daro yr ochr dde, ond i ddim pwrpas. Newidiodd ei *tactics*, ac fel bwch gafr, ceisiodd daro y rhywbeth efo'i dalcen, a bu agos iddo syrthio, yr hyn a barodd iddo agor ei lygaid i'w cau drachefn, ac i fyned trwy yr un ystumiau laweroedd o weithiau, nes y clywodd efe Marged yn dyfod i fynu'r grisiau yn drystiog, ac yn dweyd—"Wel, yn eno'r anwyl dirion!" a phesychodd Enoc yn uchel fel pe buasai yn haner tagu, a throdd Marged yn ei hol. Yr oedd efe erbyn hyn wedi cwbl ddeffro, ac er mwyn argyhoeddi Marged o'r ffaith, gwnai gymaint o drwst ag a fedrai, megys drwy godi cauad ei focs dillad a gadael iddo syrthio yn sydyn, a churo y *jug* dŵr yn y ddysgl 'molchi, fel pe buasai yn gwerthu potiau. Edrychodd ar ei *watch*—deng munyd wedi saith! Lle yn y byd mawr yr oedd efe wedi bod er pum' munyd wedi chwech? Prin y gallai gredu ei lygaid. Rhaid ei fod wedi cysgu, oblegid o ran ei deimlad nid oedd wedi eistedd ar ymyl y gwely ond am ryw ddau funyd. Cydymdeimlai Enoc efo Marged yn fawr erbyn hyn, canys gwelai ei fod wedi achosi cryn bryder iddi, ac er mwyn ei llwyr argyhoeddi ei fod yn hollol effro, ac yn mron yn barod i fyn'd i lawr, aeth Enoc allan o'i ffordd a chanodd yn uchel, er nad oedd canu ar ei galon. Yn mhen ychydig funydau yr oedd efe i lawr yn y gegin, ac wedi ymwisgo fel pin mewn papyr, yr hyn a roddodd derfyn ar bryder Marged, yr hon, gyda Betsi Pwel, oeddynt yn barod er's meityn i fyn'd i'r Eglwys. Ebe Marged,—

"Wel, mistar, 'roeddwn i *just* a meddwl na fasech chi byth yn codi, a dyma hi 'rwan yn ugen munyd wedi saith."

"Mae digon o amser, a ddyliwn i na fuoch *chi* ddim yn y'ch gwely, Marged, i fod wedi parotoi y brecwest fel hyn, ac wedi gneud eich hun yn barod mor fuan," ebe Enoc.

"Do, memo diar," ebe Marged, "ond yr ydw i wedi codi er pedwar o'r gloch ar gloc y llofft, a ma hwnw haner awr rhy fuan, a rodd pobpeth yn barod cyn i Betsi ddwad, a phryd y daethoch *chi*, Betsi?"

"Haner awr wedi pump ar y dre," ebe Betsi.

"Rhai garw ydach chi; mi leiciwn i allu bod mor effro yn y bore," ebe Enoc.

"Mi gwranta chi y byddwch chi'n ddigon effro y bore y byddwch chi a Miss Trefor yn myn'd i'ch priodi, on fydd o, Betsi?" ebe Marged.

"Rhowch i mi paned o dê, da chi, Marged, achos 'rydw i'n teimlo 'reit bethma," ebe Enoc.

"Wel, on 'does ma paned yn gweitiad am danoch chi er's awr, mistar. Ond cofiwch na chewch chi ddim ond rhw ddeilen o frechdan efo hi ne fedrwch chi ddim *myjoyio*'ch brecwest pan ddown ni'n ol o'r Eglwys," ebe Marged yn fêl ac yn fefus. "A 'rwan," ebe hi ar ol tywallt y tê i Enoc, "wrth fod Betsi'n byw yn ymyl yr Eglwys mi awn ni yno, a mi ddowch chithe i'r Eglwys erbyn y caniff y gloch wyth, on ddowch chi, mistar?"

"Dof, wrth gwrs," ebe Enoc, ac aeth Marged a Betsi ymaith.

Yfodd Enoc "y paned tê" heb gyffwrdd â'r ddeilen frechdan. Yna llwythodd ei bibell,—oblegid yr oedd digon o amser i gael mygyn cyn myn'd i'r Eglwys, ac eisteddodd mewn cadair esmwyth o flaen y tân braf. Teimlai yn enbyd o gysgadlyd, ac felly y gallai, canys nid oedd, fel y dywedwyd, wedi cysgu ond ychydig er's wythnosau, ac nid oedd o un dyben myn'd i'r Eglwys yn rhy fuan. Dechreuodd Enoc ysmygu, a synfyfyrio, a chollodd ei dân. Taniodd ei bibell wed'yn ac wed'yn—syrthiodd ei ên ar ei frest, syrthiodd ei bibell o'i law, ac yna—wel, cysgodd yn drwm. Deffrowyd ef gan ran-tan ar y drws. Neidiodd Enoc ar ei draed—edrychodd ar y cloc—chwarter wedi wyth! Tarawodd ei het am ei ben a rhuthrodd i'r drws. Jones, y Plismon, oedd yno wedi d'od i'w nol, ac yn protestio fod Marged agos a myn'd i ffit, a Mr. Brown yn tyngu nad äi yn mlaen gyda'r gwasanaeth os na ddeuai Enoc i "roi" Marged. Brasgamodd Jones ac Enoc tua'r Llan. Aeth Jones i'r festri i hysbysu Mr. Brown am ddyfodiad Enoc, ac aeth Enoc rhag ei flaen at yr allor. Ar un edrychiad gwelodd Enoc fwy nag yr oedd efe wedi bargeinio am dano. Yr oedd yn yr hen Eglwys o gant a haner i ddeucant o bobl wedi dyfod i weled y seremoni, a phob un yn wên o glust bwygilydd, ac yn cil-chwerthin yn ddireidus. Ond yn fwy amlwg na phawb yn ymyl yr allor, ac yn edrych yn bryderus am ei ddyfodiad, gwelai Enoc wyneb Marged fel llawn lloned a chan goched a chrib y ceiliog. Ni wyddai

Enoc pa beth i'w wneud gan gywilydd, a chwysodd yn ddyferol, ac wedi eistedd yn nghymydogaeth yr allor, tynodd ei law trwy ei wallt a chafodd ei fod fel cadach llestri gan chwys. Yn union deg daeth Mr. Brown yn mlaen yn ei wisg glerigol, ac er ei fod, erbyn hyn, yn bedwar-ugain oed, edrychai yn llyfndew a grasol. Yr oedd direidi diniwed lon'd ei lygaid y bore hwnw. Cymerodd Mr. Brown drafferth i osod y cwmni mewn trefn, ac o dosturi at Enoc, gosododd Mr. Brown ef a'i gefn at y gynulleidfa. Teimlai Enoc yn ddiolchgar iawn iddo. Er cymaint oedd ffwdan Enoc, nid allai efe beidio sylwi ar y dirfawr wahaniaeth oedd yn ngwisgoedd y briodas. Yr oedd Marged a Betsi Pwel wedi eu gwisgo mewn gwyrdd newydd danlli o liw porfa, a'u boneti o liw cyffelyb wedi eu trimio yn drwm â choch—mor goch nes codi cur yn mhen Enoc wrth edrych arno. Yr oedd Robert Jones, y gwas priodas, yr hwn oedd yntau yn gweithio dan y *Local Board*, mewn côt a gwasgod o stwff cartre wedi ei weu yn Nghaerwys, ac wedi gweled ambell auaf, a thrywsus melyn, yn dechreu duo tua'r penliniau—yr hyn oedd yn brawf eglur mai yn y trywsus hwn yr elai Robert i'r capel ar y Sul, ac i'r cyfarfodydd gweddïo ganol yr wythnos. Ond y priodfab—Tom Solet—a gymerodd fwyaf o sylw Enoc. Ystyrid Tom yn dipyn o gybydd, a gwyddai Enoc hyny yn burion. Ond canfyddodd Enoc fod Tom—(yn ddiamheu ar ol clywed Jones, y plismon, yn dweyd fod gan Marged bres)—wedi specilatio mewn trywsus cord newydd—balog fawr a botymau corn gwynion arno—yr hwn oedd rhy hir o dair modfedd, ac wedi ei droi i fynu i'r mesur yn y gwaelod. Chwarae teg i Tom, nid oedd wedi ei roi am dano hyd y bore hwnw, a pha fodd y gallasai gael ei altro? Am gefn Tom yr oedd côt o *blue superfine West of England*, a gwasgod o liw caneri a botymau prês arni, a chan nad beth oedd ei diffygion—ac nid oeddynt yn berffaith—yr oedd y teiliwr a fu yn eu cynllunio ac yn eu rhoi wrth eu gilydd, wedi myn'd "i'w aped" er's llawer blwyddyn. Y rhain oedd "côt a gwasgod wedin" Tom pan briododd efe y wraig gyntaf, ac yr oeddynt erbyn hyn yn gwrando y wers briodas y pedwerydd tro, ac yn eu medru, yn ddiamheu, gystal a Mr. Brown ei hun. Tarawyd Enoc hefyd gan ymddangosiad gwahanol y rhai oedd o'i flaen—yr oedd Marged a Betsi—yn enwedig Marged, â'u gwynebau fel ffwrnes, eto yn ddedwydd iawn. Robert Jones yn welw a dif-

rifol fel pe buasai ar ei dreial, a Tom yn eglur fwynhau ei sefyllfa, a'i wyneb tua'r llawr, ac yn edrych dan ei guwch fel mochyn yn bwyta pŷs. Teimlai Enoc wrthuni ei sefyllfa, a rhyfeddai beth oedd wedi ei lygad-dynu i osod ei hun yn y fath gwmni. Er fod Mr. Brown yn cyflymu dros y wers, ymddangosai yn enbyd o hir i Enoc. Ac eto nid oedd y seremoni heb ryw gymaint o gysur a boddhad iddo. Yr oedd Enoc, fel y gŵyr y darllenydd, yn ŵr haelionus, ac wedi "rhoi" llawer yn ystod ei oes, ond "rhoi" Marged oedd y rhôdd fwyaf ewyllysgar a ddaeth erioed o'i galon, a buasai yn dda ganddo fod wedi cael cyfleusdra i'w "rhoi" yn gynt pe buasai rhywun wedi ei gofyn. Ni fyddai Mr. Brown yn gwastraffu amser ar achlysuron fel hyn, a da gan Enoc oedd cael myn'd i'r festri o olwg y gynulleidfa i orphen y busnes, ac i fod yn dyst o × y naill a'r llall. Estynodd Mr. Brown y syrtifficêt i Tom Solet, a thynodd Tom ei bwrs o boced frest ei wasgod ar fedr talu am ei briodi, ond ataliwyd ef gan Mr. Brown, yr hwn a ddywedodd—

"Hidiwch befo, Tom, fi dim *chargio* chi y tro yma—fi gneud hyn fel *discount* am y trôs o'r blaen, ond cofiwch chi, Tom, fi *chargio* chi tro nesa."

Am y gair hwn edrychodd Marged arno yn ddigofus, ac ni wahoddodd ef i'r brecwest, a bu raid i'r clochydd ddioddef yr un dynged.

Llithrodd Enoc adref ar hyd un o'r ystrydoedd cefn, ac ni welodd y cawodydd *rice* yn cael eu tywallt ar benau y cwpl dedwydd, er mai ei *rice* ef ei hun ydoedd, oblegid deallodd, wedi hyn, mai Marged oedd wedi cyflenwi y cymydogesau â'r *rice* y noson flaenorol i anrhydeddu ei phriodas. Mae fy mhenod eisioes yn rhy faith i roi lle i ddesgrifiad o'r brecwest. Digon ydyw dweyd fod ymgom Jones, y plismon, a Didymus, "gystal a phregeth," ac yn eu cwmni annghofiodd Enoc am dri chwarter awr ei holl "brofedigaethau." Ar ddydd ei phriodas ni chafodd Marged ond un anrheg, a hono gan ei meistr—sef set o lestri tê hardd, yr hon anrheg a barodd i'r priodfab tawedog wneud un sylw—yr unig air a gaed o'i enau drwy ystod y brecwest—"Mi drychiff y rhai ene yn neis yn y cwpwrdd cornel acw." Ond yn yr adroddiad maith a manwl a anfonwyd gan Didymus i'r *County Chronicle*, dywedid "fod yr anrhegion yn rhy luosog i'w henwi." A dyna oedd y ffaith yn

ddiamheu, oblegid y mae yn lled sicr na ddarfu Didymus gyfrif pob cwpan a swser, plat, bowlen, a thebot oedd yn y set. Ar ol y brecwest yr oedd y byd yn galw ar Jones, y plismon, a Didymus, i fyned ymaith, ac yn mhen rhyw awr ffarweliodd Enoc â Marged a Thom Solet, y rhai a aethant i dreulio eu mis mêl—neu, yn hytrach, eu diwrnod mêl, i'r *Coach and Horses*—tafarndy rhyw filldir o'r dref. Yn y dafarn hon yr oedd Tom wedi dathlu ei holl briodasau, ac wedi arfer gwahodd ei gyfeillion a'i ewyllyswyr da i gydlawenhau âg ef, y penaf o ba rai oedd Isaac y delyn. Yn y *Coach and Horses* y buont y waith hon hyd haner y nos, ac mewn *handcart*—felly yr adroddwyd i Enoc, ond ni ddarfu iddo chwilio i wirionedd yr hanes—mewn *handcart* y dygwyd Tom i'w gartref y noson hono—Robert Jones yn y drafftiau yn tynu, a Marged yn gwthio tu ol. Nid y diwrnod hwnw yn hollol y terfynodd ymdrafodaethau Enoc â Marged, canys yn mhen ychydig ddyddiau cafodd hithau ei phrofedigaethau, ac at Enoc yr elai i adrodd ei chŵyn; ond dyna yr olwg olaf, am wn i, a gaiff y darllenydd ar Marged. Hwyrach hefyd, y dylwn ddweyd fod Marged wedi gorfyw Tom Solet. O'r diwedd yr oedd yntau wedi cyfarfod â'i *fatch*.

Ar ol y brecwest a'r miri y bore hwnw, prin y mae eisiau dweyd na theimlai Enoc mewn hwyl i fyn'd i'r siop, ac wrth edrych ar y bwrdd a gweled yno wmbreth o ymborth heb ei fwyta—yn unol â'i natur dda—anfonodd un o'r llanciau i wahodd hen wŷr a hen wragedd anghenus y gymydogaeth i'w dŷ, ac yno y bu yn eu porthi ac yn gwneud y tê a'r coffi iddynt ei hun hyd nad oedd ond esgyrn moelion a briwsion wedi eu gadael. O'r diwedd gadawyd ef yn unig yn nghanol yr holl lanastr—a dyna y funyd y cofiodd am y tro cyntaf ei fod heb yr un forwyn, ac heb feddwl am ymorol am un. Ni wyddai pa le i droi ei ben a chywilyddiodd wrth ystyried mor ddisut ydoedd. Wedi iddo roi glo ar y tân, yr hwn oedd yn mron a myn'd allan, aeth Enoc i'r parlwr o olwg y llestri budron a'r llanastr, gan obeithio gweled Jones, y plismon, yn pasio, yr hwn oedd ei swcr yn mhob helbul. Credai y gallai Jones gael morwyn iddo ar unwaith. Edrychodd drwy y ffenestr am oriau gan ddisgwyl gweled Jones, ond gallasai Jones fyn'd heibio lawer gwaith heb i Enoc ei wel'd, oblegid yr oedd er's meityn wedi anghofio am bwy yr oedd yn edrych a'i fyfyrdodau wedi eu meddianu yn hollol gan Miss Trefor. Yr oedd yn dechreu

prydnawnio, pryd y safodd o flaen ei ffenestr, ferch ifanc drwsiadus a golygus. Edrychodd ar y ffenestr ac ar y drws—i fynu ac i lawr, fel pe buasai yn amheu ai hwn oedd y tŷ a geisiai. "Pwy yn y byd mawr ydyw y foneddiges hon?" ebe Enoc ynddo'i hun. Yna curodd y foneddiges y drws, ac aeth Enoc i'w agor.

"Ai chi ydi Mr. Huws, syr?" gofynai y foneddiges.

"Ië, dyna fy enw i," ebe Enoc.

"Ga' i siarad gair â chi?" gofynai y foneddiges.

"Cewch, neno dyn, dowch i mewn," ebe Enoc.

Estynodd Enoc gadair iddi yn ymyl y ffenestr, er mwyn iddo gael llawn olwg arni, oblegid canfyddodd ei bod yn werth edrych arni. Ar ol eistedd, ebe y foneddiges gyda gwên, a chan ddatguddio set o ddanedd (nid rhai gosod) fel rhês o bŷs yn eu coden—

"Wedi galw yr ydw i, Mr. Huws, i ofyn oes gynoch chi eisio *housekeeper*?"

"*Just* y peth yr *ydw i isio*," ebe Enoc, "ond y mae arnaf ofn na wnaiff fy lle i eich siwtio. Gan nad oes yma neb ond y fi fy hun, ni byddaf yn cadw morwyn, a mae fy *housekeeper* yn gorfod gwneud pobpeth sydd raid ei wneud mewn tŷ."

"'Rydw i'n gwbod hyny, a neiff o ddim gwahaniaeth i mi, achos yr ydw i wedi arfer gweithio, a mi wn sut i gadw tŷ," ebe y ferch ifanc, a synodd Enoc ei chlywed yn siarad felly, oblegid yr oedd ei gwisg yn drefnus a chostfawr yn nhyb Enoc.

"Da iawn," ebe Enoc. "Faint o gyflog ydach chi'n ofyn?"

"Ugen punt. Yr wyf wedi bod yn cael chwaneg," ebe hi.

"Mae hyny yn bum' punt mwy nag yr ydw i wedi arfer roi," ebe Enoc.

"'Rwyf yn gobeithio," ebe'r ferch ifanc, "y cewch y gwahaniaeth yn y gwasanaeth, achos yr ydw i wedi bod mewn lleoedd da, ac wedi gweled tipyn."

"Wel," ebe Enoc, "hidiwn i ddim a rhoi ugen punt os gwnaech fy siwtio," canys credai fod golwg yr eneth hon, o'i chydmaru â Marged, yn werth pum' punt, ac ychwanegodd—

"Pryd y medrwch chi dd'od yma?"

"Pryd y mynoch," ebe hi.

"Wel," ebe Enoc, "mi leiciwn i chi dd'od ar unwaith, achos, a dweyd y gwir i chi, 'does gen i neb yma yrwan, ac mae'r tŷ yn heltar sceltar. Fedrwch chi dd'od yma yn y bore?"

"Mi ddof yma heno, naw o'r gloch, os caf," ebe'r ferch ifanc.

"Gore oll. Beth ydi'ch henw chi?" gofynai Enoc.

"Miss Bifan ydi f' enw i," ebe hi.

"O'r gore, Miss Bifan, mi fyddwch yma erbyn naw ynte," ebe Enoc. Ac felly terfynodd y cytundeb, a phan oedd Enoc yn agor y drws i Miss Bifan fyn'd allan, gwelai Kit, morwyn Ty'nyrardd, yn cyfeirio tuag ato gyda nodyn yn ei llaw! A oedd rhyw yspryd wedi sisial yn nghlust Miss Trefor fod ganddi hi yn awr gydymgeisydd?

---

## PENNOD XLII.

### WEDI MYN'D.

DARLLENODD Enoc y nodyn yn awchus, yr hwn oedd fel y canlyn—

"Ty'nyrardd.

"ANWYL MR. HUWS,—Yr ydych wedi bod yn ddiarth iawn. Hyd yr wyf yn cofio, ni ddywedais ddim, pan fuom yn siarad ddiweddaf, i fod yn rheswm digonol am y dyeithrwch hwn, ac *os* dywedais, mae'n ddrwg genyf. Mae sôn mewn rhyw Lyfr am ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, ond nid wyf yn cofio fod sôn yn y Llyfr am ymweled âg anwiredd y ferch ar y rhïeni. Hwyrach fod, hefyd, ond mai fi sydd ddim yn cofio. Pa fodd bynag, chwi wyddoch eich bod yn werthfawr gan fy nhad, ac yn anwyl gan fy mam, a phrin y mae yn gyfiawn ynoch, nac yn deilwng o honoch *chwi* eu cosbi hwy am anwiredd eu merch. Mae fy nhad yn isel a blinderog ei ysbryd, a mi wn ei fod yn credu mai fi sydd wedi eich tramgwyddo. Druan o honof! Yr wyf yn ceisio gwneud fy nyledswydd, yn ol y goleuni sydd ynof, ac, er y cwbl, yn tramgwyddo pawb o fy nghwmpas. Mae fy mam, mae yn ddrwg genyf ddweyd, yn

gwaelu bob dydd. Yr wyf wedi gwneud fy ngoreu iddi, Duw a ŵyr! a mae fy nghalon bron a thori. Mae hi yn methu gwybod p'am nad ydych yn dyfod i edrych am dani. Ddowch chwi? Fydd hi ddim yma yn hir. Mae Mr. Simon wedi bod yma droion, ond nid ydyw hi fel bydae yn hidio rhyw lawer am dano. Ddowch chwi i edrych am dani? Os bydd fy ngweled *i* yn rhyw rwystr i chwi ddyfod, mi addawaf wrthoch yr af i'r seler tra byddwch yma.

"Yr eiddoch yn gywir,

"S. Trefor.

"O.Y.—Esgusodwch fy Nghymraeg—gwyddoch nad ydwyf yn arfer ysgrifenu yn Gymraeg.—S. T."

"Dywedwch wrth Miss Trefor y dof acw toc," ebe Enoc wrth Kit.

"Mae hi isio'ch gwel'd chi'n arw, Mr. Huws," ebe Kit.

"Pwy?" gofynai Enoc.

"Miss Trefor," ebe Kit, yr hon a wyddai sut i foddio Enoc.

"Sut y gwyddoch chi hyny, Kit?" gofynai Enoc.

"Am y mod i'n gwbod," ebe Kit, "achos dydi hi ddim yr un olwg er's pan ydach chi ddim yn d'od acw—mae hi fel bydae hi mewn breuddwyd. Ddaru chi ffraeo, Mr. Huws?"

"Mae eich meistres yn sâl iawn, Kit, ac y mae gan Miss Trefor ddigon o helbul heb feddwl dim am dana i," ebe Enoc.

"Oes, byd a'i gŵyr, ebe Kit, "fwy nag a wyddoch chi. Dydi hi ddim wedi tynu 'ddam dani er's gwn i pryd, a wn i ddim sut mae hi'n gallu dal. A mae gen i ofn na fendiff y meistres byth—mae hi'n òd iawn, fel bydae gen'i hi rwbeth ar i meddwl. A mae mistar—newch chi ddim cymyd arnoch mod i'n deyd, Mr. Huws?—dydio ddim yn actio'n reit."

"Wel, be mae o'n neud, Kit?" gofynai Enoc.

"Mae o—newch chi ddim sôn mod i'n dweyd, Mr. Huws?—mae o'n yfed yn ddychrynllyd ddydd a nos, nes mae o reit wirion, a mae hyny yn fecsio Miss Trefor. Mae acw dŷ rhyfedd i chi, a mae hi wedi gofyn lawer gwaith i mi pryd y gweles i chi, a be ydi'r achos, tybed, fod chi ddim yn d'od acw. Mi wn bod hi'n sâl isio'ch gwel'd chi, syr."

"Cymerwch ofal, Kit," ebe Enoc, "i beidio dweyd wrth neb

fod eich meistar yn yfed. Mae dyn yn gwneud llawer iawn o bethau mewn profedigaeth na ddylai wneud, ac na wnai ar un adeg arall, ac y mae afiechyd eich meistres, yn ddiamheu, wedi effeithio yn fawr ar Capten Trefor. Gofalwch Kit, na ddwedwch chi ddim wrth neb."

"Y fi? chymrwn i mo mhwyse a deyd wrth neb blaw chi, achos yr ydach chi fel un o'r teulu, Mr. Huws," ebe Kit.

"Da iawn, Kit, ewch yn ol yrwan a dwedwch wrth Miss Trefor y dof acw toc," ebe Enoc.

"Mi *fydd* yn dda gen hi'ch gwel'd chi," ebe Kit.

Yr oedd cael clywed rhywbeth oddiwrth Miss Trefor, ac yn enwedig gael gwahoddiad i Dy'nyrardd, fel eli ar friw i Enoc. Ar yr un pryd, penderfynodd beidio dangos brys. Barnai y buasai iddo redeg yno â'i wynt yn ei ddyrnau, yn *infra dig.* Er ei fod yn llosgi o eisiau myn'd, arhosodd am dros awr cyn cychwyn, a phan aeth, cerddodd yn hamddenol a hunanbarchedigol. Ar hyd y ffordd dyfalai pa fath olwg a gai efe ar Susi, a pha beth a ddywedai hi wrtho. Gwnaeth lw yn ei fynwes na soniai efe air wrthi am yr hyn a gymerasai le rhyngddynt pan fuont yn siarad â'u gilydd ddiweddaf, oddieithr iddi hi sôn yn gyntaf. A chadwodd Enoc ei lw—oblegid cafodd rywbeth arall i feddwl am dano. Er nad oedd hi eto yn dywyll, yr oedd gorchudd ar bob ffenestr yn Nhy'nyrardd, a phan nesaodd Enoc at y tŷ, teimlai fod rhywbeth yn rhyfedd a dyeithr yn yr olwg arno, er na allai wneud allan beth ydoedd. Yr oedd yn rhy absenol ei feddwl i ganfod mai y gorchudd ar y ffenestri oedd yn rhoi yr olwg ddyeithr iddo. Curodd Enoc y drws, a daeth Kit i'w agor. Yr oedd llygaid Kit fel llygaid penwaig, ac ebe hi yn ddistaw—

"Mae hi wedi myn'd, Mr. Huws."

"Pwy?" gofynai Enoc.

"Y meistres," ebe Kit.

"Myn'd i ble?" gofynai Enoc.

"Mae hi wedi marw," ebe Kit.

"Wedi marw!" ebe Enoc, fel pe buasai wedi ei saethu gan y newydd, a phrin y gallai symud o'i unman. Rhoddodd Kit nòd gadarnhaol a chauodd y drws yn ddiesgeulus, ac arweiniodd Enoc i'r parlwr, lle yr oedd y Capten a Miss Trefor yn bendrist a distaw. Ar ei fynediad i'r ystafell, cododd Miss Trefor ar ei thraed, ac heb ddweyd gair, gwasgodd law Enoc

yn dŷn a *nervous*, yr hyn a yrodd ias drwy ei holl gorph. A'r un modd y gwnaeth y Capten. Syrthiodd Enoc i gader wedi ei orchfygu gan ei deimladau, canys efe a garai Mrs. Trefor yn fawr, er ei mwyn ei hun, heblaw ei bod yn fam i Susi, ac nid oedd wedi dychymygu fod ei hymddatodiad yn ymyl. Er mor ansylwgar y byddai Enoc yn gyffredin, nid allai beidio canfod fod y Capten yn drwm mewn diod. Edrychai yn swrth i'r tân, a rholiai dagrau mawr i lawr ei ddwyrudd.

Mae meddwdod yn gwneud dyn yn anwyliadwrus, ac mewn rhai amgylchiadau, yn foddion i ddwyn allan y tipyn daioni sydd wedi ei adael yn ei natur. Adwaenwn ddyn na welid byth mohono yn gweddïo ond pan fyddai wedi meddwi! ac mi a adwaen ambell un nad ydyw yn bosibl cael rhôdd nac elusen ganddynt ond pan fyddant "yn eu crap." Nid oedd hyd yn nod Capten Trefor, yr hwn oedd wedi byw er's blynyddau ar dwyll a rhagrith, yn hollol amddifad o ryw fath o deimlad. Yr oedd *remnant* byr o'r natur ddynol wedi ei adael ynddo. Cyffyrddodd *gwir* deimlad Enoc â'r ychydigyn teimlad oedd yn y Capten, ac wylodd yntau. Yr oedd teimladau Miss Trefor er's wythnosau wedi eu tynhau hyd eu heithaf, ac yn gwrthod llacio, a'i hwyneb yn sefydlog, heb yr un plic ynddo, ac yn welw wyn, fel pe buasai wedi colli pob dyferyn o waed. Nid anhyfryd ganddi oedd gweled Enoc yn arddangos y fath deimlad, —yr oedd ei mam ac yntau wedi bod yn gyfeillion mawr,—a theimlai rywfodd fel pe buasai gwyneb Enoc yn gyfieithiad o iaith farw ei hwyneb hi ei hun. Y Capten, fel arfer, oedd y cyntaf i siarad, ac ebe fe,—

"Dyma ergyd drom, Mr. Huws, yn enwedig i mi, ac mewn ffordd o siarad, ergyd farwol, oblegid pan mae dyn wedi cyrhaedd—hyny ydyw, mae colli cydmar ei fywyd, a hyny heb i ddyn feddwl fod y peth yn ymyl, i un yn fy oed i, yr un peth, mewn dull o ddweyd, ag iddo golli ei fywyd ei hun, oblegid y bi oedd fy mywyd a fy mhobpeth, a braidd na ddwedwn—a mi ddwedaf—y dymunwn fyn'd i'r bedd gyda hi."

"Bydase chi a fine, nhad," ebe Susi, "mor barod ag oedd 'y mam, dyna fase y peth gore i ni—myn'd efo'n gilydd—ond y mae arnaf ofn nad yden ni ddim. Yr oedd 'y mam yn caru Iesu Grist; a fedrwn ni ddeyd hyny? Mae marw yn beth ofnadwy, nhad, os na fedrwn ni ddweyd ein bod yn caru Iesu Grist."

"Mae hyny yn ddigon gwir, fy ngeneth, a gadewch i ni obeithio y gallwn ddatgan hyny pan ddaw yr adeg," ebe'r Capten, yr hwn, gan nad pa mor ddifrifol fyddai yr amgylchiad, oedd abl i ragrithio, a chan nad pa mor feddw a fyddai, oedd a'i feddwl yn weddol glir.

"Mae'r adeg," ebe Susi, yn awyddus i wneud y goreu o'r amgylchiad, canys yr oedd buchedd ei thad yn ei phoeni yn dost, a rhyfeddai Enoc sut yr oedd hi yn gallu bod mor hunanfeddianol—"Mae'r adeg, fel y gwyddoch, nhad, yn ansicr, fel y bu gyda fy mam."

"Mae'r Ysgrythyr Lân yn ein dysgu am hyny, ac y mae amryw ymadroddion yn dyfod yn *fresh* i fy meddwl y funyd hon," ebe'r Capten.

"Ai yn sydyn, ynte, yr aeth eich mam yn y diwedd, Miss Trefor?" gofynai Enoc.

"Yn hollol sydyn a diddisgwyl, Mr. Huws," ebe Susi.

"Ië, yn hollol sydyn, ond fe ddarfu i chwi a minau wneud ein goreu iddi," ebe'r Capten.

"Ddaru *mi* ddim gwneud fy ngoreu iddi, nhad, a faddeua i byth i mi fy hun am fy esgeulusdra. Yr oeddwn yn meddwl nad oedd yn ddim gwaeth nag oedd er's dyddiau, a mi gadewais hi am ddeng munyd i ysgrifenu llythyr, ac erbyn i mi fyn'd yn ol, yr oedd hi wedi marw—heb i mi gael gwneud dim iddi—dim cymaint a gafael yn ei llaw fach anwyl i'w helpio i farw. O! mor greulawn mae o'n ymddangos iddi farw heb neb efo hi,—mae o'n 'y mwyta i tumewn."

"Ewyllys yr Arglwydd, fy ngeneth," ebe'r Capten, "oedd cymeryd ei was Moses ato'i hun heb un llygad yn gweled hyny, a'r un modd efo'ch mam."

"Ië," ebe Susi, gyda cholyn yn ei geiriau, "felly y cymerwyd Moses, tra yr oedd y bobl yn pechu, ac hwyrach mai felly yr oedd yma."

"Mae yn ofid mawr i mi, Miss Trefor," ebe Enoc, "na chefais weled eich mam cyn iddi farw."

"Sut y bu hyny, Mr. Huws? beth *ydoedd* y rheswm am eich holl ddyeithrwch?" gofynai y Capten.

"Ddaru neb o honom feddwl," ebe Susi, er mwyn cuddio anhawsder Enoc i ateb, "fod 'y mam mor agos i angau. 'Does yma prin neb wedi ei gweled ond Mr. Simon a'r doctor. Mae yn dda iawn gen i bod chi wedi d'od yma heno, Mr. Huws,

achos wn i ddim am y trefniadau y rhaid edrych atynt ar amgylchiad fel hwn, ond mi wn y gwnewch chi, Mr, Huws, ein cynorthwyo. 'Does gynon ni ddim modd i fyn'd i lawer o gostau."

"Dim modd?" ebe'r Capten, "beth ydach chi'n feddwl, Susi? Dim modd? fe gaiff eich mam ei chladdu fel tywysoges, os bydd fy llygaid i yn agored. Ond nid ydyw yn weddus i *ni* fyn'd i gerdded at hwn ac arall—ac fe wnaiff Mr. Huws hyny drosom, yn ol ei garedigrwydd arferol."

"Gadewch y cwbl i mi, mi ofalaf am yr holl drefniadau angenrheidiol," ebe Enoc.

Ar hyn daeth Kit at y drws, a chododd ei bŷs ar Miss Trefor, a gadawodd hithau yr ystafell.

Ac ebe Enoc,—"Capten Trefor, yr wyf am ofyn un gymwynas genych, ac yr wyf yn gobeithio na wnewch fy ngomedd. Chwi wyddoch fod Mrs. Trefor a minau yn gyfeillion mawr—yr oeddwn yn edrych arni fel pe buasai yn fam i mi. A wnewch chwi ganiatau i mi—peidiwch a digio am fy mod yn gofyn y fath beth—wneud yr holl drefniadau ar gyfer y gladdedigaeth, a dwyn yr holl gôst? Bydd yn dda genyf gael gwneud hyny os caniatewch."

"Diolch i chwi, Mr. Huws," ebe'r Capten, "ond y mae hyny yn anmhosibl, oblegid byddech felly yn cymeryd oddiarnaf y fraint olaf. Fedrwn i ddim meddwl am i neb wneud y fath beth, o leiaf, heb ymgynghori â fy merch, a mi wn y byddai hi yr un mor wrthwynebol—yn wir yn fwy gwrthwynebol."

"Yr oeddwn wedi meddwl gofyn i chwi," ebe Enoc, "os buasech yn caniatau, beidio sôn gair wrth Miss Trefor nac wrth neb arall am y peth, ac mi a'i hystyriwn yn fraint cael gwneud hyn i Mrs. Trefor. Gobeithio nad ydwyf wedi eich briwio, ond mi ddymunwn gael gwneud hyn."

"Wel," ebe'r Capten, ac arhosodd am funyd megis i synfyfyrio, "pe buasai rhywun arall, ïe, hyd yn nod Syr Watcyn, yn cynyg y fath beth, mi fuaswn yn dweyd, '*No, thank you.*' Ond wrth gofio y fath gyfeillgarwch oedd rhyngoch chwi a Mrs. Trefor, ac, yn wir, fy rhwymau personol i chi, ni fedraf ddweyd, '*No,*' wrthoch chwi, Mr. Huws, ar y telerau nad oes neb i gael gwybod hyn."

"Diolch yn fawr i chwi," ebe Enoc, "ac yrwan mi äf yn nghylch y trefniadau, a pheidiwch chwi a phryderu dim."

Ceisiodd y Capten godi i ysgwyd llaw âg Enoc, ond syrthiodd yn ol i'w gadair. Gwelodd nad oedd ei feddwdod yn guddiedig, ac ebe fe,—

"Mr. Huws, maddeuwch i mi, yn fy mhrofedigaeth chwerw yr wyf wedi cymeryd dau (ar bymtheg, ddylasai ddweyd) lasied o *whiskey*, a thrwy nad ydwyf yn arfer llawer â fo, y mae wedi effeithio arnaf Mi wn y gwnewch faddeu i mi am y tro,—mae fy mhrofedigaeth yn fawr."

"Ydyw," ebe Enoc, "ac mae'n ddrwg genyf drosoch, ond goddefwch i mi fod yn hyf arnoch—cedwch oddiwrth y diodydd meddwol—am rai dyddiau, beth bynag—mae *decorum* yn gofyn hyny."

"*Quite right*, mi wnaf; nos dawch, Mr. Huws bach," ebe'r Capten.

Ar ol canu nos dawch â Miss Trefor, aeth Enoc ymaith; ac erbyn hyn yr oedd ganddo ddigon ar ei feddwl,—y forwyn newydd oedd i ddyfod i'w dŷ erbyn naw o'r gloch, a chario allan yr holl drefniadau yn nglyn â chladdedigaeth Mrs. Trefor.

"Susi," ebe'r Capten, "rhowch eich meddwl yn esmwyth, fe ofala Mr. Huws am yr holl drefniadau. Ac yrwan, ewch i'ch gwely, fy ngeneth. Fedra i fy hun ddim meddwl am wely *heno*—mi dafla i fy hun ar y *sofa*. Nos dawch, *my dear girl*."

Gadawodd Susi yr ystafell gydag ochenaid, a "thaflodd" y Capten ei hun ar y *sofa*, a chysgodd yn drwm. Wedi i'r "gwragedd" orphen rhyw seremoni ynfyd (yr hon sydd yn parhau hyd y dydd heddyw mewn amgylchiadau o'r fath) ar y corph marw, a myned ymaith, aeth Susi i'w gwely, gan gymeryd Kit gyda hi i gysgu, oblegid meddyliodd nad allai fod ar ei phen ei hun y noson hono. Yn mhen deng munyd yr oedd Kit yn cysgu yn ddistaw ac esmwyth. Ond nid allai Miss Trefor gysgu. Gwyddai fod ei thad yn chwyrnu ar y *sofa*, er nad allai ei glywed. Yr oedd distawrwydd ar bobpeth, a'r distawrwydd yn llethol iddi. Teimlai yn unig ac ofnus, ac ebe hi,—

"Kit, Kit, ydach chi'n cysgu, Kit?"

Ni atebodd Kit, yr oedd hi wedi ymollwng i orphwyso, yr hyn, ar ol yr holl redeg a myn'd a dyfod, a haeddai yn dda. Ymwasgodd Miss Trefor ati, a sisialodd,—

"Ië, cysga Kit, 'dwyt ti, mwy na minau, wedi cael fawr o

orphwys er's wythnosau, a 'rwyt ti yn haeddu cael llonydd heno. Ond sut na fedrwn i gysgu? O! mae'r distawrwydd yma yn y nghadw i'n effro. Mor ryfedd a dyeithr ydyw pobpeth! Mor wahanol oedd pobpeth yr adeg yma neithiwr!—y rhedeg i fynu ac i lawr, a mam druan efo ni yn fyw, ond yn sâl iawn. Mor ddistaw ydi hi heno! Mor bell mae hi wedi myn'd! O dyn! mi feddylies 'i chlywed hi'r munyd yma'n deyd—'Dyro mi lymed, y ngeneth bach i.' Ai dych'mygu 'roeddwn i? 'Rydw i bron yn siwr i mi chlywed hi. Mi wrandawa ngore eto. Gwan ydw i—a ffansïo. Mor anodd ydi credu na ddeydiff hi byth yr un gair eto! 'Roedd hi yma gynau—heddyw'r prydnawn. Lle mae hi 'rwan? ië, hi, achos 'does dim ond ei chorph yn y *room* nesa—lle mae *hi?* Yn y byd mawr tragwyddol! Lle mae'r byd tragwyddol? Ydio'n mhell? Ydi hi wedi cyrhaedd yno? Ddaru rhwfun dd'od i'w nol hi, i ddangos y ffordd iddi? neu a ydyw ei hysbryd hi yn crwydro ac wedi dyrysu mewn *space?* Fydd hi'n crwydro, tybed, am filoedd o flynyddoedd cyn d'od o hyd i'r byd tragwyddol? O! na faswn i wedi aros efo hi hyd i'r munyd dywaetha, yn lle myn'd i ysgrifenu at Enoc Huws! Hwyrach y base hi yn deyd wrtho i os oedd Iesu Grist efo hi. Yr oedd hi yn adrodd yr adnod echnos—'Pan elych trwy y dyfroedd, mi a fyddaf gyda thi.' 'Ddaru O beidio 'i anghofio hi, tybed? Oedd O ddim eisiau bod efo rhwfun arall *just* yr un amser? Mor wirion yr ydw i'n siarad! Ydw i'n peidio dyrysu? Kit, ydach chi'n cysgu? O! mor unig ydw i! ac a fydda i. 'Does gynon ni ddim cyfeillion, a theimlais i 'rioed o'r blaen ryw lawer o angen am gyfeillion. Ond 'does gynon ni neb neillduol. Oes, y mae hefyd—mae Enoc Huws yn wir gyfaill—yr unig gyfaill sy gynon ni. Mor wirion fu'm i yn 'i wrthod o. 'Does dim gwell dyn na fo yn y sir, a mi wn y'n bod ni'n dibynu'n hollol arno er's talwm. 'Rwyf yn meddwl fy mod yn ei garu yn fawr, ac eto fedra i ddim dygymod â'r meddwl o'i briodi o. Bydae o'n cynyg ei hun i mi eto, wrthodwn i mono. Na! dydw i ddim yn meddwl y derbyniwn ei gynygiad chwaith —mi lyna wrth y nhad. O! na fase nhad yn dduwiol! Ond dydio ddim—waeth heb wenieithio. Mae o'n slâf i'r ddiod, ac yn rhagrithio bod fel arall, fel bydae hyd yn nod y fi ddim yn gwybod. Fy nyledswydd, 'rwyf yn meddwl, ydi glynu wrtho hyd y diwedd. O! Dduw, bendithia yr amgylchiad hwn er ei

iechawdwriaeth? Mor chwith fydd bod heb yr un fam! Beth ddaw o hono i gyda'r fath dad! Mi geisiaf neud fy nyledswydd ac ymddiried yn Nuw. O! fel yr ydan ni gyd wedi gadel y mam bach! ac mor fuan! Ei gadel ei hun yn y *room* dywell yna heb neb i gadw cwmpeini iddi, fel bydae ni ddim yn perthyn iddi! O! mae o'n greulon, *mor fuan!* 'Rydw i'n gwirioni—na dydw i ddim—'rwyf yn siwr fod o'n galed, yn greulon ei gadel ar ei phen ei hun, a mi âf i gadw cwmpeini iddi, fedra i ddim aros yma."

Gwawriodd y bore. Deffrodd Kit ar ol deng awr o gwsg melus, yr hwn oedd yn amheuthyn iddi. Cododd yn ei heistedd yn ei gwely. Cofiodd bobpeth oedd wedi digwydd y diwrnod cynt. Edrychodd am Miss Trefor—yr oedd wedi codi o'i blaen, ac nid oedd hyny ond peth digon cyffredin. Ymwisgodd yn frysiog. Aeth i lawr i'r gegin, yr hon oedd yn oer ac heb dân yn y grât. Aeth tua'r parlwr, drws yr hwn oedd yn gil-agored. Agorodd ef yn ddistaw. Yr oedd y Capten yn cysgu yn drwm ar y *sofa*, ond nid oedd Miss Trefor yno. Tynodd y drws ati yn ofalus. Rhaid, meddai Kit, fod Miss Trefor wedi myn'd allan. Chwiliodd y drysau; yr oeddynt yn gloedig fel y gadawsai hi hwynt cyn myn'd i'r gwely y noson flaenorol. Dechreuodd hyd yn nod Kit deimlo yn ofnus. Ni fedrai feddwl am gyneu tân a gwneud twrw heb gael gwybod yn mha le yr oedd Miss Trefor. Tynodd ei slipars rhag gwneud trwst, ac aeth i fynu y grisiau ac i'w hystafell hi ei hun. Na, nid oedd yno neb. Chwiliodd yr ystafelloedd eraill gyda'r un canlyniad. Nid oedd ond un lle arall i edrych am dani. A oedd hi wedi meiddio, ar ei phen ei hun, myn'd i'r ystafell lle yr oedd corph marw ei mam yn gorwedd? Yr oedd drws yr ystafell hon yn haner agored, a theimlai Kit rywbeth fel dwfr oer yn rhedeg i lawr ei chefn pan agorodd dipyn chwaneg arno ac yr yspïodd i mewn. Ië, yno yr oedd hi. Wedi haner ymwisgo, gyda *shawl* dros ei hysgwyddau, gorweddai Susan wrth ochr corph marw ei mam ar y gwely, gyda'i braich ddeheu yn ei chofleidio, a'i phen wrth ei phen hi ar y gobenydd! Gall hyn ymddangos yn annghredadwy, ond ffaith ydyw. Ac nid oedd llawer o wahaniaeth rhyngddynt—yr oedd y ddau wyneb yn wyn fel yr eira—y ddau gorph yn berffaith lonydd—un mewn cwsg trwm ac yn *anadlu*, a'r llall mewn cwsg trwm ond *heb anadlu!*

## PENNOD XLIII.

### YMSON CAPTEN TREFOR.

Yr oedd Miss Bifan wedi cymeryd ei lle fel *housekeeper* yn Siop y Groes cyn i Enoc gofio nad oedd wedi gofyn dim am ei charitor, nac hyd yn nod ymorol i bwy yr oedd hi yn perthyn, a lle y buasai hi yn gwasanaethu ddiweddaf. Ac, erbyn hyn, yr oedd yn rhy hwyr gwneud ymholiadau o'r fath. "A pha bwys i bwy y mae hi yn perthyn na lle bu hi ddiweddaf," ebe Enoc. "os gwnaiff ateb y dyben i mi?" Ac heblaw hyny, yr oedd gan Enoc ddigon i feddwl am dano heb wario pum' munyd i feddwl am ei *housekeeper* newydd. Yr oedd efe wedi ymgymeryd â chario allan y trefniadau yn nglŷn â chladdedigaeth Mrs. Trefor, yr hyn a wnaeth heb arbed cost na thrafferth. Yn y cynhebrwng gweinyddwyd wrth y tŷ gan Mr. Simon, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan Mr. Brown, a thystiai y Capten Trefor fod pobpeth wedi pasio yn *hapus dros ben*. Yn mhen diwrnod neu ddau, ar ddymuniad y Capten, anfonwyd yr holl filiau i mewn, ac yn absen Miss Trefor, cyfrifodd Enoc yr holl gôst a chyflwynoddd yr arian i'r Capten. Yna aeth y Capten o gwmpas a thalodd i bawb. Wrth setlo pob bil dywedai y Capten ei fod yn synu ei fod mor fychan—ei fod wedi disgwyl y buasai yn gymaint arall, ac yn wir, "mewn ffordd o siarad," pe buasai yn gymaint deirgwaith na fuasai yn grwgnach. Ac felly y dywedai efe wrth bob un pan yn talu'r arian, yr hyn a barai i'r derbynydd—yn enwedig y dyn a wnaeth yr arch—ofidio na fuasai wedi *chargio* chwaneg; a dywedai, wedi i'r Capten droi ei gefn—"Waeth be ddeydiff pobol, y mae gan y Capten ddigon o brês."

Yn mhen ychydig amser annghofiodd pawb—oddigerth rhyw ddau neu dri—fod y fath un a Mrs. Trefor erioed wedi bod yn y byd. Ac felly yr annghofir tydi a minau, ddarllenydd, rai o'r dyddiau nesaf. Pan fyddwn farw fe ofyna ein cymydogion ddau gwestiwn—y cyntaf—beth oedd ein hoed? A pho hynaf y byddom goreu oll—mae y rhai sydd yn ieuengach yn gweneithio iddynt eu hunain y gallant hwythau fyn'd i'r oedrau

hwnw. Yr ail gwestiwn a ofynir fydd—faint oeddym werth—neu, mewn geiriau eraill, pa faint o eiddo a adawsom ar ein holau. Os bydd yn llawer, ymgysura y byw y *gall* yntau gyrhaedd y swm hwnw cyn marw, ac os bydd yn fychan neu yn ddim—ymgysura eraill pe byddai iddynt farw yn dlawd nad y nhw fyddai y rhai cyntaf. Ac wedi cael y wybodaeth hon am danom, a rhoi y *shutters* i fynu tra y bydd ein corphyn yn myn'd heibio tua'r fynwent a'u tynu i lawr ar ol i bobpeth fyn'd trosodd—yna y bydd y diwedd. Fe ä pobpeth yn mlaen dranoeth yr un fath a phe na buasem wedi bod yn *rhywun* yn yr hen fyd rhyfedd yma! Pregethodd Mr. Simon bregeth angladdol sych ei gwala, a chanodd Eos Prydain a'i gôr *Vital Spark*, ac yna nid oedd ond *un* yn gwir deimlo fod pob man yn wâg heb Mrs. Trefor. Bu agos i mi anghofio hefyd i un o feinars Coed Madog, yr hwn oedd fardd, ac a adnabyddid wrth y ffugenw persain Llew Rhuadwy, anfon dau englyn i'r *County Chronicle* ar farwolaeth Mrs. Trefor; ond y mae yn rhaid i mi ddweyd nad oeddynt yn fwy tebyg i englynion nag ydyw buwch i gogwrn. Mae yn wir eu bod y peth goreu allai y Rhuwr ei gynyrchu, achos gwariodd dair noswaith i wneud yr englynion, ac yr oeddynt wedi rhoi boddlonrwydd mawr i'w gydweithwyr, ac hyd yn nod i'r Capten, a phan gyntaf y gwelodd efe y Llew rhoddodd iddo bisin deuswllt.

Ac felly y terfynodd Mrs. Trefor ei gyrfa, ac ni chymerodd i'r Capten fawr o oriau i fwrw ei hiraeth. Ac yn awr yr oedd ganddo hamdden i roi ei holl sylw i Waith Coed Madog. Ond yr oedd un peth yn ei flino, ac yn ei flino yn fawr. Yr oedd ei sefyllfa rywbeth yn debyg i hyn: Yr oedd yn dlawd a llwm. Credai, erbyn hyn, gan nad beth a fu yn ei gredu o'r blaen, nad oedd fymryn o obaith am blwm yn Nghoed Madog. Ac eto Coed Madog oedd ei unig swcwr; a phe darfyddai hwnw, ni fyddai ganddo afael ar swlit. Gwyddai ei gydwybod—os oedd ganddo un—mai arian Enoc Huws oedd yn cario'r Gwaith yn mlaen, oblegid yr oedd Mr. Denman er's tro wedi methu ateb y galwadau, er ei fod mewn enw yn gydberchenog. Tybiai y Capten hefyd ei fod yn ddigon craff i ganfod mai yr unig reswm am fod Enoc yn parhau i wario cymaint ar y Gwaith oedd ei serch at Miss Tefor—ei ferch—a'r munyd y deuai rhyw anghaffael ar hyny y byddai ef a'i Goed Madog wedi myn'd i'r cŵn. Yn wir, yr oedd efe wedi ofni pan beidiodd Enoc am

amser ymweled â Thy'nyrardd fod yr aflwydd wedi d'od arno, a dyna pa'm yr ymollyngodd i yfed mwy nag arferol. Ond yn awr ymgysurai fod ei ferch ac Enoc yn ymddangos ar delerau hynod gyfeillgar. Ond (yn mhell y bo'r "ond" yma! Dyma fi yn ei arfer mewn dwy frawddeg nesaf at eu gilydd. Yr wyf yn cofio Dr. Edwards, Bala, yn gwawdio dull y Cymro yn defnyddio'r gair "ond" lle nad oedd ei angen. "Ond" yr wyf yn meddwl fod ei angen yma, ac os ydyw pregethwyr *bob amser* ar ol enwi penau y bregeth yn ail ddechreu drwy ddweyd "Ond yn gyntaf," &c., heb fod eisiau "ond" o gwbl, siwr ddigon na châf fi ei ddefnyddio pan mae gwir angen am dano. Hyn rhwng cromfachau). Ond, ystyriai y Capten, os oedd ei ferch ac Enoc Huws yn debyg o ymbriodi, y byddai, wrth gario'r Gwaith yn mlaen, yn tylodi ei fab-yn-nghyfraith, ac felly, "mewn ffordd o siarad," yn tlodi ei hun, ac yn taflu arian i ffwrdd y byddai yn dda iddo wrthynt ryw ddydd i gadw corph ac enaid yn nghyd. Yr adeg hono rhoisai y Capten lawer am wybodaeth sicr am wir berthynas ei ferch âg Enoc Huws. Gyda'r amcan o gael allan a oedd Susi ac Enoc yn caru, arferodd y Capten bob dyfalwch a gwyliadwriaeth. Ymddarostyngodd can gymaint a gwrando wrth dwll y clo pan fyddai Miss Trefor ac Enoc mewn ystafell ar eu penau eu hunain, ac hyd yn nod ymguddio yn yr ardd pan fyddai Enoc yn ymadael. Ar fwy nag un achlysur, pan fyddai y Capten yn ymguddio yn yr ardd, siaradai âg ef ei hun i'r perwyl canlynol:—

"Wel, Mr. Huws, mae hi tua'r adeg y byddwch chwi yn gyffredin yn troi gartref—ac yr ydych, fel rheol, yn lled *exact*—ac mae Susi yn siwr o dd'od i agor y *gate* i chwi, ac i ddweyd nos dawch. A phe gwelwn i chwi, syr, yn rhoi cusan i fy merch—a gwyn fyd na welwn hyny—mi ddywedwn wrthych yfory rywbeth fel hyn—'Mr. Huws, mae fy ngobeithion wedi troi allan yn gau—nid ydwyf ond dyn ffaeledig, ac yr wyf wedi fy siomi—ac y mae arnaf ofn nad oes obaith i ni gael plwm yn Nghoed Madog, a ffolineb a fyddai i chwi a *minau* wario ychwaneg o arian. Yr wyf yn teimlo fod gonestrwydd yn galw arnaf i ddweyd hyn wrthych. Ar yr un pryd, os ydych yn awyddus i gario yn mlaen, mi sinciaf fy siawns gyda chwi, er—mae'n rhaid i mi gyfaddef, nad ydyw fy mhwrs lawn can hired a'r eiddoch chwi, ac yr wyf eisioes yn dechreu gwel'd ei

waelod. Os cymerwch fy nghyngor i, yr wyf yn meddwl yn onest mai rhoi y Gwaith i fyny a fyddai oreu."

Yn y man deuai Enoc allan a Susi gydag ef. Siaradent am y tywydd, ysgydwent ddwylaw yn gyfeillgar, dywedent nos dawch, a dyna'r cwbl, a melldithiai y Capten ddydd ei enedigaeth. Os nad oedd dim mwy na chyfeillgarwch rhwng ei ferch ac Enoc, teimlai y Capten mai ei ddyledswydd oedd cario'r Gwaith yn mlaen cŷd ag y medrai. Ond yn ei fyw nis gallai beidio credu fod rhyw ddealltwriaeth rhwng y bobl ieuainc, ac os felly, gresyn oedd i Enoc wario ei arian yn ofer, a dwyn ei hunan yn y man, efallai, i sefyllfa nad allai fforddio priodi. Wedi cryn ymdrech meddwl a phendroni nid ychydig, penderfynodd y Capten ofyn y cwestiwn yn syth i'w ferch. Ac un noswaith pan oedd hi ac yntau yn y parlwr, ac wedi gwlychu ei benderfyniad gyda dogn go lew o chwisgi, ebe'r Capten—

"Susi, mae rhywbeth, er's tro, yn pwyso yn drwm ar fy meddwl, ac yn peri tipyn o bryder i mi—yn wir, yn peri i mi fyw megis rhwng ofn a gobaith, ac, mewn ffordd o siarad, yn fy annghymhwyso i ryw raddau i roddi y sylw a ddylwn i fy ngor'chwyliaethau—gor'chwyliaethau fy ngeneth, fel y gwyddoch, sydd yn gofyn fy holl sylw."

"Be ydi hyny, nhad?" gofynai Susi.

"Wel," ebe'r Capten, "mae o yn gwestiwn *delicate* i'w grybwyll, mi wn, ond y mae eich mam wedi ein gadael—a gwyn ei byd—ac o herwydd hyny fe ddylai fod mwy o *confidence* rhyngoch chwi a minau, fy ngeneth. Y cwestiwn ydyw hwn, a mi wn y gwnewch ei ateb yn onest a digêl,—A oes rhywbeth rhyngoch chwi ac Enoc Huws? Peidiwch ag ofni ateb, Susi, oblegid mi wn sut bynag y mae pethau yn bod eich bod wedi gwneud yn iawn."

"Rhywbeth rhwng Mr. Huws a fi yn mha fodd, nhad?" gofynai Susi.

"Wel," ebe'r Capten, "yr oeddwn yn disgwyl y buasech yn deall fy nghwestiwn heb i mi orfod ei sillebu, ond y peth yr wyf yn ei ofyn ydyw hyn, ac fel tad, yr wyf yn ystyried fod genyf hawl i'w ofyn,—A ydych dan amod i Mr. Huws?"

"Amod i beth, nhad?" gofynai Miss Trefor.

"Amod i'w briodi, wrth gwrs; yr ydych yn deall fy meddwl yn burion, Susi, ond eich bod yn dymuno fy nhormentio," ebe'r Capten yn ddigon anniddig.

"Gwarchod pawb! na wnes i erioed amod â Mr. Huws, nac â neb arall," ebe Susi yn benderfynol.

"A 'does dim dealltwriaeth ddistaw rhyngoch i'ch dau mai i hyny y daw hi rai o'r dyddiau nesaf?" gofynai y Capten, ac ychwanegodd,—"Cofiwch, 'dydw i'n dweyd dim yn erbyn y peth."

"Dim o gwbl, nhad, na dim tebygolrwydd i'r fath beth byth gymeryd lle. Beth wnaeth i chwi feddwl am y fath beth?" ebe Susi.

"Wel," ebe'r Capten yn siomedig, "nid oeddwn yn meddwl fod y peth yn anmhosibl, nac yn wir yn annhebygol, ond gan mai fel yna y mae pethau yn sefyll, purion; a mi wn nad ydyw o un dyben i mi eich cyfarwyddo i wneud fel hyn neu fel arall, mai eich ffordd eich hun a wnewch."

"Mi geisiaf fy ngoreu wneud yr hyn sydd yn iawn, nhad, a'm mhenderfyniad ydi glynu wrthoch *to the bitter end*," ebe Susi.

"*Bitter* a fydd, y mae arnaf ofn, fy ngeneth," ebe'r Capten yn fyfyriol, ac yma y terfynodd yr ymddyddan, a diolchai Susi nad oedd ei thad wedi gofyn a oedd Enoc wedi cynyg ei hun iddi, oblegid buasai raid iddi ddweyd y gwir, a gwyddai y buasai ei thad yn gynddeiriog wedi clywed y gwir.

Myfyriodd y Capten gryn lawer y noson hono. Gwenieithiai iddo ei hun bob amser ei fod yn adnabod y natur ddynol yn lled dda, ond yr oedd yn gorfod cydnabod fod ei ferch yn ddirgelwch iddo. Buasai yn cymeryd ei lŵ fod rhywbeth rhyngddi hi âg Enoc Huws, ond yr oedd wedi camgymeryd. Ac eto teimlai yn sicr yn ei feddwl fod gan Enoc fwriadau gyda golwg ar Susi, ac ar yr un pryd yr oedd yn eithaf amlwg—oblegid ni ddywedai Susi gelwydd—nad oedd efe wedi hysbysu ei fwriadau. A beth oedd meddwl y dyn? Os oedd efe wedi gosod ei fryd ar Susi, paham na ddywedai hyny wrthi, a darfod â'r peth. "Oblegid," ebe'r Capten wrtho ei hun,—"fyddai hi ddim gymaint ffwl a'i wrthod o? Ac os byddai, mi crogwn hi. A ydwyf wedi twyllo fy hun am gyhyd o amser gyda golwg ar fwriadau Mr. Huws? Mae'n bosibl. Hwyrach, wedi'r cwbl, fod deall hen lanc allan o fy lein, er fy mod bob amser yn meddwl fy mod yn deall yn mron bobpeth. A pha beth ydwyf i'w wneud? Mae yn ddrwg genyf ysbeilio Mr. Huws o'r holl arian yma, ac eto os rhown Goed Madog i fynu mi fyddaf ar y

clwt. Ac y mae yn eglur ddigon y bydd i Enoc Huws dori ei galon a thaflu y cwbl i fynu,—fedr o ddim dal—mae yn anmhosibl iddo ddal—i wario o hyd os na ddaw rhywbeth i'r golwg. Ac o ba le y daw? Yr oeddwn wedi meddwl y buasai Mr. Huws wedi proposio i Susi cyn hyn,—yn wir, y buasent wedi priodi ac arbed yr holl drafferth hon i mi, achos mi gawswn felly damaid yn eu cysgod. Ond mi welaf erbyn hyn y bydd *raid* i mi dreio ffurfio rhyw fath o gwmpeini i Goed Madog—mae yn anmhosibl i *un* dyn ddwyn yr holl gost, ac i minau gael cyflog. Mae cael *machinery* a phethau eraill allan o'r cwestiwn—fe äi holl arian Mr. Huws—bob dimai goch, i gael y pethau angenrheidiol, a fedra i ddim ffrwytho i ofyn iddo wneud hyny, bydae o gymaint o ffwl a gwneud er i mi ofyn. A fyddai'r cwbl dda i ddim yn y diwedd. Ond y mae yn rhaid gwneud rhywbeth i gael tamaid. Ac am Denman, druan, y mae ef fel finau gystal a bod *up the spout* unrhyw ddiwrnod. 'Does dim arall am dani, ond ceisio codi cwmpeini a thyngu fod yn Nghoed Madog faint fyd fyw fynom o blwm, ond fod eisiau arian i fyn'd ato. Cawn i rhyw ddeg neu ddeuddeg o rai go gefnog, mi allwn gario yn mlaen am blwc eto, a 'does neb ŵyr yn y cyfamser beth droiff i fynu,—hyny ydyw yn rhywle arall, achos 'does yno fwy o blwm yn Nghoed Madog nag sydd yn mhoced 'y ngwasgod i. Bydawn i yn gallu ffurfio cwmpeini fe ysgafnhai hyny dipyn ar faich Mr. Huws—achos mae yn ddrwg gen i robio cymaint arno, p'run bynag a brodiff o Susi ai peidio. Rhaid i mi roi Sem Llwyd ati i bylafro am ragolygon Gwaith Coed Madog, ac felly yn y blaen, ac felly yn y blaen. Mae Sem yntau, ar ol deall fod hi dipyn yn galed arna i, ac yn analluog i iro ei ddwylaw fel y bu'm, yn ddigon *independent* a sychlyd, ond *rhaid* iddo wneud yn ol fy nghyfarwyddyd. Mi wn ei fod yn gwybod fy *secret*, y ffwl dwl. Ond y mae Sem dan fy mawd, ac fe ŵyr hyny yn burion. Mi achubais gorn ei wddw pan laddwyd Job Jones, druan, yn Mhwllygwynt. Wn i beth wnaeth i Sem gymeryd yn erbyn y bachgen clyfar hwnw. Ond fel y dywedais i wrth Sem—mi gofiff y noswaith tra bydd o byw—fe fuasai mor hawdd i mi ei wneud yn gyfrifol am—wel, can sicred a bod fy enw i yn—ïe, ond pwy ŵyr hwnw oddigerth Sem! yr ydym yn *quits!* Ond mae yn rhaid i mi feddwl am ffurfio rhyw fath o gwmpeini—*pro. tem.*, fel y dywedir, i 'ngalluogi i i fyn'd dros y gamfa hon yn fy mywyd."

## PENNOD XLIV.

### Y PARCH. OBEDIAH SIMON.

Yr oedd Mr. Obediah Simon, y bugail, ac Eos Prydain yn gyfeillion mynwesol. Ni welsai Mr. Simon erioed ddyn mwy pur ac unplyg na'r Eos, ac ni welsai yr Eos *bregethwr* yn deall haner cymaint o Sol-ffa ag a ddeallai Mr. Simon. Ac ni fu yr Eos yn fyr o fynegu hyny yn gyhoeddus fwy nag unwaith. Wedi clywed yr Eos yn canmol Mr. Simon am ei wybodaeth o Sol-ffa dro ar ol tro, dywedai Thomas Bartley ei fod yn methu yn lân a dirnad beth oedd a wnelo gwybodaeth o sofl ffa â phregethu yr Efengyl, a chredai ef y dylasai Dafydd Dafis, yr hwn oedd yn ffarmwr wrth ei grefft, wybod mwy o lawer na Mr. Simon am sofl ffa. "Ac am bygethu," ychwanegai Thomas, "mae Mr. Simon yn pygethu yn rhy ddufn o lawer i fy sort i a Barbra, a well gynon ni fil o weithiau wrando ar yr hen John Dafis, Nerquis. Mae'r pru hwnw yn dallt ffordd cym'dogion yn rhyfedd anwêdd, ddyliwn i. Wyddoch chi be, fydda i'n cael fawr o flas ar bygethu Mr. Simon, nes daw o dipyn at y diwedd. Mi wn ma arna i y ma'r bai, ac ma'r dyn yn ddyn digon clen hefyd, siampal. Ddaru mi ddeyd wrthoch chi rw dro ffasiwn bygethwr fydda i'n leicio? 'Naddo?' Wel, dyna fy aidi i am bygethwr—hwyrach mod i'n *wrong*—ond dyna'r sort fydda i'n leicio—pygethwr ddeidiff i dext yn ddigon uchel i bawb i glywed o. Yrwan, er's pan yr ydw i'n dechre myn'd dipyn i oed, a dim yn clywed cweit mor *sharp* ag y byddwn i—dydw i ddim yn clywed 'u haner nhw yn deyd 'u text, ac os colliff dyn y text, mae o fel ci mewn ffair am blwc. Dyna beth arall fydda i'n leicio mewn pygethwr, ydi fod o'n fywus, ac heb fod â'i ben yn 'i blu. Dda gen i 'namser y pygethwrs ara deg a thrwm yma—ma nhw wastad yn y ngneud i yn reit ddigalon. A dene lle bydda i'n deyd y mae pygethwrs y Wesles yn y'n curo ni—y Methodus. Wyddoch chi be, 'roeddwn i'n ddiweddar mewn cyfarfod Wesles, a chyfarfod siampal o dda odd o hefyd, a doedd ene ddim cymin ag un o'r pygethwrs â'i ben yn 'i blu,—'roeddan nhw i gyd wedi stripio

ati o ddifri calon. Ond yr oedd ene bygethwr yn y'n capel ni rhw fis yn ol—dyn nobyl a threfnus anwêdd hefyd odd o, a graen da ods arno, ond yr oedd o'n pygethu mor ddigalon a slo, fel y deydes i wrth Barbra acw wrth fyn'd o odfa'r bore,—'Wyddost ti be, Barbra, 'rodd y dyn ene yn deyd pethe da iawn, ond mi gymra fy llw fod o wedi colli'i wraig—a hyny yn bur ddiweddar, 'rodd yn hawdd gwel'd arno, a ma'n ddrwg iawn gen i drosto.' Ond erbyn i mi holi Dafydd Dafis, mi ges allan, a rodd reit dda gen i glywed hefyd—fod 'i wraig a'i blant o'n fyw ac yn iach, ac fod y dyn yn werth 'i filoedd. Ond faswn i byth yn meddwl hyny wrth i wrando fo. Dene beth arall fydda i'n leicio mewn pygethwr, fod o'n rhoi pwt o stori i ni 'rwan ac yn y man, 'run fath a'r dyn ene o sir Drefaldwyn ne' rwle o'r South ene. Be ydi enw fo? Hoswch chi—o ïe,—Jophes Tomos. Wyddoch chi be, dene'r pygethwr clenia glywes i erioed â'm dwy glust—mi fedrwn wrando arno am byth. Mae gyno fo faint fyd fyw fynoch chi o straes, a phob un o honyn nhw i'r dim, a ma gyno fo gymin o honyn yn mhob pregeth, a phob un yn ffitio mor dwt, fel y bum i'n dowtio weithie odd o'n peidio gneud rhai o honyn nhw—dase nhw waeth am hyny. Deydwch i mi be ydi'r achos fod y dyn ene heb i neud yn Ddoctor Difein? Ydi pobol y Merica ene ddim wedi clywed am dano fo? Ma ene rhw fistêc yn rhwle yn siwr i chi. A mi glywes Didymus yn deyd, a ma o'n gwybod pobpeth agos—fod ene rai sy wedi cael y teitl o Ddoctor Difein, wedi gael o mewn mistêc. Ond fasen nhw ddim yn gneud mistêc wrth i roi o i'r hen Jophes, achos ma rhai callach na fi yn deyd fod o'n un o'r rhai gore. Ond dene oeddwn i'n ddeyd,—mi fydda i'n leicio pygethwr tebyg iddo fo, a mi gerddwn beder milldir heno i'w glywed o. Dene beth arall fydda i'n leicio mewn pygethwr ydi, fod o'n myn'd yn well at y diwedd o hyd. Mi glywch ambell bygethwr 'run fath yn diwedd ag yn dechre. Dydi hyny ddim yn reit yn ol 'y meddwl i. Fe ddyle pobpeth fod yn well yn 'i ddiwedd nac yn 'i ddechreu, neu pa *use* dechreu yt ol? Dyma fi, 'rwan, wrth ddechre ———. Ond rhag i chwi flino arna i, dene'r peth dwaetha na i ddeyd ydw i'n leicio mewn pygethwr ydi—fod o'n sôn digon am Iesu Grist. Wn i fy hun ar chwyneb y ddaear be ma pregeth da, os na fydd yn sôn am Iesu Grist, a ma Dafydd Dafis yr un feddwl a fi ar y pen ene, ac os gŵyr rhwfun be ydi pregeth, y fo ŵyr. Ac eto yn y

dyddie yma, mi glywch ambell bregeth heb sinc na sôn am Iesu Grist, ond tipyn ar weddi. Ond efo hyny cychwynes i, fod Mr. Simon yn pygethu yn rhy ddufn o lawer i fy sort i."

Prin yr oedd dysgrifiad Thomas Bartley o Mr. Simon fel pregethwr yn gywir, canys nid oedd ei arddull yn neillduol o "ddufn." Dichon fod dull diweddaraf Mr. Simon o bregethu, yn rhy "ddufn" i Thomas, oblegid yr oedd yn ffaith fod ein gweinidog er ys tro bellach—gan roddi heibio ganu pregethu, a chan gyfeirio ei sylwadau yn fwyaf arbenig at y bobl ieuainc—wedi traethu gryn lawer ar *evolution*, negyddiaeth, ac anwybodyddiaeth, ac wedi sôn tipyn am agnosticyddiaeth, gyda'r amcan clodwiw o barotoi a chadarnhau meddyliau ieuenctyd Bethel ar gyfer y llanw dinystriol oedd ar fin gorchuddio Cymru grefyddol. Yr oedd efe hefyd wedi gosod o'u blaenau—gyda thipyn o fedr hefyd—wrthddadleuon annghredwyr, ac wedi eu cnocio yn dipia mân. Weithiau ffurfiai Mr. Simon fath o ymrysonfa, gan ddwyn annghredwr—un o'r rhai cryfaf—i'r *ring;* ac wedi rhoi pob mantais iddo, megis rhoi y tir uchaf iddo, a gosod ei gefn at yr haul, dygai Paul i'r cylch fel ei wrthwynebydd, gan gymeryd arno ei hunan edrych am gael chwareu teg a bod yn fath o *referee* neu *umpire.* Er fod Mr. Simon, fel gŵr canol, yn gwneud ei oreu i fod yn anmhleidgar, eto, ar derfyn pob *round*, yr oedd yn hawdd canfod ei fod yn dal Paul ar ei lin i roi gwynt iddo ac i guro ei gefn, ac yn gofalu, fel yr oedd yn briodol iddo wneud, ei ddwyn allan yn fuddugoliaethwr yn y diwedd. Mae yn ddiamheu mai y "diwedd" hwn a hoffai Thomas Bartley. Mae yn amheus ai doeth yn Mr. Simon oedd sôn cymaint am wrthddadleuon annghredwyr wrth bobl Bethel, canys ni wyddai un o bob haner cant o honynt fod y fath wrthddadleuon wedi bod yn blino ymenydd neb erioed. Ond wedi clywed Mr. Simon yn eu traethu, dechreuodd rhai o'r ieuenctyd—yn ol tuedd lygredig y galon ddynol—eu coleddu a'u hanwesu. A digrif ddigon oedd clywed ambell ysgogyn pendew, na ddarllenasai gan' tudalen o lyfr yn ei fywyd, yn cymeryd arno fod yn dipyn o annghredwr, ac yn defnyddio geiriau a thermau na wyddai tu nesaf i lidiart y mynydd, mewn gwirionedd, beth ydoedd eu hystyr! Gyda'r amcanion goreu, yn ddiamheu, yr oedd Mr. Simon wedi arfer ei holl ddawn i berswadio gwŷr ieuainc Bethel i beidio darllen y llyfr yma a'r llyfr acw. Nid oeddynt, cyn hyny, erioed wedi clywed

hyd yn nod enwau y llyfrau, ac aeth dau neu dri o honynt ar eu hunion i ymofyn am danynt. Protestiai Didymus fod anerchiadau a chynghorion Mr. Simon i'r ieuenctyd y moddion mwyaf effeithiol y gallai efe ddychymygu am danynt i ddwyn oddiamgylch y canlyniadau gwrthgyferbyniol i'r rhai a ddymunid, a'i fod yn ei adgofio am yr ysgolfeistr, yr hwn, cyn gollwng y plant o'r ysgol un prydnawn, a ddywedodd wrthynt —"Blant, mae genyf eisiau rhoi cyngor i chwi, ac yr wyf yn gobeithio y gwnewch wrando arnaf ac ufuddhau, a dyma fo—Cymerwch ofal wrth fyn'd adref o'r ysgol i beidio rhoi cèryg mân yn nghlustiau y mulod a welwch yn pori ar ochr y ffordd. Mae y fath beth yn greulon, ac yn greulon iawn, a gofalwch na chlywaf fod neb o honoch yn euog o'r fath weithred ysgeler." Ni chlywsai y plant erioed cyn hyny am y tric, a'r mul cyntaf a welsant ar y ffordd wrth fyn'd o'r ysgol, llanwasant ei glustiau â chèryg mân, er mawr ddifyrwch. Pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod. Pwy oedd y brenin hwnw a waharddodd i'w ddeiliaid ysmygu? Cynyddodd nifer yr ysmygwyr yn enfawr y flwyddyn hono! Yr oedd amcan Mr. Simon, fel yr eiddo yr ysgolfeistr, yn ganmoladwy, ond y mae ffrwyth y pren gwaharddedig bob amser yn ddymunol a theg yr olwg. A bod yn onest, rhaid dweyd nad oedd gweinidogaeth Mr. Simon yn gyfaddas iawn i gynulleidfa Bethel, ac er y dangoswyd pob caredigrwydd tuag ato, ac na ddarfu i hyd yn nod Didymus, chwerwed oedd ei natur, fod yn un math o graig rhwystr iddo, dechreuodd Mr. Simon yn lled fuan deimlo yn anesmwyth. Gwelodd nad oedd yn Bethel ddigon o *intelligence* i werthfawrogi ei dalentau. Ac nid hyn oedd ei siomedigaeth fwyaf. Nid peth anghyffredin, ymresymai Mr. Simon, oedd i ddyn fethu cael ei adnabod a'i fawrhau gan gynulleidfa o weithwyr diddysg; ond buasai yn disgwyl i'r *Cyfarfod Misol*—lle yr oedd hufen cymdeithas grefyddol y sir wedi ymgyfarfod—roddi pris ar ei athrylith. Ond yr oedd hyd yn nod y *Cyfarfod Misol*—ar ol rhoddi derbyniad croesawus iddo ar ei ddyfodiad cyntaf yno—wedi ei anwybyddu yn llwyr yn mron. Nid cysurus oedd hyn i ddyn ymwybodol ei fod yn feddianol ar dalentau a galluoedd meddyliol uwchlaw'r cyffredin, oblegid hymbygoliaeth ydyw dweyd mai pobl eraill sydd i farnu beth ydyw teilyngdod dyn a pha safle a ddylai efe gael mewn cymdeithas. Pwy sydd yn adnabod dyn cystal ag ef ei hun? Pwy sydd yn

gwybod hyd, lled, uchder, a dyfnder ei adnoddau fel efe ei hun?

Yn ystod ei arosiad yn Bethel, cadwodd Mr. Simon ei gymeriad yn lân, a gallasai ddiolch am hyny, i ryw raddau, i Eos Prydain. Wedi deall ei fod yn ymweled yn lled fynych â Thy'nyrardd, rhoddodd yr Eos yr awgrym iddo i fod ar ei wyliadwriaeth rhag i'r Capten ei andwyo. Parodd hyn i Mr. Simon fyfyrio ar y peth, a gwelodd nad diangenrhaid oedd yr awgrym. Oblegid wedi deall nad oedd Mr. Simon yn ddirwestwr, ni phallai y Capten gymhell gwirod iddo bob tro yr elai yno, ac argyhoeddwyd Mr. Simon, yn y man, ei fod yn gwneud hyn gyda'r amcan o beri iddo, ryw ddydd, dori'r drol, ac felly ei ddinerthu i roddi unrhyw gynghor i neb, na gweinyddu dysgyblaeth ar neb a fyddai yn dueddol i yfed gormod. Yn ffortunus, gwelodd Mr. Simon hyn mewn pryd, ac er ei fod yn rhoi pris mawr ar ryddid, ac yn arfer edrych ar lwyrymwrthodwyr fel y bobl fwyaf annghymedrol yn y byd, credodd mai ei ddyledswydd fel gweinidog yr Efengyl oedd cymeryd yr ardystiad. Ond, fel yr awgrymwyd yn barod, methai Mr. Simon weled fod digon o *scope* iddo yn Bethel, nac, yn wir, yn Nghymru, a phenderfynodd fyned i'r America. Pan wnaeth ei benderfyniad yn hysbys i'r eglwys, rhoddwyd credud cyffredinol i'w ddoethineb, ac amlygwyd cryn lawer o alar (gan Eos Prydain a'i gôr). Dyddanai yr Eos ei hun a'i gyfeillion y caffai Mr. Simon, yn ngwlad fawr y Gorllewin, ei wneud yn *Ddoctor of Music*, os nad yn Ddoctor mewn Duwinyddiaeth hefyd. Cymerodd yr Eos hefyd drafferth i sicrhau Mr. Simon y buasid yn gwneud tysteb iddo, oni bae fod cyflwr masnachol y gymydogaeth mewn ystad mor druenus o isel, a chynifer o bobl allan o waith. Felly nid oedd gan Mr. Simon ddim i'w wneud ond cymeryd yr ewyllys am y gallu.

Mynegwyd yn rhywle yn nghorph yr hanes hwn—nid wyf yn cofio yn awr yn mhle—y byddai Eos Prydain a'i gôr, pan fyddai un o aelodau eglwys Bethel wedi "darfod"—yr hwn ymadrodd a ddefnyddid am un wedi marw—y byddai yr Eos a'i gôr yn canu *Vital Spark* yn y capel; ac yn nghyfarfod ymadawol Mr. Simon, cyn iddo gychwyn i'r America, tybiodd yr Eos—yn gymaint a bod Mr. Simon wedi "darfod" âg eglwys Bethel—nad amhriodol a fyddai canu *Vital Spark*—â'r hyn y

cydsyniwyd. Ond gwrthododd yr Eos yn bendant aralleiriad Didymus o un penill, yr hwn oedd fel y canlyn—

> "Lend, lend your wing,
> I sail! I fly!
> Oh wind! where is thy victory?
> Oh sea! where is thy sting?"

Cydnabyddai yr Eos briodoldeb yr aralleiriad, ond ofnai, gan nad oedd y côr wedi cael *practice*, mai dyrysu a wnai; ac felly glynwyd wrth yr hen *version*. Cafwyd cyfarfod cynhes iawn i ffarwelio â Mr. Simon. Siaradodd Dafydd Dafis yn effeithiol dros ben, a gobeithiai o'i galon y gallai Mr. Simon "*wneud ei gartre*" yn yr America. Yn mhlith llawer o bethau da eraill, dywedai yr Eos fod gwasanaeth Mr. Simon gyda dosbarth y Sol-ffa yn gyfryw nad ellid byth rhoi pris arno, a'i fod yn hyderu na fyddai iddo, wedi cyrhaedd yr America, esgeuluso y Sol-ffa. Digwyddwn fod yn eistedd wrth ochr Thomas Bartley, a phan wnaeth yr Eos y sylw hwn, ebe Thomas yn fy nghlust—

"Be ma'r dyn yn boddro, deydwch? On'd *India corn* ma nhw'n dyfu yn y Merica, a chlywes i 'rioed fenshon fod nhw gneud fawr efo ffâ yno. Wyddoch chi be, ma'r Eos ene can ddyled a fine, blaw'r tipyn canu 'ma."

Aeth yr Eos i Lerpwl i gael yr olwg olaf ar Mr. Simon, ac arosodd ar y llong oedd i'w gludo i'r Gorllewin hyd y munyd olaf, a thystiai gyda dagrau yn ei lygaid, wedi dychwelyd i Bethel, mai y geiriau olaf a glywodd o enau Mr. Simon oeddynt—Sol-ffa!

Ac felly y diweddodd bugeiliaeth Mr. Simon yn Bethel. Pan yn dechreu ysgrifenu yr hanes hwn, arfaethwn sôn gryn lawer am ei weinidogaeth, ac am yr achos crefyddol yn ei wahanol agweddau tra y bu efe mewn cysylltiad âg eglwys Bethel, ond, rywfodd, cymerais fy llithio i ysgrifenu am bethau eraill llai pwysig. Ar yr un pryd y mae arnaf ofn y gwnawn gam â Mr. Simon, pe gadawn ei hanes yn y fan hon heb sylw pellach arno. Mae arnaf arswyd bob amser ymdrin a beirniadu buchedd dynion cyhoeddus, yn enwedig pregethwyr, rhag i mi drwy anwybod gyfeiliorni. O herwydd hyny, mi a roddaf i'r darllenydd grynhodeb o ymgom gymerodd le rhwng dau sydd wedi bod yn ymgomio o'r blaen yn yr hanes hwn—dau oeddynt yn llawer galluocach i wneud adolygiad ar fywyd a llafur Mr. Simon nag ydwyf fi.

## PENNOD XLV.

### Y GOHEBYDD.

Ar adegau neillduol—adegau a thipyn o bwys ynddynt—arferai Didymus dalu ymweliad â Dafydd Dafis. Ac nid anfuddiol a fyddai yr ymweliadau hyn i'r ddau fel eu gilydd, oblegid yr oedd angen ar Dafydd am yspardyn, ac angen, weithiau, ar Didymus am ffrwyn. Derbyniai Didymus fwy o les oddiwrth Dafydd nag a wnai Dafydd oddiwrtho ef. Fel gohebydd i'r newyddiadur—canys dyna oedd ei brif orchwyl—tueddai Didymus, fel ei frodyr yn gyffredin, i redeg i ormod rhysedd—gorliwio pethau—penderfynu pethau dyrys—pethau y byddai gwŷr pwyllog yn petruso yn eu cylch—a thraethu ei syniadau braidd yn oraclaidd ac awdurdodol. Lawer tro pan fyddai ar fin ysgrifenu adroddiad am ryw gyfarfod neu ddigwyddiad, a'i feddwl yn llawn o frawddegau cyrhaeddgar ar haner eu ffurfio, a phan fyddai yn dyfeisio sut "i'w rhoi hi" i hwn neu arall, y bu ymgom gyda Dafydd Dafis yn foddion effeithiol i liniaru a chymesuro y cwbl, ac weithiau i beri iddo daflu y cyfan, fel y taflwyd Jonas, dros y bwrdd i'r môr.

Yr oedd cyfarfod ymadawol Mr. Simon yn "ddigwyddiad" yn Bethel, ac yn gyfleusdra rhagorol, fel y tybiai Didymus, iddo ef fwrw golwg dros ei arosiad yn ein plith, ac, heblaw y byddai i hyny lenwi tair colofn o'r *County Chronicle*, am yr hyn y c'ai dâl gweddol, y byddai hefyd yn fantais iddo yntau gael dweyd ei feddwl ar bregethu a phregethwyr, ac ar hyn a'r llall oedd wedi bod yn croni yn ei fynwes er's tro. Ond cyn arllwys ei hun ar bapur, da, yn ddiamheu, y gwnaeth Didymus ymweled â Dafydd Dafis. Ac ebe Dafydd—

"'Roeddwn i braidd yn y'ch disgwyl chi yma heno, Thomas, a mae'n dda gen i bod chi wedi dyfod. 'Rydw i wedi bod yn meddwl llawer heddyw be ddeydech chi, tybed, yn y papur newydd am y cyfarfod neithiwr, achos mi wn y disgwylir i chi, yn ol y'ch swydd, ddeyd rhwbeth. A 'roeddwn i'n gobeithio, ac yn gweddïo hefyd, 'rwyn meddwl, i chi gael doethineb i'ch cyfarwyddo."

"Wel," ebe Didymus, "yr wyf am roi adroddiad *verbatim et literatim* o'ch araith chwi, Dafydd Dafis."

"Be ydach chi'n feddwl wrth hyny, Thomas?" gofynai Dafydd.

"Rhoi yn y papur bob gair ddaru chwi ddweyd, achos 'doedd yno ddim arall yn werth ei wrando," ebe Didymus.

"Twt lol," ebe Dafydd. "Na, mewn difri, be ydach chi am ddeyd am y cyfarfod? Rhaid i chi gofio, Thomas, mai nid pobl Bethel yn unig fydd yn darllen y papur, a mi leiciwn i chi gymeryd gofal."

"Beth fuasech chwi yn ei ddweyd pe buasech yn fy lle i, Dafydd Dafis?" gofynai Didymus.

"Wn i ddim, yn siwr," ebe Dafydd. "Braidd na feddyliwn mai peidio deyd dim faswn i."

"Sut y caf i fara a chaws wrth beidio dweyd dim?" gofynai Didymus. "Mae hi'n fater rhaid arna i ysgrifenu hyn a hyn i'r *Chronicle* bob wythnos i fedru byw. A welsoch chwi erioed yr helynt fydd hi arnaf weithiau yn nyddu clamp o hanes allan o ddim yn y byd. Mae yn rhaid i *reporter* mewn lle bach fel hwn fod wrthi hi yn creu o hyd. A chwi synech gymaint o areithiau yr wyf yn orfod wneud yn ddiddiwedd na thraddodwyd erioed mo honynt. Dyna'r *report* o'r areithiau fyddaf yn ei anfon bob mis i'r *Chronicle* o'r *Local Board*, ydach chwi'n meddwl fod eu haner nhw wedi cymeryd lle yn y *Board?* Dim peryg! 'Does yno ddim tri aelod ar y Bwrdd fedr roi dwy frawddeg wrth eu gilydd yn ramadegol. Ond pob aelod agoriff ei gêg yn y Bwrdd mi fyddaf inau yn rhoi *speech* iddo yn y papur. Yn wir, cyn hyn mi fu'm yn rhoi cloben o araith yn y papur gan aelod nad oedd wedi gwneud dim ar y Bwrdd ond rhoi nòd o gydsyniad â rhyw benderfyniad neu gilydd.

"Un garw ydach chi, Thomas, ond ydach chi'n meddwl fod chi'n gneud yn iawn, deydwch?" gofynai Dafydd.

"Yn hollol iawn," ebe Didymus. "A mae hi 'run fath yn union, wyddoch, yn y *Board of Guardians.* Dyna yr hen Lwyd, Wern Oleu, yr wyf yn ei gofio un tro yn gwneud cais at *speech*, ac fel hyn y dechreuodd—'*Mistir Cheerman, I did remember when I am a boy,*' &c. Ni fuasai yn gwneud y tro i mi adrodd peth fel yna, wyddoch, yn y papur, a'r ffordd y reportiais i o oedd—*Mr. Chairman, the subject now under discussion forcibly reminds me of my boyhood, &c.*, a mi roddais lafnes o *speech* iddo

na thraddodwyd mo honi erioed. Ac yn y *Board* diweddaf, mi gymra fy llŵ, yr unig beth ddywedodd yr hen Lwyd oedd—'*I beg to second resolution*,' a mi chwysodd yn ddyferol wrth ddweyd hyny, ond mi roddais dipyn o *speech* deidi iddo yn y *Chronicle*, achos mi wyddwn y buasai hyny yn ei foddio. A bydaswn i yn marw fedrwn i ddim peidio gwenu pan gyfarfyddais yr hen Lwyd yn y ffair. Meddai, ac yn torsythu yn enbyd—'Wyddoch chi be, Thomos, mi ddaruch roi port clen iawn o'r Bord y Gardians dwaetha—mi ddaru'ch ddeyd bron air am air be oeddwn i wedi ddeyd. Pryd y dowch chi acw i gael tamed o swper, deydwch?' Yr oedd hi yn andros o *job* cadw gwyneb sobr wrth ddweyd wrtho nad allwn fyn'd i'r Wern Oleu yr wythnos hono. A chan sicred a bod chi'n eistedd yn y gader yna dyma i mi chwiaden o'r Wern Oleu boro dranoeth."

"Wel, chlywes y fath beth yn y mywyd," ebe Dafydd. "Ond deydwch i mi be fydd yr aelodau eraill yn ddeyd wrth ddarllen yn y papur am yr hen Lwyd wedi bod yn *speechio?*"

"Dim ar affeth hon y ddaear! Achos hwy wyddant i gyd bydawn i yn reportio areithiau y rhai goreu o honynt fel y maent yn cael eu traddodi mai llûn rhyfedd fyddai arnynt. Mae rhyw fath o *Free Masonry* yn eu plith—peidiwch chwi dweyd arna i ddeyda inau ddim arnoch chwithau. Yn wir, chlywais i erioed mo'r *chairman* yn cwyno pan fyddwn wedi rhoi clamp o ddarn at ei araith."

"Wyddoch chi be, faswn i ddim yn leicio rhw fusnes fel yna,—'dydio ddim yn edrach yn syth a gonest, rwsut," ebe Dafydd.

"Pawb at y peth y bo—pob taleidiaeth rhag tylodi, Dafydd Dafis. Gwaith *reporter* ydyw dyfeisio beth sydd yn meddwl dyn, a sut y buasai yn dweyd ei feddwl pe medrai; ac os llwydda i ddirnad ei feddyliau annywededig, pobpeth yn dda," ebe Didymus.

"Ond ffasiwn *report* ydach chi am roi o gyfarfod ymadawol Mr. Simon?" gofynai Dafydd.

"Wn i ar wyneb y ddaear," ebe Didymus. "Rhaid i mi ysbladdro rhywbeth, ac fe fuasai yn dda genyf gael dweyd wmbreth o'r hyn sydd ar fy meddwl, ac adolygu tipyn ar y cyfnod y bu Mr. Simon yn myn'd a dyfod yn ein plith. Ond y mae un peth yn peri i mi betruso, a dyna y rheswm i mi ddyfod yma heno. Ddymunwn i er dim a welais erioed niweidio y fugeil-

iaeth yn y sir. Mae digon o ragfarn yn ei herbyn eisoes, a mi wn bydawn yn dweyd fy meddwl yn syth yn y papur, y creai hyny fwy o ragfarn. Ond yn onest 'rwan, Dafydd Dafis, a atebodd bugeiliaeth Mr. Simon un amcan da tra y bu efe yma?"

"Do, yn ddiau," ebe Dafydd, "fe argyhoeddodd agos bawb, 'rwyf yn credu, o'r ffolineb o neidio i ddyn na ŵyr neb ddim am dano, a mi fu yn foddion, mi obeithia', i ni sicrhau dyn da y tro nesaf."

"Mi obeithiaf inau mai gwir a ddwedwch," ebe Didymus. "Mae dynion o stamp Mr. Simon—a mae llawer o honynt—yn diraddio ac yn damnio y fugeiliaeth yn ein gwlad, ac yn lleihau cariad y bobl at y rhai sydd wir fugeiliaid. Yr wyf mor selog dros fugeiliaeth eglwysig ag Edward Morgan, Dyffryn, ond yr wyf yn ofni—nid fod gormod o gymhell ar yr eglwysi i gael bugeiliaid—ond rhy fychan o gymhell pa rhyw fath ddynion a ddylent hwy fod. Yn y cychwyn cyntaf, mi gredaf, y mae'r drwg yn bod. Mae'r gŵr ieuanc, i ddechreu, yn syrthio mewn ffansi â swydd pregethwr. Mae yn gweled ei bod yn swydd o anrhydedd, ac nad oes neb yn fwy anwyl a pharchus gan y Cymro na'r pregethwr. Yn ei ffolineb, tybia y gŵr ieuanc ei bod yn swydd esmwyth, ddilafur, oddigerth rhyw bedair awr ar y Sabbath, ac fod y cyflog yn weddol dda. Y mae yn syrthio mewn ffansi â'r *swydd*, meddaf, ac yna y mae yn dechreu gwisgo côt ddû, laes, a het a chantel llydan, a gwasgod yn cau i'r top ar y Sabbathau. Y cam nesaf a fydd—diflasu ar ei alwedigaeth a gwâg symera ar ddyddiau yr wythnos yn ei gôb laes,—*livery* y pregethwr. A chan nad oes neb wedi meddwl y gwnai bregethwr, dywed ef ei hun, ryw ddiwrnod, wrth ei gyfeillion, fod ei fryd ar y weinidogaeth. Mae pawb wedi synu. Ond erbyn meddwl, cydnebydd pawb ei fod yn debyg i bregethwr *o ran ei ddillad*. Ac felly yn y blaen, ac yn y blaen, heb i mi ei ddilyn, nes y daw allan o'r coleg, a thrwy ryw lwc y caiff ei alw yn fugail. Ac yna y dechreua edrych yn ysgoewedd ar hen bregethwyr duwiol (nad ydynt fugeiliaid) a gyfeiriasant ambell bechadur ar y ffordd i'r Bywyd. Yr wyf yn credu o 'nghalon na ddylai un bachgen gael dechreu pregethu os na fydd o'i ysgwyddau i fynu yn uwch na'i gyfoedion mewn gallu, gwybodaeth, a diwylliant, ac os na fydd wedi hynodi ei hun fel athraw llwyddianus yn yr Ysgol Sul, ac yn nghyfarfodydd y

plant, y cyfarfod gweddi, ac yn mhob cylch o fewn ei gyrhaedd i wneud ei hun yn ddefnyddiol, ac i ddangos gonestrwydd ei sel dros wneuthur daioni. Nid wyf yn credu mewn caniatau i ŵr ieuanc roi naid o ddinodedd i'r pwlpud, oblegid unwaith yr esgyna risiau y pwlpud, anhawdd iawn ydyw dweyd wrtho am beidio myn'd yno drachefn. Ac nid wyf yn credu mai oddiwrth y gŵr ieuanc y dylai y cais am gael pregethu ddyfod. Dylai ddyfod fel deisyfiad neu orchymyn oddiwrth eraill ato ef —y rhai sydd wedi sylwi arno, a chanfod ynddo gymhwysderau i'r gwaith."

"Yr wyf yn cydweled â llawer o'r hyn ydach chi'n ddeyd, Thomas," ebe Dafydd, "ond mi wyddoch o'r goreu bydase ambell un ydan ni'n nabod fel gwir bregethwr yn aros nes i'r eglwys ofyn iddo bregethu, y base heb ddechre hyd heddyw. Mae'n digwydd weithiau fod ambell eglwys heb ddigon o synwyr ynddi i weled defnydd pregethwr mewn bachgen sydd wedi ei fwriadu gan Dduw i fod yn bregethwr."

"Eithriad ydyw hyny, Dafydd Dafis," ebe Didymus. "Mae yna ddywediad fod bardd yn cael ei eni yn fardd, ac nid yn cael ei wneud yn fardd; ac y mae yn hollol wir. Pa nifer o feirdd a anwyd yn feirdd sydd yn Nghymru heddyw? Gellwch eu cyfrif ar benau eich bysedd. Ond y mae y rhai sydd yn cordeddu rhigymau ac yn gwisgo ffugenwau yn afrifed. Yr un modd rhaid i bregethwr gael ei eni yn bregethwr neu rhigymwr fydd o byth. Dydio ddyben yn y byd prentisio dyn yn bregethwr—gwneud person Eglwys o hono ydyw hyny ac nid gwneud pregethwr."

"Ydach chi yn meddwl deyd, Thomas, y gellwch chi gyfrif gwir bregethwyr Cymru ar bena'ch bysedd?" gofynai Dafydd.

"Dim o'r fath beth," ebe Didymus, "o drugaredd y maent yn llu mawr. Mae ar Gymru fwy o angen am bregethwyr nag am feirdd, ac y mae Duw wedi creu mwy o honynt. Ond hwyrach fod *proportion* y rhigymwyr yn mhlith y ddau ddosbarth yn lled gyffelyb. Ydach chwi ddim yn meddwl, Dafydd Dafis, fod ni yn cael gormod o bregethu?"

"Gormod o bregethu, Thomas? 'Does dim gormod o bregethu i fod. Mi fedrwn wrando pregethu'r Efengyl bob dydd o 'mywyd," ebe Dafydd.

"Wel," ebe Didymus, "mi fyddaf fi yn ofni fod ni yn cael gormod o bregethu o'r haner o'r peth ydio. Pan nad oedd ond

rhyw ddwsin o bregethwyr yn Nghymru, a'r rhai hyny i gyd yn *A* ONE, yr oedd mwy o flas ar yr Efengyl, a mwy o'r haner yn cael eu hachub, ond pan mae pob sort yn myn'd ati i rygnu'r stori,—i'w hadrodd yn oer a didaro, ydio yn ateb rhyw ddyben heblaw cynefino y gwrandawyr â'r ffeithiau a'u hamddifadu o'u newydd-deb, a pharotoi agwedd ddigyffro erbyn y daw un i ddweyd yr hanes yn ei swyn a'i nerth? Ydach chi'n meddwl bydasai Paul wedi anfon haner cant o ddynion claiar o'i flaen i adrodd yr hanes y buasai efe yn gallu dweyd yn y diwedd ei fod wedi llenwi y byd âg Efengyl Crist? Y mae arnaf ofn y buasent wedi andwyo ei waith."

"Beth a ddeuai o'n holl gynulleidfaoedd—yn enwedig ein cynulleidfaoedd bychain yn y wlad—bydaech yn llwyddo i roi stop ar yr holl bregethwyr nad ydynt yn ein hargyhoeddi eu bod wedi eu geni neu eu bwriadu i fod yn bregethwyr, a phe bai Cymru yn gorfod dibynu yn hollol ar y pregethwyr ag y mae cydwybod pawb yn gorfod tystio eu bod yn anfonedig?" gofynai Dafydd.

"Beth sydd yn dyfod o honynt yn awr? gofynai Didymus. "A oes ychwanegiadau yn cael eu gwneud atynt o'r byd? Ai nid yr unig beth sydd yn eu cadw heb leihau ydyw hiliogaeth yr eglwysi eu hunain? Heblaw hyny, y mae y gorofal a ddangosir yn y dyddiau hyn am *lenwi* pwlpudau pob mynydd a chwm gan rywun rhywun yn atal yr eglwysi rhag syrthio ar eu hadnoddau eu hunain, ac yn magu difrawder a diogi ysbrydol. Am y ca rywun yn y pwlpud bob Sabbath, pe na byddai ond dyn pren,—teimla yr eglwys ei bod wedi gwneud ei dyledswydd, pryd, pe buasai wedi ei gadael iddi ei hunan fel yn yr Ysgol Sabbothol, y buasai yn ymroi ati ac yn *gwneud* rhywbeth."

"'Dach chi ddim yn meddwl gneud i ffwrdd â phregethu, ydach chi, Thomas?" gofynai Dafydd.

"Gwarchod pawb! nac ydwyf ar un cyfrif," ebe Didymus, "pregethu yr Efengyl ydyw y moddion y mae Duw wedi ei ordeinio i achub y byd, ac y mae Cymru, yn anad un wlad dan haul, yn fwy dyledus i'w phregethwyr nag i neb na dim arall. Ond pe medrwn, mi wnawn i ffwrdd â'r blera pregethu—hyny ydyw, mi wnawn i ffwrdd â phob pregethwr nad ydyw wedi ei ddonio âg ysbryd y weinidogaeth—y dosbarth sydd yn llenwi adwyon ac yn arbed cael cyfarfodydd gweddïo."

"Ond pwy sydd i benderfynu pwy ydynt y gwir bregethwyr, a phwy ydyw y rhai sydd yn llenwi adwyon?" gofynai Dafydd.

"Yr eglwysi, wrth gwrs, drwy y *balot*," ebe Didymus, "achos fe ŵyr yr eglwysi yn burion y gwahaniaeth rhwng y gwir bregethwr a'r *imitation* o hono sydd yn *llenw'r pwlpud.* Mae pob cynulleidfa yn mron erbyn hyn yn ystyried y dylai gael dwy bregeth ar y Sabboth, ac yn hytrach na chael 'Sabboth gwâg,' mae y blaenoriaid yn myn'd i howca am Dic, Tom, a Harri. Llawer gwell, yn ol fy meddwl i, a fyddai i ni fyw ar ein bloneg hyd yn nod am fis, hyd nes y deuai ein tro i gael *y pregethwr*, yn hytrach na chadw shop fach bob Sabboth fel y gwneir yn awr. Ac hwyrach y codai hyny ystumog at yr Efengyl fel er's talwm, ac yr elai pobl yn dyrfaoedd filldiroedd o ffordd i wrando *y pregethwr*, ac y deuent adref gyda llon'd gwalet i fyw arno am wythnosau."

"Byw go fain fyddai hi arnom ni," ebe Dafydd, "a mi fydde'n bloneg ni wedi darfod yn lled fuan, mae gen i ofn. Mae gynoch chi ryw ddrychfeddyliau gwylltion ac anmhosib bob amser, Thomas. Ond gadewch i ni siarad sens, da chi. Be ydach chi am ddeyd yn y papur am y cyfarfod neithiwr?"

"Mae genyf flys cymeryd eich awgrym a pheidio dweyd dim," ebe Didymus, "hyny ydyw, rhoi rhyw baragraff bach diniwed. Achos y peth goreu fedrwn i ddweyd am Mr. Simon a fyddai mai dyn y *livery* oedd o. Welais i neb o'r clerigwyr yn fwy clerigol na fo. Mi gymra fy llŵ pe buasai ei gôt yn *one six-teenth of an inch* yn rhy gwta na buasai byth yn edrych arni, heb sôn am ei gwisgo; a phe buasai ei wasgod yn cuddio neu yn datguddio ei golar wen un ran o fil o led blaen nodwydd mwy neu lai nag y dylasai, y buasai hyny yn dwyn arno y *typhoid fever*, ac yn ei amddifadu o hyny o Efengyl oedd ganddo. O! ïe, cofiwch, y golar, dyna anhebgor gweinidog y dyddiau hyn,—hyny ydyw, gweinidogion y *livery*—ac nid cadach gwyn ddwywaith o gwmpas y gwddw fel yr hen gewri gynt. Pa beth a gymerasai John Jones, Talysarn, am wisgo y golar Jesuitaidd hon? Buasai yn cyfrif ei hun yn euog o dân uffern pe rhoisai hi am ei wddf."

"Gwarchod pawb! tewch, Thomas, yr ydach chi'n myn'd yn fwy rhyfygus bob dydd," gwaeddai Dafydd.

"Geiriau gwirionedd a sobrwydd yr wyf yn eu hadrodd,

Dafydd Dafis," ebe Didymus. "Beth, yn enw pob rheswm, sydd yn gofyn am i bregethwr wisgo yn wahanol i bobl eraill, a pheri i chwi feddwl, wrth edrych ar gymydogaeth corn ei wddw, ei fod yn bwriadu *commitio suicide* mewn ffordd *respectable?* Pa'm y rhaid i weinidog fod yn fwy annaturiol na'r un creadur byw ar wyneb daear? Pwy oedd yn gwawdio, ddeugain mlynedd yn ol, mân giwradiaid Cymru am eu gwisgoedd offeiriadol? Onid gweinidogion Ymneillduol? Ond, erbyn heddyw, dydi'r Ciwrad, druan, o'i gydmaru âg ambell fugail Methodistaidd a gweinidog Annibynol, yn lle'n y byd, o ran côt, colar, a het,—o'u cydmaru â'r offeiriaid maent hwy yn *arch*offeiriaid—byth na smudo i! Cofiwch, yr wyf am i bregethwr wisgo yn dda a pharchus, ac yr wyf yn cashau gweled pregethwr yn slyfenllyd, ond y mae y wisg orglerigol yma yn fy ngwneud yn sâl ac yn codi'r *bile* arnaf. A'r tacle mwyaf diddawn a diawydd am achub pechaduriaid ydynt y rhai mwyaf clerigol o'r lot. Wyddoch chwi beth, yr oeddwn yn gwrando ar un o bregethwyr mwyaf Cymru yr wythnos ddiweddaf, ac er ei fod yn pregethu yn ardderchog, mi gefais gymaint o fendith wrth edrych ar ei gadach dû a'r naturioldeb oedd o gwmpas y dyn ag a gefais yn ei bregeth. 'Does dim angen ar rywun fel —— am *livery*, Dafydd Dafis."

"Wel, wel, Thomas bach," ebe Dafydd, "yr ydach chi'n tramgwyddo wrth bethe bychain iawn, a phe basech chi'n ddyn dall, fel y Bartimeus hwnw, mi gawsech lawer mwy o fendith yn moddion gras."

"Synwn i ddim; ond yr wyf yn awr yn gweled, a mae gweled pethau fel hyn yn fy ngwneud yn gwla, ac yn llai o Fethodist bob dydd. Ac nid wyf ar ben fy hun—mae y glerigaeth yma yn ddolur llygaid i filoedd. 'Does dim o *prestige* yr Hen Gorph ynddo. Ond swm y cwbl a glybuwyd yw hyn—un o wŷr y *livery* oedd Mr. Simon—un wedi ei brentisio i fod yn weinidog heb erioed ei eni yn bregethwr. A mi fuaswn yn leicio dweyd tipyn arno yn y papur, ond mi gymeraf eich cynghor rhag i mi ddweyd rhywbeth na ddylwn. Rhaid i mi geisio d'od o hyd i 'bytaten enfawr' neu 'hwch epilgar' yn rhywle i wneud i fynu newyddion yr wythnos. Da bo'ch a dibechod."

## PENNOD XLVI.

### AMRYWIOL.

AETH wythnosau lawer heibio, ac er i Sem Llwyd "balu celwydd" gymaint ag a allai am ragolygon Gwaith Coed Madog, ac i'r Capten roddi pob gewyn ar waith i geisio cael gan ei gymydogion arianog gymeryd *shares* yn y Gwaith, ni choronwyd eu hymdrechion â llwyddiant. Ac, erbyn hyn, ystyriai y Capten rhyngddo âg ef ei hun fod y dyfodol yn edrych braidd yn dywyll; ac i ddwyshau ei ofidiau, yr oedd Mr. Denman—ar ol ymladd yn galed â'r byd, a hel cymaint o arian ag a allai i'r Capten, er mwyn cadw ei *interest* yn Nghoed Madog—yr oedd yntau, yn erbyn ei waethaf, wedi gorfod troi yn fethdalwr—wedi ei werthu i fynu—wedi gorfod symud i dŷ bach haner coron o rent—a chymeryd lle fel cynorthwywr am ddeunaw swllt yr wythnos, er mwyn cael rhyw lun o damaid. Dawn a ballai i adrodd yr hyn oll a ddyoddefodd y creadur truan oddiwrth edliwiadau ei wraig; ac yn wir, wrth feddwl am y sefyllfa gysurus y bu efe unwaith yn ei mwynhau—pan oedd yn meddu tai a thiroedd, a stoc dda yn y siop—nid rhyfedd fod Mrs. Denman yn rhincian yn feunyddiol, ac yn ei adgofio yn fynych fel yr oedd efe wedi cario ei holl eiddo "i'r hen Gapten y felldith." Yr oedd Mr. Denman, druan, yn awr yn gorfod goddef yn ddistaw, ond yr hyn a'i blinai fwyaf oedd ei anallu i dalu ei ddyledion. Nid oedd ganddo obaith bellach am dawelwch a llonyddwch ond yn y bedd, i'r lle yr oedd efe yn prysur fyned. Ond trwy y cwbl, yr oedd Mr. Denman yn parhau i ddyfod yn gyson i'r capel, ac ymddangosai yn cael mwy o fwynhad yn y moddion nag erioed; ac, fel y dywedai Dafydd Dafis, er fod y Mr. Denman, ar ol blynyddau o ymdrech ac aberth mawr, wedi methu cael plwm, yr oedd yn bur amlwg ei fod wedi d'od o hyd i'r "perl gwerthfawr."

Nid allai y Capten lai na synu a rhyfeddu fod Enoc Huws yn dal i wario arian yn ddibaid ar Goed Madog, a hyny yn galonog a siriol, a mynych y dywedodd ynddo ei hun,—"Mae yn rhaid fod Mr. Huws yn gwneud busnes anferth i allu dal i

dyn dylo blewog 1) a peevish man (2) a pilferer (Voc. Langor Dis. p. 342)



wario cymaint. Mae'n greulondeb gadael iddo fyn'd yn mlaen fel hyn. Ond beth a ddeuai o hono' i bydae o'n rhoi *stop* arni?" Ac felly yr *oedd* Enoc *yn* gwneud busnes anferth, ac nid oedd yn gofalu llawer am arian. Ac ni allai y Capten lai na sylwi fod Enoc yn ymddangos yn hapusach a hoewach nag y gwelsai efe ef er's blynyddau. "Diamheu," meddai y Capten, "fod Mr. Huws yn cael mwy o gysuron gartref gyda'r *housekeeper* newydd. Wn i beth wnaeth iddo gadw yr hen gwdsach gan Farged hono cyhyd. Ond y mae y Miss Bifan yma yn ymddangos yn *superior sort of woman*. 'Does genyf ond gobeithio na phriodiff Mr. Huws mo'ni. Mae y merched golygus yma yn gymeriadau peryglus fel *housekeepers* i hen lanciau. Synwn i lwchyn nad felly y diweddiff hi. Yn wir, y mae rhywbeth yn serch-hudol yn ngolwg y ferch. Bydaswn i yn ŵr ifanc fy huu —— wel."

Fe gofia y darllenydd fod Enoc wedi cyflogi Miss Bifan heb ymorol dim am ei chymeriad, na gofyn iddi yn mha le y buasai yn gwasanaethu ddiweddaf. Pan glywodd Jones, y Plismon, y chwedl hon, chwarddodd o eigion ei galon, ac nid allai beidio edmygu diniweidrwydd crediniol ei hen gyfaill Enoc. Ond ni orphwysodd Jones wedi hyn nes d'od o hyd i holl hanes Miss Bifan,—fel y tybiai ef—ac wedi ei gael, ni oedodd ei hysbysu i Enoc. Yn ol Jones, yr oedd caritor Miss Bifan yn rhywbeth tebyg i hyn:—Unig ferch ydoedd hi i amaethwr gweddol barchus, yr hwn oedd yn byw oddeutu pedair milldir o Bethel. Yr oedd wedi ei dwyn i fynu yn grefyddol, wedi cael ychydig o addysg, a phan yn hogen, wedi enill amryw wobrwyon am ganu, darllen, ac ateb cwestiynau mewn cyfarfodydd cystadleuol, a chyfrifid hi yn llawer mwy talentog na'i chyfoedion. Yr oedd Miss Bifan hefyd, er yn lled ieuanc, yn cael edrych arni fel yr eneth brydferthaf yn yr ardal, yr hyn a barodd i'w chyfeillesau genfigenu ati, ac i'r hogiau ymrafaelio yn ei chylch. Erbyn hyn, yr oedd Miss Bifan wedi bod yn gwasanaethu mewn amryw fanau, a chyda theuluoedd parchus, a'r unig gŵynion a ddygid yn ei herbyn gan y "teuluoedd parchus" y bu yn eu gwasanaethu, oeddynt—yn gyntaf, ei bod yn gwisgo yn rhy dda: yn ail, ei bod yn peri i'w merched ymddangos yn gomon, hagr, a diolwg; yn drydydd, fod ganddi bob amser gariad, a'i bod bob amser yn ffafryn gan feibion "y teuluoedd parchus;" ac yn olaf, fod ganddi ddwylaw blewog. Pan

fynegodd y plismon hyn oll i Enoc, credodd y dystiolaeth am yr holl gŵynion oddigerth yr olaf, ac ebe fe yn selog:—

"Wrth gwrs, y mae'r eneth yn gwisgo yn dda, a beth ydi hyny i neb arall, ac nid busnes mistar na mistres ydyw dweyd wrth y forwyn sut a be i wisgo, os bydd hi yn talu am ei gwisg. Ac mae'r eneth hefyd yn brydferth—'does dim dowt—ond 'dall hi ddim wrth hyny, a mi greda'n hawdd fod hi'n gneud i ferched 'y teulu' edrach yn gomon yn ei hymyl, a bod y meibion yn leicio'i golwg hi,—beth oedd yn fwy naturiol? ond 'does ddim eisio beio'r eneth am hyny, a dydio ddim ond cenfigen *mean*, sâl. Wyddoch chi be, mae ambell deulu yn meddwl nad oes gan forwyn ddim busnes i fod yn bropor, a bydae nhw'n medru, mi roen y frech wèn arni, os nad hac yn ei gwefus. A dydio ryfedd yn y byd os oes gan yr eneth gariad, ac os nad oes ganddi gariad—a mae hi'n deyd nad oes ganddi 'run—mae o'n dangos fod bechgyn can ddalled a phost llidiart. Ac yn amal iawn, Mr. Jones, mi geiff geneth fel Miss Bifan haner dwsin o gariadau, tra fydd merched 'y teuluoedd' yn gwefrio am gariad. a neb yn edrach arnyn nhw. Wel, ond dydw i ar fy ngore glas yn cadw gwyliadwriaeth ar hogiau y siop yma—mae nhw'n gneud rhw esgus beunyddiol i ddwad i'r tŷ, a mi wn mai'r amcan i gyd ydi cael golwg ar, a chael siarad gair efo Miss Bifan. A beth sydd yn fwy naturiol—on'd f'aswn i fy hun, oni bae am rywbeth y gwyddoch am dano? Ac am fod ganddi ddwylaw blewog, chreda' i byth mo hyny. Mae canoedd o forwynion, druain, yn cael cam dybryd. Pan fydd y sprigyn mab wedi ponio ei *gold studs* i gael diod, O! y forwyn fydd wedi eu lladrata! Pan fydd y ferch wedi colli ei *broach* neu ei chyffs, wrth galifantio, ac na wiw iddi ddweyd wrth ei mam, y forwyn, druan, fydd wedi eu dwyn! Y forwyn ydyw bwch dihangol y teulu! Yr *humbugs!* Mae Miss Bifan yn eneth *splendid*, Mr. Jones, a mae'r tŷ yma fel nefoedd o'i gydmaru â phan oedd Marged yma."

Gwrandawai y Plismon ar Enoc yn ddistaw, gan edmygu ei ysbryd ffyddiog a difeddwl-ddrwg, ond wrth edrych yn graff tudraw i'w lygaid, gallesid darllen ei feddwl,—

"*When ignorance is bliss 'tis folly to be wise.*"

Yr oedd dedwyddwch ei gartref, yn ddiamheu, yn rhoddi cyfrif i ryw raddau am sirioldeb Enoc. Ond pe yn ei gartref yn unig y buasai ei ddedwyddwch yn gynwysedig, prin y

buasai efe yn absenol yno hyd unarddeg o'r gloch o'r nos, bedair neu bum' noswaith yn yr wythnos. Rhaid fod Enoc yn cael rhyw gymaint o ddifyrwch yn Nhy'nyrardd i fod yno mor aml. Ac nid oedd Coed Madog—yr hwn, erbyn hyn, nad oedd yn rhoi gwaith ond i ychydig o ddynion, yn galw ar Enoc i ymgynghori â Chapten Trefor amryw weithiau yn ystod yr wythnos. Ac hyd yn nod, pe buasai efe yn ystyried fod hyny yn angenrheidiol, nid oedd y Capten, yn ddiweddar, ar gael yn Nhy'yrardd *bob* noswaith o'r wythnos. Toc wedi marw Mrs. Trefor, yr oedd y Capten wedi dechreu ar yr arferiad o fyned i'r *Brown Cow* ar nosweithiau canol yr wythnos. Tybiai rhai mae y rheswm am hyn oedd ei fod, ar ol colli Mrs. Trefor, yn teimlo yn unig, a'i fod yn cael tipyn o help mewn "cwmni" i fwrw ei hiraeth. Ac, efallai, fod ganddo amcan arall yn hyn—drwy wneud Miss Trefor yn fwy unig, rhoddai hyny iddi hi fwy o hamdden i ystyried ei sefyllfa a sylweddoli ei cholled, oblegid lled anystyriol ydyw pobl ieuaingc yn gyffredin. Hwyrach y gwnai unigrwydd les i Susi. Ond ni chymerai Miss Trefor yr olwg yna ar bethau, a theimlai hi fod gwaith ei thad—mor fuan ar ol claddu ei mam—yn ei gadael ar ei phen ei hun yn y tŷ hyd berfeddion o'r nos, yn ymddygiad anngharedig i'r eithaf, ac oni bae fod Enoc Huws mor feddylgar a hynaws ag ymweled â hi mor fynych buasai ei hunigrwydd yn mron yn annyoddefol.

Er ys amser maith cyn marwolaeth ei mam teimlai Miss Trefor fod rhyw gagendor rhyngddi a'i thad, a bod y gagendor hon yn ymledu yn feunyddiol. Achosai hyn boen mawr iddi. Cofiai adeg pryd yr edrychai ar ei thad gydag edmygedd diniwed, ac y golygai hi ef fel rhywun uwch a gwell na dynion yn gyffredin. Yr oedd hyn yn ei golwg yn mhell, bell, yn ol, ac edrychai gyda chalon hiraethlawn ar y cyfnod hwnw. Gwnaeth lawer ymdrech egniol i ail enyn y fflam, ond ni ddeuai yr hen deimladau yn ol. Ar brydiau, meddyliai ei bod wedi ffurfio yn ei meddwl syniadau—nas gwyddai o ba le y cawsai hwynt—am uniondeb, cywirdeb, ac anrhydedd, nad allai, nid yn unig ei thad, ond nad allai unrhyw ddyn ddal i gael ei fesur a'i bwyso wrthynt, ond yn y funyd cofiai am Enoc Huws—ni allai hi gael bai ynddo ef yn eu gwyneb. Lawer tro dychrynai a theimlai yn euog wrth feddwl am y syniadau a goleddai am ei thad. Ond er pob ymdrech teimlai fod y gagendor oedd

rhyngddi hi âg ef yn myn'd yn lletach yn barhaus. Ond ni annghofiodd hi am foment ddau beth—sef ei fod yn *dad* iddi, a'i bod wedi gwneud llw y glynai wrtho tra byddai efe byw. Ni wnai y blaenaf ond ychwanegu ei phoenau wrth ganfod dirywiad cyson ei thad o'r dydd y bu farw ei mam, ac ni wnai yr olaf ond peri iddi sylweddoli maint y trueni oedd o'i blaen. Ac eto cofiai fod ganddi gyfaill—cyfaill hyd y carn—ac ni allai hi, bellach, heb fod yn euog o'r anniolchgarwch dybraf, a'r anffyddlondeb mwyaf i'w theimladau goreu hi ei hun, beidio gwobrwyo ei ddyfalwch. "Dyledswydd" oedd arwyddair ei bywyd er ys llawer o flynyddoedd, a chredai, yn ngwyneb y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle yn ei bwriadau, mai ei dyledswydd oedd hysbysu ei thad am y cyfnewidiad hwn. Yr oedd yn awr er's amser yn gwylio am gyfleustra i wneud hyn, ond yr oedd y Capten, pan fyddai gartref, yn gyffredin mewn tymher ddrwg, a phan ddychwelai yn hwyr o'r *Brown Cow* yn rhy swrth iddi feddwl am dd'od â'r cwestiwn yn mlaen. O'r diwedd, daeth y cyfleustra, a mynegodd Susi i'w thad ei chysylltiad âg Enoc Huws, fel y ceir adrodd eto.

---

## PENNOD XLVII.

### Y "BROWN COW."

Y FFAITH oedd, fel yr awgrymwyd yn y bennod ddiweddaf, fod Enoc, o'r diwedd, wedi llwyddo yn ei gais—yr oedd Miss Trefor wedi addaw bod yn wraig iddo. Ac os haeddodd rhywun erioed lwyddo, haeddodd Enoc, oblegid yr oedd ei ffyddlondeb wedi bod yn ddiball, a'i aberthau uwchlaw rhoddi pris arnynt. Pa fodd y dygwyd hyn oddiamgylch, nid wyf yn bwriadu adrodd, canys yn y cyfryw amgylchiadau—ac y maent oll yn lled gyffelyb—y mae cymaint o ffwlbri, a chymaint o twdl tadl yn cymeryd lle, fel y mae gan bob dyn sydd wedi bod yn briod am chwe' mis gywilydd o'i galon gofio fod yntau wedi myn'd trwy yr amgylchiad digrifol, ac nid ydyw yn hoffi sôn am dano. Am

hyny ni soniaf inau am dano, o herwydd pe gwnawn, ni roddai fwynhad i neb ond i ychydig hogenod—ac nid i hogenod yr wyf yn ysgrifenu yr hanes hwn, ond i ddynion synwyrol. Digon ydyw dweyd fod Miss Trefor wedi addaw priodi Enoc Huws, yr hyn a'i traws-symudodd ar unwaith i'r seithfed nef, ac a barodd i Miss Trefor, fel y dywedwyd o'r blaen, ystyried ei bod yn ddyledswydd arni hysbysu ei thad o'r ffaith.

Yr wyf wedi sôn fwy nag unwaith yn yr hanes hwn am y *Brown Cow*. Tafarndy oedd y *Brown Cow* hynod o hen ffasiwn ar gŵr y dref. Mae y tŷ, erbyn hyn, wedi myned dan amryw gyfnewidiadau, ond fel yr oedd er's talwm yr wyf yn awr yn sôn am dano. Nid oedd neb yn fyw yn cofio ei fod yn ddim amgen na thafarn. Yr oedd yn dŷ helaeth a chyfaddas iawn i'r busnes, ac yno, yn yr hen amser, y byddai y porthmyn yn lletya noswaith o flaen y ffair. Dywedid nad oedd seler yn y wlad debyg i seler y *Brown Cow* am gadw cwrw rhag suro, ac yn yr amser gynt, arferai y teulu ddarllaw eu cwrw eu hunain. Uwchben y drws yr oedd astell, ac arni lun buwch wedi ei baentio gan rywun na wyddai neb pwy, ond a gedwid yn annirywiedig drwy gael ei farnishio bob blwyddyn. Eglur ydoedd, yn ol y darlun, na fuasai y fuwch hono yn cymeryd y *prize* mewn arddangosfa amaethyddol yn ein dyddiau ni, canys yr oedd ei hipiau fel pe buasent yn mron dyfod trwy ei chroen, a'i choesau mor ystiff nes argyhoeddi pawb ei bod yn dyoddef gan y rimatus. Heblaw hyny, yr oedd toraeth o gyrls ar ei thalcen nes peri iddi ymddangos yn debycach i'w gŵr nag iddi hi ei hun. Ac eto mae yn rhaid fod rhyw swyngyfaredd yn perthyn i'r fuwch hono, oblegid y mae hanes ar gael i ŵr a gadwai y *Brown Cow* un tro gymeryd yn ei ben i dynu y fuwch i lawr a gosod yn ei lle "Y Ceffyl Glâs." Yn mhen y pythefnos collodd ei holl fusnes, a bu raid iddo ail osod yr hen fuwch uwchben y drws, a dychwelodd y busnes, ac mae'r tŷ yn llwyddianus hyd y dydd hwn. Yn y *Brown Cow* yr oedd dwy ystafell yn y ffrynt, a dwy yn y cefn. Ar yr ochr chwith wrth fyned i mewn yr oedd ystafell yr ysbrydion, neu y *bar*. Ar yr ochr dde yr oedd y gegin fawr. Ar un ochr i'r ystafell hon yr oedd dreser dderw fawr, na wyddai neb ei hoedran, ac arni blâts piwtar gloew gwerthfawr, y rhai a edrychent yn urddasol ar noswaith auaf, pan fyddai tân mawr yn y grât ar eu cyfer. Ar yr ochr arall yr oedd mainc lydan a chefn iddi yn rhedeg efo'r wâl, ac

ar y drydedd ochr, yn lled agos i'r tân, yr oedd setl uchel, yr hon a eisteddai bedwar neu bump. Heblaw bwrdd mawr cadarn ar ganol y llawr, nid oedd nemor ychwaneg o ddodrefn yn yr ystafell hon. Mae yn wir fod gŵn dau faril ar un o'r distiau, ac yn gyffredin, nhorobenau bacyn, a *ham* neu ddwy ar ddist arall, ac, hwyrach, wrth ystyried fod cymaint o ysmygu yn yr ystafell y gellid ei alw yn *smoked bacon*. Ond prin y gellid galw y pethau a enwid olaf yn ddodrefn. O! ïe, yr oedd hefyd ar un o'r muriau ddarlun o'r hen Syr Watcyn, a darlun arall o hela llwynog, ac un o'r marchogion, wrth lamu dros lidiard, wedi syrthio ar ei gefn, a'r ceffyl wedi myn'd encyd o ffordd heb farchogwr, ac yn edrych yn wyllt iawn. Yn y gegin fawr y cyfarfyddai cwsmeriaid cyffredin y *Brown Cow*—megis y mwnwyr, y cryddion, y melinyddion, a'r teilwriaid, a'r cyffelyb. Yn yr hen amser dedwydd gynt, cyn bod papyr newydd Cymraeg mewn bod, a chyn bod sôn am ddirwest, elai hen *gojers* Bethel i gegin fawr y *Brown Cow* wedi bo nos—nid yn gymaint er mwyn yr *home brewed* diwenwyn—ond er mwyn ymgom ddiniwed, a chlywed rhyw newydd, os digwyddai fod yno ar ddamwain ryw bedlar teithiol neu brydydd yn aros dros nos. O leiaf, felly y dywedai fy nhaid wrthyf. A chyda pha fath awch y derbyniai yr hen *gojers* safn-agored newyddion y pedlar, serch iddynt fod yn ddeufis oed! Yn niffyg y pedlar, llawer ystori dda a adroddwyd yn nghegin fawr y *Brown Cow*. Nid dyna ydyw hanes y tafarnau yn awr, ysywaeth. Glas hogiau difarf, penwag, sydd yn eu mynychu erbyn hyn, a hyny fel anifeiliaid i yfed Kelstryn, ac yn myn'd adref yn waeth eu sut na'r anifail.

Fel y dywedwyd, yr oedd dwy ystafell hefyd yn y cefn—yn un yr oedd y teulu yn "byw," a chedwid y llall fel math o barlwr i'r dosbarth goreu o gwsmeriaid, megis masnachwyr ac ambell grefyddwr fyddai yn hoffi cael peint heb i neb ei weled. Yn yr ystafell hon hefyd y byddai y lletywr parchus a ddigwyddai aros yno dros nos, os na fyddai yn well ganddo fyned i'r gegin fawr er mwyn y cwmni. I dori'r stori yn fër, i'r ystafell hon yr arweiniwyd Capten Trefor gan Mrs. Prys, y dafarnwraig, pan ymwelodd efe gyntaf â'r *Brown Cow*. A rhaid dweyd yr ystyriai Mrs. Prys ei thŷ yn cael ei anrhydeddu nid ychydig pan roddodd y Capten ei bîg i mewn, oblegid yr oedd yn eithaf hysbys mai y Llew Du oedd yr unig dŷ yn y

busnes y talai y Capten warogaeth iddo. Mawr oedd ffwdan Mrs. Prys yn rhoi croesaw i'r Capten, a mawr oedd ei llawenydd fod yn y parlwr—fel y digwyddai—gwmni *respectable* iddo am unwaith y deuthai yno. Ni chynwysai y cwmni hwn y noson hono ond tri o fasnachwyr gweddol barchus, ond yr oedd y Capten wedi mwynhau ei hun gymaint gyda'r cwmni, fel y dywedodd, wrth ffarwelio â Mrs. Prys, nad elai mwyach i'r *Llew*, ac nad hwnw fyddai y tro olaf—D.V.—iddo ymweled â'r *Brown Cow*. Yr oedd Mrs. Prys yn hen wreigan letygar a chroesawus, ac yn ei ffordd radlon ei hun, llusgodd y Capten gerfydd ei law i'r *bar*, a gwnaeth iddo yfed ei hiechyd da mewn gwydriad o *mountain dew*, er mwyn cael ei farn arno. Canmolodd y Capten y chwisgi, a chan ei fod yn ei hoffi, gorfododd Mrs. Prys ef i gymeryd gwydriad arall *er ei mwyn hi*. Ufuddhaodd y Capten, oblegid ni ymhoffai groesi menywod.

Bu y Capten yn un â'i air (yr oedd bob amser felly), ac o'r noson hono yn mlaen ymwelai deirgwaith, ac weithiau bedair gwaith yn yr wythnos â'r *Brown Cow*. Drwy ei fod yn ymddyddanwr campus, a'i fod yn un lled gyfarwydd â'r modd yr oedd y byd yn myn'd yn ei flaen, parodd ei ymweliadau â'r *Brown Cow* i gwmni y parlwr gynyddu i bump, ac o'r diwedd i haner dwsin, ac weithiau ychwaneg na hyny. Yr oedd y cwmni yn mawrhau ei gymdeithas, a Mrs. Prys yn mwynhau ei ymweliadau yn fwy na neb. Gwelai y Capten hyny yn eglur ddigon, ac y mae yn naturiol i bob dyn dalu gwarogaeth i'r cwmni fydd yn ei iawn brisio. Teimlai, heb ymffrost, ei fod o'i ysgwyddau yn uwch mewn gallu, doniau, gwybodaeth, ac yn enwedig dawn ymadrodd, na'r holl gwmni gyda'u gilydd, a gwyddai yr edrychid arno felly gan y cwmni. Mewn gwirionedd, oni bae ei fod yn ormod o foneddwr i ymostwng i hyny, ni fuasai raid iddo wario dim am ddiod, canys yr oedd y cwmni yn mron ymrafaelio am gael talu'r *shot*. Cymaint oedd y sylw a delid i'r hyn a ddywedai, cymaint oedd y pris a roddid ar ei olygiadau, a chymaint oedd y boddhad a roddai hyn i gyd iddo ef ei hun, fel yr aeth cwmni y *Brown Cow* yn *angenrheidiol* iddo bob nos drwy yr wythnos. A thawelai y Capten ei gydwybod gyda'r syniad nad oedd iddo fwynhad mwyach yn ei gartref wedi colli anwyl briod ei fynwes. Yr oedd yn wir fod ganddo ferch, ond pa gymdeithas oedd rhwng yr ieuanc a'r hen—rhwng yr hâf a'r gauaf? Cyn iddo erioed ddechreu mynychu y dafarn

yr oedd y Capten yn yfwr trwm a chyson yn ei gartref, ac er na fyddai un amser yn meddwi—hyny ydyw, meddwi nes methu cerdded—neu gael ambell godwm—nac, yn wir, un amser golli ei ben—eto yr oedd effeithiau yr hir ddiota i'w canfod yn amlwg arno. Nid oedd, er's tro, mor drwsiadus a thaclus ei wisg—yr oedd ei ysgwyddau yn ymollwng, ei goesau yn myn'd yn fwy anhysaf bob dydd, a'i wyneb—yr hwn, yn wreiddiol, oedd wyneb hardd iawn—yn prysur fyned yn unlliw, heb wahaniaeth rhwng y gwefusau a'r bochau—a phob rhan o'r wyneb megis yn ceisio dyfod i'r un lliw a'r trwyn, yr hwn oedd y cyntaf i newid ei liw i liw nad oedd yn lliw yn y byd. Y lliw tebycaf y gallaf ddychymygu am dano ydyw iau llô wedi ei tharo gan fellten. Yr wyf yn siwr na fuasai un o gyfoedion ieuenctyd y Capten—heb ei weled oddiar hyny—yn ei adnabod o holl bobl y byd. Rhoddai y Capten gyfrif gwyddonol am y lliw rhyfedd hwn oedd ar ei wyneb drwy ei briodoli i effeithiau rhyw *gases* tanddaearol y deuai, fel capten gwaith mŵn, i gyffyrddiad â hwy; a rhyw *affinity* yn nghroen ei wyneb a ddygai oddiamgylch rhyw *chemical process* nad oedd mwnwyr eraill yn ddarostyngedig iddo. Ond y gwir yw, nid oedd llawer o waith wedi ei adael i'r *Brown Cow* i "orphen" y Capten, pan ddechreuodd efe fynychu y tŷ. Canfyddai Miss Trefor hyn yn amlwg, ac yr oedd yn dyfod yn fwy amlwg iddi bob dydd. Pa ofid meddwl, pa gyni calon, a achosodd hyn i gyd iddi, ni wyddai neb ond hi ei hunan. Ofnai siarad âg ef yn nghylch ei gyflwr, a gwyddai yn dda na fuasai hyny o un dyben. Gwelai yn eglur na allai ei thad ddal yn hir i gerdded y ffordd a gerddai, ac hwyrach i hyny beri iddi fod yn barotach i wrando ar gais Enoc Huws, ac, o'r diwedd, fyn'd i amod âg ef. Pa fodd bynag, ystyriai mai ei dyledswydd oedd hysbysu ei thad am yr amod a wnaethai hi. Bu am adeg yn gwylio am amser cyfaddas ac i ddal ar y cyfleustra pryd y byddai ei thad yn y dymher oreu, canys ni wyddai hi pa fodd y cymerai efe y newydd. Credai y byddai y newydd yn dderbyniol ganddo, ond ofnai y byddai iddo fyn'd i natur ddrwg am nad oedd hi wedi ymgynghori âg ef cyn gwneud addewid mor bwysig, oblegid yr oedd gan y Capten syniad uchel am ei *dignity*. Yn y boreuau a'r prydnawniau, pan fyddai efe yn berffaith sobr, yr oedd ei dymher yn afrywiog a blinderog, a'r tipyn lleiaf yn ei yru yn gaclwm ulw; ac yn y nos drachefn, wedi dychwelyd o'r *Brown Cow*,

byddai yn swrth a chysglyd, ac nid ystyriai Miss Trefor ei fod yn beth gweddus i sôn am y peth ar y Sabboth. Ac fel hyn, aeth wythnosau heibio cyn iddi gael dweyd ei stori. Cynygiodd Enoc fwy nag unwaith siarad â'r Capten, ond gwrthodai Miss Trefor ei wasanaeth, am y credai yn gymaint a'i bod wedi addaw priodi Enoc cyn ymgynghori â'i thad, a'i bod yn benderfynol o gyflawni ei haddewid gan nad beth a ddywedai efe, mai ei dyledswydd hi oedd ei hysbysu am y ffaith, ac wedi iddi unwaith gredu fod rhywbeth yn ddyledswydd arni, nid oedd modd ei symud oddiwrth ei bwriad.

Ond daeth y cyfleustra o'r diwedd, ac fel hyn y bu. Un noswaith pan aeth y Capten i'r *Brown Cow*, cafodd yn y cwmni ŵr dyeithr,—ac nid yn y cwmni ychwaith, oblegid eisteddai yn mhen draw yr ystafell, wrth fwrdd bychan, yn ysgrifenu, fel y gwelir trafaeliwr yn gwneud yn fynych, a buasai y Capten yn tybio mai trafaeliwr ydoedd oni bae iddo ganfod ar unwaith ei fod yn hen ŵr a'i ben yn wyn fel eira. Wedi edrych arno unwaith ni feddyliodd mwy am dano. Aeth pobpeth yn mlaen fel arfer, a bu y cwmni yno hyd adeg cau, a gadawsant yr hen foneddwr yn dal ati i ysgrifenu. Yr oedd y gŵr dyeithr yno nos dranoeth wrth ei fwrdd, ond yn darllen y noson hono gyda lled-ochr ei wyneb wedi ei droi at y cwmni, ac heb ymddangos ei fod yn deall dim a siaradai y Capten a'i gyfeillion yn y pen arall i'r ystafell, nac yn cymeryd unrhyw ddyddordeb ynddynt. Cyn gadael y *Brown Cow* y noswaith hono, trodd y Capten i'r *bar*, a gofynodd i Mrs. Prys pwy oedd yr hen foneddwr yn y parlwr? Ni allai Mrs. Prys roi mwy o wybodaeth yn nghylch y boneddwr na'i fod yn Sais—yn d'od o'r 'Merica, ac yn ol pob argoelion yn gyfoethog iawn,—yn bwriadu aros am ddiwrnod neu ddau,—nad oedd yn yfed dim diod feddwol,—yn dweyd dim wrth neb os na fyddai raid iddo,—ac yn darllen neu ysgrifenu o hyd. Ychwanegodd Mrs. Prys ei bod yn siwr fod y dyn diarth yn ŵr boneddig mawr, achos yr oedd ganddo aur lon'd ei bocedau.

"*Just* y dyn i mi," ebe'r Capten, ar ei ffordd gartref, "ond y mae o yn rhy hen i speciletio, ac nid yw am aros yma ond deuddydd neu dri, ac y mae yn ditot. Welais i erioed ddaioni o'r titots yma oddigerth Enoc Huws. Mae nhw yn rhy *cautious* i speciletio, ac felly, *good bye, Yankee, not worth another thought.*"

Dranoeth, gwelodd y Capten yr hen foneddwr ar yr heol yn yn siarad â Jones y Plismon, fel pe buasai yn holi am y peth yma a'r peth arall: ac wedi edrych arno, cytunai â Mrs. Prys fod golwg boneddwr arno,—safai yn syth a chadarn ei wedd, er ei fod yn ddiamheu yn ŵr pymtheg a thriugain os nad ychwaneg. Yr oedd ei wisg yn dda, ac yr oedd wedi eillio ei fochgernau yn lân, gan adael ei farf ar ei wefus uchaf a'i ên, a *slouch hat* am ei ben. "*Real American*," ebe'r Capten. Arosodd yr hen foneddwr yn y *Brown Cow* amryw ddyddiau,—byddai yn ei gongl yn gyson yn darllen naill ai newyddiadur neu lyfr. Yn gymaint ag mai Sais Americanaidd oedd y boneddwr, ac mai Cymraeg a siaradai y Capten a'i gyfeillion, ni theimlai y cwmni fod ei bresenoldeb yn un cyfyngiad ar eu rhyddid. Yn gymaint hefyd a bod y gŵr dyeithr yn ymddangos fel yn perthyn i gylch uwch o gymdeithas na hwy, ac yn hynod neillduedig, ni theimlai neb o'r cwmni awydd i agoshau ato, ac aeth pobpeth yn mlaen fel arfer. Ond pe buasai un o honynt yn ddigon craff, gallasai ganfod nad oedd y boneddwr mor hollol ddisylw o'r cwmni ag y tybid ei fod. Oblegid bob tro y byddai y Capten yn siarad, gallesid gweled y boneddwr yn cau ei lygaid—nid i fyfyrio ond i wrando yn astud. Bryd arall tremiai ar y Capten dros ymyl y llyfr neu y papur a ddarllenai. Hyn a wnai efe bob tro y siaradai y Capten, ond ni sylwai neb arno. Yr oedd y boneddwr wedi bod yn y *Brown Cow* wyth niwrnod. Rhwng ei brydiau, cerddai yma ac acw yn y gymydogaeth. Ni wnai gyfeillion o neb, ac ni welwyd ef yn siarad â neb oddigerth Jones y Plismon. Mae yn wir y byddai yn myn'd i Siop y Groes bob dydd yn mron i brynu sigars, o herwydd yr oedd yn ysmygwr dibaid. Ond Jones, yn ol pob ymddangosiad, oedd yr unig un oedd ar delerau cyfeillgar âg ef, ac yr oedd y Plismon wedi ei gynysgaeddu â hyny o wybodaeth a feddai am y gymydogaeth a'i phobl. Ond ni wyddai hyd yn nod Jones beth oedd busnes y boneddwr yn Bethel, ac ni wyddai Mrs. Prys hyd yn nod ei enw.

Un noswaith—nos Lun ydoedd—yr oedd y Capten braidd yn hwyr yn ymuno â'r cwmni yn y *Brown Cow*. Tra yr oedd ef yn ymddiheuro i'r cwmni, ac yn esbonio iddynt y rheswm am ei ddiweddarwch, sef ei ohebiaethau lluosog, digwyddodd edrych i'r cyfeiriad lle yr eisteddai yr Americanwr, a gwelodd ei fod yn syllu yn ddyfal arno dros ymylon y llyfr a ddarllenai.

Gostyngodd y gŵr dyeithr ei lygaid ar y llyfr. Tarawyd y Capten gan rywbeth, oblegid petrusodd yn ei ymadrodd a chollodd ei ddawn, yr hyn oedd beth dyeithr iawn iddo ef. Wrth weled y Capten yn edrych i gyfeiriad y boneddwr, ac yn petruso, edrychodd pob un o'r cwmni i'r un cyfeiriad, ond canfyddent fod y boneddwr wedi ymgolli yn ei lyfr. Nid oedd y Capten fel efe ei hun y noson hono—yr oedd yn fwy tawedog, ac yn ymddangos fel pe buasai rhywbeth yn blino ei feddwl. Ac felly yr oedd efe, yn fwy cythryblus ei feddwl nag a ddychymygai neb. Yn mhen ychydig funydau dywedodd yn ddistaw wrth ei gyfeillion y byddai raid iddynt ei esgusodi y noson hono—fod rhywbeth wedi d'od drosto—nad oedd yn teimlo yn iach. Ychwanegodd fod yn rhaid ei fod wedi cael oerfel, neu ynte ei fod wedi gweithio yn rhy galed y diwrnod hwnw, "oblegid," ebe fe "mewn ffordd o siarad, yr wyf yn teimlo *quite* yn *faintish*." Cynygiodd un o'i gyfeillion ei ddanfon gartref, ond ni fynai y Capten. Pan yn gadael yr ystafell, edrychodd gyda chil ei lygad ar y boneddwr, ond nid oedd ei ymadawiad yn effeithio dim ar yr hen ŵr,—yr oedd ei lygaid yn sefydlog ar ei lyfr. Synai Mrs. Prys fod y Capten yn troi adref mor gynar, a phan ddywedodd ef nad oedd yn teimlo yn iach, gwthiodd yr hen wreigan, yn erbyn ei waethaf, botel beint o *mountain dew* i'w boced, gan ei siarsio i gymeryd "dropyn cynhes cyn myned i'w wely."

"'Rwyf yn ffwl, yn berffaith ffwl! Dychymyg ydyw'r cwbl! Mae yn anmhosibl! Mae fy ffansi wedi chwareu cast â fi heno. Ond fedrwn i mo'i helpio, er nad ydyw ond *nonsense* perffaith. Beth na ddychymyga cydwybod euog? Mae gen i flys myn'd yn ol,—na, 'da i ddim yno eto heno, er mai *nonsense* pur ydyw."

Fel yna y siaradai y Capten âg ef ei hun wrth fyned adref. Ac erbyn cyrhaedd Ty'nyrardd yr oedd ei feddwl wedi ymdawelu, ac yn llwyr argyhoeddedig fod ei ddychymyg wedi chwareu cast âg ef; ac eto, teimlai yn awyddus i gael rhywun i siarad âg ef, oblegid yr oedd yn gwmni drwg iddo ef ei hun y noswaith hono. Nid oedd Enoc Huws yn Nhy'nyrardd y noson hono, ond yr oedd Susi yno, a diolchai y Capten am hyny—ni fu erioed mor dda ganddo am ei chwmni. Yr oedd Miss Trefor wedi synu ei weled yn troi adref mor gynar, ac yn synu yn fwy ei gael mor fwyn, caredig, ac awyddus am iddi

aros gydag ef i ymddyddan, ac yntau hefyd yn berffaith sobr. Dyma gyfleustra wedi dyfod iddi i ddweyd ei stori wrtho—ni chai byth well cyfle. Hyny a wnaeth, fel y ceir gweled.

---

## PENNOD XLVIII.

### CYDWYBOD EUOG.

Yr oedd gweled ei thad adref rhwng naw a deg o'r gloch y nos heb ddim arwydd diod arno, a'i gael yn fwyn a charuaidd ei ysbryd, ac fel pe buasai yn ofni iddi ei adael am ddau funyd, yn rhywbeth nad allai Miss Trefor prin ei gredu, ac weithiau meddyliai mai mewn breuddwyd yr oedd hi. Rhedai ei meddwl yn ol at yr amser pan oedd yn hogen, a phan feddyliai mai ei thad oedd y dyn goreu yn y byd, a phan y carai hi ef â holl nerth ei chalon. Yr un un oedd efe o hyd, meddyliai, ond fod yr hen ddiod felldigedig yn peri iddo ymddangos fel un arall, a theimlai yn euog—yn ofnadwy o euog—ei bod erioed wedi coleddu meddyliau gwahanol am dano ac wedi teimlo yn oer tuag ato. Yr oedd hyny yn amlwg; oblegid y noswaith hono yr oedd efe yn hollol fel y byddai er's talwm—yn siriol, caruaidd a chyweithas, ac yr oedd yn rhaid mai y ddiod oedd yn ei wneud fel arall. Pa beth oedd wedi peri iddo ddyfod adref yn gynar a sobr y noson hono—pa beth oedd wedi ei wneud fel efe ei hun—ni wyddai hi, ond deffrodd ei holl serch tuag ato, a dyhëai am roi ei breichiau am ei wddf a'i gusanu, yr hyn na wnaethai ac na feiddiasai wneud er's blwyddi lawer, lawer. Bychan y gwyddai hi—ac yr oedd y ffaith yn rhyfedd ynddi ei hunan—mae y cynhwrf oedd yn ei feddwl—yr ystorm oedd yn ei gydwybod, a barasai iddo ddyfod adref yn gynar a sobr, ac a roddodd iddo ei hen fwyneidd-dra. Nid ydoedd hyn oll ond awydd dwfn am gydymdeimlad rhywun y gwyddai ei fod yn gywir, ac am gael rhywbeth i yru ei feddyliau oddiwrtho ef ei hun. Mewn gwirionedd, ni fu ar y Capten erioed y fath chwant ymfoddi mewn diod gadarn—yr oedd y chwant fel llew gwanc-

us ynddo y noson hono. Ond teimlai fod angenrheidrwydd tost yn gorchymyn iddo gadw ei ben yn glir a'i galon yn ddigwsg nes iddo gael sicrwydd dios nad oedd sail i'w ofnau, a'i fod wedi ei dwyllo gan ei ddychymyg. Yr oedd Miss Trefor, fodd bynag, yn hynod o hapus y noson hono, a meddyliai fod ei gweddïau yn dechreu cael eu hateb, ac y gallai ei thad, wedi'r cwbl, farw yn ddyn da a duwiol. Ond yr oedd ganddi beth arall yn pwyso ar ei meddwl er's wythnosau, fel y dywedwyd o'r blaen, sef ei haddewid i Enoc Huws, ac yn awr yr oedd ei thad mewn tymher y gallai hi anturio ei adrodd wrtho. Wrth ei weled mor dyner a thadol bron nad ydoedd hi, erbyn hyn, yn edifarhau am nad ymgynghorasai âg ef cyn rhoi ei haddewid i Enoc Huws. Ond nid oedd mo'r help, ac ebe hi yn wylaidd ac ofnus—

"Nhad, mae gen i isio deyd rhywbeth wrthoch chi, newch chi ddim digio, newch chi?"

"Digio wrthoch, fy ngeneth bach? am ba beth y gwnawn i ddigio wrthoch? Mi wn nad oes genyf, ar hyn o bryd, neb yn hidio dim am danaf ond y chwi, a mi wn nad ydych wedi gwneud dim drwg," ebe'r Capten.

"Mi obeithia nad ydw i wedi gwneud dim drwg," ebe Susi, "ac heb i mi gwmpasu dim—yr wyf wedi addaw priodi Mr. Enoc Huws."

Edrychodd y Capten arni yn synedig fel pe buasai yn methu credu ei glustiau, ac wedi edrych ac edrych arni mewn distawrwydd am haner munyd, ebe fe—

"Duw a'ch bendithio i'ch dau! Pa bryd, Susi, y darfu i chwi roi eich addewid iddo?"

"Mae rhai wythnosau, os nad misoedd, erbyn hyn," ebe hi.

"Hym," ebe'r Capten. "Nid wyf yn dweyd dim yn erbyn y peth—'does genyf yr un gwrthwynebiad pwysig i chwi briodi Mr. Huws. Ond, mewn ffordd o siarad, Susi, mi fuaswn yn disgwyl i chwi ymgynghori â'ch tad cyn entro i gytundeb mor ddifrifol. Ond na hidiwch am hyny."

"Yr oeddwn ar fai, nhad," ebe hi, "a mae'n ddrwg gen i na faswn i wedi siarad â chi yn gyntaf. Ond y mae'r peth wedi ei wneud, a gobeithio y gwnewch chi faddeu i mi, ac na wnewch chi ddim dangos dim gwrthwynebiad."

"Nid oes genyf ond dweyd, fy ngeneth, fel y dywedais o'r

blaen," ebe'r Capten—"Duw a'ch bendithio i'ch dau. Ond, mewn ffordd o siarad, mi welais yr amser, do, mi welais yr amser, y buasai yn o arw genyf i neb—gan nad pwy a fuasai—gael addewid gan ferch—unig ferch—Capten Trefor, heb yn gyntaf ymliw, ac ymliw drachefn, â'i thad. Ond nid Capten Trefor ydyw Capten Trefor erbyn hyn—mae pawb, ysywaeth, yn gwybod hyny, a'i ferch ei hun heb fod yn eithriad, ac wedi ymddwyn felly. Ond y mae Mr. Huws yn ffortunus—mae yn rhaid i mi ddweyd hyny yn eich gwyneb, Susi, ydyw yn ffortunus iawn, a 'does genyf fi, bellach, ond byw ar adgofion—adgofion hyfryd, y mae'n wir, ond nid ydynt ond adgofion—a cheisio ymfoddloni i'r hyn a elwir yn *fallen greatness.* Ac nid y fi ydyw yr unig un a syrthiodd o ben y pinacl i'r baw. Nage. Ond nid ydyw yr hen lew wedi marw eto, ac y mae ynddo fwy o *mettle* nag y mae llawer yn ei ddychymygu—dydio ddim yn gant oed eto—ac, hwyrach, y gwelir y Capten—gyda bendith yr Hwn a'i llwyddodd flynyddoedd yn ol, yn rhywun gwerth ymgynghori âg ef."

Nid oedd Susi wedi disgwyl am ymadroddion cnoawl fel y rhai hyn, ac ebe hi, a'i geiriau fel pe buasent yn glynu yn ei gwddf—

"Nhad, ddaru mi ddim bwriadu eich brifo wrth beidio ymgynghori â chi, a mae'ch geiriau yn fy lladd. Ac hyd yn nod yn awr, os byddwch bob amser fel yr ydach chi heno—yn sobr, yn garedig a mwyn, mi alwaf fy addewid yn ol, os ydach chi'n deyd wrtho i am wneud hyny."

"Beth?" ebe'r Capten, "merch Capten Trefor yn tori ei haddewid? Na, fy ngeneth anwyl, pe buasech wedi rhoi eich addewid i'r meinar tlotaf sydd yn darn lwgu yn Nghoed Madog mi fuaswn yn eich gorfodi i'w chyflawni, os buasai hyny o fewn fy ngallu. Nid ydyw 'tori addewid' yn hanes Capten Trefor, nac yn deilwng o *prestige* ei deulu. Ond y mae yn rhaid i mi ddweyd eto fod Mr. Huws yn ddyn lwcus, ac o dan yr amgylchiadau hwyrach na allasech wneud yn well. Rhowch eich meddwl yn esmwyth, fy ngeneth anwyl, yr ydwyf, mewn ffordd o siarad, yn mawr gymeradwyo yr hyn yr ydych wedi ei wneud—yn wir, y mae yn dda genyf feddwl y cewch fywioliaeth beth bynag am sefyllfa, a chan nad beth a ddaw o honof fi, mi a ymaberthaf—mae y plwyf a'r tlotty i bawb."

x

"Dydw i ddim yn bwriadu eich gadael, nhad, mae hyny yn ddealledig rhwng Mr. Huws a minau. Cewch yr un fywioliaeth a minau, a mi wn y gellwch ddibynu ar garedigrwydd Mr. Huws. Yn wir, yr wyf yn ystyried mai fi ac nid Mr. Huws sydd yn lwcus," ebe Susi.

"Yr wyf yn meddwl, Susi," ebe'r Capten, "os try pethau allan fel yr wyf yn disgwyl, na fydd raid i mi ddibynu ar garedigrwydd neb pwy bynag. Ar yr un pryd, peidiwch a meddwl fy mod yn diystyru eich ymlyniad wrthyf, a'ch bwriadau caredig tuag ataf—hwyrach y bydd yn dda i mi wrthynt—'does neb ŵyr. Ac am Mr. Huws, yr wyf yn ei adnabod yn lled dda, ac ni fydd yn ddrwg genyf edrych arno fel fy mab-yn-nghyfraith. Beth ydyw y rheswm, Susi, na fuasai Mr. Huws yma heno? oblegid ar ol yr ymddyddan sydd wedi cymeryd lle rhyngom, yr wyf, mewn ffordd o siarad, yn teimlo rhyw fath o hiraeth am ei weled."

"Yr oedd yn dweyd fod rhywbeth yn galw am dano, ac nad allai dd'od yma heno," ebe Susi.

"Wel," ebe'r Capten, "er fod yn chwith genyf feddwl, 'does genyf ond dweyd fel o'r blaen, Duw a'ch bendithio."

Ac felly y terfynodd, yn ddigon diniwed, yr hyn yr oedd Miss Trefor wedi ei ofni yn fawr, ac wedi pryderu llawer yn ei gylch. Y gwir am y Capten oedd mai dyma y newydd goreu allai gael—hyn oedd efe wedi ei ddymuno er's llawer blwyddyn, ac yr oedd ef a Mrs. Trefor wedi gwneud yr hyn oedd yn eu gallu i gyrhaedd yr amcan hwn—sef dyweddïo Susi ac Enoc. Ar ol marwolaeth Mrs. Trefor, yr oedd y Capten wedi eu gwylio yn fanwl, gan geisio rhyw arwyddion o garwriaeth, ac ar ol methu, fel yr adroddais, mor awyddus oedd efe am i'w ferch sicrhau Enoc yn ŵr, fel nad allai oddef yr ansicrwydd yn hwy heb ofyn y cwestiwn yn syth i'w ferch. A mawr a dwys oedd ei siomedigaeth pan ddeallodd nad oedd dim mwy rhyngddynt na chyfeillgarwch, na thebygolrwydd i ddim arall fod, ac felly, nid oedd dim i'w wneud ond parhau i waedu Enoc, druan. Yn ddiweddar yr oedd y Capten yn disgwyl bob dydd glywed Enoc yn dweyd na wariai geiniog yn ychwaneg ar Goed Madog—ac yna pa beth a ddeuai o hono ef—y Capten? Pwysai hyn mor ddwys ar ei feddwl weithiau, nes byddai yn dyheu am fyned i'r *Brown Cow* i foddi ei bryder mewn *Scotch Whiskey*. Ond yn awr dyma yr hyn y buasai ei galon yn hiraethu am dano er's

llawer dydd wedi ei gyrhaedd. Adwaenai y Capten Enoc Huws yn ddigon da i allu dibynu, os oedd efe wedi addaw priodi ei ferch, mai ei phriodi a wnai yn ddinag, a rhoddai hyn y fath foddhad iddo nad allai ei ddesgrifio, hyd yn nod iddo ef ei hun. Ystyriai y Capten, erbyn hyn, mai ei ddyledswydd fel dyn gonest—a phwy a feiddiai amheu ei onestrwydd ?—oedd dweyd wrth Enoc mai oferedd oedd iddo ef *ac yntau* wario ychwaneg o arian ar Goed Madog.

"Mi ddywedaf hyny wrtho yfory," ebe'r Capten ynddo ei hun, "fy nyledswydd fel dyn gonest ydyw dweyd wrtho, oblegid y mae o *a minau* wedi gwario gormod yno yn barod, a 'does yno fwy o olwg am blwm nag yn nghâs y cloc yna. Mae yn dda gan 'y nghalon i fod pethau wedi diweddu mor dda. Ond nid ydyw hyn ond prawf arall fy mod yn adnabod dynion yn weddol—mi wyddwn er's blynyddoedd fod gan Mr. Huws feddwi o Susi, a diolch i Dduw ei bod mor lwcus—yr oeddwn yn dechreu pryderu beth a ddeuai o honi, druan."

Fel yna yr ymgomiai y Capten âg ef ei hun wedi i Susi fyn'd i'r gwely. Pe digwyddasai yr ymddyddan, gymerodd le rhyngddo ef a'i ferch, y noson flaenorol, buasai y Capten yn cyfrif ei hun yn ddyn perffaith ddedwydd. Ond nid oedd efe yn ddedwydd—yr oedd rhywbeth gwirioneddol neu ddychymygol yn peri cnofëydd yn ei gydwybod. Edrychodd ar y cloc, nid oedd ond chwarter wedi deg. Cerddodd yn ol a blaen hyd y parlwr am chwarter awr arall, yna safodd i wrando. Yr oedd Susi a Kit wedi cysgu er's meityn, meddyliai. Tynodd ei slipars a gwisgodd ei esgidiau—rhoddodd ei gôb uchaf am dano, a'r cap, a wisgai o gwmpas y tŷ, am ei ben, ac aeth allan can ddistawed ag y medrai. Cerddodd yn gyflym a llechwraidd tua phreswylfod Sem Llwyd. Yr oedd Sem wedi myn'd i'w wely, a phan glywodd rywun yn curo y drws, agorodd Sem y ffenestr, a rhoddodd ei ben allan, am yr hwn yr oedd clamp o gap nos gwlanen wedi ei g'lymu dan ei ên. Pan ddeallodd mai y Capten oedd yno, daeth i lawr ar ei union. Arferai Sem, yn ddigon henlancyddol, enhuddo'r tân bob nos drwy'r flwyddyn, a rhag cadw y Capten i aros, daeth i lawr heb roi dim am dano ond ei *ddrors* a'i 'sanau. Bu cynghor rhwng y ddau am haner awr—Sem yn eistedd yn ei grwcwd ar ystol isel, a'r Capten mewn cadair—un o bobtu'r tân enhuddedig. Buasai *photograph* o'r ddau yn ddyddorol. Eto yr oedd y ddau yn edrych

yn ddifrifol. Siaradent yn ddistaw fel pe buasent yn ofni i neb glywed, ac, yn wir, dyna oedd y ffaith, er na fuasai raid iddynt ofni, pe buasent yn gwaeddi yr adeg hono ar y nos. Er mor ddifrifol oedd yr achos, ni allai Sem beidio bod yn ymwybodol fod y Capten yn canfod mai canwyllau Coed Madog a losgai efe i oleuo ei babell. Ar y fath achlysur, nid oedd hyny nac yma nac acw. Ar ol yr ymgynghoriad, rhoddodd y Capten gyfarwyddyd pendant a manwl i Sem, ac yna aeth ymaith, a chymerodd Sem fygyn yn ei grwcwd ac yn ei *ddrors* gwlanen i fyfyrio ar y peth. Ni fu golwg fwy doeth ar yr hen *sage* yn ei oes a'r noson hono.

Dychwelodd y Capten yn chwim i Dy'nyrardd, a buasai yn anmhosibl, yn mron, ei glywed yn agor ac yn cau y drws, ac yn myn'd i'r parlwr. Wedi myn'd i'r parlwr, y meddwl cyntaf ddaeth iddo oedd estyn y botel chwisgi o'r cwpbwrdd. Eithr er ei fod wedi bod yn gaethwas i'r ddiod, yr oedd gan yr hen Gapten nerth ewyllys anghredadwy, ac ebe fe, rhyngddo âg ef ei hun—

"Na, nid heno, rhaid i mi gadw fy mhen yn glir, am dipyn, beth bynag. Yr un dyferyn, nes i mi gael sicrwydd i fy meddwl. Mi gaf glywed yfory beth ddywed Sem—fe wnaiff o benderfynu y cwestiwn. Mi af i 'ngwely—i beidio cysgu winc, mi wn. Gobeithio Duw nad oes sail i fy ofnau! Ond y mae o'n debyg ofnadwy! Eto yr wyf bron yn sicr mai dychymyg ffol ydyw'r cwbl. Peth dychrynllyd, wedi'r cwbl, ydyw cydwybod euog! Ond mi gaf wel'd beth ddeydiff Sem. Mae genyf le i fod yn ddiolchgar. A chaniatau pethau, raid i mi ddim pryderu mwy am Susi—mae hi yn sâff—diolch i Dduw!"

Ni chysgodd y Capten winc y noson hono. Yn rhagweled hyn, yr oedd efe wedi cymeryd ei bibell a'i dybaco i'w ystafell wely, ac ysmygodd lawer, ond ni phrofodd efe ddyferyn o ddiod feddwol, er fod ganddo ddigonedd o hono yn tŷ—yr oedd yn rhaid iddo gadw ei ben yn glir, a'i feddwl yn effro fel y dywedai. Meddienid ef gan ddau deimlad—hapusrwydd diderfyn yn y rhagolwg am gael Enoc Huws yn fab-yn-nghyfraith, ac ofn dirfawr i'r hyn a ddaethai ar draws ei feddwl y noson hono droi allan yn ffaith. Yr oedd ystad ei feddwl yn gyfryw nad allai efe ei hun, er cymaint oedd ei allu desgrifiadol, roddi gwir ddarluniad o hono. Ond cysurai ei hun na fyddai raid iddo

ddioddef yr ansicrwydd hwn yn hir—byddai i Sem Llwyd benderfynu y peth y naill ffordd neu y llall.

Nid aeth Sem at ei waith i Goed Madog dranoeth Ymwisgodd yn ei ddillad Sabboth, a gwelid ef yn gynar yn y bore yn gwâg-symera hyd y dref, ac yn ymdroi yn nghymydogaeth y y *Brown Cow.* Yn wir, er fod Sem yn cymeryd arno fod yn ddirwestwr, llithrodd fwy nag unwaith y bore hwnw i'r *Brown Cow* am werth dwy geiniog pan nad oedd neb o'r Annibynwyr yn y golwg. Fel *lieutenant* i'r Capten Trefor yr oedd i Sem groeso mawr yn y *Brown Cow*, ac ymholai Mrs. Prys yn garedig am ystad iechyd y Capten. Ysgydwai Sem ei ben yn ddoeth, ac awgrymai nad oedd iechyd y Capten yr hyn y buasai ef na neb o'r mwnwyr yn dymuno ei fod, a rhoddai Mrs. Prys ochenaid a gwerth dwy geiniog i Sem *free of charge.* Yr oedd Sem yn barod efo'i *report* cyn canol dydd; a phrysurodd i Dy'nyrardd.

---

## PENNOD XLIX.

### Y CAPTEN AC ENOC.

Ni fedrai y Capten brofi tamaid o frecwast, a chredai Miss Trefor fod ei thad yn gofidio ac yn pryderu yn ei chylch hi yn y rhagolwg fod Enoc Huws yn myn'd i'w chymeryd oddiarno, neu ynte ei fod dan argyhoeddiad. Credai mai y peth olaf oedd yn fwyaf tebygol, yn gymaint ag na welsai hi y boreu hwnw ddim olion ei fod wedi bod yn yfed y noson flaenorol, wedi iddi fyned i'r gwely, fel y byddai yn gweled, yn mron yn ddieithriad, bob bore drwy y flwyddyn. Meddyliai ei fod, o'r diwedd, wedi cael tro, ac yr oedd ei chalon yn llawn o ddiolchgarwch; ac er y cymerai hi arni fod yn ddrwg ganddi ei weled yn methu bwyta, dychlamai ei chalon o lawenydd wrth fwyn gredu fod rhywbeth wedi digwydd i beri iddo weled pechadurusrwydd ei fuchedd! Bychan y gwyddai hi beth oedd wedi amharu ystumog y Capten. Dywedodd y Capten wrth ei ferch ar ol brecwast fod ganddo lawer o waith ysgrifenu y bore hwnw, yr

hyn oedd yn awgrymu iddi fod arno eisiau y parlwr iddo ef ei hun. Ni ysgrifenodd air. Cerddodd yn ol a blaen hyd yr ystafell am oriau, gan edrych yn bryderus drwy y ffenestr yn fynych am Sem Llwyd. Yr oedd agos yn bryd cinio cyn iddo weled Sem yn y pellder yn cerdded yn frysiog tua Thy'nyrardd. Curai ei galon yn gyflym fel y gwelai Sem yn agoshau. Ofnai a dyhëai am glywed beth oedd gan Sem i'w ddweyd. Cyn i Sem agor llidiart yr ardd, yr oedd y Capten wedi agor drws y tŷ, ac yn ceisio dyfalu ar wyneb Sem beth fyddai ei adroddiad. Edrychai Sem yn llawen, ac esboniodd y Capten hyny fel arwydd dda. Wedi i'r ddau fyned i'r parlwr, a chau y drws, ebe y Capten, yn llawn pryder—

"Wel, Sem, beth ydach chi'n feddwl?"

"Lol i gyd," ebe Sem, "dydio ddim byd tebyg, ac eto y mae ene rwbeth yn debyg ynddo. Ond nid y fo ydio, mi gymra fy llŵ, Capten."

"Ydach chi reit siwr, Sem?" gofynai y Capten.

"Mor siwr a mod i'n fyw," ebe Sem. "Dydi'r dyn ene fawr dros ddeg a thrigen, a mi wyddoch nad hyny fase'i oed *o*. Dim peryg—peidiwch ag ofni—rhowch eich meddwl yn dawel. Mae o yn anmhosib. *Just* meddyliwch be fase 'i oed o erbyn hyn?"

"Gwir," ebe'r Capten, "ond a ydych chi'n hollol sicr, Sem?"

"Yn berffaith sicr, Capten. Fedr neb 'y nhwyllo *i*. 'Dydio ddim ond dychymyg gwirion ddaeth i'ch pen chi," ebe Sem.

"Yn ddiamheu, Sem," ebe'r Capten, "a diolch i Dduw am hyny. Yr wyf wedi cael digon o helyntion heb hyn. Yr ydach chi wedi symud baich mawr oddiar fy meddwl i, Sem, a mae gen i ofn i'r eneth yma sylwi fod rhywbeth wedi digwydd, neu mi fuaswn yn gofyn i chi aros yma i ginio. Hwdiwch, cymerwch y goron yma, 'rwan, ac ewch i'r Gwaith y prydnawn. Mae gen i rywbeth i'w ddweyd wrthoch chi ryw ddiwrnod, Sem."

Aeth Sem ymaith yn synfyfyriol, oblegid nid oedd efe lawn mor sicr ei feddwl ag y cymerai arno wrth y Capten. Ond wrth ei weled mor bryderus a chythryblus, gwnaeth ei oreu i ymlid ei aflonyddwch a rhoi tangnefedd iddo, a meddyliai Sem mai gwae iddo ef y dydd pan ddigwyddai rhyw anffawd i'w hen feistr a'i gyfoed. Ac, yn wir, meddyliai Sem yn onest—er nad oedd y peth yn anmhosibl—fod y Capten wedi dychrynu yn

hollol ddiachos—yr oedd yn un o'r pethau mwyaf annhebygol a allasai ddigwydd. Ar yr un pryd, ni allasai Sem beidio pondro llawer y diwrnod hwnw, a bu ymweliad y Capten âg ef y noson flaenorol yn achlysur i adgyfodi digwyddiadau yr oedd efe er's amser maith wedi eu claddu yn ei fynwes,—a bu eu claddu o fantais fawr i Sem yn ei gysylltiad â'r Capten.

Teimlai y Capten yn ddyn gwahanol wedi cael adroddiad Sem Llwyd. Yr oedd, fel y dywedodd, wedi cymeryd baich trwm oddiar ei feddwl, a thybiai, erbyn hyn, y gallai gyda dyogelwch gymeryd glasied o chwisgi. Estynodd y botel o'r cwpwrdd, ac yn hytrach nag i Susi gael gwybod ei fod yn ei gymeryd drwy iddo alw am ddwfr, penderfynodd ei gymeryd yn nêt, yr hyn, gyda llaw, nad oedd fawr gamp i'r Capten. Pa fodd bynag, pan oedd efe wedi llenwi y gwydr, ac ar fin ei draflyncu, daeth Susi yn sydyn i'r ystafell i ymofyn pa bryd y dymunai efe gael ei ginio. Edrychodd y Capten yn euog a ffwdanus, ac edrychodd ei ferch yn synedig a phrudd wrth ei weled yn ail gychwyn ar ei hen arfer felldigedig mor foreu, a hithau wedi meddwl fod rhyw dro wedi cymeryd lle arno, a'i fod wedi penderfynu troi dalen newydd. Syrthiodd ei chalon ynddi pan welodd y botel ar y bwrdd, a'r gwydr wedi ei lenwi, ac ebe'r Capten—yn canfod yr hyn a redai drwy ei meddwl,—

"Dydw i ddim yn hidio am ginio o gwbl, fy ngeneth, achos dydw i ddim yn teimlo, rywfodd, yn haner iach. A dyna'r rheswm fy mod yn cymeryd dropyn o *whiskey* yrwan i edrych a fydda'i dipyn gwell ar ei ol. Yn wir, yr oeddwn wedi penderfynu neithiwr, er na ddwedais mo hyny wrthoch chi, peidio byth cyffwrdd â fo. Ond y mae y doctoriaid goreu yn tystio ei fod yn beryglus i un sydd wedi arfer cymeryd dropyn bach bob dydd, ei roddi i fynu yn rhy sydyn; ac erbyn hyn yr wyf yn credu hyny, achos yr wyf yn siwr mai dyna sydd wedi dwyn yr anhwyldeb sydd arnaf heddyw. A chyda golwg ar y cinio, yr wyf yn meddwl mai gwell i chwi wneud cwpanaid o goffi i mi; mae fy ystumog yn rhy ddrwg i gymeryd dim arall. A bydaech chwi yn ffrïo tipyn o ham ac wy neu ddau—neu rywbeth arall, fy ngeneth."

Gyda dweyd, "O'r goreu," aeth Miss Trefor ymaith yn drist a siomedig, ac yn gwbl argyhoeddedig nad oedd y "tro mawr" wedi cymeryd lle ar ei thad eto. Ac yr oedd ei hargyhoeddiad yn berffaith gywir. Ar ginio, gofynodd Miss Trefor i'w thad

yr achos o ymweliad boreuol Sem Llwyd, ac ebe'r Capten yn barod ddigon,—

"Dod â newydd drwg i mi yr oedd Sem, druan. Y gwir yw, Susi, mae Sem a minau erbyn heddyw yn hollol argyhoeddedig na chawn blwm yn Nghoed Madog. O ran amser a natur pethau, ni a ddylasem fod wedi ei gael cyn hyn, os oedd i'w gael o gwbl. Ond yn awr, er ein gwaethaf, yr ydym wedi rhoi pob gobaith heibio. Dyna'r penderfyniad y daeth Sem a minau iddo y bore heddyw. Pa fodd i dori'r newydd i Mr. Enoc Huws, nis gwn, a mae o bron a ngyru i'n wirion, ond y mae yn rhaid ei wneud, a hyny ar unwaith. Mi wn y bydd Mr. Huws yn anmharod i roi'r Gwaith i fynu, oblegid welais i neb erioed â'r fath ysbryd mentro ganddo. Ond y mae yn rhaid i mi arfer fy holl ddylanwad i'w berswadio i roi'r lle i fynu, achos y mae fy nghydwybod yn dweyd wrthyf mai dyna ydyw fy nyledswydd. Ac, yn wir, fedra i fy hun ddim fforddio i wario dim ychwaneg—yr wyf yn teimlo ei fod yn dechreu dweyd ar fy amgylchiadau. A fydde fo niwed yn y byd, Susi, bydae chwithau yn dweyd gair wrtho i'r un perwyl."

Yr oedd Susi yn gweled drwy bethau yn well o lawer nag y tybiai ei thad. Canfyddodd ar unwaith mai yr hyn a ddywedasai hi wrtho y noson flaenorol, sef ei bod wedi addaw priodi Enoc Huws, oedd y rheswm am roddi Coed Madog i fynu. Da oedd ganddi glywed hyn, oblegid credai er's llawer o amser na ddeuent byth i blwm yn Nghoed Madog. Ac wrth feddwl y byddai hi ac Enoc yn mhen ychydig wythnosau yn ŵr a gwraig, yr oedd penderfyniad ei thad i daflu'r Gwaith i fynu yn dderbyniol iawn ganddi, canys gwyddai fod Enoc yn gwario wmbreth o arian bob mis ar y fentar. Cydsyniodd â phenderfyniad ei thad, a chanmolai yntau ei gallu i ganfod natur pethau.

Eglur ydoedd nad oedd llawer o anmhariad ar ystumog y Capten, ac nid aeth efe allan o'i dŷ y diwrnod hwnw, am nad oedd ynddo duedd i fyn'd i'r *Brown Cow* o herwydd rhesymau penodol, ac hefyd am ei fod yn awyddus i gael siarad âg Enoc, yr hwn a fyddai yn sicr o dalu ymweliad â Thy'nyrardd y noson hono. Daeth Enoc i'w gyhoeddiad yn ffyddlon ddigon, a synodd braidd pan ddywedodd Miss Trefor wrtho fod ei thad adref, a'i fod eisiau cael siarad âg ef yn nghylch y Gwaith, oblegid anfynych y cawsai efe ef adref yn ddiweddar wedi bo'r nos.

Pan aeth Enoc i'r parlwr, rhoddodd y Capten wedd bruddaidd ar ei wyneb, ac ebe fe,—

"Yr wyf wedi bod eisiau eich gwel'd, Mr. Huws, er's gryn bythefnos, ac yn ofni drwy waed fy nghalon eich gweled, ond yr wyf wedi penderfynu myn'd dros y garw heno."

Chwarddodd Enoc, canys yr oedd ef mewn tymher ragorol y dyddiau hyny, ac ebe fe,—

"Beth yn y byd mawr all fod y rheswm am eich bod yn ofni fy ngweled?"

"Mi ddywedaf i chwi," ebe'r Capten, "gan nad beth fydd y canlyniad. Mi obeithiaf, Mr. Huws, wedi i mi ddweyd yr hyn nad allaf deimlo yn dawel fy nghydwybod heb ei ddweyd, mi obeithiaf, meddaf, na edrychwch arnaf fel dyn anonest neu dwyllodrus, oblegid nid ydwyf na'r naill na'r llall. Mae yn bosibl i'r dyn cywiraf fethu yn ei amcanion ac yn ei farn, ac er, mewn ffordd o siarad, y gallaf, os goddefwch i mi ddweyd felly, longyfarch fy hun nad ydwyf neillduol o hynod am fethu yn fy amcanion na'm barn, eto nid ydwyf yn myntumio fy mod yn gwbl rydd a glân oddiwrth y diffygion a grybwyllais. Yn wir, *such men are few and far between*, ac nid ydwyf yn hawlio bod yn un o'r *few*, er, mewn dull o ddweyd, fy mod yn gwenieithio i mi fy hun, os nad ydwyf yn un o honynt, fy mod, os nad ydwyf yn twyllo fy hun, yn byw yn lled agos i'w cymydogaeth. Yr wyf yn meddwl eich bod yn fy adnabod yn ddigon da i goelio am danaf, pe gwnawn gamgymeriad, na fyddwn wedi ei wneud yn fwriadol, ac nad ellid priodoli y camgymeriad ychwaith, a siarad yn gyffredinol, i ddiffyg *scientific knowledge*, can belled ag y mae hwnw yn myn'd. Ond hwyrach, yn fy niniweidrwydd, fy mod yn cymeryd gormod yn ganiataol—mae y fath beth yn bosibl, mi wn. Ond rhag i mi eich cadw mewn disgwyliad yn rhy hir, a goddef arteithiau fy nghalon yn hwy nag a ddylwn—a goddefwch i mi ddweyd mai yr hyn yr wyf ar fedr ei ddweyd wrthych ydyw y gofid mwyaf a gefais erioed, a chwi a wyddoch fy mod yn gwybod am ofidiau lawer, ond hwn ydyw y gofid mwyaf, coeliwch fi—rhag i mi eich cadw yn rhy hir heb ei wybod, fel y dywedais, mae yn dyfod i hyn, Mr. Huws—newch chwi ddim digio wrthyf yn anfaddeuol wedi i mi ei hysbysu i chwi?"

"Ewch ymlaen, Capten Trefor," ebe Enoc yn sobr ddigon,

oblegid credai, erbyn hyn, fod y Capten yn myn'd i ddweyd wrtho na chydsyniai iddo gael Miss Trefor yn wraig.

"Ond mi fuaswn yn dymuno cael addewid genych—wrth feddwl y fath gyfeillion ydym wedi bod—na fydd i chwi ddigio yn anfaddeuol wrthyf. Ond rhaid i mi gydnabod pe gwnaech felly, na fyddai ond fy haeddiant, er nad fy haeddiant chwaith, oblegid mi gymeraf fy llw fy mod, yn ystod ein trafodaethau, wedi bod yn berffaith onest can belled ag yr oedd fy ngwybodaeth yn myn'd. Ond dyma ydyw, Mr. Huws, ac y mae yn mron a fy nyrysu, ond y mae ymdeimlad o ddyledswydd, ac ateb cydwybod dda, yn fy ngorfodi i'ch hysbysu o hono—yr ydym, bellach, wedi anobeithio y deuwn byth i blwm yn Nghoed Madog, ac wrth feddwl am yr holl bryder a'r helynt, ac mor sicr oeddwn yn fy meddwl y cawsem blwm yno, ac wrth feddwl am yr holl arian yr ydych chwi a minau wedi eu gwario —er y mae yn rhaid i mi ddweyd nad yr hyn a weriais *i*, ond yr hyn a wariasoch *chwi*, sydd yn fy mlino—wrth feddwl am hyn i gyd, meddaf, y mae yn mron a fy nyrysu, ac yr wyf yn gorfod gwneud y cyfaddefiad fy mod wedi gwneud camgymeriad—yr *unig* gamgymeriad mewn *mining* a wnaethum yn fy oes, ond yr wyf yn gorfod ei gydnabod. Ac erbyn hyn, Mr. Huws, yr ydwyf yn erbyn fy ngwaethaf yn gorfod dyfod i'r penderfyniad mai oferedd a fyddai i ni wario ffyrling arall ar y Gwaith, a mi ddymunwn allu eich perswadio chwithau i ddyfod i'r un penderfyniad. Ond a ydych yn ddig wrthyf? a ydych yn fy ffieiddo ac yn fy nghashau â châs perffaith a thragywyddol, Mr. Huws?"

"Yr ydwyf wedi ymddiried ynoch o'r dechreu, fel y gwyddoch, Capten Trefor," ebe Enoc, "ac os ydych yn credu mai taflu'r cwbl i fynu a fyddai oreu, pobpeth yn iawn. Mae y goreu o honom yn gwneud camgymeriadau, a rhaid i'r dyn sydd yn mentro edrych am siomedigaethau a cholledion weithiau. 'Does dim help, os fel yna y mae pethau yn sefyll, a dydw i'n hidio 'run grôt am roi'r Gwaith i fynu os nad oes obaith yno am blwm."

"Yr ydych yn fy lladd â'ch caredigrwydd, Mr. Huws," ebe'r Capten, gan roddi ei wyneb rhwng ei ddwylaw, ac fel pe buasai yn ceisio crïo, "ond yr arian! wmbreth, yr ydych wedi eu gwario, Mr. Huws bach!"

"'Does dim help am hyny," ebe Enoc, "a pheidiwch a gofidio, dydw i ddim wedi gwario'r cwbl eto."

"Diolch i Dduw am hyny," ebe'r Capten, heb dynu ei ben o'i ddwylaw. "Yr oedd dinystrio Denman, druan, yn ddigon heb eich dinystrio chwithau hefyd. Ond yr wyf wedi bod yn onest ar hyd yr amser, Duw a ŵyr!"

"'Does neb yn amheu hyny," ebe Enoc, "oblegid yr ydych wedi colledu eich hun, ac y mae'r siomedigaeth yn gymaint i chwi ag i minau. Nid y ni ydyw y rhai cyntaf i fethu, ac ofer ydyw gofidio am yr hyn nad all neb wrtho."

Yr oedd y Capten wedi cyrhaedd ei amcan, ac ar ol siarad gryn lawer yn yr un cwrs, gan ddatgan drosodd a throsodd drachefn ei ofid am fod ffawd wedi myned yn ei erbyn, nes llwyr enill cydymdeimlad Enoc, ebe fe pan oedd Enoc ar fin cychwyn gartref—

"Mr. Huws, mae Susi wedi dweyd rhywbeth wrthyf sydd yn rhyw gymaint o olew ar friw fy siomedigaeth yn nglŷn â'r Gwaith—hyny ydyw, yn fyr, rhag i mi eich cadw, eich bod wedi ymserchu yn eich gilydd, ac nid ydyw hyny yn beth i ryfeddu ato, ac y bydd hyny yn diweddu rhyw ddiwrnod—fel y mae y cyfryw bethau yn gyffredin yn diweddu—yn eich gwaith yn myned at eich gilydd. A chan nad beth a ddaw o honof fi yn fy hen ddyddiau, wedi fy ngadael yn unig, mae yn rhaid i mi ddweyd fod yr hysbysrwydd wedi fy lloni nid ychydig, oblegid y mae yn rhy hwyr ar y dydd i mi astudio fy *interest* fy hun, a bydd gweled fy unig ferch yn ngofal dyn sobr, da, caredig a chwbl alluog i'w chadw uwchlaw angen, a dweyd y lleiaf, yn help i mi pan ddaw yr adeg—ac o angenrheidrwydd nid all fod yn mhell—i arfer y geiriau ysbrydoledig, os goddefwch i mi ddweyd felly—'Yr awr hon y gollyngi dy was mewn tangnefedd.' Bydd yn dda genyf feddwl am danoch fel fy mab-yn-nghyfraith, a bod fy merch wedi digwydd mor lwcus, ond cofiwch y byddaf yn ystyried eich bod chwithau yr un mor lwcus."

"Diolch i chwi am eich syniadau da am danaf," ebe Enoc, "a mi wnaf fy ngoreu i fod yn deilwng o hynynt. Mi wn nad ellwch ddweyd dim yn rhy dda am Miss Trefor—y hi ydyw yr eneth oreu yn y byd yn ol fy meddwl i. A chyda golwg ar gael eich gadael yn unig, y mae hyny allan o'r cwestiwn. Os bydd hyny yn foddhaol genych chwi, Capten Trefor, cewch

gyd-fyw â mi weddill eich dyddiau, a mi wnaf yr hyn fydd yn fy ngallu i'ch gwneud yn ddedwydd."

"Yr ydych, meddaf eto, Mr. Huws, yn fy lladd â'ch caredigrwydd. Ond hwyrach na fydd arnaf angen rhyw lawer o ofal na charedigrwydd neb. '*Man proposes and God disposes*'—ond cawn siarad am hyn eto."

A oedd y Capten yntau, fel Saul, yn mhlith y Prophwydi? Ar ol treulio ychydig amser yn nghwmni Miss Trefor, aeth Enoc adref yn ddyn dedwydd—mor ddedwydd fel na wyddai pa fodd i ddiolch digon am ei ddedwyddwch.

## PENNOD L.

### Y "FENTAR" OLAF.

Bore dranoeth, anfonodd y Capten air at Sem Llwyd, yn ei orchymyn i hysbysu gweithwyr Coed Madog y byddid, o herwydd rhyw resymau penodol, yn rhoi terfyn ar y Gwaith ddiwedd yr wythnos hono, ac na fyddai eu gwasanaeth yn angenrheidiol hyd nes y caent air yn mhellach. "Ond cofiwch," ebe'r Capten mewn ôl nodyn, "na chwech *chwi*, Sem, fod mewn angen tra y bydd genyf fi geiniog." Newydd drwg oedd hwn i'r gweithwyr, ond nid oedd ond yr hyn a fuasent yn ei ddisgwyl er's tro, a synent yn aml eu bod wedi cael myn'd yn mlaen am gyhyd o amser.

Ni wnaeth y Capten ddim, "mewn ffordd o siarad," am ddeuddydd ond myfyrio ar a chynllunio gogyfer â phriodas ei ferch. Ac yr oedd ganddo y fath ffydd yn ei allu i drefnu pethau fel yr oedd yn benderfynol y mynai gael ei ffordd ei hun i gario allan amgylchiadau y briodas yn y fath fodd ag oedd weddus i sefyllfa y briodasferch, ac a roddai anrhydedd ar y digwyddiad yn ngolwg ei gymydogion. Nid oedd am arbed cost na thrafferth. Yr oedd ei sefyllfa ef ei hun yn mhlith ei gymydogion yn gofyn rhoi urddas ar yr amgylchiad, ac yr oedd gan Mr. Huws ddigon o fodd i dalu'r *bill*. Yr oedd efe yn

hynod o ddedwydd ac yn neillduol o fwyn gyda Miss Trefor, ac yn tretio ei hun yn fynych gyda gwydriad o chwisgi—yr oedd hyny yn gweddu i'r amgylchiadau yn nhŷb y Capten. Carasai fyned i'r *Brown Cow* at ei hen gymdeithion, a rhoi awgrym cynil iddynt am y digwyddiad mawr oedd i gymeryd lle yn bur fuan. Ond yr oedd am aros nes i'r dyeithryn fyn'd ymaith, canys yr oedd yn gorfod cyfaddef, wrtho ei hun, fod gwyneb y gŵr hwnw yn ei adgofio am rywbeth y buasai yn well ganddo beidio meddwl am dano. Gyda chryn aberth yr oedd y Capten wedi aros yn tŷ am ddau ddiwrnod a dwy noswaith. Y drydedd noswaith daeth drosto y fath hiraeth am gwmni y *Brown Cow*, fel nad allai ei wrthsefyll, "ac yn sicr," ebe'r Capten, "y mae yr hen ŵr hwnw wedi myn'd bellach." Ac i'r *Brown Cow* yr aeth, lle y cafodd groesaw cynhes, a mawr oedd yr holi am ei iechyd. Ond er ei fawr siomedigaeth, yr oedd yr hen ŵr penwyn yn ei gongl, ac yn ymddangos yn hollol anymwybodol o ddyfodiad y Capten i'r ystafell, ac, fel arfer, wedi ymgolli yn ei lyfr. Ar ol cael tystiolaeth Sem Llwyd, ac, yn wir, wedi iddo ef ei hun ail edrych arno, nid oedd mor debyg ag y tybiasai y Capten ei fod y tro cyntaf yr edrychodd arno. Eto yr oedd y gŵr dyeithr yn ei adgofio am un arall, ac yn ei wneud yn annghyfforddus. Ni arosodd y Capten yn hwyr yn y *Brown Cow* y noson hono, a phan ddaeth adref, sylwai Miss Trefor ei fod yn edrych yn brudd a phryderus—yn gwbl wahanol i'r hyn a fuasai er's deuddydd. Pan ofynodd hi am yr achos o'i brudd-der, ebe fe—

"Chlywsoch chwi mo'r newydd, Susi?"

"Pa newydd?" ebe hi.

"Mae'r hen Hugh Bryan, druan, wedi marw," ebe'r Capten.

"Beth? yr hen Mr. Bryan? O diar! O diar!" ebe Susi, a rhuthrodd i'w meddwl fil o bethau. Ond Wil Bryan oedd y gwrthrych cyntaf ddaeth i'w meddwl. Pa le yr oedd efe? a ddeuai efe gartref i gladdu ei dad? pa fath un oedd efe erbyn hyn? a oedd efe mor olygus? sut y gallai hi ei wynebu? Pan oedd y pethau hyn yn rhedeg drwy ei meddwl curodd rhywun y drws, ac aeth hithau i'w agor. Yr oedd yn noswaith leuad oleu, a gwelai Susi, wedi iddi agor y drws, hen foneddwr parchus a phenwyn. Eisiau gweled Capten Trefor yr oedd y gŵr dyeithr. Arweiniodd Susi ef i'r parlwr at ei thad, a da oedd ganddi fod rhywun wedi dyfod i ymofyn am dano, er

mwyn iddi gael amser i redeg i edrych am yr hen Mrs. Bryan, oblegid ni allai Susi annghofio yr amser gynt. A da iddi hefyd fod y meddwl hwn ganddi, onide buasai yn rhwym o sylwi, pan aeth yr hen foneddwr i'r parlwr, fod wyneb ei thad wedi gwelwi fel y galchen, ac mai prin y gallai ei goesau ei ddal pan gododd i roddi derbyniad iddo..

Cipiodd Susi hugan a tharawodd ef am ei phen, fel nad allai neb ei hadnabod, a rhedodd i edrych am Mrs. Bryan yn ei helynt blin. Bu yno yn hir—agos i awr—a chyn iddi redeg yn ol, clywodd ddigon gan yr hen wreigan i beri iddi deimlo yn anesmwyth. Ond yr oedd wedi rhoi ei haddewid i Enoc, ac nid allai dim ddigwydd i beri iddi dori yr addewid hono, deued a ddeuai. Wrth iddi droi am gongl heol pan yn prysuro gartref, safodd yn sydyn—gwelodd ei thad a'r boneddwr yn dyfod i'w chyfarfod. Gwelodd y ddau yn sefyll gyferbyn a Siop y Groes, ac wedi cryn siarad, ei thad yn troi gartref heb gymaint ag ysgwyd llaw â'r boneddwr, a'r olaf yn curo drws tŷ Enoc Huws. Eglurai hyn iddi y nodyn a gawsai gan Enoc yn ystod y diwrnod, fod ganddo *appointment* gan foneddwr y noson hono. Cyflymodd Miss Trefor ffordd arall er mwyn bod adref o flaen ei thad. Ac nid gorchwyl anhawdd oedd hyn, canys cerddai yr hen Gapten yn araf â'i ddwylaw ar ei gefn, gan edrych tua'r llawr, fel pe buasai ei enaid wedi ei dynu o hono. Cyfarfyddodd Susi ef yn ddiniwed yn y lobi, a gofynodd a oedd arno eisiau rhywbeth ganddi cyn iddi fyned i'w gwely.

"Nag oes, fy ngeneth," ebe'r Capten, ac yr oedd ei eiriau fel pe buasent yn dyfod o'r bedd, ond ni sylwodd hi ar eu tôn—yr oedd ganddi ei meddyliau ei hun i'w blino. Gan amlder ei meddyliau o'i mewn, ni chysgodd Miss Trefor am rai oriau, ac er gwrando yn ddyfal, ni chlywsai ei thad yn myn'd i'r gwely. Ar adegau dychymygai ei glywed yn cerdded yn ol ac yn mlaen hyd y parlwr, ond meddyliai wed'yn mai dychymyg oedd y cwbl. Dranoeth hi a gyfododd yn lled fore fel arfer—yn wir yr oedd hi i lawr y grisiau o flaen Kit, y forwyn. Aeth yn syth i'r parlwr, a dychrynwyd hi yn ddirfawr gan yr hyn a welodd yno. Gorweddai ei thad ar y soffa, ac ymddangosai fel pe buasai yn cysgu yn drwm. Ar y bwrdd yn ei ymyl yr oedd dwy botel o *Scotch Whiskey*—yn wâg. Gwelodd hefyd y funyd yr aeth i'r ystafell, lythyr ar y *mantlepiece* wedi ei gyfeirio iddi hi. Rhoddodd y llythyr yn ei phoced, ac ysgubodd y potelau

gweigion o'r golwg, oblegid nid oedd hi yn foddlon i hyd yn nod Kit wybod fod ei thad wedi bod yn yfed yn drwm yn ystod y nos. Wedi gwneud hyn, ni wyddai yn iawn pa un ai gadael ei thad i gysgu ei feddwdod ymaith a'i ei ddeffro a fyddai oreu. Ond beth pe buasai efe yn cysgu ei hun i farwolaeth? Penderfynodd ei ddeffro. Aeth ato. Yr oedd yn cysgu yn esmwyth, a phetrusodd ei aflonyddu. Rhoddodd ei llaw yn ysgafn ar ei law ef, a chafodd ei bod can oered a darn o rew. Gosododd ei chlust wrth ei enau. Nid oedd yn anadlu. Yr oedd yr hen Gapten, "mewn ffordd o siarad," can farwed a hoel!

Yn gyffredin, yr oedd hunan-feddiant Miss Trefor yn ddiail, a chyn hyn, lawer tro, yn yr amgylchiadau mwyaf poenus, yr oedd wedi arddangos nerth meddwl a'r fath feistrolaeth ar ei theimladau, nes peri i Kit, y forwyn, edrych arni fel geneth *galed*, pryd, mewn gwirionedd, nad caledwch ydoedd o gwbl, ond cryfder. Ond y foment y sylweddolodd fod ei thad yn gorph marw, rhoddodd ysgrech dros yr holl dŷ, a syrthiodd i'r llawr mewn llesmair. Dygodd hyn Kit, ar haner gwisgo am dani, i'r ystafell mewn eiliad, ac wrth ganfod yr olygfa ddyeithr, a thybied fod y Capten a Miss Trefor—y ddau fel eu gilydd—yn farw gelain, gwaeddodd hithau, fel y gwna merched, nerth esgyrn ei phen, a rhuthrodd allan gan barhau i waeddi. Dygodd hyn amryw bobl i'r tŷ yn mhen ychydig funydau, a rhedodd rhywun am y meddyg. Cyn i'r meddyg gyrhaedd—ac, fel y digwyddodd, yr oedd efe yn ymyl,—canfyddwyd mai mewn llewyg yr oedd Miss Trefor, ond fod y Capten mewn gwirionedd wedi myn'd drosodd at y mwyafrif. Pan wnaeth y meddyg ei ymddangosiad, yr oedd yr ystafell, fel arferol, yn y cyfryw amgylchiadau, yn llawn o bobl awyddus i wneud unrhyw beth yn eu gallu, ond heb allu gwneud dim ond cyfyngu ar awyr iach. Wedi clirio pawb allan oddigerth rhyw ddau, cyfeiriodd y meddyg ei sylw at y gwrthrych pwysicaf, sef y Capten, a phan oedd wrth y gorchwyl dechreuodd Miss Trefor ddadebru, ac yn fuan daeth ati ei hun. Dywedodd y meddyg—yr hyn a wyddai pawb—fod y Capten yn ddiamheu wedi marw, ac ychwanegodd yr hyn na wyddai pawb, sef mai yr achos o'i farwolaeth oedd clefyd y galon, wedi ei ddwyn oddiamgylch gan orlafur meddyliol. Ac wedi holi tipyn ar Miss Trefor am yr amgylchiadau, yr hon na ddywedodd ddim wrtho ond mai fel y gwelsai efe ei thad, y gwelsai hithau ef, aeth y

meddyg ymaith. Ac yn y man aeth y cymydogion ymaith, a gadawyd Miss Trefor a Kit am ysbaid yn unig. Yn ei phrofedigaeth lem, meddyliodd Miss Trefor am Enoc Huws, ac erfyniodd ar Kit fyned i'w nol, ac, os nad oedd efe wedi clywed eisoes, am iddi ddweyd y newydd difrifol wrtho mor gynil ag y gallai rhag ei ddychrynu. Tra yr oedd Kit yn myned i Siop y Groes, cofiodd Miss Trefor am y llythyr, ac mewn pryder ac ofn agorodd ef, ac y darllenodd:—

"FY ANWYL SUSI,

"Yr wyf yn ysgrifenu hyn o eiriau atoch rhag ofn na welaf mo'r bore, ac yn wir, mewn ffordd o siarad, nid wyf yn gofalu a gaf ei wel'd ai peidio, oblegid, erbyn hyn, y mae bywyd yn faich trwm arnaf. Fy anwyl eneth, yr wyf yn eich caru yn fawr, ond ni wn beth a feddyliwch am eich tad yn mhen ychydig ddyddiau, ac y mae arnaf awydd mawr cael fy nghymeryd ymaith cyn gorfod eich gwynebu a gwynebu fy nghymydogion—yr wyf yn teimlo yn sicr na fedraf, a gwell genyf farw na gwneud. Y mae hi yn y pen arnaf,—mae fy anwiredd yn fawr ac atgas, a chwi synwch fy mod wedi gallu ei guddio cyhyd. Ond ni allaf ei guddio yn hwy—daw allan i gyd ac ar unwaith. Mae Duw yn fy ymlid, ac nid oes genyf le i ffoi. Y mae yn galed iawn arnaf, ac yr wyf yn mron a hurtio. Yr wyf wedi ceisio gweddïo, ond ni fedraf—ac ni wnaiff un gwahaniaeth yn fy sefyllfa pa un ai yn y byd hwn ai yn y byd arall y byddaf cyn y bore. Y fath drugaredd fod eich mam wedi fy rhagflaenu! O! na fyddai yn bosibl i chwithau fy rhagflaenu cyn i hyn oll ddyfod i'r goleu! Nis gallaf byth ddisgwyl i chwi faddeu i mi—byddai yn wyrth i chwi allu gwneud hyny. Fy anwyl eneth, mae cnofeydd yn fy nghydwybod fy mod wedi dwyn gwarth bythol ar eich enw pur. Mae fy mywyd wedi bod yn un llinyn o dwyll a rhagrith, a fy syndod ydyw fod y byd mor hawdd i'w dwyllo. Yr wyf wedi twyllo, do hyd yn nod chwi, fy anwyl eneth! Yr unig ddaioni sydd wedi ei adael ynof, er's blynyddau, ydyw fy nghariad atoch chwi, fy anwyl Susi; a mi ddymunwn ar eich rhan allu wylo dagrau o dân, ond ni fedraf; a'r tipyn daioni hwn sydd wedi ei adael ynof ydyw fy nhrueni penaf erbyn hyn. Hebddo buaswn yn teimlo rhyw fath o *daring* c———. Wel, nid enwaf y gair. Ni wnaf

arteithio eich teimladau, ac achosi poen afreidiol i chwi drwy ddesgrifio yr hyn a fu'm, a'r hyn ydyw fy sefyllfa yn awr. Yn wir, yr wyf yn amheu a ddylaswn ddweyd cymaint a hyn wrthych, ond ni fedrwn ymatal heb ddweyd rhywbeth wrthych, am y tro olaf, fel yr wyf yn gobeithio. Yr hyn sydd yn rhwygo fy nghalon waethaf—os oes gwaethaf am dani—ydyw nad all Mr. Huws, dan yr amgylchiadau a ddaw i'r golwg, eich priodi; mae yn anmhosibl, ac y mae meddwl beth a ddaw o honoch, fy anwyl Susi, yn rhoi fy enaid ar dân. Eto, yr wyf yn gobeithio y bydd efe yn garedig atoch—ni all beidio. Duw a'i bendithio ef a chwithau.

"Wrth gwrs, os byddaf byw yn y bore, ac yn fy synwyrau, ni chewch weled y llythyr hwn; ond os marw fyddaf—a gobeithiaf mai felly y cewch fi—darllenwch o i chwi eich hun, a chedwch ei gynwys i chwi eich hun, a llosgwch o. Ac yn awr, fy anwyl Susi, ffarwel am byth, mi obeithiaf.

"Eich tad drwg ac annheilwng,

"RICHARD TREFOR.

"O.Y.—Os bydd ar eich llaw, ryw dro, wneud rhyw gymwynas i Sem Llwyd, gwnewch; bu yn ffyddlon iawn i mi.—R.T."

Yr oedd llygaid Miss Trefor wedi pylu cyn iddi orphen darllen y llythyr, ac megis heb yn wybod iddi ei hun, taflodd ef i'r tân. Yr oedd y llythyr yn fflamio pan ddychwelodd Kit i gael Miss Trefor yn llorweddiol, ac yn sibrwd yn drist,—"O! Mr. Huws, lle mae Mr. Huws, Kit bach?"

"Mae Mr. Huws yn sâl iawn yn ei wely, a rhyw ŵr boneddig a'r doctor wedi bod efo fo drwy'r nos," ebe Kit dan wylo.

Ergyd arall i Susi, druan, ac er cymaint oedd ei hunanfeddiant yn gyffredin, daeth niwl dros ei llygaid, ac ni wybu ddim oddiwrthi ei hun nes cael ei hun yn hwyr y prydnawn hwnw yn ei gwely, a Kit a rhyw gymydoges yn ei gwylio.

Diwrnod prudd oedd hwnw yn Bethel, fel yr adroddwyd yn ddoniol gan Didymus yn y *County Chronicle* yr wythnos ganlynol, yr wyf yn cofio yn dda. Mewn un tŷ, gorweddai corph marw yr hen Huw Bryan,—gŵr a fuasai unwaith yn fasnachwr parchus a llwyddianus, ond wrth fentro am blwm a wariodd ei holl eiddo, a llawer o eiddo pobl eraill, ond, wedi hyny, drwy ymroddiad a llafur mawr, a chynorthwy ei fab caredig, a dalodd

bob ffyrling o'i ddyledion, ac a fuasai fyw ar ychydig yn ddedwydd a dibryder. Mewn tŷ arall, gorweddai yr hyn oedd farwol o'r enwog Capten Trefor—gŵr hynod am ei uniondeb, ei garedigrwydd, a'i ddylanwad, ac un a wnaethai lawer o les i'r ardal drwy hyrwyddo *speculations* a rhoi gwaith i bobl,—gŵr ag yr oedd ei barch mewn rhai cylchoedd yn ddiderfyn, a disgwyliadau lluoedd yn hongian wrtho am fiynyddau oedd i ddyfod, ond a gymerwyd yn sydyn oddiwrth ei waith at ei wobr! Ac mor brydferth! fel y dywedai rhai o'i edmygwyr,—cael ei gymeryd ymaith yn ei gwsg! *Sudden death, sudden glory!* A pha ryfedd—gan mor sydyn y bu yr amgylchiad—i'w ferch brydferth gael ei tharo i lawr, megis? A pha ryfedd, hefyd, fod yr hwn—pe buasai y Capten wedi byw ddim ond ychydig o wythnosau yn hwy—a fwriadai ei anerch fel ei dad-yn-nghyfraith, fod yntau, hefyd, wedi ei lorio gan y digwyddiad difrifol? Yr oedd gofid yr ardal a'r wlad oddiamgylch, yn fawr a dwys. Ond ni all na ddaw y cyfryw anffodion weithiau—ni ellir eu rhwystro.

Dranoeth, o gryn bellder, yr oedd y trên yn cludo un i Bethel—nid i ddadwneud pethau, yr oedd hyny yn anmhosibl—ond i roi ychydig o olew ar yr amgylchiadau adfydus.

---

## PENNOD LI.

### YR AMERICANWR.

YN awr, er mwyn egluro y bennod ddiweddaf, ac, yn wir, er mwyn taflu ychydig o oleuni ar holl ddigwyddiadau yr hanes hwn—hanes ag y mae yn bryd i mi bellach ei ddwyn i derfyniad—rhaid i mi adrodd yr hyn gymerodd le rhwng yr Americanwr ac Enoc Huws y noswaith y bu farw Capten Trefor. Yn ystod ei arosiad yn y *Brown Cow* yr oedd y gŵr dyeithr, fel y dywedwyd o'r blaen, yn arfer galw bron yn ddyddiol yn Siop y Groes i brynu sigârs, canys yr oedd efe yn ysmygwr diail; a llawer ymgom ddifyr gymerodd le rhwng Enoc ac yntau.

Eglur ydoedd i Enoc ei fod yn ŵr oedd wedi gweled cryn lawer o'r byd, a dysgai rywbeth ganddo bob tro y siaradai ag ef. Ond prif destyn eu hymddyddan bob amser a fyddai yr America, a chyda pha bwnc bynag y dechreuent, gofalai yr hen foneddwr am ddiweddu gyda "gwlad fawr y Gorllewin." Yr oedd efe wedi siarad cymaint am y wlad, ac mor ganmoliaethol, nes oedd Enoc yn mron anesmwytho am fyn'd yno, ac oni bae am ryw amgylchiadau gwybyddus iddo ef ei hun, diau mai penderfynu myn'd i'r America a wneuthai. Yn gynar fore'r diwrnod y buasai yr hen foneddwr yn talu ymweliad â Chapten Trefor, yr oedd efe wedi amlygu dymuniad i gael awr o ymddyddan âg Enoc ar bwnc o fusnes wedi iddo gau y siop. Ystyriai Enoc hyn yn gryn anrhydedd, a gwahoddodd y gŵr dyeithr i swper y noson hono, a derbyniodd yntau y gwahoddiad yn ddiolchgar. Yn ol gorchymyn Enoc parotôdd Miss Bifan, ei *housekeeper*, swper nad oedd eisiau ei well, oblegid yr oedd hi yn eneth fedrus, ac yn cael ei mawrhau gan Enoc. Fel yr adroddwyd, aeth yr hen foneddwr yn syth o Dy'nyrardd i Siop y Groes, ac yn ystod y swper ymgomiai Enoc ac yntau am y peth yma a'r peth arall, yn ddifyr ddigon. Wedi gorphen y swper, ac i'r ddau danio ei sigârs, ebe'r boneddwr—a dyma'r gair cyntaf o Gymraeg a glywsai Enoc ganddo, ac agorodd ei lygaid mewn syndod pan ddeallodd mai Cymro ydoedd—ebe'r gŵr—

"Mi ddwedais wrthych bore heddyw, Mr. Huws, fod genyf eisiau siarad gair â chwi yn gyfrinachol. Cymro ydwyf, fel y gwelwch, ac wrth ystyried leied o Gymraeg ydwyf wedi ei glywed er's cynifer o flynyddoedd, yr wyf yn credu y dywedwch nad ydwyf wedi Dic Shona rhyw lawer. Gadewais Gymru flynyddau lawer yn ol—er's mwy o flynyddau nag a ellwch chwi gofio. Gyrwyd fi o'r wlad hon gan amgylchiadau profedigaethus. Nid oeddwn yn dlawd—wel, yn wir, yr wyf yn meddwl yr ystyrid fi dipyn yn gefnog. Yr oeddwn, cyn myn'd i ffwrdd, wedi claddu fy rhieni, a'm hunig frawd a'm dwy chwaer. Yr oeddwn yn briod er's llawer o flynyddoedd, ac yr oedd genyf un ferch, ac yr wyf yn credu y gallaf ddweyd nad oedd yn y gymydogaeth eneth brydferthach na mwy rhinweddol (yn y fan hon lleithiodd llygaid yr hen ŵr a daeth rhywbeth i'w wddf fel nad allai fyn'd yn mlaen am funyd. Yn y man ychwanegodd). Esgusodwch fi, Mr. Huws, mae yr amser yn

d'od yn fyw i fy meddwl. Ar ol afiechyd byr bu farw fy ngwraig. Yr oedd hyny yn ergyd ofnadwy i mi—teimlwn fy mod yn myn'd yn fwy unig bob dydd, a bod fy nghyfeillion, y rhai oedd wir gyfeillion i mi, mewn byd arall, ac, ar adegau, hiraethwn am gael myn'd atynt. Ond yr oedd genyf wed'yn fy merch, ac i mi, y pryd hwnw, yr oedd o fwy gwerth na'r byd efo'i gilydd. Ac, fel y dywedais o'r blaen, mor anwyl oedd yn fy ngolwg fel y tybiwn nad oedd ei bath yn unlle. Yr oedd fy musnes yn lled fawr, ond yr oedd genyf ŵr ieuanc--wel, rhyw bymtheng mlynedd ieuangach na fi—clyfar a medrus, yn edrych ar ei ol pan nad oeddwn i, o herwydd profedigaethau, yn alluog i dalu nemor sylw iddo. Ymddiriedwn y cwbl iddo, ac yr oedd yn fy nhŷ yn cael edrych arno fel un o honom. Bu'm am yspaid mewn iselder ysbryd ac nid oeddwn yn gofalu am bethau y byd hwn. Yn mhen amser—ac o drugaredd y mae amser yn gwellhau dyn—mi ddeuais ataf fy hun, ac a ddechreuais edrych i mewn i fy llyfrau. Gwelais yn union nad oedd pobpeth wedi ei gario 'mlaen yn syth, a gwelodd y gŵr ieuanc y soniais am dano fy mod wedi canfod hyny. Ni ddaeth efe i'r *office* bore dranoeth, a phan wneis ymholiad am dano, cefais ei fod wedi gadael y wlad. Creodd hyn amheuaeth ynof, ac ymroddais i chwilio ddydd a nos i fy amgylchiadau. Yn fuan iawn cefais allan fod y gŵr ieuanc yr oeddwn bob amser yn meddwl cymaint o heno wedi fy nhwyllo o dri chant o bunau. Yr oedd yn hwyr ar y nos arnaf yn dychwelyd adref wedi gwneud y darganfyddiad, ac yr oeddwn, fel y gellwch ddychymygu, wedi dychrynu a ffyrnigo, a mwriad oedd rhoi yr achos yn llaw y *police* ar unwaith. Dywedais y cwbl wrth fy merch, oblegid wrthi hi yn unig y gallwn siarad am y peth ar y pryd. Dychrynodd yn fawr, a rhoddodd ei breichiau am fy ngwddf a chrefodd dan wylo yn hidl am i mi beidio sôn wrth neb am y peth—nad oedd tri chant o bunau yn llawer i mi, ac am i mi gofio ei holl wasanaeth a'i ffyddlondeb. Gwrandewais arni, ond bychan a wyddwn i y pryd hwnw y rheswm am ei phleidgarwch iddo. Winciais ar y cwbl, ac ni chlywodd neb air am y peth o'r dydd hwnw hyd heddyw, oblegid ni allwn omedd unrhyw ddymuniad o eiddo fy merch—y hi oedd fy mhobpeth yr adeg hono. Ond nid oedd cwpan fy ngofidiau wedi ei llenwi eto. Yr oedd y brofedigaeth chwerwaf—a'r hon oedd yn fwy —yn annhraethol fwy na fy holl brofedigaethau eraill gyda'u

gilydd, yn fy aros. Ni wnaf fanylu. Ond ceisiwch ddychymygu fy nheimladau pan, un diwrnod, y daethum i ddeall nad digon gan y gŵr ieuanc oedd lladrata tri chant o bunau oddiarnaf, heb dwyllo a darostwng fy merch. Yr oedd ŵyr bach i mi wedi ei eni cyn i mi wybod na drwgdybio dim. Bu agos i mi ddyrysu yn fy synwyrau, a bu'm yn diolch filoedd o weithiau nad oedd y dyhiryn a fu yn achos o'r holl ddrwg o fewn fy nghyrhaedd, onide yr wyf yn sicr y buaswn wedi ei lindagu, hyd yn nod pe gwybuaswn y cawswn fy nghrogi dranoeth. Nid edrychais ac ni siaredais â fy merch am fis. Yr oeddwn yn ynfyd, mi wn, a pha boen a achosodd hyny iddi hi a minau wed'yn, Duw yn unig a ŵyr! Yn wir, achos rhaid i mi ddweyd y cwbl wrthych, ni siaradais air byth â hi. Mi eis i'w golwg ychydig o funydau cyn iddi farw; ac mor brydferth oedd hi hyd yn nod yn nghrafangau angau! (ac yn y fan hon eto torodd yr hen foneddwr i lawr, ac nid oedd Enoc damaid caletach). Crefodd arnaf faddeu iddi, a dywedodd eiriau eraill nad all fy nheimladau—er fod oddiar hyny dair blynedd ar ddeg ar hugain—oddef i mi eu hadrodd. Yr oeddwn fel ffwl, yn ystyfnig! Ond cusenais hi ddwywaith, ac yr wyf wedi diolch i Dduw filoedd o weithiau am i mi wneud hyny. Fy unig gysur, erbyn hyn, ydyw. Cymerodd fy merch hyn fel arwydd fy mod yn maddeu iddi—ymdaenodd gwên nefol dros ei hwyneb anwyl, ac ehedodd ei hysbryd ymaith. Am beth amser yr oeddwn fel dyn gwallgof, ac yn fy ngwallgofrwydd gwerthais bobpeth oedd ar fy elw. Wedi rhoi y plentyn dan ofal rhyw hen wreigan, a rhoi rhywbeth iddi am ei thrafferth—dim chwarter digon—aethum i'r America. Ond methais adael fy ngofidiau ar ol yn Nghymru—yr oeddynt gyda mi yno yr un fath yn union. Gwelais mai yr unig feddyginiaeth i mi oedd ymroi i fusnes,—yr oeddwn wedi arfer bod â'm holl fryd mewn busnes. Yn mhen amser, bu hyn yn waredigaeth i mi oddiwrth fy nhristwch, oddigerth fel y deuai yn awr ac yn y man ar hyd y blynyddau fel cawod arnaf. Yr oedd genyf dipyn go lew o arian yn myn'd i'r America, a gwneis lawer yno gyda fy musnes. Oddeutu naw mis yn ol, rhoddais y busnes heibio—yr oedd fy oed yn galw am i mi wneud hyny—teimlwn nad oeddwn fel cynt, gan fwriadu byw ar fy eiddo yn ddedwydd. Ond ni fedrwn; ac er gwneud pob dyfais, nid oeddwn yn hapus. Yr oeddwn yn cael mwy o amser i feddwl am yr hen bethau. O'r diwedd, pen-

derfynais ddychwelyd i Gymru i ymholi am fy ŵyr, os oedd o'n fyw. Meddyliwn mai dyna'r unig ad-daliad a allwn ei wneud am fy ffolineb. Penderfynais na chai neb fy adnabod nes i mi dd'od o hyd i fy ŵyr, ac os byddai yn werth ei arddel, y gwnawn ef yn etifedd. Gwelwch, Mr. Huws, fy mod wedi rhoddi y penderfyniad hwnw mewn gweithrediad, ac y mae yn dda genyf eich hysbysu fy mod, ar ol dau fis o ymchwiliad distaw—fy mod er's rhai wythnosau wedi d'od o hyd i fy ŵyr, ac wedi ei gael yn ddyn parchus yn mhlith ei gymydogion—yn ddyn na fydd raid i mi fod cywilydd o hono pan ddaw gyda mi i'r America i fod yn gwmni i mi yn fy hen ddyddiau ac i etifeddu fy eiddo."

"Diolch i Dduw," ebe Enoc, o waelod ei galon. "Ond gadewch glywed, syr, pa fodd y daethoch o hyd iddo?

"Caf ddweyd hyny wrthych rywdro eto, Mr. Huws. Y chwi eich hun ydyw fy ŵyr, myfi ydyw eich taid," ebai'r hen foneddwr, gan ddodi ei wyneb rhwng ei ddwylaw ar y bwrdd.

Afreidiol dweyd fod Enoc wedi ei syfrdanu, a phan gofia y darllenydd, fel y gŵyr yn dda, mor wan oedd ei *nerves*, afreidiol hefyd ydyw dweyd fod yr amgylchiad yn fwy nag y gallai efe ei ddal. Yn y man, ychwanegodd y taid:—

"Ond nid ydwyf wedi dweyd ond un haner o'r hanes. Pan ddaethum yn ol i Gymru nid oeddwn yn dychymygu nac yn dymuno dod o hyd i'ch tad. Yr oeddwn yn credu y buasai y diafol wedi gwneud pac o hono ef er's talwm, oblegid mi a'i rhoddais i'w ofal cyn i mi fyned oddicartref. Ond y mae yn hir iawn yn ei nol. Eich tad ydyw y dyn—os teilwng o'r enw dyn—sydd yn galw ei hun yn Capten Trefor. Nid dyna ydyw ei enw bedydd. Ei wir enw ydyw Enoc Huws, ac ar ei enw ef y galwyd chwithau gan yr hen Mrs. Amos. Adwaenais o y noson gyntaf y daethum i'r *Brown Cow*. Ond er mwyn bod yn sicr, cymerais amser i holi ac ymofyn yn ddistaw, ac i sylwi yn fanylach arno. Efe ydyw eich tad, mae'n ddrwg genyf ddweyd; un o'r *scoundrels* gwaethaf ar wyneb y ddaear, fel y dywedais wrtho heno yn ei dŷ ei hun. Ac oni bae am danoch chwi a'i ferch brydferth, mi rhown o yn ddigon saff cyn nos yfory. Onid yw bysedd un troed i chwi yn glynu yn eu gilydd? Felly y mae yr eiddo yntau, os ewch i'w chwilio. Mae hyn, mi wn, yn ergyd ofnadwy i chwi, er fy mod, o'r ochr arall, yn edrych arno fel peth hynod Ragluniaethol i mi ddyfod yma i'ch

atal rhag priodi eich chwaer. Ond peidiwch ymollwng, dangoswch eich bod yn ddyn—rhaid oedd i hyn ddyfod i'r golwg, a dylech fod yn ddiolchgar. Codwch eich pen i fynu, fy machgen anwyl, dowch, peidiwch rhoi ffordd i'ch teimladau."

Hawdd iawn oedd dweyd am beidio ymollwng, ond teimlai Enoc ei fod wedi ei drywanu yn ei galon, ac ymollwng a wnaeth. Nid oedd Mr. Davies yn adnabod ei ŵyr nac yn gwybod mor *sensitive* ydoedd, onide buasai yn gwneud y datganiad iddo yn gynilach. Bu raid i Enoc orwedd ar y soffa, ac edrychai mor glefydus nes peri tipyn o fraw i'w daid. Canodd y gloch am Miss Bifan, a gofynodd iddi gyrchu meddyg yno ar unwaith, yr hyn a wnaeth. Cariwyd Enoc i'w wely, a bu ei daid, a Miss Bifan, a'r meddyg, yn gweini arno drwy y nos.

---

## PENNOD LII.

### YR OLWG OLAF.

Bore dranoeth, teimlai Enoc ychydig yn well, a diau y buasai yn abl i adael ei wely oni bae i Miss Bifan ddyfod i'r ystafell yn sydyn a'i hysbysu eu bod wedi cael y Capten Trefor yn farw ar y soffa y bore hwnw. Yr oedd hyn yn ail ysgytiad i'w deimladau, ond derbyniodd Mr. Davies, ei daid, y newydd gyda syndod a gwên, a dywedodd yn ddistaw, megis wrtho ef ei hun,—"Mi wyddwn y byddai farw yn ei ddillad." Am Susi y meddyliai Enoc o hyd, ac er fod ei serch ati—ar ol deall mai ei chwaer ydoedd hi—wedi newid ei nodwedd, nid oedd ronyn yn llai. Yr oedd ei galon yn mron a thori o gydymdeimlad â hi yn ei thrallod, ac amryw weithiau yn ystod y diwrnod hwnw yr anfonodd efe Miss Bifan, ei *housekeeper*, i Dy'nyrardd, i ymholi yn ei chylch. Yr hyn a arteithiai Enoc oedd pa fodd y gallai efe hysbysu Miss Trefor am eu perthynas, ac am yr hyn a ddywedwyd wrtho gan ei daid. Deallodd ei daid ei helynt, ac ebe fe,—"Gadewch hyny i mi, fy machgen. Mi wn eich

bod mewn trafferth a helbul blin, ond wedi priddo y Capten Trefor yna, ni a awn o gwmpas y mater. Mae pobpeth yn siwr o ddiweddu yn dda, oblegid nid yw hyn i gyd ond ffordd Rhagluniaeth a ffordd Duw o ddyfod â phethau i'r amlwg ac i'w lle. Yr wyf yn teimlo yn fwy dedwydd y funyd hon nag y bum er's tair blynedd ar ddeg ar hugain."

Nis gallai Enoc, druan, deimlo fel y teimlai ei daid. Edrychai arno gyda chymysg deimladau—yr oedd wedi dwyn arno brofedigaeth lem, ac eto nis gallai beidio meddwl mor ragluniaethol oedd ei ddyfodiad i Bethel,—a phe buasai wedi aros fis neu ddau yn hwy heb wneud ei ymddangosiad, y fath drychineb ofnadwy a gymerasai le. Tawelwyd cryn lawer ar feddwl Enoc pan ddywedodd ei daid wrtho,—

"Nid oes un creadur byw yn gwybod am yr amgylchiadau yr wyf wedi eu hadrodd wrthych, fy machgen, ac y mae 'y Capten,' chwedl pobl yr ardal yma, wedi cael rhoi taw bythol arno, ac er eich mwyn chwi, ac er mwyn ei ferch, rhaid i ni gadw y cwbl i ni ein hunain. Wrth gwrs, ni allwn beidio egluro rhyw gymaint, mewn ffordd ddoeth, i Miss Huws—hyny ydyw i Miss Trefor,—a rhaid i ni wneud rhyw ddarpariaeth ar ei chyfer o herwydd y cysylltiad sydd wedi bod rhyngoch chwi â hi. Mae yn dda genyf ddeall ei bod yn eneth gall, ac y gŵyr pa fodd i ymddwyn pan ddaw i ddeall pethau, os nad ydyw ei thad wedi ei hysbysu o honynt eisoes wedi i mi fod yno neithiwr."

Ceisiodd Enoc ymwellhau oreu y gallai er mwyn myn'd i gysuro Miss Trefor, a gwnai ei daid hefyd ei oreu iddo, oblegid, erbyn hyn, yn Siop y Groes yr arosai yr hen ŵr. Methodd Enoc a bod yn ddigon cryf i fyn'd allan hyd ddydd claddedigaeth y Capten. Ond ni adawyd Susi yn unig. Yr oedd yno ŵr ieuanc arall er's deuddydd yn bur ofalus o honi, ac er ei fod wedi dyfod adref ar amgylchiad galarus iddo ef, yr oedd wedi gweinyddu llawer o gysur iddi. A oedd Susi yn anffyddlon i Enoc? Dim perygl. Yr oedd ei gair cystal a chyfraith. Ond yr oedd Wil mor garedig, ac mor dêg ei olwg, a chanddo gymaint i'w ddweyd, ac mor, ac mor, &c., &c.

Yr oeddid wedi bwriadu claddu y Capten a Hugh Bryan yr un dydd, ond o herwydd fod y cyntaf yn "chwyddo," bu raid ei gladdu ddiwrnod yn gynt. Gan adael ei daid gyda bocs o sigârs yn ei ymyl yn mharlwr Siop y Groes, ymlwybrodd Enoc gydag anhawsder i Dy'nyrardd erbyn yr adeg yr oedd y cyn-

hebrwng i gymeryd lle. Wrth gwrs, gyda theimladau newydd a rhyfedd yr aeth efe yn ei flaen i edrych am Miss Trefor, ac ni synwyd ef yn fwy yn ei fywyd na phan gafodd hi yn y parlwr bach yn eistedd ar y soffa fel delw â'i llaw yn llaw Wil Bryan, yr hwn a eisteddai wrth ei hochr. Can gynted ag y gwnaeth Enoc ei ymddangosiad, tynodd Susi ei llaw yn rhydd, ac edrychodd yn syth yn ei wyneb, fel pe buasai yn ceisio dweyd —"Peidiwch ag amheu, Mr. Huws, yr wyf yn dal yn ffyddlon i chwi." Gwasgodd ei law yn dŷn a thorodd i wylo yn hidl, ac ebe hi, dan haner tagu, gan gyfeirio at Enoc,—"Wil, dyma'r dyn gore yn y byd."

Ysgydwodd Enoc a Wil ddwylaw yn garedig, oblegid, erbyn hyn, nid oedd mymryn o eiddigedd yn mynwes Enoc at Wil, ac yr oedd Wil yntau yn ddigon o foneddwr, wedi clywed gan ei fam fod Susi ac Enoc yn myn'd i'w priodi, i deimlo yn dda a chynhes ato. Ond cyn iddynt gael siarad ychydig eiriau, dyna gythrwfl a thrwst yr arch yn cael ei chario i lawr o'r llofft, a rhywun yn nol cadeiriau, a Mr. Brown, y person, gyda'i lyfr wrth y drws. Cerddai Wil ac Enoc efo'u gilydd yn y cynhebrwng, a theimlai yr olaf mor eiddil a diolwg oedd efe wrth ochr Wil, a chymaint gwell *match* i Susi a fuasai Wil nag ef. Meddyliai Wil am yr hen Gapten yr oeddynt y diwrnod hwnw yn ei gludo i'w hir gartref—y fath *change* a fyddai iddo orfod bod yn ddistaw, ac os nad oedd wedi "altro yn arw" oddiar yr amser yr adwaenai efe ef, teimlai Wil yn sicr mai y peth cyntaf a wnai yr hen Drefor—pa le bynag yr ydoedd yn y byd arall—a fyddai ceisio perswadio rhywun i "specilêtio." Ystyriai Wil yn onest y byddai gwell siawns i'r giaffer—hyny ydyw ei dad, yr hwn y byddid yn ei gladdu dranoeth—am *promotion* nag i'r Capten. Wrth gwrs ni ddywedodd efe hyn, ond pethau tebyg i hyn a redent drwy feddwl Wil yn y gladdedigaeth.

Pan oeddynt yn sefyll o amgylch y bedd, a Mr. Brown yn dadgan gwir ddiogel obaith i fuchedd dragwyddol i'w anwyl frawd, digwyddodd Wil godi ei ben, a phwy a welai, yn ei lân drwsiad, ar ei gyfer, ond Thomas Bartley. Yr oedd Thomas, gan ystyried fod y gymydogaeth wedi cael gwaredigaeth fawr y diwrnod hwnw, wedi d'od allan yn ei oreu i'r claddu—sef yn y siwt a wisgai efe pan aeth i'r Bala i edrych am Rhys Lewis. Nid oedd y dres côt lâs yn edrych bin gwaeth, ac yr oedd y goler wèn fawr can stiffied ag erioed. Pan edrychodd Wil arno,

yr oedd Thomas yn dal ei het befar fawr ar ei glust dde, ac fel pe buasai yn gwrando beth oedd ganddi i'w ddweyd, ac ymddangosai yn hynod ddefosiynol. Yr oedd yr olwg arno y trêt goreu a gawsai Wil er's blynyddau, a daeth mil o adgofion digrif i'w feddwl, fel y bu raid iddo guddio ei wyneb rhag i bobl feddwl ei fod yn cellwair ar amgylchiad mor ddifrifol. Yr oedd Thomas yntau wedi canfod Wil, a chan gynted ag yr aeth y gwasanaeth drosodd, bras-gamodd ato, a chan ysgwyd llaw âg ef at y penelin, ebe fe—

"Wel, yr hen bru! a 'rwyt ti wedi dwad i'r fei o'r diwedd? Llewt ti wedi bod yn cadw, dwed?"

"Yn Birmingham y bu'm i ddiweddaf, Thomas," ebe Wil.

"Debyg; mi wyddwn ma yn un o'r gwledydd tramor ene roeddat, ne y basen ni wedi clywed rhwbeth am danat ti cyn hyn. Wyst di be, 'rwy't ti wedi mynd yn strap o ddyn nobyl anwêdd—wyt ti'n meddwl aros tipyn?"

"Mi fyddaf yma am dipyn, beth bynag. Sut mae Barbara, Thomas?" gofynai Wil.

"Cwyno gan 'i lode o hyd, wel di, 'n siampal. Mi ddoi acw on ddoi di? Ma gynat ti lot i ddeyd rwan, mi dy wranta. Ma acw fwyd yn tŷ, cofia. Paid a bod yn ddiarth."

"Dim peryg, Thomas. Mi ddof acw gynted y bydd yr helynt yma drosodd," ebe Wil.

"Ië, helynt mawr ydi o hefyd, a ma'n lwc ma unweth ma o'n digwydd yn oes dyn, ne wn i ddim be fase'n do'd o honom ni," ebe Thomas.

Yn mhen deuddydd, hyny ydyw, dranoeth ar ol claddu Hugh Bryan, aeth Enoc a'i daid i Dy'nyrardd. Ymgymerodd y taid â'r gorchwyl annifyr o egluro i Miss Trefor ei pherthynas âg Enoc. Cyn myned yno yr oedd Enoc a'i daid, er mwyn arbed teimladau Miss Trefor, wedi penderfynu peidio sôn dim am anonestrwydd ei thad tra yr oedd efe yn ngwasanaeth Mr. Davies, oblegid nid oedd un amcan da yn cael ei gyrhaedd wrth gicio ceffyl marw. Parhaodd y cyfarfod am rai oriau, ond nid buddiol a fyddai i mi adrodd ei hanes, canys bu yno gryn wylo ac ocheneidio, ac nid dedwydd ydyw ysgrifenu am bethau felly. Gwnaeth Enoc un peth yno nad oedd—er mor rhyfedd ydyw adrodd—wedi ei wneud o'r blaen—cusanodd Miss Trefor. Ac y mae pobpeth yn dda sydd yn diweddu yn dda.

Wedi rhai dyddiau gwerthodd Miss Trefor ddodrefn Ty'nyr-

ardd a phobpeth a berthynai i'w thad, ac aeth i fyw i Siop y Groes gan gymeryd Kit gyda hi. Parhäi Mr. Davies i fyw gydag Enoc, ac yr oedd Wil Bryan yn rhanu ei amser rhwng cysuro ei fam weddw a difyru teulu—oblegid yr oedd yno deulu, erbyn hyn—Siop y Groes. Yn mhen ychydig fisoedd dechreuodd Mr. Davies anesmwytho am gael dychwelyd i'r America, ac eto nid oedd yn foddlon gwneud hyn cyn gweled pethau wedi eu rhoi ar dir dyogel a pharhäol. Prysurwyd yr amgylchiadau. Un bore heb fod neb o'r cymydogion yn gwybod dim am y peth, gwnaed Wil a Sus yn ŵr a gwraig yn hen eglwys y plwyf. Gweithredai Enoc fel gwas a Miss Bifan fel morwyn priodas, a thaid Enoc yn "rhoi" y briodasferch. Pan oedd y seremoni drosodd, cychwynodd Wil a Sus ymaith, ond gwaeddodd Mr. Brown a Mr. Davies ar unwaith—"Aroswch! dydan ni ddim wedi darfod eto," ac ebe Enoc—"Mae tro da yn haeddu un arall." Trawsffurfiwyd Wil yn was a Sus yn forwyn, a phriodwyd Enoc a Miss Bifan yn y fan a'r lle. Yr oedd hyn wedi ei gadw yn ddirgelwch hollol rhwng Mr. Brown, Mr. Davies, Enoc, a'i gariad newydd. Dychwelodd y cwmni, a Mr. Brown gyda hwynt, i Siop y Groes i fwynhau brecwest rhagorol. Nid oedd ond un diffyg yn y ddarpariaeth hyd yn nod yn nghyfrif Mr. Brown, yr hwn a ddywedodd yn breifat wrth Enoc—

"Mi dylase bod yma tipyn bach o gwin, Mr. Huws, ar amgylchiad fel hon, yn ol pob sens. Ond dydach chi, Calfins, erioed yn gwybod sut i gneud pethe yn *first class*, er bod gynoch chi modd."

Teimlai Enoc ei hun fod rhywbeth yn fyr, ond prin y credai fod y byrdra yn y cyfeiriad y soniai Mr. Brown am dano. Aeth y ddau gwpl priodasol, a Kit a Mr. Davies gyda hwynt, ymaith gyda'r trên canol dydd. Yn mhen yr wythnos dychwelodd Wil a'i wraig i Siop y Groes, ond ni welwyd Enoc a'i wraig, na Mr. Davies, na Kit, byth mwy yn Bethel.

Wil, erbyn hyn, oedd perchenog Siop fawr y Groes. Pa fodd y daeth y Siop yn eiddo iddo, ni pherthyn i neb wybod, ac nid wyf finau am adrodd. Cymerodd ei hen fam ato i gyd-drigo, a bu Sus yn hynod garedig ati tra bu hi byw. Fel ei ragflaenydd bu Wil Bryan yn fasnachwr llwyddianus, a daeth toc yn ŵr o ddylanwad yn y dref. Y gauaf cyntaf ar ol ei ddychweliad i'w hen gartref, traddododd yn ysgoldy yr Hen Gorph gyf-

res o ddarlithiau, y rhai a wnaethant enw mawr iddo. Testyn y darlithoedd oedd "Y ddynol natur." Defnyddiodd Wil y teitl "Y ddynol natur," yn hytrach na "Y natur ddynol," er mwyn cyfarfod â chwaeth lenyddol y gwahanol enwadau. Byddai yr ysgoldy yn orlawn bob nos y byddai Wil yn darlithio, er fod y mynediad i mewn trwy docynau chwe' cheiniog. Cymerai Thomas Bartley ddau docyn i bob darlith—un iddo ef ac un i Barbara—er na fedrai Barbara, druan, fyn'd dros y rhiniog gan "boen yn ei lode." Yr oedd ffyddlondeb Thomas i'r darlithoedd wedi bod mor fawr fel y mynodd Wil ef yn gadeirydd i'r ddarlith olaf o'r gyfres, a theimlai yr hen frawd o'r Twmpath hyn yn gryn anrhydedd, a chreodd eiddigedd anfarwol yn mynwes yr hen Sem Llwyd tuag ato. Noswaith heb ei bath oedd hono pan oedd Thomas Bartley yn gadeirydd. Prynwyd saith gant o docynau, er na ddaliai yr ysgoldy ond deucant. Mae darlithiau Wil wedi eu hysgrifenu mewn llaw fer, i fod yn mhlith fy mhapyrau, yn rhywle, pe gallwn dd'od o hyd iddynt. Ond gan mai *Profedigaethau Enoc Huws* ydyw testyn fy hanes, ac yntau, erbyn hyn, yn byw bywyd boneddwr yn Chicago, ac yn fawr ei barch, waeth i mi derfynu yr hanes yn y fan hon nag yn rhywle arall, ac hwyrach y dywed rhywrai y dylaswn fod wedi ei derfynu er's talwm.

DIWEDD.

WREXHAM: ARGRAFFWYD GAN HUGHES AND SON.